TRAETHAWD DOETHUROL (PhD)

# CYMDEITHASEG CYFIEITHU

## Dylanwad cyfieithu ar y pryd ar y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd

***Judith Kaufmann***

Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor

**Mawrth 2009**

# CRYNODEB

Gyda'r traethawd hwn, dygir at ei gilydd ddau faes ymchwil sy'n ymdrin â chynllunio iaith leiafrifol. O safbwynt astudiaethau cyfieithu, trafodir dylanwad cyfieithu (cyfieithu ar y pryd yn benodol) ar y defnydd o'r Gymraeg. Yn ogystal â hyn, trafodir ystyriaethau cymdeithasol o fewn maes cynllunio ieithyddol sy'n allweddol wrth geisio annog lleiafrifoedd ieithyddol i siarad eu hiaith.

Yn rhan gyntaf y traethawd trafodir datblygiad gwasanaethau cyfieithu yng Nghymru, yn rhan o ymdrech i gryfhau'r Gymraeg ym mywyd beunyddiol ei siaradwyr. Yn gefndir damcaniaethol i'r astudiaeth cyflwynir syniadau o ddisgyblaethau ymchwil cymdeithaseg iaith a chynllunio ieithyddol. Mae'r rhain yn esbonio cysyniadau cyffredin a ddefnyddir wrth drafod lleiafrifoedd ieithyddol. Maent hefyd yn profi dilysrwydd astudiaethau cyfieithu fel maes ymchwil yng nghyd-destun lleiafrifoedd ieithyddol. Trafodir rhychwant o ddamcaniaethau cyfoes ynghylch dwyieithrwydd, hawliau iaith a phwysigrwydd deall y berthynas gymdeithasol rhwng siaradwyr dwy iaith, cyn mynd ymlaen i sôn am hunaniaeth leiafrifol, ac yn benodol, hunaniaeth Gymraeg yng Nghymru. Ceir hefyd ymdriniaeth â chysyniadau cynllunio ieithyddol Cymru, megis hyder ieithyddol, dewis iaith a defnydd iaith, a cheir trafodaeth am bwysigrwydd Bro Gymraeg.

Mae ail ran y traethawd yn gyflwyniad o'r ymchwil maes mewn cyfarfodydd amrywiol yng Ngwynedd. Astudiwyd effaith cyfieithu ar y pryd ar agweddau iaith, ar hyder wrth siarad Cymraeg, ar natur ddiwylliannol cyfarfodydd, ac ar y defnydd o'r Gymraeg. Gwnaethpwyd hynny trwy holiaduron, mewn cyfweliadau ac wrth arsylwi ar gyfarfodydd. Rhydd cyfraniadau defnyddwyr gwasanaethau cyfieithu, ymgynghorydd iaith, pennaeth sefydliad cyhoeddus, a chyfieithwyr ddarlun cynhwysfawr o agweddau tuag at gyfieithu. Mae'r canlyniadau yn amrywiol, gan bwysleisio nad oes patrwm unffurf i'w weld wrth bwyso a mesur effaith cyfieithu ar ddefnydd iaith. Yn fyr, dibynna ei ddylanwad ar fath y cyfarfod, math y grŵp a'r drafodaeth, y lleoliad, nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg, yn ogystal ag arfer unigolion wrth ddefnyddio cyfieithu ac wrth siarad Cymraeg yn gyhoeddus.

At ei gilydd, dengys yr astudiaeth fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, o'i gynllunio'n ofalus, yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg mewn

cyfarfod. Gall lledaenu arfer da ynghyd â mabwysiadu polisïau cyfieithu cyffredinol, ategu'r lles a ddaw o ddefnyddio cyfieithu mewn cyfarfodydd lle na fyddai'r Gymraeg yn gallu cystadlu yn erbyn y Saesneg fel arall.

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| Crynodeb ……………………………………… | | 1 |
| Cynnwys ……………………………………… | | 3 |
| Rhestr Tablau ……………………………………… | | 6 |
| Rhestr Ffigyrau ……………………………………… | | 6 |
| Diolchiadau ……………………………………… | | 7 |
| Datganiad yr awdur……………………………………… | | 8 |
| **Rhagymadrodd………………………………………** | | **9** |
| RHAN I: | **CYFIEITHU MEWN IAITH LEIAFRIFOL…………………** | **16** |
| **1** | **Cyfieithu yng Nghymru……………………………………** | **17** |
| 1.1 | Y Gymraeg yn llysoedd barn Cymru……………………………… | 18 |
| 1.2 | Y Gymraeg a chyfieithu yn y sector gyhoeddus…………………… | 31 |
| 1.3 | Cyfieithu ers dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru……………… | 35 |
| 1.4 | Y drafodaeth gyhoeddus ar gyfieithu……………………………… | 42 |
| 1.5 | Cyfieithu mewn ymgyrch ehangach i gryfhau'r Gymraeg…………… | 46 |
| 1.6 | Cyfieithu ar lefel y gymuned……………………………… | 49 |
| **2** | **Cymdeithaseg iaith, cynllunio ieithyddol a rôl cyfieithu…….** | **53** |
| 2.1 | Ieithoedd lleiafrifol……………………………… | 54 |
| 2.2 | Amcanion cynllunio ieithyddol……………………………… | 57 |
| 2.3 | Hawliau iaith……………………………… | 61 |
| 2.4 | Dwyieithrwydd……………………………… | 67 |
| 2.5 | Cymdeithaseg ieithoedd……………………………… | 74 |
| 2.6 | Agweddau cymdeithasol cyfieithu……………………………… | 81 |
| **3** | **Cyfieithu, hunaniaeth, democratiaeth………………………...** | **87** |
| 3.1 | Cyfieithu llenyddol er mwyn effeithio ar hunaniaeth………………… | 88 |
| 3.2 | Rôl cyfieithu wrth ddatblygu hunaniaeth ……………………… | 92 |
| 3.3 | Hunaniaeth leiafrifol er gwaethaf cyfieithu ac o'i herwydd…………… | 99 |
| 3.4 | Hunaniaeth Cymru – iaith vs. cymdeithas sifil?............................ | 104 |
| 3.5 | Cynllunio iaith: cynllunio hunaniaeth?.................................... | 113 |
| **4** | **Cyfieithu a defnydd iaith yn y cymunedau Cymraeg ……….** | **120** |
| 4.1 | Beth yw cymuned?.................................................... | 120 |
| 4.2 | Yr iaith yn y fro Gymraeg……………………………… | 123 |
| 4.3 | Defnydd iaith a dewis iaith……………………………… | 132 |
| 4.4 | Hyder……………………………… | 140 |
| 4.5 | Newid agweddau a normaleiddio iaith trwy gyfieithu…………… | 147 |

RHAN II: **RÔL CYFIEITHU AR Y PRYD WRTH GYNYDDU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG……………………..…………… 153**

**5 Methodoleg ymchwil………………………………………..….….... 154**

5.1 Cefndir a bwriad yr ymchwil……………………………………….....….. 154
5.2 Astudiaeth ansoddol…………………………………………………..….…. 155
5.3 Holiaduron……………………………………………………………......….. 156
5.4 Cyfweliadau…………………………………………………………….…… 156
5.5 Arsylwi…………………………………………………………………….…… 158
5.6 Gwendidau ac anawsterau'r ymchwil…………………………………...…. 160

**6 Cyfieithu ar y pryd a'r agweddau tuag at y Gymraeg……….. 161**

6.1 Pam ac ar gyfer pwy y defnyddir cyfieithu ar y pryd?....................................... 162
6.2 A all cyfieithu ar y pryd hybu dwyieithrwydd?................................................. 166
6.3 A all cyfieithu ar y pryd sicrhau cydraddoldeb ieithyddol?................................ 170
6.4 A ellir codi statws y Gymraeg trwy gyfieithu ar y pryd?.................................... 173
6.5 A yw cyfieithu ar y pryd yn creu tensiynau ieithyddol?..................................... 176
6.6 A all cyfieithu gynyddu parch a dealltwriaeth, a gwella cydweithio?................ 182
6.7 A oes rôl bontio i gyfieithwyr ar y pryd?........................................................... 184
6.8 A yw cyfieithu ar y pryd yn anogaeth i ddysgu Cymraeg?................................. 187
6.9 Casgliadau……………………………………………………………….….. 190

**7 Cyfieithu ar y pryd a hunaniaeth y cymunedau Cymraeg…… 193**

7.1 A all cyfieithu ar y pryd gynnal iaith y mwyafrif?............................................. 194
7.2 A all cyfieithu ar y pryd hybu'r iaith leol naturiol?............................................ 196
7.3 Beth yw dylanwad cyfieithu ar y pryd ar natur cyfarfodydd?............................ 201
7.4 Ym mha ffordd mae mynegi'n haws gyda chyfieithu ar y pryd?........................ 204
7.5 A all cyfieithu ar y pryd gyfrannu at hybu'r diwylliant Cymraeg?..................... 206
7.6 A all cyfieithu ar y pryd ysgogi awydd i berthyn i'r gymuned?.......................... 212
7.7 Casgliadau………………………………………………………………… 217

**8 Cyfieithu ar y pryd a'r hyder i siarad Cymraeg……………… 220**

8.1 A all cyfieithu ar y pryd ddylanwadu ar hyder wrth siarad Cymraeg?............... 221
8.2 A all cyfieithu ar y pryd ddylanwadu ar ddeinameg grym?................................ 225
8.3 A oes cysylltiad rhwng rhugledd yn y Gymraeg a'r defnydd o gyfieithu?.......... 233
8.4 A all cyfieithu ar y pryd greu *comfort zone* newydd?......................................... 236
8.5 Beth yw swyddogaeth cyfieithu ar y pryd wrth ddelio gydag ofn?..................... 239
8.6 Beth yw'r berthynas rhwng cyfieithu ar y pryd a hunaniaeth Gymraeg hyderus?............................................................................................................ 243
8.7 Casgliadau………………………………………………………………… 247

**9 Cyfieithu ar y pryd a'r defnydd o'r Gymraeg………………… 250**

9.1 A ellir gwella cyfranogaeth ddemocrataidd trwy gyfieithu ar y pryd?................ 251
9.2 Pam siaredir Saesneg er gwaethaf y gwasanaeth cyfieithu?............................... 256
9.3 A yw llwyddiant cyfieithu ar y pryd yn dibynnu ar y pwnc dan sylw?.............. 258
9.4 A yw ffurfioldeb cyfarfod yn effeithio ar lwyddiant cyfieithu ar y pryd?........... 262
9.5 Beth yw rôl cyfieithu yn y broses o greu traddodiad newydd o siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd?............................................................................................ 267
9.6 Beth yw rôl cyfieithu ar y pryd wrth normaleiddio siarad Cymraeg?................. 271
9.7 Casgliadau………………………………………………………………… 276

| | | |
|---|---|---|
| **10** | **Defnyddio cyfieithu ar y pryd yn effeithiol er budd y Gymraeg……………………………………………………………** | **279** |
| 10.1 | Proffeil cyfieithwyr ar y pryd fel pobl broffesiynol……………………………. | 279 |
| 10.2 | Anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd…………………. | 281 |
| 10.3 | Costau cyfieithu ar y pryd…………………………………………………… | 287 |
| 10.4 | Safon cyfieithu ar y pryd…………………………………………………….. | 289 |
| 10.5 | Cadeirio……………………………………………………………………… | 294 |
| 10.6 | Cyflwyniadau………………………………………………………………... | 297 |
| 10.7 | Dylanwad unigolion ar y defnydd o'r Gymraeg………………………………... | 299 |
| 10.8 | Polisïau cyfieithu ar y pryd………………………………………………….. | 302 |
| 10.9 | Casgliadau…………………………………………………………………… | 307 |
| **11** | **Casgliadau……………………………………………………….** | **309** |

| | | |
|---|---|---|
| **Atodiadau……………………………………………………………….** | | **315** |
| Atodiad A: | Y grwpiau a gymerodd ran ym mhrosiect HWB……………………………. | 316 |
| Atodiad B.1: | Holiaduron HWB……………………………………………………………. | 318 |
| Atodiad B.2: | Holiaduron HWBcap……………………………………………………….. | 319 |
| Atodiad B.3: | Holiaduron H……………………………………………………………….. | 320 |
| Atodiad C: | Cyfweliadau 1-7……………………………………………………………. | 332 |
| Atodiad CH: | Nodiadau arsylwi cyfarfodydd……………………………………………… | 393 |
| **Llyfryddiaeth……………………………………………………………….** | | **403** |

# TABLAU A FFIGYRAU

**Rhestr Tablau**


| | | |
|---|---|---|
| Tabl 3.1 | Gallu i siarad Cymraeg a hunaniaeth genedlaethol…………… | 107 |
| Tabl 3.2 | Gallu i siarad Cymraeg a phleidlais y refferendwm………….. | 107 |
| Tabl 7.1 | Iaith a/neu hunaniaeth………………………………………… | 211 |


**Rhestr Ffigyrau**


| | | |
|---|---|---|
| Ffigwr 3.1 | Cymunedau gyda chanran o 70+ o siaradwyr Cymraeg 1991 a 2001………………………………………………………… | 108 |
| Ffigwr 6.1 | Prif resymau am gael gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd | 162 |
| Ffigwr 6.2 | Yr hawl i fod yn grŵp dwyieithog…………………………….. | 167 |
| Ffigwr 6.3 | Pwy sy'n elwa o wasanaeth cyfieithu?...................................... | 172 |
| Ffigwr 6.4 | Beth yw effaith y gwasanaeth cyfieithu ar eich hawliau?........... | 172 |
| Ffigwr 6.5 | Yr hawl i fod yn grŵp Cymraeg……………………………… | 173 |
| Ffigwr 6.6 | Sut mae cyfieithu ar y pryd wedi effeithio ar statws y Gymraeg yn eich grŵp?.............................................................................. | 175 |
| Ffigwr 6.7 | Newid yn agweddau'r Cymry Cymraeg at eu hiaith…………... | 190 |
| Ffigwr 6.8 | Newid yn agweddau'r di-Gymraeg at y Gymraeg…………….. | 191 |
| Ffigwr 7.1 | Cyfieithu i wneud datganiad fod y gymuned yn Gymraeg……. | 199 |
| Ffigwr 7.2 | Sut effeithiodd y gwasanaeth cyfieithu ar naws eich cyfarfodydd?............................................................................. | 201 |
| Ffigwr 7.3 | Beth yw eich teimlad o fod yn rhan o'r grŵp ers i chi gael cyfieithu mewn cyfarfodydd?.................................................... | 213 |
| Ffigwr 7.4 | Denu pobl i'r cyfarfodydd…………………………………... | 214 |
| Ffigwr 7.5 | Newid aelodaeth ym marn siaradwyr Cymraeg……………….. | 214 |
| Ffigwr 7.6 | Newid aelodaeth ym marn y di-Gymraeg……………………... | 215 |
| Ffigwr 8.1 | A yw eich hyder i siarad Cymraeg wedi newid ers i chi ddefnyddio cyfieithu?................................................................ | 221 |
| Ffigwr 8.2 | Beth yw'r newid yn eich perthynas gyda'r grŵp ieithyddol arall ers i chi ddefnyddio cyfieithu?................................................. | 226 |
| Ffigwr 8.3 | Effaith cyfieithu ar y pryd ar sefyllfa bersonol o fewn y grŵp... | 229 |
| Ffigwr 9.1 | Cyfieithu er mwyn lledaenu'r defnydd o'r Gymraeg…………... | 273 |
| Ffigwr 10.1 | Mat Bwrdd i gadeiryddion cyfarfodydd………………………. | 296 |

# DIOLCHIADAU

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i'r sawl a ymatebodd i'm holiaduron, ac a gytunodd gynnal cyfweliad, a hefyd y grwpiau oedd yn fodlon i mi arsylwi ar eu cyfarfodydd ar gyfer yr astudiaeth. Heb eu cyfraniadau, ni fyddai'r ymchwil wedi bod yn bosibl.

Mae fy niolch mwyaf wrth gyflawni'r traethawd hwn yn mynd at y cyfarwyddwyr ymchwil, Angharad Price a Megan Tomos. Diolchaf hefyd i Peredur Lynch, Colin Baker, Gwyneth Williams, y Translation Research Summer School 2006, Catrin Huws, y grŵp ymchwil, Hywel Hughes o Wasanaeth y Llysoedd, IDB, a Jeremy Evas. Cefais bwt o wybodaeth, cefnogaeth, neu gyfarwyddyd gan bob un ohonynt. Diolch arbennig hefyd i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru sydd wedi fy rhoi ar ben y ffordd i gychwyn ar y prosiect yn y lle cyntaf, ac sydd wedi cyfrannu at y nawdd. Ac wrth sôn am nawdd, diolch i'r ESF am ysgoloriaeth dros y ddwy flynedd a hanner cyntaf.

# DATGANIAD YR AWDUR

DATGANIAD

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn eisoes o ran sylwedd am unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnodwyd ………………………………………………. (ymgeisydd)
Dyddiad …………………………………………………...

GOSODIAD 1
Cyflwynir y traethawd hir hwn i fodloni'n rhannol y gofynion am radd.
……………………………….
Llofnodwyd ………………………………………………. (ymgeisydd)
Dyddiad …………………………………………………...

GOSODIAD 2
Mae'r traethawd hir hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwiliadau fy hun, ac eithrio lle y nodir yn wahanol.
Cydnabyddir ffynonellau eraill gan droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur.
Atodir llyfryddiaeth.
Llofnodwyd ………………………………………………. (ymgeisydd)
Dyddiad …………………………………………………...

GOSODIAD 3
Yr wyf yn rhoi, drwy hyn, ganiatâd i'm traethawd hir, os derbynnir ef, fod ar gael i'w lun-gopio ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnodwyd ………………………………………………. (ymgeisydd)
Dyddiad …………………………………………………...

# RHAGYMADRODD

Tŷ Mawr Wybrnant, ger ffordd y porthmyn rhwng Penmachno a Dolwyddelan, yw un o'r llefydd â'r arwyddocad mwyaf yn hanes yr iaith Gymraeg. Yma y ganed yr Esgob William Morgan, y cyntaf i gyfieithu'r Beibl cyfan i'r Gymraeg (a gyhoeddwyd ym 1588). Heb amheuaeth, cydnabyddir mai camp sylweddol yr esgob oedd rhoi ffurf safonol i'r iaith, gan gyfrannu at allu'r Gymraeg i oroesi hyd yr unfed ganrif ar hugain, a hynny er gwaetha'r pwysau parhaol gan un o ieithoedd cryfaf y byd, y Saesneg.

Ond beth am gyfraniad cyfieithu at barhad a hyfywedd y Gymraeg yng Nghymru heddiw? Nod yr astudiaeth hon yw asesu'r rôl a briodolir i gyfieithu yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain, gan weld a all cyfieithu gyfrannu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae i gyfieithu a'r Gymraeg hanes sy'n mynd yn ôl ymhell cyn gweithred dyngedfennol cyfieithu'r Beibl ym 1588. Yng Nghymru'r oesoedd canol, cyfieithid testunau cyfreithiol rhwng Lladin a Chymraeg, megis testunau cyfreithiol 'Hywel Dda' yn y drydedd ganrif ar ddeg. Cyfieithwyd testunau gramadegol megis y *Dwned*, er enghraifft, sef gramadeg Lladin yr oedd rhaid i feirdd a fynnai fod yn benceirddiaid ei dysgu.[1] Yn ei dro, gallai William Morgan, pan gyfieithodd y Beibl, seilio ei iaith ar iaith farddonol y beirdd. Yn ogystal, roedd ysgrifau crefyddol Cymraeg ar gael iddo dynnu arnynt: y llawysgrif gyntaf sy'n cynnwys cyfieithiad i'r Gymraeg yw *Gwassanaeth Meir* (tua 1400).[2] Roedd William Salesbury yntau wedi cyfieithu rhannau o'r Beibl cyn 1588.[3] Felly, gweithio o fewn traddodiad sefydledig o gyfieithu yr oedd William Morgan a'i gyd-gyfieithwyr.

Ond gorchymyn Elisabeth I i gyfieithu'r Beibl oedd y *polisi* cyfieithu cyntaf ar gyfer y Gymraeg. Dysgu Saesneg i bawb trwy agor y ddau Feibl ochr yn ochr oedd bwriad y polisi hwn: 'Such as do not understand the said Language, may be conferring both Tongues together, the sooner attain to the knowledge of the

---

[1] Enid Pierce Roberts, 'The Welsh Church, Canon Law and the Welsh Language', yn *Essays in Canon Law*, gol. Norman Doe (Caerdydd, 1992), t. 153.
[2] Ibid., t. 155.
[3] Berwyn Prys Jones, 'Translation in Wales', anerchiad i gynhadledd yr Institute of Translating and Interpreting (ITI) yng Nghaerdydd, 24 Medi 2005, <http://www.cyfieithwyrcymru.org.uk/cymraeg/adnodd/darlithoedd.asp> [30 Mai 2006], t. 1.

English tongue.'[4] Ond trwy wneud y Gymraeg yn gyfrwng i gael mynediad i'r *materia sancta*, fel y dangosodd Joshua Fishman yn ' "Holy languages" in the context of societal bilingualism',[5] cafwyd sefyllfa lle ystyriwyd y Gymraeg ei hun yn sanctaidd. Nid yn unig crëwyd iaith safonol lenyddol, ond hefyd cadarnhawyd cysylltiad ysbrydol, cymdeithasol ac emosiynol rhwng yr iaith a'r bobl.

Er gwaethaf bwriadau awdurododau Elisabeth I, felly, ni lwyddodd cyfieithu'r Beibl i ddinistrio'r Gymraeg ar yr adeg dyngedfennol hon yn ei hanes. Eto, dioddefodd yr iaith yn sgil datblygiadau cyfreithiol, gweinyddol ac addysgol a ddaeth i fod yn y canrifoedd wedi Deddfau Uno'r unfed ganrif ar bymtheg, a sicrhaodd mai statws eilradd fu i'r Gymraeg, ochr yn ochr â Saesneg.

Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif gwelwyd ymdrechion i wyrdroi effaith hyn, gyda deddfau a chynllunio iaith yn ymdrechu i godi statws y Gymraeg yng Nghymru. Yr ymdrech i gryfhau'r Gymraeg a'i gwneud yn un o ddwy brif iaith Cymru yw sail a chyd-destun y traethawd hwn, a'i amcan yw ceisio canfod a yw'r weithred o gyfieithu ar y pryd yn allweddol wrth ddylanwadu ar agweddau a phatrymau defnyddio iaith. Gan gofio mai sgôp cyfyngedig sydd i draethawd PhD, canolbwyntir yn benodol ar astudio effaith cyfieithu ar y pryd ar y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn sampl o gyfarfodydd yng Ngwynedd.

## Cynllunio iaith ac astudiaethau cyfieithu

Wrth edrych ar lenyddiaeth cynllunio ieithoedd lleiafrifol, sylwir nad oes ynddi lawer o sôn am gyfieithu. Nid oes cyfeiriad at gyfieithu, er enghraifft, yn ysgrifau Joshua Fishman sydd wedi bod yn ddylanwadol ym maes cynllunio ieithyddol gyda'i ddamcaniaeth ynghylch *Reversing Language Shift.*[6] Ni welir rhyw lawer am gyfieithu mewn casgliadau sy'n ymdrin â'r ieithoedd Celtaidd.[7] Sonia eraill am gyfieithu wrth fynd heibio, er enghraifft, wrth drafod pryd yr oedd gwasanaethau

[4] Gareth Elwyn Jones, *The Education of a Nation* (Caerdydd, 1997), t. 15.
[5] Joshua Fishman, ' "Holy languages" in the context of societal bilingualism', yn *Opportunities and Challenges of Bilingualism,* gol. Li Wei, Jean-Marc Dewaele ac Alex Housen (Berlin, 2002), tt. 15-24.
[6] Joshua Fishman, *Reversing Language Shift* (Clevedon, 1991); Joshua Fishman, gol., *Can threatened languages be saved?* (Clevedon, 2001).
[7] Peter Wynn Thomas a Jayne Mathias, gol., *Developing Minority Languages: The Proceedings of the 5$^{th}$ International Conference on Minority Languages* (Llandysul, 1993); Diarmuid Ó Néill, *Rebuilding the Celtic Languages* (Talybont, 2005).

cyfieithu ar gael yn yr Wyddeleg,[8] neu wrth drafod cost gwasanaethau cyfieithu yn yr Undeb Ewropeaidd.[9]

Hyd yn oed mewn erthyglau ar fesurau unigol i hybu ieithoedd lleiafrifol, nid oes cyfeiriad at gyfieithu, gweithred sydd, wedi'r cyfan, yn hanfodol wrth wireddu'r mesurau hynny. Trafodir marchnata dwyieithog, [10] datblygu geiriaduron,[11] a chynllunio corpws[12] ieithoedd lleiafrifol, heb wneud y sylw lleiaf am y cyfieithwyr sydd y tu ôl i ran helaeth o'r gweithgareddau hynny.

Mae ysgolheigion ym maes astudiaethau cyfieithu wedi dadlau ers blynyddoedd fod rôl gymdeithasegol bwysig i gyfieithu wrth ystyried perthynas pobl a'i gilydd. Arbenigwyr ar gysylltiadau rhwng pobl o wahanol gefndiroedd yw cyfieithwyr. Mae ganddynt ganrifoedd o brofiad o symud a chyfryngu rhwng diwylliannau!

Ym maes astudiaethau cyfieithu, felly, trafodir sut y gellir trosglwyddo gwerthoedd ac arferion cymdeithasol rhwng y naill ddiwylliant a'r llall. Trafodir safle'r cyfieithydd ei hun yn y broses honno, ei rôl fel cyfryngwr, neu fel negesydd, neu, fel y dadleuir ers y 1990au, fel bod dynol pleidiol. Wrth ymwneud â chyfieithu, ac wrth ddibynnu ar y proffesiwn, dylid deall ei rôl yn enwedig yn y sefyllfaoedd hynny lle mae syniadau am hunaniaeth yn aneglur. Mae dylanwad cyfieithwyr mewn sefyllfaoedd o'r fath yn gyfan gwbl ganolog.

Yn y fan hon, daw dau faes at ei gilydd sy'n trafod y berthynas rhwng siaradwyr gwahanol ieithoedd, sef maes cynllunio ieithyddol a maes astudiaethau cyfieithu. Ond nid oes llawer o gydweithio wedi bod rhwng y meysydd hyn. Prin fod sôn mewn cynllunio ieithyddol am werth cyfieithu, ac mae cyfeiriadau at gynllunio ieithoedd lleiafrifol yn hynod brin mewn astudiaethau cyfieithu.

Fodd bynnag, fel y gwelir yn y traethawd hwn, mae llawer o gyswllt rhyngddynt. Ymdrinia'r ddau faes â chenedlaetholdeb, hunaniaeth a pherthynas anghyfartal rhwng siaradwyr dwy iaith. Sonia'r ddau am normau cymdeithasol a

---

[8] Stephen May, *Language and Minority Rights* (Harlow, 2001), t. 140.
[9] Ibid., t. 138.
[10] François Grin, 'The bilingual advertising decision', yn *Developing Minority Languages: Proceedings of the 5th International Conference on Minority Languages*, gol. Peter Wynn Thomas a Jayne Mathias (Caerdydd, 2000), tt. 174-197.
[11] Gunter Schaarschmidt, 'The encyclopaedic nature of major bilingual dictionaries for minority languages: two German-Sorbian dictionaries', yn *Developing Minority Languages: Proceedings of the 5th International Conference on Minority Languages*, gol. Peter Wynn Thomas a Jayne Mathias (Caerdydd, 2000), tt. 232-239.
[12] Juan Cobarrubias a Joshua Fishman, *Progress in Language Planning: International Perspectives* (Berlin, 1983).

ieithyddol. A cheir, yn y ddau, gyfeiriadau at ystyriaethau diwylliannol a dewisiadau personol wrth siarad iaith. Er mai sgil-effaith polisïau iaith yw cyfieithu i lawer, gall astudiaethau cyfieithu, oherwydd eu hamrywiaeth, amlygu'r cyswllt sydd rhwng ieithoedd, diwylliannau, a hunaniaethau. Dywed Sandra Berman:

> Engaging both with 'nation' *and* with 'language', with 'cultural studies' *and* with 'theory', as well as with more traditional literary history, with close reading and, not the least, with everyday experience in a global context, translation has itself become an important border concept in the humanities, affecting some of the most salient intellectual and ethical issues of our time. It requires attention to cultural values, to economic and political inequalities, to individual choices and, perhaps most obviously, to otherness in its linguistic and cultural forms.[13]

Yn achos ieithoedd lleiafrifol, mae hyn yn arbennig o arwyddocaol. Mae siaradwyr iaith leiafrifol yn dod wyneb yn wyneb â chyfieithu yn ddyddiol, bron. Ar y naill law, rhaid iddynt gyfieithu eu hunain yn fynych trwy siarad ac ysgrifennu'r brif iaith (neu yr iaith 'fwyafrifol'), ac ar y llall, gallant ddilyn datblygiad eu hiaith leiafrifol trwy waith cyfieithwyr proffesiynol. Gydag amgyffrediad lleiafrifoedd ieithyddol ohonynt eu hunain a'u diwylliant yn gysylltiedig â phrosesau cyfieithu, gallai astudio cyfieithu yng nghyd-destun iaith leiafrifol ehangu ein dealltwriaeth o'r broses gyfieithu yn gyffredinol.

Yn ychwanegol at hyn, gall astudiaethau cyfieithu fod yn fodd i ddeall y berthynas rhwng siaradwyr iaith leiafrifol a phrif iaith, medd Michael Cronin:

> Translation theory should therefore not be seen as an esoteric luxury indulged in by the mandarins of major languages but as a crucial means to understanding the position of minority-language speakers in relationships of language and power.[14]

Gan geisio dwyn damcaniaethau o feysydd cynllunio ieithyddol ac astudiaethau cyfieithu at ei gilydd, bydd y traethawd hwn yn dadansoddi ymchwil a wnaethpwyd mewn cyfarfodydd yng Ngwynedd lle defnyddiwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Holiaduron, cyfweliadau ac ymweliadau â'r cyfarfodydd oedd y sail i'r ymchwil sy'n cysylltu'r profiadau hyn o gyfieithu â thrafodaethau mwy

---

[13] Sandra Bermann, 'Introduction', yn *Nation, Language, and the Ethics of Translation*, gol. Sandra Bermann a Michael Wood (Princeton, 2005), tt. 4-5.
[14] Michael Cronin, *Translation and Globalization* (Llundain, 2003), t. 146.

damcaniaethol am statws iaith leiafrifol, a goblygiadau bod yn lleiafrif ieithyddol i siaradwyr yr iaith honno.

Gwelir cyfieithu ar y pryd yn ffordd uniongyrchol o annog defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfa lle ceir siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Pan ddaw Cymry Cymraeg a di-Gymraeg ynghyd, siaredir Saesneg yn aml. Am resymau sy'n ymwneud ag arfer, hyder, a statws cymdeithasol, nid yw pob siaradwr Cymraeg yn siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd ieithyddol cymysg.

Mewn prosiectau cymunedol, gan y Mentrau Iaith, er enghraifft, ceisir defnyddio cyfieithu ar y pryd gyda'r bwriad o annog pobl i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd ieithyddol cymysg. Roedd yr ymatebion i'r prosiect HWB yng Ngwynedd (2004 tan 2006) yn gadarnhaol o safbwynt effaith cyfieithu mewn sefyllfaoedd o'r fath. Nid yn unig y canmolwyd naws 'Gymreig' newydd yn y cyfarfodydd hynny, ond roedd wedi denu pobl newydd i'r cyfarfodydd. Crybwyllwyd hefyd fod cyfieithu wedi hwyluso cofnodi, wedi ysgogi rhai di-Gymraeg i ddysgu'r iaith ac wedi cryfhau'r teimlad ymhlith y Cymry Cymraeg o berchnogaeth ar y penderfyniadau. Bwriada'r traethawd hwn edrych ar y datganiadau hyn yn fanylach, gan geisio esbonio'r cysylltiadau rhwng siarad iaith, hunaniaeth cymunedau Cymraeg, a chyfieithu.

**Strwythur y traethawd**

Cyfieithu llafar o'r Gymraeg i'r Saesneg, neu gyfieithu ar y pryd a defnyddio'r derminoleg gyfoes, yw gwrthrych yr ymchwil hwn, felly. Wrth gwrs, mae cyfieithu testun (ysgrifenedig) hefyd wedi chwarae rôl hollbwysig wrth hyrwyddo'r Gymraeg. Ond byddai'r drafodaeth honno yn mynd y tu hwnt i sgôp traethawd ymchwil PhD. Canolbwyntir, felly, ar gyfieithu llafar.

Egyr Rhan I y traethawd gyda gorolwg hanesyddol ar gyfieithu yng Nghymru. Dechreuwyd ei ddefnyddio yn llysoedd barn yr oesoedd canol er mwyn rhwyddhau cyfathrebu. Ers yr ugeinfed ganrif, mae presenoldeb cyfieithydd mewn llys hefyd yn arwydd o'r hawl ieithyddol, hynny yw, yr hawl i siarad Cymraeg. Dengys y bennod gyntaf, felly, sut y defnyddir cyfieithu ar hyn o bryd yn y broses o greu cymdeithas ddwyieithog yng Nghymru. Edrychir ar gyfieithu yn y sector gyhoeddus (lle mae'n fwyaf amlwg), ac mewn grwpiau gwirfoddol, a thrafodir sut y gwelir cyfieithu heddiw yn rhan o'r ymgyrch i gryfhau'r Gymraeg.

Trafoda Pennod 2 nifer o syniadau creiddiol cymdeithaseg iaith a chynllunio ieithyddol. Dyma'r meysydd sydd, ar y naill law, yn ceisio esbonio'r berthynas rhwng ieithoedd, ac ar y llall, yn llunio mesurau a pholisïau i hybu lleiafrifoedd ieithyddol. Ymysg y syniadau hyn, rhoddir sylw i hanfod dwyieithrwydd a hawliau ieithyddol (hawliau unigolion a hawliau grwpiau). Amlygir y cysylltiadau rhwng damcaniaethau cymdeithaseg iaith a chyfieithu, gan nodi amcanion cyffredin y ddwy ddisgyblaeth.

Canolbwyntia'r traethawd, felly, ar gyfraniad cyfieithu wrth annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, ac ar ei effaith ar berthynas pobl gyda'u hiaith a'i gilydd. A hunaniaeth yn thema ganolog yn y trafodaethau am gynllunio ieithyddol a chymdeithaseg iaith, neilltuir Pennod 3 i'r gwahanol ffyrdd y defnyddir, ac y defnyddiwyd, cyfieithu i gryfhau ymlyniad at iaith a diwylliant. Gwelir bod cyfieithu yn gallu hybu neu rwystro hunaniaeth benodol, ac y dylai polisïau cyfieithu cadarnhaol fod yn rhan annatod o unrhyw gynllunio sy'n amcanu at gryfhau iaith leiafrifol.

Gan ddwyn rhan ddamcaniaethol y traethawd i ben, ymhelaetha Pennod 4 ar y cysyniad o 'gymuned ieithyddol' yn gyffredinol, a'r fro Gymraeg yn benodol. Trafodir pam mae'r syniad o gael cymunedau Cymraeg yn bwysig i hunaniaeth siaradwyr Cymraeg, ac o fewn y cyd-destun hwn trafodir syniadau ynghylch dewis iaith a hyder ieithyddol. Cynigir golwg ar yr hyn a all ddigwydd i hyder a defnydd iaith pan geir cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cymunedol.

Ar ôl gosod y sylfaen ddamcaniaethol yn Rhan I y traethawd, trafoda Rhan II ganlyniadau'r ymchwil maes. Yn dilyn cyflwyniad byr i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r ymchwil, cychwynnir Pennod 6 gyda'r cwestiwn, a all cyfieithu ar y pryd gyfrannu at newid agweddau ynghylch yr iaith, a sut mae syniadau am gyfieithu yn deillio o agweddau cyffredinol am ddiwylliant dwyieithog, hawliau iaith a pholisïau defnyddio'r Gymraeg.

Holir ym Mhennod 7 beth yw potensial cyfieithu ar y pryd wrth hybu diwylliant yr ardaloedd Cymraeg. A oes rôl iddo wrth hysbysebu a lledaenu'r iaith fel rhan annatod o ddiwylliant y fro Gymraeg? Ymdrinia'r bennod ag agweddau ynghylch hunaniaeth ddiwylliannol a phwysigrwydd siarad yr iaith er mwyn bod yn rhan o'r diwylliant hwnnw. Holir pa ran all cyfieithu ei chwarae yn hynny o beth.

O ganfod bod yr iaith Gymraeg yn hanfodol i hunaniaeth gymunedol y fro Gymraeg, rhaid holi wedyn sut y gellir cryfhau hyder siaradwyr Cymraeg wrth ei harddel. Hola Pennod 8 a yw'r gallu gan gyfieithu i ddatblygu neu gryfhau'r hyder hwn. Bydd y dystiolaeth a gyflwynir yn y bennod yn edrych ar wahanol elfennau o'r hyder hwn, megis rhugledd yn y Gymraeg, deinameg grym rhwng y ddwy iaith, teimladau o gywilydd ac embaras, a hunaniaeth ieithyddol.

Gan mai cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yw nod polisïau iaith, trafoda Pennod 9 y cwestiwn, a all cyfieithu ar y pryd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Teimla rhai mai creu rhwystrau y mae cyfieithu, a thrafodir, felly, beth yn union yw potensial cryfaf cyfieithu. Ar ddiwedd y bennod, sonnir am swyddogaeth cyfieithu wrth sefydlu traddodiadau ac arferion newydd o siarad Cymraeg.

Ym Mhennod 10, trafodir y cwestiwn, sut i roi swyddogaeth arbennig i gyfieithu ar y pryd. Cychwynna'r bennod gyda golwg ar broffeil cyhoeddus y proffesiwn cyfieithu a rhai o'r anawsterau a gyfyd mewn cyfarfodydd. Ymhelaethir wedyn ar safon cyfieithu a hyfforddiant y cyfieithwyr. Asesir hefyd bynciau fel costau cyfieithu, rôl y cadeirydd a'r pwysigrwydd o gael siaradwyr Cymraeg i baratoi cyflwyniadau ac adroddiadau, cyn cynnig bod polisïau cyson a gofalus yn allweddol i ddefnyddio'r gwasanaeth i'w lawn botensial.

Bwriad yr astudiaeth, felly, yw gweld potensial cyfieithu ar y pryd i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ieithyddol cymysg ond mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol yn y gymdeithas. Ar adeg pan elwir am gydnabyddiaeth o gyfieithu yn Ewrop er mwyn cefnogi ei hamrywiaeth ddiwylliannol,[15] hyderir bod yma ddarlun teg o effeithiau tymor byr a hir dymor cyfieithu ar y pryd mewn un cyd-destun yn y Gymru Gymraeg sydd ohoni.

[15] *Süddeutsche Zeitung*, 'Für einen Kontinent der Übersetzungen: Ein gemeinsamer Aufruf europäischer Intellektueller', 19 Tachwedd 2008, t. 11.

## RHAN 1

# Cyfieithu
# Mewn
# Iaith Leiafrifol

# 1 Cyfieithu yng Nghymru

Dros y chwarter canrif ddiwethaf, daeth cyfieithu'n broffesiwn amlwg yng Nghymru. Cyfieithir yn bennaf rhwng y Saesneg a'r Gymraeg. Ychydig a gyfieithir rhwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill, gan nad oes galw am hynny. Yn y bennod gyntaf hon trafodir datblygiad y proffesiwn cyfieithu yng Nghymru, gyda phwyslais penodol ar gyfieithu llafar. Agorir y bennod trwy drafod cyfieithu mewn llysoedd barn, o gyfnod yr Oesoedd Canol hyd heddiw. Yn rhan ganol y bennod rhoddir sylw arbennig i'r ugeinfed ganrif pan ddechreuwyd ystyried cyfieithu yn ddull allweddol i hyrwyddo hawliau siaradwyr Cymraeg, a thrafodir y newidiadau cyfreithiol a ddaeth yn sgil pasio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac er sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Diweddir y bennod trwy drafod cyfieithu yn y sector wirfoddol ac ar lefel y gymuned: dyma sefyllfaoedd pan nad oes rheidrwydd cyfreithiol i gynnig darpariaeth ddwyieithog. O ystyried y cyd-destun hanesyddol fel ag y gwneir yn y bennod hon, cesglir ar ei diwedd bod cyfieithu a chynllunio ieithyddol wedi mynd law yn llaw erioed: hynny yw, bod cyfieithu wedi bod yn rhan o drafodaeth canrifoedd ynghylch pa iaith – y Gymraeg ynteu'r Saesneg – y dylid ei siarad mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau.

Ar ddechrau pennod fel hon dyma air am y derminoleg a ddefnyddir wrth drafod cyfieithu.[1] Defnyddir y gair *cyfieithu* i sôn yn gyffredinol am gyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu llafar. (Gellid defnyddio *trosi* am yr un weithred.) Nid yw'r iaith Gymraeg yn gwahaniaethu rhwng cyfieithu ar bapur ac ar lafar, fel y gwna sawl iaith arall (megis *Übersetzen* a *Dolmetschen* yn Almaeneg, neu *translating* ac *interpreting* yn Saesneg). Dichon fod y Gymraeg yn defnyddio'r un gair i ddisgrifio'r ddau weithgarwch oherwydd i'r cyfieithwyr fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddwy dasg yng Nghymru.

Ymhellach, wrth drafod cyfieithu llafar, rhaid tynnu sylw at sawl gwahaniaeth rhwng y proffesiwn cyfieithu yng Nghymru a'r proffesiwn yn rhyngwladol. Mewn busnes, gwleidyddiaeth a chyfraith ryngwladol gwahaniaethir rhwng *cyfieithu olynol* neu *gydolynol*, a *chyfieithu ar y pryd*, sef, yn Saesneg,

[1] Am drafodaeth fanylach, gweler Robyn Léwis, *Cyfiawnder dwyieithog? Bilingual Justice?* (Llandysul, 1998), tt. 90-92.

*consecutive interpreting* a *simultaneous interpreting*. Ar y cyfan, mewn sefyllfaoedd rhyngwladol defnyddir y dull cydolynol mewn trafodion busnes, achosion llys, neu pan ddaw rhywun heb allu siarad iaith y wlad i gysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus megis y gwasanaethau lles, iechyd neu'r heddlu. Mewn sefyllfaoedd felly bydd y cyfieithydd yn eistedd neu'n sefyll yn ymyl y rhai sy'n siarad. Bydd un siaradwr yn dweud ychydig frawddegau tra mae'r cyfieithydd yn cymryd nodiadau i'w atgoffa o'r hyn a ddywedir; wedyn cyfieithir yr hyn a ddywedwyd fesul cymal, cyn i'r siaradwr arall ymateb. Yn groes i hynny, defnyddir cyfieithu ar y pryd mewn cynadleddau rhyngwladol ac mewn sefydliadau rhyngwladol amlieithog megis yr Undeb Ewropeaidd neu'r Cenhedloedd Unedig. Mewn sefyllfaoedd felly bydd y cyfieithydd yn eistedd mewn bwth gwrthsain, yn clywed y trafodion trwy system annerch cyhoeddus ac yn cyfieithu yn ddi-oed, wrth i'r siaradwyr siarad. Mae'r gwrandawyr hwythau yn clywed y cyfieithiad trwy glustffonau; fel arfer mae'n bosibl dewis yr iaith y dymunir ei chlywed trwy wthio botwm ger y sedd. Prin y defnyddir y dull olynol wrth gyfieithu ar lafar yng Nghymru erbyn hyn; yma, cyfieithu ar y pryd yw'r ffordd gyffredin a chyffredinol o gyfieithu ar lafar.

### 1.1 Y Gymraeg yn llysoedd barn Cymru

Y profiad cyntaf o gyfieithu a gofnodwyd yng Nghymru erioed, mae'n debyg, oedd cyfieithu mewn llysoedd barn. Yn yr oesoedd canol, pan reolid sawl rhan o Gymru gan arglwyddi'r Gororau, a'r hen Wynedd a Dyfed gan Goron Lloegr, Lladin a Ffrangeg Normanaidd oedd ieithoedd y llysoedd. Lladin oedd iaith y cofnod, tra cynhelid yr achosion yn Ffrangeg. Ond Cymraeg oedd unig iaith y bobl gyffredin. Yn y cyfnod hwnnw, felly, roedd angen cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Ffrangeg yn y llys, er mai dim ond ychydig o dystiolaeth sydd ar gael i gadarnhau hyn. Mae llawer mwy o dystiolaeth o gyfieithu swyddogol ar gael yn y cyfnod wedi sefydlu'r Sesiwn Fawr dan Harri VIII. Yn fyr, sefydlwyd llysoedd y Sesiwn Fawr a'r Sesiwn Chwarter yng Nghymru ym 1542 er mwyn ymestyn cyfraith unffurf Lloegr i Gymru gyfan, yn sgil y Ddeddf Uno. Bwriad y llysoedd newydd hyn oedd sefydlu system o gyfiawnder cyffredinol trwy Gymru a Lloegr. Roeddent hefyd yn arwyddo trosglwyddo rheoli materion cyfreithiol yn ogystal â llywodraethol o Gymru i Loegr. Tra oedd llysoedd y Sesiwn Chwarter yn llysoedd

lleol a ymdriniai â materion lleol neu o lai o bwys, yr oedd y Sesiwn Fawr yn Uchel Lys lle trafodid yr achosion mwy cymhleth. (Yn nherminoleg heddiw, gellid cymharu'r gwahaniaethau rhwng y ddau fath o lys â'r gwahaniaeth rhwng Llys Ynadon a Llys y Goron.) Yr oedd 'cymal iaith' y Ddeddf Uno ym 1536 wedi gosod ar bapur mai Saesneg oedd iaith pob gweinyddiaeth a phob trafodaeth yn y llysoedd, yn ogystal ag yn swyddfeydd y siroedd a phob swydd gyhoeddus o hyn ymlaen.[2] Parhaodd y cymal hwn mewn grym am y 288 o flynyddoedd hyd 1830, sef cyfnod bodolaeth y Sesiwn Fawr. Canlyniad y ddeddf hon oedd cymell arglwyddi a phendefigion y wlad i beidio â siarad Cymraeg yn gyhoeddus. Ond fel yr âi'r degawdau a'r canrifoedd heibio, daeth yn glir bod y bonedd uchelgeisiol yn rhoi'r gorau i'r Gymraeg yn gyfan gwbl. Gyda swyddi ar gael dim ond i'r sawl a siaradai Saesneg, buan iawn y trodd anogaeth gyfreithiol yn orfodaeth ymarferol. Gweinyddid yr egwyddor o benodi dim ond siaradwyr Saesneg i swyddi'r llysoedd yn llym, fel yr awgryma'r ffaith mai dim ond 10 o'r 217 o farnwyr a benodwyd trwy gyfnod y Sesiwn Fawr a fedrai'r Gymraeg.[3] Mewn cymdeithas uniaith Gymraeg, roedd y tystion yn parhau i siarad Cymraeg o flaen y llys; fel arfer nid oeddent hwy, ddim mwy na'r diffynyddion, yn deall gair o Saesneg. Yn y Sesiwn Chwarter ar y llaw arall, siaredid Cymraeg nid yn unig gan y cyhuddedig a'r tystion, ond yr oedd yn arferol i'r swyddogion ac i'r ynadon fod yn rhugl yn y Gymraeg hefyd, ac yn gyfarwydd â therminoleg y gyfraith.[4] Er gwaethaf y ffaith y defnyddid Cymraeg ar lafar bron yn ddieithriad mewn llysoedd ledled Cymru, y Saesneg a bennwyd yn unig iaith gyfreithiol a gweinyddol y llysoedd gan y Ddeddf Uno. Nid oedd hyn yn wir yn Lloegr y cyfnod! Yno defnyddid Lladin, ac yn ddiweddarach Ffrangeg Normanaidd, gan y barnwyr er bod pobl wedi ceisio defnyddio'r Saesneg mewn llysoedd barn ers dros bedwar can mlynedd er mwyn i bobl gyffredin allu deall.[5] Nid cyn 1731 y gwnaethpwyd y Saesneg yn iaith

[2] Ivor Bowen, gol., *The Statutes of Wales* (Llundain, 1908), t. 87.

[3] Dewi Watkin Powell, 'Y llysoedd, yr awdurdodau a'r Gymraeg: Y Ddeddf Uno a Deddf yr Iaith Gymraeg', yn *Lawyers and Laymen,* gol. T.M. Charles-Edwards, M.E. Owen a D.B. Walters (Caerdydd, 1986), t. 291.

[4] Gwynfor Jones, 'Yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol: Ustusiaid Heddwch a'r Llysoedd Chwarter c.1536-1800', yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr iaith Gymraeg cyn y chwyldro diwydiannol*, gol. Geraint Jenkins (Caerdydd, 1997), t. 183.

[5] Joan Colin a Ruth Morris, *Interpreters and the Legal Process* (Winchester, 1996), t. 21.

swyddogol y llysoedd trwy statud. Felly daeth Saesneg yn iaith swyddogol llysoedd Cymru ddau gant o flynyddoedd cyn i hyn ddigwydd yn Lloegr.[6]

Yng Nghymru pwysleisiodd gweinyddiaeth y gyfraith yn glir bwysigrwydd siarad Saesneg yn y llysoedd. Mae sawl adroddiad wedi goroesi am achosion nifer o rai cyhuddedig na phlediodd eu hachos yn Saesneg (ac mae'n debyg mai methu siarad Saesneg yr oeddent, yn hytrach na gwrthod), ac a ddienyddwyd am hynny.[7] Mewn sawl llys cosbid y rheithwyr hefyd am beidio â siarad Saesneg. Mae Richard Suggett yn sôn am achos yn Aberhonddu ym 1588 lle rhoddwyd dirwy o ddeugain swllt i'r rheithiwr Harry Edward o Landyfalle am ei fod yn methu siarad Saesneg![8]

Pan ddisodlwyd Ffrangeg gan Saesneg yn iaith y llysoedd yn Lloegr ym 1731, roedd gwrthwynebiad Arglwydd Brif Ustus Lloegr, yr Arglwydd Raymond, yn ffyrnig. Byddai hepgor iaith draddodiadol y llys, meddai, yn annog arferion anarchaidd, a 'gallasai'r polisi hwn arwain hyd yn oed at beri i'r Cymry fynnu'r hawl i gynnal y gweithgareddau yn Gymraeg'.[9] Ond pwysicach nag agweddau Saeson fel yr Arglwydd Raymond oedd ymarweddiad y Cymry eu hunain tuag at eu hiaith. Roedd nifer cynyddol o swyddogion y llysoedd ac o reithwyr, os nad wedi colli'r Gymraeg yn llwyr, o leiaf yn ddwyieithog erbyn hyn, tra oedd y barnwyr bron yn ddieithriad yn uniaith Saesneg, a'r diffynyddion a'r tystion bron yn ddieithriad yn uniaith Gymraeg. Felly, er mwyn caniatáu cyfathrebu effeithiol rhyngddynt a chael cyfiawnder, yr oedd bodolaeth cyfieithwyr yn hollbwysig.

Cyn y Ddeddf Uno, dim ond barnwyr a swyddogion eraill fyddai wedi gallu cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Ffrangeg a Lladin. Yr oedd hyn yn dal yn wir yn y blynyddoedd wedi'r Ddeddf Uno pan gyfieithai'r barnwyr a'r swyddogion rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ceir cyfeiriadau at gyfieithu mewn nifer o ysgrifau yn ymwneud â'r gyfraith yn y cyfnod wedi'r Ddeddf Uno, ac at y problemau a godai yn sgil y cyfieithu. Un enghraifft o'r anfodlonrwydd a geid gyda chyfieithu yw llythyr o'r 1570au gan yr Ail Ustus yng Nghylchdaith Brycheiniog, William

[6] Nid oedd y rheol bod Saesneg yn unig iaith swyddogol yn llysoedd Lloegr mewn grym yn hir: diddymwyd statud 1731 ym 1879, a hyd heddiw, nid oes iaith swyddogol yn llysoedd Lloegr! Gweler Robyn Léwis, *Cyfiawnder dwyieithog?*, tt. 26-28.
[7] Richard Suggett, 'Yr Iaith Gymraeg a Llys y Sesiwn Fawr', yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr iaith Gymraeg cyn y chwyldro diwydiannol*, gol. Geraint Jenkins (Caerdydd, 1997), t. 161.
[8] Suggett, t. 155.
[9] Raoul van Caenegem, *Introduction historique au droit privé* (Brwsel, 1988), tt. 193-94. Dyfynnir gan Robyn Léwis, 'Y troswr a'r trosi: (- ond pam trosi?). Rhan 2', *Taliesin 127* (2006), t. 118.

Gerard, at Syr Francis Walsingham, un o ysgrifenyddion Elisabeth I. Yn ystod y broses o benodi barnwr newydd yng Nghylchdaith Caerfyrddin, argymhellodd benodi barnwr a allai siarad Cymraeg:

> it were verie conveniente that one of the Justices of assizes did understand the Welche tong, for nowe the Justice of Assize must use som interpretor? And therefore many times the Evidence is tolde accordynge to the mind of the interpretor whereby the Evidence is expounded contrarie to that which is said by the Examynate and so the Judge gyveth a wronge charge.[10]

Mae'n amlwg bod Gerard yn poeni am gywirdeb cyfreithiol y cyfieithiad. Nid awgryma ei lythyr ei fod yn amau gallu ieithyddol y cyfieithwyr. Ond mae yn pryderu am eu gallu i glywed pob gair a phob brawddeg yn y dystiolaeth yn union fel y byddai barnwr yn eu clywed, gyda'r system gyfreithiol yng nghefn ei feddwl. Ac er yr hyfforddi sydd ar gael i gyfieithwyr heddiw mewn terminoleg a materion cyfreithiol (ym mhrif ieithoedd y byd, o leiaf), mae rhywfaint o'r pryder hwn ynghylch cyfieithu yn dal i fodoli, ym meysydd cyfieithu ar bapur a chyfieithu ar lafar.[11]

Dengys llythyr Gerard un peth arall: roedd cyfieithu, er yn anfoddhaol i rai, yn arferol mewn achosion llys yn ystod cyfnod Elisabeth I. Y tebygolrwydd yw mai o'r Gymraeg i'r Saesneg y digwyddai'r rhan fwyaf o'r cyfieithu (er mwyn i'r barnwyr ddeall y dystiolaeth), yn hytrach nag o'r Saesneg i'r Gymraeg (er mwyn i'r cyhuddedig ddeall y dyfarniad). I'r bobl nid oedd dim wedi newid er y dyddiau cyn y Ddeddf Uno pan siaradai'r cyfreithwyr yn Lladin neu yn Ffrangeg. Yn sicr, nid hawliau'r cyhuddedig a barai bryder i Gerard, ond yn hytrach y rheidrwydd ar i'r barnwr ddeall y dystiolaeth a roddid gerbron. Gellid tybio bod cefndir cymdeithasol y cyfieithwyr yn peri pryder i Gerard hefyd. Os nad oedd y cyfieithydd yn un o swyddogion y llys, ond efallai'n perthyn i'r gymdeithas leol, gallai goleddu rhagfarn o blaid y Cymro cyhuddedig, gan gyfieithu mewn dull a fyddai'n ffafriol i'w achos. (Mae Syr William Jones yn cadarnhau i'r fath bryder

---

[10] Dyfynnir gan Powell, t. 293.

[11] Dengys adroddiad Jan Blommaert am gyfieithu tystiolaeth ar gyfer ceisiadau lloches mai fel arbenigwyr iaith pur y perchir cyfieithwyr. Nid yw cyfreithwyr yn fodlon derbyn gair y cyfieithydd fel gwybodaeth fanwl am wlad, diwylliant, amgylchiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol fel rhan o'r dystiolaeth. Y duedd yw defnyddio cyfieithwyr i 'gyfieithu yn unig', er y gallant gasglu manylion arwyddocaol o'r dogfennau a gânt i'w cyfieithu. O safbwynt cyfreithwyr, nid oes gan gyfieithydd yr arbenigedd angenrheidiol i ddod i gasgliadau sy'n mynd i helpu'r broses. Gweler Jan Blommaert, 'Writing as a problem: African grassroots writing, economies of literacy, and globalization', *Language in Society 33* (2004), tt. 643-671.

fodoli ymysg swyddogion Ymerodraeth Lloegr pan noda yn ei ragair i'r *Grammar of the Persian Language* ym 1771: 'It was found highly dangerous to employ the natives as interpreters, upon whose fidelity they could not depend.'[12]) Ond beth bynnag oedd union natur ei bryder, yr oedd apêl Gerard yn ofer: parhawyd i benodi barnwyr uniaith Saesneg i lysoedd y Sesiwn Fawr yng Nghymru.

Fodd bynnag, ar rai achlysuron roedd yn ofynnol cyfieithu croesholiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg, fel y digwyddodd mewn achos yn Sir y Fflint ym 1580 lle oedd rhaid cael 'suche interpretacion into their vulgar tongue as they may understand the same'.[13] Parhâi'r canfyddiad o gyfieithu yn y llysoedd fel rhwystr i gyfiawnder, hyd yn oed pan benodid cyfieithwyr mewn modd mwy proffesiynol. Dygodd Osborne Morgan, Aelod Seneddol Dinbych, ddadl ger bron Tŷ'r Cyffredin ym 1872, gan fynegi sylwadau tebyg i rai William Gerard dri chan mlynedd ynghynt: 'It was chiefly through the difficulty of interpreting the evidence of welsh witnesses that miscarriages of justice arose […] a judge or counsel who had to get his evidence through an interpreter was at a very great (disadvantage).'[14]

Erbyn hynny, fodd bynnag, roedd cyfieithu yn y llysoedd yn cael ei gydnabod yn swyddogol, gan fod ffi yn cael ei thalu i'r cyfieithwyr. (Er dechrau'r ddeunawfed ganrif roedd cyfieithwyr wedi derbyn tâl am eu gwaith.) Cyn i ffioedd i gyfieithwyr ymddangos ar restrau o gostau'r llysoedd, mae'n bur debyg mai swyddogion y llys, ustusiaid heddwch neu un o'r twrneiod a oedd yn bresennol a gyflawnai'r gwaith cyfieithu ar gyfer y barnwyr anghyfiaith. Ond o'r ddeunawfed ganrif ymlaen, roedd rhaid i gyfieithwyr dyngu llw eu bod yn cyfieithu mor gywir â gallent, yn yr un modd ag y gwnânt heddiw. Ceir nifer cynyddol o gyfeiriadau at gyfieithu, ac at daliadau i gyfieithwyr, yn y ddeunawfed ganrif, ac fe allai hyn fod yn arwydd bod llai o farnwyr yn medru'r Gymraeg. Ar y cyfan, er gwaethaf tystiolaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg bod swyddogion llys weithiau yn cywiro cyfieithwyr,[15] mae'n debyg nad cywirdeb y cyfieithu a achosai bryder i gyfreithwyr. Er y mynegid amheuon am safonau cyfieithu mewn

---

[12] Dyfynnir gan Tejaswini Niranjana, *Siting Translation: History, Poststructuralism, and the Colonial Context* (Berkeley, 1992), t. 16.
[13] Dyfynnir gan Suggett, t. 154.
[14] Dyfynnir gan Powell, t. 296.
[15] Mark Ellis Jones, ' "Dryswch Babel"? Yr Iaith Gymraeg, Llysoedd Barn a Deddfwriaeth yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', yn *'Gwnewch bopeth yn Gymraeg': Y Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, gol. Geraint Jenkins (Caerdydd, 1999), t. 555.

rhai achosion,[16] ni welid diffyg cywirdeb ieithyddol yn rhwystr i gyfiawnder. I'r gwrthwyneb, ennyn parch a wnâi cyfieithwyr Cymru. Mewn adroddiad am gyflwr a gweithrediad llysoedd Ulster, er enghraifft, nodwyd bod cyfieithwyr Cymru'n fwy galluog ac yn fwy effeithiol na hyd yn oed y barnwyr yn Ulster.[17] Felly, nid amheuaeth am safon y cyfieithu a barai bryder ynghylch cyfieithu yn y llysoedd, eithr y gred yn yr egwyddor y dylai'r sawl a gymer ran mewn achos gael yr hawl sylfaenol i siarad yn uniongyrchol gyda barnwyr a rheithwyr, a hynny er mwyn sicrhau dealltwriaeth, nid yn unig trwy allu ieithyddol pur, ond trwy gyswllt llygaid ac iaith corff ar ben hynny. Gwelid 'cyfryngu' y cyfieithydd yn llestair i hyn. Ac mae hyn yn bryder sy'n parhau ynghylch cyfieithu mewn llysoedd hyd heddiw.

Un cam arall tuag at yr hawl i siarad Cymraeg mewn llys barn oedd pasio Deddf Llysoedd Cymru 1942 a honnai gyflwyno'r hawl i siarad Cymraeg mewn llys am y tro cyntaf: 'The Welsh language may be used in any court in Wales by any party or witness who considers that he would otherwise be at any disadvantage by reason of his natural language of communication being Welsh.'[18] Anfoddhaol oedd geiriad y ddeddf hon i lawer o Gymry. Cyfyngid hwy mewn dwy ffordd: caniateid siarad Cymraeg dim ond i'r sawl a oedd yn *meddwl* ei fod dan anfantais, ac yna'r sawl a oedd yn meddwl ei fod dan anfantais *oherwydd* mai Cymraeg oedd ei iaith. Nid oedd pobl yn fodlon gweld y Gymraeg ynddi ei hun yn anfantais. Ar ben hynny, nid y cyhuddedig neu'r tyst a gâi benderfynu a oedd dan anfantais neu beidio, ond yn hytrach y llys ei hun.

Ymhellach, ni chyfeiriai Deddf Llysoedd Cymru 1942 at allu cyfreithwyr yn y Gymraeg. Saesneg oedd iaith y llysoedd o hyd, ac ni châi na thwrnai na barnwr yr hawl i'w fynegi ei hun yn Gymraeg yn y ddeddf. Tra oedd y ddeddf yn edrych ar yr olwg gyntaf fel petai yn hwb i'r iaith Gymraeg, daw Dewi Watkin Powell i'r casgliad mai 'prin y gellid fod wedi dyfeisio dull mwy effeithiol o gael Cymro i beidio â defnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno'i achos neu wrth roi tystiolaeth'.[19] Ni ddymunai'r Cymry Cymraeg dynnu sylw atynt eu hunain drwy ofyn am gael siarad Cymraeg, a hyd heddiw ceir tystiolaeth anecdotaidd gan gyfieithwyr bod y

---

[16] Gellir gweld beirniadaeth dirmygus o gyfieithu yn y llys mewn dychangerdd gan John Jones Jac Glan-y-Gors yn y 1790au. Gweler John Jones, 'Hanes y Sesiwn Fawr', *Cerddi Jac Glan-y-Gors*, gol. E.G. Millward, (Abertawe, 2003), tt. 60-63.
[17] Gwynfor Jones, t. 187.
[18] John Andrews a Lesley Henshaw, *The Welsh Language in the Courts* (Aberystwyth, 1984), t. 98.
[19] Powell, t. 298.

gred yn dal yn gryf bod gan reithwyr ragfarn yn erbyn y cyhuddedig, pa mor fychan neu anymwybodol y bo, os clywant y dystiolaeth trwy glustffonau.

Felly, er mai hwyluso, trwy gyfieithydd, y defnydd o'r Gymraeg oedd nod swyddogol Deddf 1942, y gwrthwyneb oedd ei chanlyniad, a phrin y defnyddid y gwasanaeth cyfieithu o gwbl. Ar y naill law roedd yr agwedd ystyfnig mai Saesneg oedd iaith y llysoedd a'r gyfraith i fod, yn enwedig gyda nifer y bobl a oedd yn deall ac yn siarad Saesneg ar gynnydd. Ar y llaw arall ceid y Cymry Cymraeg a ddyheai am gael siarad Cymraeg yn naturiol heb orfod gofyn ymlaen llaw. Nid ystyrient hwy eu bod yn cael cyfiawnder trwy'r system fel yr oedd. Yn nhyb llawer o'r Cymry hynny, nid oedd cyfieithu yn darparu ffordd o siarad Cymraeg yn naturiol, ond yn hytrach yn cryfhau'r teimlad o fod yn drwsgl, yn wahanol, o orfod mynd ar ofyn yr awdurdodau, a hyd yn oed o fod yn niwsans.

Enynnodd cyfieithu yn y llysoedd gryn sylw cyhoeddus yn y 1970au cynnar pan ddaeth nifer o achosion aelodau o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg o flaen llys. Roedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 (a basiwyd yn sgil yr ymgyrchoedd iaith), wedi sefydlu'r hawl i siarad Cymraeg mewn llys yng Nghymru, gyda'r geiriau, 'it is proper that the Welsh language should be freely used by those who so desire in the hearing of legal proceedings'.[20] Er hynny, roedd yr hinsawdd wleidyddol ar y pryd yn gwneud i farnwyr wrthod ildio i ofynion y sawl a fynnai gael eu hachosion yn Gymraeg. Mewn achos enwog yn Abertawe mynnodd Mr Justice Mars Jones fod achos yn y Gymraeg heb ddarpariaeth cyfieithu yn gyfystyr ag achos cyfrinachol.[21] Roedd hyd yn oed barnwyr Cymraeg, trwy ganiatáu siarad Cymraeg mewn egwyddor ond gan fynnu cyfieithu yn y llys, yn arddangos eu grym i gadw gafael dynn ar eu hawdurdod trwy siarad Saesneg. Disgrifiodd Ioan Bowen Rees y penderfyniad fel un moesol hyd yn oed: 'a determined attempt by authority […] to assert that a Welsh trial without perpetual translation into English is improper'.[22]

Felly, lleisiwyd gwrthwynebiad chwyrn i gyfieithu mewn llysoedd am ddau reswm yn bennaf. Y rheswm cyntaf oedd pryder ynghylch y defnydd o bobl anghymwys i gyfieithu, megis heddweision neu weinidogion.[23] Pryderai ymgyrchwyr iaith a chyfreithwyr am safon y cyfieithu yn nwylo cyfieithwyr

[20] Andrews/Henshaw, t. 100.
[21] Alwyn D. Rees, 'The Judges and the Language', *Planet 12* (1972), t. 27.
[22] Ioan Bowen Rees, 'The Welsh Language and the Courts', *Planet 12* (1972), t. 21.
[23] Ibid., tt. 22-23.

anghymwys. Yn ôl un sylwebydd: 'As often as not, the standard of translation will be so low that the substance, let alone the poetry of what he is saying is lost.'[24] Roedd yr ail reswm yn rheswm gwleidyddol. Roedd achosion Saesneg trwy gyfieithu yn cael eu cyfiawnhau trwy gymharu'r Cymry Cymraeg ag estroniaid o ieithoedd eraill ym Mhrydain, er enghraifft siaradwyr yr iaith Urdu. Gwrthodwyd cael rheithwyr Cymraeg ar y sail na allent ddeall eu hiaith eu hunain mewn materion cyfreithiol ac academaidd.[25] Yr elfen wleidyddol hon yn y ddadl a barodd i Archesgob Cymru ac enwogion eraill ddatgan eu hanfodlonrwydd: 'to deal with Welsh witnesses and parties through interpreters […] is both farcical and degrading.'[26]

Un enghraifft o'r pryder cyhoeddus ynghylch safon cyfieithu cyfreithiol oedd llythyr agored ynglŷn ag achos penodol yn Llys Ynadon Caerdydd. Cwynodd yr awduron am safon drychinebus y cyfieithu. Dadl y llythyr oedd na cheid cyfiawnder heb safon uchel o gyfieithu. Ni theimlai awduron y llythyr fod y cyfieithydd yn yr achos dan sylw wedi meistroli'r un o'r ddwy iaith, ac o ganlyniad i hynny, ni chyflawnwyd dim ond 'anfri ar yr iaith Gymraeg ac […] anghyfiawnder â'r diffynnydd.'[27]

Wedi hynny, yn dilyn argymhellion ym 1973 i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn llysoedd Cymru, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor, Arglwydd Hailsham, ei fwriad i osod offer cyfieithu yn barhaol yn rhai o Lysoedd y Goron. Âi hyn yn union groes i argymhellion yr Arglwydd Ustus Edmund Davies a oedd wedi pwysleisio'r posibilrwydd o gael achosion cwbl Gymraeg. Seiliodd yr Arglwydd Ganghellor ei wrthwynebiad i achosion Cymraeg ar y farn y byddent yn rhwystro'r egwyddor o ddewis rheithwyr ar hap. Ni fyddai digon o siaradwyr Cymraeg ar gael i ddilyn yr arfer hwn, meddai, a mynnodd mai rheithgor wedi ei ddewis ar hap oedd yr allwedd i gyfiawnder.[28]

Llys y Goron Caerdydd oedd y cyntaf ym Mhrydain i gael system gyfieithu gyda bwth gwrthsain ym 1974, dim ond ychydig ar ôl sefydlu Llysoedd y Goron yng Nghymru. Erbyn heddiw, mae gan nifer cynyddol o lysoedd Cymru eu hoffer cyfieithu sefydlog. (Defnyddir offer symudol hefyd yn aml lle nad oes offer

---

[24] Ioan Bowen Rees, t. 21.
[25] Alwyn D. Rees, 'The Judges and the Language', t. 30.
[26] Dyfynnir gan Alwyn D. Rees, ibid., t. 28.
[27] Dyfynnir gan Robyn Léwis, *Cyfiawnder dwyieithog?*, t. 96.
[28] Powell, t. 308.

sefydlog ar gael.) Ar y pryd, roedd rhaid i wasanaeth y llysoedd gynnig cyrsiau carlam mewn cyfieithu ar y pryd, achos cyn hynny, cyfieithid yn y dull cydolynol fel y gwneir mewn llysoedd ar draws y byd.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 oedd y datblygiad cyfreithiol nesaf mewn materion a oedd yn ymwneud â defnydd iaith yn llysoedd Cymru. Yn Rhan III y ddeddf honno ceir y cymalau a ganlyn sy'n trafod defnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd:

> Y Gymraeg mewn achosion cyfreithiol
>
> **22. -** (1) Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw llys ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn.
>
> (2) Mae unrhyw bŵer i wneud rheolau llys yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer defnyddio dogfennau Cymraeg mewn achosion yng Nghymru neu sydd â chysylltiad â Chymru.
>
> **23.** Caiff yr Arglwydd Ganghellor wneud rheolau i bennu cyfieithiad yn yr iaith Gymraeg o unrhyw ffurf a bennir am y tro gan y gyfraith fel ffurf unrhyw lw neu ddwyshaeriad i'w roi a'i gymryd neu ei wneud gan unrhyw berson mewn unrhyw lys, a bydd i lw neu ddwyshaeriad a roir a'i gymryd neu ei wneud mewn unrhyw lys yng Nghymru yn y cyfieithiad a bennir gan y cyfryw reolau, heb ei ddehongli, yr un grym â phe bai wedi'i roi a'i gymryd neu ei wneud yn yr iaith Saesneg.
>
> **24. -** (1) Caiff yr Arglwydd Ganghellor wneud rheolau ynghylch darparu a chyflogi cyfieithwyr Cymraeg a Saesneg at ddibenion achosion gerbron llysoedd yng Nghymru.
>
> (2) Telir i'r cyfieithwyr, o'r un gronfa ag y telir treuliau'r llys, y cyfryw dâl mewn perthynas â'u gwasanaethau ag a bennir gan yr Arglwydd Ganghellor.
>
> (3) Ymarferir pwerau'r Arglwydd Ganghellor o dan yr adran hon gyda chaniatâd y Trysorlys.[29]

Y tu cefn i'r cymalau hyn saif yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder, cyn belled ag y bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.[30] Fel y gwelwn yn nes ymlaen yn y bennod hon, mae i'r cymalau hyn oblygiadau pendant i weithgarwch cyfieithwyr mewn cyd-destunau cyfreithiol. Mae gan gyfieithwyr testun rôl flaenllaw yn y gwaith o ddarparu ffurflenni sy'n ymwneud â

[29] *Deddf yr Iaith Gymraeg*, pennod 38 (Llundain, 1993), t. 9.
[30] *Deddf yr Iaith Gymraeg*, Rhan II, cymal 5 (2), t. 3.

datganiadau, llwon a dogfennau eraill. Ers Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ac i raddau helaethach ers dechrau mis Mai 2007 pan ddaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym, cydweithia cyfieithwyr â chyfreithwyr wrth ddrafftio deddfau newydd yn ddwyieithog, a hynny o ddechrau'r broses, yn hytrach na drafftio deddf yn Saesneg a'i chyfieithu wedyn. Erbyn hyn mae gwaith golygu testunau cyfreithiol yn cael ei gymryd o ddifrif, ac mae mwy o'r cydweithio hwn yn digwydd nag mewn meysydd eraill. Bydd Uned y Gymraeg Gwasanaeth y Llysoedd yn Llangefni yn golygu testunau'r llysoedd ac y mae barnwr wrth law i'w cynghori. O ran cyfieithu cyfreithiol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, y mae tîm o gyfieithwyr sy'n arbenigo mewn cyfieithu deddfwriaeth yn cydweithio'n agos â chyfreithwyr dwyieithog. Mae'r Prif Swyddog Cyfreithiol sy'n arwain y gwaith cyfieithu yn farnwr profiadol. (Mae Keith Bush, bargyfreithiwr a Chwnsler Deddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru rhwng 2004 a 2006, yn manylu mwy ar y cydweithio pwysig hwn a'i ddylanwad ar ddeddfwriaeth Cymru ac ar statws y Gymraeg.[31])

Fodd bynnag, mae swyddogaeth cyfieithwyr ar y pryd yn dal yn fwy amwys. Er bod Deddf 1993 yn ei gwneud hi'n glir y 'gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu',[32] nid yw'n egluro beth a olygir wrth 'angenrheidiol', na phwy sy'n penderfynu cyflogi cyfieithydd.

Efallai bod cymalau ynghylch cyfieithu ar y pryd yn fwy eglur yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 nag oeddent erioed yn Neddf Llysoedd Cymru 1942 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1967. Er hynny teimla Cymry Cymraeg o hyd, yn enwedig mewn ardaloedd lle y byddai'n gymharol hawdd cael barnwyr a rheithwyr sy'n medru'r Gymraeg, eu bod yn cardota am eu hawliau, a hynny yn rhannol oherwydd yr amod bod rhaid gofyn ymlaen llaw am ganiatâd i siarad Cymraeg. Yn ychwanegol at hyn, mae'r cyhuddedig yn dal i ofni bod rhagfarn yn eu herbyn ar sail eu dewis iaith. Bob hyn a hyn, bydd rhywun yn apelio yn erbyn penderfyniad pan deimla ragfarn ymysg y rheithwyr oherwydd eu bod yn clywed cyfieithiad o'r dystiolaeth Gymraeg drwy glustffonau. Ond nid y sawl a gyhuddir yn unig sy'n teimlo'n anghyfforddus. Mae un cyfreithiwr wedi nodi y gallant

[31] Dywed fod y Ddeddf newydd hon yn adfer hanfod statws cyfreithiol y Gymraeg cyn 1536. Keith Bush, 'Deddfu yn y Gymraeg: ail-gydio mewn hen ymgom', *The Cambrian Law Review 38* (2007), tt. 83-102.
[32] *Deddf yr Iaith Gymraeg*, Rhan III, cymal 22 (1), t. 9.

hwythau deimlo 'dan bwysau rheidrwydd […] i annerch y llys yn Saesneg',[33] a hynny pan mae dim ond un o ynadon y fainc yn ddi-Gymraeg. Os cyll yr un ynad di-Gymraeg hwnnw ei amynedd gyda'r cyfieithu oherwydd ei farn bod hynny'n wastraff amser ac arian (a'r twrnai'n ddigon galluog i amddiffyn ei gleient yn Saesneg), gall hyn arwain at golli cydymdeimlad â'r diffynnydd. Yn anymwybodol, gallai beri i'r ynadon eraill golli eu cydymdeimlad hwythau.

Yn Rhagfyr 2005, cychwynnodd y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol ymgynghoriad ynghylch cael rheithgorau dwyieithog yng Nghymru.[34] Gan gyfeirio at Ddeddf Rheithgorau 1974, trafoda'r papur ymgynghori a gynhyrchwyd gan y Swyddfa y gofyniad statudol bod rhaid i reithwyr, yng Nghymru fel yn Lloegr, ddeall digon o Saesneg i allu dilyn achos troseddol. Os daw yn amlwg nad oes digon o afael ar y Saesneg gan reithiwr penodol, caiff ei ryddhau o'i ddyletswydd i weithredu fel rheithiwr. Nid oes gofynion tebyg yn y Gymraeg yn yr achosion hynny yng Nghymru a gynhelir i raddau helaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.[35] Y canlyniad yw, fel y noda'r barnwr Mr Ustus Roderick Evans,

> bod siaradwyr Cymraeg sydd â dealltwriaeth annigonol o'r Saesneg yn methu â gweithredu fel rheithiwr mewn treial lle rhoid y dystiolaeth yn Saesneg. Ond gallai siaradwyr Saesneg sydd â dealltwriaeth annigonol o'r Gymraeg eistedd ar reithgor mewn treial lle rhoid y dystiolaeth yn Gymraeg. [36]

Y rheswm pennaf pam nad yw'n bosibl cynnal achosion troseddol gwir ddwyieithog yw'r egwyddor o ddewis rheithwyr ar hap.[37] Dyna pam fod gan gyfieithwyr ar y pryd yn llysoedd Cymru rôl bwysig wrth ganiatáu siarad Cymraeg. Pan fydd diffynnydd yn rhoi tystiolaeth yn y Gymraeg, a rhai o'r rheithwyr yn ddi-Gymraeg, bydd y rheithwyr hynny'n gwisgo clustffonau a chlywed cyfieithiad o'r dystiolaeth i'r Saesneg. A phan fydd tyst yn rhoi ei dystiolaeth yn Gymraeg, a'r diffynnydd yn siarad Saesneg yn unig, bydd y diffynnydd a'r rheithwyr di-Gymraeg yn clywed cyfieithiad o'r dystiolaeth trwy'r clustffonau. Gall dioddefwyr ei chael hi'n anodd rhoi tystiolaeth trwy gyfieithydd.

---

[33] Robyn Léwis, 'Y troswr a'r trosi: (- ond pam trosi?). Rhan 2', t. 113.

[34] Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, *Defnyddio Rheithgorau Dwyieithog (Saesneg a Chymraeg) Mewn Rhai Treialon Troseddol yng Nghymru: Papur Ymgynghori* (2005).

[35] Ibid., t. 10.

[36] Roderick Evans, 'Rheithgorau Dwyieithog?' *The Cambrian Law Review 38* (2007), t. 157.

[37] Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, t. 4. Ac yn ôl Roderick Evans, nid oedd y broses honno erioed yn hollol ar hap: tan 1973, eiddo a benderfynodd pwy oedd yn cael bod ar banel o reithwyr (tt. 153-55).

Mae'r profiad o roi tystiolaeth o flaen llys yn ddigon anodd fel y mae, a baich ychwanegol yw poeni 'na chafodd y dystiolaeth wedi'i chyfieithu ei deall yn iawn gan reithgor uniaith Saesneg'.[38] Ni waeth ym mha iaith y rhydd siaradwr Cymraeg ei dystiolaeth, fe fydd dan anfantais: un ai bydd yn siarad Saesneg ac yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r rheithgor, ond heb allu ei fynegi ei hun yn y ffordd fwyaf effeithiol; neu gall fynegi'r dystiolaeth orau bosibl yn Gymraeg gan golli cysylltiad uniongyrchol â'r gwrandawyr. Heblaw hynny, dan y drefn bresennol cedwir y cofnod mewn achosion Cymraeg a gyfieithir bob amser yn Saesneg, ac felly ni fydd cofnod o'r geiriau gwreiddiol Cymraeg ar gael mewn unrhyw sefyllfa o amheuaeth neu apêl.[39] Dadleua'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol y gellir cyfiawnhau rheithgor dwyieithog pan fo 'ansawdd y dystiolaeth yn cael ei amharu'n sylweddol pe bai'r rheithgor yn ei chlywed drwy gyfieithydd' (t. 15).

Mae'n ddiddorol cymharu'r sefyllfa yng Nghymru â'r sefyllfa mewn gwledydd dwyieithog eraill. Gwelir bod côd troseddol Canada yn rhoi'r hawl i'r sawl a gyhuddir gael ei brofi o flaen barnwr a rheithgor sy'n siarad ei iaith neu ei hiaith – os yw honno yn un o ieithoedd swyddogol Canada, sef Ffrangeg neu Saesneg. Ni dderbynnir yr esgus fod canfod barnwyr a rheithwyr yn yr iaith briodol yn anhwylustod, ac ni dderbynnir bod hyn yn aflonyddwch difrifol ar fusnes y llys.[40]

Pwysleisia'r papur ymgynghorol *Defnyddio Rheithgorau Dwyieithog* na fydd rheithgorau dwyieithog yn disodli cyfieithu ar y pryd yn llysoedd Cymru. Y bwriad yw i bob aelod o'r rheithgor ddeall cyfanswm y dystiolaeth a roir gan y diffynnydd, y tystion a chyfreithwyr pob parti. Ond gallai ar un o'r tystion, y diffynnydd, neu'r farnwr fod angen gwasanaeth cyfieithu. Cyfiawnder yw'r nod pennaf, cyfiawnder nas amherir arno gan ragfarn yn erbyn y naill iaith na'r llall, nac ychwaith gan y teimlad o orfod mynd ar ofyn y llys (i siarad Cymraeg).

O gofio'r prif resymau a roddwyd uchod dros beidio â siarad Cymraeg yn y llys, eglurir pam na chafwyd dim ond 29 galwad am gyfieithu ar y pryd yn y flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005 mewn achosion troseddol yn

[38] Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, t. 15.
[39] Ibid., t. 17.
[40] Ibid., tt. 23-24.

Llysoedd y Goron yng Nghymru.[41] Wrth gwrs, ni all y ffigyrau hynny roi syniad o faint o Gymry Cymraeg a fyddai wedi hoffi siarad Cymraeg mewn achosion (ond a benderfynodd beidio oherwydd na ddymunent roi eu tystiolaeth trwy gyfieithydd). Fel y traethodd Ustus Roderick Evans, 'mae cyfieithu tystiolaeth ar gyfer rheithgor yn gosod y rheithgor, y tyst sy'n rhoi tystiolaeth a hefyd y rhai y gallai'r dystiolaeth a roir effeithio arnynt, dan anfantais'. A phan mae unigolion uniaith Saesneg a rhai dwyieithog ar y rheithgor, 'caiff y rheithgor ddau fersiwn o'r dystiolaeth, a hynny ar adegau gwahanol'.[42] O ystyried hyn, gallai nifer yr achosion Cymraeg neu ddwyieithog gyda rheithgor dwyieithog gynyddu i nifer llawer uwch na 29 mewn blwyddyn. Dyma ddangos pwysigrwydd cael rheithgorau â phob rheithiwr yn medru'r Gymraeg, a defnyddio cyfieithu ar y pryd i ddiffynyddion, tystion neu gyfreithwyr uniaith Saesneg.

Ar yr un pryd, rhaid cofio y siaredir Cymraeg yn rheolaidd yn Llysoedd Ynadon yr ardaloedd Cymreiciaf. Nid yw'n anarferol i'r holl ynadon, clercod a swyddogion eraill fod yn rhugl yn Gymraeg, a gellir siarad Cymraeg yn y llysoedd hyn heb unrhyw gymhlethdodau o gwbl na rheidrwydd i ofyn ymlaen llaw am gael siarad Cymraeg. Dim ond un cam ymhellach fyddai ymestyn yr arfer hwn i Lysoedd y Goron mewn achosion troseddol. Yn wir, yn hyn o beth gwnaed paratoadau dros y blynyddoedd diwethaf. Cynhaliwyd achosion ffug gan wasanaeth y llysoedd i gyfreithwyr ymarfer siarad Cymraeg ac i ddod yn fwy rhugl yn y derminoleg ac yn iaith y llysoedd.[43] Os yw'r cyfreithwyr yn gyfarwydd â siarad Cymraeg mewn achosion, a'r diffynnydd a'r tystion yn dymuno siarad Cymraeg, ni fydd rheithgor dwyieithog ond un cam pellach i sicrhau bod pawb yn cael cyfiawnder ac yn gallu arfer eu hawliau iaith.

Yn ddiweddar cafwyd cynnydd yn y galw am gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, a hynny achos bod barnwyr yn tybio i dystion a groesholir yn Saesneg gael eu temtio i ateb yn Saesneg, hyd yn oed pan mae cyfieithydd yn bresennol.[44] Ceisia'r llysoedd roi chwarae teg i'r tyst trwy ei groesholi yn yr iaith y mae'n fwyaf cartrefol ynddi. Er nad yw o hyd yn ofynnol yn statudol i farnwyr siarad Cymraeg, ac er mai Saesneg yw iaith y llysoedd o hyd (heblaw pan drefnir yn wahanol), mae'r ymdrechion i gael gwell statws i'r iaith, i hyfforddi'r cyfreithwyr

[41] Ibid., t. 11.
[42] Roderick Evans, t. 159.
[43] David Andrews, 'Mock case a real gain for Welsh', *Daily Post,* 1 Tachwedd 2003, t. 17.
[44] Hywel Hughes, Llythyr personol, 12 Mehefin 2006.

yn y Gymraeg ac i geisio cael rheithgorau dwyieithog yn dangos bod y Gymraeg yn ennill tir ym maes y gyfraith. Bu darparu cyfieithu yn fodd i gyrraedd y cyfnod newydd hwn, gan iddo amlygu diffygion y gwasanaeth ar y naill law ond ar y llaw arall godi ymwybyddiaeth o bosibilrwydd cynnal achosion dwyieithog.

## 1.2 Y Gymraeg a chyfieithu yn y sector gyhoeddus

Telid cryn sylw i gyfieithu mewn llysoedd barn ers dechrau'r ymgyrchoedd dros y Gymraeg yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Diau bod y pwyslais hwn yn deillio o'r cysylltiad amlwg rhwng y llysoedd a hawliau yn gyffredinol, gan mai'r llysoedd sy'n cynrychioli cyfundrefn gyfiawnder y wlad. Yn yr ugeinfed ganrif, fodd bynnag, gwelwyd symudiadau mewn meysydd eraill yng Nghymru i gael rhagor o wasanaethau cyfieithu.

Gyda'r cynnydd mewn cyfathrebu rhyngwladol ac amlieithog yn yr ugeinfed ganrif ac yn enwedig wedi'r Ail Ryfel Byd, gwelwyd cynnydd cyflym yn yr angen am gyfieithwyr llafar cymwys a medrus. Datblygodd cyfieithu ar y pryd yn enwedig yn ystod treialon Nürnberg ym 1946, er y datblygwyd y dechnoleg i gyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd pan oedd siaradwyr o nifer o ieithoedd yn dod at ei gilydd yng Nghyngrair y Cenhedloedd a'i chwaer-sefydliadau. Mae'r offer cyfieithu sydd ar gael heddiw – gyda bwth gwrthsain, clustffonau a botwm i ddewis iaith – yn deillio o'r offer a ddefnyddiwyd gyntaf yn y treialon troseddau rhyfel yn Nürnberg rhwng 1946 a 1949 ac a ddatblygwyd gan *International Business Machines* (IBM) a Léon Dostert, prif gyfieithydd yr Unol Daleithiau ar y pryd.[45] Yng Nghymru, gan mai rhwng dwy iaith yn unig y cyfieithid, parheid i gyfieithu yn olynol (fesul cymal) tan y 1970au pan osodwyd yr offer cyfieithu ar y pryd cyntaf yn rhai o siambrau'r awdurdodau lleol ac mewn sawl llys. Nid oedd offer cyfieithu mwy hyblyg a symudol (fel ag y defnyddir gan amlaf mewn cyfarfodydd yng Nghymru heddiw) ar gael tan ddiwedd y 1980au.[46] Eto, ar y lefel ryngwladol, fel yng Nghymru, roedd darpariaeth gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion y dydd yn hytrach na dilyn fframwaith polisi penodol.

---

[45] Ruth Roland, *Interpreters as Diplomats: A Diplomatic History of the Role of Interpreters in World Politics* (Ottawa, 1999), tt. 126-28.
[46] Marian Pritchard, Ebost bersonol, 3 Mawrth 2008.

Yn ystod chwedegau a saithdegau'r ugeinfed ganrif, pasiwyd nifer o ddeddfau a gâi effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn gyhoeddus, ac ar faint o gyfieithu yr oedd ei angen. Roedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 yn cyfreithloni defnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus i raddau, er enghraifft, mewn cyswllt ag awdurdodau lleol. Pwysicach i ddatblygiad cyfieithu oedd Deddf Llywodraeth Leol 1972 a aildrefnodd y cynghorau lleol yng Nghymru. Yn sgil y ddeddf honno penderfynodd rhai o'r cynghorau Cymreiciaf wneud y Gymraeg yn fwy amlwg wrth ddelio gyda'r cyhoedd ac yn eu gweinyddiaeth fewnol. Golygodd hyn gynnydd aruthrol yn y galw am gyfieithwyr.

Cyn hynny, cyflogwyd y cyfieithydd cyntaf yn y sector gyhoeddus yng Nghymru gan y Swyddfa Gymreig ym 1966. Erbyn dechrau'r 1970au, roedd tîm o wyth cyfieithydd yn gweithio i'r Swyddfa Gymreig, ynghyd â phanel o ymgynghorwyr a drafodai dermau newydd gweinyddiaeth gyhoeddus. 'Whitehall Welsh' oedd y llysenw ar y math o Gymraeg newydd a fathwyd yn y cyfnod hwnnw.[47] Ond roedd y byd cyfieithu cyhoeddus yn dal yn fach, gyda dau gyfieithydd arall yn cael eu penodi gan Goleg y Drindod ym 1971 i gyfieithu gwerslyfrau a deunyddiau addysg.[48]

Yn ddiweddarach yn y saithdegau, gwelwyd ffrwyth ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac eraill i gael arwyddion priffyrdd yn ddwyieithog, ac fe osodwyd arwyddion swyddfeydd y Post Brenhinol yn ddwyieithog.[49] Camau pwysig oedd y rhain wrth frwydro dros y Gymraeg, ac o ganlyniad iddynt fe gynyddodd y galw am gyfieithu dogfennau ac arwyddion. Cyngor Sir Gwynedd oedd y corff mwyaf blaengar o safbwynt cyfieithu mewn materion cyhoeddus, ac nid dim ond cwrdd â'r galw yr oedd, eithr gosod polisi o ddwyieithrwydd gweithredol ar ei draed. (Cyn hynny, cafwyd rhywfaint o gyfieithu llafar ac ysgrifenedig yn yr hen gynghorau sir Caernarfon a Môn ers y 1960au, ond nid oedd yn ddigon i gyfiawnhau penodi cyfieithydd bryd hynny.) Felly, am y tro

[47] Berwyn Prys Jones, 'Hanes cyfieithu yng Nghymru', Papur a gyflwynwyd i Gynhadledd 'Cerrig Milltir' y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth, 30 Mehefin 2005, <http://www.cyfieithwyrcymru.org.uk/cymraeg/adnodd/darlithoedd.asp> [30 Mai 2006], (t. 5).
[48] Berwyn Prys Jones, 'Translation in Wales', t. 4.
[49] Gweler e.e. y ddwy erthygl gan Marion Löffler, 'Mudiad yr Iaith Gymraeg yn Hanner Cyntaf yr Ugeinfed Ganrif: Cyfraniad y Chwyldroadau Tawel', tt. 173-206, a 'Mudiad yr Iaith Gymraeg a Dwyieithrwydd: Beth All Cymdeithasau Lleol ei Gyflawni?', tt. 473-506, neu erthygl Dylan Phillips, 'Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962-1998', tt. 445-472, y tri ohonynt yn '*Eu Hiaith a Gadwant?' Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, gol. Geraint Jenkins a Mari Williams (Caerdydd, 2000).

cyntaf ym 1974, fel rhan o'i bolisi iaith newydd, penododd Cyngor Sir Gwynedd brif gyfieithydd profiadol a thri chyfieithydd i weithio gydag ef. Dilynodd rhai o'r cynghorau dosbarth a bwrdeistref ei esiampl, gan un ai gyflogi cyfieithydd neu gomisiynu cyfieithiadau gan gyfieithwyr allanol.[50]

Yng Ngwynedd hefyd y cafwyd arloesi ym maes cyfieithu ar y pryd. Unwaith yr oedd y cynghorau lleol wedi eu haildrefnu ym 1974, penderfynodd Cyngor Sir Gwynedd ac ambell gyngor dosbarth neu fwrdeistref gynnal rhai o'u cyfarfodydd a'u pwyllgorau yn Gymraeg. Cyfieithwyd ar y pryd i'r Saesneg yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Conwy o ddechrau'r saithdegau ymlaen. Yn ogystal, darparodd cyrff eraill wasanaethau cyfieithu ar y pryd o bryd i'w gilydd – er enghraifft, cyfieithid mewn pwyllgorau a drafodai gyfraith yr Eglwys yng Nghymru o 1975 ymlaen ac yng Ngholeg Prifysgol Bangor a Llys Prifysgol Cymru o flynyddoedd olaf y saithdegau ymlaen.[51]

Ond Gwynedd, a'i ymrwymiad cryf i hybu'r Gymraeg, oedd yn dylanwadu fwyaf ar ddatblygu cyfieithu ar y pryd fel proffesiwn yng Nghymru. Yma y meithrinwyd cyfieithwyr proffesiynol cyntaf Cymru, ac yma y datblygwyd cyfieithu fel rhan o bolisi dwyieithrwydd. Byddai profiadau Gwynedd yn allweddol i sefydlu uned gyfieithu newydd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru chwarter canrif yn ddiweddarach.

Ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, mae'r proffesiwn cyfieithu yng Nghymru wedi tyfu o lond llaw o gyfieithwyr i fod yn ddiwydiant sy'n ffynnu.[52] Darganfyddodd astudiaeth ddiweddar y ffaith ddiddorol bod cyfieithu yn ddull poblogaidd o sefydlu busnes yng Nghymru, a hynny ymhlith dosbarth sydd fel arfer yn amharod i fentro sefydlu busnes.[53] Ar y cyfan, mae'n well gan siaradwyr Cymraeg addysgiedig ddibynnu ar y sector gyhoeddus am waith. Ond gwelant gyfieithu yn ddelfrydol fel gwaith hunangyflogedig. Mae sawl rheswm dros hyn. Yn un peth, mae gorbenion isel yn lleihau'r risg. A chyda thechnoleg gyfrifiadurol (gan gynnwys e-bost), mae'n bosibl aros mewn ardal wledig a gweithio o'r cartref.

[50] Delyth Morris, 'Yr Iaith Gymraeg a Chynllunio Awdurdodau Lleol yng Ngwynedd 1974-1995', yn *'Eu Hiaith a Gadwant?' Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, gol. Geraint Jenkins a Mari Williams (Caerdydd, 2000), tt. 562-63.
[51] Enid Pierce Roberts, 'The Welsh Church, Canon Law and the Welsh Language', t. 166.
[52] Darganfu Menter a Busnes 900 o gyfieithwyr er pwrpas eu *Arolwg o'r Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru* (Aberystwyth, 2005).
[53] Siwan Davies, 'Arolwg o'r Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru' (Traethawd MscEcon., Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2003).

Hefyd, mae cyfieithu yn boblogaidd gyda mamau ifanc sy'n dymuno gweithio'n rhan-amser tra magant blant, neu gyda'r sawl sy'n ailgyfeirio eu gyrfa ar ôl gweithio mewn maes arall (er enghraifft ym myd addysg). Rheswm arall yw'r syniad poblogaidd bod cyfieithu yn fusnes sydd yn mynd i fod o fudd i'r fro Gymraeg. Yn ôl yr astudiaeth, y gred gyffredin (gamarweiniol, efallai), yw bod llwyddiant mewn busnes rywsut yn mynd yn groes i 'egwyddorion' cymunedol Cymraeg. Ymddengys mai pwysicach na hawliau neu lwyddiant yr unigolyn yw gwerthoedd y gymuned i lawer. Hwyrach y deillia'r agwedd hon o'r profiad bod nifer o fusnesau'n cael eu rhedeg gan Saeson a heb fod yn cydweddu â'r gymuned (ac weithiau hyd yn oed yn wrthwynebus i'r iaith Gymraeg). Ond fe all busnes cyfieithu fod o wasanaeth i'r gymuned, gan hybu'r Gymraeg a dod â chyflogau i mewn ar yr un pryd.[54]

Achoswyd y newid mwyaf mewn agweddau ac arferion iaith unigolion a sefydliadau trwy basio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. (Erbyn heddiw, cyfyd llawer o leisiau yn gofyn am ddeddf newydd, gan nad ystyriant Ddeddf 1993 yn ddigon grymus. Er bod sôn yn y ddeddf am 'gyfartaledd' y ddwy iaith, nid yw hyn yn cyfeirio ond at y gwasanaethau cyhoeddus.) O safbwynt cyfieithu, golyga'r gofynion statudol fod llawer mwy o alw am gyfieithu taflenni, llythyrau a dogfennau o bob math ers pasio'r ddeddf. Yn yr ardaloedd mwyaf Cymraeg, darperir yr holl ddeunyddiau yn ddwyieithog yn ddiwahân, tra mae siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd eraill yn fwy tebygol o orfod gofyn am fersiynau Cymraeg o ddogfennau. Yn y naill achos a'r llall, rhaid cael cyfieithwyr a all drosi o un iaith i'r llall yn gyflym ac yn gywir. Mae gan oddeutu deg o awdurdodau lleol eu hunedau cyfieithu eu hunain erbyn hyn.[55] Penoda'r cynghorau eraill gyfieithwyr allanol i weithio iddynt pan gyfyd y galw.

Pan gyhoeddwyd *Iaith Pawb*, strategaeth weithredol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Gymraeg yn 2002, bu gobaith ymhlith caredigion yr iaith Gymraeg y byddai'r papur hwn yn ychwanegu mewn ffordd ymarferol at Ddeddf Iaith 1993, gan ddangos ymrwymiad y Llywodraeth i iaith gynhenid Cymru. Cyhoeddwyd y ddogfen cyn i ganlyniadau cyfrifiad 2001 fod ar gael, ond tybid y

[54] Siwan Davies, t. 17.

[55] Môn, Gwynedd, Conwy, Fflint, Powys, Caerffili, Ceredigion, Caerfyrddin, Abertawe a Chastell Nedd/ Port Talbot, Caerdydd. Mae Mynwy a Thorfaen yn rhannu cyfieithydd allanol sy'n gweithio iddynt hwy yn unig.

byddai niferoedd y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu yn ne a dwyrain Cymru. A hynny wedi ei gadarnhau,[56] mae ymgyrchwyr iaith yn dal yn gyndyn i orffwys ar eu rhwyfau. Mae Colin Williams yn asesu effaith a grym *Iaith Pawb*, gan ddod i'r casgliad bod angen newid mawr yn y system addysg i gynnal y niferoedd o siaradwyr Cymraeg newydd sydd ar y cyfan yn blant a phobl ifanc ac yn dal mewn ysgolion neu golegau.[57] Rhaid cynnig mwy o bynciau yn Gymraeg, ac i wneud hynny mae angen mwy o ddeunyddiau dysgu Cymraeg a mwy o athrawon. Yn ôl Williams, mae angen newid chwyldroadol i annog siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith i wneud eu dewis o blaid y Gymraeg. Ond mae'n cydnabod hefyd nad oes modd dewis iaith ym myd gwaith, hamdden na gwasanaethau amrywiol eraill hyd yn hyn. Ond y rhain, yn anad dim, yw'r meysydd allweddol sy'n mynd i ganiatáu i'r plant sy'n dysgu Cymraeg barhau i fyw eu bywydau yn Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol. Prydera Colin Williams am ddwy ffactor a allai danseilio hygrededd gwleidyddol *Iaith Pawb*. Yn gyntaf, meddai, os na ellir sicrhau ffyniant economaidd a chymdeithasol y fro Gymraeg, bydd y cnewyllyn o siaradwyr Cymraeg yn ei hamgylchfyd *naturiol* yn lleihau ac yn peryglu sefyllfa'r iaith yn ei chadarnleoedd. Ac yn ail, rhaid ystyried ymateb y mwyafrif Saesneg yng Nghymru i dargedau *Iaith Pawb*. Siomedig, medd Williams, yw'r ffaith nad yw *Iaith Pawb*, er ei bod yn trafod mesurau i droi darparu cyfleoedd i siarad Cymraeg yn arfer cymdeithasol, yn dangos digon o ewyllys wleidyddol i lunio a gweithredu strategaeth gynhwysol a radical.

O safbwynt cyfieithu, gellir dadlau bod cyflogi cyfieithwyr ar y pryd yn ddull effeithiol i alluogi'r arfer o siarad Cymraeg barhau pan na fyddai hyn yn bosibl heb gyfieithu, a thrafodir yn ail ran yr ymchwil hwn swyddogaeth cyfieithu ar y pryd wrth anelu at gynnal siarad Cymraeg fel arfer cymdeithasol.

### 1.3 Cyfieithu ers dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r Cymry yn edrych at y Cynulliad Cenedlaethol am arweiniad clir mewn sawl maes, gan gynnwys polisïau iaith. Yn sicr, o safbwynt cyfieithu, bu sefydlu'r

[56] Am y tro cyntaf ers canrif, cododd canran siaradwyr Cymraeg o'r boblogaeth o 18.7% i 20.8%. Mwy o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac addysg Gymraeg ail iaith sy'n bennaf gyfrifol am y newid hwn.
[57] Colin Williams, '*Iaith Pawb:* The Doctrine of Plenary Inclusion', *Contemporary Wales 17* (2004), t. 6.

Cynulliad ym 1999 yn gyfle unigryw i sefydlu gwasanaeth cyfieithu blaengar trwy ddod â holl arferion da Cymru a thu hwnt at ei gilydd. Tan hynny, nid oedd cynllunwyr iaith wedi ystyried o ddifrif ddulliau cyfieithu fel rhan o'r broses o hyrwyddo iaith. Yn y cyfnod allweddol hwn roedd diffyg profiad o gyfieithu gan gynllunwyr iaith yn rhwystro cyfarwyddyd sicr yn ei gylch. Ceid cyngor gwerthfawr gan gyfieithwyr Gwynedd a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ond gyda'r uned gyfieithu newydd gymaint yn fwy nag unedau'r awdurdodau lleol, a chanran siaradwyr Cymraeg ymhlith y gwasanaeth sifil gymaint yn is na'r canran ymhlith awdurdodau lle bu cyfieithu'n llwyddiannus, anodd oedd gwybod beth yn union fyddai ei hanghenion.

Erbyn 2006, rhannwyd yr uned yn uned gyfieithu seneddol, sef yr uned sy'n gweithio i aelodau a swyddogion y Cynulliad, a gwasanaeth cyfieithu i Lywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal â'u gwaith amlwg o gyfieithu ar y pryd yn y siambr a chyfieithu dogfennau a gynhyrchir o ddydd i ddydd, mae'r cyfieithwyr yn cynnig gwasanaeth gwirio testun i weithwyr y Cynulliad sy'n ysgrifennu yn Gymraeg ond nad ydynt yn ddigon hyderus i gyhoeddi'r hyn a ysgrifennant. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r gweithlu ymgyfarwyddo â therminoleg, ac i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau iaith wrth eu gwaith. Cydweithia'r cyfieithwyr hefyd â swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wrth ddrafftio is-ddeddfwriaeth.[58] Er hynny, lleisiwyd pryder ers y dechrau, bron, bod cyfieithu pob testun a phob dogfen yn gwastraffu adnoddau, ac y dylid 'blaenoriaethu' cyfieithu yn y Cynulliad. Gwelid cyfieithu'r cofnod yn 'sumboleiddiaeth di-fudd' hyd yn oed gan John Walter Jones, cyn-Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a Dafydd Elis Tomos, Llywydd y Cynulliad.[59] Y ddadl yw nad oes pwrpas cyfieithu dogfennau na chânt eu darllen byth (er mai teg fyddai holi faint o'r dogfennau Saesneg a ddarllenir?!). Ond hyd yn oed os na chaiff y dogfennau eu darllen, bydd eu cyfieithu yn hollbwysig wrth ddatblygu termau technegol ac ymadroddion priodol, wrth ymestyn arddull yr iaith, ac yn achlysurol wrth gytuno ar orgraff a gramadeg.[60] Blaenoriaethu cyfieithu oedd argymhelliad Bwrdd yr Iaith Gymraeg gerbron y Pwyllgor

---

[58] Pwyllgor Diwylliant, CC-9-02 (min) Mercher 1 Mai 2002, <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-first/bus-committees-first-cc-home/bus-committees-first-cc-agendas.htm?act=dis&id=10063&ds=5/2002> [5 Mehefin 2008], (t. 3).

[59] Garmon Rhys, 'Dim Cymraeg i'r Llywydd?' *Golwg*, 10 Awst 2000, t. 8.

[60] Helena Ní Ghearáin, 'Yr Iaith Wyddeleg a'r Gyfraith: rhai materion o ran statws a chorpws', *Cambrian Law Review 38* (2007), tt. 1-38.

Diwylliant yn 2001.[61] Er enghraifft, fe ddywedwyd na ddylid cyfieithu datganiad i'r wasg bum niwrnod ar ôl cyhoeddi'r fersiwn Saesneg.[62] (Dyna oedd yr amser a gymerid, fel arfer, i gyfieithu unrhyw destun.) Cafwyd galwadau yn gyson ers sefydlu'r Cynulliad am gyhoeddi'r fersiwn Cymraeg o unrhyw destun ddim mwy na phedair awr ar hugain ar ôl yr un Saesneg. Fodd bynnag, ymddengys bod baich gwaith cyfieithwyr yn rhy drwm i gydymffurfio â'r gofyn hwn.[63]

Yn wir, dylid holi beth yn union yw bwriad blaenoriaethu cyfieithu. Ai cynyddu gweithio yn ddwyieithog o fewn y Cynulliad, ynteu gweithio mwy yn Gymraeg? Os mai'r bwriad yw creu mwy o weinyddu dwyieithog, rhaid ystyried faint mwy o amser sydd ei angen i bob gweithiwr allu gwneud hynny, heb sôn am amser y cyfieithwyr ar gyfer prawfddarllen testunau Cymraeg. Os mai gweinyddu yn y Gymraeg yw'r bwriad, rhaid ailgyfeirio adnoddau i hyfforddi staff i ysgrifennu a siarad Cymraeg yn hyderus. Gyda threigl amser, gall hyn fod yn llwyddiannus, fel y dengys profiad Gwynedd lle mae arferion ysgrifennu Cymraeg wedi newid, i raddau. Mae mwy o weithwyr bellach yn ysgrifennu yn Gymraeg eu hunain, ac mae llai o alw am gyfieithu i'r Gymraeg. Yn hytrach na chyfieithu felly, mae'r cyfieithwyr yn golygu a phrawfddarllen llawer yn rhagor o ddogfennau.[64] Ond os yw'r bwriad o arbed arian yn cwtogi ar yr hyn sydd ar gael yn Gymraeg, mae'r blaenoriaethu yn tanseilio polisi iaith y Cynulliad. Gwraidd y broblem, yn ôl llefarydd ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, yw bod y Cynulliad yn gweithredu yn Saesneg ac felly yn ystyried cyfieithu i'r Gymraeg yn faich ychwanegol.[65]

Ar y cyfan, ni chaiff cyfieithu ar y pryd yng Nghymru gymaint o sylw yn y drafodaeth gyhoeddus â chyfieithu testun, er ei fod yn cyfateb i 9% o holl wasanaethau cyfieithu yn y wlad.[66] Mae'n bosibl mai natur lafar cyfieithu ar y pryd sydd i gyfrif am hynny: haws yw beirniadu cyfieithiadau gwael ar arwyddion

---

[61] Pwyllgor Diwylliant, CC-7-01(p.2)(min) Mercher 2 Mai 2001, <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-first/bus-committees-first-cc-home/bus-committees-first-cc-agendas.htm?act=dis&id=9657&ds=5/2001> [5 Mehefin 2008], (t. 2).
[62] Ibid., t. 4.
[63] Dewi Hughes, 'Yr iaith yn rhy gostus', *Yr Herald*, 12 Awst 2000, t. 3.
[64] Patrick Carlin, 'Camau dros hyrwyddo'r Gymraeg mewn dau awdurdod unedol yng Nghymru: Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion', (Traethawd MA, Prifysgol Aberystwyth, 2004), t. 34.
[65] Dewi Hughes, t. 3.
[66] Menter a Busnes, t. 8.

neu mewn dogfennau.[67] Cyhoeddwyd erthygl yn *Barn* yn 2000 lle'r oedd Iwan Stanley yn edrych ar faint o Gymraeg a siaredid yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynulliad newydd.[68] Mae hyn yn ei dro yn arwydd o faint o gyfieithu oedd ei angen. Yn anffodus, cyfrifwyd y geiriau yn hytrach na nifer y cyfraniadau Cymraeg i'r drafodaeth. Nid ystyriwyd bod rhai cyfraniadau'n llawer yn hwy na'i gilydd. O graffu ar gofnod sesiynau'r Cynulliad, sylwir ar duedd i ateb cwestiwn Cymraeg yn Gymraeg, a chwestiwn Saesneg yn Saesneg.

Ond ai dyna'r arfer gorau? Os am osod esiampl i'r genedl ynghylch defnyddio cymaint o Gymraeg â phosibl, byddai caredigion yr iaith yn dadlau y gellid disgwyl i aelodau'r corff cyhoeddus sydd â'r gwerth symbolaidd mwyaf i hunaniaeth y genedl fod yn fwy arloesol a siarad Cymraeg gymaint ag y bo modd. Byddai hyn yn ddefnydd o gyfieithu gyda mwy na gwerth symbolaidd iddo.

Unwaith eto, gwelir yr un tueddiad i beidio ag ystyried a thrafod holl fater cyfieithu mewn cyfarfodydd dwyieithog y tu hwnt i ddarparu, yn ddamcaniaethol, cyfle i unigolion siarad Cymraeg. Ni osodwyd y ddarpariaeth hon o fewn cyd-destun statws, agweddau ac arferion siaradwyr y ddwy iaith.

Rhaid wrth anogaeth bositif a gosod esiampl i newid agweddau. Hoffai ymgyrchwyr dros yr iaith Gymraeg weld y Cynulliad yn gosod esiampl, gan argyhoeddi'r Cymry bod y Gymraeg yn werth cymaint â'r Saesneg a'i bod yn iaith ddilys wrth drafod gwleidyddiaeth y Cynulliad. Gellid disgwyl i gadeiryddion cyfarfodydd o leiaf, yn ogystal â'r Prif Weinidog, siarad Cymraeg yn gyson (a chymryd ei f/bod yn medru'r iaith). A byddai hyn yr un mor ddisgwyliedig gan gyrff cyhoeddus eraill.

Cyflwynwyd dadl bellach gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, sef y ddadl dros gael cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg, yn ogystal ag o'r Gymraeg i'r Saesneg, ym mhwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol. Fel arall byddai cael dogfennau Cymraeg yn ofer:

> On a practical level, in the committees, when dealing with the minutiae of secondary legislation, members using the papers in Welsh will either have to translate for themselves (half member, half translator?), or use the English set when English is spoken and the Welsh set otherwise.[69]

[67] Gweler casgliad o arwyddion wedi eu camgyfieithu neu gyda gwallau argraffu: <http://www.flickr.com/groups/scymraeg/pool/>.
[68] Stanley, 'Dilyn tynged y Wyddeleg: Yr Iaith yn y Cynulliad', *Barn*, Mehefin 2000, tt. 25-28.
[69] Elin Haf Gruffydd Jones, 'Bilingualism in the Assembly', *Planet 131* (1998), t. 79.

Erbyn hyn, mae galwadau o'r fath wedi distewi gan ei bod yn ddigon anodd cael pawb i gytuno ar gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg o gwbl.

Ar y cyfan, felly, gwrthwynebir 'gormod' o gyfieithu yn y Cynulliad Cenedlaethol, ond hefyd yng Nghymru'n gyffredinol, ar sail y gost. Mae'r ddadl hon yn un gyfarwydd ar lefel yr Undeb Ewropeaidd. Pan oedd pymtheg gwlad yn aelodau o'r Undeb cyn 2004, roedd cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn costio €1.82 y pen y flwyddyn, ac ar y cyfan nid oedd hyn yn fwy na 0.8% o gyllideb yr Undeb.[70] Erbyn 2008 siaredir 23 o ieithoedd, ond ni chafwyd ond cynnydd bychan yn y gost (sef €2.50 y pen, 1% o'r gyllideb gyfan).[71] Er hynny, mae anfodlonrwydd gyda threfn y cyfieithu yn yr Undeb ar hyn o bryd. Cyfieithir dogfennau na welant fyth mo olau dydd, a chyflogir cyfieithwyr ar y pryd i fynychu cyfarfodydd gan swyddogion nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny wedi'r cwbl, ac felly heb ddefnyddio'r gwasanaeth![72] Mae rhesymeg economaidd bob amser yn ymddangosiadol gryf, ac nid yw'n hawdd dadlau yn erbyn lleihau costau. Ond mae David Crystal yn defnyddio dadl economaidd arall, gan awgrymu mai'r gwrthwyneb yw profiad busnesau. Mae gwybodaeth o ieithoedd yn helpu ac yn hybu masnach, ac os yw hyn yn wir am ieithoedd tramor, pam na ddylai fod yn wir ar gyfer yr ieithoedd brodorol?[73] 'Languages are lubricants of trade', meddai Arcand yntau,[74] a chadarnhawyd hyn gan yr astudiaeth Ewropeaidd ELAN yn 2006. Yn ôl yr astudiaeth honno, *Effects on the European Economy of Shortages of Foreign Language Skills in Enterprise*, collodd un ar ddeg y cant o fusnesau bach Ewrop archebion oherwydd na lwyddwyd i ymateb i anghenion ieithyddol eu cwsmeriaid.[75] Dyna'r ddadl y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei defnyddio wrth geisio perswadio busnesau yng Nghymru eu bod yn ennill teyrngarwch cwsmeriaid trwy ddefnyddio'r Gymraeg, ac nid cynyddu eu costau yn unig. Gan nad yw busnesau dan ofynion statudol i ddefnyddio'r Gymraeg, ceisir dwyn perswâd arnynt fod synnwyr busnes yn awgrymu'n gryf y bydd y Gymraeg o fantais, ac nid yn gost ariannol iddynt.

---

[70] François Grin, 'Economic Considerations in Language Planning', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, gol. Thomas Ricento (Rhydychen, 2006), t. 88.
[71] Kirsten Wörnle, 'Im Babel der Neuzeit', *GEO Wissen 40* (2007), t. 143.
[72] Nicholas Watt, 'Lost in translation: £17m of taxpayers' money for EU interpreters who are not needed', *Guardian*, 31 Awst 2006, t. 19.
[73] David Crystal, *Language Death* (Caergrawnt, 2000), t. 30.
[74] Jean-Louis Arcand, 'Development economics and language: the earnest search for a mirage?' *International Journal of the Sociology of Language 121* (1996), t. 121.
[75] Wörnle, t.142.

Y ddadl economaidd sydd hefyd y tu cefn i'r drafodaeth ynghylch blaenoriaethu cyfieithu, sef torri lawr ar waith cyfieithu mewn geiriau eraill. Rhaid dewis pa beth a gyfieithir ar sail nifer y darllenwyr neu'r defnyddwyr tebygol, a hynny o fewn sefydliadau, yn gymaint ag ar gyfer y cyhoedd. Mae pob polisi cyfieithu yn ystyried dewis testunau i'w cyfieithu, ac yn cael ei feirniadu ar sail y rhesymau sydd y tu ôl i'r dewis.[76]

Un economegydd sy'n lleisio ei amheuaeth am y ddarpariaeth gyfieithu yng Nghymru yw Roy Thomas, ac mewn un lle defnyddia enghraifft o'r maes iechyd. Yn ei dyb ef, nifer fach o bobl yn unig sy'n darllen dogfennau Cymraeg y Gwasanaeth Iechyd. Nid eu hanallu i ddarllen Cymraeg sy'n gyfrifol am hynny, ond bod darnau lled dechnegol eu cynnwys wedi eu trosi mewn modd annealladwy. Hola Thomas a oes ymgynghori rhwng yr awduron a'r cyfieithwyr wrth gynhyrchu'r testunau hynny.[77] Mae'n sefyll i reswm bod angen ysgrifennu a chyfieithu mewn arddull sy'n addas i'r darllenwyr, ac os nad yw testun yn ddealladwy, mae'n deg awgrymu bod hyn yn wastraff arian ac amser.

Pwynt y ddadl hon yw bod cyfieithwyr – ar y cyd â gweinyddwyr – wedi creu eu hiaith eu hunain nad oes neb arall yn ei deall. Os am annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, oni ddylid ei gwneud hi'n haws darllen dogfennau Cymraeg?[78]

Ond nid peidio â chyfieithu yw'r ateb. Rhaid darparu gwell hyfforddiant i gyfieithwyr i ddiogelu'r safon angenrheidiol a'r gallu i ysgrifennu yn y cywair a'r arddull berthnasol.

Beirniadaeth arall gan Roy Thomas yw bod rhai sefydliadau yn cyfieithu pob dogfen heb eithriad. Pam, gofynna, y cyfieithir llythyrau o'r Gymraeg yn yr awdurdodau lleol Cymreiciaf lle nad oes gwir angen fersiwn Saesneg? Os mai egwyddor dwyieithrwydd yw defnyddio'r ddwy iaith ar bob cyfrif ar bob achlysur, waeth faint o siaradwyr Cymraeg sydd yna, ni wêl y bydd hyn o fudd i'r Gymraeg:

---

[76] Gweler Marta García González, 'Translation of minority languages in bilingual and multilingual communities', yn *Less Translated Languages*, gol. Albert Branchadell a Margaret West (Amsterdam, 2005), t. 108.

[77] Roy Thomas, *Datganiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol.* Pwyllgor Diwylliant, CC-3-02(p.4) 23 Ionawr 2002, <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-first/bus-committees-first-cc-home/bus-committees-first-cc-agendas.htm?act=dis&id=9750&ds=1/2002> [5 Mehefin 2008], (t. 2).

[78] Dyna fu'r ddadl dros sefydlu 'Cymraeg Clir'. Gweler Cen Williams, *Cymraeg Clir: Canllawiau Iaith* (Bangor, 1999).

'Bu llawer o sôn am normaleiddio'r Gymraeg, ond prin y gallai unrhyw un honni fod y sefyllfa hon yn un normal!'[79]

Yn ôl arolwg gan ymgynghorwyr busnes Menter a Busnes a wnaethpwyd ar gais Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, fodd bynnag, mae 52% o'r sawl a gomisiynodd waith i'w gyfieithu yn disgwyl y byddant yn cyfieithu mwy yn y dyfodol, nid llai.[80] A dim ond 17% o'r sawl a holwyd a dybiai y byddent yn cynhyrchu mwy o ddogfennau yn Gymraeg eu hunain. Amlyga'r ffigyrau hyn broblem arall ynglŷn â chyfieithu. I lawer o sefydliadau a busnesau, cyfieithu yn ôl yr angen yw eu hunig ateb i'r galw am fod yn fwy dwyieithog. Nid oes ymwybyddiaeth y gall cydweithio hirdymor gyda chyfieithwyr wella sgiliau ysgrifennu Cymraeg, heb sôn am greu awyrgylch a fyddai'n hwyluso mwy o ddefnydd o'r iaith gan yr holl weithlu. Yn hytrach, ystyrir bod pasio dogfennau ymlaen at gyfieithydd yn ffordd hawdd o fod yn ddwyieithog, heb orfod meddwl sut i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg gan weithwyr, rheolwyr a chwsmeriaid yn holl brosesau'r gwaith a'r busnes.

Gall beirniadu cyfieithu a chyfieithwyr ddod o'r ddwy ochr. Ar y naill law, fe gyhuddir cyfieithwyr o fod yn buryddion iaith sy'n feirniadol o wallau mân, gan wrthod derbyn bod yr iaith yn newid. Gall hyn greu teimlad ymysg pobl nad yw eu Cymraeg yn ddigon da, ac o ganlyniad byddant yn gyndyn i siarad Cymraeg yn gyhoeddus. Ar y llaw arall, fe'u gelwir yn dreiswyr iaith achos eu bod yn creu iaith (weinyddol) newydd nad yw pobl eraill yn ei deall, ac felly, unwaith eto, heb fod yn hyrwyddo siarad Cymraeg. Os nad yw siaradwyr Cymraeg yn teimlo mai eu hiaith hwy sydd yn y dogfennau ac yn y cyfryngau, nid oes rhyfedd eu bod yn colli eu hyder wrth siarad Cymraeg yn gyhoeddus. Rhaid defnyddio i'r eithaf y galluoedd a'r wybodaeth sydd gan gyfieithwyr er mwyn ei gwneud yn bosibl i fathu terminoleg newydd na fydd yn gwneud i'r iaith swnio'n rhy ddieithr i siaradwyr Cymraeg.

I ganiatáu hynny, fodd bynnag, rhaid cael gweledigaeth glir o rôl y cyfieithydd yn y cyd-destun o hyrwyddo iaith leiafrifol. I'r sawl sy'n cyfieithu er mwyn codi'r defnydd o'r iaith leiafrifol, gallai strategaeth fod yn fuddiol. Byddai holl waith cyfieithwyr yn rhan o symudiad ehangach i hybu'r Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymhél â chyfieithu yn bennaf o safbwynt safoni

[79] Roy Thomas, *Datganiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Diwylliant,* t. 3.
[80] Menter a Busnes, tt. 14-15.

terminoleg a pheirianneg a thechnoleg cyfieithu. Bu yn arafach wrth gydnabod rôl cyfieithwyr yn y broses o gynllunio iaith yn fwy cyffredinol. Dim ond yn 2006 y lansiwyd strategaeth genedlaethol ar gyfer cyfieithu sy'n gosod rôl y proffesiwn o fewn cyd-destun cynllunio ieithyddol – er bod Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi datgan hyn fel ei phrif fwriad ers blynyddoedd.[81] Y sialens yw sefydlu cyfieithu, nid fel ymateb pytiog i anghenion dwyieithrwydd ar fyr rybudd, ond fel modur i gyrraedd sefyllfa ddwyieithog.

### 1.4 Y drafodaeth gyhoeddus ar gyfieithu

Wrth edrych yn fanylach ar y feirniadaeth amrywiol ar gyfieithu yng Nghymru, gwelir bod pryder ynghylch diffyg safon wrth wraidd llawer ohoni. Mewn nifer o achosion, diffyg amser yw'r rheswm am gyfieithu gwael. Pan fo amser yn brin, mae cyfieithwyr mewn peryg o beidio ag ymgynghori ag arbenigwyr i gael y derminoleg gywir, a'r canlyniad yw bod cyfieithiadau bras yn cael eu cyhoeddi yn hytrach na fersiynau awdurdodedig. Er sefydlu rhwydwaith trafod terminoleg ymysg cyfieithwyr, *Welsh-Termau-Cymraeg*, ym 1998, fodd bynnag, mae cyfieithwyr wedi elwa ar brofiadau ei gilydd.[82] Pan sefydlwyd cronfa dermau'r Cynulliad, *TermCymru*, yn 2004, y bwriad oedd ychwanegu arbenigedd y gwasanaeth sifil at brofiad cyfieithwyr.[83] Wrth gwrs, mae argaeledd adnoddau electronig – fel cronfeydd terminoleg a chof cyfieithu – yn hwyluso'r gwaith. Ni allant, fodd bynnag, wella'r gallu i cyfieithu! Mewn ieithoedd sydd â digon o adnoddau ariannol, mae terminoleg mewn meysydd newydd yn cael ei chreu mewn awyrgylch o'r hyn a eilw Michael Cronin yn 'frictionless monoglossia'.[84] Mae pobl yn gweithio yn eu hiaith, a thrwyddi hi yn datblygu cynnyrch, syniadau a thechnolegau newydd. Siaredir am y pethau newydd yn hollol naturiol yn yr ieithoedd hyn.

Yn groes i hynny, mewn iaith leiafrifol gyda'i diffyg adnoddau a'i diffyg arfer o weithio mewn meysydd newydd yn yr iaith honno, y mae creu iaith neu ieithwedd i gyd-fynd â'r meysydd hynny yn broblem. Ac mae'r baich ychwanegol

---

[81] Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Datblygu'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/Saesneg* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006)
[82] <http://www.jiscmail.ac.uk/lists/welsh-termau-cymraeg.html> [16 Ebrill 2007].
[83] <http://www.termcymru.cymru.gov.uk> [16 Ebrill 2007].
[84] Michael Cronin, 'The Cracked Looking Glass of Servants: Translation and Minority Languages in a Global Age', yn *Translation and Minority*, gol. Lawrence Venuti (Manceinion, 1998), t. 153.

o dreulio gwybodaeth ieithyddol yn cynyddu'r pwysau. Oherwydd amodau gwaith o'r fath, mae perygl i ieithoedd lleiafrifol ddefnyddio termau heb eu cyfieithu.[85] Ond hyd yn oed pan gyfieithir termau newydd, mae tuedd difeddwl i ddilyn union batrwm yr iaith wreiddiol yn hytrach na seilio geiriau ac ymadroddion newydd ar strwythur yr iaith leiafrifol a'i thraddodiad hithau o ffurfio geiriau. Mae'r iaith leiafrifol, o ganlyniad, mewn perygl o golli rhan o'i hanfod: 'Even when they are translated, terms and expressions articulate a world-view, a particular interpretation of events, that cumulatively erase the space of difference between languages.'[86] (Cyfeiria Peter Wynn Thomas at gyfieithiadau Cymraeg gwallus sy'n cael eu derbyn yn ddifeirniadaeth i ymddangos yn gyhoeddus, ar arwyddion er enghraifft. Mae rhai o'r gwallau hyn, meddai, yn digwydd oherwydd yr anwybyddir gwahaniaethau rhwng y ddwy iaith.[87])

Amlygir y broblem hon gan eiriau yn Gymraeg fel 'ffôn symudol'. Os nad ydynt yn gweddu i'r iaith yn naturiol, mae pobl yn fwy tueddol efallai o ddefnyddio'r gair Saesneg, 'mobeil', neu i fathu eu geiriau (lleol) eu hunain, megis 'ffôn bach', ‘ffôn poced', neu 'ffôn lôn'. Ond pan na ddaw creadigaeth o'r fath i fodoli ar lefel cenedlaethol, nid yn unig y mae'r iaith yn colli'r arfer o greu a mabwysiadu geiriau neu ddywediadau i fynegi realiti newydd. Bydd benthyciadau difeddwl yn ei hatal rhag bod yn unigryw (ac felly, o bosibl, yn annog mwy o siarad Saesneg). I Michael Cronin, mae ieithoedd fel drychau:

> Minority languages that are under pressure from powerful major languages can succumb at lexical and syntactic levels so that over time they become mirror-images of the dominant language. Through imitation, they lack the specificity that invites imitation. As a result of continuous translation, they can no longer be translated. There is nothing left to translate.[88]

Gan oedi gyda'r darlun o gyfieithu fel drych, mae Cronin yn cyferbynnu 'translation as reflection' gyda 'translation as reflexion'. Mae'n diffinio'r naill fel y diffyg meddwl wrth drosglwyddo gair neu ymadrodd yn uniongyrchol o un iaith i'r llall. Tra mae'n rhaid pwysleisio y gall hyn gyfoethogi iaith yn achlysurol,

---

[85] Dyna beth sy'n digwydd e.e. yn y Wyddeleg, fel dywed Cronin, ibid., t. 154.
[86] Máirín Nic Eoin a Liam Mac Mathúna, *Ar Thóir an Fhocail Chruinn: Iriseoirí, Téarmeolaithe agus Fadhbanna an Aistriúcháin* (Dulyn, 1997), t. 7. Dyfynnir gan Cronin, 'The Cracked Looking Glass of Servants', t. 154.
[87] Peter Wynn Thomas, 'Cymraeg Swnllyd', *Taliesin* 102 (1998), tt. 39-65.
[88] Cronin, *Translation and Globalization*, t. 141.

mae'r darlun o adlewyrchu yn dangos ei fod yn digwydd bron yn ddifeddwl, oherwydd y golau sy'n syrthio ar y drych, fel petai.

Nid yw benthyg o ieithoedd eraill ei hun yn rhywbeth i'w wrthwynebu, os gwneir hynny mewn ffordd ystyrlon. Mae Jens Jessen, er enghraifft, yn cymharu benthyciadau i'r Almaeneg o ieithoedd tramor (yn y gorffennol), gyda'r benthyciadau i'r Almaeneg o'r Saesneg (yn ddiweddar). Dyma a ddywed ef:

> Die früheren Übernahmen haben das Deutsche komplexer, reicher, intellektueller und expressiver, philosophischer und dichterischer, auch wissenschaftsfähiger gemacht. Unter dem Einfluss des globalisierten Englisch aber vollzieht sich eine geradezu atemberaubende Simplifizierung. Die englischen oder pseudoenglischen Ausdrücke kommen nämlich nicht einfach hinzu, sie ersetzen auch nicht nur deutsche Wörter, was schlimmstenfalls überflüssig wäre. Sie verdrängen vielmehr die natürliche Wortbildung des Deutschen, die keinerlei Schwierigkeiten mit Neologismen hätte.[89]

Mae Cronin yn gwrthgyferbynu'r math niweidiol hwn o fenthyg gyda'r dull a eilw yn 'translation as reflexion', sef cyfieithu trwy fyfyrio neu feddwl:

> Translation as reflexion refers to second-degree reflection […] which should properly be the business of translation scholars and practitioners, namely the critical consideration of what a language absorbs and what allows it to expand and what causes it to retract.[90]

Y gwahaniaeth rhwng y ddau ddull o gyfieithu yw bod yn yr ail elfen o feddwl am yr hyn y mae'r cyfieithu yn ei gyflawni a sut y'i cyflawnir. Dim ond trwy hyfforddiant, profiad a rhwydweithio rhwng cyfieithwyr y gellir cael yr ansawdd angenrheidiol wrth gyfieithu i iaith leiafrifol gan gadw ac ymestyn ei chymeriad a diogelu cyfoeth unigryw yr hyn y gellir ei fynegi ynddi.

Wrth geisio dangos bod iaith leiafrifol yn iaith fodern, mae gan gyfieithu rôl ddilys wrth greu hunaniaeth gryfach. Gall cyfieithu helpu'r iaith i ymsefydlu ym mhob agwedd ar fywyd cyfoes, os yw'n defnyddio'r iaith yn greadigol a gofalus. Yn hyn o beth, fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â chyfyngu rôl cyfieithu i *fathu*

---

[89] 'Roedd y benthyciadau cynnar yn gwneud yr Almaeneg yn fwy cymhleth, yn fwy cyfoethog, yn fwy deallusol ac yn fwy mynegiadol, a hefyd yn fwy athronyddol, barddonol a gwyddonol. Dan ddylanwad y Saesneg byd-eang fodd bynnag, gwelwn symleiddio'r Almaeneg ar raddfa syfrdanol. Nid yn unig fe ychwanegir ymadroddion Saesneg a ffug Saesneg at yr iaith. Ac nid yn unig fe'u defnyddir yn lle geiriau Almaeneg; byddai hyn, ar ei waethaf, yn ddiangen. Yn waeth na hynny, maent yn niweidio ffordd naturiol yr iaith Almaeneg o greu geiriau newydd, ac ni fyddai hynny yn anhawster iddi o gwbl.' Jens Jessen, 'Die verkaufte Sprache', *Die Zeit*, 26 Gorffennaf 2007, t. 41.

[90] Cronin, 'The Cracked Looking Glass of Servants', t. 148.

terminoleg yn unig. Dylid ei ymestyn hefyd i'r *defnydd* o'r termau newydd yn y wasg, y cyfryngau, mewn gwleidyddiaeth ac mewn cylchoedd gwaith. Dyma Cronin eto sy'n pwysleisio cyfieithu mewn meysydd penodol megis technoleg, busnes a masnach fel cyfrwng i adeiladu hunaniaeth:

> The desired presence of the minority language in all areas of life, in all disciplines, the refusal of the aesthetic ghetto [h.y. yr agwedd mai dim ond cyfieithu llenyddol a all greu hunaniaeth], demands a much greater reflection than has hitherto been undertaken on the role of scientific, technical and commercial translation in identity formation for minorities.[91]

Y gobaith yw y byddai hyn yn gymorth i weithwyr yn y meysydd hynny siarad am eu gwaith yn yr iaith leiafrifol yn hollol naturiol. Enghraifft amlwg o hynny'n digwydd yng Nghymru yw iaith chwaraeon yn y cyfryngau, lle mae terminoleg Gymraeg wedi ymsefydlu. Mae'r Gymdeithas Wyddonol, er y 1960au, hefyd wedi casglu termau a'u cyhoeddi yn *Y Gwyddonydd*, fel y cyhoedda Cymdeithas Edward Llwyd eu termau hwythau yn *Y Naturiaethwr*. Yr un modd, bu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn ei chynadleddau cynnar yn casglu termau a'u cylchredeg ymysg ei haelodau. Erbyn hyn, mae system fwy datblygedig ar gyfer safoni termau, ond mae perygl o hyd nad yw arbenigwyr yn eu meysydd yn dod at ei gilydd i'w trafod wrth eu gwneud yn dermau swyddogol, a hawdd y gellid holi i beth y mae'r termau yn dda os na ddefnyddir hwy gan y bobl hynny.

Nid yw hyn yn wir yng nghyd-destun pob iaith leiafrifol. Yng Nghatalwnia, er enghraifft, sefydlwyd canolfan derminoleg TERMCAT. Cyfieithir termau o'r Sbaeneg i'r Gatalaneg i boblogeiddio'r iaith wyddonol, ac mae cylchgronau gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg ar gael i drafod y meysydd hynny yn y Gatalaneg bellach.[92] Gyda diffyg cyllideb i gynhyrchu cyhoeddiadau cyffelyb mewn ieithoedd lleiafrifol eraill, bydd technoleg y rhyngrwyd o bosib yn cynnig ateb i hyn yn y pen draw. Rhaid cadw mewn cof, er hynny, bod y rhyngrwyd yn gyfrwng llai swyddogol ac y gall, fel y gwyddoniadur Wikipedia, godi amheuon ynghylch safon yr wybodaeth a gyflwynir.

---

[91] Cronin, 'The Cracked Looking Glass of Servants', t. 150.
[92] Cristina García de Toro, 'Translation between Spanish and Catalan today' yn *Less Translated Languages*, gol. Albert Branchadell a Margaret West (Amsterdam, 2005), tt. 282-84.

## 1.5 Cyfieithu mewn ymgyrch ehangach i gryfhau'r Gymraeg

Er mwyn i gyfieithu chwarae ei ran yn llawn yn y broses o atgyfnerthu'r iaith leiafrifol, dylid cydnabod ei gryfderau a'i gynnwys mewn canllawiau, neu o leiaf roi lle canolog i gyfieithu yn y drafodaeth gyhoeddus. Mae Marta García González yn sôn am ganllawiau o'r fath yn y sefydliadau cyhoeddus yng Nghatalwnia.

> Such guidelines can be associated with the use of a specific standard or the obligation of translating given types of documents. […] The effective existence and the degree of implementation of those guidelines, therefore, can be an indicator of the importance of translation in a given community or region.
>
> Besides, translation services are likely to be created to meet the needs of the several public institutions, which will not happen if translation is inexistent or only sporadically practised. Both the guidelines on translation and the translation services play an important role in the normalisation of the minority language and in the establishment of its standard variety, whether or not they are specifically included in language planning programs.[93]

Yng Nghymru, mae gwasanaethau cyfieithu wedi eu sefydlu mewn nifer o gyrff cyhoeddus, ac mae gan bob un ei rôl o fewn cynllun iaith y sefydliad hwnnw. Llai amlwg yw'r canllawiau ynglŷn â beth i'w gyfieithu neu hyd yn oed ynglŷn â sut i gyfieithu, ac mae hyn yn amrywio o sefydliad i sefydliad. Eto, gallai canllawiau cenedlaethol fod yn ddymunol, fel y gall cyrff a sefydliadau (ac nid yn y sector gyhoeddus yn unig) sylweddoli beth yw potensial a gallu cyfieithwyr wrth hybu'r iaith leiafrifol. O dderbyn sylwadau Marta García González am gyfieithu a normaleiddio iaith, awgryma arferion cyfieithu cyhoeddus Cymru fod cyfieithu yn rhan o'r broses o normaleiddio'r Gymraeg.

Serch hynny, mae un peth yn peri i rywun feddwl nad yw cyfieithu ei hun wedi ei normaleiddio eto. Nid oes yng Nghymru gyrsiau hyfforddiant na chyrsiau gradd strwythuredig sy'n cymharu â chymwysterau a chyrsiau mewn gwledydd eraill. Mae'r hyn sydd ar gael i ddatblygu sgiliau cyfieithwyr yn dameidiog ac, i raddau helaeth, yn digwydd yn y gweithle. Y rheswm a roddir am hyn yw natur a chefndir cyfieithwyr Cymru eu hunain. Fel y soniwyd eisoes, daw llawer o ddarpar gyfieithwyr i gyfieithu o yrfa arall, ac i nifer ohonynt mae'n waith rhan-amser. Mae'n boblogaidd gyda merched sy'n dymuno bod yn hyblyg rhwng gwaith a theulu. Nid oes gan y cyfieithwyr hynny amser nac arian i ymgymryd â

[93] García González, 'Translation of minority languages', t. 114.

chwrs llawn-amser. I bobl ifanc gyda gradd yn y Gymraeg, mae'n ddeniadol fel gyrfa. Ma nifer bach o'r rhain yn mynychu cyrsiau ôl-radd, rhai eraill yn cael eu hyfforddi gan eu cyflogwyr, ac eraill eto yn sefydlu busnesau bach eu hunain. Ond mae diffyg hyfforddiant strwythuredig ar draws Cymru yn arwydd na chydnabyddir cyfieithu yn swyddogol fel arf i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Tyn Peter Wynn Thomas yn ei erthygl sylw at arwyddion a dogfennau cyhoeddus gwallus sy'n deillio i raddau o gyfieithwyr dibrofiad.[94]

Yn y fan hon, dyfynnir unwaith eto o waith Michael Cronin a Marta García González sy'n trafod rôl cyfieithu wrth normaleiddio iaith leiafrifol, a rôl llywodraethau wrth normaleiddio cyfieithu o fewn y broses honno. Os cydnabyddir bod cyfieithu yn dod â nid yn unig werth economaidd i'r wlad, ond gwerth diwylliannol hefyd, dylai llywodraeth ymrwymo i greu'r amgylchiadau gorau i gyfieithu ffynnu. Yng ngeiriau Cronin:

> It is not the blind operation of market forces but the commitment of national governments to invest in language education, translator training, the upgrading of informatics and telecommunication networks which is going to determine whether translation will flourish or perish at national levels and ultimately at international levels. In order for this to happen, of course, there has to be a belief not only in the economic value of these activities, but also in their cultural value. [The] state needs to see translation as part of a 'local project' which is also paradoxically a repudiation of the potential ethnocentric narrowness of that project in its acknowledgement of the necessary interdependence and openness of culture itself.[95]

Mae cyfieithwyr Cymru yn ymrwymo i'r 'prosiect lleol', sef hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hunaniaeth Cymru. Ond trwy'r broses gyfieithu ei hun mae gan gyfieithwyr olwg ar y byd tu allan sy'n caniatáu iddynt weld eu diwylliant mewn cyd-destun byd-eang. Ategа Marta Garcia González fod angen gweld y tu hwnt i'r rôl o hwyluso cyfathrebu rhwng dwy iaith:

> Translation between major languages is something commonly taken for granted, as a natural activity when such languages are in contact. In the case of minority languages, on the contrary, translation is an activity that has to be fostered and activated, as a mechanism to promote the language itself. In other words, translation is no longer an underlying element of communication, but an essential tool in the process of language recovery or

[94] Peter Wynn Thomas, 'Cymraeg Swnllyd', tt. 39-65.
[95] Cronin, *Translation and Globalization*, t. 56.

> preservation, and therefore it is more likely to be studied in relation to language and culture planning than translation between major languages.[96]

Dylid cadw hyn mewn cof pan drafodir polisïau cyfieithu megis blaenoriaethu. Mewn rhai mannau, mae cynllunwyr iaith Cymru wedi gweld sut y gall cyfieithwyr gydweithio gyda gweddill y gweithlu i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er enghraifft, yr argymhelliad canlynol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2002:

> 5. Dylid cynnwys y gwasanaeth cyfieithu yn ganolog yn y broses o drin dwyieithrwydd yn llorweddol.
> Mae cyfieithwyr yn gweithio'n gyson gyda dwy iaith; mae'n naturiol, felly, i fanteisio ar eu profiad a gwneud y gorau ohono. Rhaid cofio hefyd fod gan gyfieithwyr yn aml sgiliau eraill i'w cynnig: er enghraifft, gallan nhw helpu i olygu a gwella testunau sy wedi eu creu yn y Gymraeg; gallan nhw hefyd gynorthwyo yn y broses o ennyn hyder swyddogion dwyieithog i ddefnyddio eu Cymraeg.[97]

Mae'r Cynulliad, felly, yn effro i sgiliau'r cyfieithwyr. Ond nid oes awgrymiadau sut yn union y dylid cynnwys cyfieithwyr yn y broses o 'ddwyieithogi'. Y pwynt olaf, sef bod cyfieithwyr yn cynorthwyo'r gweithlu i ennyn hyder yn eu Cymraeg, sy'n haeddu mwy o sylw. Nid yw'r Cynulliad yn ddigon blaengar i gynnig argymhellion i'w mabwysiadu gan gyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â'r sectorau preifat a gwirfoddol. Os gwêl mudiad, busnes neu sefydliad fod mwy i waith cyfieithydd na throsi testun ar bapur, efallai y byddant yn fwy parod i gyflogi cyfieithwyr.

Yn wir, i ryw raddau, cynyddir cyfrifoldebau gwaith cyfieithwyr yn barod, ac nid yw cyfieithwyr eu hunain bob amser yn croesawu hynny. Dywedodd 61% o'r cyfieithwyr cyflogedig mewn sefydliad cyhoeddus neu wirfoddol nad oedd cyfieithu ond yn rhan o'u gwaith. Roeddent hefyd yn swyddogion neu'n ymgynghorwyr iaith, neu'n gweithio fel gweinyddwyr. Roedd a wnelo gwaith cyfieithwyr y Mentrau Iaith ag amrywiaeth o dasgau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn eu cymuned.[98] Teimla rhai cyfieithwyr na allant ganolbwyntio'n iawn ar gyfieithu, pan fo raid iddynt wneud cynifer o bethau eraill, tra croesawa eraill y

---

[96] García González, 'Translation of minority languages', tt. 110-111.
[97] Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Cyfieithu a normaleiddio defnyddio'r Gymraeg.* Pwyllgor Diwylliant, CC-9-02 (p.1a) Mercher 1 Mai 2002 <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-first/bus-committees-first-cc-home/bus-committees-first-cc-agendas.htm?act=dis&id=9792&ds=5/2002> [25 Mai 2006], (t. 2).
[98] Menter a Busnes, t. 10.

cyfle oherwydd bod y tasgau eraill yn torri ar undonedd ac unigrwydd gweithio ar eu pennau eu hunain!

## 1.6 Cyfieithu ar lefel y gymuned

Gwelsom eisoes fod polisïau neu syniadau ynglŷn â chyfieithu wrth drafod hybu'r Gymraeg yn weddol gyfyngedig i'r sector gyhoeddus. Ond ceisia Bwrdd yr Iaith Gymraeg annog y sectorau preifat a gwirfoddol i fabwysiadu eu dulliau eu hunain o hybu'r Gymraeg. Yn amlach na pheidio, bydd cyfieithu yn rhan o hynny.

Mae llawer o bryder am barhad y Gymraeg mewn rhai o'r cymunedau mwyaf Cymraeg (sydd yn aml mewn ardaloedd gwledig). Yr anhawster mwyaf a wynebir yn yr ardaloedd hynny yw bod pobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo ac ymsefydlu yno, ac ar yr un pryd, ddiffyg tai sydd o fewn cyrraedd ariannol y bobl leol. Yn ôl nifer o ymgyrchwyr iaith, petai grymoedd y farchnad rydd yn cael eu ffordd, ni fyddai siaradwyr Cymraeg yn y pen draw yn byw mewn cymunedau Cymraeg, ond byddent wedi eu gwasgaru i'r fath raddau ar draws Cymru fel na fyddent yn weladwy (na chlywadwy) ddim mwy. Atal y broses hon yw cenhadaeth cynllunio iaith cymunedol i raddau helaeth.

Rhoddir cryn bwyslais ar ddatblygu cymunedol yng ngwleidyddiaeth Cymru, gan gynnwys cynllunio tai, datblygu swyddi a hyfforddiant y gweithlu, a hynny er mwyn cadw diwylliant y cymunedau Cymraeg yn unigryw. Ond ofna llawer nad oes digon o ymdrech yn yr holl strategaethau hynny i gryfhau'r Gymraeg. Mudiadau fel Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Chymuned sydd fwyaf uchel eu cloch am y diffygion gwleidyddol yn y maes hwn. Ni theimlant fod y polisïau i gynyddu addysg Gymraeg ar wahanol lefelau yn ddigon i gadw'r iaith yn fyw, hyd yn oed yn ei chadarnleoedd. Oherwydd bod bywyd cymunedol yn amrywio gymaint o ardal i ardal, o bentref i bentref, ac o oedran i oedran, mae'n anodd gosod blaenoriaethau ynglŷn â sut i gynllunio ac ariannu gwahanol weithgareddau hyrwyddo'r iaith.

I ymateb i anghenion y Gymraeg yn lleol, sefydlwyd, bellach, chwech ar hugain o *Fentrau Iaith* i ddatblygu'r iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r economi leol yn eu hardaloedd. Un disgrifiad ohonynt yw eu bod yn fudiadau adfer cymunedol gyda min ieithyddol ('community regeneration movements with a linguistic

cutting edge').[99] Gweithreda'r Mentrau yn enwedig mewn ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae rhai o'r ardaloedd hyn yn arbennig o fregus oherwydd pwysau oddi wrth fewnfudwyr Saesneg. Cynnig cymorth ac anogaeth wrth hybu'r Gymraeg yw prif rôl y Mentrau Iaith, ac felly maent yn delio gyda rhesymau seicolegol a chymdeithasol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio iaith. Nododd Adroddiad am y Mentrau ym 1997 mai un o'r cwestiynau cyntaf i'r Mentrau Iaith eu hateb yw beth yw cymeriad cymdeithasol-ieithyddol a chyflwr cymdeithasol-economaidd eu hardaloedd. Fel rheol, sefydlir menter newydd mewn ardal lle gwelir angen am weithio yn erbyn 'ffragmenteiddio ieithyddol', gyda rhaniadau economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol yn mynd law yn llaw.[100]

Mae gan y Mentrau, mudiadau sy'n gweithio y tu allan i ffiniau'r weinyddiaeth gyhoeddus, rôl arbennig yn eu hardal, rôl sy'n gofyn am ddychymyg a chreadigrwydd. Gan bwysleisio mai mudiadau dros dro ydynt, ystyrir mai prif bwrpas y Mentrau yw anelu at wneud y Gymraeg yn fwy hunangynhaliol trwy godi ymwybyddiaeth o'i photensial i fod yn iaith i'r gymdeithas gyfan.[101]

Er mwyn manteisio ar y potensial ieithyddol a rhoi cyfle i bobl gael byw cyfran helaethach o'u bywydau yn Gymraeg, mae bron pob Menter Iaith yn cynnig gwasanaeth cyfieithu. Anogant gymdeithasau a mudiadau bychain i gyfieithu eu dogfennau a'u deunyddiau hysbysebu, ond mae rhai hefyd yn cynnig cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Yn y modd hwn, gall mudiadau gwirfoddol gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau yn ddwyieithog am gost resymol.

Mae'n ddiddorol, felly, nad oedd sôn am wasanaethau cyfieithu yn yr adroddiad am y Mentrau Iaith ym 1997. Disgrifiwyd y Mentrau fel dolen gyswllt i helpu'r bobl leol i'w helpu eu hunain, ac awgrymwyd mai annog mwy o siarad ac ysgrifennu Cymraeg oedd eu nod pennaf. Eto, felly, gwelir diffyg trafodaeth o botensial cyfieithu i fod ynghanol y gweithgareddau er budd y Gymraeg yn lleol. Os mai'r rheswm am beidio â chynnal y drafodaeth hon oedd ofni gor-ddibynnu ar gyfieithu yn y tymor hir, gan rwystro newidiadau eraill, mwy sylfaenol, efallai y byddai wedi bod yn fuddiol egluro hyn ar y pryd.

Er gwaethaf casgliadau'r adroddiad, ymddengys i'r Mentrau deimlo fod cyfieithu yn ffordd effeithiol o droi digwyddiadau yn fwy Cymraeg. A welant

---

[99] Colin Williams, 'The case of Welsh/Cymraeg in Wales', yn *Rebuilding the Celtic Languages*, gol. Diarmuid Ó Néill (Talybont, 2005), t. 65.
[100] Colin Williams a Jeremy Evas, *Y Cynllun Ymchwil Cymunedol* (Caerdydd, 1997), t. 25.
[101] Ibid., tt. 25-26.

gyfieithu fel dull hawdd i roi cymorth i siaradwyr Cymraeg? A gredant yn wirioneddol y bydd cyfieithu yn hybu defnydd naturiol o'r Gymraeg yn y tymor hir? Yn sicr, mae'n ffordd o wneud y Gymraeg yn weladwy i bawb yn y gymuned. I rai o'r Mentrau, mae'r gwasanaeth yn fodd o gael incwm i'w gweithgareddau eraill. Mae hefyd yn wasanaeth lle mae'n bosibl i drigolion yr ardal weld gwahaniaeth yn syth wrth ei ddefnyddio. Er hynny, byddai rhai'n dadlau mai'r peth pwysig yw cynnwys cyfieithu mewn rhaglen ehangach o hybu'r Gymraeg, ac nid i leddfu symptomau yn unig.

Yn sicr, rhaid i bob cymuned sy'n brwydro dros y Gymraeg ddygymod â'r sefyllfa gymdeithasol leol a holi sut y gellir dylanwadu yn ffafriol ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn wyneb mwyafrif nad ydynt yn ei siarad. Roedd *Mentro Ymlaen*, adroddiad Cwmni Iaith ar waith y Mentrau Iaith yn 2000 yn gwneud hyn yn glir, gan gyfeirio at arfer y Mentrau Iaith o gynnig gwasanaethau cyfieithu. Dengys tair egwyddor greiddiol a nodid gan Gwmni Iaith y dylid gweld cyfieithu yn arf wrth Gymreigeiddio, ond nid yn nod ynddo ei hun:

1. Nid elusen yw dwyieithrwydd – mae'n ddyletswydd. Mae cost i wasanaethu dwy gymuned iaith. Mae cost hefyd o beidio gwasanaethu dwy gymuned iaith. Yn aml iawn mae mudiadau gwirfoddol yn barod i dderbyn hynny.
2. Os yw cyfieithu yn abwyd i fudiadau a grwpiau i droi at ddefnyddio'r Gymraeg, dylai fod yn rhan o gynllun cyfansawdd ehangach i hwyluso hynny.
3. Os yw mentrau yn cyfieithu'n rhad i fudiadau gwirfoddol lleol rhaid fod elfen o têpro yn y gwasanaeth dros gyfnod o ryw flwyddyn neu ddwy.[102]

Yn eu hymgynghoriad ar 'gyfieithu yn y gymuned' ychydig yn ddiweddarach, daeth Cwmni Iaith yn ôl at y mater o gost cyfieithu. Gyda'r cymorth ariannol a gânt gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'u hawdurdodau lleol, gall y Mentrau gynnig gwasanaethau cyfieithu yn rhatach i fudiadau gwirfoddol nag y byddai'n bosibl i gyfieithwyr masnachol, er bod rhai o'r rheiny'n cynnig cyfraddau is i grwpiau gwirfoddol hefyd.[103] Argymhelliad Cwmni Iaith i'r Mentrau yw cynnig eu gwasanaethau cyfieithu, gloywi iaith, hyfforddi cyfieithwyr newydd a'u cyngor am ddwyieithrwydd am brisiau isel, nid yn rhad ac am ddim:

[102] Cwmni Iaith, *Mentro Ymlaen: Adolygiad o'r Mentrau Iaith* (2000) <http://www.iaith.eu/uploads/mentro_ymlaen_2000.pdf> [5 Mehefin 2008], (t. 66).
[103] Llogir offer cyfieithu am delerau arbennig, fel y gwelir ar wefan Cymdeithas Cyfieithwyr <http://www.cyfieithwyrcymru.org.uk/cymraeg/adnodd/cap/cap_cyflwyniad.asp> [5 Mai 2008].

> Credwn fod yn rhaid i fudiadau gwirfoddol a chymunedol, fel pawb arall, wynebu fod yna gost ynghlwm â gwasanaethu eu cymunedau a bod hynny yn cynnwys delio â dwyieithrwydd y cymunedau hynny. Un neges i'w chyfleu yw bod yna gost hefyd o beidio ag arddel dwyieithrwydd yn ogystal â buddiannau o weithredu'n ddwyieithog.[104]

Byddai gweithgareddau yn y cymunedau Cymraeg a dwyieithog yn fwy Saesneg heblaw am y gwasanaethau cyfieithu. Rhaid holi, fodd bynnag, a yw'n bosibl gosod yr un egwyddorion ym mhobman. Yn amlwg, dylid trin bro Gymraeg (ac ynddi nifer cyfyngedig o bobl ddi-Gymraeg) yn wahanol i ardal fwy dwyieithog lle mae'r canrannau'n fwy cyfartal. Ond ble mae tynnu'r llinell? Un awgrym yw cynnig pris gostyngol i fudiadau sy'n cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg (t. 4). Cyfeiria'r papur at lwyddiant cynllun Menter Môn fel un i'w efelychu gan ardaloedd eraill, gan bwysleisio

> fod pawb ar eu hennill – mae'r corff gwirfoddol yn cael gwasanaeth o'r radd flaenaf, mae'r darparwyr lleol yn derbyn gwaith defnyddiol, mae'r fenter iaith yn cyflawni ei hamcanion strategol ac mae'r cyllidwyr yn derbyn clod ac anrhydedd trwy ddefnyddio arian cyhoeddus er budd cymunedol (t. 5).

Y tu ôl i'r ystyriaethau ymarferol wrth redeg cynllun o'r fath, fodd bynnag, rhaid peidio ag anghofio cefndir cymdeithasol y sefyllfa ddwyieithog sydd ohoni. Os nad yw siaradwyr y ddwy iaith yn deall hanes y berthynas rhyngddynt, ynghyd â seicoleg grym a statws ieithoedd, dim ond crafu'r wyneb fydd cynlluniau fel cyfieithu yn y gymuned yn ei wneud, nid mynd at wraidd y broblem. Bydd y bennod nesaf yn trafod agweddau ar y berthynas gymhleth a all fodoli rhwng dwy iaith 'anghyfartal', ac yn ymchwilio i'r ymatebion a geir i'r agweddau gan gynllunwyr iaith, gyda chyfieithu'n un o elfennau pwysicaf yr ymatebion hynny.

---

[104] Cwmni Iaith, *Cyfieithu yn y Gymuned: Papur trafod cychwynnol* (anghyhoeddedig), t. 3.

# 2 Cymdeithaseg iaith, cynllunio ieithyddol a rôl cyfieithu

I ddeall cyflwr cymdeithasol cyfoes iaith leiafrifol, rhaid edrych ar y berthynas rhwng siaradwyr yr iaith leiafrifol a'r iaith fwyafrifol mewn ardal ddaearyddol. Anodd fyddai deall agweddau tuag at yr iaith leiafrifol a'r syniadau am ei gwerth heb ystyried sut y mae'r berthynas rhwng dwy iaith wedi datblygu yn hanesyddol. Rhaid holi pam mae un iaith wedi ennill grym tra cyfyngir y llall i agweddau penodol bywyd, a phryd a sut y dechreuodd siaradwyr yr iaith leiafrifol geisio cael mwy o le i'w hiaith mewn bywyd cyhoeddus. Dim ond trwy ddeall y cefndir hwn y gellir mynd ati i geisio sicrhau parhad yr iaith leiafrifol.

Nod llywodraethau rhanbarthol, asiantaethau a sefydliadau, yn ogystal â grwpiau protest yw mynd i'r afael â hyn, gan weithio ym maes cynllunio ieithyddol trwy lunio polisïau, strategaethau a chynnal arolygon a gweithgareddau. Mae'r gweithgarwch hwn bob amser yn rhan o brosesau economaidd a gwleidyddol ehangach, a heb fod yn rhydd o ideoleg, fel yr esbonia Colin Williams: 'Language planning in a multilingual society is not a precise instrument and is as capable of being manipulated as is any other aspect of state policy.'[1]

Yn y bennod hon, ceisir cyflwyno yn gryno rai trafodaethau sy'n gefndir pwysig i astudiaeth o leiafrifoedd ieithyddol, gan gynnwys cyfieithu mewn iaith leiafrifol. Cyflwynir yn gyntaf y defnydd o'r term 'iaith leiafrifol', gan amlygu ei gyd-destun yn yr Undeb Ewropeaidd. Trafodir wedyn amcanion cynllunio ieithyddol, a rhai o'r ystyriaethau craidd wrth geisio cyflawni'r amcanion hynny.

Dau o gysyniadau canolog cynllunio ieithyddol yw hawliau iaith a dwyieithrwydd. Cyfyd y themâu hyn droeon yn y drafodaeth am gyfieithu ar y pryd, fel y gwelir yn Rhan II y traethawd, a chyflwynir yn adran 2.3 a 2.4 rai o'r safbwyntiau cyfoes amdanynt.

Yna, telir sylw arbennig i agweddau cymdeithasol cynllunio ieithyddol. Ni ellir mynd ati i newid ymddygiad ieithyddol heb ddeall y berthynas rhwng cymdeithasau diwylliannol a siaradwyr y gwahanol ieithoedd. Yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol, rhaid deall ychydig o gymdeithaseg ieithoedd cyn y gellir deall effaith cyfieithu a chyfieithu ar y pryd  ar ddefnydd iaith.

[1] Colin Williams, 'On Recognition, Resolution and Revitalization', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, gol. Colin Williams (Caerdydd, 2000), t. 8

Trafodir, felly, ar ddiwedd y bennod, wahanol agweddau cymdeithasol ynghlwm wrth weithgarwch cyfieithu. Edrychir yn fras ar ddamcaniaethau o fewn y ddisgyblaeth astudiaethau cyfieithu sy'n gosod cyfieithu o fewn persbectif cymdeithasol. Bydd hyn yn dangos sut mae astudiaethau cyfieithu yn cryfhau ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng aelodau o gymdeithasau ieithyddol a diwylliannol gwahanol. Gyda phob cyfieithu yn amlygu'r berthynas rhwng siaradwyr gwahanol ieithoedd, gall profiadau cenedlaethau o gyfieithwyr fod yn dra buddiol i waith cynllunwyr ieithyddol.

## 2.1 Ieithoedd lleiafrifol

Beth yn union yw iaith leiafrifol? Hawdd meddwl mai nifer siaradwyr iaith 'answyddogol' (o'i gymharu â nifer siaradwyr prif iaith y wladwriaeth), sy'n diffinio iaith leiafrifol. Ond problematig yw trafod niferoedd yn unig. Ystyrir rhai ieithoedd yn lleiafrifol mewn un wlad, tra siaredir hwy fel prif ieithoedd mewn gwlad arall. Er enghraifft, mae'r Almaeneg yn iaith leiafrifol yng Ngwlad Belg neu mewn rhannau o ogledd yr Eidal!

Nid yw cyfrif niferoedd siaradwyr yn ddigon am reswm arall: enghraifft a ddyfynnir yn aml yw'r Ddaneg. Gyda phum miliwn o siaradwyr, mae'r Ddaneg yn un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, tra nad yw'r Gatalaneg, gydag wyth miliwn o siaradwyr, ond newydd ennill statws led swyddogol o fewn yr UE (sef ers 2007).[2]

Mae 'lleiafrifol' yn derm eiddil sydd yn disgrifio sefyllfa gymdeithasol a gwleidyddol iaith mewn cymhariaeth â statws iaith arall (sy'n gymydog iddi ac a siaredir yn yr un ardal). Nid yw 'lleiafrifol' yn derm sy'n mynegi barn ar werth yr iaith. Yn ôl T.L. Markey, 'the definitional significance of "minority language" must be seen relative to a comparable "majority language".'[3] Defnyddir 'iaith lai ei defnydd' o fewn yr Undeb Ewropeaidd ers sefydlu *Biwro Ewropeaidd yr Ieithoedd Llai eu Defnydd* ym 1983. Er hynny, defnyddir 'lleiafrifol' yn aml er hwylustod.

[2] Anders Ahlqvist, 'Language and languages', yn *Language Minorities and Minority Languages in the Changing Europe*, Synak/Wicherkiewicz (Gdansk, 1997), t. 35.
[3] T.L. Markey, 'When Minor is Minor and Major is Major: Language Expansion, Contraction and Death', yn *Third International Conference on Minority Languages: General Papers*, gol. Gearóid MacEoin, Anders Ahlqvist a Donncha Ó hAodha, (Clevedon, 1987), t. 3.

Yn nhermau'r gyfraith ryngwladol sy'n amddiffyn lleiafrifoedd, perthyn aelodau grŵp lleiafrifol i grŵp sy'n wahanol i fwyafrif y boblogaeth o safbwynt ethnig, crefyddol neu ieithyddol, neu o safbwynt eu tueddiad rhywiol. Nid yw'r grŵp hwn yn meddu ar rym cymdeithasol, gwleidyddol nac economaidd, ac mae'r awydd i gefnogi nodweddion diwylliannol y grŵp a'u cynnal yn amlwg neu yn gyffredin ymysg ei haelodau.[4] Dadleua aelodau'r lleiafrif dros yr hawl i ddilyn crefydd wahanol, i fyw mewn ffordd wahanol (e.e. teithwyr), neu i siarad iaith wahanol. Gosodir dadleuon fel hyn o fewn cyd-destun hawliau dynol yn rhyngwladol ac yn genedlaethol, gyda'r bwriad o fyw a chynnal diwylliant arbennig.

Bellach, mae'n gyffredin i lywodraethau a chyrff rhyngwladol dderbyn bod iaith yn hawl ddynol sylfaenol, ond mae ymrwymiad gwladwriaethau unigol yn amrywio. Mae digon o le i ddehongli beth yw hawliau lleiafrifoedd, a digon o le i wledydd osgoi cael eu clymu gan y gyfraith ryngwladol. Fel y sylwa Patrick Thornberry:

> 'Minorities' in international law are not everyone's idea of a minority. But they are groups which furnish a human dimension and context for the expression of personal identity as well as providing discrete targets for oppression.[5]

Nid yw'r gyfraith ryngwladol yn gysur mawr i leiafrifoedd ieithyddol felly, er bod cyfreithwyr yn cydnabod nad oes fawr o ystyr i ryddid meddwl heb y rhyddid i ddefnyddio mamiaith yn gyntaf. Fel y dywed un:

> Die Sprachenfreiheit ist wesentliche Voraussetzung für die Ausübung anderer Freiheitsrechte. Die Freiheit des Geistes und Geistesäußerungen setzt den Gebrauch der Muttersprache voraus.[6]

[4] Ni chafodd y diffiniad hwn o leiafrif gan Capotorti ei gynnwys yn swyddogol yn Erthygl 27 Cyfamod Rhyngwladol Hawliau Sifil a Gwleidyddol y Cenhedloedd Unedig. Mabwysiadwyd cymal am hawliau lleiafrifol yn natganiad y Gynhadledd Ryngwladol ar Hawliau Dynol yn Wien ym 1993: 'persons belonging to minorities have the right to enjoy their own culture, to profess and practice their own religion and to use their own language in private and in public, freely and without interference or any form of discrimination' (Patrick Thornberry, 'Contemporary Legal Standards on Minority Rights', *World Directory of Minorities* (Llundain, 1997), tt. 693-94).

[5] Thornberry, 'Contemporary Legal Standards on Minority Rights', t. 701.

[6] 'Mae rhyddid iaith yn amod sylfaenol i ddefnyddio rhyddfreintiau eraill. Wrth ddefnyddio rhyddid ysbryd a'r rhyddid i fynegi barn, cymerir siarad y famiaith yn ganiataol.' (Werner Mäder, 'Sprache und Recht: Minderheitenschutzrecht in Deutschland', *JuS (Juristische Schulung) 12* (2000), t. 1151).

Yn yr astudiaeth hon, defnyddir y term 'iaith leiafrifol' i ddynodi iaith sydd, fel y'i ddiffinir yn *Siartr Ewrop ar Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol*,

i. yn draddodiadol yn cael ei defnyddio o fewn tiriogaeth benodol mewn Gwladwriaeth gan aelodau cenhedlig o'r Wladwriaeth honno sy'n ffurfio grŵp llai o ran nifer na gweddill poblogaeth y Wladwriaeth; ac
ii. yn wahanol i iaith (ieithoedd) swyddogol y Wladwriaeth honno.[7]

Y 'brif iaith' yw'r iaith swyddogol a siaredir gan fwyafrif poblogaeth y wladwriaeth. Honno a siaredir gan mwyaf mewn gwleidyddiaeth, addysg, busnes, gwaith a gwyddoniaeth, ac yn bennaf yn gymdeithasol.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cydnabod dros drigain o gymunedau o ieithoedd lleiafrifol cynhenid neu ranbarthol yn Ewrop, gyda rhai yn llwyddo i atal dirywiad pellach neu i sicrhau hawliau ar ryw lefel, ac eraill gyda dim ond llond llaw o siaradwyr a'r iaith ar fin diflannu.[8] Amrywia ieithoedd lleiafrifol yn sylweddol o ran niferoedd a chanrannau eu siaradwyr, o ran y tebygrwydd ieithyddol rhyngddynt hwy a phrif ieithoedd eu gwladwriaethau, ac o ran y prosesau a'r datblygiadau gwleidyddol a arweiniodd at ymylu'r ieithoedd bychain yn y lle cyntaf.

Er gwaethaf y gwahaniaethau, mae un peth yn gyffredin iddynt. Nid ydynt yn mwynhau'r un statws cymdeithasol a diwylliannol â'r prif ieithoedd. Yr un oedd profiad yr ieithoedd a oedd dan orthrwm trefedigaethol ar gyfandiroedd eraill yn ystod canrifoedd o ymerodraethau gorllewinol ledled y byd, megis ieithoedd brodorol yr Affrig neu America Ladin. Cyffredin hefyd yw ymdrechion eu siaradwyr i gynnal neu i amddiffyn eu hunaniaeth. Rhan bwysig o'r ymdrechion hynny yw cyfieithu; cyfieithu llenyddiaeth yn bennaf, gan gynnwys ysgrifau sy'n pwysleisio cymeriad arbennig y diwylliant llai pwerus. Disgrifia Douglas Robinson y berthynas rhwng diwylliant cryf a'r diwylliant dan orthrwm fel a ganlyn: 'What the subject thinks and feels is what the ideological state apparatuses *want* him or her to think or feel'.[9] Wrth ddweud hyn, dengys pa mor ddwfn y gall grym ddylanwadu ar feddwl pobl.

---

[7] *Siartr Ewrop ar Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol*, ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg, <http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cynnwys.php?cID=&pID=109&nID=77&langID=1> [1 Ebrill 2008] (t. 2).
[8] Comisiwn Ewropeaidd <http://ec.europa.eu/education/policies/lang/languages/langmin/regmin_en.html> [19 Ion. 2007].
[9] Douglas Robinson, *Translation and Empire* (Manceinion, 1997), t. 23.

Cysylltir ieithoedd lleiafrifol yn fynych gydag economïau gwan, ac mae'r cysylltiad hwn yn lleihau'r parch tuag at yr iaith a hunan-barch ei siaradwyr. Ymgais i egluro'r agwedd hon yw geiriau C. Hoffmann:

> As so many minority areas have suffered economic depression and a loss of investment in new technologies, their inhabitants have become associated with rural backwardness and their language may be tainted with the same kind of stigma.[10]

Ond o ystyried mai Catalwnia yw'r rhanbarth fwyaf cynhyrchiol yn economaidd yn Sbaen, nid oes yma sail i gyffredinoli. Peth arall sy'n digwydd wrth gysylltu sefyllfa ieithoedd lleiafrifol â phrosesau economaidd yn unig yw gwadu ewyllys a phrosesau gwleidyddol i wanhau'r ieithoedd llai. Dadleua Glyn Williams yn ei lyfr *Sociolinguistics: A Sociological Critique* mai'r rheswm am alw'r iaith gryfaf yn 'language of wider communication' yw gwadu'r elfen wleidyddol mewn polisïau iaith.[11] Trafoda safbwynt rhai cymdeithasegwyr sy'n bychanu tensiynau a gwrthdaro yn fwriadol i ddangos prif ieithoedd mewn golau da, fel yr ieithoedd sy'n cynrychioli'r posibiliadau gorau i fywydau'r boblogaeth. Felly hyrwyddir delwedd y brif iaith fel un hollol ddaionus.[12] Er enghraifft, gwleidyddol yw'r polisïau cyfieithu hynny sy'n canolbwyntio holl adnoddau cyfieithu ar lenyddiaeth. Oni chyfieithir testunau o natur wyddonol a thechnegol, bydd y brif iaith yn dal ei gafael ar y meysydd hyn (sydd mor bwysig i ddatblygiad economaidd).

Ymhellach ymlaen yn y bennod hon ceir trafodaeth bellach ar y berthynas rym rhwng siaradwyr dwy iaith. I ddibenion y ddadl bresennol, fodd bynnag, rhaid derbyn bod y strategaeth o gysylltu ieithoedd lleiafrifol gydag economi wan a diwylliant hen ffasiwn wedi bod yn llwyddiannus. Mae siaradwyr ieithoedd lleiafrifol eu hunain yn derbyn rhan helaeth o'r ddadl honno hyd heddiw.

### 2.2 Amcanion cynllunio ieithyddol

Fel arfer, cyfyd symudiadau tuag at adfer iaith neu foderneiddio statws iaith mewn cymdeithasau sy'n ceisio ymryddhau o sefyllfa lle mae iaith rymus wedi

---

[10] *An Introduction to Bilingualism* (Harlow, 1994), t. 240, dyfynnir gan Eithne O'Connell, *Minority Language Dubbing for Children: Screen Translation from German to Irish* (Bern, 2003), t. 44.
[11] Glyn Williams, *Sociolinguistics: A Sociological Critique* (Llundain, 1992), t. 102.
[12] Ibid., tt. 102-105.

gwthio iaith frodorol allan o'r peuoedd cyhoeddus ac i ymylon y gymdeithas.[13] Y *peuoedd* hyn yw'r cyd-destunau diwylliannol a chymdeithasol lle defnyddir iaith gyda siaradwyr eraill. Sefyllfaoedd cyfathrebu ydynt mewn bywyd cymdeithasol: y teulu, y gweithle, y cyfryngau, gwasanaethau cyhoeddus, crefydd, addysg, hamdden neu lywodraeth.[14] Pan mae dwy iaith yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd, gall sefyllfa ddatblygu lle defnyddir y naill iaith mewn peuoedd swyddogol ac iddynt statws uchel (megis rhai gwleidyddol), tra siaredir y llall yn y peuoedd 'iselfri' (megis y teulu, mewn crefydd neu yn y gymdogaeth).[15]

Un o amcanion cynllunio ieithoedd lleiafrifol yw cynyddu'r nifer a'r math o gyd-destunau lle gellir siarad yr ieithoedd hyn. Ond nid llunwyr polisi eu hunain a all newid ffawd yr iaith, medd Colin Williams: 'The energy invested in language revitalization is […] described in terms of a three-way partnership between a committed set of interest groups, government language planning and a responsive civil society.'[16] Rhaid felly ennyn diddordeb y gymdeithas ym mharhad yr iaith.

Yng Nghymru, golyga cynllunio ieithyddol hyrwyddo'r Gymraeg ynghanol y Saesneg hollbresennol. Ond i ddeall polisïau iaith, neu ymgyrchoedd sy'n anelu at gryfhau'r iaith leiafrifol, mae angen ystyried o leiaf ddwy ffactor.

Yn gyntaf, gallai adolygu hanes yr ieithoedd a'u cymunedau daflu goleuni newydd ar ddatblygiad yr iaith leiafrifol. Bron yn ddieithriad, mae hanesyddiaeth orllewinol wedi rhoi tro rhagfarnllyd ar y digwyddiadau a'r penderfyniadau gwleidyddol a achosodd i iaith fawr ddisodli iaith frodorol mewn peuoedd penodol. Wrth edrych ar hanes o safbwynt y lleiafrif, gellir dod â chyfyngiadau'r hanesyddiaeth 'draddodiadol' i'r golwg.[17]

Yn ail, mae'n eithriadol o bwysig cydnabod bod gwead economaidd, cymdeithasol a demograffaidd pob ardal yn wahanol, a rhaid holi hefyd yn union ymhle y mae tiriogaeth y lleiafrif ieithyddol mewn perthynas â'r wladwriaeth.[18] Yn hynny o beth, ni ddylid cyffredinoli ynghylch sefyllfa iaith hyd yn oed ar

---

[13] Colin Williams, 'On Recognition, Resolution and Revitalization', t. 8.
[14] Joshua Fishman, *Reversing Language Shift*, t. 44.
[15] Colin Baker, 'Psycho-Sociological Analysis in Language Policy', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, gol. Thomas Ricento (Rhydychen, 2006), t. 212.
[16] Colin Williams, 'On Recognition, Resolution and Revitalization', t. 15.
[17] Terrence Wiley, 'The Lessons of Historical Investigation: Implications for the Study of Language Policy and Planning', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, gol. Thomas Ricento (Rhydychen, 2006), tt. 135-152.
[18] Don Cartwright, 'Geolinguistic Analysis in Language Policy', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, gol. Thomas Ricento (Rhydychen, 2006), tt. 194-209.

draws ei thiriogaeth ei hun. Gyda deinameg yr iaith a'r gymdeithas yn amrywio, a'r peuoedd y defnyddir yr iaith leiafrifol ynddynt yn newid yn barhaus, bydd i bob lleoliad ei anghenion ei hun.[19] Rhaid i gynllunio ieithyddol ymateb i'r anghenion hyn, fel yr esboniodd John Ambrose a Colin Williams dros chwarter canrif yn ôl:

> Planning policies, as well as being variable from one part of the region to another, must be adaptable at short notice in order to accommodate the suddenly changing fortunes of the language in any locality.[20]

Gall dilyn dulliau ethnograffig o ymchwilio i batrymau defnydd iaith fod yn fuddiol. Gosodir ymchwil ethnograffig ynghanol y gymuned, gan ddwyn ynghyd theori cynllunio iaith a phrofiadau pobl ar lawr gwlad.[21] Gall hyn helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn lleol, ac asesu i ba raddau y mae'r polisïau yn realistig.

Un syniad ynghylch adfer iaith a dderbyniodd sylw mawr yn rhyngwladol yw model Joshua Fishman o *'Reversing Language Shift'*.[22] Gyda'r model hwnnw, ceisiodd Fishman esbonio gwahanol gamau yn y broses o adfer iaith. Cyfeiria ei derm 'shifft iaith' at y newid sy'n digwydd mewn cymuned o siaradwyr:

> [...] speech communities whose native languages are threatened because their intergenerational continuity is proceeding negatively, with fewer and fewer users (speakers, readers, writers and even understanders) and uses every generation.[23]

I wyrdroi'r broses honno, cyflwyna ei *Graded Intergenerational Disruption Scale* (GIDS). Graddfa o wyth cam ydyw sy'n dynodi gwahanol lefelau datblygiad yr iaith leiafrifol. Ar y camau isaf mae cymunedau neu rwydweithiau iaith ar eu mwyaf bregus. Ystyrir y camau 8 i 5, sy'n canolbwyntio ar iaith y teulu a'r gymdogaeth, yn allweddol i wrthweithio shifft iaith. Ar safle 8, ni cheir ond ambell siaradwr yr iaith leiafrifol (a'r rheiny ddim o reidrwydd yn rhugl). Mewn cymuned ar safle 7 y raddfa, mae cenhedlaeth hŷn yn siarad yr iaith, ac amcan cynllunio ieithyddol fyddai dysgu'r iaith leiafrifol fel ail iaith i'r cenedlaethau iau.

---

[19] John E. Ambrose a Colin Williams, 'On the Spatial Definition of Minority: Scale as an Influence on the Geolinguistic Analysis of Welsh', yn *Minority Languages Today,* gol. Einar Haugen et al (Caeredin, 1980).
[20] Ibid., t. 61.
[21] Suresh Canagarajah, 'Ethnographic Methods in Language Policy', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method,* gol. Thomas Ricento (Rhydychen, 2006), tt. 153-169.
[22] Fishman, *Reversing Language Shift.*
[23] Ibid., t. 1.

Cam 6 yw'r pwysicaf oll; mae'n sefyllfa lle siaredir yr iaith yn anffurfiol ar lafar fel iaith hollol naturiol mewn teuluoedd. A gall hyn ymestyn i rwydweithiau'r gymuned hefyd. Preifatrwydd a sicrwydd y teulu sy'n rhoi nerth seicolegol a chymdeithasol i'r gymuned iaith, ac mae hynny'n angenrheidiol i wrthsefyll y pwysau oddi allan.

Mae'r camau nesaf yn mynd â'r iaith y tu hwnt i'r gymuned ieithyddol fel y cyfryw, ac yn mentro i feysydd a reolir gan siaradwyr yr iaith gref. Erbyn safle 1, sefydlir yr iaith mewn peuoedd mwy ffurfiol (fel addysg statudol, gweinyddiaeth gyhoeddus a'r gweithle). Pwysleisia'r model fod trosglwyddo'r iaith yn y teulu a'r gymuned yn elfennol i unrhyw broses o adfer, adfywio neu gynllunio iaith leiafrifol.[24]

Er y beirniedir y GIDS am osgoi trafod goblygiadau perthnasau economaidd a gwleidyddol rhwng siaradwyr ieithoedd lleiafrifol a rhai mwyafrifol, mae'r pwynt craidd, sef pwysigrwydd sefydlu'r iaith yn y gymuned, yn un dilys. Oni lwyddir i gadw'r iaith leiafrifol yn iaith a siaredir yn naturiol a heb bwysau yn y gymdeithas, bydd yn anos iddi aros ymysg ieithoedd cyfoes y byd.

Gyda diffyg grym cymdeithasol yn gyffredin i leiafrifoedd ieithyddol, mae'n anochel y cânt eu cymharu â'i gilydd. Yng Nghymru, tueddir i gymharu sefyllfa'r Gymraeg gyda sefyllfa'r Wyddeleg a ieithoedd Celtaidd eraill,[25] y Gatalaneg a'r Fasgeg yng ngwledydd Sbaen, a chyda'r Ffrangeg yng Nghanada.[26] Enghreifftiau yw'r rhain o leiafrifoedd ieithyddol sydd wedi ennill cryn dipyn o statws dros y degawdau diwethaf, a'r gobaith yng Nghymru, efallai, yw y bydd Cymru, wrth ddilyn eu henghraifft mewn polisïau, yn dilyn yn eu llwyddiant hefyd.

Wrth gwrs mae i bob cymhariaeth ei gwendidau. Dwy o ieithoedd mwyaf y byd sy'n cystadlu am le yng Nghanada, ac mae i'r naill a'r llall lawer o siaradwyr mewn gwledydd eraill.[27] Anodd yw cymharu Québecois a'r Gymraeg (a chanddi

---

[24] Fishman, *Reversing Language Shift*, tt. 87-111.

[25] Glanville Price, 'Yr Ieithoedd Celtaidd Eraill yn yr Ugeinfed Ganrif', yn '*Eu Hiaith a Gadwant?' Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, gol. Geraint Jenkins a Mari Williams (Caerdydd, 2000), tt. 581-606.

[26] Nicholas Gardner, Maite Puigdevall i Serralvo a Colin Williams, 'Language Revitalization in Comparative Context: Ireland, the Basque Country and Catalonia', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, gol. Colin Williams (Caerdydd, 2000), tt. 311-361.

[27] Yn ôl y *Cambridge Encyclopedia of Languages*, mae Saesneg yn yr ail safle (ar ôl Mandarin) gyda 427 miliwn o siaradwyr mamiaith Saesneg, a Ffrangeg yn yr 11fed safle gyda 116 miliwn o siaradwyr Ffrangeg iaith gyntaf. (David Crystal, *Cambridge Encyclopedia of Language* (Caergrawnt, 1997), t. 289).

582,000 o siaradwyr,[28] a dim *hinterland* lle mae'r iaith yn brif iaith mewn gwlad sofran). Yng Nghatalwnia, ar y llaw arall, mae cymhariaeth yn anodd oherwydd bod y Gatalaneg a'r Gastilieg ('Sbaeneg') yn nes at ei gilydd yn ieithyddol, a bod mwy o drigolion Catalwnia yn siarad a deall Catalaneg o gymharu â'r niferoedd sy’n siarad neu ddeall Cymraeg yng Nghymru.[29] Ni fyddai angen cyfieithu ar y pryd yno yn yr un ffordd ag yng Nghymru. Mae gan y Wyddeleg hithau wladwriaeth sofran annibynnol i'w hamddiffyn ac i ymgyrchu dros statws uwch iddi o fewn yr Undeb Ewropeaidd (a enillwyd yn 2007). Ond yn ôl rhai, yr union annibyniaeth wleidyddol honno sydd wedi gwanhau achos yr iaith Wyddeleg.

Ar wawr sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhybuddiodd Dylan Phillips na ddylid peidio ag ymgyrchu dros y Gymraeg yn dilyn addewid y corff cenedlaethol newydd i ofalu amdani.[30] Dengys yr engreifftiau pa mor ofalus y mae angen bod wrth gymharu dulliau cynllunio ieithyddol.

Ond wedi dweud hynny, gall edrych ar sefyllfa lleiafrifoedd ieithyddol eraill ddyfnhau ein dealltwriaeth o brosesau sy'n dylanwadu ar ieithoedd, awgrymu ffyrdd newydd o ddygymod ag anawsterau, a pheri inni ystyried o'r newydd rai agweddau o gynllunio ieithyddol.

## 2.3 Hawliau iaith

Yn ei draethawd *Über den Ursprung der Sprache* disgrifiodd Johann Gottfried Herder, yr athronydd Almaeneg o'r ddeunawfed ganrif, iaith fel 'ein Abdruck von der Denkart [des] Geistes'.[31] Os derbyniwn y diffiniad hwnnw, mae ein hymwybyddiaeth o reidrwydd ynghlwm wrth iaith. Mae pob iaith yn fynegiant o amodau byw cymuned, a thrwy'r gymuned honno, mae pob iaith hefyd yn fynegiant o brofiad yr unigolion sy'n perthyn iddi. Yn sicr, er pan ddatblygodd yr anthropolegwyr Sapir a Whorf eu damcaniaeth enwog (Sapir-Whorf hypothesis), ystyrir bod iaith yn fwy na chyfrwng i gyfathrebu; mae'n hanfod o berthyn i grŵp, ei gwerthoedd a'i ffordd arbennig o weld y byd.[32] Gallai tranc ieithoedd olygu

---

[28] Cyfrifiad 2001. John Aitchison a Harold Carter, *Spreading the Word* (Caerdydd, 2004), t. 49.
[29] Yn ôl cyfrifiad 1975, mae 60% o Gatalaniaid yn siarad Catalaneg, a bron i 80% yn deall yr iaith. (Gardner et al., 'Language Revitalization in Comparative Context', t. 343).
[30] Dylan Phillips, 'Pa ddiben protestio bellach?' *Cyfres y Cynulliad 1* (Talybont, 1998), t. 16.
[31] 'Argraff o feddylfryd yr ysbryd.' Johann Gottfried Herder, *Abhandlung über den Ursprung der Sprache,* gol. Wolfgang Proß (München, 1978), t. 44.
[32] Robert Trask, *Key Concepts in Language and Linguistics* (Llundain, 1999), tt. 169-70.

colli amrywiaeth o safbwyntiau tuag at y byd a bywyd.[33] Mae iaith yn elfen bwysig yn y gwahaniaeth diwylliannol rhwng pobloedd a chymdeithasau, a dyna pam mae'n cael ei chynnwys yn rhan o'n hawliau dynol sylfaenol.[34]

Er y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym 1948, gwaharddwyd gwahaniaethu rhwng pobl ar sail yr iaith a siaradant:

> Y mae gan bawb hawl i'r holl hawliau a'r rhyddfreintiau a nodir yn y Datganiad hwn, heb unrhyw wahaniaeth o gwbl, yn arbennig unrhyw wahaniaeth hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, barn boliticaidd neu unrhyw farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, eiddo, geni neu safle arall.[35]

Mae'r cymal perthnasol yn cydnabod bod gwerth sylfaenol mewn cynnal amrywiaeth ddiwylliannol a ieithyddol yn y byd, ac mae'n awgrymu'n gryf bod angen cefnogi pob ymdrech i atal tranc ieithoedd.

Mewn cymdeithasau gorllewinol heddiw, mae hawliau cyfartal yn rhan o weledigaeth y mwyafrif am fyd gwell a chyfiawn. Angorwyd mewn cyfraith hawliau merched, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, hoyw a lesbiaidd, a grwpiau eraill sy'n dioddef o ganlyniad i ragfarnau cyhoeddus. Weithiau defnyddir dulliau o wahaniaethu *o blaid* lleiafrifoedd i sicrhau eu hawliau cyfartal, megis rhestrau merched mewn ymgyrchoedd gan bleidiau gwleidyddol. Golyga hyn ffafrio un unigolyn yn hytrach na'r llall ar sail ei aelodaeth mewn lleiafrif. (Bellach, mae rhai lleiafrifoedd yn gwrthwynebu cael eu trin yn wahanol. Nid yw'r Byddar, er enghraifft, am gael eu galw'n anabl.[36]) Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn berthnasol wrth drafod y math hwn o gydraddoldeb, ond ni fyddai trafod y Gymraeg o fewn cyd-destun cyfleoedd cyfartal yn unig yn gwneud cyfiawnder â siaradwyr Cymraeg.[37]

Cydnebydd Siartr Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol (a ddaeth i rym ym Mhrydain ym mis Gorffennaf 2001) fod rhaid trin ieithoedd lleiafrifol yn ffafriol er mwyn iddynt ennill cyfartaledd mewn grym a statws o'u

---

[33] Gweler er enghraifft Crystal, *Language Death*.

[34] Ac mae hyn yn wir cymaint am ieithoedd fel y cyfryw ag y mae am dafodieithoedd, ieithoedd ieuenctid, ieithoedd carfannau cymdeithasol, grwpiau arbennig.

[35] Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig Cymru, *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol* (Caerdydd, heb ddyddiad), Erthygl 2, t. 6.

[36] Council for the Advancement of Communication with Deaf People, *Deaf Awareness*, Handout No.6 (anghyhoeddedig).

[37] Steve Eaves, 'Cyfraniad Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am yr Iaith Gymraeg at Gynllunio Ieithyddol a'r Broses o Greu Cymru Newydd', *Contemporary Wales 20* (2008), tt. 92-93.

cymharu â phrif ieithoedd eu gwladwriaethau. Ond gwêl Joshua Fishman nad oes proffeil da i hawliau ieithoedd lleiafrifol yn y drafodaeth am hawliau yn gyffredinol. Mewn byd unigolyddol, meddai, nid oes gwerthfawrogiad o'r pwysigrwydd a'r lles a ddaw o roi hawl a statws i gymuned iaith:

> Unlike 'human rights' which strike Western and Westernized intellectuals as fostering wider participation in general societal benefits and interactions, 'language rights' still are widely interpreted as 'regressive' since they would, most probably, prolong the existence of ethnolinguistic differences. The value of such differences and the right to value such differences have not yet generally been recognized by the modern Western sense of justice.[38]

Hyd yn oed gyda rhagor o hawliau ar gyfer ieithoedd lleiafrifol yn rhyngwladol, nid oes deddfwriaeth gadarn o hyd. Er bod Datganiad Hawliau Pobl o Leiafrifoedd Cenedlaethol, Ethnig, Crefyddol a Ieithyddol y Cenhedloedd Unedig yn sôn am yr hawl i gael addysg am yr iaith leiafrifol, neu hyd yn oed ynddi, [39] a'r Confensiwn Fframwaith Ewropeaidd er Gwarchod Lleiafrifoedd Cenedlaethol yn hybu'r hawl i ddefnyddio iaith leiafrifol mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol,[40] ni chaiff unrhyw gyfraith ryngwladol glymu llywodraethau yn gyfreithiol i fabwysiadu'r hawliau yn eu deddfwriaeth wladol.

Pan fydd dau siaradwr yn cwrdd, a'r ddau am wneud defnydd o'u hawliau iaith, ni fydd hyn yn bosibl ond trwy gytuno bod ganddynt iaith gyffredin.[41] Os mai'r brif iaith yw honno, ni all siaradwr yr iaith leiafrifol ddefnyddio'i iaith wedi'r cwbl. Saesneg yw'r iaith gyffredin yng Nghymru, a chaiff siaradwyr Saesneg ddefnyddio'u hiaith yn amlach na siaradwyr Cymraeg.

Pwrpas gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yw creu sefyllfaoedd lle y gall siaradwyr Cymraeg gymryd yn ganiataol y cânt siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd penodol. Yn ogystal â sicrhau cyfathrebu effeithiol, gall cyfieithu ar y pryd roi'r posibilrwydd a'r hawl i bobl siarad eu mamiaith yn eu gwlad eu hunain. Ymysg y rhai sydd wedi cael profiad o ddefnyddio cyfieithu ar y pryd, mae sôn am gydraddoldeb a'r hawl i siarad Cymraeg yn hollbwysig, fel y gwelir ym Mhennod 6. Un o amcanion yr ymchwil hwn yw canfod beth yw'r cysylltiad

---

[38] Fishman, *Reversing Language Shift*, t. 72.
[39] Erthygl 4.5, (Thornberry, t. 699).
[40] Council of Europe's Framework Convention for the Protection of National Minorities, Erthygl 10.2 (Thornberry, t.698).
[41] Mäder, 'Sprache und Recht: Minderheitenschutzrecht in Deutschland', t. 1152.

rhwng cyfieithu ar y pryd a hawliau ieithyddol ymysg cyfieithwyr, defnyddwyr y gwasanaeth a chynllunwyr iaith.

Oherwydd diffyg cydraddoldeb rhwng siaradwyr y ddwy iaith, mae pryder siaradwyr ieithoedd lleiafrifol am golli eu cadarnleoedd, prif ardaloedd yr iaith, yn ddealladwy. Holodd Colin Williams ai'r unig hawl sydd ar ôl gan gymunedau yr ieithoedd lleiafrifol yw cyflwyno'r iaith fel rhan o'u hetifeddiaeth ac o'u gorffennol, a honno, felly, fwy neu lai yn etifeddiaeth 'farw':

> Need they necessarily become 'open museums' where a once virulent cultural heritage is repackaged to make it palatable to consumers, in a Disney-like theme homeland? Are the sons and daughters of slate quarry workers in North Wales destined to become industrial heritage guides, with an occasional smattering of Welsh thrown in to prove to the tourist that they are indeed in a 'foreign' land?[42]

Mae Stephen May yn dadlennu rhai o'r mythau ynglŷn â hawliau ieithoedd lleiafrifol. Ymhelaetha ar ba fath o driniaeth sy'n gwneud lles, neu sy'n niweidio siaradwyr iaith leiafrifol. Gwahaniaetha rhwng 'hawliau trwy oddef' a 'hawliau trwy hyrwyddo'.[43]

Ei ddiffiniad o gael hawliau trwy oddef iaith yw sefyllfa lle y caiff siaradwyr iaith leiafrifol hyrwyddo eu hiaith mewn meysydd preifat. Byddai hyn yn cynnwys, hwyrach, yr hawl i sefydlu cymdeithasau diwylliannol neu wleidyddol, a'r hawl i redeg ysgolion preifat yn yr iaith leiafrifol, a byddai'r wladwriaeth yn cadw rhag ymyrryd yn y peuoedd preifat penodedig hyn. Enghraifft o'r math yma o bolisi ieithyddol fyddai'r maes addysg yn Llydaw. Dim ond mewn ysgolion *Diwan* preifat y dysgir trwy gyfrwng y Llydaweg.

Disgrifir yr hawl trwy hyrwyddo iaith fel sefyllfa lle mae llywodraeth (ar unrhyw lefel) yn penderfynu hybu'r iaith leiafrifol mewn maes neu feysydd cyhoeddus. Gall hyn fod yn ddim mwy na chyfieithu taflenni, neu fe all olygu cynnig addysg ail iaith neu addysg mewn pynciau eraill gyda'r iaith leiafrifol fel cyfrwng dysgu. Ond gall hefyd gynnwys unrhyw lefel o weinyddiaeth gyhoeddus yn yr iaith leiafrifol, hyd at fesur o hunanlywodraeth.

Go feirniadol yw Stephen May o safbwynt yr ieithoedd cryf wrth gydnabod ieithoedd a diwylliannau llai, a gwêl safon ddwbl yn eu hagwedd:

---

[42] Colin Williams, *Linguistic Minorities, Society and Territory* (Clevedon, 1991), tt. 2-3.
[43] Stephen May, *Language and Minority Rights*, t. 185.

> If Spanish speakers in Spain can regard the formal recognition of their language, within their own historic territory, as an inalienable right (with no question of illiberality), why cannot Catalans as well?[44]

Cyfeiria'r sylw at agwedd siaradwyr y brif iaith sy'n honni mai dim ond oherwydd pwysau oddi wrth nifer bychan o genedlaetholwyr y rhoddir hawliau i leiafrifoedd. Yn ôl yr agwedd honno, caiff yr hawliau hynny'r effaith o greu cymdeithas ddwy-haen sy'n ffafrio aelodau'r lleiafrif ieithyddol. Ond, esbonia May, nid gwahaniaethu rhagfarnllyd a diffyg rhyddfrydiaeth ar ran y wladwriaeth yw rhoi hawliau. I'r gwrthwyneb, trwy rywfaint o ymyrraeth, anelir at gael cydraddoldeb:

> The question of minority rights is not about a neutral, disinterested state responding to the claims of vociferous, 'politically motivated' minorities. It is about a *contest* in which *all* players are politically and culturally *situated* and one in which much is at stake on all sides. Specifically, it is a contest for recognition, for resources, and for justice, fairness and equity.[45]

Cydnabyddiaeth sy'n allweddol i siaradwyr ieithoedd lleiafrifol, nid yn unig o'u modd o gyfathrebu, ond yn bwysicach, gydnabyddiaeth o'u hunaniaeth fel cymdeithas (gyda'r iaith yn rhan o hynny).

Tra gwerthfawrogir yn fwyfwy hawliau unigolion i siarad iaith benodol, mae mudiadau iaith yn gofyn am hawliau torfol. Eu dadl yw na cheir cydnabyddiaeth lawn o'r iaith 'leiafrifol' heb gydnabod y gymdeithas, neu'r gymuned, sy'n ei siarad. Gall gwrthod cydnabod iaith arbennig ddeillio o agwedd ddirmygus tuag at y gymdeithas. A dyfynnu François Grin: 'De-legitimisation of the language may be a forerunner of the de-legitimisation of the communities who speak those languages.'[46]

Efallai ei bod yn haws gweithredu hawliau unigol gan ei bod yn bosibl erlid cwmnïau neu wladwriaethau sy'n esgeuluso eu cyfrifoldebau. Nid yw hawliau torfol mor bendant. Roedd cyfraith ryngwladol y Cenhedloedd Unedig tan yn weddol ddiweddar yn canolbwyntio ar wahardd gwahaniaethu rhwng unigolion. Bellach, maent hwy a chyrff rhyngwladol eraill wedi dechrau, er yn betrus, i

---

[44] May, *Language and Minority Rights*, t. 251.
[45] Ibid., t. 233.
[46] Grin, François, 'Language Policy in Multilingual Switzerland: Overview and Recent Developments', Papur wedi ei gyflwyno i'r Cicle de Conferencies sobre política lingüística. Direcció general de política lingüística, Barcelona, 4 Rhagfyr 1998, European Centre for Minority Issues <http://www.ecmi.de/download/brief_2.pdf> [14 Gorffennaf 2006] (t. 6).

gynnwys hawliau torfol yn eu deddfwriaeth.[47] Ond, a dyfynnu Fishman unwaith eto:

> modern Western democratic values are ethnolinguistically disruptive for small languages-in-cultures because they will only recognize the individual's rights to speak, think, write or pray as he or she will, rather than any right to maintain […] a culture that will enable interested individuals to do these things on a societal and intergenerationally continuous basis.[48]

Dim ond gyda chymuned iach o siaradwyr y gellir defnyddio iaith. Diddorol yw gweld bod *Iaith Pawb*, strategaeth iaith Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ei rhannu yn dair, ac yr ymdrinnir â 'chymuned' a 'hawl yr unigolyn' mewn penodau ar wahân. Cysylltir hawliau iaith yr unigolyn gydag addysg, trosglwyddo iaith yn y teulu, ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, cyfieithu a marchnata'r Gymraeg. Sonnir am y gymuned wrth drafod datblygu economaidd, y farchnad dai, a thwristiaeth.[49]

Gan nodi pwysigrwydd y gymuned Gymraeg i'r iaith felly, canolbwyntir ar yr isadeiledd sy'n galluogi pobl i aros yn yr ardal a pharhau i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Nid oes cyfeiriad fel y cyfryw at hawl cymuned i siarad Cymraeg ar bob cyfrif. Ar y cyfan, seilir polisïau economaidd, addysg a throsglwyddo iaith ar yr egwyddor mai dim ond pan fydd y modd economaidd a'r addysg gan rywun y gall ddefnyddio'i hawliau fel dinesydd yn llwyr. Y mae'r hawl i siarad iaith yn un o'r hawliau dinesig hynny (er mai'r unig hawl ieithyddol yng Nghymru, fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol, yw'r hawl i siarad Cymraeg yn y llys).

Yn ôl syniadau'r cymdeithasegydd Catalaneg Albert Branchadell, nod wtopaidd yw cael hawliau iaith llwyr ar gyfer lleiafrif ieithyddol.[50] Yn ei farn ef, gall cyfieithu fod yn rhwystr i'r hawliau hynny. Pe ceid grym cyfreithiol llawn, un amcan fyddai cael sefyllfa lle na fyddai rhaid i siaradwyr iaith leiafrifol gyfieithu. O ystyried y ddwy elfen o gyfathrebu – siarad a gwrando – yn Gymraeg, byddai'r *hawl i wrando* yn golygu cael cyfieithiad i'r Gymraeg o bopeth a ddywedir yn Saesneg. Golygai'r *hawl i siarad* na fyddai raid i siaradwyr Cymraeg gyfieithu i'r Saesneg yr hyn a ddywedent eu hunain.

---

[47] Ceir trafodaeth fanylach ar hawliau iaith torfol rhyngwladol gan Jacques Maurais, 'Regional majority languages', *International Journal for the Sociology of Languages 127* (1997), tt. 135-160.
[48] Fishman, *Reversing Language Shift*, t. 72.
[49] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002).
[50] Albert Branchadell, 'Mandatory Translation', yn *Less Translated Languages*, gol. Albert Branchadell a Margaret West (Amsterdam 2005), tt. 125-135.

Geilw Branchadell yr ieithoedd hynny lle na all siaradwyr ddefnyddio'u hawl i beidio â chyfieithu (geiriau a gweithredoedd) yn 'ieithoedd cyfieithu gorfodol'.[51] Mewn gwlad ddwyieithog, mae siaradwyr yr iaith leiafrifol yn deall y brif iaith, ac ni fyddai gofyn am gyfieithiad *i'r* iaith leiafrifol (i gael yr hawl i *wrando*) yn realistig. Byddai'r gost yn erbyn hyn, a hefyd mae'n well gan rai siaradwyr iaith leiafrifol glywed y geiriau gwreiddiol. Dim ond yn achlysurol y cyfieithir i'r Gymraeg, er enghraifft mewn llys barn.

Gyda'r ail ddimensiwn, yr hawl i *siarad* iaith, cyfyd y cwestiwn ai hawl i'r unigolyn a roir, ynteu hawl i'r gymuned iaith. Os am anelu at hawl i'r gymuned, byddai rhaid trin ardaloedd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg yn arbennig. Pe cymerid yn *ganiataol* bod popeth yn digwydd yn Gymraeg, ni fyddai angen meddwl am unrhyw gyfieithu o gwbl, er mwyn i'r gymuned gael ei hawliau ieithyddol.

### 2.4 Dwyieithrwydd

Un nod wrth hyrwyddo iaith a diwylliant lleiafrifol yw ceisio sicrhau dwyieithrwydd ymysg siaradwyr y ddwy iaith. Yn ôl cymdeithasegwyr a chynllunwyr iaith, cymdeithas ddwyieithog yw'r unig fodd realistig i ieithoedd lleiafrifol barhau yn ieithoedd gweithredol yn y byd modern. Tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd mwyafrif y boblogaeth yng Nghymru yn uniaith Gymraeg. Gyda'r chwyldro diwydiannol a'r mewnfudiad (o Loegr, Iwerddon a mannau eraill) i weithfeydd mwyngloddio a metel yng Nghymru (yn enwedig yn y de), siaradwyd mwyfwy o Saesneg. Yn ôl cyfrifiad 1911, roedd 43.5% o'r Cymry yn dal i siarad Cymraeg, a nifer sylweddol ohonynt heb allu siarad Saesneg o gwbl.[52] Yn yr ardaloedd Cymraeg, roedd dwyieithrwydd yn gyflwr normal i'r rhai a symudodd yno i fyw. Er mwyn gweithio a chymdeithasu gyda'r trigolion, byddent yn dysgu Cymraeg, a hynny trwy ymwneud â'r bobl yn hytrach na thrwy fynychu gwersi (fel y gwelir mewnfudwyr sy'n ymgymryd â

[51] Branchadell, 'Mandatory Translation', t. 126.
[52] Colin Williams, 'The case of Welsh/Cymraeg in Wales', t. 55.

siarad yr iaith frodorol er mwyn cymryd rhan ym mywyd cymdeithasol eu gwlad newydd heddiw.[53])

Dechreuodd agweddau trwch y boblogaeth newid yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn gynyddol, cysylltwyd cyfleoedd economaidd gwell a statws cymdeithasol uwch â'r iaith Saesneg, a'r Gymraeg gyda sefyllfa ddifreintiedig ac, yn aml, wledig. Yn sgil polisïau megis polisïau addysg yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, penderfynodd llawer o rieni Cymraeg beidio â siarad Cymraeg â'u plant. Ystyrid y Gymraeg yn iaith y gorffennol, a dim ond trwy'r Saesneg y ceid cynnydd cymdeithasol, cydraddoldeb, masnach a hamdden.[54]

Gyda moddion teithio gwell a symudoledd cynyddol yn gwneud cymunedau iaith lleiafrifol yn fwy agored i ddylanwadau a allai niweidio'r iaith,[55] gwthiwyd y Gymraeg i ymylon y gymdeithas, naill ai trwy ddewis ymwybodol neu drwy esgeulustod. Fel yr oedd mwy o siaradwyr Cymraeg yn dysgu Saesneg, roedd llai o anogaeth i drigolion newydd ddysgu Cymraeg, ac roedd rhod dwyieithrwydd yn troi. O hyn ymlaen, byddai dwyieithrwydd yn ffaith fwy cyffredin ymysg siaradwyr Cymraeg.[56]

Mewn cymdeithas ddwyieithog sefydlog (*diglossia*), cydnabyddir bod pob cwr, pob *pau*, o fywyd yn perthyn i iaith benodol. Trwy gadw peuoedd diffinedig, rhennir yr ieithoedd yn ôl meysydd gwaith a chartref, ac felly dynodir statws pendant iddynt.[57] Deil Fishman fod ffiniau pendant rhwng peuoedd yn gallu amddiffyn lleiafrif ieithyddol rhag ymyrraeth a bygythiad gan y brif iaith yn y swyddogaethau hynny.[58] Ac er na fydd siaradwyr o reidrwydd yn medru defnyddio'r naill a'r llall ym mhob pau mor rhwydd â'i gilydd, byddant yn medru cyfathrebu yn effeithiol ym mhob sefyllfa trwy ddefnyddio iaith benodol.[59] Ond a

[53] Ac os caiff mewnfudwyr anhawster i integreiddio, gellir sefydlu gwersi iaith a 'dinasyddiaeth' iddynt am ddim, i'w hannog i ystyried eu bod yn rhan o wlad a diwylliant newydd. Digwyddodd hyn e.e. yn Lloegr yn Chwefror 2007 (BBC Radio 4, *Today Programme*, 12 Chwefror 2007).
[54] Colin Williams, 'On Recognition, Resolution and Revitalization', t. 17.
[55] Gweler hefyd Reg Hindley, *The Death of the Irish Language: A qualified obituary* (Llundain, 1990), tt. 179-84.
[56] Am drafodaeth fanylach am ddatblygiad neu ddirywiad y Gymraeg yn hanesyddol, gweler e.e. Colin Williams, 'The case of Welsh/Cymraeg in Wales'; Colin Williams, 'On Recognition, Resolution and Revitalization', Janet Davies, *The Welsh Language* (Caerdydd, 1993); neu am ail hanner yr 20fed ganrif, John Aitchison a Harold Carter, *A Geography of the Welsh Language 1961-1991* (Caerdydd, 1994) a *Spreading the Word*.
[57] J.A.W. Caldwell a M.J. Berthold, 'Aspects of Bilingual Education in Australia', yn *Bilingualism, Education and Identity*, gol. Bob Morris Jones a Paul Ghuman (Caerdydd, 1995), t. 196.
[58] Fishman, *Reversing Language Shift*, tt. 85-86.
[59] Adebisi Afolayan, 'Aspects of Bilingual Education in Nigeria', yn *Bilingualism, Education and Identity*, gol. Bob Morris Jones a Paul Ghuman, (Caerdydd, 1995), t. 247.

oes gwarant na fydd iaith y peuoedd cyhoeddus, oherwydd ei statws, yn ymestyn i beuoedd y teulu hefyd yn y pen draw?

Beirniadwyd cysyniad *diglossia* fel cysyniad rhy statig gan Glyn Williams a Delyth Morris.[60] Trwy awgrymu bod siaradwyr iaith leiafrifol yn derbyn y peuoedd sefydlog, ni chydnabyddir ewyllys unigolion i newid sefyllfa eu hiaith. Ni chydnabyddir ychwaith y grym a feddir gan grwpiau a systemau gwleidyddol a'u dylanwad ar ymddygiad ieithyddol. Cyflwyna Williams yn ei *Sociological Critique* y frwydr barhaol i gyfiawnhau a chyfreithloni iaith leiafrifol fel brwydr ofer bron, os ceisir categoreiddio iaith leiafrifol a'r brif iaith (a'u siaradwyr) ar y ddau begwn eithriadol o 'fodern a gwaraidd' ar y naill law a 'thraddodiadol a hen ffasiwn' ar y llall.[61] Yn hytrach, dylid talu mwy o sylw i'r ffyrdd y mae ymddygiad a phatrymau defnyddio iaith yn cael eu sefydliadoli, hynny yw y prosesau sy'n arwain at bennu pa iaith a dderbynnir fel iaith briodol ar gyfer cysylltiad rhyngbersonol mewn cyd-destun penodol.[62] Ymhelaetha Glyn Williams:

> It is no simple matter to extend a minority or subordinate language into new domains of activity. This is not merely because of the behavioural tendencies of individual bilinguals or multilinguals as many sociolinguists would claim but rather because of the manner in which languages are institutionalised and legitimised vis-à-vis domains.[63]

O'u hasesiad o sefyllfa'r Fasgeg, deil cymdeithasegwyr iaith nad yw'n bosibl bellach, yn oes globaleiddio a symudoledd haws, i anelu at sefyllfa o ddwyieithrwydd sefydlog.[64] Ac ym marn Colin Baker, ni ddylid edrych ar y defnydd o ieithoedd o safbwynt peuoedd â statws cymdeithasol uchel neu isel yn unig, a cheisio cynyddu'r iaith leiafrifol yn y peuoedd â mwy o fri. Yn llawer pwysicach, dylid ystyried faint o *quality time* y mae pobl yn ei dreulio gan ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall.[65] Hynny yw, faint o Gymraeg y mae'r bobl yn ei siarad pan maent yn eu mwynhau eu hunain, yn hyderus, yn sicr o'u galluoedd o flaen eraill, a phan maent yn teimlo eu gwerth fel aelodau o'r gymdeithas Gymraeg.

---

[60] Glyn Williams, *Sociolinguistics: A Sociological Critique*; Glyn Williams a Delyth Morris, *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Caerdydd, 2000).
[61] t. 105.
[62] Williams/Morris, *Language Planning and Language Use*.
[63] Glyn Williams, *Sociolinguistics*, t. 135.
[64] Gardner et al., 'Language Revitalization in Comparative Context’, tt. 326-27.
[65] Colin Baker, 'Psycho-Sociological Analysis in Language Policy', t. 212.

Felly, un o'r cwestiynau a gyfyd yn yr ymchwil presennol yw a all cyfieithu ar y pryd sicrhau mwy o *quality time* mewn cymdeithas Gymraeg? Neu a fyddai, i'r gwrthwyneb, yn troi sefyllfaoedd agos-atoch a chyfarwydd yn rhai mwy annaturiol?

Wrth gwrs, mae'n eithriadol bwysig cynyddu'r teimladau cadarnhaol ynglŷn â'r iaith mewn meysydd uchelfri. Ond rhaid atgyfnerthu penderfyniadau gwleidyddol gyda gweithgarwch ymarferol megis rhoi enghreifftiau da, addysg Gymraeg i Oedolion,[66] a chynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i siaradwyr y ddwy iaith.[67]

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datgan ei gweledigaeth o 'Gymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith, a lle y mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd'.[68] Gweledigaeth yw hon o ddwyieithrwydd hyblyg lle mae'n bosibl cynnal pob agwedd ar fywyd yn y naill iaith neu'r llall, yn hytrach na dwyieithrwydd sefydlog lle pennir un iaith i bob cyd-destun cymdeithasol. Yn ôl Llywodraeth y Cynulliad, rydym yn y broses o sefydlu'r Gymraeg yn y meysydd cyhoeddus, nid fel unig iaith, ond yn un o ddwy iaith.[69] A dilyn model Fishman o wyrdroi shifft iaith, byddem ar risiau uchaf yr ysgol wrth gyrraedd dwyieithrwydd gweithredol. Byddem wedi camu o sicrhau trosglwyddo iaith yn y cartref a'r gymuned i ddefnyddio'r iaith yn gyhoeddus.

Ond heblaw am yr ardaloedd Cymreiciaf lle mae'r Gymraeg yn iaith teulu o hyd, ymddengys fod Cymru wedi troi'r GIDS ar ei ben. Anelir y rhan fwyaf o bolisïau at feysydd cyhoeddus megis addysg a'r gwasanaethau. Dim ond yn weddol ddiweddar y gwnaethpwyd ymdrech strwythuredig i gryfhau'r Gymraeg yn y teuluoedd, gyda rhaglenni megis *Twf* sy'n ceisio dwyn gwerth dwyieithrwydd i ymwybod y cyhoedd, gan annog rhieni (o deuluoedd Cymraeg a chymysg) i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.[70] Rhaid yn ogystal â hynny sicrhau bod pobl yn

[66] Jeremy Evas, 'Rhwystrau Ar Lwybr Dwyieithrwydd' (Traethawd doethuriaeth, Prifysgol Caerdydd, 1999).
[67] Steve Eaves, 'Cyfraniad Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am yr Iaith Gymraeg', tt. 82-105.
[68] *Iaith Pawb*, t. 1.
[69] Ac un o addewidion *Cymru'n Un*, maniffesto Llywodraeth y Cynulliad ers 2007, yw cael statws swyddogol i'r ddwy iaith yng Nghymru. <http://new.wales.gov.uk/strategy/strategies/onewales/onewalesw.pdf?lang=cy> [17 Ebrill 2008], (t. 36).
[70] Cynllun Twf, <www.twfcymru.com> [14 Ebrill 2008].

siarad yr iaith bob dydd, ac nad yw'r defnydd o'r iaith yn dirywio yn y gymuned tra y'i hatgyfnerthir mewn gwasanaethau a chyrff cyhoeddus.

Yng ngorllewin Ewrop, bellach, gellir cymryd yn ganiataol bod siaradwyr pob iaith leiafrifol o leiaf yn ddwyieithog, hynny yw, eu bod yn siarad yr iaith leiafrifol a phrif iaith y wladwriaeth. Disgwylir bod siaradwyr sydd ag iaith leiafrifol yn famiaith iddynt yn ddigon rhugl yn y brif iaith i allu cyfathrebu'n effeithiol trwyddi mewn ystod eang o sefyllfaoedd. (Ni ddisgwylir o reidrwydd yr un radd o rugledd yn yr iaith leiafrifol gan ddysgwyr yr iaith honno.) Tybir heddiw nad oes un siaradwr Cymraeg heb allu siarad Saesneg o gwbl.[71] Rhaid cofio er hynny nad yw pawb o bell ffordd mor gyfforddus yn y naill iaith a'r llall.

Dwyieithrwydd neu amlieithrwydd yw nod y rhan fwyaf o gynllunio ieithyddol yn Ewrop, ac nid oes bwriad gan gynllunwyr i greu cymdeithas uniaith, gyda'r iaith leiafrifol yn unig iaith. Mae hyn yn wir hyd yn oed lle mae dwysedd uchel yn siarad yr iaith leiafrifol (fel yng Nghatalwnia lle yr honna 80% eu bod yn deall Catalaneg). Deillia'r egwyddor hon o'r ofn y byddai cynlluniau i gryfhau'r iaith leiafrifol yn unig yn ei niweidio yn y pen draw, a hynny oherwydd y gwrthwynebiad posibl ymysg y sawl nad ydynt yn ei siarad. Mae peryg ildio i'r ofn hwn wrth lunio polisïau cyfieithu (a pholisïau iaith eraill), a bodloni ar gyfieithu'r deunyddiau hynny sydd naill ai yn iselfri neu heb ysgogi defnydd o'r iaith leiafrifol.

Un ffordd i wrthweithio gwrthwynebiad yw datgan bod siarad dwy iaith yn fantais yn y farchnad waith, a chyhoeddi bod dwyieithrwydd yn fudd i unigolion hefyd.[72]

Yn y 1960au a 1970au roedd yn dal yn gyffredin mewn cylchoedd academaidd rhyngwladol i gredu bod dwyieithrwydd yn niweidiol i ddatblygiad deallusol (yn enwedig plant).[73] Erbyn heddiw cydnabyddir gan ysgolheigion nad

[71] Yng nghyfrifiad 1991 am y tro cyntaf, ni holwyd am y gallu i siarad Saesneg. Dengys hyn ddisgwyliad nad oes pobl uniaith Gymraeg bellach. (Aitchison/Carter, *Language, economy and society: The changing fortunes of the Welsh language in the twentieth century* (Caerdydd, 2000), t. 16).

[72] *Iaith Pawb*, t. 49.

[73] Adroddir hyn gan Joshua Fishman, ' "Holy languages" in the context of societal bilingualism', t. 15. Yng Nghymru ar y pryd, roedd sawl ysgolhaig wedi tynnu sylw at fanteision dwyieithrwydd i ddatblygiad meddwl plant, a bod llwyddiant mewn addysg yn dibynnu i raddau helaeth ar ffactorau cymdeithasol. Gweler e.e. Jac L. Williams, 'Comments on articles by Mr D.G.Lewis and Mr W.R.Jones', *British Journal of Educational Psychology 30* (1960), t. 271, neu W.R.Jones, *Addysg Ddwyieithog yng Nghymru* (Caernarfon, 1963).

oes sail i'r honiad hwn.[74] Mae a wnelo'r drafodaeth am ddwyieithrwydd o hyd â beth yw'r berthynas rhwng siaradwyr yr ieithoedd dan sylw ac â'r rhesymau pam mae un iaith yn fwy uchelfri na'r llall. Dwyieithrwydd, i lawer, yw'r ffordd ymlaen wrth greu cydbwysedd grym rhwng siaradwyr y ddwy iaith.

Dadl Jacques Maurais o'i brofiad yn Québec yw bod rhaid gwahaniaethu rhwng dwyieithrwydd personol unigolion a dwyieithrwydd y gymdeithas, er mwyn gwrthweithio'r pwysau sydd ar siaradwyr yr iaith leiafrifol.[75] Os canolbwyntir ar ddatblygu dwyieithrwydd mewn unigolion yn ormodol, meddai, gall fod yn gam tuag at unieithrwydd cymdeithasol yn y brif iaith yn y tymor canolig neu hir. Heb greu gwell cyfleusterau a chyfleoedd i siarad yr iaith leiafrifol, bydd hyd yn oed unigolion sy'n siarad y ddwy iaith yn rhugl yn methu datblygu eu gallu yn gymdeithasol. Awgryma Maurais fod angen meithrin gafael dda yn y ddwy iaith mewn unigolion, ond gan gyfyngu ar ddwyieithrwydd cyrff a sefydliadau penodedig. Trwy annog siopau, cyrff neu fudiadau i weithredu'n uniaith yn yr iaith leiafrifol, gellir rhoi cyfle i'r iaith ffynnu lle na fyddai'n ddigon cryf mewn cystadleuaeth â'r brif iaith.

Anogwyd rhai sefydliadau neu gwmnïau yn y sector breifat yn Québec i arddangos arwyddion a deunyddiau eraill yn Ffrangeg yn unig.[76] Gallai hyn fod yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd lle mae'r iaith leiafrifol yn cael ei siarad gan fwyafrif y boblogaeth.[77] Yn ôl rhesymeg Maurais, dim ond penderfyniadau rhagweithiol clir fel y rhain a all argyhoeddi unigolion dwyieithog i ddefnyddio'r iaith leiafrifol lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Byddai polisïau o'r fath yn ceisio creu awyrgylch lle nad oes amheuaeth ynglŷn â statws a defnydd yr iaith leiafrifol. Yn sicr mae cyfieithu ar y pryd yn syrthio i'r categori hwn o ddulliau o hyrwyddo'r Gymraeg.

Ond tra mae'n well gan rai cymdeithasegwyr iaith beidio â chyffwrdd â sefyllfa o ddwyieithrwydd sefydlog (h.y. peidio â chyffwrdd â breintiau'r iaith

---

[74] Wynford Bellin, 'Psychology and bilingual education: Intelligence tests and the influence of pedagogy', yn *Bilingualism, Education and Identity*, gol. Bob Morris Jones a Paul Ghuman, (Caerdydd, 1995), tt. 159-185.

[75] Weithiau gelwir dwyieithrwydd cymdeithasol yn 'diglossia', yn wahanol i'r defnydd uchod o'r term, dwyieithrwydd personol yn 'bilingualism'. Gweler e.e. Colin Baker, *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism* (Clevedon, 1993).

[76] Maurais, 'Regional majority languages', t. 153.

[77] Mae Jacques Maurais wedi bathu'r term *Ieithoedd Rhanbarthol Mwyafrifol* i ddynodi'r ieithoedd a siaredir gan leiafrif y bobl dros wladwriaeth gyfan ond gan fwyafrif o'r boblogaeth ar diriogaeth yr ieithoedd hynny eu hunain. Byddent yn cynnwys yr iaith Québecois yn Québec a'r Gatalaneg yng Nghatalwnia.

gryfaf), geilw rhai siaradwyr Cymraeg am yr hawl i fyw mewn cymdeithas uniaith o leiaf mewn pocedi bach oddi fewn yr ardaloedd Cymraeg. Teimlant fod polisïau swyddogol yn rhoi gormod o bwyslais ar y gallu i siarad Cymraeg, yn hytrach nag ar gyfleoedd a phosibiliadau i'w siarad. Mewn llythyr i *Cambria* ysgrifennodd F.M. Jones fod dwyieithrwydd yn ei hanfod yn elyn i'r iaith achos nad yw'n gwneud y Gymraeg yn *angenrheidiol* fel iaith lafar. 'Bilingualism is an enemy of the Welsh language, in that if the whole of Wales becomes bilingual Welsh will no longer be necessary as a spoken language.' Poeni y mae am alwadau i integreiddio'r ddau grŵp trwy bolisïau dwyieithrwydd, sy'n golygu y bydd Cymry Cymraeg yn rhoi'r gorau i siarad Cymraeg, tra mae rhywbeth arall yn bwysicach: 'What matters is how much Welsh is spoken, not how many people can speak it.'[78]

Beirniada Jaine Beswick hithau y math o ddwyieithrwydd a arddelir gan Generalitat Catalwnia, sef 'bilingüísmo harmónico', gan ddweud nad yw'n hyrwyddo'r iaith leiafrifol fel iaith normal: 'Rather, bilingüísmo harmónico appears to have been devised in order to avoid any type of linguistic or social conflict that may arise from competition for contextual functions.'[79] Pwysleisa ei thrafodaeth gymaint yw effaith safbwyntiau gwleidyddol ar y polisïau iaith mwyaf sensitif.

Beirniadaeth arall a geir yn aml yw mai o un safbwynt yn unig yr edrychir ar gynllunio ieithyddol. Gan ganolbwyntio polisïau iaith ar ddewis iaith cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau, maent yn esgeuluso dewis iaith y sawl sy'n darparu gwasanaethau, yn rhedeg busnes ac yn cyflawni gwaith, medd Iwan Edgar: 'O gyfeiriad hawl y dinesydd y lluniwyd Deddf Iaith 1993, nid o safbwynt hawl yr iaith, o gyfeiriad y defnyddiwr yn hytrach na'r gweithiwr na'r cyflenwr.'[80]

Gwêl eraill eto, megis Wynne Melville Jones, ormod o bwyslais ar gyfieithu testun yn y broses o hyrwyddo dwyieithrwydd: 'Bilingualism is seen merely as a process of translating English-language text into a carbon-copy Welsh version.'[81] Er bod Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo dwyieithrwydd, tystia'r dadleuon hyn nad yw pawb yn gytûn am y polisïau gorau ar gyfer yr iaith.

---

[78] F.M. Jones, Llythyr, *Cambria 7 (4)* (2006), t. 8.
[79] Jaine Beswick, *Regional Nationalism in Spain: Language Use and Ethnic Identity in Galicia* (Clevedon, 2007), t. 177.
[80] Iwan Edgar, 'Staeniau ar y Map', *Barn*, Rhagfyr 2001/Ionawr 2002, t. 35.
[81] Dyfynnir gan Rhodri Clark, 'Cash lost in Welsh translation', *Western Mail*, 31 Gorffennaf 2004, t. 11.

Yn ôl rhai, ymyrraeth o blaid y Gymraeg yw'r unig ateb. Mae cynllunwyr iaith yn cydweld nad yr hawl *gyfreithiol* i unigolion ddefnyddio Cymraeg mewn meysydd penodedig yw'r brif ddadl, ond yn hytrach bod angen creu sefyllfaoedd economaidd a chymdeithasol sy'n cynnig cyfle i *siarad* yr iaith leiafrifol. Er mwyn sicrhau parhad cyfleoedd o'r fath, rhaid i gynllunio ieithyddol geisio cadw, cynnal a datblygu nodweddion cymdeithasol a diwylliannol y lleiafrif Cymraeg.[82]

## 2.5 Cymdeithaseg ieithoedd

Yn ei lyfr am hawliau ieithoedd lleiafrifol, mae Stephen May yn trafod grym rhwng ieithoedd a'u siaradwyr, a sut a pham mae ieithoedd yn colli statws a pharch. Noda nad yw ieithoedd a siaredir mewn cymdeithasau sy'n ffynnu yn economaidd ac yn gymdeithasol byth yn dirywio neu'n marw.[83] Collir statws iaith oherwydd ffactorau cymdeithasol a gwleidyddol yn ddieithriad, ac mae hyn yn wir am ieithoedd mewn hen drefedigaethau gymaint ag ydyw am ieithoedd rhanbarthol fel y Gymraeg.

Cyfiawnhad dros bŵer yr ieithoedd llwyddiannus yw eu 'communicative currency'.[84] Mae gan iaith ddwy rôl elfennol: rôl wrth gyfathrebu a rôl symbolaidd. Y cyntaf, yn gryno, yw'r posibilrwydd o siarad â phobl eraill, tra mae a wnelo'r rôl symbolaidd â bod yn rhan o'r gymdeithas sy'n siarad yr iaith honno. I siaradwyr prif iaith, mae'r iaith yn cymryd y ddwy rôl heb fod angen tynnu sylw ato. Defnyddir yr un iaith i fusnes a gwaith, ac i fynegi diwylliant a hanes y gymdeithas.

Mae ieithoedd lleiafrifol wedi colli eu gwerth cyfathrebu am wahanol resymau. Naill ai cânt eu gwahardd o fywyd cyhoeddus, neu nis ystyrir hwy bellach mor 'effeithiol', efallai am nad oes digon o bobl yn eu deall. Yn aml, mae gwella sefyllfa economaidd personol a llwyddiant cymdeithasol yn dibynnu ar y brif iaith.

Serch hynny, gall gwerth symbolaidd yr iaith barhau. Mabwysiedir y brif iaith mewn nifer o beuoedd penodedig, yn yr hyn a eilw John Edwards (yn

---

[82] Colin Williams, 'Language Planning and Minority Language Group Rights', *Cambria: A Welsh Geographical Review 9(1)* (1982), t. 67.
[83] May, *Language and Minority Rights*.
[84] John Edwards, *Multilingualism* (Llundain, 1994), t. 114.

nhraddodiad y cysyniad o *diglossia*) yn 'domains of necessity'.[85] Golyga hyn fod colli'r ieithoedd brodorol yn lles i'r siaradwyr, ac y bydd y brif iaith yn agor ffyrdd newydd iddynt wella eu bywydau. Mewn geiriau eraill, meddai John Edwards, dilyn y ffordd gyda'r rhwystrau lleiaf a wna mwyafrif y boblogaeth, pa bynnag iaith y siaradant: 'One is tempted to frame an iron law in these matters: people will not indefinitely maintain two languages when one will serve across all domains.'[86] A dilyn y rhesymeg hon, nid oes pwrpas ystyried ymestyn gwerth cyfathrebu'r iaith leiafrifol, nac amau grymoedd y system wleidyddol sy'n arwain at y shifft ieithyddol yn y lle cyntaf. Cyffelybir polisïau iaith sy'n ceisio cryfhau'r iaith leiafrifol i orfodaeth ar siaradwyr y brif iaith. Mynegir, felly, gwrthwynebiad i ymgyrchoedd a phwysau gwleidyddol ar ran yr iaith leiafrifol, gan ddweud na ddylid gwneud yr un camgymeriadau ag a wnaethpwyd gynt ar ran yr iaith ddominyddol. A dyfynnu John Edwards eto:

> In the absence of dictatorial methods, the pressures which threaten the language and which rest upon historical and social evolution […] are very powerful. More importantly, perhaps, they are pressures which have always existed, for all groups, and the changes they lead to, while certainly causing distress and upheaval, are not easily dismissed by most populations.[87]

Dylid, felly, dderbyn llwybrau hanes a derbyn mai dim ond mewn un iaith y gellir cyfathrebu mewn busnes a gwleidyddiaeth. Dengys Marta García González y gall deinameg cymdeithas ddatblygu yn wahanol i'r syniad hwn. Dyfynna'r sefyllfa yn Nigeria fel enghraifft o gymdeithas lle mae dwyieithrwydd sefydlog wrthi'n troi i fod yn fwy hyblyg, a'r ieithoedd yn treiddio i beuoedd newydd. Byddai gan bob iaith rôl arbennig: siaredid Arabeg i addoli Islam, Saesneg mewn addysg gyhoeddus, a Pidgin yn y marchnadoedd. Fodd bynnag, gyda'r newid cymdeithasol ar garlam yn Nigeria, mae mwy o bobl yn symud o'r wlad i'r trefi. Maent yn gadael eu hamgylchedd a'u gwaith traddodiadol hefyd ac felly yn newid eu sefyllfa gymdeithasol. Mae hyn yn creu cyfleoedd newydd a chysylltiadau newydd rhwng yr ieithoedd.[88]

---

[85] Edwards, *Multilingualism*, t. 110.
[86] Ibid., t. 110.
[87] Ibid., tt. 108-109.
[88] Marta García González, 'Translation of minority languages', t. 113.

Ond dro ar ôl tro, cyfiawnheir colli iaith (mae John Edwards yn mynnu siarad am 'newid' yn hytrach nag am 'golli' iaith[89]), os yw hyn yn ymateb i bwysau economaidd. Gwelir y pwysau hynny yn rhywbeth na ellir ac na ddylid ei wrthwynebu, fel petaent yn rhyw fath o 'force majeure' y farchnad rydd, neu fel cyfle unigryw na ddylid ei golli. Honnir bod y Saesneg bellach yn ddull i gyfathrebu'n rhyngwladol, nid yn arf i ddominyddu.

Ond nid yw pawb yn fodlon derbyn y pwysau economaidd fel cyfiawnhad dilys, nac ychwaith fel unig rheswm i ddatblygiad ieithoedd. Meddai Robert Phillipson:

> The unequal power relations between English and other languages are explained and legitimated. It fits into the familiar linguistic pattern of the dominant language creating an exalted image of itself, other languages being devalued, and the relationship between the two rationalized in favour of the dominant language. This applies to each type of argument, whether persuasion, bargaining, or threats are used, all of which serve to reproduce English linguistic hegemony.[90]

Cyfeiria Glyn Williams yntau yn feirniadol at yr honiad bod y system wleidyddol, er enghraifft trwy gyflenwi addysg yn y brif iaith, yn cynnig y cyfleoedd gorau posibl i unigolion fanteisio arnynt. Os parheir i siarad yr iaith leiafrifol – dyma'r ddadl – mae'n fethiant ar ran yr unigolyn i elwa ar y cyfleoedd y mae'r wladwriaeth yn eu darparu, achos nad ydynt ar gael yn yr iaith leiafrifol.[91] Mae'n ddealladwy, felly, bod lleiafrifoedd ieithyddol yn derbyn y system fel y mae'n gweithio. Ac mae'n ffordd i'r awdurdodau 'brofi' eu hewyllys dda tuag atynt: 'Language shift becomes a gratifying act associated with the gain in status achieved by the enterprising individual.'[92]

Fel 'normativity' y disgrifia Glyn Williams a Delyth Morris y syniadaeth hon, sef mai yn y brif iaith yn unig y gellid cynnal trafodaeth am fyd gwaith neu gyfarfod cyhoeddus, am yr ysgol neu am wleidyddiaeth. Ond syniadaeth ideolegol ydyw, 'an ideology which serves to disadvantage and exclude while integrating'.[93] Yn enw cynnydd economaidd a chymdeithasol, gorfodir siaradwyr yr iaith

[89] Edwards, *Multilingualism*, t. 116.
[90] Robert Phillipson, *Linguistic Imperialism* (Rhydychen, 1992), t. 287-288.
[91] Glyn Williams, *Sociolinguistics*, t. 107.
[92] Ibid., t. 108.
[93] Williams/Morris, *Language Planning and Language Use*, t. 4.

leiafrifol i dderbyn y normau hyn sy'n deillio o rym y wladwriaeth. Dyma ddiffiniad Gideon Toury o normau:

> Norms are the key concept and focal point in any attempt to account for the social relevance of activities, because their existence, and the wide range of situations they apply to […], are the main factors ensuring the establishment and retention of social order.[94]

Unwaith y mae'r normau hyn wedi eu sefydlu, cânt effaith niweidiol hirdymor ar leiafrifoedd ieithyddol sy'n teimlo eu bod yn cael eu trin fel 'estroniaid oddi mewn'.[95]

Galwyd y broses hon yn 'drais symbolaidd' gan y cymdeithasegydd Pierre Bourdieu.[96] Mae Bourdieu yn cynnig y term hwn i bwysleisio mai trais trwy wthio agweddau'r mwyafrif ar feddylfryd y lleiafrif yw hwn. Trwy dderbyn y meddylfryd hwn, cydweithreda siaradwyr iaith leiafrifol yn ddistaw i ddinistrio eu cyfrwng cyfathrebu eu hunain. Byddai rhaid ceisio newid y normau, sef newid y canfyddiad o'r hyn sy'n 'normal', er mwyn gwyrdroi hyn.

Yn y cyd-destun hwn, sonia Williams a Morris am 'ymddygiad sefydliadol', sef ymddygiad ieithyddol rheolaidd nad yw siaradwyr yn ymwybodol ohono oherwydd y'i cymerir yn ganiataol. Ystyriant y cysyniad o sefydliadoli defnydd iaith yn fwy buddiol na siarad am 'beuoedd', oblegid nid y pau sy'n penderfynu defnydd iaith, ond y ffordd y cyflyrir unigolion mewn sefyllfaoedd o sgwrsio rhyngbersonol i siarad un iaith neu'r llall.[97] Yr ymddygiad cymdeithasol sy'n bwysig wrth ddefnyddio iaith neu ieithoedd, nid y cyd-destun ei hun:

> The use of different languages […] relates to the social and institutional context, not as a reflection or manifestation of that context, but rather as part of that context. Language is social behaviour.[98]

Os yw polisi i fod i hwyluso defnydd cyfartal o'r ddwy iaith, rhaid gallu cymryd yn ganiataol bod defnyddio'r Gymraeg yn normal, hynny yw, nad yw defnyddio'r Gymraeg ddim yn 'wahanol' i'r norm. Ond yng Nghymru ar hyn o bryd, mae polisïau ieithyddol mewn llawer o lefydd yn mynnu bod siaradwyr

---

[94] Gideon Toury, *Descriptive Translation Studies and beyond* (Amsterdam, 1995), t. 55.
[95] Williams/Morris, t. 5.
[96] Dyfynnir gan May, *Language and Minority Rights*, tt. 153-56.
[97] Williams/Morris, t. 25.
[98] Ibid., t. 26.

Cymraeg yn datgan eu dymuniad i siarad Cymraeg ymlaen llaw, ac mae hyn cystal â gorfod datgan eu bod yn wahanol i'r norm.[99]

Gellir cymharu polisi Canada gyda datganiad cynghorau sir a dosbarth yng Ngwynedd yn y 1970au i redeg eu gweithgareddau mewnol yn Gymraeg. Bellach, mae Cyngor Gwynedd yn disgwyl rhywfaint o allu yn y Gymraeg gan ei holl weithwyr (er nad yw hyn bob amser yn digwydd), ac un o amcanion sylfaenol ei gynllun iaith yw 'sefydlu'r Gymraeg fel iaith swyddogol gweinyddiad mewnol y Cyngor gan ddarparu cyfleusterau hyfforddiant mewn swydd i alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg'.[100] Er nad yw hyn wedi ei sylweddoli'n llwyr, ac er y ceir amrywiaeth o adran i adran, ar ôl deng mlynedd ar hugain o bolisïau iaith, mae mwyafrif y staff wedi derbyn mai Cymraeg yw iaith y Cyngor i weithwyr Cymraeg, a'r Saesneg i weithwyr di-Gymraeg yn unig (a hwythau heb fod â rôl gyhoeddus nac yn cwrdd â'r cyhoedd).[101]

Eto, a'r traddodiad wedi ei sefydlu o fewn y Cyngor ei hun, ni chynigia sefydliadau eraill yng Ngwynedd yr un faint o ymroddiad i ddwyieithrwydd – er bod hyrwyddo hyn yn amcan gan y Cyngor.[102] Ond wrth gymharu, er enghraifft, bolisïau iaith colegau Prifysgol Cymru Bangor ac Aberystwyth yn y 1980au, mae dylanwad Cyngor Gwynedd yn amlwg. Mae'n bosibl creu traddodiad newydd o ddefnyddio iaith o fewn sefydliadau penodol (sef y broses mae Williams/Morris yn ei galw'n 'sefydliadoli'r iaith').

Mae cyfieithu a chyfieithwyr wedi chwarae rôl dra phwysig wrth sefydlu'r Gymraeg yn iaith Cyngor Gwynedd. Helpodd cyfieithu testun i ddatblygu'r iaith weinyddol sydd heddiw yn cael ei derbyn gan weithwyr Cymraeg yn y sector gyhoeddus. Erbyn hyn, mae gwaith prawfddarllen a golygu'r cyfieithwyr yn cynyddu, wrth i ragor o staff fentro ysgrifennu yn Gymraeg eu hunain.[103] Ac mae cyfieithu ar y pryd yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cynifer o sefyllfaoedd â phosibl.

---

[99] Ibid., tt. 192-95.
[100] Cyngor Gwynedd, *Cynllun Iaith Gymraeg 2005-2009*, <www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/863/Cynllun_Iaith_Diwygiedig_3.pdf> [25 Ionawr 2007] (Adran 1.1.8, t. 3).
[101] Delyth Morris, 'Yr Iaith Gymraeg a Cynllunio Awdurdodau Lleol', t. 563.
[102] Cyngor Gwynedd, *Cynllun Iaith Gymraeg 2005-2009*, Adran 2.7.6, t. 11.
[103] Carlin, 'Camau dros hyrwyddo'r Gymraeg mewn dau awdurdod unedol yng Nghymru', t. 34.

Mae cyfieithu, wrth natur, yn rhan bwysig, nid yn unig o arfer iaith, ond o gyswllt rhwng diwylliannau hefyd. Ac mae trafod grym yn rhan ganolog o drafodaethau ar gyfieithu. Mewn astudiaethau cyfieithu fe drafodir, er enghraifft:

> how […] dominant languages/cultures assimilate (through categories of the familiar) subaltern languages/cultures to their own ideological imperatives; or conversely, how translation can be a site for ideological transformation through resistance against or transgression of dominant codes.[104]

I ddibenion y drafodaeth bresennol, edrychir am y posibiliad o ddefnyddio cyfieithu ar y pryd fel un modd i sefydliadoli'r Gymraeg fel iaith normal mewn cyfarfodydd o unrhyw fath. Cynigia arferion Cyngor Gwynedd enghraifft o hyn yn dwyn ffrwyth. Ond bydd cymharu sefyllfaoedd amrywiol yn ein galluogi i weld ble y gall cyfieithu ar y pryd fod yn fuddiol wrth sefydliadoli ymddygiad cymdeithasol-ieithyddol newydd.

Yn ddiddorol, nid yn unig siaradwyr ieithoedd lleiafrifol sy'n ildio i resymeg 'hwylustod ieithoedd' (a'r Saesneg yn arbennig), ond hefyd siaradwyr ieithoedd cryfion eraill. Mynega Almaenwyr eu pryder pan gynhelir mwyfwy o gynadleddau yn Saesneg, hyd yn oed cynadleddau a dim ond Almaenwyr yn eu mynychu. Cyn bo hir, yn ôl rhagolygon llwm Hermann Dieter o'r *Verein für Deutsche Sprache* (Cymdeithas yr Iaith Almaeneg), ni fydd yr Almaeneg ond yn dderbyniol fel *Feierabendsprache* (iaith gyda'r nos, iaith ar ôl gwaith).[105] Unwaith eto, 'communicative currency' sy'n sail i'r datblygiad hwn, yn enwedig pan gyhoeddir erthyglau gwyddonol neu feddygol yng nghylchgronau arbenigol yr Almaen yn Saesneg, gyda'r bwriad o gyrraedd cynulleidfa fwy.[106]

Yn y drafodaeth am hybu lleiafrifoedd, mae llawer o sôn am integreiddio lleiafrifoedd, am integreiddio cymdeithas, neu am gymathu.[107] Ystyr cymathu, yn ôl Don Cartwright, yw pwyso rhywfaint ar leiafrifoedd i ymdoddi i ddiwylliant y

---

[104] Anuradha Dingwaney, Adolygiad o *Translation and Multilingualism: Post-colonial Contexts* gan Shantha Ramakrishna, yn *The Translator 4 (2)* (1998), t. 368.

[105] Katarina Kramer, 'Das lautlose Sterben vieler kleiner Universen', *Süddeutsche Zeitung,* 23/24 Chwefror 2002, t. VI.

[106] O wledydd yr Undeb Ewropeaidd, ymddengys mai Ffrainc yw'r unig un sy'n sefyll allan yn ei gais i gael lle teilwng i'r Ffrangeg ochr yn ochr i'r Saesneg. Yn nodweddiadol, hwy yw'r rhai a gysidrir yn rhyfedd, nid y lleill.

[107] E.e. Tove Skutnabb-Kangas, 'Language Policy and Linguistic Human Rights', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method,* gol. Thomas Ricento (Rhydychen, 2006), t. 275; Mäder, 'Sprache und Recht: Minderheitenschutzrecht in Deutschland'.

mwyafrif er mwyn gwella cydweithio ac undod cenedlaethol.[108] Er enghraifft, ceir sôn am gymathu yng nghyd-destun lleiafrifoedd ethnig neu fewnfudwyr yn yr Unol Daleithiau a'u polisi o 'English Only.'[109] Yn y cyd-destun hwn, pwysleisir cyfleoedd cyfartal trwy dderbyn diwylliant y lletywr yn hytrach na rhoi mwy o gyfleoedd i ddiwylliannau eraill. Enghraifft arall o'r awydd i gymathu mewnfudwyr yw'r 'Ministry of Immigrant Absorption' yn Israel sy'n annog mewnfudwyr i integreiddio yng nghymunedau Israel, i ddysgu Hebraeg ac i fabwysiadu'r grefydd Iddewig. [110] Pwysir, felly, trwy rym gwleidyddol ar leiafrifoedd i ymaddasu, ac nid yw hyn o reidrwydd er lles eu hunaniaeth ddiwylliannol. Pwyswyd yr un fath ar siaradwyr Cymraeg i ymaddasu i'r diwylliant Saesneg. Heb feddu ar rym eu hunain, siaradwyr y diwylliannau llai fydd yn colli rheolaeth dros eu hiaith a'u diwylliant, boed yn eu gwlad eu hunain, neu mewn gwledydd eraill. Mae 'addysg trochi', i'r gwrthwyneb, yn enghraifft o sut y mae llywodraethau lleol neu ranbarthol yn ceisio cryfhau'r iaith leiafrifol fel ail iaith ymysg siaradwyr yr ieithoedd mwy pwerus. Mae hyn, felly, yn gais i gymathu er lles y diwylliant lleiafrifol.[111]

Fel y crybwyllwyd eisoes, gall cyfieithu fod yn ddefnyddiol wrth newid y berthynas rhwng cymunedau'r iaith leiafrifol a'r brif iaith. Trwy osod y ddwy iaith ar wahân, mae'n diffinio'r brif iaith fel iaith dramor, ac felly mae cyfieithu yn symbol o'r ymgyrch i ennill mwy o ofod ac annibyniaeth i'r iaith leiafrifol.[112] A chan fenthyg o waith George Steiner, dywed Keith Harvey y gall cyfieithu agor posibiliadau newydd:

> A translation can be seen as "a mirror which not only reflects but also generates light", i.e. as not merely the outcome of established determinations/manipulations in the receiving socio-cultural system but as an *event* opening up the possibility (however minor) of ideological innovation.[113]

---

[108] Don Cartwright, 'Geolinguistic Analysis in Language Policy', t. 203.
[109] Ronald Schmidt, 'Political Theory and Language Policy', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, gol. Thomas Ricento (Rhydychen, 2006), tt. 103-104.
[110] <http://www.moia.gov.il/Moia_en/HomePage.htm> [19 Mehefin 2008].
[111] Colin Baker a Sylvia Prys Jones, *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education* (Clevedon, 1998), tt. 496-507.
[112] Oscar Diaz Fouces, 'Translation policy for minority languages in the European Union: globalisation and resistance', yn *Less Translated Languages*, gol. Albert Branchadell a Margaret West (Amsterdam, 2005), t. 101.
[113] Keith Harvey, ' "Events" and "Horizons": Reading Ideology in the "Bindings" of Translations', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion, 2003), t. 46.

Cydnabyddir mewn astudiaethau cyfieithu fod gan gyfieithu a chyfieithu ar y pryd botensial nid yn unig i herio'r normau cymdeithasol, ond i'w newid hefyd.

## 2.6 Agweddau cymdeithasol cyfieithu

Fel maes academaidd, mae astudiaethau cyfieithu, dros y degawdau, wedi bod yn benthyg syniadau a dulliau ymchwil o feysydd amrywiol, megis astudiaethau diwylliannol, ieithyddiaeth, llenyddiaeth, athroniaeth, hanes a chymdeithaseg. Cafwyd gwahanol 'droadau' yn yr ymchwil, gan ganolbwyntio weithiau ar y diwylliannau dan sylw, dro arall ar normau cymdeithasol, ac yn fwy diweddar, ar ideoleg a hunaniaeth mewn cyfieithu.[114] Edrychir isod ar rai o'r syniadau am 'gymdeithaseg cyfieithu' sy'n fwyaf perthnasol i gyfieithu ar y pryd yng Nghymru. Gan fod diwylliannau a chymdeithasau lleiafrifol yn arbennig o fregus, efallai y dylid talu sylw arbennig i gyfieithu mewn ieithoedd lleiafrifol o safbwynt cymdeithasol.

Dros y degawdau, ystyriwyd gwahanol agweddau cymdeithasol mewn prosesau a gweithgarwch cyfieithu. Ni fodlonwyd mwyach ar y testun a'i berthynas â'r cyfieithiad fel yr unig a'r prif wrthrych i'w astudio. Gosododd 'damcaniaethau polysystem' yn yr 1980au, er enghraifft, lenyddiaeth gyfieithiedig o fewn system lenyddol a hanesyddol y diwylliant targed, gan grybwyll agweddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar gynhyrchu cyfieithiadau. Esbonia Theo Hermans: 'Polysystems theory […] provides a way of connecting translations with an array of other factors in addition to source texts. In other words, it integrates translation into broader sociocultural practices and processes.'[115]

Roedd sôn am normau cyfieithu tua'r un pryd yn pwysleisio'r ffaith fod normau cymdeithasol yn effeithio ar brosesau cyfieithu. Cynhyrchid unrhyw gyfieithiadau yn unol ag arferion y gymdeithas a disgwyliadau'r sefydliadau a oedd yn eu harchebu (yn ogystal â normau proffesiynol cyfieithu).[116] Ond er nad yw'r normau cymdeithasol hyn yn sefydlog (a'r cyfieithwyr eu hunain yn cyfrannu at eu datblygiad), meddai Daniel Simeoni eu bod yn pwysleisio un posibiliad yn

[114] Mary Snell-Hornby, *The Turns of Translation Studies* (Amsterdam, 2006).
[115] Theo Hermans, *Translation in Systems: Descriptive and System-oriented Approaches Explained* (Manceinion, 1999), t. 110.
[116] Toury, *Descriptive Translation Studies and beyond*.

fwy na phob un arall: 'They could be seen as powerful, mostly anonymous forces imposed on agents, shaping their beliefs and, ultimately, the habitus of the profession, leaving alternative sources of creation untapped.'[117] Dyma, felly, ddylanwad y gymdeithas ar gyfieithwyr a chyfieithiadau.

Yn yr un modd, roedd damcaniaethau o *skopos* (pwrpas) cyfieithu, a 'chyfieithu ymarferol' (*funktionales Übersetzen*) yn mynnu bod cyfieithiadau yn cynrychioli'r pwrpas y bwriedir ei gyflawni wrth gyfieithu testun.[118] Disgrifiwyd pwrpas unrhyw destun fel y cyfuniad rhwng rôl yr awdur a'r darllenydd/ gwrandawr, y sefyllfa gyfathrebu, bwriad yr awdur (y neges), disgwyliadau'r darllenydd/gwrandawr, lleoliad, amser, cyfrwng, amgylchiadau ac achlysur y cyfathrebu.[119] Wrth gyfieithu, rhaid bod yn ymwybodol o'r holl agweddau hyn sydd, wedi'r cwbl, yn gosod y testun, neu'r neges, mewn cyd-destun cymdeithasol.

Galwyd cyfieithu, heb fawr syndod ac yn gwbl addas, yn 'gyfathrebu rhyngddiwylliannol', gan ddisgrifio'r agweddau cudd ar gyfieithu. Meddai Heinz Göhring yn ei grynodeb am y pwnc,

> Zur Kommunikation gehört aber auch die andere Seite, nämlich das, was beim Empfänger ankommt und von ihm jeweils in Übereinstimmung mit seinen kulturellen Gewohnheiten interpretiert wird. Interkulturelle Kommunikation wäre also das bewußte und unbewußte Aussenden und Empfangen von Botschaften über kulturelle Grenzen hinweg.[120]

Ymysg y *kulturellen Gewohnheiten*, yr arferion diwylliannol, mae'n cyfrif ymarweddiadau tuag at oedran, rhyw, hierarchiaeth, ffurfioldeb a chwrteisi, hefyd rheolau ynghylch pellter ac agosatrwydd (sy'n dod i'r golwg mewn ffurfiau fel 'ti' a 'chi'), a hefyd profiadau hanesyddol, traddodiadau, a gwerthoedd. Ac mae'n rhaid i gyfieithwyr allu adnabod yr hyn sy'n cael ei ddweud rhwng y geiriau, a gallu ymateb iddo, fel y rhybuddia Fernando Poyatos:

---

[117] Daniel Simeoni, 'Between sociology and history: Method in context and in practice', yn *Constructing a Sociology of Translation,* gol. Michaela Wolf ac Alexandra Fukari (Amsterdam, 2007), t. 201.

[118] Katharina Reiss a Hans Vermeer, *Grundlegung einer allgemeinen Translationstheorie* (Tübingen, 1984).

[119] Christiane Nord, *Einführung in das funktionale Übersetzen* (Tübingen, 1993), t. 9.

[120] 'Ochr arall cyfathrebu yw'r hyn sy'n cyrraedd y derbynnydd, hyn sy'n cael ei ddehongli ganddo yn unol â'i arferion diwylliannol. Cyfathrebu ar draws diwylliannau, felly, fyddai'r anfon a'r derbyn o negeseuon dros ffiniau diwylliannol, boed yn ymwybodol neu'n anymwybodol.' Heinz Göhring, 'Interkulturelle Kommunikation', yn *Handbuch Translation*, gol. Mary Snell-Hornby et al. (Tübingen, 1999), t. 113.

> Any of those nonverbal systems undergo profound changes through translations, and translators need to become extremely sensitive to all that happens or does not happen as they translate a text, for it is well known that translation is not only an interlinguistic exercise, but an intercultural one as well.[121]

Tan hynny, gwelwyd rheidrwydd cyfieithu i fod yn ymwybodol o'r gymdeithas a'i diwylliant wrth gyfieithu er mwyn gwneud cyfiawnder â'r testun, â'r bwriad o gyfieithu, ac felly, â'r neges. Ond fe sylweddolwyd hefyd nad derbyn ac ymaddasu i'r normau cymdeithasol yn unig mae cyfieithu. Mae'n chwarae rhan bwysig wrth eu ffurfio hefyd.

Erbyn canol y 1990au, dechreuwyd asesu cyfieithu fel gweithgarwch ac iddo ysgogiad gwleidyddol. O fewn y thema eang hon, cafwyd, er enghraifft, astudiaethau ar rôl cyfieithu mewn ymdrechion i gryfhau ymerodraethau, neu i ymryddhau oddi wrthynt.[122] Canolbwyntiodd y rhain ar y ffaith fod cyfieithu yn cael ei ddefnyddio yn bwrpasol i ymledu ymarferion, gwerthoedd ac ideolegau diwylliannol ac nad yw, felly, yn weithred 'niwtral' o bell ffordd.

Mewn ymdriniaethau am yr ideoleg tu ôl i gyfieithu, pwysleisir bod unrhyw gynllunio cyfieithu hefyd yn gynllunio cymdeithasol. Dadleuir yn y rhagair i'r gyfrol *Apropos of Ideology* fod cyfieithiadau bob amser yn cyffwrdd ag ideoleg:

> Translations have been ideological simply by existing […]; by being subjected to various forms of (religious) creeds, which ultimately took translators to be burnt at the stake or to be threatened (and killed) by notorious *fatwas*; or by echoing all sorts of value-related messages.[123]

Ceisia'r dadleuon hyn dderbyn y ffaith na all cyfieithu bob amser fod yn weithred heddychlon neu niwtral. Ac ni chroesewir safbwyntiau felly ym mhob man, fel adrodda Eva Hung o Tseina: 'Translation as a tool that enables communication between cultures has gained endorsement from the state, but intellectual investigations which challenge the concept of translation as a neutral tool are not as welcome.'[124] Mae hyn yn dangos na ellir cael cyfieithu heb ideoleg.

---

[121] Fernando Poyatos, 'Aspects, problems and challenges of nonverbal communication', yn *Nonverbal Communication and Translation*, gol. Fernando Poyatos (Amsterdam, 1997), t. 18.
[122] Robinson, *Translation and Empire*; Maria Tymozcko, *Translation in a Postcolonial Context* (Manceinion, 1999).
[123] María Calzada Pérez, 'Introduction', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion, 2003), t. 2.
[124] Eva Hung, gol., *Translation and Cultural Change* (Amsterdam, 2005), t. ix.

Datblygiad pellach yw astudiaethau diweddar sy'n canolbwyntio ar gyfieithu mewn amgylchiadau anodd o wrthdaro gwleidyddol.[125] Trafodir cyfieithwyr fel unigolion mewn rhwydweithiau a pherthnasau o rym, gan draethu, er enghraifft, ar gyfieithu mewn rhyfeloedd neu yn y cyfryngau rhyngwladol. Gyda *Translation and Conflict,* ystyria Mona Baker wrthdaro fel rhywbeth sy'n bresennol ym mywydau pawb, nid yn unig mewn amgylchiadau eithafol, gan bwysleisio rôl cyfieithu yn hyn:

> In this conflict-ridden and globalized world, translation is central to the ability of all parties to legitimize their version of events, especially in view of the fact that political and other types of conflict today are played out in the international arena.[126]

Canolbwyntia ar *their version*, y naratif, gan ddal: 'Translation is a major variable influencing the circulation and legitimation of the narratives that sustain these activities [sef y rhyfeloedd cyfoes].'[127] Cyfieithu, felly, fel rhan o'r drwg yn y byd.

Yn rhan o’r trafodaethau hynny mae'r bwriad i astudio goblygiadau cyfieithu i hunaniaeth pobl. Asesa Michael Cronin, yn ei *Translation and Identity*, brofiadau ac arferion cyfieithu mewn hanes ac ar draws y byd i ddangos bod cyfieithu yn rhan hanfodol o ddatblygiad diwylliannol. Yn yr un modd, canolbwyntia'r traethodau mewn dwy gyfrol arall, sef *Translation and Nation*, a *Translation and the Construction of Identity*, ar gyfieithu fel arf pwerus i wella amrywiaeth ddiwylliannol, potensial cyfieithu i gryfhau hunaniaeth benodol, neu i (gam)gynrychioli hunaniaethau pobl eraill.[128]

Yn hynny o beth, ac efallai o ddiddordeb arbennig i'r astudiaeth bresennol, ceir sôn hefyd am y berthynas rhwng cyfieithu a lleiafrifoedd. Cyflwynir, yn *Translation and Minority*, y problemau diwylliannol a ieithyddol a wynebir gan gyfieithwyr a chyfieithu mewn lleiafrifoedd ieithyddol a lleiafrifoedd eraill (hoyw, er enghraifft), gan dynnu sylw at yr amgylchiadau economaidd a gwleidyddol a fu

[125] Myriam Salama-Carr, gol., *Translating and Interpreting Conflict* (Amsterdam, 2007); Mona Baker, *Translation and Conflict: A Narrative Account* (Llundain, 2006).
[126] Mona Baker, *Translation and Conflict,* t. 1.
[127] Ibid., t.2.
[128] Roger Ellis a Liz Oakley-Brown, gol., *Translation and Nation: Towards a Cultural Politics of Englishness* (Clevedon, 2001); Juliane House, Rosario Martín Ruano a Nicole Baumgarten, gol., *Translation and the Construction of Identity*, (Seoul, 2005).

yn dylanwadu arnynt.[129] Mae *Less Translated Languages* yn gasgliad o astudiaethau o ieithoedd mawr sydd heb gael eu cyfieithu llawer (megis Arabeg), a rhai o ieithoedd bychain fel y Gatalaneg, gan danlinellu, unwaith eto, perthnasau o rym fel yr hyn sy'n diffinio sefyllfa'r ieithoedd hyn, a diffinio cyfieithu i ac o'r ieithoedd hyn.[130]

Cafwyd, felly, drafodaethau helaeth am gyfieithu a'i ran mewn 'peirianneg cymdeithasol', chwedl Colin Williams. Mae Michaela Wolf yn cynnig gorolwg o amrywiaeth o gymdeithasegau o fewn cyfieithu, megis cymdeithaseg y cyfieithydd fel asiant, cymdeithaseg y broses gyfieithu, a chymdeithaseg y cynnyrch diwylliannol.[131]

Un o brif amcanion y traethawd ymchwil hwn yw holi sut y gall cyfieithu ar y pryd hybu cyfleoedd ychwanegol i siarad Cymraeg. Yn sicr, mae ymchwilwyr cyfieithu wedi canfod bod gan gyfieithu ar y pryd, fel cyfieithu testun, y potensial i ddylanwadu ar amgylchiadau cymdeithasol. Ond mae'n broses ddwyffordd, fel noda Moira Inghilleri:

> The interpreted text is viewed as both generating and being generated from the social contexts of its occurrence, and interpreters are viewed as actively involved in the development and outcome of micro-level exchanges.[132]

Mae maes astudiaethau cyfieithu ar y pryd mewn gwasanaethau cyhoeddus, sef 'community interpreting' neu 'dialogue interpreting' fel y'i gelwir yn Saesneg, wedi datblygu yn gyflym dros yr ugain mlynedd diwethaf. Gosodir y gweithgarwch hwn o gyfieithu ar wahân i gyfieithu ar y pryd mewn cynadleddau, gan ei fod yn gyfathrebu wyneb-yn-wyneb yn hytrach na chyfres o fonologau. Pwysleisir bod sawl sefyllfa o 'community interpreting' yn 'stressful and sensitive' ac o natur 'particularly face-threatening'.[133] Caiff y cyfieithwyr eu dal ynghanol hyn: 'In community encounters there is almost always a power differential, which in itself places a range of additional constraints on the interpreter.'[134] Canolbwyntia llawer o'r astudiaethau hyn ar rôl y cyfieithydd (cyfieithydd

---

[129] Lawrence Venuti, gol., *Translation and Minority* (Manceinion, 1998).
[130] Branchadell/West, *Less Translated Languages* (Amsterdam, 2005).
[131] Michaela Wolf, 'Introduction: The emergence of a sociology of translation', yn *Constructing a Sociology of Translation*, gol. Michaela Wolf ac Alexandra Fukari (Amsterdam, 2007), tt. 14-18.
[132] Moira Inghilleri, 'Aligning Macro- and Micro-Dimensions in Interpreting Research', yn *Translation Research and Interpreting Research: Traditions, Gaps and Synergies*, gol. Christina Schäffner (Clevedon, 2004), t. 72.
[133] Ian Mason, 'Introduction', *Dialogue Interpreting* (Manceinion, 1999), t. 148.
[134] Ibid., t. 148.

amhleidiol neu ddadleuwr?), ac ar y dewisiadau posibl sydd ganddo wrth gyfieithu gyda'u holl oblygiadau. Wrth gyfieithu ar y pryd yng Nghymru, gallwn ofyn, gydag Anne Martin a Carmen Valero-Garcés: 'Is community interpreting aimed at facilitating communication, empowering individuals by giving them a voice or, in wider terms, at redressing the power balance in society?'[135] Os gwelir cyfieithu ar y pryd fel rhan o gynllunio ieithyddol, mae'n debyg bod y tri ateb yn ddilys, gyda phwyslais ar newid y berthynas grym er mwyn rhoi llais i bobl.

Mae ymchwil yn y maes wedi disgrifio llu o sefyllfaoedd lle mae'r cyfieithwyr yn cael eu dal yn y deinameg grym hwn. Dylid dilyn hyn gyda cham arall, noda Moira Inghilleri:

> If, indeed, interpreters do play a central role in interpreted events, it is worth investigating how, when and in what contexts interpreters are more likely, consciously or unconsciously, to contribute to the continuity of hegemonic social/linguistic processes or to challenge them.[136]

Nod y traethawd hwn yw ceisio cynnig rhan o'r ateb.

Sylwer yn y fan hon fod y ddwy ddisgyblaeth a gyflwynwyd yn y bennod hon – cynllunio ieithyddol ac astudiaethau cyfieithu – yn edrych ar yr un cwestiwn o safbwyntiau gwahanol. Pa brosesau ym mha gyswllt rhwng siaradwyr dwy iaith sy'n dylanwadu yn gadarnhaol ar hunaniaeth gymdeithasol siaradwyr ieithoedd lleiafrifol? Tra ceisia cynllunwyr iaith ennyn perchnogaeth gryfach ac ehangach ar y Gymraeg er mwyn sicrhau ei defnydd, ceisia cyfieithwyr esbonio sut y gall cyfieithu gadarnhau prosesau cymdeithasol neu eu gwrthweithio. Yn erbyn cefnlen astudiaethau cyfieithu – a chyfieithu ar y pryd yn benodol – bydd y bennod nesaf yn mynd i'r afael â hunaniaeth Gymraeg, a'r gwrthdaro a all fod ynghlwm wrthi.

---

[135] Anne Martin a Carmen Valero-Garcés, *Crossing Borders in Community Interpreting* (Amsterdam, 2008), t. 3.
[136] Moira Inghilleri, t. 73.

# 3 Cyfieithu, hunaniaeth, democratiaeth

Wrth bwyso a mesur goblygiadau'r cydbwysedd neu ddiffyg cydbwysedd grym rhwng ieithoedd, rhaid sylweddoli pa mor bwysig yw iaith i'n hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Yn y bennod hon, dygir at ei gilydd drafodaethau am gyfieithu a hunaniaeth ar y naill law, ac am gynllunio ieithyddol (gyda'r bwriad o greu hunaniaeth leiafrifol gryfach), ar y llall. Mae'r drafodaeth ynghylch cyfieithu llenyddiaeth ar ddechrau'r bennod yn amlygu'r ansicrwydd ynglŷn â hunaniaeth leiafrifol. Rhoddir sylw i sut y mae cyfieithu yn dygymod â gwahanol syniadau o berthyn, ac yn effeithio arnynt. Rhoddir sylw hefyd i agweddau ar werth benthyg llenyddiaeth rhwng un diwylliant a'r llall.

Yn rhan ganol y bennod, trafodir syniadau am ddylanwad cyfieithu ar ganfyddiad y gymdeithas ohoni ei hun. Sonnir am agweddau cenedlaethol, cymunedol, gwyddonol a gwleidyddol ar hunaniaeth, ac am sut y defnyddir ac y defnyddiwyd cyfieithu yn ddull gwleidyddol pwrpasol i geisio hybu hunaniaeth benodol mewn gwlad neu bobl. Ceisir dangos y berthynas yng Nghymru rhwng cyfieithu a hunaniaeth ieithyddol.

Yn rhan olaf y bennod, trafodir potensial cyfieithu, nid yn unig i gyfrannu at hunaniaeth, ond hefyd i gryfhau cymdeithas sifil Cymru trwy roi hwb i hyder diwylliannol siaradwyr Cymraeg, a thrwy annog cyfranogaeth ddemocrataidd o fewn y Gymru Gymraeg.

Ac ystyried y berthynas rhwng cyfieithu ar y pryd a'r ymgais i gryfhau cymunedau Cymraeg (bydd y bennod nesaf yn canolbwyntio ar syniadau ynglŷn â chymuned yn gyffredinol, a'r gymuned Gymraeg yn benodol), bydd trafodaethau'r bennod hon yn sylfaen ac yn gefndir i drafodaethau Rhan II y traethawd, sef yr ymchwil a wnaethpwyd am ganfyddiad o gyfieithu yng Ngwynedd. Heb ddealltwriaeth o'r cyd-gysylltiadau rhwng hunaniaeth, iaith a chymdeithas, ni ellir deall sut y mae cyfieithu ar y pryd yn effeithio ar y cysylltiadau hyn.

## 3.1 Cyfieithu llenyddol er mwyn effeithio ar hunaniaeth

Bu cyfieithu llenyddiaeth erioed yn faes a dderbyniodd sylw dwys gan athronwyr a damcaniaethwyr, fel y tystia traethodau gan feddylwyr megis Cicero, Horaz, Hieronymus, Humboldt, Luther a Goethe, ymysg llawer mwy. Mae anawsterau wrth gymodi syniadau'r diwylliant 'gwreiddiol' â meddylfryd y diwylliant 'targed' wedi bod yn ganolog i'r trafodaethau hynny ers y dechrau.[1] Yn aml, bydd y bwlch rhwng y ddau ddiwylliant yn arwain damcaniaethwyr i honni bod cyfieithu yn 'amhosibl'. Agwedd arall ar yr un ddeuoliaeth yw'r syniad o gyffelybu'r weithred o gyfieithu i frad. Does ond rhaid cofio rhai o ymadroddion yr ail ganrif ar bymtheg wrth drafod cyfieithu er mwyn gweld hynny: 'Traduttore, tradittore', meddai'r Eidalwyr; 'Les belles infidèles', yng ngeiriau'r Ffrancwyr.[2] Hynny yw, cyhuddir y cyfieithydd o fradychu'r testun gwreiddiol, neu hyd yn oed o fradychu'r diwylliant y tarddodd y testun gwreiddiol ohono.

Yn sicr, mae trawsffurfiad y testun gwreiddiol, a'r dull a ddefnyddir i'w drawsffurfio (h.y. techneg y cyfieithydd) yn bwnc llosg. Gan Friedrich Schleiermacher, yn ei ysgrif *On the Different Methods of Translating*, ceir y cyferbyniad pegynol canlynol: 'Either the translator leaves the author in peace as much as possible and moves the reader toward him; or he leaves the reader in peace as much as possible and moves the writer toward him.'[3] Un ai, felly, mae'r cyfieithydd yn ceisio bod yn ffyddlon i'r testun gwreiddiol a chyfleu ei union syniadaeth a chefndir diwylliannol, gan fentro swnio'n estron yn y testun targed, neu mae'n addasu a chymhwyso'r syniadau gwreiddiol i'r diwylliant targed nes iddynt edrych fel rhywbeth a gododd o'r diwylliant targed ei hun.[4]

Bellach, mae ysgolheigion mewn astudiaethau cyfieithu yn cydnabod nad yw cyfieithu yn weithred mor syml â hynny. Nid yw cymryd ochrau ar un o'r ddau begwn hyn yn ddigon mwyach i wneud cyfiawnder â'r broses gymhleth o gyfieithu, awgryma Susan Bassnett: 'By pretending that we know what translation

---

[1] Gyda thwf disgyblaeth cyfieithu mewn prifysgolion, cyhoeddir yn awr nifer cynyddol o lawlyfrau ar ddatblygiad hanesyddol cyfieithu. Gweler, er enghraifft, Lawrence Venuti, *The Translation Studies Reader* (Llundain, 2004); Jeremy Munday, *Introducing Translation Studies: Theories and Applications* (Llundain, 2001); Jean Delisle a Judith Woodsworth, *Translators through History* (Amsterdam, 1995), Hans Vermeer, *Skizzen zu einer Geschichte der Translation* (Frankfurt am Main, 1992), neu'r gyfres *Translation Theories Explained* gan wasg St Jerome.

[2] 'Bradwr yw'r cyfieithydd.' 'Yr anffyddlon hardd.'

[3] Friedrich Schleiermacher, *On the Different Methods of Translating*, cyfieithwyd o'r Almaeneg gan Susan Bernofsky, yn *The Translation Studies Reader*, gol. Lawrence Venuti (Llundain, 2004), t. 49.

[4] Gelwir y ddau begwn hyn yn aml yn 'domesticating' a 'foreignising' yn Saesneg.

is, i.e. an operation that involves textual transfer across a binary divide, we tie ourselves up with problems of originality and authenticity, of power and ownership, of dominance and subservience.'[5]

Nid proses hawdd o drosi o'r chwith i'r dde yw cyfieithu felly. Yn hytrach, gwelir cyfieithu yn weithred llawer mwy deinamig. Fel y pwysleisia Roger Ellis a Liz Oakley-Brown, '[it is] a textual mode affected by ideological imperatives as much as any other'.[6] Pwysa tueddiadau a disgwyliadau gwleidyddol ac ideolegol ar bob cyfieithu, a hynny heb fod y cyfieithydd ei hun yn ymwybodol ohonynt bob tro.

Dichon bod dilema cyfieithu – y cwestiwn o fod yn driw i destun/ gwerthoedd/ideoleg y naill iaith neu'r llall – yn arbennig o ddramatig mewn ieithoedd lleiafrifol. Gosodwyd cyfieithu cyfoes mewn ieithoedd lleiafrifol yn y broses o geisio ailennill gofod iddynt, gofod a feddiannwyd gan ieithoedd a diwylliannau eraill yn y gorffennol. Y gamp ar gyfer cyfieithwyr mewn ieithoedd lleiafrifol yw ceisio cyfieithu heb niweidio'r iaith leiafrifol (trwy gyfieithu'n rhy lythrennol o'r iaith arall, er enghraifft), ond yr un pryd ddangos bod yr iaith yn barod i ac yn abl i ymwneud *ar yr un lefel* ag ieithoedd eraill y byd.

Un gwrthwynebiad i gyfieithu llenyddiaeth i'r Gymraeg yw y gall y testunau cyfieithiedig gymryd lle llenyddiaeth Gymraeg wreiddiol. Yr wrthddadl yw bod cyfieithu yn gallu arllwys 'gwaed newydd', fel petai, i'r iaith y cyfieithir iddi, gan ei chyfoethogi. Mae hyn yn arbennig o wir, efallai, am iaith leiafrifol.[7] 'Mae peidio â chyfieithu yn golygu derbyn y sefyllfa fel y mae,' rhybuddia Iwan Llwyd, er enghraifft. Trwy gyfieithu, gellir 'sicrhau nad yw'r peth gwych hwnnw [sef yr iaith Gymraeg] yn ffosileiddio oherwydd nad yw'n agored i ddylanwadau newydd a gwahanol'.[8]

Mae sail i leiafrifoedd ieithyddol, felly, groesawu cyfieithu fel modd i'w hiaith dyfu ac ymestyn. Yn ôl Annie Brisset o Québec, mae cyfieithu yn angenrheidiol i gadarnhau bodolaeth yr iaith leiafrifol. Wrth gyfieithu llenyddiaeth enwog i'r Québécois, gellir cyfiawnhau'r iaith a chodi ei statws:

---

[5] Susan Bassnett, *Constructing Cultures: Essays on Literary Translation* (Clevedon, 1998), t. 27.
[6] Ellis/Oakley-Brown, t. 1.
[7] Angharad Price a Sioned Puw Rowlands, gol., *2ieithrwydd/cyfieithu* (=*Tu chwith*, Gaeaf 1997).
[8] Iwan Llwyd, 'mudandod ofnus', *Taliesin 131* (2007), t. 13.

> It proves that it is the language of a people and that it can replace French as the language of literature for its people. Here, the roles are reversed: the goal of a translation is not to provide an introduction to the Other or to mediate the foreign work. It is the foreign work that is given a mission – to vouch for the existence of a Québécois 'people.' Thus, when Shakespeare, Chekhov, and Brecht are given the task of establishing Québécois as a literary language in its own right, and ultimately as a national language, they are also given the task of reflecting the reality of the society that speaks that language, of literally speaking for it, or of being its mirror.[9]

Mae cyfieithu wedi ei ddefnyddio erioed fel ffordd i gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol (a hynny gan ddiwylliannau bach a mawr). Ceisiodd Twrci, er enghraifft, 'greu' cenedl newydd ar ôl 1940, ac roedd y llywodraeth yn ymwybodol y byddai angen *repertoire* diwylliannol cyffredin i greu ymdeimlad o genedligrwydd. Rhan bwysig o'r cynllunio diwylliannol hwn oedd sefydlu Biwro Cyfieithu i gyfieithu llenyddiaeth glasurol y byd i'r Twrceg. Yn ystod chwe blynedd ar hugain ei fodolaeth, cynhyrchodd y Biwro 1,247 o weithiau newydd yn Nhwrceg.[10] Enghraifft yw hon o ideoleg yn ffurfio polisi cyfieithu ac yn rheoli cyfieithu mewn cyd-destun penodol. Dengys yn glir fod cynllunio cyfieithu hefyd yn gynllunio gwleidyddol, diwylliannol a chymdeithasol.

Wrth gyfieithu o'r iaith leiafrifol i ieithoedd eraill cyfyd anawsterau gwahanol. Un o'r rhain yw ystyriaeth amser: pa mor fuan y dylid cyfieithu'r testun gwreiddiol? A ddylai gael cyfle i sefyll ar ei draed ei hun cyn cael ei gyfieithu? Ym marn Angharad Price, rhaid gadael i lenyddiaeth Gymraeg (ac unrhyw lenyddiaeth arall) afael yn nychymyg ei chynulleidfa ei hun, a gwneud ei marc ar ei thir ei hun yn y lle cyntaf: 'Literature should have time to breathe in its original language before translation comes breathing down its neck.'[11] Â rhai awduron, megis Twm Morys, mor bell a gwrthod caniatáu cyfieithiadau o'u gwaith (fel y gwelwyd pan gyhoeddwyd *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*[12]). Wrth gwrs, mae cyfieithu o'r iaith leiafrifol yn gallu ymestyn ei chynulleidfa. Wrth gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, er enghraifft, mae'n galluogi darllenwyr ar hyd

---

[9] Annie Brisset, 'The search for a native language: translation and cultural identity', cyfieithwyd gan Rosalind Gill a Roger Gannon, yn *The Translation Studies Reader*, gol. Lawrence Venuti (Llundain, 2004), t. 341.
[10] Şehnaz Tahir-Gürçağlar, 'The Translation Bureau Revisited: Translation as Symbol', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion, 2003), tt. 113-129.
[11] Angharad Price, 'Translating from Welsh into English', *The European English Messenger*, XI/2 (2002), t. 47.
[12] Menna Elfyn a John Rowlands, *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry: 20th-century Welsh-language poetry in translation* (Tarset, 2003).

y byd i ddarllen gweithiau Cymraeg: ond yn bwysicach fyth, efallai, mae'n galluogi'r Cymry di-Gymraeg i ddarllen y llenyddiaeth a gyfansoddwyd yn eu gwlad eu hunain.

Yng Nghymru, gyda'r syniad o gymdeithas ddwyieithog (yn hytrach na dwy gymdeithas uniaith ochr yn ochr), mae cyhoeddiadau llenyddol dwyieithog wedi dod yn boblogaidd. Yn y cyhoeddiadau hynny, gwelir y testun Cymraeg ar un dudalen, a'r cyfieithiad Saesneg ar y ddalen gyfochrog. Esbonia Angharad Price oblygiadau'r ffurf hon i ddirnadaeth darllenwyr Cymraeg o'u hunaniaeth. Mae cydbwysedd grym rhwng y ddwy iaith yn weledol bresennol rhwng cloriau'r llyfrau hyn. Gall y darllenydd (dwyieithog) o Gymro ddysgu am y cydymwneud rhwng y ddwy iaith trwy symud yn ôl ac ymlaen rhwng y ddau destun. Gellir gweld y cyhoeddiadau hyn yn symbol o'r gymdeithas ddwyieithog:

> For many Welsh readers, parallel-text editions are a reminder of how very bilingual we have now become. And therein lies the anxiety. A great deal of self-awareness and discipline are needed if one is to read one text only, adhere to one language only. The risk can be seen on every dual page: the risk of finding ourselves viewing the world dimly through the darkened glass of two languages, and standing in the chasm that lies at the heart of every parallel.[13]

Nid llenyddiaeth yw'r unig faes lle mae'r ansicrwydd o fyw mewn bydoedd cyfochrog yn ymddangos; mae'n digwydd mewn cymdeithas ddwyieithog yn gyffredinol. Ac mae'r ofnau a'r cyfleoedd a gyfyd o'r byd deuol hwn yn aml yn mynd law yn llaw. Pan ydym yn cwrdd â siaradwyr Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd, rhaid wrth ddisgyblaeth aruthrol i beidio â llithro i'r Saesneg fel 'default mode'. Meithrin y ddisgyblaeth honno yw un o amcanion cynllunio ieithyddol.

Yn achos ieithoedd brodorol yr Affrig, lle mae awduron wedi arfer cyfansoddi llenyddiaeth yn iaith yr ymerodraeth (gynt), teimla rhai eu bod yn bradychu eu hieithoedd brodorol wrth 'gyfieithu' eu profiad Affricanaidd i iaith y coloneiddwyr, bron fel petai'r iaith ymerodrol wedi 'dwyn' cynnyrch gwreiddiol y lleiafrif ieithyddol cyn ei roi ar ddu a gwyn.[14]

Yng Nghorsica, i'r gwrthwyneb, cafwyd dadl fwy adeiladol am y berthynas rhwng yr iaith leiafrifol (Corseg) a'r brif iaith (Ffrangeg). Nid cyfieithiad, na hyd

[13] Angharad Price, 'Translating from Welsh into English', t. 47.
[14] Moradewun Adejunmobi, 'Translation and Postcolonial Identity: African Writing and European Languages', yn *Translation and Minority*, gol. Lawrence Venuti (Manceinion, 1998), t. 166-170.

yn oed addasiad a geid wrth gyfieithu. Gan gyfeirio at ragair i gyfrol o storïau gan Lisandrina Grimaldi, meddai Alexandra Jaffe: 'The French text is born out of the Corsican one, without being dependent on it; there is no hierarchy in this musical piece, where the two versions are like point and counterpoint.'[15] Y tu ôl i'r farn hon, fel y tu ôl i'r cyhoeddiadau dwyieithog a drafodwyd uchod, saif y syniad bod un fersiwn yn ychwanegu at y llall.

Tanlinella'r drafodaeth hon y ffaith fod cyfieithu yn groesffordd lle mae un hunaniaeth yn cwrdd ag un arall. Mae cysylltiad eglur rhwng cyfieithu a hunaniaeth mewn testunau llenyddol, crefyddol ac athronyddol, ac mae'r cysylltiad hwnnw wedi ei drafod mewn cryn fanylder. Ond nid yw hyn mor wir y tu hwnt i'r sfferau hynny, yng nghyd-destun cyfieithu 'cyffredin' o ddydd i ddydd, fel y cwynodd George Steiner yn *After Babel*: 'There is hardly a treatise on the subject which does not distinguish between the translation of common matter – private, commercial, clerical, ephemeral – and the re-creative transfer from one literary, philosophic or religious text to another.'[16] Y gwir amdani yw fod gan gyfieithu 'mater cyffredin' lawn gymaint o botensial i ddylanwadu ar hunaniaeth, yn enwedig mewn iaith leiafrifol. Ac o fewn hyn, gellir gwahaniaethu rhwng cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd. Tra bo cyfieithu testun yn ffurf fwy parhaol (ysgrifenedig), mae cyfieithu ar y pryd (sydd yn llafar) o reidrwydd yn 'ddiflanedig', ac o ganlyniad mae astudio cyfieithu llafar yn golygu astudio'r 'yma' a'r 'yn awr'.[17] Y mae'r traethawd hwn yn ymgais at gywiro'r tueddiad hwn, wrth drafod rôl cyfieithu 'cyffredin', ac yn arbennig cyfieithu ar y pryd, yn y broses o lunio hunaniaeth.

## 3.2 Rôl cyfieithu wrth ddatblygu hunaniaeth

Yn sicr, nid cyfieithu llenyddiaeth yn unig sy'n cyfrannu at newid canfyddiad rhywun o wead ei hunaniaeth. Gall cyfieithu technegol neu wyddonol chwarae rhan yn yr ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol. Yn aml, cysylltir gwybodaeth benodol ag iaith benodol, ac felly â chymeriad cenedlaethol. Tanlinella Christa

[15] Alexandra Jaffe, 'Locating Power: Corsican Translators and their Critics', yn *Language Ideological Debates*, gol. Jan Blommaert (Berlin, 1999), t. 52.
[16] George Steiner, *After Babel* (Rhydychen, 1998), t. 264.
[17] Janet Fraser, 'Translation Research and Interpreting Research: Pure, Applied, Action or Pedagogic?', yn *Translation Research and Interpreting Research: Traditions, Gaps and Synergies*, gol. Christina Schäffner (Clevedon, 2004), t. 57.

Knellwolf y cysylltiad hwn wrth esbonio sut oedd cyfieithiadau gwyddonol rhwng Saesneg a Ffrangeg yn y ddeunawfed ganrif yn adlewyrchu'r ysbryd cenedlaethol. Ceid dadl ar y pryd rhwng syniadau gwyddonol Descartes a Newton, ac roedd cyfieithiadau o'u hysgrifau ar brydiau yn datgan safbwyntiau cwbl groes i'r gwreiddiol, a hynny er mwyn cydymffurfio â chredoau gwyddonol y wlad. Dyma gasgliad Knellwolf:

> [Translations] are at the forefront of contemporary disputes over the definition of identity, and they demonstrate that science was not only an instrument with which to explain the world but also […] a container for culture's most sensitive concepts.[18]

Gall cyfieithu testunau gwyddonol fod yr un mor bwysig i grisialu hunaniaeth genedlaethol â chyfieithu llenyddiaeth. Trwy gyfieithu gofalus, gellir ceisio dod â diwylliannau siaradwyr dwy iaith Cymru ynghyd, a chreu hunaniaeth genedlaethol gyffredin.

Oherwydd bod cyfieithu yn ymwneud â'r cysylltiadau rhwng siaradwyr gwahanol ieithoedd, eu llenyddiaethau, eu gwleidyddiaeth a'u gwyddoniaeth, mae cyfieithu mewn sefyllfa i ddisgrifio sut mae hunaniaeth wedi datblygu yn hanesyddol, a sut y mae'n dal i ddatblygu. Yn ôl Cronin: 'The contribution of translation is paramount in describing both how certain forms of identity have come into being and how they are being shaped.'[19] Yn ddiau, mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo cenedl am greu cymdeithas ddwyieithog, a hyrwyddo iaith leiafrifol.

Mae cymdeithasegwyr ac ieithyddion yn gytûn ers degawdau bellach nad yw hunaniaeth o reidrwydd ynghlwm wrth un iaith.[20] Lledaenwyd y syniad bod hunaniaeth (ac nid hunaniaeth ieithyddol yn unig) yn amlochrog ac yn hyblyg. Diffinia Stuart Hall hunaniaeth fel a ganlyn:

> Identities are never unified and, in late modern times, increasingly fragmented and fractured; never singular but multiply constructed across different, often intersecting and antagonistic, discourses, practices and

[18] Christa Knellwolf, 'Women Translators, Gender and the Cultural context of the Scientific Revolution', yn *Translation and Nation: Towards a Cultural Politics of Englishness*, gol. Roger Ellis a Liz Oakley-Brown (Clevedon, 2001), t. 117.
[19] Michael Cronin, *Translation and Identity* (Llundain: Routledge, 2006), t. 3.
[20] Gweler, er enghraifft, gyfraniadau i'r gyfrol *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion, 2004).

positions. They are subject to a radical historicization, and are constantly in the process of change and transformation.[21]

Wrth ddisgrifio hunaniaeth yn y termau hyn, cawn argraff ohoni fel rhywbeth symudliw, anodd ei phennu. Gyda mwy o gysylltiadau yn y byd modern, nid yw hunaniaeth efallai mor sefydlog ag y bu mewn cymdeithasau mwy hunan-gynhaliol. Ond a all pawb ddewis hunaniaeth 'pick-and-mix' yn ôl ei fympwy a'r ffasiwn? Yn hytrach, datblygir hunaniaeth gyda threigl amser wrth gyd-fyw mewn cymdeithas. Esbonia Stephen May: 'Particular attributes associated with an identity can change over time – as soon as the attribute in question is no longer seen as important in distinguishing the group from others, it may be changed or dropped.'[22]

Ceir llawer o ystadegau sy'n tystio i'r ffaith fod y Gymraeg yn un o elfennau creiddiol hunaniaeth siaradwyr Cymraeg; mae tystiolaeth hefyd fod yr iaith yn llai pwysig i hunaniaeth y rhai nad ydynt yn ei siarad. Serch hynny, nid yw'r darlun yn hollol ddu a gwyn. Ers y deddfau a sicrhaodd fwy o addysg Gymraeg yn y 1980au a'r 1990au, mae nifer cynyddol o bobl ddi-Gymraeg wedi mabwysiadu'r iaith fel rhan o'u Cymreictod eu hunain (o bosibl trwy eu plant). Yn ôl John Osmond, ni wnânt hynny yn unig oherwydd y gwelant well dyfodol i'w plant (o ran swyddi), ond oherwydd bod ganddynt deimlad o berthyn i ddiwylliant y mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod ohono.[23] Gwnaeth y deddfau hyn wahaniaeth mawr i ganfyddiad y Cymry o'r Gymraeg yn y cyfnod rhwng y ddwy refferendwm ddatganoli ym 1979 a 1997. Ym 1979, roedd yr iaith wedi bod yn un o'r rhesymau dros wrthod datganoli. Nid oedd hynny mor wir yn yr ail refferendwm, fel y dywed yr hanesydd Peter Stead: 'Animosity towards the Welsh language had contributed to the rejection of devolution in the 1979 referendum – but such hostility was almost completely absent in 1997.'[24] Yn ystod y deunaw mlynedd rhwng y ddwy refferendwm, daeth yr iaith Gymraeg yn fwy amlwg fel edau ym mrethyn hunaniaeth y Cymry di-Gymraeg hefyd.

---

[21] Stuart Hall, 'Introduction: Who Needs Identity?', yn *Questions of Cultural Identity*, gol. Stuart Hall a Paul du Gay (Llundain, 1996), t. 4.

[22] Stephen May, 'Rethinking Linguistic Human Rights: Answering Questions of Identity, Essentialism and Mobility', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion, 2004), t. 40.

[23] John Osmond, 'Two tongues,' *Agenda*, Gaeaf 2002/2003, tt. 2-6.

[24] Dyfynnir gan David Williamson, 'happy 10th birthday to us', *Western Mail Magazine*, 15 Medi 2007, t. 13.

I'r rhai nad yw'r Gymraeg yn realiti beunyddiol iddynt, fodd bynnag, mae'n anodd ei chynnwys ymysg yr elfennau sydd gyda'i gilydd yn gwneud gwead eu hunaniaeth. Y broblem, ym marn Robyn Parri, yw na cheir trafodaeth wleidyddol am yr iaith sy'n berthnasol i fywydau siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg. 'Consensws cenedlaethol yw'r "iaith Gymraeg" o hyd fe ymddengys,' meddai, ac oherwydd bod y consensws hwn yn un haniaethol, mae 'dryswch cynyddol hunaniaeth ieithyddol a chenedligol siaradwyr Cymraeg ifanc',[25] yn enwedig ymysg siaradwyr ail iaith.

Nid yw ansicrwydd fel hwn yn anarferol mewn cymdeithasau amlieithog. Mae Pavlenko a Blackledge yn dadansoddi sut y mae'n rhaid i bobl amlieithog jwglo'u hunaniaeth rhwng y dewisiadau posibl.[26] Gall cyfieithu ehangu'r dewisiadau posibl hynny: er enghraifft, wrth gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg gall siaradwr di-Gymraeg (nid y siaradwr Cymraeg yn unig) ddechrau jwglo gyda gwahanol hunaniaethau Cymru.

Mae cymysgu â diwylliannau eraill yn ein galluogi i ymresymu am ein hunaniaeth, i uniaethu â rhai rhannau ohoni, gwrthod eraill, ac i fabwysiadu elfennau o ddiwylliannau dieithr i'n hunaniaeth, fel y mae amodau byw a'r amser yn newid. Rydym yn adnabod y byd trwy gyfieithu, ac o'r herwydd, yn adnabod ein hunain. Heb gyfieithu ym mhob cwr o'r byd, ni fyddai ailblethu, datod ac ychwanegu at hunaniaeth yn bosibl.

Serch hynny, dibynna ein hunaniaeth yn sylfaenol ar ein hardal ddaearyddol, ein magwraeth, ein teulu a'n ffrindiau, a hefyd ein credoau gwleidyddol a chrefyddol. Ni fedrwn wadu neu wrthod yr elfennau hynny o'n hunaniaeth yn hawdd, fel y sylwa Jaine Beswick: 'Our perceptions regarding who we are as individuals focus largely upon the recognition and appreciation of our origins; of where we come from and of what we share with the community as a whole.'[27]

Gall polisïau sydd yn ymwneud ag iaith leiafrifol annog siaradwyr lleiafrifol i uniaethu â bywyd cyhoeddus eu cymdeithas mewn rhai peuoedd. Cydnabuwyd hyn yng Nghanada. Dywed *Bill 101*, deddf iaith Québec: 'The distinctive language of a people that is in the majority French speaking is the instrument by which that

---

[25] Robyn Parri, 'Ni'r Bobl Gymraeg ein hiaith', *Barn*, Medi 2006, t. 19.
[26] Aneta Pavlenko ac Adrian Blackledge, gol., *Negotiation of Identities in Multilingual Contexts* (Clevedon, 2004).
[27] Beswick, t. 32.

people has its identity'.[28] Cydnabyddir hyn yn y sector gyhoeddus yng Nghymru hefyd.

A oes gan y polisïau hyn y grym gwirioneddol i gryfhau'r ymdeimlad o Gymreictod? Oes, meddai Michael Cronin, ac mae cyfieithu yn allweddol yn hynny o beth: 'The desired presence of the minority language in all areas of life […] demands a much greater reflection than has hitherto been undertaken on the role of scientific, technical and commercial translation in identity formation for minorities.'[29]

Rhaid cyfaddef nad yw gwahanol swyddogaethau iaith (sef ei rôl wrth greu perthnasau a hunaniaeth yn ogystal â bod yn fodd i gyfathrebu) mor glir i siaradwyr prif ieithoedd. Clywyd naws ddirmygus mewn sgwrs rhwng yr Athro David Crystal a Sarah Montague ar y rhaglen *Today* ar Radio 4 wrth drafod geiriadur Pitmatic, iaith y glöwyr yng ngogledd-ddwyrain Lloegr.[30] Ymateb y newyddiadurwraig i'r ymdrechion i gadw iaith arbennig ar glawr oedd: 'It's an exercise in sentimentality!'[31] Gan nad oes neb byth yn bygwth bodolaeth eu hiaith (na'u hunaniaeth) hwy, mae'n anodd i siaradwyr prif iaith amgyffred goblygiadau colli iaith i hunaniaeth bersonol, ac i hunaniaeth ddiwylliannol. Fel y noda Regna Darnell: 'As long as […] language use and cultural identity can be taken for granted, people do not need to talk about them.'[32]

Clywir siaradwyr prif ieithoedd yn bychanu'r syniad fod hunaniaeth ynghlwm wrth iaith (yn achos lleiafrif ieithyddol). Beirniada Alexandra Jaffe y consensws ymysg awduron y gyfrol *Language Rights and Language Survival* nad yw hunaniaeth yn ddewis rhwng derbyn a gwrthod perthyn i grŵp. Hola onid yw hyn yn agwedd nodweddiadol o siaradwyr prif ieithoedd.

> For majority speakers, the identity functions that language fills for them are so powerfully inscribed in the day-to-day experiences within dominant social institutions and domains of practice that they are rendered almost invisible.

[28] Dyfynnir gan Kathy Mezei, 'Bilingualism and Translation in/of Michele Lalonde's "Speak White" ', yn *Translation and Minority*, gol. Lawrence Venuti (Manceinion, 1998), t. 233.
[29] Cronin, 'The Cracked Looking Glass of Servants', t. 150.
[30] Gweler gwybodaeth gefndir i'r iaith honno ar wefan y BBC: <www.bbc.co.uk/radio4/routesofenglish/storysofar/programme3_1.shtml> [12 Hydref 2007].
[31] BBC Radio 4, Rhaglen newyddion *Today*, 2 Awst 2007.
[32] Regna Darnell, 'Revitalization and Retention of First Nations Languages in Southwestern Ontario', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion, 2004), t. 94.

This invisibility makes it possible for those majority speakers to be dismissive of the identity functions of language in general.[33]

Enghraifft ddiweddar o bolisi cyfieithu yw cyhoeddi papur gwleidyddol gan Gerhard Schröder a Tony Blair ym 1999.[34] Ni chyflogwyd cyfieithydd proffesiynol i gyfieithu *The Third Way/Die Neue Mitte*. Yn hytrach, uwch weision sifil y ddwy lywodraeth a ysgrifennodd y ddau bapur yn y naill iaith a'r llall. Fel cyfiawnhad i'r strategaeth hon, honnid nad oedd cyfieithwyr yn ddigon cyfarwydd â'r trafodaethau gwleidyddol! Y gwir reswm, yn fwy na thebyg, oedd bod y ddwy lywodraeth yn dymuno lliwio a llywio'r ddogfen yn ôl ideoleg y cyfnod ar gyfer y gwahanol wledydd.

Mae'r broses o gyfieithu (gan gynnwys cyfieithwyr a chomisiynwyr cyfieithu), felly, ymhell o fod yn niwtral. Sylwa Maria Tymoczko: 'Historical research rarely supports the view that translators are characterized by romantic alienation and freedom from culture.'[35] Cadarnhau y mae Tymoczko, o safbwynt astudiaethau cyfieithu, yr hyn ddywed Hall am hunaniaethau:

Though they seem to invoke an origin in a historical past with which they continue to correspond, actually identities are about questions of using the resources of history, language and culture in the process of becoming rather than being: not 'who we are' or 'where we came from', so much as what we might become, how we have been represented and how that bears on how we might represent ourselves.[36]

Gwelir o'r enghraifft uchod, sef hanes papur Schröder/Blair, sut y defnyddir polisïau cyfieithu, neu bolisïau o beidio â chyfieithu, i wasanaethu'r ideolegau hyn o gynrychioli hunaniaeth.

O ran lleiafrifoedd ieithyddol, mae'r damcaniaethydd ym maes astudiaethau cyfieithu, Lawrence Venuti, yn trafod dau ddull o gyfieithu a ddefnyddiwyd yng Nghatalwnia i geisio creu undod. Trwy gyfieithu, meddai, gellir annog darllenwyr i uniaethu â disgwrs cenedlaethol penodol. Gyda chyfieithiadau a greir dan syniadaeth arbennig, ceisir hyrwyddo'r syniad o undod cenedlaethol ar sail hanes,

---

[33] Alexandra Jaffe, 'Language Rights and Wrongs: A commentary', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion, 2004), t. 277.
[34] Christina Schäffner, 'Third Ways and New Centres: Ideological Unity or Difference?', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion, 2003), t. 40.
[35] Maria Tymoczko, 'Ideology and the Position of the Translator: In What Sense is a Translator "In Between"?', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion, 2003), t. 200.
[36] Hall, 'Introduction: Who Needs Identity?', t. 4.

diwylliant neu sefydliadau gwleidyddol. Anelodd y dull cyntaf at gael mwy o rym mynegiadol i'r Gatalaneg. Dim ond trwy gyfieithu o ieithoedd eraill y byddai hyn yn bosibl, gan gyfoethogi fel hyn y Gatalaneg a'i gwneud yn iaith fwy modern a gweithredol. Strategaeth arall oedd anelu at Gatalaneiddio'r boblogaeth. Ceisiwyd gwneud hynny trwy gyfieithu mewn arddull lafar boblogaidd. Gobeithid y byddai'r arddull hon yn fwy perthnasol i fwyafrif y darllenwyr ac yn eu hannog i ddarllen a defnyddio'r iaith trwy ryw fath o hunan-adnabyddiad.[37]

Dau bolisi cyfieithu gwahanol yw'r rhain sy'n tanlinellu sut mae ideoleg oes a'r cyd-destun cymdeithasol-gwleidyddol yn effeithio ar strategaethau cyhoeddi, ar ddewis arddull o gyfieithu, ac ar bwysigrwydd cyfieithu yn gyffredinol i hunaniaeth (ddymunedig) y gymdeithas. Ar y llaw arall, bydd strategaeth gyfieithu yn dylanwadu ar yr awyrgylch cymdeithasol-gwleidyddol. Felly, meddai Albert Branchadell, dylid derbyn cyfraniad cyfieithu i greu cenedl: 'If translation contributed to the emergence of national languages and national literatures, why should it not have contributed to the formation and development of nations themselves?'[38]

Anochel, medd Rainer Emig ymhellach, yw'r berthynas rhwng cyfieithu a hunaniaeth ddiwylliannol:

> Culture itself is shown to be the result of translations, and these translations are depicted not so much as inevitable forces of history, but as individual acts that rely on their interplay with social and political contexts. Inside these contexts they often fail, and the consequences of these failures can indeed be fatal. But equally fatal is the attempt to ignore or even abandon translation as a crucial prerequisite of the formation of identity, be it personal, national or indeed cultural.[39]

Ond rhybuddia J. Henrique Peres mai dim ond cyfieithiadau o ansawdd uchel a all gyfrannu at ddatblygu diwylliannol: 'Hi ha una gran relació entre la qualitat

---

[37] Venuti, 'Local Contingencies: Translation and National Identities', yn *Nation, Language, and the Ethics of Translation*, gol. Sandra Bermann a Michael Wood (Princeton, 2005), tt. 194-99.
[38] Albert Branchadell, 'Introduction: Less translated languages as a field of inquiry' yn *Less Translated Languages*, gol. Albert Branchadell a Margaret West (Amsterdam, 2005), t. 9.
[39] Rainer Emig, ' "All the Others Translate": W.H. Auden's Poetic Dislocations of Self, Nation, and Culture', yn *Translation and Nation: Towards a Cultural Politics of Englishness*, gol. Roger Ellis a Liz Oakley-Brown (Clevedon, 2001), tt. 203-204.

de les traduccions que es produeixen en una societat i el seu grau de desenvolupament cultural.'[40]

Yn y broses o ddatganoli a sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ceisiwyd peidio â chysylltu'r Gymraeg â Chymreictod. Ceisiwyd osgoi trafod yr iaith Gymraeg rhag ofn dieithrio'r naill garfan neu'r llall o Gymry, ac yn wir ni ddaeth y Gymraeg yn destun gwleidyddiaeth yn y Cynulliad datganoledig newydd tan ymhell yn ei ail flwyddyn.[41] Yn eironig, osgoid trafod Cymreictod yn gyfan gwbl *oherwydd* ei gysylltiad â'r iaith. Ystyriai sawl aelod o'r Blaid Lafur fod trafod hunaniaeth yn gyfystyr â thrafod arwahanrwydd neu rwyg, yn hytrach nag undod. Cyfaddefodd Ron Davies, Ysgrifennydd Gwladol Cymru rhwng 1997 a 1998, fod sôn am hunaniaeth Cymru wedi codi gwrychyn Llafurwyr ar y pryd: 'For many in the party notions of "Welshness" are sectarian, and to address such questions would be to give in to the agenda of the nationalists.'[42]

Mae'r llywodraeth glymblaid rhwng Llafur a Phlaid Cymru sydd yn y Cynulliad ers 2007 yn awgrymu bod yr agweddau wedi newid. Hyd yn oed os prydera'r rhai di-Gymraeg na fyddant yn cael eu hystyried yn 'gystal Cymry', nid yw bellach yn bosibl anwybyddu neu wawdio'r Gymraeg. Yn hytrach, dylid trafod cyfraniad amrywiaethau diwylliannol i hunaniaeth amlieithog Cymru. Trwy ddatblygu'r unedau cyfieithu ym Mae Caerdydd, mae'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd Cymru wedi dod i ganol gwleidyddiaeth. Felly, mae'n anochel bod cyfieithu yn cael dylanwad ar ddirnadaeth y dosbarth gwleidyddol o rôl y Gymraeg yn hunaniaeth Cymru.

## 3.3 Hunaniaeth leiafrifol er gwaethaf cyfieithu ac o'i herwydd

Pan geisia lleiafrifoedd ieithyddol ennill statws i'w hiaith trwy ymgyrchu am fwy o le iddi yn eu bywydau beunyddiol, yn aml fe'u cyhuddir o gadw siaradwyr prif ieithoedd draw. Mae'r cyhuddiad o wahaniaethu ar sail iaith yn erbyn siaradwyr y

[40] 'Mae cysylltiad cryf rhwng ansawdd y cyfieithiadau a wneir mewn cymdeithas a gradd ei datblygiad diwylliannol.' J.Henrique Peres, 'Traducció, societat i qualitat', yn *Traducció i dinàmica sociolingüística*, gol. Oscar Diaz Fouces et al. (Barcelona, 2002), t. 177.

[41] Mae John Osmond yn ein hatgoffa mai dim ond gyda'r 'Seimon Glyn Affair' y codwyd yr iaith fel mater gwleidyddol. John Osmond, 'In Search of Stability', yn *The State of the Nations 2001: The Second Year of Devolution in the United Kingdom*, gol. Alan Trench (Thorverton, 2001), tt. 32-36.

[42] Ron Davies, 'Preface to the First Edition', yn *Scotland and Wales: Nations Again?*, gol. Bridget Taylor a Katarina Thomson (Caerdydd, 1999), t. xvi.

prif ieithoedd yn gyffredin, a'r cyhuddiad o fod yn hiliol yn barod ar wefusau siaradwyr y prif ieithoedd. Gwelir enghreifftiau o'r cerydd hwn mewn papurau newydd. 'Como Franco pero al revés: Persecución del castellano en Cataluña' oedd un pennawd mewn papur newydd Sbaeneg.[43] Enghreifftiau o Gymru yw 'Hiliaeth y Cymry',[44] neu 'Voice of hate – "Racist" Plaid councillor's attack on the English'.[45] Awgryma erthyglau fel hyn fod lleiafrifoedd ieithyddol yn troi'r anghyfiawnder a ddioddefasant eu hunain wyneb i waered, mewn dial yn erbyn siaradwyr y prif ieithoedd. Ond nid oes sail i'r cyhuddiad o hiliaeth. Benthycaf o waith Stephen May unwaith eto:

> The claims of language discrimination by majority-language speakers are both misplaced and inapplicable. The majority language is not generally precluded from the public realm, nor proscribed at the individual level, nor are majority-language speakers actually penalised for speaking their language. Rather, monolingual majority-language speakers are being asked to accommodate to the ongoing presence of a minority language and to recognise its status as an additional language of the State.[46]

Eto, defnyddir cyhuddiadau o hiliaeth i godi gwrychyn, ac i awgrymu bod siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn 'arddel prif bechod moesol y dydd', yng ngeiriau Simon Brooks, 'a hynny mewn ymdrech i'w cywilyddio'n gyhoeddus a'u distewi'n wleidyddol.'[47]

Mewn araith am gymdeithas, unigolyddiaeth a chosmopolitaniaeth, heria Josep Maria Terricabras yr honiad bod cydnabod teimladau o berthyn i leiafrif yn gyfystyr â bod yn blwyfol: 'Es pot tenir una visió global del món sense haver de caure en polítiques d'unificació i de destrucció de les diferències.'[48] Ond ystyrier, er enghraifft, gyhuddiad Mario Vargas Llosa adeg y gemau Olympaidd ym Marcelona ym 1992 pan gododd siaradwyr Catalaneg arwyddion mawr Catalaneg trwy'r ddinas. Dim ond annealltwriaeth a gaed gan Vargas Llosa:

---

[43] 'Fel Franco ond o'r ochr arall: Erlyn ar y Sbaeneg yng Nghatalwnia.' Dyfynnir gan May, *Language and Minority Rights*, t. 249.
[44] *Y Cymro*, 23 Awst 2003, t. 4.
[45] *Welsh Mirror*, 18 Ionawr 2001, tt. 1-2.
[46] May, *Language and Minority Rights*, tt. 312-13.
[47] Simon Brooks, '"Yr Hil": Ydy'r Canu Caeth Diweddar yn Hiliol?' yn *Llenyddiaeth mewn Theori*, gol. Owen Thomas (Caerdydd, 2006), t. 15.
[48] 'Gellir cynnal gweledigaeth fyd-eang (o'r byd) heb gredu mewn gwleidyddiaeth sy'n unioni ac yn dinistrio'r gwahaniaethau.' Josep Maria Terricabras, 'Els ciutadans i la nació', *ateneu num.61*, Mawrth 2003, t. VIII.

> Before, Barcelona represented a great cosmopolitan center in Spain, with its open attitude to culture and its interest in the outside world […] Now […] defending Catalan peculiarity is what takes precedence, and Catalans are closing themselves off from outside influences as if they were a threat.[49]

Unwaith eto cyflwynir y farn bod ieithoedd lleiafrifol yn cynrychioli syniadau eithafol a chul. Cyffelybir diwylliant ac iaith Castilia (Sbaeneg) i wareiddiad, tra mae iaith a diwylliant Catalwnia yn sefyll allan nid fel rhywbeth gwahanol, ond fel 'peculiarity', hynny yw, yn od. Onid siaradwyr prif iaith fel Vargas Llosa, i'r gwrthwyneb, sy'n gweld y Gatalaneg fel bygythiad?

Mae'n anodd iddo amgyffred nad yw bod yn agored i'r byd ac yn awyddus i gadw gwahaniaethau lleol yn groes i'w gilydd. Felly, mae 'aml-ddiwylliannedd' a'r hyn mae dinasyddiaeth y byd yn ei olygu, medd Simon Brooks, yn cael ei ddiffinio gan y prif ddiwylliant a'i ddefnyddio yn erbyn yr iaith leiafrifol. Yn achos Prydain, mae'n cael ei seilio ar y Saesneg fel iaith hegemonaidd, a chyfraith Lloegr sy'n pennu rheolau aml-ddiwylliannedd, cymhathu a gwrth-hiliaeth.[50]

Er mwyn lleddfu'r pryder bod cryfhau lleiafrifoedd yn achosi anghyfiawnder newydd, mae Josep Terricabras yn tynnu ein sylw at y ffaith fod anghydraddoldeb yn amgenach na gwahaniaethau:

> Les *diferències* – en les opcions personals i col.lectives – s'han de respectar i protegir; elles són les que faran el món més ple i més ric. Les *desigualtats*, en canvi, que sempre vénen imposades i són fruit de la injustícia, han de ser combatudes i eliminades.[51]

Cytuno a wnâi'r sawl sy'n arddel modelau o ieithoedd fel 'ecosystem' neu ieithoedd fel gardd.[52] Yn y ddau fodel hyn, mae amrywiaeth ieithoedd yn allweddol i gydbwysedd iechyd y byd.

Yn ei hastudiaeth o gyfieithu a gwrthdaro gwleidyddol, dadleua Mona Baker mai hunaniaethau lleiafrifol (neu'r rhai nad ydynt yn y prif ffrwd gorllewinol) yw'r

---

[49] Yn *AVUI*, 18 Mehefin 1992, t. 41. Dyfynnir gan Susan DiGiacomo, 'Language Ideological Debates in an Olympic City: Barcelona 1992-1996', yn *Language Ideological Debates*, gol. Jan Blommaert (Berlin, 1999), t. 119.
[50] Brooks, ' "Yr Hil": Ydy'r Canu Caeth Diweddar yn Hiliol?', t. 20.
[51] 'Rhaid parchu ac amddiffyn gwahaniaethau – rhwng unigolion cymaint â rhwng grwpiau. Gwahaniaethau sy'n gwneud y byd yn fwy amrywiol ac yn fwy cyfoethog. Ar y llaw arall mae anghydraddoldebau. Gorfodir hwythau arnom, ac maent yn ffrwyth anghyfiawnder. Rhaid brwydro yn eu herbyn a'u dileu.' Josep Maria Terricabras, 'Els ciutadans i la nació', t. IX.
[52] Gweler Stephen May, 'Rethinking Linguistic Human Rights,' tt. 36-39; ac Ofelia García, *Societal bilingualism and multilingualism*, dyfynnir gan Colin Baker, *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*, tt. 39-42.

rhai a ddiystyrir yn aml fel rhai sydd ar y gorau yn rhyfedd, ac ar y gwaethaf yn beryglus. Ymhelaetha am gyfraniad cyfieithu at gynnal syniadau sy'n ystyried gwleidyddiaeth y dwyrain canol fel estron, anodd ei rheoli, a pheryglus, gan nad yw'n gweddu i wleidyddiaeth orllewinol.[53]

Dadlenna Michael Cronin resymeg sy'n cyfiawnhau agweddau dirmygus at ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol. Cyflwyna ddadleuon gan feddylwyr o'r gwyddorau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol a honna mai cosmopolitaniaeth yw'r unig ffordd i sicrhau heddwch tymor hir. Beirniada Cronin safbwynt Peter Coulmas, er enghraifft, bod amddiffyn y neilltuol mewn diwylliannau bychain yn arwain at genedlaetholdeb a gwrthdaro. Ac nid yw hyd yn oed dyfynnu tensiynau gwaedlyd fel yng Ngogledd Iwerddon neu ar y Balcanau yn rhydd o ideoleg, fel y rhybuddia Michael Cronin:

> For the macro-cosmopolitan, it is only large political units which are capable of allowing the development of a progressive and inclusive vision of humanity, even if occasional hegemonic overreaching cannot be ruled out. Small nations, ethnic groups concerned with the protection or preservation of cultural identity, former colonies which still subscribe to an ideology of national liberation are dangerously suspect in this macroscopic conception of cosmopolitanism. Bloody conflicts in the Balkans and in Northern Ireland seem to provide more recent justification for the distrust […] of the infinitely great for the infinitely small.[54]

Ymhellach, eglura Cronin y gred hon, cosmopolitaniaeth fyddai'r unig fodd i gyrraedd dealltwriaeth ddi-amau. Ac amlddiwylliannedd – y cymysgedd lliwgar hwnnw o ieithoedd, diwylliannau a gwerthoedd – yr unig fodd i ddisgrifio'r byd sydd ohoni, gyda'i newidiadau cyflym a'i raniadau lluosog.

Mae cyfieithu, er bod ganddo ddelwedd yn gyffredinol o gyfathrebu adeiladol ar draws ffiniau, yn weithred amheus hefyd gan ei fod yn nofio rhwng y glannau yn hytrach nag angori yn bendant ar un ochr, fel y mae astudiaethau cyfieithu yn pwysleisio fwyfwy.

Mae'r sawl sy'n dadlau dros fudd cosmopolitaniaeth yn meddwl am hunaniaeth mewn modd unigolyddol. Crisielir hyn, er enghraifft, gan Carol Eastman sy'n gwrthod cydnabod rôl iaith mewn hunaniaeth: 'There is no need to worry about preserving ethnic identity, so long as the only change being made is

[53] Mona Baker, *Translation and Conflict*.
[54] Cronin, *Translation and Identity*, tt. 12-13.

in what language we use.'[55] Nid yn unig mae'n datgan agwedd ddifater tuag at yr iaith, ond gwada hefyd fod iaith yn elfen yn hunaniaeth y gymdeithas gyfan, ac na fyddai'n bosibl, mewn llawer o achosion, i gynnal hunaniaeth ddiwylliannol heb yr iaith honno.

I'r sawl sy'n cenhadu dros gyfathrebu mewn iaith fyd-eang fel y ffordd ymlaen, nid yw cyfieithu, wrth gwrs, ond yn ddull i barhau â'r gwahaniaethau (annymunol!). Noda Michael Cronin: 'The nirvana of intercultural communication masks the violence of language loss. For the universalist, translation is an obstacle to – not an agent of – intercultural communication.'[56]

Mae Amin Maalouf, i'r gwrthwyneb, yn pwysleisio y gall cyfieithu, yn ogystal â lledu ideoleg y cryfion, ddod â grwpiau at ei gilydd a gwella cyd-ddealltwriaeth. Meddai,

> [translators] have a special role to play in forging links, eliminating misunderstandings, making some parties more reasonable and others less belligerent, smoothing out difficulties, seeking compromise. Their role is to act as bridges, go-betweens, mediators between the various communities and cultures.[57]

O'r safbwynt hwnnw, felly, mae cyfieithwyr a chyfieithu yn anhepgor wrth gysylltu siaradwyr o wahanol ieithoedd, wrth greu cysylltiadau rhyngddiwylliannol, ac wrth dderbyn gwahaniaethau mewn hunaniaeth.

Mae gan iaith (a chyfieithu, yn hynny o beth) rôl arall wrth ddiffinio hunaniaeth. Rydym, heb fod yn ymwybodol ohono, yn dehongli pwy yw'r *lleill* drwy'r iaith a siaradant.[58] Rydym yn 'rhoi' hunaniaeth iddynt *oherwydd* eu bod yn siarad Pwyleg neu Saesneg, neu acen arbennig o Gymraeg. Oherwydd iaith, gallwn gyfrif ein hunain ac eraill yn perthyn i grŵp, ond gallwn hefyd gau ein hunain neu eraill allan o'r grŵp. Yng ngeiriau Theo Hermans,

> in reflecting about itself, a culture […] tends to define its own identity in terms of 'self' and 'other', i.e. in relation to that which it perceives as different

[55] Carol Eastman, 'Language, ethnic identity and change', yn *Linguistic Minorities, Policies and Pluralism*, gol. John Edwards (Llundain, 1984), t. 275.
[56] Cronin, 'The Cracked Looking Glass of Servants', t. 156.
[57] Amin Maalouf, *In the Name of Identity: Violence and the Need to Belong* (Efrog Newydd, 2000), t.5. Dyfynnir gan House et al, 'Introduction', yn *Translation and the Construction of Identity* (Seoul, 2005), t. 12.
[58]Mae John Joseph wedi talu sylw manylach i hyn. Gweler John Joseph, *Language and Identity: National, Ethnic, Religious* (Basingstoke, 2004).

from itself, that which lies outside the boundary of its own sphere of operations, outside its own 'system'.[59]

Felly codir ffiniau rhwng cymdeithasau neu grwpiau trwy iaith. Ac wrth gwrs, mae cyfieithu yn ganolog i'r prosesau hynny. Weithiau, mae'r iaith yn symbol mewn ymgyrch i greu cenedl, nes i wlad annibynnol gael rhoi statws swyddogol i'r iaith – fel y digwyddodd yn Iwerddon. Dro arall, daw iaith yn bwysig ar ôl sefydlu gwlad newydd. Mae Montenegraeg, er enghraifft, yn iaith swyddogol er pan grëwyd y wlad yn 2006. Cyn hynny, ystyrid yr iaith honno yn dafodiaith o'r Serbocroateg.

Pan gyfieithir rhwng iaith leiafrifol a phrif iaith fel y Gymraeg a'r Saesneg, ni cheisir chwalu'r ffiniau sy'n diffinio gofod diwylliannol arbennig. Yn hytrach, ceisir ei gwneud hi'n haws i siaradwyr y ddwy iaith groesi'r ffiniau hyn.

Nid yw cyfieithu ynddo'i hun yn weithred ddaionus, felly, eithr mae ganddo rôl ddeublyg. Rhaid gwahaniaethu rhwng ei rôl gymhathu, a'i rôl amrywio cymdeithasau. Gwelir cyfieithu, felly, naill ai yn ymosodwr, neu yn waredwr.

### 3.4 Hunaniaeth Cymru – iaith vs. cymdeithas sifil?

Ar y cyfan, cydnabyddir nerth symbolaidd y Gymraeg i hunaniaeth y Cymry Cymraeg. Ond o safbwynt Cymreictod Cymru gyfan, yn ôl rhai, mae sefydliadau cenedlaethol a chymdeithas sifil hyderus yn bwysicach. Rhaid ceisio datblygu'r gymdeithas sifil gan uno siaradwyr y ddwy iaith, ac yn ôl rhagolygon John Osmond, 'the language will flourish if large numbers of English speakers insist that it is an essential part of their identity as Welsh people.'[60]

Dichon bod ofn ar siaradwyr Cymraeg y gallant golli gafael bellach ar eu hiaith petai hunaniaeth Cymru yn cael mynegiant drwy gymdeithas sifil newydd a chref. Mae pryder y byddai hunaniaeth sy'n gyfan gwbl seiliedig ar sefydliadau gwleidyddol a gweinyddol Cymreig yn niweidio'r iaith. Mynega Dylan Llŷr, er enghraifft, ei amheuaeth a yw annibyniaeth i Gymru oddi wrth Loegr o reidrwydd yn ddymunol. Nid yw'n dadlau yn erbyn annibyniaeth; dim ond rhybuddio y byddai disgwyl 'i'r hunaniaeth newydd fod yn un weddol unffurf os am greu cysyniad o Gymreictod sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o drigolion y wlad. Ac mae

[59] Dyfynnir gan House et al, 'Introduction', t. 4.
[60] Osmond, 'Two tongues', t. 6.

hunaniaeth unedig felly yn gallu gweithio yn erbyn lluosogrwydd ieithyddol.'[61] Cyfeiriwyd eisoes at Iwerddon lle dioddefodd y Wyddeleg o'r broses o ennill annibynniaeth.

Ar y llwyfan rhyngwladol, gall siaradwyr prif ieithoedd fod yn ddiystyriol o rôl symbolaidd ieithoedd bychain. Galwant am beidio â gorbwysleisio ei gwerth symbolaidd, ac am ystyried gwerth ymarferol ieithoedd uwchben pob dim. Dyma lais o'r Almaen ynglŷn â threfn ieithyddol yr Undeb Ewropeaidd:

> Vielmehr gilt es, ein pragmatisches Sprachregime zu entwerfen, das Sprache als Mittel von Kommunikation versteht und ihre symbolischen, identitätsstiftenden Komponenten nicht überbewertet. [62]

Yr un drafodaeth a geir yng Nghymru. Wrth ddehongli canlyniadau cyfrifiad 2001, synia John Aitchison a Harold Carter fod amharodrwydd y Cynulliad wrth gysylltu iaith a Chymreictod yn deillio o'u pryder rhag dieithrio'r di-Gymraeg. I'r gwrthwyneb, meddant, dim ond trwy gysylltu'r ddau mae gobaith creu huaniaeth i'r Cymry i gyd:

> The crucial problem is the need to create an association between being Welsh and speaking Welsh, for only with that firmly established is there real hope for the emergence of a truly bilingual Wales to replace the old polarised split between a Welsh-Wales and an Anglo-Wales.[63]

Mae'r hollt y cyfeirir ati yn boen ar wleidyddion a phobl gyffredin. I Gymry di-Gymraeg sy'n rhesymu nad yw'r Gymraeg mor bwysig i hunaniaeth, elfennau eraill sydd wedi creu eu synnwyr o berthyn i'r gymdeithas genedlaethol, megis gwleidyddiaeth lafur yn ardaloedd y pyllau glo yn yr ugeinfed ganrif, neu'r gêm Rygbi, fel dau fudiad mawr a oedd yn cynnwys pobl o gefndiroedd gwahanol.[64] Gellir dadlau bod y nodweddion 'Cymreig' hynny yn nodweddion unrhyw gymdeithas ddiwydiannol, ac yn enwedig, efallai, gymdeithasau glofaol.[65] Gwaetha'r modd, caiff rhai o'r Cymry di-Gymraeg hi'n anodd deall pwysigrwydd yr iaith i siaradwyr Cymraeg sy'n byw mewn cymunedau Cymraeg. Sut gall

---

[61] Dylan Llŷr, ' "No Cymraeg, we're all Welsh now" ', *Barn*, Mai 2007, t. 21.

[62] 'Mae'n bwysig dod i drefniant iaith ymarferol sy'n deall iaith fel dull o gyfathrebu ac sy'n osgoi gorbwysleisio ei helfennau symbolaidd a chysylltiedig â chreu hunaniaeth.' Andreas Ross, 'Europas Einheit in babylonischer Vielfalt', *Frankfurter Allgemeine Zeitung,* 14 Mawrth 2001, t. 11.

[63] Aitchison/Carter, *Spreading the Word,* t. 140.

[64] Bill Jones, 'Banqueting at a moveable feast: Wales 1870-1914', yn *The people of Wales,* gol. Gareth Jones a Dai Smith (Llandysul, 1999), t. 177.

[65] Aitchison/Carter, *Spreading the Word,* t. 142.

rhywbeth sy'n realiti dim ond i un rhan o bump o drigolion Cymru gyfrannu'n sylweddol at hunaniaeth y genedl gyfan?

Mae cymuned fyw yn angenrheidiol er mwyn cadw'r iaith yn fyw. Oherwydd hynny, nid yw dysgu Cymraeg i niferoedd cynyddol o blant yn ddigon i achub yr iaith os nad oes ganddynt gyfle i fyw trwyddi. Mynna Joshua Fishman wrthddweud safbwynt Carol Eastman uchod (pan ddadleuodd nad oes rhaid poeni am gynnal hunaniaeth os mai dim ond yr iaith a newidia); deil ef, i'r gwrthwyneb, fod hunaniaeth a chymdeithas yn newid unwaith mae'r iaith yn newid:

> Given the ambiguity of 'identity' under such circumstances, it is necessary to add that most cultures reveal the 'domino principle' in operation and when any of their main props, such as language, are lost, most other props are seriously weakened and are far more likely to be altered and lost as well. […] Therefore, RLS [reversing language shift] and language maintenance are not about language *per se*; they are about language-in-culture.[66]

Pwysleisia'r safbwynt hwn nad un elfen yn unig o hunaniaeth yw iaith. Eithr gall colli iaith olygu colli nodweddion eraill y diwylliant. Yn hynny o beth, rhaid peidio â phriodoli i'r iaith leiafrifol werth symbolaidd yn unig tra dynodir swyddogaeth ymarferol, 'ddefnyddiol' i'r brif iaith. Yn wir, bydd cymdeithas sifil a sefydliadau cenedlaethol yn gefn i iaith leiafrifol ddatblygu ei swyddogaethau o gyfathrebu dydd-i-ddydd.

Yn wahanol i'r Alban lle cadwyd sefydliadau Albanaidd ar ôl uno'r ddwy Senedd ym 1707, a lle, oherwydd hynny, roedd colofnau'r gymdeithas sifil yn aros yn gryf, nid oedd gan Gymru am oddeutu pum can mlynedd sefydliadau Cymreig i sefydlu eu hunaniaeth sifil arnynt.[67] Dim ond o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen y dechreuwyd, fesul un, datblygu sefydliadau gweinyddol a gwleidyddol Cymreig.[68] Ers ail hanner yr ugeinfed ganrif, roedd y casgliad hwnnw o sefydliadau yn caniatáu adfywiad yr iaith Gymraeg (wedi ei sbarduno gan ymgyrchoedd iaith) yn y sector gyhoeddus lle mae hi'n cryfhau ers hynny.

---

[66] Fishman, *Reversing Language Shift*, t. 17.
[67] Lindsay Paterson a Richard Wyn Jones, 'Does civil society drive constitutional change?' yn *Scotland and Wales: Nations Again?*, gol. Bridget Taylor a Katarina Thomson (Caerdydd, 1999), t. 176.
[68] Sefydlwyd, e.e., Prifysgol Cymru ym 1893, y Llyfrgell Genedlaethol ym 1907, y Swyddfa Gymreig ym 1964 a TUC Cymru ym 1974.

**Tabl 3.1: Gallu i siarad Cymraeg a hunaniaeth genedlaethol**

| | | Cymraeg dim Prydeinig | Mwy Cymraeg na Phrydeinig | Yr un faint Cymraeg a Phrydeinig | Mwy Prydeinig na Chymraeg | Prydeinig dim Cymraeg | Arall | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Siaradwyr Cymraeg | % | 32 | 41 | 26 | 2 | 0 | 0 | 113 |
| Siaradwyr Cymraeg heb fod yn rhugl | % | 17 | 28 | 35 | 10 | 8 | 2 | 83 |
| Di-Gymraeg | % | 13 | 21 | 34 | 12 | 15 | 5 | 491 |

*Ffynhonnell*: Jones/Trystan, 'The 1997 Welsh referendum vote', t. 78.

Diddorol yn y cyd-destun hwn yw dadansoddiad Richard Wyn Jones a Dafydd Trystan o'r berthynas rhwng gwahanol elfennau sy'n gweu hunaniaeth genedlaethol y Cymry, a'r bleidlais yn y refferendwm ar y Cynulliad ym 1997.[69] Nid yn unig dengys berthynas glir rhwng y gallu i siarad yr iaith a hunaniaeth Gymreig (gweler Tabl 3.1), ond hefyd roedd siaradwyr Cymraeg yn llawer mwy ffafriol o blaid cael Cynulliad (Tabl 3.2). Yn ogystal, roeddent yn fwy tebygol o droi allan i bleidleisio (79% o siaradwyr Cymraeg a 57% o'r di-Gymraeg).

**Tabl 3.2: Gallu i siarad Cymraeg a phleidlais y refferendwm**


| | Ia | Nage | Dim pleidlais | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Siaradwyr Cymraeg rhugl | 61 | 18 | 21 | 111 |
| Siaradwyr Cymraeg heb fod yn rhugl | 31 | 34 | 35 | 83 |
| Di-Gymraeg | 24 | 33 | 43 | 485 |


*Ffynhonnell*: Jones/Trystan, 'The 1997 Welsh referendum vote', t. 79.

Amlyga'r dadansoddiad hwn bwysigrwydd yr iaith i hunaniaeth sy'n seiliedig ar sefydliadau annibynnol a chymdeithas sifil Cymru. Dengys y canlyniadau nad oes hollt amlwg rhwng y rhai sy'n cysylltu eu hunaniaeth â'r iaith Gymraeg a'r rhai sy'n tynnu eu hunaniaeth yn fwy o gymdeithas sifil Gymreig. I'r gwrthwyneb, yn ôl pob golwg, haws fyddai cyrraedd cymdeithas sifil aeddfed trwy gryfhau'r ymlyniad wrth yr iaith.

[69] Richard Wyn Jones a Dafydd Trystan, 'The 1997 Welsh referendum vote', yn *Scotland and Wales: Nations Again?*, gol. Bridget Taylor a Katarina Thomson (Caerdydd, 1999), tt. 78-79.

**Ffigwr 3.1**




*Ffynhonnell*: Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Ategir y farn honno gan Aitchison a Carter sy'n adrodd ar Gyfrifiad 2001. Er nad oedd ffurflen y cyfrifiad wedi rhoi blwch priodol i ddisgrifio hunaniaeth fel 'Cymro' yn hytrach na 'Phrydeinig', dewisiodd nifer fawr nodi hyn mewn blwch 'gwyn arall' (tra dinistriodd llawer o rai eraill eu ffurflenni). Nodweddiadol yn hynny o beth oedd y ffaith fod y canrannau a ddewisiodd ddisgrifio eu hunain fel 'Cymry' yn uwch yn yr ardaloedd Cymraeg, sef Llŷn, Eryri a rhannau o Fôn a Chaerfyrddin, nag mewn ardaloedd mwy Saesneg eu hiaith.[70]

Os, gyda Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r gofyniad i sefydliadau cyhoeddus weithredu'n ddwyieithog, y llwyddwyd i greu rhagor o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn y sefydliadau hynny, ni ddylid synnu bod Cymry Cymraeg yn tynnu eu hunaniaeth fwyfwy o'r sefydliadau hefyd. Ond wrth i'r Gymraeg gael mwy o ofod yn y sector gyhoeddus, ceir galwadau am greu gwell cyfleoedd i bobl gael siarad Cymraeg ac ymuniaethu â'r iaith ar lefel y gymuned.[71] Daeth galw am gydweddu'r gallu cynyddol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc gyda chyfleusterau a chyfleoedd iddynt ddefnyddio'r iaith. Yr un pryd, pwysleisiwyd mor allweddol ydyw i rieni Cymraeg fagu eu plant yn Gymraeg a sicrhau trwy hynny mai'r Gymraeg fydd iaith ddewisol y plant yn nes ymlaen yn eu bywydau.[72] Gwelwyd twf yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn nhrefi mawr de Cymru, ond ar yr un pryd cafwyd pryderon fod y fro Gymraeg yn erydu'n gyflym, fel y gwelir ar y map ar y dudalen flaenorol. Heb ddigon o gyfleoedd yn y cymunedau llai Cymraeg i gysylltu'r gymdeithas sifil â'r Gymraeg, gellid dadlau bod y fro Gymraeg yn hanfodol bwysig i barhad yr iaith.

Gyda'r newid demograffaidd, fodd bynnag, mae gofyn meddwl am ddulliau i gynnal ystod eang o ddigwyddiadau cymunedol yn y Gymraeg, gan gynnwys yn ardaloedd y fro Gymraeg. Gall darparu cyfieithu ar y pryd mewn gweithgareddau a digwyddiadau helpu'r sawl sy'n gallu'r iaith (ond heb ddigon o gyfleoedd, hyder neu arfer i'w siarad) i wneud eu dewis o blaid siarad Cymraeg. Yn y fro Gymraeg ceir y cyfle gorau i siarad Cymraeg yn *naturiol*, sef ar hap ac yn awtomatig mewn ystod eang o sefyllfaoedd. I gryfhau cymdeithas sifil yn y llefydd hyn, rhaid gofalu nad yw nifer y cyfleoedd i siarad Cymraeg yn lleihau. Nid damwain yw'r

[70] Aitchison/Carter, *Spreading the Word*, tt. 127-28.
[71] Gweler e.e. Heini Gruffudd, 'Planning for the Use of Welsh by Young People', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, gol.Colin Williams (Caerdydd, 2000), tt. 173-207.
[72] Am ymchwil diweddar i hyn, gweler Delyth Morris a Kathryn Jones, 'Yn gymysg oll i gyd', *Barn*, Hydref 2006, tt. 24-26.

ffaith fod cyfieithu ar y pryd wedi ymsefydlu gryfaf yn ardaloedd Cymraeg Gwynedd felly.

Er mwyn dod â syniadau'r Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg am eu hunaniaeth at ei gilydd, rhaid ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg yng nghadarnleoedd yr iaith. Traetha Gareth Ioan fod llawer o sefydliadau ac asiantaethau llywodraethol yng Nghymru o hyd yn mabwysiadu meddylfryd a phersbectif y sefydliadau Seisnig y codasant ohonynt. Synia fod eu modd o weithredu yn amhriodol i'r gymuned Gymraeg gan nad ydynt yn deillio o brofiadau'r gymuned honno, nac yn cyfeirio atynt.[73] O ganlyniad, mae teimlad parhaol ymhlith siaradwyr Cymraeg a'u cymunedau na chânt eu cynnwys mewn polisïau o bob math, ac na chânt gyfrannu atynt ychwaith. Honnwyd ganddo fod rhaid wrth well ymdrech i Gymreigeiddio'r sefydliadau, yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol, er mwyn iddynt gynrychioli'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd yng Nghymru.

A dilyn dadl Gareth Ioan, ni fydd rhywun yn awyddus i weithio ar ran y gymdeithas, neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau, os nad oes ganddynt deimlad o berthyn iddi. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar gryfder mewnol a hyder pobl i'w mynegi eu hunain ac i gyfrannu heb deimlo'n drwsgl neu'n swil. Cymdeithas hyderus yw un o'r ffactorau hynny. Ond mae canrifoedd o agweddau dirmygus at eu hiaith yn peri i siaradwyr Cymraeg gilio (i raddau mwy neu lai) o fywyd cyhoeddus, o siarad eu hiaith ac o fod yn hyderus fel cymdeithas. Mynna Gareth Ioan fod rhaid i siaradwyr Cymraeg gael digon o gyfleoedd cymdeithasol yn eu hiaith eu hunain. Ar yr un pryd, rhaid ceisio annog y gymdeithas gyfan i fod yn fwy cadarnhaol ynglŷn â'r Gymraeg fel rhan o realiti Cymru.[74]

Crybwyllwyd eisoes bod cyfieithu wedi chwarae rôl allweddol wrth ailddiffinio diwylliant a hunaniaeth. Disgrifia Jacobus Naudé sut y rhoddodd cyfieithiadau newydd o'r Beibl i'r Afrikaans hwb i hyder y bobl yn eu hunaniaeth ddiwylliannol. Tra oedd cyfieithiadau 1933 a 1953 wedi cyfiawnhau'r dioddefaint dan y system Apartheid trwy gyffelybu'r Affricaneriaid i bobl ddewisedig Israel,

---

[73] Gareth Ioan, 'Celfyddyd ddeinamig – cymuned fyw', yn *Arian Byw: Ymateb positif i argyfwng cymunedau Cymraeg cefn gwlad* (Y Ffwrwm, 2004), tt. 6-14.
[74] Ibid.

rhoes cyfieithiad newydd ym 1983 gefnogaeth emosiynol i'r Affricaneriaid gan anelu at ymwybyddiaeth gymdeithasol a defnyddio geirfa gymodlon.[75]

Byddai'n ddymunol i gyfieithu ar y pryd yng Nghymru wneud rhywbeth tebyg: trwy ddangos i'r gymdeithas fod y Gymraeg yn ddilys ac yn dderbyniol, ceisio annog siaradwyr Cymraeg i gael yr hyder i siarad Cymraeg, a hyd yn oed i fod yn falch ohoni.

Gellir awgrymu, felly, y byddai cymdeithas sifil Cymru yn aeddfedu dim ond o ystyried yr iaith Gymraeg ym mhob proses wleidyddol a chymdeithasol. Mae democratiaeth ei hun yn dibynnu ar allu ieithyddol. I ddeall ac i berswadio eraill mae'r gallu hwn yn angenrheidiol. Hyd yn oed os mai'r unig gyfraniad cyhoeddus yw bwrw pleidlais bob pedair neu bum mlynedd, mae gallu ieithyddol yn allweddol i wneud cyfiawnder â'r system ddemocrataidd.[76] Bydd y sawl sy'n gallu cynnal dadl yn ei iaith gyntaf ar ei fantais o ran rhethreg, ac yn blino'n llai cyflym. Ac mae hyn yr un mor wir yn Senedd Ewrop gyda'i thair iaith ar hugain ag ydyw yng ngrwpiau cymunedol Cymru.[77] Yn enwedig mewn ardaloedd neu grwpiau Cymraeg, felly, gellir hybu polisïau iaith a chyfieithu ar y sail eu bod yn gwella cyfranogaeth ddemocrataidd.

Cyflwyna Christopher Stroud a Kathleen Heugh, ymchwilwyr i bolisi iaith, eu syniad o 'ddinasyddiaeth ieithyddol' sy'n anelu at annog siaradwyr ieithoedd lleiafrifol i gymryd rhan fwy amlwg mewn bywyd cymdeithasol a gwleidyddol, ac felly gryfhau statws a defnydd eu hiaith. Gwelant amlieithedd fel adnodd i wella statws siaradwyr iaith leiafrifol yn y gymdeithas:

> The idea of language and multilingualism as a resource in the betterment of governance and the attainment of equity highlights the need to envisage an alternative politics of language, sensitive to the workings of power in language, that builds on the agency of its speakers, and that consolidates and helps link the participation of speakers in intimate, local and trans-local communities.[78]

---

[75] Jacobus Naudé, 'The Afrikaans Bible Translations and the Formation of Cultural, Political and Religious Identities in South Africa', yn *Translation and the Construction of Identity*, gol. Juliane House et al (Seoul, 2005), tt. 167-179.
[76] Sue Wright, 'Language Rights, Democracy and the European Union', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion, 2004), tt. 219-242.
[77] Gweler Ross, 'Europas Einheit in babylonischer Vielfalt', t. 11.
[78] Christopher Stroud a Kathleen Heugh, 'Language Rights and Linguistic Citizenship', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion, 2004), tt. 208-09.

Mae'r rhaglen *Cymunedau yn Gyntaf* yn yr ardaloedd Cymreiciaf yng Ngwynedd yn gweithredu gan arddel yr egwyddor bod angen ceisio cyfranogaeth well gan siaradwyr Cymraeg. Gyda hynny mewn cof, eu bwriad yw cynnwys y mwyaf difreintiedig ym mhenderfyniadau eu hardaloedd gan gydnabod bod 'arwyddocâd sylfaenol i'r Gymraeg wrth weithio i ymrymuso a magu hyder cymunedau Cymraeg ac wrth hwyluso cyfranogaeth siaradwyr Cymraeg mewn gweithgareddau a allai fod o fudd i'w cymunedau.'[79] Ceisia'r Mentrau Iaith hwythau gyfuno hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu economaidd, a thrwy hynny anelu at roi gwell llais i drigolion yr ardal.

Gan gychwyn o'r gosodiad y gwelir pobl bob amser (ganddynt eu hunain ac eraill) mewn safle penodol mewn perthynas ag eraill, ac mewn perthynas â'r digwyddiad (*positioning*), disgrifia Mona Baker rôl cyfieithu a chyfieithu ar y pryd fel un arbennig o werthfawr:

> In translation and interpreting, participants can be repositioned in relation to each other […] through the linguistic management of time, space, deixis, dialect, register, use of epithets, and various means of self- and other identification. Cumulative, often very subtle choices in the expression of any of these parameters allow the […] interpreter to reconfigure the relationship between *here* and *there*, *now* and *then*, *them* and *us*, […] *hearer* and *interpreter*. […] Interpreters can actively reframe the immediate narrative as well as the larger narratives in which it is embedded by careful realignment of participants in time and social/political space.[80]

Er nad yw dewisiadau'r cyfieithydd bob amser yn ymwybodol, gall y ffaith fod cyfieithu ar y pryd yn *bresennol* mewn digwyddiad ailosod neu aildrefnu perthynas rhwng y sawl sy'n bresennol. Golyga hyn dorri ar draws hen batrymau grym ac ar ymddygiad ieithyddol a chymdeithasol.

Yng nghyd-destun cyfieithu i estroniaid yn y gwasanaethau cyhoeddus, mae'r rôl hon yn amlwg: rhydd cyfieithu lais i'r rhai nad oedd ganddynt lais hebddo. Yng nghyd-destun cyfieithu ar y pryd yng Nghymru, rhoddir eu llais gwreiddiol i'r sawl sy'n dymuno siarad Cymraeg. Trwy hynny, rhoddir llais gwreiddiol i'r cymunedau hefyd, fel y gallant ddangos eu hunaniaeth Gymraeg heb rwystr.

Nid yw'r defnydd o gyfieithu yn arfer sy'n awgrymu y dylai diwylliant y cymunedau hyn fod yn bur Gymraeg. I'r gwrthwyneb: trwy ganiatáu i siaradwyr

---

[79] Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf, *Cymunedau yn Siarad – Cymunedau yn Gyntaf a'r Iaith Gymraeg* (2004), t. 1.
[80] Mona Baker, *Translation and Conflict*, t. 132.

o'r ddwy iaith gymryd rhan ym mywyd y gymuned, mae cyfieithu yn gwella democratiaeth, yn ôl Michael Cronin, trwy bwysleisio nodweddion y diwylliant:

> In reminding humans of what is valuable about their own particular form of culture and mode of language through translational accommodation, it ensures that access, participation and justice are realized through rather than despite plurality.[81]

Felly, nid yn unig gall polisi ynglŷn â chyfieithu ar y pryd gyfrannu at newid yn y defnydd o'r iaith, ond gall hefyd newid sut y mae pobl yn defnyddio cyfieithu i arddel eu hunaniaeth. Yn hynny o beth, mae cyfieithu yn hanfodol i'r broses ddemocrataidd trwy annog pob rhan o'r gymdeithas i gyfrannu at ddatblygiadau'r gymuned. Mae'n galluogi pobl i gyd-fyw, medd Cronin eto:

> Translation […] allows for the cultural and linguistic specificity and integrity of the information base of individuals or communities to be respected but at the same time allows for the wider circulation of concepts, attitudes, ideas, aesthetic or cognitive styles.'[82]

Heb gyfieithu, felly, ni fyddai'n bosibl sicrhau bod holl rannau'r gymdeithas yn cyfrannu o'u profiadau eu hunain. Ond mewn cymdeithas iach, rhaid i bob adran yr 'ymennydd mawr' gael cyfathrebu'n effeithiol â'r lleill.[83]

## 3.5 Cynllunio iaith: cynllunio hunaniaeth?

Pan mae gwlad amlieithog yn gweithredu polisïau iaith, golyga hyn gydnabyddiaeth o'r gwahaniaethau mewn hunaniaeth. Golyga hefyd fod y sawl sy'n gyfrifol am bolisi yn derbyn bod caniatáu hunaniaeth ieithyddol er lles y bobl. Ac mae'n dangos yr egwyddor bod gwahaniaethau yn bwysig i ddatblygu cymdeithas iach a hyderus. Yr un egwyddor sy'n gyrru cyfieithwyr, fel y cymeradwyodd Koïchiro Matsuura, Ysgrifennydd Cyffredinol yr UNESCO, 'translation leads to understanding without reducing variety of expression'.[84]

Yn graidd i lwyddiant polisïau iaith Cymru, rhaid sicrhau eu bod yn effeithio ar bawb sy'n siarad Cymraeg. Mae perygl bod y canolfannau cyhoeddus newydd

---

[81] Michael Cronin, *Translation and Identity*, t. 71.
[82] Ibid., tt. 138-39.
[83] Dyfynnwyd ymadrodd Robert Wright gan Michael Cronin, Ibid., t. 139.
[84] Koïchiro Matsuura, 'Message from the Director-General of UNESCO to the Inaugural Conference of IATIS', yn *Translation and the Construction of Identity*, gol Juliane House et al. (Seoul, 2005), t. 1.

i'r iaith (yn y cyfryngau neu mewn sefydliadau cyhoeddus er enghraifft) yn rhy unffurf ac yn anelu'n bennaf at y dosbarth canol. Traetha Jacqueline Urla am broblem gyffelyb yng Ngwlad y Basg lle ceisiwyd canfod cyhoedd gwahanol (*counterpublic*) i'r un a ddychmygwyd gan lunwyr polisi. Gwelwyd yr angen i ystyried amrywiaeth yn y boblogaeth wrth ddarparu cyfleoedd i siarad yr iaith leiafrifol. Yn yr achos hwn, sefydlodd pobl ifanc orsaf radio gyda'r bwriad canlynol: 'to give expression to other kinds of social experience and perspectives on who the public is, what its interests might be, and what its voice sounds like.'[85] Yr hyn oedd yn bwysig oedd cymryd rhan, nid o reidrwydd gwrando; cymryd rhan mewn diffinio gwybodaeth a diwylliant cyhoeddus, cymryd rhan mewn diffinio'r hunaniaeth Fasgeg, felly.

Pwysleisiwyd bod rhaid cynnwys nid un haen o'r gymdeithas, eithr pawb, 'the people who speak the reality of the street.'[86] Chwilient am bynciau, digwyddiadau a lleoedd gwahanol i'r rhai a gefnogid gan y mudiad iaith yn arferol. Ni theimlent fod sianelau cyfathrebu a phynciau trafod yr oedd y sefydliad iaith yn eu dewis yn berthnasol iddynt, ac roedd yr orsaf radio yn ffordd o ddangos eu bod yn uniaethu â'r iaith, ond mewn modd gwahanol. (Profiad tebyg a gafodd Blaenau Ffestiniog gyda Radio Blaenau a oedd yn darlledu unwaith yr wythnos rhwng 2003 a 2007.[87])

Yng Nghymru, rhaid gofyn beth sy'n digwydd i iaith y rhai nad ydynt yn mynychu Eisteddfodau, yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc? Sut y datblyga iaith y sawl sydd heb ddarllen llenyddiaeth Gymraeg a heb fod yn gwylio S4C? Oes digon o gyfleoedd tu allan i gylchoedd y sefydliad Cymraeg i gymdeithasu yn Gymraeg? Mae rhai gweithiau llenyddol diweddar yn ceisio sôn am garfannau eraill o'r gymdeithas, megis nofelau Dewi Prysor neu Llwyd Owen,[88] ond rhaid i gynllunio iaith gyrraedd (yn ogystal ag amrywiaeth o ardaloedd) amrywiaeth mewn diwylliant, mewn awyrgylch teulu ac mewn cylchoedd gwaith a busnes.

Heb amheuaeth mae'r Gymraeg yn cryfhau fel iaith yn y sefydliadau cyhoeddus, ac mae hyn yn allweddol i statws yr iaith. O ystyried y gwahaniaethau

---

[85] Jacqueline Urla, 'Outlaw Language: Creating alternative public spheres in Basque free radio', yn *Languages and Publics: The Making of Authority*, gol. Susan Gal a Kathryn Woolard (Manceinion, 2001), t. 142.
[86] Ibid., t. 151.
[87] <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/north_west/6525577.stm> [16 Gorffennaf 2008].
[88] Dewi Prysor, *Brithyll* (Talybont, 2006), *Madarch* (Talybont, 2007); Llwyd Owen, *Ffydd, gobaith, cariad* (Talybont, 2006).

yn nerth yr iaith o un gymuned i'r llall, fodd bynnag, mae her wirioneddol yn wynebu'r Mentrau Iaith. Fel mudiadau lleol, anelant at ddatrys problemau'r Gymraeg sy'n unigryw i'w hardal mewn ffordd unigryw. Nid allant weithredu mewn ffordd unffurf genedlaethol; yn hytrach ceisiant hyrwyddo'r Gymraeg oddi fewn i'r cymunedau gan dynnu ar brofiadau, hunaniaeth a brwdfrydedd eu trigolion.

Ar ôl y pymtheng mlynedd cyntaf, beth yw'r argoelion ynglŷn â'u llwyddiant? A allant gynnwys 'pobl y stryd' ac ymateb i'w hanghenion? Neu a ydynt yn trawsffurfio rhwydweithiau gwirfoddol a chymunedol, trwy grantiau cyhoeddus, yn rhagor o'r sefydliadau hynny sydd eto'n rhan o'r dosbarth canol a'r elît ieithyddol?

Wrth sôn am yr ymdrechion i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym maes y gyfraith, meddai Catrin Huws nad yw ffurfioli iaith o reidrwydd yn gam ymlaen: 'Y cwbl a gyflawnir gan y broses o ffurfioli'r iaith yw cynnig gofodau newydd ar gyfer defnyddio'r iaith i'r sawl sydd yn hyderus yn eu hunaniaeth ieithyddol'.[89] Nid ystyria fod y ffurfioli hwn yn atgyfnerthu statws yr iaith mewn modd sylweddol. Os oes angen i'r sawl llai hyderus siarad mwy o Gymraeg, gellir gobeithio felly nad yw'r Mentrau Iaith yn ffurfioli'r iaith yn ormod.

Os yw'r Mentrau yn annog 'pobl y stryd' i gymryd rhan yn y broses o ddiffinio diwylliant a gwybodaeth gyhoeddus, dichon bod ganddynt botensial i gryfhau'r Gymraeg yn y gymdeithas. Gellir dadlau wedyn sut y dylid ceisio hynny. Trwy ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau, yn un peth, cynigiant anogaeth i bobl ddweud eu hanesion hwy yn eu ffordd hwy. Gall darparu cyfieithu ar y pryd newid safle siaradwyr Cymraeg mewn grwpiau cymysg (yn enwedig mewn ardal Gymraeg), rhoi hyder iddynt, ac felly newid deinameg y grŵp a chyfranogaeth.

Wrth gwrs, mae'n bosibl dadlau o blaid creu elît ieithyddol. Pan mae un grŵp cymdeithasol wedi ennill dylanwad (cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol), tuedda grwpiau eraill i'w efelychu er mwyn ennill yr un statws. Ar ôl y Ddeddf Uno, cofier, trawsffurfiwyd yr elît Cymreig yn rhan o elît Lloegr. Efallai mai dyna beth sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Nghymru gyda'r dosbarth canol Cymraeg yn ceisio gosod esiampl ynghylch sut i ddefnyddio'r iaith i weddill y gymdeithas.

---

[89] Catrin Huws, 'Iaith y nefoedd ac iaith y llysoedd', *Cambrian Law Review 38* (2007), t. 125.

Gosododd Awdurdod Datblygu Cymru hysbysebion uniaith Gymraeg ynghylch sefydlu busnesau newydd ar fyrddau mawr ger gorsaf reilffordd Bangor ym mlynyddoedd olaf ei fodolaeth annibynnol cyn 2006. Ai'r bwriad oedd ceisio creu teimlad o elît ymysg y rhai a oedd yn deall Cymraeg? Ac ystyried sylw Camille Laurin, 'tad' *Bill 101* yng Nghanada, 'il faut vraiment être colonisé pour trouver l'affichage bilingue normal',[90] mae defnyddio'r dull uniaith hwn yn ddealladwy fel mesur i ddiosg y ddelwedd o fod yn ardal sydd wedi ei choloneiddio. Mae cam fel hyn yn mentro creu gwrthwynebiad gan y di-Gymraeg a allai fod yn niweidiol i'r bwriad gwreiddiol. Ar y llaw arall, mae hysbysebion Awdurdod Datblygu Cymru yn enghraifft dda o bolisi o beidio â chyfieithu a chymryd yn ganiataol mai Cymraeg yw iaith yr ardal. O'r safbwynt hwn, gellid honni eu bod yn gam ymlaen at 'normaleiddio' y Gymraeg.

Yng Nghatalwnia y soniwyd am 'normaleiddio' gyntaf. Wrth ddatgan ei hamcan o 'normaleiddio' yr iaith Gatalaneg, bwriadai llywodraeth y Generalitat gymryd y defnydd o'r iaith yn ganiataol mewn bywyd cyhoeddus. Yn ôl Albert Branchadell, nod polisïau'r Generalitat oedd mynd o sefyllfa lle yr oedd statws y ddwy iaith yn gyfartal yn swyddogol i sefyllfa lle yr oeddent yn gyfartal yn ymarferol. Unwaith y cyrhaeddid y nod hwn, *gallai* pawb a ddymunai siarad Catalaneg ym mhob man wneud hynny. Ond hoffai Branchadell i'r polisi fynd gam ymhellach. Yr unig ffordd i normaleiddio'r iaith go-iawn fyddai datgan hyn: unwaith y bydd Catalaneg yn iaith gyntaf i fwyafrif y boblogaeth, cymerir yn ganiataol mai'r Gatalaneg *fydd* iaith pawb ym mhob man.[91]

Cyn y llwyddir i normaleiddio iaith, rhaid rhoi pwyslais arbennig ar ddatblygu agweddau cymdeithasol at y Gymraeg: dyna sylweddoliad Bwrdd yr Iaith Gymraeg.[92] I'n hatgoffa bod cynllunio ieithyddol yn ymwneud â holl agweddau o fywyd cymdeithasol, ategа Colin Williams: 'Y mae datblygu cymdeithas ddwyieithog gwbl gyflawn yn brosiect mewn peirianneg gymdeithasol'.[93] Ni ddylid anghofio rôl cyfieithu a chyfieithwyr yng nghyd-destun

[90] 'Rhaid bod wedi coloneiddio go iawn i ffeindio arwyddion a hysbysebion dwyieithog yn normal.' Dyfynnir gan Kathy Mezei, t. 233.
[91] Dyfynnir gan Gardner/Puigdevall i Serralvo/Williams, t. 342.
[92] Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Language Revitalization: The Role of the Welsh Language Board', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales,* gol. Colin Williams (Caerdydd, 2000), tt. 83-115.
[93] Colin Williams, 'Adfer yr Iaith', yn *'Eu Hiaith a gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif,* gol. Geraint Jenkins a Mari Williams (Caerdydd, 2000), tt. 664-665.

dwyieithogi cymdeithas. Bron na chyfyd Carmen África Vidal Claramonte y cyfieithydd ar bedestl:

> The translator is no longer a secondary figure but has become someone who, perhaps better than anybody else, recognizes the importance of re-presentation, knows that any crystallization can turn into snow, salt or flower on the end of a twig. He knows that his task is to unravel connections and clear bridges of any mud with enormous care and great responsibility.[94]

Prin y gellir dychmygu cyfrifoldeb mwy wrth sicrhau bod y broses o ddwyieithogi cymdeithas yn un esmwyth, ac yn un a arddelir gan y mwyafrif. Ac erys y cwestiwn ynghylch pwy sy'n gyfrifol am lunio'r peirianneg, ac at bwy yr anelir y polisïau.

Gall anhawster godi o'r prif bwyslais ar hawliau a chyfleoedd yr unigolyn i siarad ei 'ddewis iaith'. Ar y llaw arall, byddai rhoi mwy o hawliau torfol i'r cymunedau yn fwy tebygol o ddieithrio'r mwyafrif di-Gymraeg yng Nghymru.

Yn y tymor byr, rhaid creu'r awydd mewn unigolion i siarad yr iaith. Cael mantais bersonol uniongyrchol, fel swydd, er enghraifft, yw nod llawer o'r unigolion sy'n mynd ati i ddysgu Cymraeg. Daw'r nod o berthyn i'r gymdeithas Gymraeg fel cam pellach, ac mae pryder na fydd canran uchel o ddysgwyr byth yn cyrraedd y cam hwnnw.[95] Wrth gwrs, mae perygl y byddai cyfieithu pob dogfen yn rhwystro dysgu Cymraeg, gan y byddai popeth ar gael yn y ddwy iaith.

Ond ni ddylid deall y cyfieithydd fel asiant i'r llywodraeth neu'r sefydliadau, eithr fel rhywun sy'n gweithio yn enw'r bobl. Yng ngeiriau Carmen África Vidal Claramonte, 'the translator should […] be more concerned with the politics of representation than with the representation of politics.'[96] Annog rhagor o bobl i gyfranogi o'u diwylliant, felly, yw rôl cyfieithwyr. Nid eu pwrpas yw trosi – yn enw'r llywodraeth – bob dogfen a gynhyrchir ganddi, eithr trosi, er mwyn y bobl, yr hyn y mae'r bobl ei angen ac yn dymuno ei ddweud a'i glywed.

Gwelwyd pa mor bwysig yw cynnwys y bobl sy'n siarad yr iaith leiafrifol mewn cynllunio ieithyddol, a chynnal cymdeithas y cadarnleoedd fel calon ddwyieithog y wlad. A dilyn Joshua Fishman a'i fodel o *Reversing Language Shift*

---

[94] Carmen África Vidal Claramonte, '(Mis)Translating Degree Zero: Ideology and Conceptual Art', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion, 2003), t. 72.

[95] Yn ôl *Y maes: Cylchlythyr i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion, 11*, Haf 2008, t.3., dim ond 5% o'r oedolion sy'n dysgu Cymraeg sydd wirioneddol eisiau dysgu Cymraeg.

[96] Vidal Claramonte, '(Mis)Translating Degree Zero', t. 76.

a grybwyllwyd eisoes ym Mhennod 2, nid oes dim yn bwysicach i iaith na chymdeithas a chymuned a all fagu hyder i'w siarad yn y lle cyntaf: 'Nothing can substitute for the rebuilding of society at the level of […] everyday, informal life.'[97] Efallai bod hanes Iwerddon yn cadarnhau ei farn. Er y gwnaethpwyd yr Wyddeleg yn iaith swyddogol gyntaf y wlad, nid oes llawer o gymunedau, yn sicr tu allan i'r Gaeltachtái, lle y siaredir yr Wyddeleg yn naturiol fel iaith bob dydd.[98]

Ac er bod y peuoedd sy'n haws eu rheoli (addysg, cyfryngau, y sector gyhoeddus) yn bwysig wrth godi statws swyddogol yr iaith, neu wrth greu awyrgylch positif i'r Gymraeg, ni allant gymryd lle trosglwyddo iaith yn y teulu. Amod elfennol unrhyw gynllunio ieithyddool yw cymunedau ieithyddol iach: 'Only such a community, made up of demographically concentrated [minority language]-using families and neighborhoods, can provide the basic mechanisms that safeguard the processes of intergenerational mother tongue transmission.'[99] Yn yr ysbryd hwn, ceisia rhaglen *Twf*, er enghraifft, ddwyn perswâd ar rieni ifanc y bydd eu plant ar eu mantais o'u magu'n ddwyieithog. Mae'n cynnig cyngor i rieni di-Gymraeg ar sut i ddysgu'r iaith gyda'u plant a thrwy hyn ddod yn rhan o'r gymdeithas ddwyieithog.

Y broblem mewn ardaloedd gyda nifer cynyddol o drigolion heb allu siarad Cymraeg, wrth gwrs, yw'r gostyngiad yn y defnydd o'r Gymraeg. Y gobaith wrth gyflogi cyfieithwyr ar y pryd mewn cyfarfodydd cymunedol yw atal y dirywiad hwnnw. Er nad yw siarad trwy gyfieithu yn sefyllfa gwbl naturiol, mae'n galluogi Cymry Cymraeg i siarad yn naturiol â'i gilydd. Yr un pryd, gobeithir ei fod yn arf i gynnwys y di-Gymraeg a pheidio â'u dieithrio.

Yn sicr, gall cyfieithu ar y pryd ddangos bod iaith yn rhan annatod o hunaniaeth y cymunedau Cymraeg. Heb gyfieithu ar y pryd (a chyfieithu testun), rhaid i'r Cymry Cymraeg naill ai gyfyngu eu cynulleidfa, neu ildio i'r pwysau i siarad Saesneg.

A dilyn dadl Oscar Diaz Fouces, byddai'n ychwanegu at rym a hyder siaradwyr lleiafrifol petaent yn cael gwybodaeth am faterion lleol yn ogystal â byd-eang *yn* yr iaith leiafrifol. Os yw'r Cymry yn cael eu holl wybodaeth am ddatblygiadau diweddaraf gwyddonol a gwleidyddol trwy ffilter yr iaith Saesneg,

[97] Fishman, *Reversing Language Shift*, t. 112.
[98] Hindley, *The Death of the Irish Language*.
[99] Fishman, *Reversing Language Shift*, t. 111.

y perygl yw mai diwylliant Lloegr ac America sy'n penderfynu beth ydym yn ei ddysgu am y byd.[100] Pe ymrwymid i gyfieithu yn uniongyrchol o ieithoedd eraill i'r Gymraeg (ac nid llenyddiaeth yn unig), Cymru fyddai'n meddiannu'r rheolaeth dros brosesau diwylliannol, gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd. Gall ieithoedd lleiafrifol symud i lefel uwch yn hierarchiaeth ieithoedd y byd trwy gael mynediad uniongyrchol. Dywed Marie-Christine Coste-Rixte:

> Les 'grandes langues' se traduisent mutuellement et traduisent le patrimoine universel […]. L'accès à cette 'cours des grands' suppose pour toute langue minorisée qu'elle intéresse les traducteurs et qu'elle pose son existence majeure tant face à la langue qui la domine que face aux langues proprement étrangères.[101]

Mae cyfieithu uniongyrchol felly yn bwysig i'n perthynas â gwledydd a diwylliannau eraill. Hyd nes i hynny ddigwydd, bydd ein datblygiad gwleidyddol a diwylliannol, ac yna, ein dirnadaeth o'r byd ac ohonom ein hunain, yn rhwym wrth bolisïau cyfieithu Lloegr a'u dewis hwy o'r hyn a gyfieithir neu na chyfieithir i'r Saesneg. Byddai polisi cyfieithu cytbwys yn cyfeirio at ddulliau o ddewis deunydd i'w gyfieithu ynghyd â ffyrdd o ddygymod â'r cwestiwn o gynrychioli'n addas hunaniaeth cymunedau Cymru.

[100] Oscar Diaz Fouces, 'Translation policy for minority languages in the European Union', t. 101.

[101] 'Cyfieitha'r 'ieithoedd mawr' ei gilydd a chyfieithu etifeddiaeth y byd ar draws yr holl oesoedd a'r holl orwelion. Awgryma mynediad pob iaith leiafrifol i'r "llys y mawrion" hwn ei bod o ddiddordeb i'r cyfieithwyr, a'i bod yn sefydlu ei bodolaeth bwysig cymaint mewn perthynas â'r iaith sy'n ei dominyddu ag â'r ieithoedd gwirioneddol estron.' Marie-Christine Coste-Rixte, 'De l'identité à la traduction', *Lengas 44* (1998), t. 86. Dyfynnir gan Diaz Fouces, 'Translation policy for minority languages in the European Union', t. 102.

# 4 Cyfieithu a defnydd iaith yn y cymunedau Cymraeg

Mae hunaniaeth ieithyddol (gan gynnwys hyder wrth siarad Cymraeg) yn rhwym o fod yn gryfach mewn cymunedau lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Ond hyd yn oed yno, ni ellir cymryd y pethau hyn yn ganiataol, yn enwedig mewn sefyllfa iaith gymysg. Bydd yr ymchwil a gyflwynir yn Rhan II y traethawd yn trafod cyfarfodydd yng Ngwynedd yn benodol. Mae'n bwysig, felly, i drafod swyddogaeth cyfieithu ar y pryd yng nghyd-destun cymunedau Cymraeg, megis ag a geir yng Ngwynedd.

Ar ddechrau'r bennod hon holir beth yn union yw ystyr 'cymuned', a beth yn benodol yw 'cymuned Gymraeg'. Tynnir sylw at y defnydd cynyddol o'r termau 'cymuned' a 'community' mewn trafodaethau gwleidyddol a chymdeithasegol. Archwilir pam y mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn bwysig i drigolion y fro Gymraeg, sef y term a ddefnyddir i ddynodi ardaloedd ac iddynt ran helaeth o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Ac yn olaf, trafodir sut y gall cyfieithu gynnal y berthynas gymhleth ac amlochrog rhwng cymuned a'i hiaith.

Ymhellach, archwilir goblygiadau rhoi dewis iaith i bobl wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog, gan ddychwelyd at y berthynas rhwng cyfieithu a hunaniaeth, y tro hwn yng nghyd-destun cyfarfodydd, lle mae perthynas siaradwyr a'i gilydd o bwysigrwydd allweddol.

Yn graidd i'r bennod, ac yn wir i'r astudiaeth i gyd, mae'r drafodaeth ar hyder ieithyddol, a sut mae diffyg hyder yn effeithio ar ddefnydd iaith. I ddod â'r bennod i ben, sonnir am y cysyniad o newid agweddau a normaleiddio iaith leiafrifol, a goblygiadau cyfieithu o fewn y prosesau hynny. Gwelir cyfieithu'n arf hollbwysig wrth gynyddu hyder siaradwyr Cymraeg a newid agweddau tuag at yr iaith.

## 4.1 Beth yw cymuned?

Mae angen diffinio'r term *cymuned* gan fod polisïau, nid yn unig ym maes adfer iaith, ond hefyd mewn meysydd economaidd a chymdeithasol mwy cyffredinol, bellach yn canolbwyntio ar 'y cymunedau'. Mae'r term, er y'i ddefnyddir fel arfer gydag arwyddocâd positif, yn un amwys, fel termau eraill sy'n dynodi grŵp o bobl, megis 'cymdeithas', 'cenedl', 'pobl'. Ar y naill law, gellir gweld cymuned fel uned

ddaearyddol, i wahaniaethu rhwng lefelau lleol, cenedlaethol, rhanbarthol neu ryngwladol. Byddai'r syniad hwnnw o gymuned yn cynnwys pawb sy'n digwydd byw mewn ardal arbennig, waeth beth yw eu crefydd, eu gwleidyddiaeth, eu gwerthoedd neu eu ffordd o fyw.

Ar y llaw arall, gellir disgrifio cymuned mewn ystyr ehangach fel grŵp o bobl sy'n rhannu'r un syniadau a'r un dyheadau; mae'n cynrychioli cydberthnasau cyfrifol, a hynny mewn cyferbyniad â chanolfan grym (y wladwriaeth, er enghraifft). Clywir sôn am 'gymuned ieithyddol', 'cymunedau ethnig', neu'r 'gymuned hoyw'. Mae siarad am gymuned felly yn pwysleisio'r berthynas agos rhwng pobl a'r gyd-ddibyniaeth rhyngddynt sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn perthyn i'w gilydd.

Y gyd-berthynas honno rhwng pobl sy'n bwysig wrth drafod y 'gymuned Gymraeg'. Mae hyn yn wir yng nghymunedau y fro Gymraeg lle siaredir Cymraeg gan gyfran fawr o'r boblogaeth, sef ardaloedd y 'cadarnleoedd' Cymraeg. Ond mae'n wir hefyd mewn cymunedau Cymraeg sy'n dibynnu ar un neu fwy o rwydweithiau i gynnal bywyd cymdeithasol Cymraeg. Traethodd Raymond Williams ar sut mae ymlyniad at grwpiau a rhwydweithiau Cymraeg, lawn cymaint â chysylltiad yr iaith ag ardaloedd penodol Gymraeg, yn bwysig i'r gymdeithas Gymraeg:

> That association between a specific understanding of community in terms of the extending obligations of neighbourhood, very much attached to a place, moving on through the sense of community under stress, under attack, through conflict, finding its community and its collective institutions and attempting to move on from that to a political movement which should be the establishment of higher relations of this kind and which would be the total relations of a society: that association, with all its difficulties, has been a most significant part of the history of Wales.[1]

Perthnasol yn hyn o beth yw trafodaeth Benedict Anderson am yr 'imagined communities', sef mai rhywbeth rydym yn ei greu o'n delweddau delfrydol, gyda mesur o ramantiaeth yn aml, yw cymunedau, o leiaf i ryw raddau.[2] Serch hynny, pwysleisia Euros Lewis yr elfen o berthyn fel un hollol greiddiol i gymunedau Cymraeg:

---

[1] Raymond Williams, *Who Speaks For Wales? Nation, Culture, Identity,* gol. Daniel Williams (Caerdydd, 2003), t. 181.
[2] Benedict Anderson, *Imagined Communities: Reflections on the Origin and Spread of Nationalism* (Llundain, 1991).

> 'Bro' or 'cymdogaeth' are not a geographic division or even a demographic notion. Rather, they express a dynamic of living based on a complex dynamic of relationships. Some are of blood. Others, but not necessarily most, are of long association. All denote collaborative effort and creativity.[3]

Fodd bynnag, ni fyddai'r gyd-ddibyniaeth a'r perthnasau deinamig hyn yn bosibl yn aml heb i'r bobl fyw a gweithio yn yr un lle. Yng ngwleidyddiaeth gyfoes Llafur Newydd, fodd bynnag, fel y rhybuddia Christina Schäffner, mae rhai o gysylltiadau cyfoes y term 'community' yn mynd yn gwbl groes i rai mwy traddodiadol:

> 'Community', 'community spirit' and 'partnership' are core concepts of the ideology of New Labour. Thinking in terms of communitarianism is identical with the rejection of a state interfering in a successful market economy, and also includes relying on initiatives of individuals.[4]

Y gwrthwyneb, bron, i'r hyn a ddywed Raymond Williamas ac Euros Lewis am gymunedau Cymru yw cymuned/*community* Llafur Newydd, felly. Dywed Euros Lewis: 'Cultural deviousness is at work here, subliminally replacing the shared effort and all-or-nothing engagement of community with the individuality and freedom-of-choice of a network.'[5]

At ei gilydd, sonnir yn y drafodaeth gyhoeddus am 'y cymunedau Cymraeg' wrth ddynodi'r pentrefi a threfi yng Nghymru lle mae canran uchel o'r trigolion yn siarad Cymraeg. (Dim ond yn achlysurol y clywir sôn hefyd am gymuned trwy ymlyniad mewn ardaloedd llai Cymraeg.) Wrth siarad am gymunedau fel hyn, yn enwedig yn oes globaleiddio, mudo ar raddfa gynyddol a chymysgu rhwng diwylliannau, rhaid sylweddoli'r perygl o weld y cymunedau 'traddodiadol' mewn modd rhy ddelfrydol, ramantaidd pan nad ydynt mor unffurf â'r 'imagined communities' o bell ffordd.[6] Ond o gadw hyn mewn cof, gellir cyfiawnhau sôn am gymuned fel rhywbeth y teimla pobl eu bod yn perthyn iddo, doed a ddêl.

Mae cynllunwyr iaith ar y cyfan yn cydnabod bod angen 'bro Gymraeg' neu 'gadarnleoedd' i'r iaith lle mae'r Gymraeg yn gryfach na'r Saesneg o ran canrannau siaradwyr, a lle y'i siaredir yn naturiol wyneb yn wyneb. Sylweddolir na all y

---

[3] Euros Lewis, 'Straight line thinking', *Agenda*, Haf 2008, t. 68.
[4] Christina Schäffner, 'Third Ways and New Centres', t. 38.
[5] Euros Lewis, 'Straight line thinking', t. 68.
[6] Gweler David Llewelyn Jones, 'Croesffordd cymuned – i ba gyfeiriad?' yn *Bywyd Cymdeithasol Cymru: Trafodion Economaidd a Chymdeithasol Urdd y Graddedigion, Prifysgol Cymru 1997-2000*, gol. Delyth Morris a Huw Glyn Williams (Caernarfon, 2001), t. 97.

gwasanaethau Cymraeg a'r cyfryngau gymryd lle cyfathrebu uniongyrchol, dydd-i-ddydd,[7] a bod y cysylltiad personol, cymunedol, naturiol yn hollbwysig ar gyfer iechyd unrhyw iaith.

### 4.2 Yr iaith yn y fro Gymraeg

Ymddengys nad oes diffiniad swyddogol o'r 'Fro Gymraeg'. Ar y cyfan, ystyrir mai'r fro yw'r ardaloedd hynny lle mae'r mwyafrif o drigolion yn siarad Cymraeg bob dydd fel iaith naturiol. Diffinia Aran Jones y fro Gymraeg fel cymunedau lle mae dros hanner y bobl â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.[8] Gwelir y ffigwr hwn yn bwysig achos ei fod fel trothwy lle gall yr iaith droi o fod yn iaith i fwyafrif y boblogaeth leol i fod yn iaith leiafrifol.[9] Mae cymunedau â 50% a mwy o siaradwyr Cymraeg, felly, yn allweddol wrth benderfynu dyfodol yr iaith. Yn wyneb lleihad yn y cymunedau â thros hanner eu poblogaeth yn siaradwyr Cymraeg, hola Aran Jones ymhellach a ddylid ailddiffinio'r niferoedd hynny a galw yn fro Gymraeg y cymunedau gyda thraean o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.[10] Gallai hyn hwyluso anelu polisïau ieithyddol at gyfran fwy o Gymru. Cydsynnir bod yr ardaloedd Cymraeg yn hollbwysig i fagu plant sy'n rhugl yn yr iaith ac a fydd yn ddigon hyderus i weithio yn Gymraeg, i fagu eu plant hwythau yn Gymraeg, ac i gymdeithasu yn naturiol yn yr iaith.[11]

Oherwydd gostyngiad yn y cymunedau â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg, mae pryder ynghylch y sawl sy'n symud allan o'r fro Gymraeg. Dengys penawdau megis 'Caerdydd yn lladd y Fro Gymraeg' yn *Y Cymro* deimladau fod Caerdydd yn sugno adnoddau a photensial ieithyddol (ac economaidd) allan o'r cymunedau Cymraeg.[12] Teimlir nad yw persbectif Caerdydd – sef bod dwyieithrwydd cynyddol yn gwella sefyllfa'r Gymraeg – yn berthnasol i'r fro Gymraeg lle mae dwyieithrwydd yn ddirywiad o'i gymharu â bywyd yn Gymraeg. Cyhuddir Llywodraeth y Cynulliad o fod yn or-wleidyddol gywir gyda'i pholisi o fod yn *ddwy*ieithog. Er enghraifft, pan osodwyd arwydd gyda'r neges 'Croeso i

---

[7] Colin Williams, 'Questions Concerning the Development of Bilingual Wales', yn *Bilingualism, Education and Identity*, gol. Bob Morris a Paul Ghuman (Caerdydd: 1995), t. 64.
[8] Aran Jones, 'Ble mae'r Fro?' *Golwg*, 11 Tachwedd 2004, t. 26.
[9] Ambrose/Williams, 'On the Spatial Definition of Minority', t. 62.
[10] Aran Jones, 'Ble mae'r Fro?'
[11] Aitchison/Carter, *Spreading the Word*, t. 134.
[12] *Y Cymro*, 'Caerdydd yn lladd y fro Gymraeg', 2 Chwefror 2002, t. 5.

Benrhyndeudraeth', cafwyd gorchymyn i wneud yr arwydd hwn yn ddwyieithog, er bod mwyafrif poblogaeth Penrhyndeudraeth yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.[13] Hynny yw, gwelwyd diffyg ewyllys ar ran y Cynulliad oherwydd nad oedd yn caniatáu i'r Gymraeg fod yn brif iaith mewn rhai llefydd.

Y cwestiwn i gyfieithwyr yng Nghymru yw: a all cyfieithu ar y pryd atal dirywiad yr iaith lle mae hi'n iaith naturiol? Wrth gwrs, byddai'n wirion ystyried cyfieithu yn y cymunedau yn 'nod yn ei hawl ei hun'. Yn hytrach, meddai Cwmni Iaith, mae'n 'un arf mewn strategaeth ehangach er Cymreigio grwpiau, mudiadau a sectorau o fewn y pau cymunedol a gwirfoddol'.[14]

Mae rhai cymunedau Cymraeg yn gwrthod y syniad o gyfieithu ar y pryd parhaol, fel y dengys y dyfyniad hwn o'r erthygl olygyddol yn un o bapurau bro Gwynedd: 'Gobeithio y bydd pawb o hyn allan yn gweithio i gynnal digwyddiadau a chyfarfodydd ym mhriod iaith y fro hon ac os bydd angen cyfieithu o gwbl, mai cyfieithu dros dro fydd hynny, er mwyn y rhai a ymgartrefodd yn ein plith.'[15] Mynegir gobaith yma i gyfieithu gael effaith hir-dymor yn hytrach na llenwi bylchau o hyd, ac y bydd yn help i ddysgwyr ddod yn rhan o'r cymunedau.

Efallai ei bod hi'n anoddach yn oes globaleiddio i dderbyn y syniad o'r fro Gymraeg. Nid yn unig gyda thechnoleg y rhyngrwyd, mae iaith yn croesi pob ffin ddaearyddol. Rhaid ystyried iaith mewn cyd-destun ehangach gan na ellir cyfyngu ar symudoledd pobl o un rhan o'r byd i'r llall. Ond oherwydd hyn, mae mewnfudo di-Gymraeg yn achosi argyfwng i gymunedau Cymraeg. Gyda diffyg strategaeth glir ynghylch darparu tai fforddiadwy i bobl leol, cydnabydda Colin Williams fod ofn ymgyrchwyr iaith fel mudiad Cymuned yn ddealladwy: 'Within all the hype about increasing total numbers through various educational strategies, the fundamental fact that the language is dying *within its own historical communities* will be glossed over.'[16]

Trafodwyd perthnasedd *Nodyn Cyngor Technegol 20* sy'n ymdrin â chynllunio, a daethpwyd i'r casgliad nad yw'r mesurau presennol yn addas wrth ymateb i gwestiynau ynglŷn â'r iaith Gymraeg:

---

[13] Tecwyn Hill, 'Dwyieithog neu dim', *Yr Herald*, 7 Awst 2004, t. 11.
[14] Cwmni Iaith, *Cyfieithu yn y Gymuned*, t. 2.
[15] *Llais Ogwan*, Rhif 368, Mai 2007, t. 3.
[16] Colin Williams, '*Iaith Pawb:* The Doctrine of Plenary Inclusion', t. 20. (pwyslais wedi ei ychwanegu)

> In those areas judged to be more culturally and linguistically sensitive to strong housing demand, *Technical Advice Note 20* on the Welsh language is viewed by planning officers as offering weak protection for Welsh speaking communities. […] Planning professionals are […] concerned about the appropriateness of the planning system to address linguistic issues. […] Second and holiday homes are […] of greater concern where communities are judged to be more sensitive to change […] or where incomers are of a different cultural/linguistic background to the local population.[17]

Cydnabyddir, felly, yr anawsterau a grynhoir yn slogan Cymuned, *Tai – Gwaith – Iaith,* fel problem sydd angen ei datrys.

Anela polisïau iaith at adfywio'r cymunedau yn economaidd i greu cyfleoedd newydd i'r iaith flodeuo a sicrhau bod y Gymraeg yn parhau fel iaith gymunedol. Serch hynny, amau a wna Aitchison a Carter fod mesurau adfywio economaidd yn cael effaith sylweddol. Credant i'r mesurau hynny ddod yn rhy hwyr, a'u bod yn denu mwy o fewnfudwyr â'r moddion ariannol i redeg busnes – a'r siaradwyr di-Gymraeg hyn eto'n pwyso'n drwm ar y cydbwysedd ieithyddol. Mae'n eironig, meddant, fod rhai o'r mesurau sy'n bwriadu cryfhau'r gymuned Gymraeg yn dibynnu ar gyfoeth y mewnfudwyr a'r swyddi a greant, gan wanhau'r diwylliant o gydberthnasau sy'n hanfod i'r gymuned honno.[18]

Ni olyga hyn rwystro unrhyw fewnfudo, nac atal newid diwylliannol. 'Am mai proses yw diwylliant, myth yw purdeb diwylliant,' meddai John Mc Leod yng nghyd-destun cynhadledd am y cymunedau Cymraeg gwledig.[19] Ni ellir pennu diwylliant yn un peth penodol. Mae llawer o wahanol agweddau ar un diwylliant, a rhaid caniatáu i ddylanwadau o'r tu allan effeithio arno a'i newid yn raddol. Gall cyfieithu, gan ei fod wastad yn delio â newidiadau, chwarae rhan bwysig yn y newidiadau diwylliannol hyn. Yn wir, dengys cyfieithu nad oes y fath beth â phurdeb diwylliannol, fel y sylwa Michaela Wolf:

> Translation is a concept that opposes the view of culture as an agency preserving static views of tradition and identity, and instead highlights the dynamic transformations resulting from continual confrontations of cultural formations.[20]

---

[17] Mark Tewdwr-Jones, Nick Gallent ac Alan Mace, 'Housing pressures in rural Wales', *Agenda*, Gaeaf 2002/03, t. 57.
[18] Aitchison a Carter, *Spreading the Word,* tt. 136-37.
[19] John McLeod, 'Ôl-Wladychaeth a diwylliannau lleiafrifol', yn *Arian Byw: Ymateb positif i argyfwng cymunedau Cymraeg cefn gwlad* (2004), t. 58.
[20] Wolf, 'Introduction', tt. 3/4.

Gall y defnydd o gyfieithu mewn cyfarfodydd cymunedol, felly, wrthbrofi'r lleisiau a honna fod yr ewyllys i fyw yn Gymraeg yn dangos mor ynysig yw'r cymunedau Cymraeg. Fel adlais o'r ddadl bod defnyddio'r brif iaith yn well i siaradwyr iaith leiafrifol, mae'r ddadl honno yn ensynio bod cymunedau Cymraeg yn gwrthod derbyn newydd-ddyfodiaid i'w plith, fel yr ysgrifennodd Charlotte Williams: 'Settled, stable and exclusive notions of Welsh community life are fundamentally hostile to outsiderness, diversity and immigration, fostering particular nostalgic versions of social cohesion and insular and regressive tendencies.'[21] Wrth iddi sôn yma am yr anhawster a wynebir gan leiafrifoedd ethnig wrth ymsefydlu mewn cymunedau Cymraeg, dengys Williams safbwynt dirmygus o gymunedau sy'n bryderus o golli eu hanfodion cymdeithasol. Mae ei chyhuddiad yn seiliedig ar y camsyniad bod y gymuned Gymraeg yn ei hanfod yn gymuned gaeedig sy'n dymuno aros yn 'bur'.

Nid yng Nghymru yn unig y cydnabyddir bod iaith a diwylliant lleol yn bwysig wrth integreiddio newydd-ddyfodiaid. Yn Lloegr cododd dadl ddechrau 2007 mai diffyg sgiliau ieithyddol yw'r prif rwystr i integreiddio. Cafwyd galwadau ar i fewnfudwyr ddysgu Saesneg wrth gyrraedd Lloegr, neu hyd yn oed cyn cychwyn ar eu taith i Brydain. Gwelwyd mewnfudwyr anghyfiaith yn fygythiad i *community cohesion*. O ganlyniad, cafwyd galwadau yn gofyn am beidio â chynnig cyfieithu ar eu cyfer,[22] gan y byddai hyn yn cynnal y gwahaniaethau ethnig a diwylliannol (annymunol!).[23] Awgrymwyd hefyd y dylai mewnfudwyr di-waith ddysgu Saesneg cyn iddynt allu hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth,[24] ac y byddai cyfieithu yn atal pobl rhag dysgu'r iaith.[25]

Wrth gwrs, mae diwylliannau, wrth gyffwrdd, yn cyfoethogi ei gilydd. A heb gyfieithu, ni fyddai'r cyfoethogi a'r tyfu hwn yn bosibl. Trwy'r broses ddi-baid o greu perthynas rhwng hanes a diwylliant cyfoes, mae cyfieithu yn rhoi maeth i'r gymdeithas heddiw. Mae hyn yn rhywbeth i'w ddeisyfu, medd Michael Cronin:

---

[21] Charlotte Williams, 'The Dilemmas of Civil Society: Black and Ethnic Minority Associations in Wales', yn *Civil Society in Wales: Policy, Politics and People,* gol. Graham Day, David Dunkerley ac Andrew Thompson (Caerdydd, 2006), t. 201.
[22] *Western Mail*, 'Kick away translation crutch for ethnics, says Kelly', 11 Mehefin 2007, t. 9.
[23] Will Woodward, 'Translation can discourage integration, says Kelly', *Guardian,* 11 Mehefin 2007, t. 10.
[24] BBC Radio 4, *Today Programme*, 12 Chwefror 2007.
[25] BBC One Wales, *News at 10*, 12 Rhagfyr 2006.

> Translators both ground a culture in their role as architects of vernacular languages and cultures and they creatively undermine and challenge these very cultures […]. They conserve the […] culture of the past […] in order for texts to continue their dialogue with the present. And they bring foreign elements, extraneous ideas and fresh images into cultures which, without the kickstart of otherness, remain stalled in an eternity of mediocrity.[26]

Mae rôl amlochrog i gyfieithu, felly, wrth gynnal perthnasau cyfoes rhwng diwylliant a'r hyn a'i hamgylchynna, yn ogystal ag oddi mewn i ddiwylliant hefyd, trwy ymwneud â gwahanol gyweiriau iaith, â hunaniaeth y gorffennol, ac â pharhad yr hunaniaeth honno.

Serch hynny, gall tensiynau godi lle ceir mewnfudo, yn gyntaf oherwydd diffyg integreiddio newydd-ddyfodiaid, ac yna oherwydd teimlad y brodorion fod mewnfudo yn newid eu diwylliant yn rhy sydyn. Adlewyrchir ofnau o'r fath mewn erthygl yn y *Guardian* lle cyfeiria Max Hastings at ysgrif gan Madeleine Bunting a oedd wedi amddiffyn mewnfudo. Yn ôl ei rhesymegu hi, mae unrhyw waed newydd yn fuddiol. Anghytuna Hastings â'r farn hon oherwydd nad oes gan y gymuned wreiddiol lais i atal y newid sy'n rhy gyflym bellach i'r gymuned ddygymod ag ef, heb golli ei chymeriad. 'Implicit or explicit in the liberal view of immigration,' meddai, 'is a denial that the present inhabitants of a community have rights in determining on what terms, and in what numbers, new arrivals should be able to join. This seems a gross injustice, an assured formula for discord.'[27] A yw trigolion unrhyw gymuned yn gofyn am gael penderfynu ar fater mor gymhleth a sensitif? Canfuwyd mewn arolwg gan Beaufort Research a'r BBC nad oedd aelodau'r gymuned Gymraeg yn dymuno atal mewnfudiad. Yn ôl yr ymchwil, dim ond chwarter y Cymry Cymraeg a fyddai'n cefnogi deddf i gyfyngu ar fewnfudo di-Gymraeg i'r fro Gymraeg.[28] Serch hynny, edrychir weithiau ag amheuaeth ar fewnfudwyr i'r fro Gymraeg sydd heb ddangos diddordeb yn niwylliant cymdeithasol a ieithyddol eu cartref newydd.

O gyflogi cyfieithydd i gyfarfodydd cymunedol, gall newydd-ddyfodiaid ei chael hi'n haws integreiddio a deall y diwylliant. Dadleuodd Chaucer a Trevisa mor bell yn ôl â'r bedwaredd ganrif ar ddeg fod rhaid cyfieithu i iaith y bobl os am

[26] Michael Cronin, *Translation and Globalization*, t. 38.
[27] Max Hastings, 'The no-longer-nasty party is in denial about immigration', *Guardian*, 19 Mehefin 2007, t. 32.
[28] Robin Mann, 'Between Consent and Coercion: Civil Society, Bilingualism and the Welsh Language', yn *Civil Society in Wales: Policy, Politics and People*, gol. Graham Day, David Dunkerley ac Andrew Thompson (Caerdydd, 2006), t. 258.

eu hannog i gymryd rhan lawn ym mywyd y gymdeithas![29] Ac os oes annealltwriaeth, cadarnhaodd Koïchiro Matsuura o UNESCO, gall cyfieithu fod o gymorth: 'Translators […] help to establish links between worlds separated by gulfs of incomprehension and misunderstanding.'[30] Mewn cymuned o leiafrif ieithyddol, rhaid sicrhau bod iaith y bobl yn gallu parhau, nid trwy gyfieithu iddi, ond trwy ganiatáu iddi fod yn brif iaith a chyfieithu ohoni.

Dyna beth sy'n digwydd wrth gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg. Gallai polisïau cyfieithu ar y pryd fod yn gam tuag at y nod o gynnal y cymunedau Cymraeg, gan bwysleisio'r iaith fel peth unigryw sy'n nodwedd amlwg o'r diwylliant lleiafrifol. Ys dywed Cronin: 'If there are no singular locations, then there is nothing left to mediate and by extension nothing to translate.'[31] Mae hyn yn golygu hefyd, pan na fydd dim byd arall i'w gyfieithu, y gall hyn fod yn arwydd nad oes diwylliant unigryw ar ôl.

Tyn Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ers 2004, sylw at argyfwng y cymunedau Cymraeg gan drafod astudiaeth gan y Bwrdd a ddengys nad allfudo pobl ifanc Cymraeg yw'r brif ffactor mewn newid demograffaidd. Yn wir, mae Cymry Cymraeg yn llai tebygol o symud i Loegr na Chymry di-Gymraeg. Awgrymodd yr astudiaeth hefyd nad colli iaith siaradwyr Cymraeg oedd i'w gyfrif fwyaf am y newid yn sefyllfa gymdeithasol yr iaith. Profwyd bod dros 80% o boblogaeth frodorol Gwynedd, a rhannau helaeth o Fôn a Cheredigion, yn siarad Cymraeg.

Yr hyn a ystyriwyd y bygythiad mwyaf i'r iaith oedd gostyngiad dramatig yn nifer yr adrannau etholiadol lle mae 70% a mwy o bobl yn medru'r Gymraeg (gweler y map ar dudalen 108). Nid ystyria Huws gynllunio tai yr unig ateb i ddatrys y broblem honno. Rhaid, yn hytrach, sylweddoli'r pwysigrwydd o gael darn o dir lle siaredir Cymraeg ym mhob cyd-destun (fel iaith 'ddiofyn'). Rhybuddia: 'Ni ellir bellach daflu llwch i lygaid neb trwy honni bod twf mewn niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg yn y De Ddwyrain yn rhywbeth sy'n gallu gwrthbwyso'r colledion mewn ardaloedd lle y siaredir yr iaith bob dydd.'[32] Cawn weld eto a fydd y llywodraeth glymblaid rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn

[29] Roger Ellis, 'Figures of English Translation, 1382-1407', yn *Translation and Nation: Towards a Cultural Politics of Englishness*, gol. Roger Ellis a Liz Oakley-Brown (Clevedon, 2001), t. 15.
[30] Koïchiro Matsuura, 'Message from the Director-General', t. 1.
[31] Cronin, *Translation and Identity*, t. 12.
[32] Meri Huws, 'Her y mewnlifiad', *Barn*, Mai 2007, tt. 26-27.

gwireddu gweledigaeth ei maniffesto *Cymru'n Un* a luniwyd yng Ngwanwyn 2007, ac sy'n addo caniatáu i gynghorau sir reoli rhywfaint ar bwy sy'n symud i ardaloedd Cymraeg.[33]

Dywedodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Richard Brunstrom, wrth alw am 'more cohesion and less tension within communities', y dylai fod yn dderbyniol i bawb yng Nghymru ddysgu Cymraeg ac i Gymru ddod yn wlad ddwyieithog hyderus.[34] Ond i gymdeithas fod yn hyderus, rhaid iddi fod yn amlwg. Crybwyllodd Gareth Ioan fod angen delio â'r ffaith fod y gymdeithas Gymraeg yn anweledig i'r sawl nad ydynt yn siarad yr iaith. Petai mwy o gyfleoedd i'r di-Gymraeg gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg, efallai na fyddai cymaint yn poeni bod siaradwyr Cymraeg yn rhy ynysig a cheidwadol.[35]

Efallai y gall darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd annog y di-Gymraeg i gymryd rhan mewn digwyddiadau. Rhaid, fodd bynnag, bod yn ofalus gyda chyfieithu rhag creu'r delweddau anghywir. Ymhelaetha Robert Eaglestone:

> To translate the neighbor is to turn him/her/it into a category of our own language and so to deny him/her/its otherness. It is only by approaching the neighbor, the other, as that which we cannot understand or comprehend, or translate, that we act ethically.[36]

Ni olyga hyn beidio â chyfieithu. 'But is does mean that we have ethical grounds to be even more suspicious of the idea of translation and the way in which it relates to communites.' Ond efallai bod rhaid i leiafrif ieithyddol feddwl am gyfieithu yn fwy creadigol, fel modd i ganiatáu i'r iaith fod yn rhan annatod o hunaniaeth ei siaradwyr, ond yr un pryd greu dealltwriaeth o'r gwahaniaethau diwylliannol a chymdeithasol rhwng siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Gyda'r rhan fwyaf o gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg yn Gymry Cymraeg, gellir tybio eu bod yn cyfieithu'r gwahaniaethau diwylliannol hynny yn gywir a sensitif (er mai annoeth fyddai cymryd hynny'n ganiataol).

Yn un peth, mae deinameg gymdeithasol yn effeithio ar y cyfieithwyr eu hunain. A heb hyfforddiant mewn cynllunio ieithyddol, efallai na fyddant yn

---

[33] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cymru'n Un*, tt. 16-18.
[34] Ian Spindley, 'Welsh for everyone, says chief', *Caernarfon and Denbighshire Herald*, 19 Ebrill 2007, t. 25.
[35] Gareth Ioan, 'Celfyddyd ddeinamig – cymuned fyw', t. 8.
[36] Robert Eaglestone, 'Levinas, Translation, and Ethics', yn *Nation, Language, and the Ethics of Translation*, gol. Sandra Bermann a Michael Wood (Princeton, 2005), t. 136.

ymwybodol o sut i drosi delweddau mewn modd a'u cadwa'n unigryw. I gymhlethu hyn ymhellach, mae cyfieithwyr Cymraeg wedi arfer cyfieithu gymaint fel nad ystyriant, o bosibl, bod gwerth mewn dilyn rheolau o gyfieithu strategol (sef, yn y bôn, cyfieithu ymwybodol a'r gallu i esbonio pam y cyfieithir mewn un ffordd ac nid mewn un arall).

Mae aelodau lleiafrifoedd ieithyddol, fel teithwyr a mewnfudwyr sy'n cyfieithu eu hunain, yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle mae gofyn iddynt gyfieithu yn aml (mewn ystyr uniongyrchol ac anuniongyrchol). Gellir cyffelybu'r siaradwyr iaith leiafrifol â'r mudwyr pan ddywed Cronin:

> The condition of the migrant is the condition of the translated being. He or she moves from a source language and culture to a target language and culture so that *translation* takes place both in the physical sense of movement or displacement and in the symbolic sense of the shift from one way of speaking, writing about and interpreting the world to another.[37]

I siaradwyr di-Gymraeg, mae'n anodd deall goblygiadau'r cyfieithu parhaol hwn. Er mwyn ei gwneud hi'n haws i siaradwyr Cymraeg beidio â theimlo fel 'y bod cyfieithiedig', neu yn estron yn eu hardaloedd brodorol, crybwyllir o bryd i'w gilydd greu ardaloedd â'r Gymraeg yn brif iaith (swyddogol) iddynt.

Fodd bynnag, nid yw ceisio datrys problemau ar sail diriogaethol wedi bod yn boblogaidd yng Nghymru (yn enwedig yn nechrau'r trafodaethau am ddeddfwriaeth iaith). Gwrthododd Colin Williams ym 1982 y syniad o weithredu ar sail dau ranbarth i'w rhannu yn ôl canrannau siaradwyr Cymraeg. Byddai'n well, meddai, ceisio polisi iaith lleol, 'a pragmatic service-oriented approach, aimed at a piecemeal development of Welsh-medium services through local authority agencies, from the ground up rather than as part of an enforced national plan'.[38] Pryderodd y byddai system diriogaethol yn cael ei chymharu â system o apartheid. Chwarter canrif yn ddiweddarach, mae gennym ddeddfwriaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, cynllun gweithredu cenedlaethol, cyfrifoldebau lleol i wahanol raddau, a'r argyhoeddiad o hyd bod angen datrys problemau'r iaith o'r gwaelod i fyny yn hytrach na thrwy bolisïau cenedlaethol. Mae Gwion Lewis, wrth gyflwyno ei ddadl fod angen deddfwriaeth newydd ar gyfer y Gymraeg, yn

[37] Cronin, *Translation and Identity*, t. 45.
[38] Colin Williams, 'Language Planning and Minority Language Group Rights', t. 71.

trafod yr athroniaeth neo-ryddfrydol hon sy'n ffafrio polisïau iaith i ymateb i anghenion siaradwyr fel cwsmeriaid, yn hytrach nag arwain y gymdeithas.[39]

Bellach, nid yw'r syniad o bolisïau iaith ar sail ddaearyddol mor ddieithr. Gofynna Iwan Edgar, er enghraifft, am ystyried 'gaeltachtaí' yn y Gymru Gymraeg ar batrwm y rhai yn Iwerddon a chael rheolau ieithyddol arbennig i'r ardaloedd hynny.[40]

Mentra Simon Brooks hefyd drafod priodoldeb cynllunio ieithyddol tiriogaethol. Mewn erthygl yn *Barn,* cynigia ganllawiau ar gyfer ymddygiad ieithyddol newydd er mwyn dinistrio'r norm cymdeithasol o siarad Saesneg yn y fro Gymraeg. Yn ogystal â'r berthynas faterol rhwng Cymru a Lloegr, meddai, rhaid datrys, yn bwysicach o lawer, drefedigaethedd feddyliol a seicolegol y Cymry Cymraeg wrth ddilyn y norm hwn. Ni wahaniaetha'r normau cymdeithasol presennol rhwng ardaloedd Cymru, er eu bod mor wahanol yn ieithyddol. Dadleua Brooks dros ddisodli'r hen normau hynny yn enw hunaniaeth Gymraeg a thegwch ieithyddol:

> Yn hytrach felly na gwrthwynebu'r goresgyniad ieithyddol yn yr ardaloedd Cymraeg ar delerau sy'n ffafriol i'r mewnfudwyr di-Gymraeg (sef eu 'difrïo' wrth ymosod ar eu 'hethnigrwydd'), dylid brwydro yn ôl ar ein telerau ni, sef wrth 'ddad-normaleiddio' yr iaith Saesneg fel *lingua franca* y gymdeithas gyfan.[41]

Byddai'n arbrawf heriol, meddai, i beidio â siarad Saesneg gyda phobl ddi-Gymraeg er mwyn gosod telerau newydd o gyfathrebu. Mwy na thebyg, byddai hyn yn cael ei weld 'nid yn unig fel diffyg cwrteisi, ond fel sarhad uniongyrchol' ar yr unigolyn.[42] Tabŵ yw peidio â siarad Saesneg mewn ardal Gymraeg ar hyn o bryd. Ond dylem gymryd cyfrifoldeb fel unigolion, meddai Brooks yn unol â syniadau Williams a Morris am sefydliadoli arferion newydd, a dewis siarad Cymraeg yn y cymunedau Cymraeg er mwyn dangos ei bod hi'n bosibl newid y normau cymdeithasol hynny.

Wrth gwrs 'byddai dad-normaleiddio'r Saesneg yn mynd i galon y berthynas rym gudd sydd yn mynnu y dylai'r Gymraeg fod yn israddol i'r Saesneg'.[43]

---

[39] Gwion Lewis, *Hawl i'r Gymraeg* (Talybont, 2008), t. 98.
[40] Iwan Edgar, 'Staeniau ar y Map', t. 35.
[41] Simon Brooks, 'Iaith Normal', *Barn,* Hydref 2001, t. 7.
[42] Ibid, t. 8.
[43] Ibid, t. 8.

Pwysleisia Brooks mai anelu at ddad-normaleiddio'r *iaith* Saesneg y dylai'r canllawiau newydd, nid meithrin rhagfarn yn erbyn Saeson fel pobl. Y gymdeithas Gymraeg sy'n bwysig, ac mae'n hollol bosibl parchu ethnigrwydd unrhyw unigolyn os ydynt yn parchu'r cymunedau Cymraeg.

Defnyddir cyfieithu gan sefydliadau a grwpiau sy'n dymuno amlygu'r gwahaniaeth yn y diwylliant a dangos bod y Gymraeg yn rhan annatod o'u cymdeithas. A all cyfieithu mewn cymuned greu awyrgylch sy'n annog i'r hunaniaeth ymddangos yn gryfach, i'r Cymry Cymraeg eu hunain a phawb arall? Yn hytrach na chodi ffiniau rhwng gwahanol garfannau'r gymdeithas, gall cyfieithu ddangos yr ewyllys sydd yn y cymunedau Cymraeg i gydweithio ag eraill wrth gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.

## 4.3 Defnydd iaith a dewis iaith

Dim ond syniad bras y gall ystadegau o'r cyfrifiadau a gynhelir bob deng mlynedd ei gyfleu o faint o Gymraeg a siaredir o ddydd i ddydd. Geilw rhai am gynnwys cwestiynau manylach am y gallu a'r defnydd o'r Gymraeg yn y cyfrifiad. Gellid, er enghraifft, efelychu cyfrifiadau Canada sy'n cynnwys cwestiynau ynghylch beth yw'r famiaith ers 1931, beth yw iaith y cartref ers 1971, ac ynghylch gallu yn ail iaith swyddogol y wlad (bydd hyn yn newid yn ôl y famiaith) ers diwedd y 1990au.[44]

Mewn arolwg yn 2002 gan y BBC, dangoswyd bod gagendor rhwng 'y dweud a'r gwneud', felly, rhwng agweddau tuag at y Gymraeg a'r defnydd ohoni. Trafoda Richard Wyn Jones yr angen nid yn unig i greu mwy o gyfleoedd i wneud pethau yn Gymraeg, megis darparu ffurflenni neu linellau ffôn, ond hefyd i ystyried ein gwendidau mewnol, ac annog pobl i wneud y pethau hynny yn Gymraeg sydd ar gael yn barod, megis ysgrifennu llythyrau, galw rhifau Cymraeg, neu dynnu arian o beiriant.[45]

Cynhaliwyd arolwg o ddefnydd iaith gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2004 a gyhoeddwyd yn 2006.[46] Un o'r canlyniadau oedd bod y *gallu* i siarad Cymraeg yn

---

[44] Monica Heller, 'Heated language in a cold climate', yn *Language Ideological Debates*, gol. Jan Blommaert (Berlin, 1999), t. 161.
[45] Richard Wyn Jones, 'Y Dweud a'r Gwneud', *Barn*, Mawrth 2002, tt. 10-11.
[46] Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Arolwg Defnydd Iaith 2004* <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/4067.pdf> [30 Medi 2008]

cynyddu. Ardaloedd yr hen siroedd De a Chanol Morgannwg a Gwent oedd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd hwn, tra oedd gostyngiad ym mhob man arall. Fodd bynnag, dim ond 57% o'r rhai a oedd yn gallu siarad Cymraeg a ddywedodd eu bod yn rhugl yn yr iaith, sef 12% o'r boblogaeth gyfan, ffigwr sy'n dangos gostyngiad o 13% o'i gyferbynnu â 1992.[47]

Aed ymlaen i holi'r ymatebwyr wrth bwy ac mewn pa gyd-destun y byddent yn siarad Cymraeg. Cymharwyd, yn hynny o beth, y rhai a oedd yn gallu siarad Cymraeg â'r rhai a oedd yn eu hystyried eu hunain yn rhugl. Dim ond y sawl sy'n rhugl a atebodd y byddai'n siarad Cymraeg unrhyw gyfle a gâi, boed mewn cyd-destun anffurfiol, tra ffurfiol neu ffurfiol.[48] Tanlinella'r canfyddiad hwn bwysigrwydd rhugledd wrth ddefnyddio'r iaith. I'r niferoedd mawr o ddysgwyr ddod yn fwy rhugl, rhaid creu mwy o gyfleoedd iddynt siarad Cymraeg. Ond gyda pholisïau iaith wedi eu seilio ar 'alw' a 'chynnig', dim ond nifer sylweddol o siaradwyr rhugl a fyddai'n cyfiawnhau creu mwy o gyfleoedd i'r iaith.

Bu arolwg arall, *Dangosyddion Defnydd Iaith*, yn monitro'r defnydd o'r Gymraeg rhwng 2005 a 2006 mewn amrywiaeth o gyd-destunau, o wasanaethau cyhoeddus i theatrau a thafarnau, i arwyddion a gwefannau, gyda'r amcan o sefydlu 'Arsyllfa o Ddefnydd y Gymraeg'.[49] Awgryma'r gwaith hwn nad oedd darpariaeth gwasanaethau Cymraeg lawn ar gael, hyd yn oed yn y sector gyhoeddus. Mae hyn yn cyfyngu eto ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. A chanolbwyntiodd astudiaeth defnydd iaith gan Williams a Morris ar y cysylltiad rhwng y cyfle i siarad Cymraeg a'r duedd i siarad Cymraeg.[50] Ceir yr argraff o'r astudiaethau hynny nad yw'r gallu i siarad Cymraeg, na chynnig cyfleoedd i'w siarad, yn ddigon ynddynt eu hunain i gynyddu'r defnydd o'r iaith, hyd yn oed os yw hyn yn ymestyn ystod y peuoedd lle gellir siarad Cymraeg.

Cyfeiria Alexandra Jaffe at brofiad aelod Cynulliad Corsica er mwyn dangos mor anodd yw croesi ffiniau sefydlog rhwng peuoedd, a defnyddio iaith mewn maes newydd.[51] Roedd wedi cyfieithu dogfen swyddogol ac yn sylweddoli nad oedd yn gallu meddwl yn haniaethol yn y Gorseg heb ymdrech boenus. Er ei fod yn argyhoeddedig y dylid creu peuoedd newydd i'r iaith, roedd hefyd yn teimlo'r

---

[47] Hywel Jones, 'Tafodau Rhugl', *Barn*, Mehefin 2006, t. 22.
[48] Hywel Jones, 'Tafodau Rhugl', t. 22.
[49] Canolfan Ymchwil Ewrop, *Dangosyddion Defnydd Iaith: Adroddiad terfynol* (Caerdydd, 2007).
[50] Williams/Morris, t. 29.
[51] Alexandra Jaffe, 'Locating Power: Corsican Translators and their Critics', tt. 52-53.

cwestiwn yn codi a oedd y Gorseg yn addas fel iaith fiwrocrataidd. Roedd y cyfieithu wedi sbarduno dadl am iaith a hunaniaeth iddo, a sylweddolodd rywbeth newydd o'r profiad. Tra mai galluogi mynediad i gynulleidfa ehangach yw bwriad y rhan fwyaf o gyfieithu, roedd cyfieithu yn yr achos hwn yn anwybyddu'r swyddogaeth honno ac, yn hytrach, yn cario neges: 'It insures that the translation will be "read" as a political statement.'[52] Gall cyfieithu, felly, nid yn unig fod yn fforwm, ond yn ddatganiad o beth yw priod iaith ardal neu gymuned. Yn yr ystyr hwn, mae cyfieithu ar y pryd hefyd yn gam cadarnhaol at ddefnyddio Cymraeg.

Wrth gynyddu'r defnydd o iaith leiafrifol, mae annog siarad yr un mor bwysig â chanfod sefyllfaoedd newydd i wneud hynny, ac felly mae canfod gwrandawyr yr un mor bwysig â chanfod siaradwyr. A dyma yn union un o swyddogaethau cyfieithu, meddai Michael Cronin: 'Translation is as much an attempt to create an audience as it is to find one.'[53] Yng Nghymru, mae'r defnydd o gyfieithu ar y pryd yn canfod cynulleidfa Saesneg i grwpiau Cymraeg neu yn creu cynulleidfa Gymraeg na fyddai'n bod heb gyfieithu.

Mae cynulleidfa, wrth gwrs, yn elfennol bwysig i unrhyw gyfieithu, fel y mae i gynllunio ieithyddol. Ond ni ellir canfod na chreu cynulleidfa heb sôn hefyd am greu hunaniaeth, fel y dysgwn gan Ian Mason o'i waith am gyfieithu ar y pryd: 'Audience design and identity design can be seen as closely related concepts, the link lying in the process of *positioning* […], based on sets of assumptions participants make about each other.'[54] Ymhelaetha fod hunaniaeth(au) mewn sgwrs neu ddigwyddiad yn cael eu diffinio gan ddisgwyliadau:

> The attribution of identities within the exchange involves the attribution of *rights*, *duties* and *expectations*, including the right to speak on behalf of someone, to their exclusion [sef wrth gyfieithu ar y pryd]. Identities are thus defined by the negotiation of who may do/is expected to do what, even though the assumptions on which the negotiation is built remain tacit, e.g. that a doctor may ask questions, that an interpreter may ask questions or answer them on behalf of a third party. In this way, participants *position* themselves and others as competent/ incompetent to speak on behalf of themselves or others.[55]

[52] Alexandra Jaffe, 'Locating Power: Corsican Translators and their Critics', t. 42.
[53] Michael Cronin, *Translating Ireland* (Cork, 1996), t. 153.
[54] Ian Mason, 'Projected and Perceived Identities in Dialogue Interpreting', yn *Translation and the Construction of Identity*, gol. Juliane House, Rosario Martín Ruano a Nicole Baumgarten, (Seoul, 2005), t. 32.
[55] Ian Mason, 'Projected and Perceived Identities', t. 35.

Hyd yn oed yng Nghymru, a'r siaradwyr Cymraeg yn ddwyieithog, rhaid cofio y cedwir hwy (ac nid yn unig y di-Gymraeg) allan o ran o'r sgwrs trwy gyfieithu, gan nad ydynt yn clywed y cyfieithiad Saesneg. Gall ddigwydd bod rhywun yn newid ei ganfyddiad o hunaniaeth y lleill oherwydd amwysedd y geiriau cyfieithiedig. Dywed Mason: 'Whether a participant attributes ownership of words and meanings to the other participant who originally uttered them or to the interpreter who translated them will have a bearing on the identities that are perceived by that participant.'[56]

Os yw siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol y gall cyfieithu gyfleu delwedd wahanol ohonynt na'u syniad hwythau ohonynt eu hunain, mae'n bosibl y troant at siarad Saesneg. Bydd gan gyfieithu ran, felly, mewn sefyllfaoedd cymhleth o ddirnad hunaniaeth yr hunan a'r llall. Ac mae cyfrannu at drafodaeth yn allweddol wrth sicrhau bod y llall yn 'gweld' yr hunaniaeth iawn: 'It is by participating that we co-construct both the meanings we exchange and the identities we project and accept.'[57]

Ond diffyg cymryd rhan yw un o broblemau siaradwyr Cymraeg mewn cyfarfodydd, hyd yn oed pan fo cyfieithu ar gael. Os nad yw siaradwyr Cymraeg sy'n bresennol mewn dadl neu ddigwyddiad yn cymryd rhan, beth mae hyn yn ei olygu? Ai dim ond trwy siarad *â'i gilydd* yn Gymraeg y gallant fod yn hwy eu hunain? Dengys y drafodaeth hon i ba raddau mae perthynas o rym mewn unrhyw sgwrs yn cael ei seilio ar hunaniaeth, ac na all cyfieithwyr osgoi chwarae rhan yn y broses naill ai o barhau, neu o herio'r berthynas hon. Nid yw pwyso ar siaradwyr Cymraeg i gymryd cyfrifoldeb dros dynged yr iaith yn newid eu hetifeddiaeth seicolegol. Heb arweiniad cadarnhaol (a hawl i'r Gymraeg, fel y dadleua Gwion Lewis yn ei lyfr diweddar[58]), ni ellir disgwyl i bobl fynd ati i ddatrys eu pryderon ynglŷn â'r iaith.

Yn y drafodaeth hon am gyfrifoldeb yr unigolyn i defnyddio'r Gymraeg, mae *dewis iaith* yn un o'r termau amlycaf. Awgryma'r term hwnnw weithred ymwybodol, fel dewis dillad mewn siop neu bryd o fwyd o fwydlen. Mae'r derminoleg hon yn dilyn arferion marchnata'r byd busnes sydd, yn ôl Steve Eaves, yn 'tueddu i synio am ddefnyddwyr gwasanaethau fel "cwsmeriaid" sy'n ymarfer

---

[56] Ian Mason, 'Projected and Perceived Identities', t. 36.
[57] Ibid., t. 40.
[58] Gwion Lewis, *Hawl i'r Gymraeg*.

"dewis" ac yn "creu galw" '.[59] Efallai mai wrth sôn fel hyn am wasanaethau Cymraeg y gwelir yr unig fodd i annog busnesau a sefydliadau i gynnig gwasanaeth Cymraeg o gwbl. Yn wahanol i ddisgwrs marchnata, fodd bynnag, nid cynnyrch mo iaith, ac nid yw ei siaradwyr chwaith yn gwsmeriaid sy'n dewis pa iaith sy'n eu siwtio orau yn ôl yr amgylchiadau.

Yn hytrach, mae'r rhan fwyaf o'r ffactorau sy'n penderfynu pa iaith yr ydym yn ei siarad mewn gwlad ddwyieithog yn isymwybodol ac, yng ngeiriau Fishman, 'a by-product of unequal rates of social change and of growth in […] power'.[60] Mae dewis siarad Cymraeg, er yn ddyhead dwfn i lawer, yn golygu ymdrech ymwybodol a chorfforol, ac nid yw bob amser yn dod yn naturiol.

Nid yn unig ymarferoldeb sy'n gwneud i unigolyn benderfynu pa iaith i'w siarad. Ysgrifennodd Colin Williams dros bymtheng mlynedd yn ôl fod rhaid i iaith allu cyflawni mwy nag un swyddogaeth:

> A language will survive only so long as its speakers derive warmth, humour, socio-economic gain, status, and psychological satisfaction from its habitual use. If, by contrast, a neighbouring, competitive language performs these functions more effectively then it is rational to switch language, especially if that second language is also a vehicle of social advancement and equal opportunity within the larger state.[61]

Os na all iaith fodloni'r swyddogaethau hyn i gyd, ceir eto sefyllfa o beuoedd diffinedig i bob iaith (er y gall y rheiny amrywio o unigolyn i unigolyn).

Yn y cyd-destun hwn, mae'n ddilys dod yn ôl at gysyniad dwyieithrwydd. Gellid gweld dwyieithrwydd mewn dwy ffordd. Naill ai fe'i hystyrir yn glorian, lle nad yw twf y naill iaith ond yn bosibl ar draul y llall. Neu fe anelir at adeiladu'r ddwy iaith gyda'i gilydd.[62] Ond hyd nes y bydd pawb yn ddwyieithog, bydd y pwysau a'r cyfrifoldeb yn aros ar siaradwyr Cymraeg i 'ddewis' iaith. Mewn cysylltiadau wyneb-yn-wyneb, golyga hyn i bob pwrpas gydymffurfio ag iaith y siaradwyr uniaith. Noda Stephen May: 'Much of the oppositional discourse to Welsh bilingual policy (as elsewhere) continues to assume that any process of linguistic accomodation should remain the sole responsibility of minority-

[59] Eaves, t. 88.
[60] Fishman, *Reversing Language Shift*, t. 6.
[61] Colin Williams, gol., *Linguistic Minorities, Society and Territory*, t. 320.
[62] Colin Baker, *Attitudes and Language* (Clevedon, 1992), t. 77.

language speakers.'[63] Nid yw pob siaradwr prif iaith yn fodlon dysgu a defnyddio'r iaith leiafrifol, ond mae disgwyl i siaradwyr Cymraeg ymaddasu ac i 'ddewis' eu hiaith yn ôl yr amgylchiadau. Mae rhyddfrydiaeth y syniad o ddewis iaith yn y cyd-destun o ddwy iaith anghyfartal yn ffafrio'r iaith gref. Byddai dewis siarad Cymraeg (waeth beth fo iaith y siaradwr arall) eto'n cael ei ddehongli fel datganiad gwleidyddol (ac yn rhwystro cyfathrebu!).

Yn ôl *Iaith Pawb*, mae dewis iaith yn 'rhan bwysig o ddarpariaeth gwasanaeth gofal o safon uchel.'[64] Pwysleisia Llywodraeth y Cynulliad yn arbennig roi dewis iaith mewn cyswllt â'r gwasanaethau gofal ac iechyd. Atega'r *Cynllun Ymchwil Cymunedol* a adroddodd ar y Gymraeg mewn rhai cymunedau ym 1997: 'Estyniad o rym personol a grym cymdeithasol yw ein gallu i ddewis ym mha iaith y'n gwasanaethir. Ond y mae sicrhau'r posibilrwydd o ddewis yn ddibynnol ar gefnogaeth wleidyddol, genedlaethol a rhyngwladol.'[65] Heb ddigon o siaradwyr Cymraeg fel darparwyr gwasanaethau, cynrychiolwyr sefydliadau, gweithwyr, contractwyr neu weithwyr cymdeithasol, mae'r grym personol hwnnw yn darfod mewn gwagle, ac ymadrodd gwag yw 'dewis iaith'. Ac er y gellir cynllunio gyda'r bwriad o wneud y swyddi hyn i gyd yn ddwyieithog, rhaid holi hefyd beth yw argoelion y syniad o ddewis iaith yn y cymunedau lle mae defnyddio iaith yn digwydd ar hap, yn y stryd, mewn siopau, wrth aros am y plant, neu ar y bws. Cyfaddefa adroddiad *Dangosyddion Iaith* nad yw dewis iaith ar gael, hyd yn oed ar ôl pymtheng mlynedd o hyrwyddo cynlluniau iaith yn y sector gyhoeddus.

Enghraifft o gyfyngiadau'r syniad o ddewis iaith yw *El Periódico de Catalunya.*[66] Rhoes y papur newydd dyddiol o Gatalwnia, sydd ar gael yn Sbaeneg a Chatalaneg, ddewis iaith wrth hysbysebu yn y ddau fersiwn. Nid oedd rhaid hysbysebu yn Sbaeneg yn y fersiwn Sbaeneg nac yn Gatalaneg yn y papur Catalaneg, ond caniateid unrhyw iaith yn y ddau bapur. Tueddid i ddefnyddio Catalaneg i hysbysebu cynnyrch, digwyddiadau a gwasanaethau lleol yn y papur Catalaneg yn ogystal â'r un Sbaeneg. Ar y llaw arall, dim ond y Sbaeneg a ddefnyddid yn y ddau bapur i hysbysebu teithiau tramor, nwyddau soffistigedig a

---

[63] May, *Language and Minority Rights*, t. 271.
[64] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb*, t. 47.
[65] Williams/Evas, *Y Cynllun Ymchwil Cymunedol*, t. 35.
[66] Gweler y drafodaeth lawn gan David Atkinson a Helen Kelly-Holmes, 'Linguistic normalisation and the market: Advertising and linguistic choice in *El Periódico de Catalunya*', *Language Problems and Language Planning 30 (3)* (2006), tt. 239-260.

phethau eraill a ystyrir yn 'fodern'. Er bod y papur yn cynnig cyfieithu'r hysbysebion yn rhad ac am ddim, gwelwyd mwy o hysbysebion yn Sbaeneg nag yn y Gatalaneg yn y ddau bapur. Trwy wneud hynny, roedd hysbysebwyr nid yn unig yn gwrthod derbyn y syniad bod yr iaith leiafrifol yn gallu ymwneud â'r byd modern, ond roeddent hefyd yn anwybyddu dewis iaith y darllenwyr. Wedi'r cwbl, gan fod y papur newydd ar gael yn y ddwy iaith, mae prynu a darllen y naill fersiwn a'r llall yn dangos dewis iaith go iawn.

Wrth sôn am y pwysau meddwl sydd tu ôl i unrhyw ddewis iaith, dywed Siôn Jobbins fod rhaid i siaradwr iaith leiafrifol estyn ei *antennae* cyn agor ei geg, i asesu pa mor debygol yw ei gyd-siaradwr i'w ddeall. Mae'n disgrifio'r asesu hwn mewn cwta eiliad fel 'radar ieithyddol'. Megis rhaglen gyfrifiadurol mae'r radar yn barnu rhywun ar sail ei ddillad, ei olwg, ei oedran, ei ymddygiad, ei osgo a'i hyder cyn penderfynu a yw'n siarad Cymraeg neu beidio.[67] Dengys y gyffelybiaeth pa mor awtomatig a mewnol yw'r broses o benderfynu ar iaith i'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg.

Gan fod y radar hwnnw'n troi i'r Saesneg cyn gynted ag y bo un di-Gymraeg mewn grŵp, cyfyngir yn arw ar gyfleoedd i siarad Cymraeg. Oherwydd hynny, mae angen creu mwy o gyfleoedd i rwydweithio, cymdeithasu a gweithio i'r niferoedd cynyddol o bobl sy'n dysgu Cymraeg. Gall rhwydweithiau proffesiynol a chymdeithasol fod yn hwb i gynnal defnydd iaith, yn enwedig mewn ardal lai Cymraeg. Efallai y gallai darparu gwasanaeth cyfieithu yn gyffredinol mewn cyfarfodydd greu y cyfleoedd hynny, o leiaf yn ystod y broses o annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg trwy ddulliau eraill. Gellir dadlau fod gan gyfieithu ar y pryd effaith fwy uniongyrchol ar ddefnydd iaith na chyfieithu testun. Rhydd cyfieithu ar y pryd brofiad uniongyrchol o fywyd a thrafodaeth yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg.

Heblaw y radar isymwybodol, mae ffactor arall yn penderfynu pa iaith a siaredir. 'Deferential language switching' y geilw Colin Williams yr arferiad o siarad Saesneg â phobl sy'n uwch mewn hierarchiaeth o unrhyw fath.[68] Rhoir enghraifft o siarad wrth feddyg neu beiriannydd, gan bwysleisio y gallai pobl ddeall a chynnal y sgwrs yn Gymraeg, ond eu bod yn dewis peidio oherwydd arfer.

[67] Siôn Jobbins, 'The legacy of The Treachery of the Blue Books lives on', *Cambria 7(6)* (2006), tt. 48-49.
[68] Colin Williams, 'Questions Concerning the Development of Bilingual Wales', t. 70.

Oeda Williams uwchben y ffaith fod y cyd-destun cymdeithasol a'r teimlad o berthyn i'r grŵp yn dylanwadu ar ddewis iaith: 'Bilingualism represents more of a social choice for some 590,800 individuals, who switch language by domain, by interlocutor and by whim as the spirit wills.'[69] Y partner mewn sgwrs yw'r pwysicaf o'r rhain. Mae'n deg awgrymu bod cysylltiadau cymdeithasol pob pau yn bwysig wrth benderfynu iaith. Ond awgrymodd Arolwg Defnydd Iaith gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fod siaradwyr Cymraeg *yn* siarad Cymraeg pan fo'r sefyllfa yn caniatáu hynny, ac felly nid yw disgrifio pobl yn dewis iaith yn ôl mympwy yn gyfiawn. Nid mympwy yn hollol yw diffyg arfer, diffyg terminoleg, diffyg hyder, neu ddiffyg cefnogaeth gan oruchwylwyr neu arweinwyr. Ni ddylid disgrifio'r profiad o deimlo'n lletchwith fel mympwy chwaith, pan all siarad Saesneg fod yn ateb rhesymegol i osgoi bod yn anghyfforddus. Mae'r pwyslais mawr ar gyfrifoldeb yr unigolyn i ddewis ei iaith (ac felly i dderbyn bai wrth beidio â siarad Cymraeg) yn faich anhygoel o gofio bod baich arall (a'i hamddifadodd o ran bwysig o'i hunaniaeth a'i urddas) wedi arwain at y cyflwr seicolegol-emosiynol hwn yn y lle cyntaf.

Gwelwyd bod cyfieithu ar y pryd, nid yn unig yn darparu cyfle i siarad Cymraeg, ond yn ddatganiad o statws y Gymraeg hefyd. Ar lefel swyddogol fel yn siambr y Cynulliad Cenedlaethol, derbynnir swyddogaeth cyfieithu i annog dewis iaith *o blaid* y Gymraeg. (Yn Ne Affrica yn gyffelyb, ar ôl cwymp Apartheid, sefydlwyd cyfieithu ar y pryd yn y senedd ac mewn rhai o'r awdurdodau rhanbarthol i roi statws i'r un ar ddeg o ieithoedd swyddogol.[70]) Dengys hyn ddylanwad cyfieithu ar y drefn wleidyddol ac ideolegol, medd Judith Woodsworth: 'It is not simply a matter of "communication of verbal messages across a cultural-linguistic border" (Toury 1980:15). Instead, it is an activity with significant institutional, political and ideological implications.'[71] Dylid unwaith eto feddwl am ein dirnadaeth o gyfieithu a'i ran wrth gynyddu'r defnydd o'r iaith leiafrifol. Pwysleisia Marta García González ail rôl cyfieithu, ei rôl symbolaidd, a'i gweld yn bwysicach i leiafrifoedd ieithyddol na rôl graidd cyfathrebu:

[69] Colin Williams, 'Questions Concerning the Development of Bilingual Wales', t. 49.
[70] Cay Dollerup, 'The Language Scene in South Africa', *Language International*, Chwefror 2001, t. 35.
[71] Judith Woodsworth, 'Translation and the Promotion of National Identity', *Target 8 (2)* (1996), tt. 211-238.

> When treating translation as a mere tool to enable understanding between two parties, at least in the context of minority languages, we are clearly forgetting an essential aspect of the activity: its role in language normalisation processes (i.e. in the attempts to cause a language to be *normally* used in all spheres of a speech community) can be of equal or even more importance for such languages than the communicative function itself.[72]

Efallai nad oedd John Walter Jones, cyn-Gadeirydd Bwrdd yr Iaith, wedi meddwl am hynny pan draethodd ei araith *Rhagolygon yr Iaith* yn Chwefror 2002:

> Rwyf am weld cyfieithu yn datblygu yn wir wasanaeth ac nid yn enw arall ar dalu gwrogaeth i'r iaith. [Mae] annog pobl sy'n medru'r Gymraeg i ddefnyddio'r iaith […] yn bwysicach o'r hanner. Ac os bydd hynny'n digwydd ar draul cyfieithu dogfennau di-ben-draw, yna bydd pawb yn llawenhau, gobeithio.[73]

Sgil-effaith polisïau dwyieithrwydd yw cyfieithu o hyd felly. Ni wêl John Walter Jones botensial cyfieithu i nid yn unig gynnal dwyieithrwydd, ond i hyrwyddo neu achosi dwyieithrwydd. Os oes gan gyfieithu rôl mewn normaleiddio iaith, efallai y gall hefyd ddylanwadu ar un o'r pethau pwysicaf wrth gynyddu'r defnydd o'r iaith, sef hyder siaradwyr Cymraeg.

## 4.4 Hyder

Ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldeb o ddefnyddio'r Gymraeg yn aros gyda'r 20% o Gymry sy'n siaradwyr Cymraeg (iaith gyntaf a dysgwyr), a mwy fyth gyda'r 12% o Gymry rhugl eu Cymraeg. Ond roedd yr arolygon a wnaethpwyd ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn peri pryder. Roedd dros 40% o oedolion Cymraeg yn datgan nad oedd ganddynt ddigon o hyder i siarad Cymraeg yn gyson.[74] A gall diffyg hyder fod yn niweidiol i iaith leiafrifol, fel mae John Ambrose a Colin Williams wedi crynhoi:

> All the evidence points to the part played in the local collapse by group uncertainty and lack of confidence in the future role of the language […]. A decreased faith in the role which should be allocated to the language seems to

[72] Marta García González, 'Translation of minority languages’, t. 111.
[73] Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Cyfieithu a normaleiddio defnyddio'r Gymraeg*, t. 1.
[74] Hywel Jones a Colin Williams, 'The Statistical Basis for Welsh Language Planning: Data Trends, Patterns, Processes', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, gol. Colin Williams (Caerdydd, 2000), t. 51.

> lead, in turn, to a decreased willingness – perhaps eventually even a decreased ability – to use it.[75]

Yn anochel arweinia hyn at effaith bellach ar iaith eu plant, ac yna ar iaith y gymdeithas gyfan. Mewn man arall, mae Colin Williams yn esbonio'r cysylltiad:

> We have demonstrated that the cessation of home language transmission is a combination of the closer socio-economic integration of the respective communities into the state system and beyond, together with a tacit group-wide change in values and norms which effectively undermines the autonomous rationale for an out-moded and undersubscribed culture. Once this 'trauma' of lack of social confidence and economic purchase becomes internalised by individuals, families, organisations and whole communities, then […] there ensues a social collapse or 'tip' in the language.[76]

Dyma gydnabod, felly, nad oes hyder gan lawer o siaradwyr Cymraeg yn nyfodol eu hiaith, nac yn eu gallu eu hunain i'w siarad. I atgyfodi'r hyder hwn, rhaid gwybod beth yn union yw hyder ieithyddol.

Diffinia adroddiad ar brosiectau cynyddu hyder yn y gweithle gan Fwrdd yr Iaith y term 'hyder' i 'gyfeirio at bobl sy'n gallu darllen, ysgrifennu neu siarad y Gymraeg'.[77] Mae'r adroddiad yn cyfeirio at hyder yn fwy fel hyfedredd neu rugledd iaith, ac mae prosiectau'r Bwrdd yn anelu at wella yr union bethau hynny, er enghraifft, trwy gynnig help gydag ymadroddion, pwyntiau gramadegol a chyweiriau mwy ffurfiol, neu drwy ddarparu cyfieithiadau safonol o ddogfennau. Ond mewn adroddiad ar *Drosglwyddo Iaith Mewn Teuluoedd Dwyieithog yng Nghymru*, dysgwn nad yw hyder ieithyddol mor hawdd ei ddiffinio.

> Tra bod lefelau hyder yn Gymraeg â chysylltiad â galluoedd (yn ôl y cyfwelai!) i siarad, deall, darllen, ac ysgrifennu'r iaith, […] nid ydym yn hollol glir am union natur yr hyn mae'r hyder hwnnw'n gynrychioli. Gall siaradwyr iaith gyntaf ac ail iaith ddefnyddio mesuriadau gwahanol i werthuso eu 'hyder' eu hun mewn iaith.[78]

Nid yn unig mae hyder ieithyddol yn anodd i'w fesur, mae hefyd yn mynd y tu hwnt i hyfedredd iaith. Dros ddegawdau a chanrifoedd, mae siaradwyr Cymraeg wedi rhagdybio mai siarad Saesneg yw'r disgwyliad, yn enwedig yng

---

[75] Ambrose/Williams, 'On the Spatial Definition of Minority', t. 68.
[76] Colin Williams, 'Conclusion: Sound Language Planning is Holistic in Nature', yn *Linguistic Minorities, Society and Territory*, gol. Colin Williams (Clevedon, 1991), t. 317.
[77] Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Prosiectau cynyddu hyder yn y gweithle 2006-2007* (Caerdydd, 2007), troednodyn 1.
[78] Virginia Mueller Gathercole ac Enlli Thomas, gol., *Trosglwyddo Iaith Mewn Teuluoedd Dwyieithog yng Nghymru* (Caerdydd, 2007), t. 79.

nghyswllt eu gweithle ac wrth siarad â rhywun ag awdurdod. Maent wedi datblygu eu hyder personol a'u statws proffesiynol drwy gyfrwng y Saesneg. Ac o geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn awr, medd Steve Eaves,

> gall rhai staff Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd, bônt yn rheolwyr, yn swyddogion proffesiynol neu'n staff rheng flaen, deimlo bod y broses o ddwyieithogi gwasanaethau a gweithleoedd yn herio'r hyder, yr awdurdod a'r statws a feddant yn Saesneg.[79]

Yn ogystal, gwelwyd bod siaradwyr llai rhugl yn dewis siarad Cymraeg mewn peuoedd anffurfiol yn unig. Po fwyaf rhugl oedd y bobl, mwyaf hyderus oeddent yn eu defnydd o'r Gymraeg mewn peuoedd ffurfiol (sef eu peuoedd gwaith yn aml). Roedd hyn, yn ôl Hywel Jones a adroddodd am ganlyniadau'r arolwg defnydd iaith, 'yn atgyfnerthu perthynas annatod hyder a rhuglder gyda rhuglder a defnydd.'[80] Mewn geiriau eraill, bydd rhywun yn gyndyn i siarad Cymraeg os nad yw'n gwybod ei fod yn ddigon rhugl. Ond i fod yn rhugl, rhaid iddo deimlo'n sicr ynddo'i hun fod siarad Cymraeg yn iawn dan yr amgylchiadau, bod yna bobl i wrando ac ymateb, ac nad oes amheuaeth o unrhyw fath am ddilysrwydd yr iaith. Ac er bod dysgwyr Cymraeg efallai yn teimlo'n llai rhugl, gellir tybio bod diffyg hyder yn gryfach mewn siaradwyr iaith gyntaf oherwydd y *baggage* o orthrwm sydd ynghlwm wrth ddiwylliant ac iaith Cymraeg. Ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach fyth i ddysgwyr ymarfer a cheisio siarad eu hiaith.

Gallai cyfieithu ar y pryd, yn un peth, roi cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a gwella eu Cymraeg. Yn ogystal, gallai dynnu pwysau oddi ar siaradwyr Cymraeg i wneud dewis iaith ymwybodol bob tro ac i deimlo'r cyfrifoldeb am barhad yr iaith. Esbonia Ian Mason bwysigrwydd rôl y cyfieithydd fel rôl gymdeithasol, ac mae'r rôl hon yn addas mewn cymunedau lle mae angen hybu hyder y bobl wrth siarad Cymraeg. 'The interpreter is not a neutral and uninvolved machine but rather an active participant in the talk exchange, fulfilling a crucial role in coordinating others' talk', meddai.[81] Mae'n ddull, felly, i leihau'r ansicrwydd ynglŷn â siarad Cymraeg.

[79] Eaves, 'Cyfraniad Hyfforddiant Ymwybyddiaeth', t. 85.
[80] Hywel Jones, 'Tafodau Rhugl', t. 23.
[81] Mason, *Dialogue Interpreting*, t. 150.

Rhydd *Geiriadur Prifysgol Cymru* ddiffiniad o *hyder* fel 'cyflwr ffyddiog; gobaith cryf neu sicr; (hunan)ymddiried; ehofndra'.[82] Disgrifir hyder ieithyddol, felly, nid yn unig fel ffydd rhywun yn ei allu iaith, ond fel teimlad greddfol o berthnasedd siarad Cymraeg mewn cyd-destun penodol. Rhaid gallu cymryd siarad Cymraeg yn ganiataol heb wneud yr ymdrech ymwybodol i feddwl pa iaith sydd fwyaf addas.

Datblygwyd y syniad o *sécurité linguistique* (sicrwydd iaith) i egluro sefyllfa gymdeithasol ac emosiynol y mae siaradwyr iaith leiafrifol yn ei phrofi mewn cyswllt â siaradwyr prif iaith. Noda Denise Réaume y gall siaradwyr prif iaith fod mewn sicrwydd ieithyddol llwyr: y mae pob drws yn agored iddynt. Nid oes rhwystr iddynt rhag dilyn unrhyw lwybr bywyd, a hynny gan gymryd yn ganiataol yr hawl a'r cyfle i ddefnyddio eu hiaith gyntaf. Nid oes anfantais iddynt wrth chwilio am waith, nac wrth symud mewn cylchoedd cymdeithasol, a chânt siarad eu hiaith yn hyderus bob tro.[83]

Ar y llaw arall, mae gan siaradwyr iaith leiafrifol yn aml ddewis anodd i'w wneud. Naill ai gallant geisio gwella eu bywydau yn gymdeithasol neu yn economaidd, ond heb allu defnyddio'u hiaith gyntaf. Neu gallant ddewis siarad eu hiaith, ond gan golli cyfleoedd. Mae'r effaith yn hirhoedlog: 'The more restricted the opportunities available in one's language the more rational it becomes to take up the language that offers greater ones.'[84] Dim ond pan mae unigolyn yn rhydd i ddefnyddio ei iaith gydag urddas, ymhelaetha Gwion Lewis ar syniadau Green, y mae ganddo sicrwydd iaith. 'Os nad yw'n rhydd i ddefnyddio'i iaith wrth ymwneud â'i lywodraeth, ei awdurdodau, ac eraill sy'n rhan o'i fywyd beunyddiol, fe'i amddifadir o'i urddas.'[85] Os am gynnig gwir ddewis iaith, mae'n angenrheidiol meddwl sut i gyrraedd sefyllfa lle mae gan siaradwyr iaith leiafrifol yr un urddas a'r un hyder sydd gan siaradwyr eraill.

Un broblem o safbwynt hyder yn y Gymraeg, dywed Catrin Huws, yw'r gwahaniaeth mawr rhwng cyweiriau llafar a ffurfiol, rhwng iaith bywyd preifat a iaith bywyd cyhoeddus:

---

[82] *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950-2002).
[83] Denise Réaume, 'The Constitutional Protection of Language: Survival or Security?', yn *Language and the State: The Law and Politics of Identity / Langage et Etat: Droit, politique et identité*, gol. D. Schneiderman (Cowansville, 1991), t. 46. Dyfynnir gan Albert Branchadell, 'Mandatory Translation', tt. 132-33.
[84] Réaume, 'The Constitutional Protection of Language', tt. 46-47.
[85] Gwion Lewis, *Hawl i'r Gymraeg*, t. 103.

> Gwelwn agendor llawer ehangach [nag yn Saesneg] rhwng Cymraeg lafar [sic] anffurfiol (ac amrywiaethau daearyddol yr iaith lafar anffurfiol honno), Cymraeg lafar [sic] ffurfiol (lle mae amrywiaethau daearyddol yn parhau i fod yn ffactor sylweddol mewn creu gwahaniaethau gramadegol) a Chymraeg ysgrifenedig.[86]

Y mae'r tair lefel o ffurfioldeb yn rhwystro pobl rhag teimlo'n hyderus. Gyda'r Saesneg yn iaith arferol mewn cyd-destun ffurfiol i lawer o siaradwyr Cymraeg, 'mae sefyllfa lle siaredir Cymraeg ffurfiol yn debygol o fod yn brofiad llawer yn fwy anghyfforddus i siaradwyr Cymraeg nag yw sefyllfa lle siaredir Saesneg ffurfiol'.[87]

Bydd rhagor o gyfieithu (ar bapur) i'r iaith leiafrifol yn sefydlu'r cyweiriau ffurfiol hynny fel cyweiriau mwy cyfarwydd. Gyda threigl amser, dylai arwain at ddefnyddio'r iaith ffurfiol yn hyderus (mewn sefydliadau penodol, mae hyn yn digwydd eisoes). Mae cyfieithu, felly, yn angenrheidiol i hyder siaradwyr Cymraeg yn y cyweiriau mwy ffurfiol, o safbwynt eu hyfedredd yn gymaint â'u sicrwydd emosiynol.

Ym marn Eithne O'Connell nid yw cyfieithu i brif ieithoedd mor bwysig i hyder eu siaradwyr. 'Depending on perspective, translation for a major language may be viewed as a cultural indulgence or as a tool of domination', meddai.[88] Ond mae'n hollbwysig ym mholisïau iaith leiafrifol sy'n anelu at godi hyder ei siaradwyr. A chan fod cyfieithu ar y pryd yn benodol yn weithgaredd llafar sy'n dangos yr iaith yn uniongyrchol yn fyw, mae ei rôl wrth gryfhau hyder siaradwyr lleiafrifol hyd yn oed yn fwy allweddol.

Yn ei lyfr ar newid agweddau tuag at iaith, cyfeiria Colin Baker hefyd at sicrwydd mewnol.[89] Mae'n cysylltu hyder ieithyddol â newid mewn agweddau tuag at ddefnyddio'r iaith, gan nodi bod sicrwydd mewnol yn hanfodol i iechyd meddwl. Os yw siarad Cymraeg yn gwneud i rywun deimlo'n fregus, neu'n codi embaras neu ofn arno, mae'n bur debyg y bydd yn newid ei agweddau a siarad Saesneg i gael mwy o sicrwydd a llai o ofn. Pan fo siarad iaith yn golygu bod ar ymyl cymdeithas (neu'n rhan o leiafrif o fewn y gymdeithas), nid oes gan siaradwr yr iaith honno yr un statws mewn grŵp, a gallai hyn fod yn rheswm i newid agweddau tuag at yr iaith a'r patrymau o ddefnyddio'r iaith. Gellir teimlo'r

[86] Catrin Huws, 'Iaith y nefoedd ac iaith y llysoedd', t. 131.
[87] Ibid., t. 131.
[88] O'Connell, *Minority Language Dubbing for Children,* t. 48.
[89] Colin Baker, *Attitudes and Language*.

embaras neu'r ofn hwn o flaen siaradwyr Saesneg yn ogystal ag o flaen pobl fwy addysgiedig neu ddiwylliedig sy'n siarad 'Cymraeg gwell'. Mae hyder wrth siarad iaith, felly, yn fwy na'r gallu i'w siarad. Mae'n gyflwr seicolegol sy'n deillio o ganrifoedd o agweddau negyddol ynglŷn â'r Gymraeg.

Nodweddion amlwg a chyffredin y cyflwr hwn, esbonia'r seicotherapydd Dilys Davies, yw tynghediaeth a llarieidd-dra, goddefolrwydd, diffyg hyder ac ymdeimlad o israddoldeb.[90] Ymhlyg yn y teimladau hyn i gyd y mae diymadferthedd oherwydd diffyg hyder i newid pethau neu i sefyll i fyny dros werthoedd, ac felly'r arfer i ildio cyfrifoldeb i'r 'lleill' sy'n 'gwybod yn well ac yn gallu rhedeg pethau'n well'.[91] Meddai Gwion Lewis ymhellach fod

> syniad y Cymry heddiw o'r hyn sy'n bosibl, yr hyn sy'n ddichonadwy, ar gyfer y Gymraeg, yn adlewyrchu'r diffyg uchelgais y byddai rhywun yn ei ddisgwyl o genedl sydd wedi ei sathru: y mae'r Cymry wedi colli eu hunanhyder ac wedi eu darbwyllo eu hunain nad ydynt yn haeddu gwell.[92]

Cawn eglurhad am y cyflwr hwn gan Paolo Freire: 'Er mwyn goroesi gorthrwm ar yr iaith, mae eich llais yn cael ei llethu ac mae eich grym yn cael ei ddwyn oddi arnoch. Er mwyn goroesi hynny mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r diwylliant dominyddol.'[93] O ystyried y cyflwr seicolegol hwn felly, mae disgwyl i siaradwyr iaith leiafrifol gymryd cyfrifoldeb dros eu hiaith yn gam mawr yn erbyn graen yr hen arferion, ac allan o'r *comfort zone*. Dyfynna Dilys Davies V. Kenny sy'n dadlau 'yr ymwrthodir â newid oherwydd tuedd dyn i ddal gafael ar y cyfarwydd a'r diogel, waeth pa mor boenus a dinistriol fo hynny.'[94] Rhaid ystyried y pwynt hwn hefyd, sef bod unrhyw newid yn anodd i gychwyn, gan ei fod yn golygu ymdrech. Ac yn ôl Gwion Lewis, dim ond trwy roi hawl i'r Gymraeg y byddai'n cyhoeddi i'w siaradwyr fod eu hunaniaeth ieithyddol yn cael ei chymryd o ddifrif ac yn cael ei pharchu.

O ran diffyg hyfrededd ieithyddol, gall pobl fod mewn cyfyng-gyngor, fel y disgrifia Alexandra Jaffe[95]: gall methu canfod y geiriau iawn yn Gymraeg

---

[90] Dilys Davies, 'Arwyddocâd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn y Gwasanaethau Gofal Iechyd', *Siarad yr Anweledig: Diwylliant, Hunaniaeth a Seiciatreg* (Caerdydd, 2002), t. 38.
[91] Ibid., t. 38.
[92] Gwion Lewis, *Hawl i'r Gymraeg*, tt. 105/06.
[93] Paolo Freire, *Pedagogy of the Oppressed* (Harmondsworth, 1996), dyfynnir gan Dilys Davies, t. 38.
[94] Dilys Davies, t. 41.
[95] Jaffe, 'Locating Power: Corsican Translators and their Critics', t. 54.

bwysleisio pŵer y Saesneg wrth erydu'r iaith leiafrifol. Ar y llaw arall, mae methu canfod y geiriau iawn yn Saesneg yn dangos diffyg meistrolaeth o'r brif iaith, sydd yn embaras, ac yn medru arwain at golli parch, statws a hyder. Nid yw hyd yn oed dewis siarad y brif iaith bob tro yn cael gwared â'r ansicrwydd, felly. Yn ychwanegol at hynny, rhaid ystyried wrth bwy y'i siaredir, hyd yn oed wrth feistrioli'r holl gyweiriau perthnasol. Efallai bod hyn yn fwy arwyddocaol na'r cywair ei hun. Awgryma Fasold a Connor-Linton,

> To use 'correct grammar' would make the speaker sound posh or snobbish and cost him/her the approval of his/her peers. There is an enormous disincentive to use language in a way that makes it seem that you are separating yourself from the people who are most important to you.[96]

Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn cyfarfodydd cymunedol lle mae pobl yn cwrdd mewn fforwm cymharol swyddogol, a hwythau wedi arfer siarad yn anffurfiol â'i gilydd. I gymhlethu pethau, gall siaradwyr prif iaith ofni colli eu statws (eu *hego*) hwy, a phan fyddant yn poeni bod siaradwyr iaith leiafrifol yn cael mwy o hawliau, gallant fynegi hyn drwy fychanu'r iaith leiafrifol.[97] Y dasg yw sicrhau nad oes teimlad o fygythiad i'r un o'r ddau grŵp.

Tybir weithiau bod cyfieithu yn ffordd i ennyn hyder, a bod peidio â chael cyfieithu yn gallu arwain at golli hyder. Er enghraifft, cafodd merch ei gwahodd i gyfweliad am swydd ym Mhrifysgol Bangor, gan gytuno i gael ei chyfweld drwy wasanaeth cyfieithu. Ar ddiwrnod y cyfweliad, cyhoeddwyd wrthi nad oedd cyfieithu ar gael wedi'r cwbl. Nid oedd eisiau bod yn anodd a siaradodd Saesneg. Teimlodd na chafodd chwarae teg yn y cyfweliad oherwydd iddi baratoi yn Gymraeg, ac fe gollodd ei hyder, am nad oedd y gwasanaeth cyfieithu ar gael.[98]

Eto, mae pobl wedi gweld cyfieithu fel dull effeithiol o danseilio grym prif ieithoedd. Cyflwyna Eva Espasa ei syniad o gyfieithu fel arf i amddiffyn gwerthoedd iaith leiafrifol ac i 'danseilio'n ddistaw' y prif ddiwylliant. Gan ysgrifennu am gyfieithu i'r llwyfan, meddai: 'Translation is a mirror reflecting one's own culture, rather than a window open to foreign cultures.'[99] Gallai cyfieithu ar y pryd yng Nghymru bwysleisio'r agwedd honno o gyfieithu. Wrth

[96] R.W. Fasold a J. Connor-Linton, *An Introduction to Language and Linguistics* (Caergrawnt, 2006), t. 8. Dyfynnir gan Catrin Huws, 'Iaith y nefoedd', t. 129.
[97] Colin Baker, *Attitudes and Language,* t. 100.
[98] *Golwg,* 'Cyfieithu'n rhy ffurfiol i goleg', 30 Mai 2001, t. 5.
[99] Eva Espasa, 'Theatre and translation: Unequal exchanges in a supermarket of cultures', yn *Less Translated Languages,* gol. Albert Branchadell a Margaret West (Amsterdam, 2005), t. 141.

gyfieithu'n ofalus, gan ystyried grym seicolegol arferion ieithyddol a statws a safle'r bobl wrth gwrdd â'i gilydd, gellid amlygu gwahaniaethau diwylliannol y fro Gymraeg. Ac wrth roi, fel hyn, statws ac urddas i'r hunaniaeth ddiwylliannol honno yn y gymdeithas gyfan (nid mewn corneli bach penodedig yn unig), gobeithir cryfhau hyder siaradwyr Cymraeg yn yr hyn ydynt.

### 4.5 Newid agweddau a normaleiddio iaith trwy gyfieithu

Er y derbynnir nad yw newid agweddau yn gyfystyr â newid ymddygiad ieithyddol, [100] mae cynllunio iaith wedi datblygu o'r gosodiad bod newid agweddau tuag at yr iaith yn allweddol. Sylwa Colin Baker: 'Language engineering can flourish or fail according to the attitudes of the community.'[101] Felly, mae agweddau'r boblogaeth yn cyfrannu at lwyddiant polisïau cryfhau'r iaith. Dim ond trwy ganiatáu i bawb drafod yr iaith a cheisio newid eu hagweddau y gellir dod dros y rhwystrau sy'n cyfyngu'r defnydd o'r iaith. Mae agweddau yn datblygu, yn cael eu herio a'u newid, a gwaith cynllunio ieithyddol a chynllunio cyfieithu yw gwthio'r newid hwn i gyfeiriad sy'n normaleiddio defnydd o'r iaith leiafrifol a chryfhau hyder ei siaradwyr.

O ran agweddau'r bobl tuag at yr iaith, mae ymchwil wedi ei gynnal eisoes. Canfyddiad Colin Baker oedd bod agwedd fwy ffafriol tuag at yr iaith Gymraeg ymysg y rhai sy'n rhan o weithgareddau diwylliannol Cymraeg ac sy'n darllen Cymraeg.[102] Ymddengys fod y sawl sy'n dod o deulu a chymuned Gymraeg yn meithrin yr agweddau mwyaf cadarnhaol. Yn hynny o beth, blynyddoedd ieuenctid yw'r pwysicaf wrth greu barn ar werth ac ymarferoldeb y Gymraeg. Ond i berswadio pobl ifanc o'r gwerthoedd hynny, mae angen gadael iddynt gymryd rhan yn y broses o adfywio a chynnal yr iaith: 'The life support machines of language Acts and agencies are only valuable if minority language culture in teenage years is alive and fed with new ideas and initiatives.'[103]

Derbynnir ar y cyfan na ellir cynnal y *life support machines* hyn heb gymorth ariannol cyhoeddus.[104] Dylid ystyried yn ofalus sut yr ymdrinnir â chyfieithu yn y

[100] E.e. Williams/Morris, tt. 206-207.
[101] Colin Baker, *Attitudes and Language,* t. 21.
[102] Ibid., t. 65.
[103] Ibid., t. 137.
[104] Williams/Evas, t. 38.

cyd-destun hwn, faint o arian cyhoeddus a roddir tuag ato, ac ym mha feysydd ac ardaloedd. Medd Cronin: 'Though it is clear that changed political circumstances will shape translation policy in a country, it is not always made explicit how the use of particular tools is in itself status-enhancing.'[105] Y mae syniad o greu canolfannau adnoddau cenedlaethol neu sirol i helpu grwpiau i gyfieithu ar gost isel (er enghraifft, trwy gronfeydd data) yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw.[106]

Rhanna Colin Baker agweddau at iaith yn ddau grŵp. Y cyntaf yw'r agwedd *faterol*, agwedd sylfaenol hunanol sy'n gwneud i rywun ddysgu'r iaith gyda golwg ar gyrraedd nod arbennig. Mae'r agwedd o *berthyn* yn seilio ar ogwydd cymdeithasol a rhyngbersonol, a'r nod yn y pen draw yw cysylltu â phobl eraill.[107] Yr agweddau pwysicaf yw'r agweddau nas ysgogir gan nod materol, ond yn hytrach gan yr awydd i berthyn. Dyma ddiffiniad Colin Baker:

> An integrative attitude to a particular language may concern attachment to, or identification with a language group and their cultural activities. Wanting to be identified with a defined group of 'other' language speakers, or wanting friendship within that group indicates an integrative orientation. The intensity of the implied relationships may vary. At one end of the dimension may be gregariousness, with little attachment. At the other end of the dimension may be warm and close friendships. Somewhere in the middle comes sociability.[108]

Canfu ei arolwg mewn ysgolion yn y 1970au fod cael canran uchel o siaradwyr Cymraeg yng nghymdogaeth y plant yn creu agweddau ffafriol tuag at yr iaith.[109] Roedd y cefndir ieithyddol a diwylliannol yn bwysicach na ffactorau eraill (fel y math o ysgol neu oedran y plant). Canlyniad arall o'r ymchwil oedd bod yr agweddau materol yn gryfach mewn plant o gefndir Seisnig, a'r ymdeimlad o berthyn yn gryfach mewn plant Cymraeg. Atgyfnertha ymchwil o'r fath bwysigrwydd cael cymunedau lle mae gweithio a chymdeithasu yn Gymraeg yn beth normal i'w wneud, a'r Gymraeg yn iaith naturiol a 'di-ofyn' i bopeth.

Y normau cymdeithasol sydd wrth wraidd agweddau, wrth gwrs, ac mae unrhyw gynllunio iaith, a chyfieithu, yn effeithio ar y normau hyn. Gellid, felly, er

---

105 Cronin, *Translation and Globalization*, t. 31.
106 *Golwg*, 'Mynd â'r iaith i bobman', 25 Mawrth 1999, t. 7.
107 *Instrumental* and *integrative* attitudes geilw Baker y ddau grŵp. Gweler *Attitudes and Language*, t. 32.
108 Colin Baker, *Attitudes and Language,* t. 32.
109 Sharp et al, *Attitudes to Welsh and English in the Schools of Wales* (Llundain, 1973). Dyfynnir gan Colin Baker, *Attitudes and Language,* tt. 41-46.

enghraifft ddeddfu dros gael cyfieithu, neu fynnu dwyieithrwydd gan sefydliadau cyhoeddus gyda'r pwrpas o normaleiddio'r iaith, a chyfieithu yn sgil hyn.

Rhan o normaleiddio iaith leiafrifol yw datblygu iaith safonol. Ac mae cyfieithu yn ganolog i normaleiddio iaith yn yr ystyr hwn. Y cyfieithwyr sy'n ceisio canfod cydbwysedd rhwng cadw strwythurau a phatrymau cynhenid i'r iaith ar y naill law, a derbyn dylanwadau gan ieithoedd eraill ar y llall. Mae'r cydbwysedd hwn yn bwysig i'r iaith beidio â datblygu fel cysgod o'r brif iaith, a pheidio ag aros yn statig chwaith.[110] Rhaid i'r iaith gael ei derbyn gan ei siaradwyr, neu bydd cynyddu eu defnydd o'r iaith yn anoddach, fel rhybuddia A.J.Devitt: 'A superimposed standard might never be fully accepted by speakers who are excluded from the group which use that standard, and their linguistic behaviour might thus show little change.'[111]

Fodd bynnag, mae'r awydd i berthyn yn hollbwysig i'r rhai sy'n dysgu iaith hefyd. Rhaid iddynt gael cyfleoedd i gymdeithasu yn Gymraeg cyn ei gweld hi'n angenrheidiol i ddysgu'r iaith. Gwelir bod agweddau'r di-Gymraeg yn allweddol i sicrhau bod y Cymry Cymraeg *yn* cynnal a chadw'u hiaith. Os na fydd newid yn eu syniad o werth a statws y Gymraeg, bydd hi'n anodd perswadio pobl i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn gyhoeddus.

Ysgrifennodd Colin Williams ym 1984 mai dim ond yn yr ardaloedd Cymreiciaf yn y gogledd a'r gorllewin y ceid gwrthwynebiad gan rai uniaith Saesneg yn erbyn ymestyn addysg Gymraeg.[112] Awgrymodd canlyniadau ymchwil Beaufort fod agweddau'r di-Gymraeg ar y cyfan yn ffafriol tuag at y Gymraeg yng nghyd-destun hawliau. Fodd bynnag, pan soniwyd am gyfrifoldeb dros yr iaith neu am ddisgwyliad cyffredinol i siarad Cymraeg yn y fro Gymraeg, roedd eu hymateb yn llai ffafriol.[113] Roedd 78% o ymatebwyr di-Gymraeg o blaid i'w plant gael dysgu Cymraeg, ond dim ond 31% a gytunodd y dylai dysgu Cymraeg fod yn orfodol.[114]

[110] Gweler Cronin, *Translation and Globalization*, t. 147.
[111] A.J. Devitt, *Standardizing written English: Diffusion in the Case of Scotland 1520-1659* (Caergrawnt, 1989), t. 7. Dyfynnir gan Mari Jones, *Language Obsolescence and Revitalization* (Rhydychen, 1998), t. 330.
[112] Colin Williams, 'More than tongue can tell: linguistic factors in ethnic separatism', yn *Linguistic Minorities, Policies and Pluralism,* gol. John Edwards (Llundain, 1984), t. 195.
[113] Robin Mann, 'Between Consent and Coercion', t. 259.
[114] Yn erbyn 64% o Gymry Cymraeg a oedd yn cytuno gyda hynny. Mann, t. 259.

Adlewyrcha hyn gred gyffredin ymysg dyfodiaid di-Gymraeg y bydd Saesneg eu plant yn dioddef o gael eu haddysg yn Gymraeg. Cadarnhaodd ymchwil gan Delyth Morris a Kathryn Jones yn 2006 yr agwedd honno.[115] Eu casgliad oedd bod hyn yn arwydd o densiynau mewn teuluoedd cymysg ynghylch iaith y plant, tra oedd teuluoedd â dau riant Cymraeg yn gytûn i fagu eu plant yn Gymraeg. Gyda symudoledd cynyddol, bydd mwy o deuluoedd cymysg yn anochel, a rhaid cryfhau agwedd gadarnhaol siaradwyr Cymraeg. Dysgwn gan Reg Hindley o Iwerddon pa mor bwysig yw siarad yr iaith yn y teulu:

> Irish as a living language will have expired once there are no longer mothers who speak it to their newborn infants, because it comes unconscsiously and naturally to their lips, without measured thought of choice or national sentiment. Once that point has passed, reasons for learning Irish will remain, but only at an esoteric level and for select interest groups.[116]

Ni wêl ef y sawl sy'n gallu siarad yr iaith, ond yn peidio â gwneud hynny, o unrhyw help: 'People who can speak Irish but do not, especially to their children, cannot be counted as a positive factor in language maintenance as regards the natural living language of everyday use and normal inter-personal relationships.'[117] Rhaid cael mwy na gallu i siarad iaith felly.

Erbyn hyn, mae nifer cynyddol o fudiadau a sefydliadau yng Nghymru yn darparu gwasanaethau cyfieithu mewn cyfarfodydd mewn ymateb i'r angen i newid agweddau tuag at yr iaith ymysg siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Ond nid pob sefydliad sy'n hapus gyda sut y darperir y gwasanaeth, ac nid pawb sy'n cytuno gyda'r dull o gael cyfarfodydd dwyieithog.

Comisiynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg arolwg yn 2006 i ganfod a oedd cyfieithu ar y pryd yn newid agweddau Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg.[118] Ymysg y casgliadau cyffredinol roedd y farn fod cyfieithu mewn un math o gyfarfod yn gallu creu parodrwydd i siarad mwy o Gymraeg mewn cyd-destunau eraill. Hefyd, canfuwyd bod pobl yn meddwl am gynnig mwy o wasanaethau yn Gymraeg ar ôl eu profiad o gyfieithu, a bod

[115] Morris/Jones, 'Yn gymysg oll i gyd', tt. 24-26.
[116] Reg Hindley, t. XV.
[117] Ibid., t. 252.
[118] Cynghoriaeth Dylan Bryn Roberts, *Prosiect newid agweddau tuag at y Gymraeg yn sgil cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd* (2006), ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg <http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cynnwys.php?cID=&pID=109&nID=2259&langID=1> [14 Ebrill 2008]

cyfieithu yn cynyddu eu hyder wrth siarad Cymraeg. Ar yr ochr negyddol, nodwyd bod cyfieithu o bosibl yn llesteirio dysgu iaith, a'i fod yn amharu ar rediad cyfarfodydd. Yn ddiddorol, mae'r ffigyrau yn dangos gwahaniaeth sylweddol rhwng barn siaradwyr Cymraeg am newid yn eu hagweddau eu hunain a'u barn am newid yn agweddau siaradwyr Cymraeg eraill. Tra oedd y mwyafrif yn cytuno bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi newid agweddau siaradwyr Cymraeg eraill tuag at y Gymraeg, ac wedi creu parodrwydd a hyder iddynt siarad mwy o Gymraeg, nid oedd cymaint ohonynt yn sicr bod cyfieithu wedi cael yr effaith hon arnynt yn bersonol (a'r gwahaniaeth rhwng y ddau hyd at 20%!).

Un o wendidau'r arolwg oedd bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn aelodau o gyrff cyhoeddus. Roedd yn agos i 78% ohonynt yn cynrychioli'r sector hon. Hefyd, roedd y mwyafrif o gyfarfodydd y soniwyd amdanynt yn rhai cyhoeddus (cyfarfodydd cynghorau, gwrandawiadau cyhoeddus, neu gyfarfodydd rhwng cyrff). Gan fod rhaid i'r cyrff cyhoeddus ddarparu digwyddiadau fel hyn yn ddwyieithog ac wedi gwneud hynny ers blynyddoedd bellach, efallai nad oedd angen cymaint o gymhelliant ar yr ymatebwyr i newid eu hagweddau tuag at ddefnyddio'r Gymraeg. Doedd dim digon o ymatebwyr yn aelodau o gymuned neu o grŵp cymunedol, ac felly ni cheir darlun cytbwys. Mae bylchau mawr ynglŷn â'r defnydd o gyfieithu a'i oblygiadau ar lefel y gymuned.

Gwendid arall yw na cheisir esbonio'r canfyddiadau, na'u cysylltu â meysydd neu astudiaethau eraill perthnasol. Er enghraifft, nid oes eglurhad sut y gall y defnydd o gyfieithu ar y pryd effeithio ar rywun wrth gynnig mwy o wasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Tybir yn syml bod mwy o ddisgwyliadau ar ran y cyhoedd i gael gwasanaethau Cymraeg gan gorff sydd wedi cynnal cyfarfod yn Gymraeg.[119] Nid yw'n ceisio dehongli chwaith pam y ceid gwahaniaethau rhwng siroedd, ac nid yw'n trafod ffactorau megis pa mor hir y defnyddiwyd cyfieithu ar y pryd neu beth yw canran siaradwyr Cymraeg yn y siroedd.

At ei gilydd, mae'r arolwg yn arwynebol. Ni ddengys ddealltwriaeth o effaith cyfieithu ar y berthynas rhwng pobl, ac ar eu dirnadaeth o ddiwylliant a hunaniaeth. Cydnabydda mai dim ond codi cwr y llen y mae ar y pwnc. Fodd bynnag, daw yn glir nad yw'n thema hawdd. Rhaid bob amser gofio hyn:

[119] t. 16.

> At every juncture where there is translation […] there is, along with problems of misunderstanding, deception, inequality, and linguistic oppression also hope for insight, reciprocity, and therefore creative negotiation, if never perfect resolution, between languages and peoples, between values, enmities and loves.[120]

Dywed Sandra Berman yma fod cyfieithu yn fenter, ond yn botensial hefyd. Bwriada ail ran y traethawd hwn ymhelaethu ar y drafodaeth hon, a chanfod mewn pa sefyllfaoedd y mae cyfieithu ar y pryd yn gweithio'n dda, a pha ffactorau sy'n cyfrannu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

[120] Sandra Bermann, 'Introduction', t. 8.

## RHAN 2

# Rôl
# Cyfieithu ar y pryd wrth gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

# 5 Methodoleg ymchwil

## 5.1 Cefndir a bwriad yr ymchwil

Deillia syniad canolog yr ymchwil hwn o brosiect HWB (Hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned). Gweithredwyd y prosiect yng Ngwynedd, o Fedi 2004 tan Fawrth 2006, ar y cyd rhwng Menter Iaith Gwynedd, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Mantell Gwynedd (y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol yng Ngwynedd). Pwrpas prosiect HWB oedd, trwy grantiau gan Gyngor Gwynedd, roi'r cyfle i grwpiau gwirfoddol ddefnyddio cyfieithu ar y pryd i geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu cyfarfodydd. Gwelwyd angen am gefnogaeth ariannol i wasanaethau cyfieithu ar y pryd, gan nad oedd grwpiau bychain yn gallu talu amdanynt, ac roedd hynny'n golygu bod cyfarfodydd grwpiau cymysg o ran iaith yn aml yn gwbl Saesneg. Y gobaith oedd y byddai newid yn arferion y grŵp yn darbwyllo grwpiau ynghylch manteision cyfieithu ar y pryd wrth geisio sicrhau y gellid parhau i siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd a chyflwyno Cymraeg o'r newydd i gyfarfodydd eraill.

I fonitro effaith cyfieithu, anfonwyd holiaduron at y grwpiau i'w dosbarthu ymysg eu haelodau er mwyn iddynt allu rhannu eu profiadau. Yn ogystal, gofynnwyd i'r cyfieithwyr gofnodi faint yr oeddent yn cyfieithu ym mhob cyfarfod, gan sylwi ar unrhyw anawsterau ac arferion da.

Cododd cwestiynau amrywiol o HWB; rhai yn fwy disgwyliedig na'i gilydd. Bwriad yr astudiaeth hon oedd dilyn rhai o'r llwybrau a agorwyd.

Bwriad y ddoethuriaeth hon yw archwilio agweddau ar effaith bosibl cyfieithu ar y pryd ar y grŵp, gan holi sut mae agweddau ac ymddygiad yn newid, neu beidio, trwy ddefnyddio cyfieithu. Mae'r agweddau hyn yn cynnwys agweddau ynghylch siarad Cymraeg, cynhwysedd y cyfarfodydd, effaith cyfieithu ar ddiwylliant a thraddodiadau lleol, statws yr iaith ac agweddau'r ddau grŵp iaith tuag at ei gilydd. Mae'n bwysig ystyried teimlad y bobl leol am eu rhwydweithiau Cymraeg neu ddwyieithog mewn perthynas â newid cymdeithasol ac ieithyddol, er mwyn deall eu barn am rôl cyfieithu wrth adeiladu perthynas rhwng unigolion o fewn y rhwydweithiau hynny.

## 5.2 Astudiaeth ansoddol

Dewiswyd dull ymchwil ansoddol oherwydd ei fod yn caniatáu darganfod cysylltiadau rhwng y pwnc dan sylw a'i gyd-destun; hynny yw, y cysylltiad rhwng cyfieithu ar y pryd a'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd. Wrth drafod agweddau ac ymddygiad unigolion mewn cyfarfod lle ceir gwasanaeth cyfieithu, ni allai ymchwil meintiol roi darlun llawn o'r pwnc dan sylw, gan fod cefndir ieithyddol-diwylliannol pobl, a chyd-destun a lleoliad cyfarfodydd yn amrywio'n fawr. Ni fwriadwyd chwilio am atebion sy'n ddilys i bob sefyllfa lle ceir cyfieithu yng Nghymru, na chyffredinoli wrth dynnu casgliadau, gan fod y cymysgedd ieithyddol a diwylliannol yn amrywio cymaint ar draws y wlad. Ceisiwyd cysylltu gwahanol agweddau ar ddiwylliant a hunaniaeth leol, y berthynas rhwng pobl a'u defnydd o'r Gymraeg, a rôl cyfieithu ar y pryd. Ceisiwyd deall yr agweddau sy'n ysgogi pobl i siarad Cymraeg pan mae rhai di-Gymraeg yn bresennol, a deall sut mae'r broses o gyfieithu yn perthyn i ganfyddiad grwpiau ac unigolion ohonynt eu hunain, ac yn cyfrannu at y canfyddiad hwnnw. Felly, nid *mesur* agweddau tuag at gyfieithu a'r ysgogiad i siarad Cymraeg yw pwrpas yr ymchwil hwn, ond *amlygu'r* agweddau a'r ysgogiad i siarad, er mwyn ceisio defnyddio cyfieithu mewn dull effeithiol.

Fel y crybwyllwyd yn Rhan I y traethawd, mae'r rhan fwyaf o gyfieithu ar y pryd yn digwydd yn ardaloedd Cymreiciaf Cymru, a llawer o'r rhain yng Ngwynedd. Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar gyfieithu yng Ngwynedd, gan geisio amrywiaeth o grwpiau yr ymwelwyd â hwy ac amrywiaeth o unigolion a holwyd. Gan sylweddoli'r perygl o esgeuluso manteision astudiaeth fwy cymharol rhwng gwahanol ardaloedd Cymru a'u defnydd o gyfieithu ar y pryd, penderfynwyd bod Gwynedd yn faes ffrwythlon i drafod nifer o themâu ynghylch cyfieithu, defnydd o'r Gymraeg a hunaniaeth, oherwydd bod profiad o gyfieithu ar y pryd yng Ngwynedd ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Nid oedd maint a sgôp traethawd doethurol yn caniatáu astudio'r sefyllfa yng Nghymru gyfan.

Gan fod yr iaith Gymraeg yn fater sensitif yng Ngwynedd ac ardaloedd Cymraeg eraill, mae perygl i bobl ymateb mewn ffordd y tybiant sy'n arddel 'agwedd dda'. Anodd yw pwyso a mesur faint o'r atebion mewn holiadur sy'n seiliedig ar gred go iawn ac ymddygiad real, a faint sy'n seiliedig ar yr hyn y cred yr atebydd y mae'r cyfwelydd neu'r awdurdodau yn disgwyl ei glywed. I osgoi dibynnu ar ddatganiadau

personol yn unig, defnyddiwyd tri dull o ymchwilio: amrywiaeth o holiaduron, cyfweliadau ac arsylwi.

## 5.3 Holiaduron

Defnyddiwyd profiadau'r grwpiau a oedd wedi cymryd rhan ym mhrosiect HWB.[1] Yna, anfonwyd holiaduron at yr un grwpiau eto, ond gan ofyn cwestiynau manylach y tro hwn am eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, gan ychwanegu cwestiynau ynglŷn â'u teimlad o berthyn i'r grŵp, y berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a siaradwyr di-Gymraeg, ac ynglŷn â'r newid a achoswyd trwy gyfieithu. Pwrpas cychwynnol yr holiadur hwn oedd gweld sut ymateb a gaed i'r pynciau a astudid, a chael syniad bras a oedd yr ymchwil yn ddichonol.

Tair set o holiaduron (pob un yn ddi-enw) a ddefnyddir yn yr astudiaeth:

1. 20 holiadur HWB: yr holiaduron a anfonwyd at y grwpiau yn ystod cyfnod prosiect HWB (Atodiad B.1);
2. 35 holiadur HWBcap: yr holiaduron a anfonwyd at gyfieithwyr prosiect HWB i'w cofnodi ar ôl pob cyfarfod (Atodiad B.2);
3. 29 holiadur H: yr holiaduron a luniwyd ar ddechrau'r ymchwil hwn i gael atebion manylach gan unigolion a oedd wedi bod yn rhan o grwpiau yn ystod cyfnod prosiect HWB (Atodiad B.3).

Gwelir o'r drafodaeth sy'n dilyn ym mhenodau 6 i 10 fod atebion i'r holiaduron yn fanwl, a rhai yn datgan profiadau a theimladau personol iawn. Er yr ymddengys rhai o'r casgliadau ar ffurf ffigyrau, rhaid cofio na all y rhain, oherwydd y niferoedd bychain, fod yn gynrychioladol. Pwysleisir unwaith eto mai ymchwil ansoddol a geir yma.

## 5.4 Cyfweliadau

Pan nad ystyrir holiaduron ar eu pennau eu hunain yn ddigon i ganfod y cefndir a'r rhesymeg bersonol tu ôl i ymddygiadau ieithyddol a chanfyddiadau pobl o'u hunaniaeth, cynhelir cyfweliadau. Mae cyfweliadau lled-strwythuredig neu agored yn caniatáu i'r cyfwelydd roi tragwyddol heol i'r unigolion ymhelaethu ar y pynciau sy'n bwysig iddynt hwy. Maent yn ddigon hyblyg i ymaddasu i amrywiaeth o unigolion, ac felly nid oedd yr un o'r saith cyfweliad yn debyg i'w gilydd. Newidiodd

[1] Gellir gweld rhestr o'r grwpiau hynny yn Atodiad A.

y cwestiynau wrth fynd ymlaen gan eu haddasu at unrhyw wybodaeth newydd. Weithiau, ni chafwyd atebion arwyddocaol i'r cwestiynau eu hunain, ond o adael rhwydd hynt i'r cyfweleion, cafwyd cyfraniadau gwerthfawr i'r ymchwil.

Penderfynwyd cyfweld hefyd oherwydd i'r iaith Gymraeg fod yn bwnc sensitif. Trafodwyd ymchwil mewn meysydd anodd ymhlith cymdeithasegwyr, a dywed Raymond Lee:

> Research is often problematic when it impinges on political alignments, if 'political' is taken in its widest sense to refer to the vested interests of powerful persons or institutions, or the exercise of coercion or domination. In these situations researchers often trespass into areas which are controversial or involve social conflict.[2]

Ni fydd grymoedd o'r fath bob amser i'w gweld yn agored mewn cyfarfod, ond gall pobl deimlo eu bod mewn sefyllfa wan neu gref gan ddibynnu ar ba iaith a gyda phwy y siaradant. Dim ond o gyfweld pobl yn uniongyrchol y gellir dysgu am eu teimladau dyfnaf o berthyn i iaith, i grŵp neu i gymuned, a'u hysgogiad i siarad Cymraeg mewn cyfarfod neu beidio.

Cynhaliwyd saith cyfweliad, a defnyddir y sylwadau a gaed yn eu ffurf wreiddiol lafar. Siaradwyd gyda chyfweleion a ddaeth â chanfyddiadau amrywiol i'r astudiaeth. Trwy'r gwahanol safbwyntiau hyn, ceisiwyd deall ym mha ffordd mae cyfieithu yn cysylltu â chwestiynau ynghylch hunaniaeth ddiwylliannol a'r defnydd o'r Gymraeg.

Cyfwelwyd fel a ganlyn:[3]

1. Cyfieithydd 1
2. Cyfieithydd 2
3. Aelod Cymraeg o gyngor cymuned
4. Pennaeth sefydliad cyhoeddus yng ngogledd Cymru
5. Aelod Saesneg o gyngor cymuned
6. Ymgynghorydd iaith ar draws Cymru
7. Cymro sy'n aelod o gyngor cymuned ac o Senedd Prifysgol Bangor

Roedd profiadau'r ddau gyfieithydd (Cyfweliadau 1 a 2) o gyfieithu mewn sefyllfaoedd amrywiol yn werthfawr ar gyfer gweld tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng grwpiau. Oherwydd natur eu gwaith, mae cyfieithwyr mewn sefyllfa i allu sylwi ar yr hyn sy'n digwydd mewn cyfarfodydd. Bydd eu gallu i gymharu grwpiau ac i weld patrymau o siarad Cymraeg yn cyfrannu at egluro'r pwnc.

---

[2] Raymond Lee, *Doing Research on Sensitive Topics* (Llundain, 1993), t. 4.
[3] Gweler trawsysgrif y saith cyfweliad yn Atodiad C.

Y safbwynt nesaf i'w astudio oedd agweddau'r aelodau mewn grwpiau sy'n defnyddio cyfieithu. Mae'r deunydd a gafwyd trwy gynnal dau gyfweliad (un aelod Cymraeg o gyngor cymuned, Cyfweliad 3, ac un aelod Saesneg o gyngor cymuned, Cyfweliad 5) yn ymhelaethu ar yr hyn a welwyd o'r holiaduron.

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o faes polisi iaith am eu barn hwy ar gyfieithu ar y pryd, er mwyn asesu faint o sylw y mae cyfieithu wedi ei gael mewn cynllunio ieithyddol hyd yma. Bu Cyfweliad 4 gyda phennaeth sefydliad cyhoeddus sy'n gweld cyfieithu fel rhan o'r angen i weithredu polisïau iaith yn ei sefydliad. Y cyfweliad nesaf oedd un gydag ymgynghorydd iaith ym maes cynllunio ieithyddol yng Nghymru (Cyfweliad 6).

Fel seithfed cyfwelai, dewisiwyd rhywun a oedd yn aelod o ddau grŵp tra gwahanol, un yn grŵp cymunedol lle'r oedd cyfieithu wedi gwneud gwahaniaeth i'r defnydd o'r Gymraeg, ac un grŵp ffurfiol yn ei sefydliad gwaith. Cymharodd ef y ddwy sefyllfa.

## 5.5 Arsylwi

Gan fod y cyfweliad yn ddull i ganfod credoau dwfn pobl, eu gwerthoedd, eu hofnau a'r hyn sydd wrth wraidd eu hymddygiad, bydd casgliadau o'r data hyn yn rhai anochel oddrychol. Yn ogystal â'r cyfweliadau a'r holiaduron, er mwyn ychwanegu elfen fwy gwrthrychol i'r astudiaeth, edrychwyd a gâi'r agweddau datganedig eu hatseinio yn eu hymddygiad mewn cyfarfod. Hynny yw, gall fod yna wahaniaeth rhwng agweddau cadarnhaol tuag at siarad Cymraeg, a faint y mae pobl yn ei siarad mewn realiti. Am y rheswm hwn, mynychwyd cyfarfodydd i nodi sut y mae'r bobl yn newid iaith wrth gwrdd â'i gilydd.

Byddai wedi bod yn fantais ymweld â nifer o grwpiau yn eu cyfarfodydd misol dros gyfnod estynedig, gan gychwyn o'r cyfnod cyn iddynt ddechrau cael gwasanaeth cyfieithu, a gweld sut mae gweithredu dwyieithog y grŵp yn datblygu. Mantais hynny fyddai gweld y newidiadau yn uniongyrchol. Yn anffodus, nid oedd yn bosibl canfod grwpiau a oedd yn ystyried cael cyfieithydd yn eu cyfarfodydd am y tro cyntaf, ac roedd rhaid dewis nifer o grwpiau a oedd eisoes yn gyfarwydd â'r gwasanaeth.

Mynychwyd y cyfarfodydd fel ymwelydd o'r cyhoedd. O weld y berthynas rhwng pobl yn iaith y corff, yn y ffordd y siarada rhywun, pwy sy'n siarad, a faint, rhoddodd mynychu ac arsylwi'r cyfarfodydd werth ychwanegol i'r ymchwil.

Mynychwyd deg cyfarfod fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfarfod 1 a 2: | Bwrdd Iechyd Lleol yng ngogledd Cymru |
| Cyfarfod 3 a 4: | Senedd Prifysgol Bangor |
| Cyfarfod 5: | Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru |
| Cyfarfod 6 a 7: | Cyngor Cymuned ym Meirionnydd |
| Cyfarfod 8 a 9: | Cyngor Cymuned yn Arfon |
| Cyfarfod 10: | Corff Llywodraethwyr ysgol gynradd yn Eifionydd |

Ymysg y pethau yr arsylwyd arnynt oedd: ar ba bynciau y ceid cyflwyniadau Cymraeg? Beth yw cefndir diwylliannol y cyfranwyr? Oes sylwadau am yr iaith a'i siaradwyr? Oes sylwadau am gyfieithu? Pwy sy'n eistedd gyda phwy? Pwy sy'n dweud beth, a sut, yn anffurfiol cyn ac ar ôl cyfarfod? Oes polisi iaith gan y grŵp? Beth yw hanes y grŵp?

Er mwyn cael dyfnder i'r canlyniadau, roedd yn bwysig cael amrywiaeth o ran cefndir diwylliannol y grwpiau a thueddiadau demograffig eu hardaloedd. Wrth ddewis y grwpiau rhoddwyd sylw i iaith y gymuned yn gyffredinol yn un peth, ac iaith y grwpiau dan sylw yn ail. Gall hyn amlygu'r berthynas rhwng cefndir diwylliannol, traddodiadau a rhwydweithiau mewn cymuned, a'r agwedd tuag at gyfieithu ar y pryd a'i le mewn cyfarfodydd.

Mynychwyd, felly, gyfarfodydd cymunedol tri grŵp mewn tair gwahanol gymuned. Lleolir y grwpiau hyn mewn ardaloedd â gwahanol ganrannau o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd. Roedd cyfarfodydd 6 a 7 mewn ardal â 48.4% o siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2001, cyfarfodydd 8 a 9 mewn ardal â 70.75% a chyfarfod 10 mewn ardal â 65.1%. Er y gwahaniaethau hynny, roedd mwyafrif helaeth aelodau'r cyfarfodydd hynny yn siaradwyr Cymraeg.

Yn groes i'r tri grŵp cymunedol, arsylwyd mewn tri grŵp gwaith yng ngogledd Cymru: un o'r Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdod yr Heddlu, ac un o'r cyrff sy'n rheoli sefydliad addysg uwch, Senedd y Brifysgol. Roedd y mwyafrif o aelodau'r grwpiau hyn yn siaradwyr uniaith Saesneg. Y bwriad oedd gweld a oedd gwahaniaethau rhwng grwpiau cymunedol a rhai mwy swyddogol yn y ffordd y mae cyfieithu yn cael ei dderbyn a'i ddefnyddio.

Er mwyn cymharu rhai o atebion y cyfweleion a'r holiaduron â thystiolaeth mwy gwrthrychol, arsylwyd mewn dau gyngor cymuned yr oedd tri chyfwelai yn perthyn iddynt. Gellir gweld nodiadau'r arsylwi yn Atodiad CH.

## 5.6 Gwendidau ac anawsterau'r ymchwil

Hyd yn oed wrth gyfuno holiaduron, cyfweliadau ac arsylwi mewn cyfarfodydd, mae ymchwilio i agweddau yn fater dyrys. Nid yn unig mae'n bwysig dadansoddi a dehongli'r hyn a welir yn y fan a'r lle, ond mae'n hanfodol cadw golwg ar gefndir y grwpiau hefyd i ganfod ffactorau a all fod wedi cyfrannu at newid agweddau. Ymysg y rhain mae tueddiadau gwleidyddol, y sefyllfa economaidd a chyfreithiol, unigolion sydd wedi bod yn arloesol mewn un ffordd neu'i gilydd yn y grŵp neu yn y gymuned ehangach, a hanes o wrthdaro rhwng siaradwyr y ddwy iaith. Rhaid hefyd gofio nad yw agweddau o reidrwydd yn agored. Gallant fod yn gudd, yn enwedig os teimlir bod y farn gyhoeddus yn wahanol. Fodd bynnag, pan mae agweddau yn hysbys, gallant egluro ymddygiad tuag at iaith a siaradwyr y naill iaith neu'r llall.

Yn ogystal â'r anawsterau a gyfyd wrth ymchwilio i agweddau, mae ambell bwynt arall yn haeddu sylw. O bosibl, mae'r ffaith fod yr astudiaeth wedi ei chyfyngu i gyfarfodydd yng ngogledd-orllewin Cymru yn amharu ar arwyddocâd yr ymchwil. Efallai y byddai cymharu'r gogledd-orllewin gydag ardaloedd eraill yn fwy cynhwysol. Gan fod siaradwyr Cymraeg yn ne Cymru yn llawer mwy dwyieithog (sef yn fwy rhugl yn Saesneg) na Chymry Cymraeg rhai o'r grwpiau a astudiwyd, byddai gwahaniaethau yn sicr wedi ymddangos ac wedi rhoi darlun llawnach. Ar y llaw arall, hyd yn oed o fewn yr ardal a astudiwyd, roedd yr amrywiaeth mewn agweddau tuag at y Gymraeg a thuag at rôl ac effaith cyfieithu yn drawiadol. Efallai y gall yr ymchwil hwn fod yn sail i astudiaeth ehangach ar draws Cymru a fyddai'n canfod potensial a phroblemau cyfieithu mewn ystod lawnach o gyd-destunau diwylliannol. Byddai ymestyn yr astudiaeth wedi cymhlethu'r darlun tu hwnt i allu unrhyw astudiaeth ar raddfa doethuriaeth PhD, gan fod agweddau yn amrywio cymaint yn ôl symudiadau a chefndir teuluol pobl

Credir bod y cyfuniad o holiaduron, arsylwi a chyfweliadau yn rhoi darlun cyfoethog o'r hyn y mae pobl yn ei drafod ynglŷn â chyfieithu ar y pryd a'i rôl wrth gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac wrth wella'r berthynas rhwng Cymry a'r di-Gymraeg. At y darlun hwn y trown nesaf.

# 6 Cyfieithu ar y pryd a'r agweddau tuag at y Gymraeg

Mae'r ffaith fod trafodaethau astudiaethau cyfieithu yn digwydd bron yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Saesneg yn effeithio ar ein dealltwriaeth o broblemau cyfieithu. Mae hyn yn eironig, o ystyried mai un o brif feysydd astudiaethau cyfieithu yw trafod cwestiynau o bŵer rhwng ieithoedd. Synia Eva Hung:

> One context which rarely comes under investigation is how the academic enquiries now called translation studies are themselves subject to the cultural environment and social structures that govern them in different countries and regions of the world.[1]

Ac yn wir, pan ddaw ieithoedd lleiafrifol i sylw ymchwilwyr cyfieithu, fe edrychir arnynt o safbwynt cyfieithu llenyddol. Fodd bynnag, gall trafod cyfieithu mewn ieithoedd bychain fod yn fuddiol, nid yn unig i'r diwylliannau hynny, ond i astudiaethau cyfieithu yn gyffredinol, medd Lawrence Venuti: 'Minor cultures are coincident with new translation strategies, new translation theories, and new syntheses of the diverse methodologies that constitute the discipline of translation studies.'[2]

Efallai bod lle i edrych ar ddamcaniaethau neu strategaethau cyfieithu newydd o safbwynt cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Bydd Rhan II y traethawd yn ceisio creu darlun o ganfyddiadau'r sawl sydd â phrofiad o gyfieithu ar y pryd am y gweithgarwch hwnnw. Ceisir gosod y drafodaeth am gyfieithu ar y pryd yng Nghymru yng nghyd-destun ehangach cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Awgrymwyd ym Mhennod 4 na ellir cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg heb newid agweddau tuag ati. Ac er mwyn newid agweddau, rhaid newid y berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a siaradwyr di-Gymraeg. Gan ddilyn un o brif amcanion cynllunio ieithyddol, sef cymell agweddau ffafriol a chadarnhaol at y Gymraeg, ceisia'r ymchwil gysylltu'r agweddau hyn â chyfieithu ar y pryd.

Un o'r cwestiynau canolog yw holi i ba raddau y gall cyfieithu ar y pryd gyfrannu at newid agweddau at yr iaith, ac – ar ochr arall y geiniog – sut y mae agweddau tuag at yr iaith a'i siaradwyr yn lliwio agweddau tuag at gyfieithu. Sut mae syniadau am rôl ac effaith cyfieithu ar y pryd yn clymu wrth agweddau

[1] Eva Hung, *Translation and Cultural Change*, t. viii.
[2] Lawrence Venuti, *Translation and Minority*, tt. 135-36.


cyffredinol tuag at ddiwylliant dwyieithog, hawliau iaith a pholisïau defnyddio'r Gymraeg? Rhannwyd y pwnc yn gyfres o gwestiynau, a chyflwynir y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer pob un ohonynt yn ei thro.

## 6.1 Pam ac ar gyfer pwy y defnyddir cyfieithu ar y pryd?

Sylwa Marta García González nad yw astudiaethau cyfieithu yn gofyn yn ddigon aml pam y cyfieithir, ac y cymerir ei swyddogaeth o hwyluso cyfathrebu 'pur' yn ganiataol.[3] Yng nghyd-destun lleiafrifoedd ieithyddol, fodd bynnag, mae'n werth holi, nid yn unig pam y cyfieithir, ond hefyd pwy sy'n archebu gwasanaeth cyfieithu, a pha beth y bwriedir ei gyfieithu. Yn anffodus, yn y byd sydd ohoni, mae cyfieithu ar y pryd yn digwydd ar y cyfan pan y gellir talu amdano.[4] Yng Nghymru, felly, golyga hyn y byddai cyfieithu ar y pryd yn dylanwadu ar hawliau ieithyddol, cyfathrebu a hunaniaeth mewn sefyllfaoedd cyfyngedig yn unig.

Gwelir o'r ymchwil nad yw hi bob amser yn hysbys i bawb ym mha achosion y dylid cyfieithu (testun a llafar) yng Nghymru, ond bod nifer cynyddol o sefydliadau cyhoeddus a mudiadau gwirfoddol yn fodlon cyflogi cyfieithwyr yn eu cyfarfodydd. Ceisiwyd canfod a yw unigolion a grwpiau yn cytuno ar bwrpas cyfieithu.

**Ffigwr 6.1:**
**Prif resymau am gael gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfod**




Ar y cyfan, gwelir bod cyfieithu ar y pryd yn bwysig ar gyfer grwpiau mewn ardal Gymraeg. O edrych ar yr atebion a gafwyd i'r cwestiwn, 'Beth yn eich barn

[3] Marta García González, 'Translation of minority languages', tt. 106-111.
[4] Daniel Emanuele Grasso, 'Translation Serving Global Narratives: The Case of 'Poverty' in Niger', yn *Translation and the Construction of Identity*, gol. Juliane House et al. (Seoul, 2005), t. 212.

yw'r prif resymau dros gael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yng Nghymru?', ceir yr argraff bod y rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o bwrpas cyfieithu yn eu cyfarfodydd. Dengys Ffigwr 6.1 uchod ganrannau'r sawl a atebodd 'pwysig iawn' i'r gosodiadau a ddynodir.

Mae darllen trwy'r atebion agored, fodd bynnag, yn rhoi darlun llawer mwy lliwgar. Ceir llawer o sylwadau megis yr un a ganlyn: 'Byddai'r cyfarfod yn sicr wedi troi'n gyfarfod uniaith Saesneg oni bai am y gwasanaeth cyfieithu'[5] (a hynny mewn cyfarfod gyda 25 o siaradwyr Cymraeg a phedwar di-Gymraeg!). Dywed un atebydd fod cyfieithu yn rhoi rhwyddineb i rediad y cyfarfod: 'Ease at which meeting is conducted with both parties being able to put their point of view over with confidence.'[6] Yn fyr, mae cyfathrebu yn fwy diffwdan.

Honna un arall: '[It is] legally required,'[7] honiad heb sail mewn grŵp cymunedol. Mae eraill yn yr un grŵp yn herio'r gosodiad hwn fod cyfieithu yn ofynnol yn gyfreithiol: 'Ond oedd o isio pethau yn "legal", os dach chi'n deall beth dw i'n feddwl. Oedd o isio dod â'r gyfraith i mewn. Mi ddylan ni gael hyn, mi ddylan ni gael y llall. Adeg hynny ddaru'r peth godi. Mi ddywedodd o, mae rhaid i ni gael cyfieithydd.'[8]

Mewn sefydliadau, i'r gwrthwyneb, yn ôl cyfieithydd, cyflogir cyfieithwyr oherwydd y gofyniad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, ond heb dalu sylw manylach i'r pam na'r sut:

> Mewn rhai sefydliadau mwy, er enghraifft y Cynulliad, a lot o gyrff eraill, nid o angenrheidrwydd llywodraethol, maen nhw'n llogi gwasanaeth cyfieithu oherwydd bod y polisi yn dweud bod nhw fod i wneud, neu fel rhyw fath o bolisi yswiriant. Mae 'na rai cyrff sydd heb bolisi iaith fel y cyfryw. Maen nhw'n ymwybodol y gallasai fod 'na ambell i Gymro Cymraeg yn dymuno siarad Cymraeg, ac maen nhw'n llogi'r gwasanaeth rhag ofn. A beth sy'n digwydd fel rheol ydy bod 'na ddim Cymraeg o gwbl mewn cyfarfod felly, hyd yn oed os oes 'na Gymry Cymraeg.[9]

Awgryma'r sylw hwn nad yw pawb yng Nghymru yn deall pwrpas cyfieithu. Ategir hyn gan brofiad cyfieithwyr: yn eu profiad hwy, tueddir i gymryd yn ganiataol fod cyfieithu yn helpu siaradwyr Cymraeg, er mai'r di-Gymraeg sy'n ei

---

[5] HWB6/1. Cyfeiria'r rhifau at yr holiaduron a'r cyfweliadau.
[6] H14/1.
[7] H25/1.
[8] Cyf3/3.
[9] Cyf2/29.

ddefnyddio yn ymarferol. Meddai un cyfieithydd: 'Y di-Gymraeg ddim cweit yn deall – dywedodd un "Oh, we won't need this then," nes i Alwyn ei hysbysu y byddai'n gofyn y cwestiynau yn Gymraeg.'[10] A dywed un arall: 'Dw i wedi cael ambell un oedd yn meddwl mai cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg oeddwn i, ac yn meddwl mai darparu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y Cymry Cymraeg o Saesneg i'r Gymraeg oeddwn i.'[11] Mae diffyg dealltwriaeth, felly, ynghylch y ffaith mai caniatáu siarad Cymraeg yw pwrpas y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, ac mai'r di-Gymraeg sy'n defnyddio'r offer.

Mae'r Cymry Cymraeg, at ei gilydd, yn gweld gwerth mewn cyfieithu. Cefnogant yr egwyddor o roi gwell llwyfan i'r iaith. Mae un atebydd yn 'teimlo fod y Cymry [cyn cyfieithu] yn cael cam'. Rheswm arall dros ddefnyddio cyfieithu, yn ei farn, yw 'egwyddor cenedlaethol.'[12] Ac mae'n amlwg eu bod yn mynegi'r agwedd honno. Medd un cyfieithydd: 'Yn achos cynghorau cymuned a chynghorau tref, mae'r defnydd o'r gwasanaeth yn ymateb i ddymuniad rhai aelodau i siarad Cymraeg.'[13]

Weithiau, bydd grwpiau Cymraeg yn gwrthsefyll cyfieithu rheolaidd gan gael cyfieithydd atynt yn achlysurol yn unig. Er enghraifft, mae 'cyfieithu yn gwella sefyllfa llawer pan wahoddir pobl [di-Gymraeg] o'r tu allan [i wneud cyflwyniad]'.[14] Golyga hyn mai dim ond pan geir cyflwyniad gan rywun nad yw'n aelod o'r grŵp y byddant yn gofyn am gyfieithu, neu 'dim ond i gyfarfodydd agored'.[15] Awgryma eraill eto eu bod yn gwrthwynebu cyfieithu ar y cyfan ond yn cytuno i'w gael 'pe bai dim dewis arall'.[16]

O safbwynt grŵp mwy Saesneg, mae'r un penderfyniad yn rhoi argraff hollol wahanol. Nid oeddent hwythau yn meddwl bod angen cyfieithu ar gyfer eu gweithredu beunyddiol, dim ond ar gyfer achlysuron ffurfiol: 'Our groups aren't specifically for conversation, they're forums, AGMs etc. Translation isn't used in everyday group where conversations are informal.'[17] Tra penderfynodd y grwpiau Cymraeg uchod gael cyfieithu pan y gwyddant y bydd ei angen oherwydd

---

[10] HWBcap14/1.
[11] Cyf2/32.
[12] H9/1.
[13] Cyf2/28.
[14] H8/4.
[15] H20/1.
[16] H10/1.
[17] H5/2.

presenoldeb rhai di-Gymraeg, naill ai mewn cyfarfod cyhoeddus neu wrth wahodd rhywun di-Gymraeg atynt, ni wêl y grwpiau cymysg botensial cyfieithu er hwyluso trafod anffurfiol, sef trwy ganiatáu siarad y ddwy iaith.

Mewn un achos, mae anealltwriaeth wedi arwain at ffrae am bwy sy'n cael penderfynu a yw cyfieithu yn angenrheidiol. Roedd rhaid i Fwrdd yr Iaith fynd at y grŵp i benderfynu a oedd hawl i gael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, a phwy oedd â'r hawl honno – yr aelodau Cymraeg eu hiaith neu'r di-Gymraeg. Roedd cynghorydd lleol di-Gymraeg 'wedi denu dipyn go lew o'i ffrindiau i eistedd yn y galeri cyhoeddus. Ac mae o'n mynnu rŵan bod nhw'n cael y cyfieithu hefyd er bod gynnon nhw ddim hawl.'[18] Cytunwyd cael rhyw fath o ddarpariaeth i'r cynghorwyr di-Gymraeg (dim o reidrwydd cyfieithu trwy offer), ond 'nad oedd yn rhaid iddyn nhw ddarparu cyfieithu ar gyfer neb yn y galeri cyhoeddus.'[19]

Tystia'r sylwadau hyn fod ansicrwydd am union rôl a phwrpas cyfieithu ar y pryd; pam y'i defnyddir, i bwy y'i darperir, ac i ba iaith y cyfieithir. Awgryma'r sylw nesaf fod derbyn gwasanaeth cyfieithu heb drafodaeth flaenorol yn peri dryswch llwyr i ambell un: 'Byddwn bob amser yn siarad Cymraeg. Ond pan fydd cyfieithydd yn bresennol, byddwn yn defnyddio'r ddwy iaith.'[20] Er bod atebion i gwestiwn Ch1 yn yr holiadur – sef pa iaith a siaredir ar adegau gwahanol y cyfarfod (yn anffurfiol cyn ac ar ôl y cyfarfod, trafod ffurfiol, trafodaeth agored), a sut mae hyn wedi newid ers y defnydd o gyfieithu – yn awgrymu mai Cymraeg y siaredir fwyaf pan mae cyfieithydd yn bresennol, cadarnhawyd trwy arsylwi'r cyfarfodydd y siaredir llawer mwy o Saesneg nag yr honnir.

Nid oes, felly, ddigon yn deall mai caniatáu *siarad* Cymraeg yw pwrpas cyfieithu, gan y byddai, heb gyfieithu, berygl y siaredid Saesneg yn unig. Yn hytrach, cymerir cyfieithu gan rai fel modd i Gymry Cymraeg gael *clywed* cyfieithiad Cymraeg (ac ni fyddai hwnnw ond i'w glywed drwy'r clustffonau – Cymraeg mud, felly!). Weithiau, mae cyfieithu yn cynyddu'r Saesneg mewn cyfarfod, gan beri i siaradwyr Cymraeg ymddwyn yn fwy dwyieithog, yn hytrach na pharhau i siarad Cymraeg a gadael i'r cyfieithydd siarad Saesneg. Mae'r ansicrwydd ynglŷn â pha iaith i'w siarad wedi dod i'r grŵp uchod *ers* i gyfieithu gael ei gyflwyno, a dylai hyn boeni'r sawl sy'n meddwl am gyfieithu fel modd i

[18] Cyf1/9.
[19] Cyf1/8.
[20] H27/5.

barhau cynnal gweithgareddau yn Gymraeg. Er bod cyfieithu yn y rhan fwyaf o lefydd wedi bod yn gam cadarnhaol tuag at siarad mwy o Gymraeg mewn cyfarfodydd, rhaid sicrhau bod pawb yn deall mai er mwyn cynnal digwyddiadau *yn Gymraeg* y bodola; ond y gall hynny fod er budd y sawl nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd.

### 6.2 A all cyfieithu ar y pryd hybu dwyieithrwydd?

Disgrifiwyd yn y bennod gyntaf sut y gwelir cyfieithwyr yn helpu i hybu dwyieithrwydd mewn sefydliadau. Ond trafodwyd hefyd sut y gellid codi proffeil cyfieithu ar y pryd fel cyfrwng i gyrraedd sefyllfa wirioneddol ddwyieithog. Rhaid holi pa fath o ddwyieithrwydd yw'r nod, a phwy sydd i fod yn ddwyieithog. Cyfyd cwestiwn ynghylch cyfieithu ar y pryd a dwyieithrwydd: a fydd cyfieithu yn sefydlogi'r sefyllfa, lle mae siaradwyr Cymraeg (iaith gyntaf a dysgwyr) yn ddwyieithog, a'r siaradwyr Saesneg yn uniaith? Neu yn hytrach a fydd cyfieithu yn cymell newid a fydd yn mynnu dwyieithrwydd gan bawb?

Nid oes cytundeb llwyr ar y pwnc. Er y gellid dadlau y bydd cyfieithu a chyfieithwyr yn y tymor hir yn rhan o'r broses o wneud Cymru'n wlad ddwyieithog, anodd yw cytuno ar union gyfraniad cyfieithu yn hyn o beth. Os yw testun dwyieithog yn symbol gweledol o gymdeithas ddwyieithog, a yw cyfieithu ar y pryd yn symbol clywedol ohoni? Ac a fydd hyn yn digwydd ar draul sefyllfaoedd uniaith Gymraeg? Ceisiodd yr ymchwil ddeall canfyddiad y bobl o rôl cyfieithu ar y pryd wrth adeiladu cymdeithas ddwyieithog.


Yn gyntaf, mae ymgynghorydd iaith yn datgan y dylid derbyn dwyieithrwydd fel norm yng Nghymru:

> Mae rhaid i ni ddelio gyda dwyieithrwydd, hyd yn oed mewn cymunedau traddodiadol Gymraeg, oni bai bod 'na gymdeithasau diwylliannol felly uniaith Cymraeg gyda chi allan yn fan yna yn y pau cyhoeddus, yn y rhan fwyaf o lefydd mae'ch poblogaeth leol chi yn mynd i fod yn boblogaeth uniaith ar y naill law a dwyieithog ar y llall, felly dwyieithrwydd cyhoeddus yw'r norm, dylai fod y norm, byddwn i'n meddwl. Felly mae eisiau i ni fod dipyn mwy soffistigedig na jest, hwp, rhaid i ni gael rhywun i gyfieithu.'[21]

[21] Cyf6/18.

Serch hynny, dengys cwestiwn C5 yr holiadur fod dwyieithrwydd yn rheswm gwirioneddol bwysig i lawer o'r grwpiau wrth ddefnyddio cyfieithu ar y pryd (Ffigwr 6.2). Noda 83% o'r atebwyr â chefndir di-Gymraeg a 76% o'r atebwyr â chefndir Cymraeg (manylir ar hyn ymhellach ym Mhennod 7) ei bod yn 'bwysig' neu yn 'bwysig iawn' i 'ddangos bod y grŵp yn ddwyieithog', gan nodi hyn yn rheswm dros gyflogi cyfieithydd. Ymddengys hyn yn bwysicach fyth i'r di-Gymraeg gan mai 83% ohonynt, yn erbyn dim ond 52% o'r Cymry Cymraeg sy'n ateb fod hyn yn 'bwysig iawn'.

**Ffigwr 6.2: Yr hawl i fod yn grŵp dwyieithog**




Adrodda pennaeth sefydliad fod newid mewn amgylchiadau ac awyrgylch yn digwydd ac wedi digwydd, yn enwedig yn y sector gyhoeddus: 'Mae gen i swydd […] yn y sector gyhoeddus. Yn fy marn i, mae gen i ddyletswydd personol i wneud rhywbeth efo'r iaith o dan y gyfraith.'[22] Ond cyfyd y cwestiwn pa mor llwyddiannus fydd ceisio newid awyrgylch yn y pen draw: 'Dan ni wedi creu awyrgylch, agwedd well tuag at yr iaith Gymraeg […]. Ond dydy hynny ddim yn ddigon.'[23]

Ar y llaw arall, ceir y rhai sy'n pryderu bod sefyllfa well yr iaith yn beryglus iddi o ran defnydd a pharhad:

> Dyna'r broblem wrth gwrs efo'r holl syniad o ddwyieithrwydd. Mae'r propaganda o blaid dwyieithrwydd yn berygl o gael yr effaith yna, bod pobl

[22] Cyf4/2.
[23] Cyf4/3.

> yn meddwl ei bod hi'n ddigon diogel i siarad Saesneg am ran helaeth o'r amser os ydy hynna'n teimlo'n gyfforddus neu'n gyfleus. Dydyn nhw ddim yn sylweddoli bod iaith sydd mewn sefyllfa leiafrifol yn rhywbeth mae gofyn i ymladd drosti trwy ei defnyddio hi yn gyhoeddus, am byth. Bydd y frwydr yma byth yn cael ei hennill. Ond mae 'na berygl bydd y to ifanc ddim yn sylweddoli hynna ac yn gadael i'r sefyllfa ddirywio.[24]

Cymal allweddol y sylw hwn, o bosib, yw 'os ydy hynna'n teimlo'n gyfforddus neu'n gyfleus'. Pwysleisia nad yw bod yn ddwyieithog yn gyfforddus i bawb, a bod aelod o leiafrif ieithyddol yn teimlo dan bwysau mewn llawer o sefyllfaoedd. Sut, felly, y gellir defnyddio cyfieithu ar y pryd i wneud dwyieithrwydd yn brofiad cadarnhaol? Er bod rhai o'r di-Gymraeg yn gwrthwynebu cyfieithu – 'Translation discourages bilingualism' [25] – , mae profiadau ar y cyfan yn cadarnhau ei fod yn helpu pobl i ddeall y diwylliant lleol. Ac mae polisïau dwyieithrwydd yn dylanwadu ar sut mae pobl yn ymddwyn mewn un sefydliad:

> Dw i'n teimlo bod nifer o bobl sy'n cyrraedd y Brifysgol yn fwy diweddar yn llawer mwy agored i gyfieithu ac yn ymddwyn yn ddwyieithog na'r hen stagers fel petai. [...] Ond oni bai bod y dwyieithrwydd yna, fysan nhw ddim yn plygu i'r cyfeiriad yna.[26]

Un rheswm arall am ddadlau dros ddwyieithrwydd yw'r cwestiwn pa mor rhugl y mae'n rhaid i rywun gwir ddwyieithog fod. Awgryma Cyfwelai 6 fod angen ailfeddwl am faint o Gymraeg mae pobl yn ei ddeall:

> Bach iawn o bobl sy'n dweud bod gyda nhw ddim Cymraeg o gwbl […] mae gan bobl rywfaint o ddealltwriaeth. Ond dydy pobl ddim yn cael y siawns i fynegi hynny'n aml iawn chwaith […] ond synnwn i ddim bod mwy o bobl yn deall Cymraeg na sy'n ei siarad hi. Dyna'r drefn fel arfer.[27]

Atgyfnerthir yr awgrym hwnnw gan sylw arall gan gynghorydd plwyf:

> Mae'r cynghorydd sir sydd gynnon ni, boi o'r enw J.A., mae hwnnw'n ddiddorol. Mae ar y wyneb yn ddi-Gymraeg, a dydy o byth yn siarad Cymraeg. Ond mae pawb yn teimlo fod o'n deall Cymraeg yn ddigon da a bod neb yn poeni peidio siarad o'i gwmpas o, maen nhw'n cymryd os ydy'r

[24] Cyf2/14.
[25] H3/3.
[26] Cyf7/39.
[27] Cyf6/20.

> drafodaeth yn gyffredinol mae'n deall digon. Mae o yn defnyddio cyfieithydd ond weithiau mae'n ateb cwestiwn cyn i hwnnw gael ei gyfieithu.[28]

Mewn sefyllfa arall, fodd bynnag, gellir teimlo bod angen rhugledd llawn i siarad yr un mor huawdl yn y naill iaith a'r llall, neu nid yw dwyieithrwydd yn golygu dim. Yn ogystal,

> mae dadl yn rhywbeth dwy gyfeiriad, dydy? Yr unig ffordd mae rhywun yn medru defnyddio dwy iaith yn gryf ydy os ydy'r person arall yn gallu gwneud yr un peth. Ac os dydy'r boi arall ddim mor ddwyieithog â hynny, mewn ffordd, pwy sy'n penderfynu pa iaith dach chi'n defnyddio?[29]

Yn hytrach na holi faint o iaith y mae'r bobl yn ei ddeall, mae angen gofyn faint o'r diwylliant a ddeallant. Yn hynny o beth, gall cyfieithwyr cymwys fod o gymorth: 'I've got to have confidence that the organisation is able to work in both languages, because whichever you choose to speak the same point will come across. And that means understanding culture and context.'[30] Ond synia rhai fod angen gwneud mwy i hyrwyddo'r ddealltwriaeth honno:

> Weithiau ceir agwedd negyddol gan y di-Gymraeg pam bod angen gwasanaeth cyfieithu a pham na ellir cynnal y trafodion yn Saesneg gan fod pawb yn deall a siarad yr iaith. Mae angen cyflwyno gwybodaeth iddynt ynglŷn â manteision y gwasanaeth cyfieithu a pham ei ddefnyddir. Credaf fod cyfarfodydd yn llwyfan dda i rannu pamffledi ac ati i'r di-Gymraeg yn esbonio'r rhesymau positif dros gael y gwasanaeth. Mae darparu offer cyfieithu yn rhoi delwedd broffesiynol bod grŵp yn medru gweithio a rhoi statws lawn i'r iaith Gymraeg ond bod modd i bawb fynegi eu hunain yn eu hiaith ddewisiedig. Fe all fod yn *intimidating* i rywun di-Gymraeg ddod at grŵp sy'n gweithredu drwy'r Gymraeg ond gall darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd roi delwedd o groeso a chydraddoldeb i bawb.[31]

Gwelir cyfieithu ar y pryd yn gyfle i esbonio'r diwylliant Cymraeg i'r newydd-ddyfodiaid. Gwêl un atebydd gyfieithu'n allweddol i hybu cymdeithas ddwyieithog: 'We will not cope as the mixed bilingual society that we are going to be without a higher standard of translation,'[32] meddai, gan bwyso ar lywodraeth Cymru: 'I need a more political statement from the government of Wales as to where they see the language positioned in fifty years time.'[33]

---

[28] Cyf7/21.
[29] Cyf7/53.
[30] Cyf4/48.
[31] H8/8.
[32] Cyf4/66.
[33] Cyf4/69.

Derbynnir, ar y cyfan, y syniad o gymdeithas ddwyieithog. Ac mae rhai yn cysylltu cyfieithu ar y pryd gyda'r drafodaeth ynghylch sut i gyrraedd sefyllfa fwy dwyieithog. Fodd bynnag, yn ôl ambell un, ni all cyfieithu ar y pryd gyfleu cymdeithas wirioneddol ddwyieithog er ei fod yn cyfrannu at newid awyrgylch a statws yr iaith, ac er ei fod yn amlygu'r diwylliant Cymraeg.

Ond i gyfieithu gael yr effaith hon, mae dwyieithrwydd swyddogol (mewn sefydliad, er enghraifft) yn helpu. Wrth gwrs, nid codi statws, na chyfieithu ynddo ei hun, fydd yn sicrhau cymdeithas lwyr ddwyieithog.

Faint y dylid ei wrando ar y sawl sy'n gweld dwyieithrwydd fel bygythiad i ardaloedd Cymraeg? Efallai bod defnyddio cyfieithu yn mynd yn groes i'r syniad o'r Gymraeg fel prif iaith ardaloedd Cymraeg o fewn Cymru ddwyieithog, ond ar yr un pryd y mae'n sefydlu'r arfer da o gael cyfarfodydd dwyieithog o fewn Cymru Saesneg. Ar y llaw arall, heb gyfieithu byddid yn colli llawer o gyfleoedd i weld a chlywed bod dwyieithrwydd yn bosibl mewn sefyllfa lle mae niferoedd siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn fwy cyfartal.

### 6.3 A all cyfieithu ar y pryd sicrhau cydraddoldeb ieithyddol?

Trafodwyd ym Mhennod 2 fod iaith yn cael ei hystyried yn un o'r hawliau dynol sylfaenol. Soniwyd hefyd i gyfieithu ar y pryd roi'r hawl i bobl siarad eu mamiaith. Yn nesaf, hola'r ymchwil a yw'n bosibl hyrwyddo cydraddoldeb ieithyddol yng Nghymru trwy roi'r cyfle i bobl siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol. Ac os hynny, a yw'r Cymry Cymraeg yn teimlo bod cyfieithu mewn cyfarfodydd yn rhoi'r hawl hwn iddynt?

Mae'r ymwybyddiaeth o rôl cyfieithu ar y pryd yn y drafodaeth am hawliau ieithyddol yn amlwg. Atebir, er enghraifft, ei fod yn 'rhoi'r hawl i'r unigolion siarad yn eu hiaith eu hunain'[34] ac yn 'hanfodol ar gyfer hawliau ieithyddol cyfartal a chydraddoldeb'.[35] Yn y fan hon, gwneir cysylltiad rhwng cyfarfod dwyieithog a chyfieithu, a hefyd dewis iaith: 'bod angen cynnal mwy o gyfarfodydd dwyieithog, swn i'n cytuno gyda hynny achos mae hynny wedyn yn gosod yr holl sefyllfa mewn sefyllfa o gydraddoldeb o roi cyfle cyfartal i pobl

[34] HWB7/1.
[35] H8/1.

gyfrannu yn eu dewis iaith.'[36] Diddorol yw gweld gogwydd Saesneg ar y mater o ddewis iaith: '[translation] enables Welsh speakers to express themselves in their first language when required.'[37] Awgryma'r ymadrodd 'when required' na dderbynnir y Gymraeg fel iaith yr ardal, eithr yn gonsesiwn pan ofynnir amdano.

Gwelir yma'r hawl i siarad yr iaith mewn ardaloedd Cymraeg. Mae 'cyfieithu ar y pryd yn bwysig achos does dim amheuaeth na all sicrhau chwarae teg i'r Gymraeg mewn sefyllfa "gymysg" '.[38] Teimlir hefyd fod Cymry Cymraeg dan anfantais mewn sefyllfa ddwyieithog heb gyfieithu: 'Gall Cymry a'r di-Gymraeg gyfrannu'n llawn i drafodaeth heb i Gymry fod dan anfantais o orfod mynegi eu hunain yn eu hiaith wannaf.'[39]


Ar yr un pryd, sonnir bod angen tegwch nid yn unig i'r siaradwyr Cymraeg, ond i'r di-Gymraeg hefyd. Gwerthfawroga un Sais y gwasanaeth gyda'r geiriau hyn: 'not to have to rely on summaries that leave the non-Welsh speaker at a disadvantage.'[40] Wrth gwrs, nid yw crynodeb o drafodaeth byth cystal â chyfieithiad llawn. Ond bydd ambell un di-Gymraeg yn defnyddio'r sôn am hawliau i'w fantais ei hun a gofyn am gyfieithu pan mae gweddill y grŵp yn gwrthwynebu hyn: 'Oedd o wedi bod yn dysgu Cymraeg, oedd o wedi cael gwersi ers blynyddoedd lawer. Dwn i ddim pam oedd o'n meddwl mwyaf sydyn fod o angen cyfieithu yna.'[41]

Pwy felly sydd fwyaf dan anfantais? Rhaid i ddefnyddwyr cyfieithu ar y pryd ddeall mai hawliau ieithyddol siaradwyr lleiafrifol sydd yn y fantol wrth gael cyfieithu mewn digwyddiad. Yr un pryd, wrth reswm, dylid ceisio trin pawb yn gyfartal.


Gwelir o gwestiwn C6 holiaduron H pwy ym marn yr atebwyr sy'n elwa fwyaf o wasanaeth cyfieithu. Dywed 86% o'r atebwyr di-Gymraeg a 96% o'r atebwyr Cymraeg mai'r di-Gymraeg sy'n elwa fwyaf, tra mai dim ond 50% o Gymry Cymraeg a gred eu bod hwythau yn elwa hefyd. Awgryma Ffigwr 6.3 isod nad yw ond hanner y Cymry Cymraeg yn ymwybodol o'r ffaith mai mesur i ganiatáu siarad Cymraeg yw cyfieithu ar y pryd yn bennaf, a'u bod yn elwa o'r gwasanaeth eu hunain, felly.

---

[36] Cyf6/8.
[37] H5/1.
[38] H21/5.
[39] H18/1.
[40] H6/1.
[41] Cyf1/3.




Mynega un atebydd ei falchder o gael siarad Cymraeg, ond nad yw hyn yn gydraddoldeb llawn eto: 'Yr ydym yn rhydd i siarad iaith ein dewis. Ond, y byddai'n braf cael cyfieithu o Saesneg i'r Gymraeg.'[42]





At ei gilydd, fel y dengys Ffigwr 6.4, mae pawb yn teimlo ar eu hennill gyda gwasanaeth cyfieithu. Mae Cymry Cymraeg yn cadarnhau eu teimlad bod cyfieithu mewn cyfarfod, trwy roi'r cyfle i siarad Cymraeg, yn hyrwyddo eu hawliau ieithyddol. Er y dymunai rhai ymestyn yr hawl hwnnw i gael clywed Cymraeg hefyd, cytunir mai peth da yw peidio â gorfod siarad yn eu hiaith wannaf. Mae'r siaradwyr di-Gymraeg hwythau yn teimlo bod y gwasanaeth yn rhoi'r hawl iddynt fod yn rhan o ddigwyddiadau eu cymunedau.

Serch hynny, mae un gwahaniaeth rhwng agweddau'r Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg at hawliau ieithyddol yn dod i'r amlwg. Tuedda siaradwyr Saesneg i

[42] HWB5/1, 2.

gydnabod hawl yr unigolyn i siarad Cymraeg neu Saesneg, tra prydera siaradwyr Cymraeg am les y Gymraeg o fewn diwylliant y gymuned. Gwelir y gwahaniaeth hwnnw yn gliriach o'r atebion i gwestiwn C5 (Ffigwr 6.5). Yno, mae'r hawl i'r grŵp fod yn grŵp Cymraeg yn 'bwysig iawn' i 95% o siaradwyr Cymraeg wrth gyflogi cyfieithydd, ond dim ond i 60% o'r di-Gymraeg. Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp yn drawiadol, er y gellir dadlau hefyd fod y ffigwr o ran y di-Gymraeg yn uchel.



Ffigwr 6.5: Yr hawl i fod yn grŵp Cymraeg

Er bod pawb, felly, yn tueddu i gytuno ynghylch pwysigrwydd hawliau cyfartal, nid yw'r canfyddiad o beth yw'r hawliau hyn yn gwbl unfryd. Yn ôl pob golwg, mae'r sawl sy'n mynnu hawliau i'r di-Gymraeg yn anghyfarwydd â'r drafodaeth am gynllunio ieithyddol mewn iaith leiafrifol, ac â'r syniad mai hyrwyddo cyfleoedd a hawliau lleiafrifoedd ieithyddol yw'r nod, nid cryfhau safle cryf siaradwyr y brif iaith. Hyd nes y creir dealltwriaeth gyffredin mai cryfhau'r defnydd o'r iaith leiafrifol yw'r nod, ynghyd â hyder a gallu'r siaradwyr, bydd swyddogaeth cyfieithu ar y pryd yng nghyd-destun cydraddoldeb i'r Gymraeg yn anodd i'w asesu.

## 6.4 A ellir codi statws y Gymraeg trwy gyfieithu ar y pryd?

'Language has always been more than a simple communication tool: it has also been a mark of national prestige, and interpreters have brought this prestige to the

international arena.'[43] Gyda'r geiriau hyn, awgryma Jean Delisle fod cyfieithu yn bwysig wrth roi statws i iaith. Ceisia'r ymchwil asesu'r gosodiad hwn yng nghyd-destun cyfieithu ar y pryd yng Ngwynedd.

Trafodwyd eisoes gyfraniad cyfieithu ar y pryd at amlygu'r Gymraeg. Yn yr holl bolisïau hynny a geisiodd sicrhau dyfodol y Gymraeg er y ganrif ddiwethaf, roedd cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd yn rhan o'r ymdrech i sicrhau gwell statws i'r iaith. Mae cyfieithu ar y pryd, yn gymaint â chyfieithu testun, yn ddatganiad cyhoeddus o statws newydd i'r iaith. Trwy ddarparu cyfieithu ar y pryd yn nhrafodaethau'r Cynulliad, codwyd y Gymraeg i safle llawer uwch, a hynny o'r dechrau. Erys y cwestiwn a gaiff cyfieithu ar y pryd yr effaith a ddymunir ar ddelwedd a statws yr iaith leiafrifol ym marn y bobl gyffredin, ac a oes dilyniant ymarferol o ran faint o Gymraeg a siaredir yn deillio o hynny.

Mae sylwadau o'r ymchwil yn datgan bod pobl yn ymwybodol o'r egwyddor bod cyfieithu yn bwysig ar gyfer statws y Gymraeg: 'Mae'r gwasanaeth yn sicrhau cyfleoedd cadarn i'r iaith Gymraeg gael ei statws priodol yn y gymuned.'[44] Ar yr un pryd, meddai cyfieithydd, pan mae'n dod yn adeg siarad Cymraeg, anghofiant yr egwyddor hon:

> Mae 'na fwy o statws yn eu meddwl nhw mewn siarad yn gyhoeddus yn Saesneg. Hyd yn oed er bod eu Saesneg nhw yn reit garbwl […] Ond mae 'na rai, yn enwedig y tô hŷn sydd efo'r syniad wedi plannu mor ddyfn yn eu meddyliau nhw bod 'na statws yn perthyn i siarad Saesneg yn gyhoeddus, maen nhw'n mynnu siarad Saesneg, hyd yn oed er bod nhw ddim yn gallu siarad Saesneg yn arbennig o dda.[45]

Eto, felly, ceir tensiwn rhwng y dweud a'r gwneud. O ran egwyddor, cydnabyddir bod cyfieithu yn rhoi statws i'r Gymraeg, ond yn ymarferol, ni weithreda pawb yn ôl y sylweddoliad hwnnw a manteisio ar y cyfle i siarad Cymraeg.

Deillia hyn o'r ffaith fod siarad cyhoeddus yn gyfystyr ag iaith busnes, a Saesneg yw honno i lawer o hyd: 'If Welsh is seen as a language that can't be used for business then it won't be used for business.'[46] Rhaid cofio y magwyd y rhan helaeth o bobl gydag agwedd ddilornus tuag at y Gymraeg: 'Dim ond o'r grŵp oedran deugain i lawr mewn ffordd mae unrhyw brofiad o'r Gymraeg yn cael


[43] Jean Delisle, 'Introduction', yn *Interpreters as Diplomats: A Diplomatic History of the Role of Interpreters in World Politics*, gol. Ruth Roland (Ottawa, 1999), t. 2.
[44] H17/3.
[45] Cyf2/6.
[46] Cyf4/46.

cydnabyddiaeth o statws.'[47] Yn ôl un cyfwelai, mae cyfieithu yn rhan o'r broblem hon: 'We still have lots of native Welsh speakers who prefer to speak English for business. Part of it is confidence, it's not confidence in their own language skills although that is part of it. It's a worry that your nuance is getting lost in translation.'[48]

Ond mae eraill yn argyhoeddedig, i'r gwrthwyneb, bod cyfieithu yn arf i hybu statws y Gymraeg yn gyhoeddus, hyd yn oed y tu allan i gyfarfodydd: 'Yn naturiol mae'r ffaith bod y Gymraeg yn cael statws mewn pwyllgorau ac mewn cyfarfodydd ac ati yn lliwio'r ffordd mae'r bobl yn meddwl tu allan i bwyllgor. Hefyd mae pobl yn ymfalchïo mwy, nid jyst yn ymfalchïo, mae o'n rhan gwbl naturiol.'[49] Efallai y gall cyfieithu ar y pryd mewn pwyllgorau gwaith helpu i wella'r agwedd gyffredinol tuag at yr iaith yn y cymunedau hefyd: 'Maen nhw'n gweld yn union sut mae [cyfieithu ar y pryd] yn gweithio yn fan'na [y sefydliadau] ac yn gweld fod o'n gweithio mor dda uwchben hefyd. Os na fysai fo'n gweithio uwchben, efallai na fysai fo'n cael gymaint o statws ag y mae o yn gymunedol.'[50]

Dengys Ffigwr 6.6 i atebion siaradwyr Cymraeg ddatgan bod cyfieithu yn ffordd o godi statws y Gymraeg o fewn eu grŵp:

**Ffigwr 6.6:**
**Sut mae cyfieithu ar y pryd wedi effeithio ar statws y Gymraeg yn eich grŵp?**




Nid oes digon o dystiolaeth i awgrymu bod cyfieithu yn codi statws yr iaith. Ar y naill law, ceir y sawl a ddywed fod cyfieithu yn sicrhau statws uwch i'r

[47] Cyf6/37.
[48] Cyf4/6.
[49] Cyf1/27.
[50] Cyf1/32.

Gymraeg yn y gymuned, a hyd yn oed bod defnyddio cyfieithu mewn cyfarfodydd yn dylanwadu ar y farn gyhoeddus gyffredinol ynglŷn â statws y Gymraeg. Ar y llaw arall, adrodda eraill eu bod yn gweld Cymry Cymraeg yn dal i beidio â siarad Cymraeg yn gyhoeddus oherwydd eu harfer o ystyried mai'r Saesneg yw'r unig iaith sydd â'r statws angenrheidiol i drafod materion cyhoeddus.

Rhaid cofio faint o amser a gymerodd i sefydlu statws uwch ar gyfer yr iaith mewn rhai rhannau o'r sector gyhoeddus, a bod cyfieithu yn bendant wedi chwarae rôl bwysig yn hyn. Gan dderbyn bod ffactorau eraill yn penderfynu lawn gymaint beth yw statws yr iaith ym marn y bobl, mae'n anochel y bydd cyfieithu yn gwneud ei farc yn y tymor hir.

### 6.5 A yw cyfieithu ar y pryd yn creu tensiynau ieithyddol?

Awgryma rhai o'r sylwadau a drafodwyd hyd yma nad oes cytuno bob amser rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg ynghylch rôl a phwrpas gwasanaeth cyfieithu. Rhaid cydnabod mor allweddol yw agweddau'r di-Gymraeg os bwriedir cynnal digwyddiadau yn Gymraeg. Mae'r agweddau hynny (boed yn agored neu'n gudd) yn lliwio ymddygiad ac agweddau'r siaradwyr Cymraeg, na fydd weithiau ond yn siarad Cymraeg os yw cefnogaeth y di-Gymraeg yn sicr. Tystiolaeth o densiynau rhwng siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg yw'r adran hon, ac er nad oes a wnelo'r sylwadau i gyd â chyfieithu yn uniongyrchol, credir eu bod yn esbonio'r awyrgylch cyffredinol sy'n bodoli mewn grwpiau, mudiadau neu sefydliadau pan ddaw cyfieithydd atynt.

Un rhan o'r broblem yw'r syniad bod siarad Cymraeg yng ngwydd y rhai di-Gymraeg yn anghwrtais, fel y mynega un cynghorydd plwyf: 'Y tueddiad ydy i droi i'r Saesneg, pan mae ganddon ni Saeson yna, a does ganddon ni ddim cyfieithydd. A'r teimlad ydy, dach chi'n anghwrtais os na wnewch chi, achos mae gynnon nhw gymaint o hawl i fod yn y cyfarfod â ninnau.'[51] Mae ymwybyddiaeth yma y gellir tanseilio'r arfer a'r dymuniad i siarad Cymraeg trwy gyfeirio at hawliau'r di-Gymraeg i fod yn rhan o ddigwyddiadau. Wrth gwrs, hoffai pawb fod yn gwrtais. Cadarnha ymgynghorydd iaith fod y farn honno yn un gyffredin: 'Mae

[51] Cyf3/24.

pobl yn ystyried hynny [siarad Cymraeg] yn hollol anghwrtais, yn *rude*.'[52] Cytuna Sais hefyd mai dyna farn y Cymry, gan ei hystyried yn iawn ei hun: 'Some of them said it's good manners. If there's an English person there, you speak English for them, to include them.'[53] Ond pwy a benderfyna beth sy'n gwrtais? Yn ôl un cyfwelai, mae 'cwrteisi ieithyddol yn golygu cowtowio i unrhyw un sy'n siaradwr yr iaith fwyafrifol'.[54]

A olyga hyn y byddai gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfod yn lleddfu tensiynau o'r fath? A yw darparu'r *cyfle* i siarad p'run bynnag o'r ddwy iaith yn argyhoeddi pobl fod gwir ddewis ganddynt? Ni chreda pawb fod yr agweddau yn newid yn sgil cyfieithu:

> Dw i ddim yn credu bod yr agweddau wedi newid o gwbl yn y Senedd ers cael cyfieithu. Mae 'na nawr siarad yn Gymraeg, hynny yw, mae 'na gyfieithu, ond […] pan mae'n dod lawr i'r *crunch*, felly, nid jest yn mynd trwy'r cofnodion, dydy hynna ddim yma ac acw a dweud y gwir.[55]

Felly, nid yw cyflwyno dadleuon a thrafod yn y Senedd yn digwydd yn Gymraeg. Dim ond siarad sy'n dilyn patrymau pendant a geir gyda chyfieithu, megis mynd trwy'r cofnodion, neu gyflwyno'r eitem nesaf ar yr agenda.

Mewn grŵp cymunedol lle cafwyd tensiynau eisoes rhwng Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg, gwelir cyfieithu wrth wraidd rhagor o densiwn: 'A dweud y gwir bron iawn […] dyna oedd y prif beth er nad oedd o ddim i lawr ar yr agenda. Oedd o'n codi ym mhob cyfarfod. Oedd y cynghorwyr yn codi'r peth ynglŷn â'r cyfieithu.'[56] Mae aelod o'r un grŵp yn esbonio sut y datblygodd y tensiwn hwn:

> Os oeddwn i isio pleidleisio ar rywbeth, byddwn i bob amser yn gofyn: 'Do you understand? I will repeat in English.' Achos oeddwn i'n teimlo os oedd o'n gorfod pleidleisio, oedd rhaid i rywun fod yn gwrtais. Os oedd 'na rywbeth oedd tipyn bach yn anodd iddo fo ddeall, fyddwn i yn ei ddweud o yn Saesneg. A mi ddothon ni drosto fo heb ddim problem o gwbl. Oedd 'na neb yn sôn ei fod o isio cyfieithu. Wedyn, fuodd o yn y Gadair, a ddaru ni lwyddo, oedd o'n gallu siarad yn Saesneg, oedden ni [yn siarad Cymraeg], oedd o'n deall ein Cymraeg. Ond pan gaethon ni un arall i mewn ar y Cyngor, er fod o'n Gymro, oedd 'na dipyn o gydweithio rhyngddyn nhw. Ac oedd 'na dipyn o ryw undercurrents yn dod trwodd. A mwyaf sydyn, mi oedd o isio bod pethau yn Saesneg. [Roedd o'n dweud] fod o ddim yn deall. Felly ddoth

[52] Cyf6/15.
[53] Cyf5/19.
[54] Cyf6/15.
[55] Cyf7/31.
[56] Cyf1/5.

> hi [y cyfieithydd] aton ni, a mi ddothon nhw â'r peth i fyny bod rhaid i ni fod yn ddemocrataidd. Oedd rhaid i ni gael cyfieithydd yna.[57]

Pan gynigiwyd i'r grŵp gael cyfieithydd llai ffurfiol, megis rhywun yn eistedd wrth ochr y Sais i sibrwd yn ei glust, 'mae o wedi gwrthod gwneud hyn. Doedd 'na neb yn ddigon da, neb yn gallu gwneud, a wedyn mae hi wedi mynd o ddrwg i waeth, bod rhaid i ni gael cyfieithydd yna.'[58] Mae'n amlwg mai dadl am briod iaith y grŵp yw'r ddadl am gyfieithu ar y pryd. Ni ellir ei datgysylltu oddi wrth drafodaeth ar hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol yr ardal dan sylw, a'r teimlad o fygythiad i'r diwylliant hwnnw.

Efallai bod yr enghraifft hon yn eithriadol, ond ceir teimlad mewn grwpiau eraill nad yw tensiynau rhwng siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn ddieithr iddynt: 'Roedd un o'r di-Gymraeg yn tueddu i gymryd yr holl gyfarfod drosodd,' meddai un,[59] ac un arall, 'Wyt ti yn cael y teimlad braidd efo fo fod o'n tueddu i gynllwynio i drio newid natur y cyfarfod. Swn i'n mynd mor bell â dweud weithiau mae o'n wên i gyd pan mae'r cyfarfod wedi troi'n Saesneg.'[60] Ceir yr argraff bod rhai yn ceisio Seisnigeiddio nid yn unig iaith y cyfarfod, ond natur y cyfarfod, a rôl unigolion o fewn y grŵp: 'A wyt ti'n gweld bod y Saeson yn tueddu i fod yn hapusach pan maen nhw'n arwain y drafodaeth.'[61] Argraff arall yw hyn, felly, mai cwestiwn o beth yw diwylliant y grŵp (a phwy sy'n dylanwadu arno) sydd dan sylw, nid y cyfrwng cyfathrebu yn unig.

Er gwaethaf y feirniadaeth lem, nid ar y di-Gymraeg y mae'r holl fai, ym marn un cyfwelai: 'Oherwydd bod y cynghorydd yma yn gynghorydd gwell ac wedi cyfrannu yn adeiladol tuag at waith y cyngor, mae 'na fwy o dueddiad rŵan i siarad Saesneg, does 'na ddim gymaint o wrthwynebiad iddo fo o ran siarad Saesneg hefo fo.'[62] Yn yr achos hwn, felly, siaredir mwy o Saesneg nag erioed er gwaethaf y gwasanaeth cyfieithu.

Ar y llaw arall, nid yw rhai aelodau di-Gymraeg yn meddwl am eu heffaith ar yr iaith leol ac ar gyfathrebu naturiol. Pan ofynnwyd i un ohonynt: 'Because they are aware that they make you listen through the earphones, do you think it may be a lot of effort for them to keep speaking Welsh?', ei ateb oedd, 'I've never really

[57] Cyf3/1-3.
[58] Cyf3/8.
[59] HWBcap4/1.
[60] Cyf1/12.
[61] Cyf1/17.
[62] Cyf1/14.

thought about it to tell you the truth'.[63] Nid oes angen chwilio'n bell am hanes tebyg: 'Oedd 'na ddynes yn y siop, a fo yn siarad Cymraeg efo rhywun, ac oedd hi'n dweud, you shouldn't be speaking Welsh when I'm in here.'[64] Teimla siaradwyr Cymraeg fod yna ddiffyg ewyllys i ddeall y bobl a'u hiaith. Honna un di-Gymraeg, er nad yw'n siarad Cymraeg llawer ei hun: 'I find the Welsh spoken in our area to be slovenly and little understandable compared with that taught in our classes.'[65] A chyfaddefa un arall, 'I felt that I was more part of it when they bowed down to me as an Englishman',[66] hynny yw, cyn i gyfieithu ganiatáu iddynt siarad gyda'i gilydd yn eu hiaith naturiol. Gellid tybio bod 'bod yn rhan' yn golygu 'bod yn rhan fwy amlwg', sef bod yn un o arweinwyr y grŵp, fel yr awgrymodd un o'r cyfieithwyr uchod.

Heb y straeon hyn a'r agweddau sydd gan y ddau grŵp iaith tuag at ei gilydd, ni fyddai'n bosibl deall pam na phryd y mae'r Cymry yn siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd. Ar ôl y drafodaeth uchod, haws yw deall y canlynol: 'Dw i'n amau eu bod nhw'n teimlo y bysan nhw'n colli parch y rhai di-Gymraeg os ydyn nhw'n siarad Cymraeg – oherwydd agweddau'r di-Gymraeg tuag at Gymry Cymraeg.'[67] Mewn achos fel hyn, ni allai presenoldeb cyfieithydd ei hun wneud fawr o wahaniaeth. Ond o ble tardda'r agweddau hyn?

> We in Britain, known to most people as England, are used to working in a monolingual society. And anybody who speaks a different language is a stranger. And we in Wales have a different view of that. But a number of our politicians are effectively English rather than British and Welsh.[68]

Mae'r agweddau at yr iaith yn mynd o'r diniwed i'r gwrth-Gymraeg. Cymerwch y sawl sydd heb feddwl am beth yw iaith leol y bobl pan nad yw ef yn bresennol: 'I never think about it to tell you the truth.'[69] Gwêl ef siarad Cymraeg yn eithriad: 'It's just the odd one or two persons that would virtually insist in their Welsh sort of thing.'[70] Tu ôl i hyn mae un agwedd bendant (er na ellir ei phrofi yn y sylw blaenorol):

---

[63] Cyf5/8.
[64] Cyf3/18.
[65] H6/14.
[66] Cyf5/2.
[67] Cyf2/10.
[68] Cyf4/55.
[69] Cyf5/23.
[70] Cyf5/1.

> Dim ond idiots a penboethiaid fel fi fyddai'n wneud o, a llond dwrn eithriadol a fyddai â digon o hunanhyder i wneud hynna yn ieithyddol. Wrth gwrs beth sy'n digwydd oherwydd y sefyllfa yna mae'r labeli yn cael eu defnyddio ar gyfer nhw, eu bod nhw'n eithafol neu eu bod nhw'n beth bynnag, mae'r labeli negyddol yna yn dod allan yn hawdd iawn.[71]

Mae agweddau mwy gwrth-Gymraeg a gelyniaethus ar gael hefyd: 'Welsh indigenous speakers have a hangup about using Welsh/English when there are non Welsh speakers in their group. The importance to them of the need to speak in Welsh clouds their ability to accept another point of view.'[72]

Cydnabyddir bod tensiynau yn dod i'r amlwg trwy gyfieithu a fyddai'n cael eu claddu pe na siaredid dim ond Saesneg. Dywed pennaeth sefydliad:

> Of course if I'm speaking through Welsh to a mixed audience as I do […] where some speak Welsh and some speak English, and I'm speaking through the medium of Welsh to a Welsh speaker, they're getting a very positive view of me. The English speaker is getting a big question mark. Is he pandering to the Welsh speakers, has he gone nationalist?[73]

Yn sicr, cyfyd cwestiynau gyda chyfieithu. Bwria un Sais ei fol am y digwyddiadau yn ei grŵp ers i gyfieithu ar y pryd ddod yn rhan ohonynt. 'I have received hate mail since translation was available,'[74] meddai; 'English is only used by Welsh speakers to criticize individuals directly.'[75] Gŵyr ef am gost cyfieithu: 'There is still hostility to my not speaking enough Welsh so that translation would not be needed and the cost of translation for me […] it is used as a political tool to get rid of me and keep out the people I represent.'[76]

Yn y grŵp hwn, ceir yr argraff y defnyddir cyfieithu fel symbol gwleidyddol o lwyddo neu fethu cadw'n uniaith Gymraeg, neu fel symbol i sefydlu statws arbennig y lleiafrif di-Gymraeg unwaith ac am byth. A phan ddywed y Sais a ddyfynnwyd o'r blaen, 'The Welsh speakers cannot say things that would lead to a recommendation to vote on something that cannot now be challenged (and recorded) without full proper democratic debate beforehand',[77] mae'n awgrymu ei fod yn amau gonestrwydd siaradwyr Cymraeg.

[71] Cyf6/11.
[72] H6/8.
[73] Cyf4/61.
[74] H6/9.
[75] H6/7.
[76] H6/5.
[77] H6/6.

I siaradwyr Cymraeg mewn sefyllfa Gymraeg fel hon, golyga cyfieithu fod y Saesneg yn dod i bob cwr o fywyd a oedd yn Gymraeg yn unig o'r blaen. Yn yr ardal dan sylw, mae'n bosibl mai un o'r grwpiau olaf i weithredu yn Gymraeg yn unig oedd y grŵp hwn. Daw cyfieithu, felly, â newid trawiadol dros nos. Eto, ymddengys sylwadau grwpiau o'r fath yn gymharol ddof, megis 'Un o'r di-Gymraeg yn rhedeg y sioe',[78] fel petaent yn derbyn y sefyllfa.

Ni fydd pawb yn fodlon siarad Cymraeg pan fydd cyfieithydd ar gael, meddai cyfieithydd. 'Mae 'na rai pobl yn gwrthymateb i unrhyw bwysau. Os ydy pobl yn trio pwyso arnyn nhw i ddefnyddio Cymraeg mewn cyfarfodydd, mae 'na rai yn protestio. Dydyn nhw ddim yn licio'r ffaith bod rhywun yn trio eu hannog nhw i siarad Cymraeg.'[79] Un rheswm yw bod cyfieithu yn dod â'r iaith i'r tu blaen, gan ei disodli fel cyfrwng diofyn a chodi amheuaeth am ei dilysrwydd. 'Mi fysai rhywun, ar ben dadlau gyda rhywun am beth bynnag ydy'r pwnc, mi fysat ti hefyd mewn ffordd yn trio gwneud rhyw bwynt ychwanegol, sef dangos bod hwn ddim yn deall yr un iaith â ti.'[80]

Nid hawdd yw datgan beth yw rôl cyfieithu pan mae tensiynau yn bodoli eisoes mewn grŵp neu gymuned. Ond ymddengys yn sicr y gall cyfieithu fod yn sbardun i'r tensiynau ddod i'r wyneb. Wrth sôn am fanteision ac anfanteision cyfieithu ar y pryd, siarada pobl hefyd am eu hagweddau a theimladau at ddiwylliant eu hardal, yr angen i warchod y diwylliant hwnnw a'u hofnau ynglŷn â chyflwr yr iaith yn lleol. Ond nid yw ceisio amlygu'r problemau hyn yn addo gwella'r sefyllfa bob tro. Trwy gyfieithu, clywir efallai fwy o Saesneg mewn trafodaethau achos ei fod yn denu mwy o'r di-Gymraeg at y grŵp. Gall fod yn faich ychwanegol, felly, i siaradwyr Cymraeg, hyd yn oed os ydynt yn defnyddio'r iaith Gymraeg.

Bron yn anochel gwelir cyfieithu fel arf gwleidyddol, a chadarnhau'r drafodaeth yn Rhan I uchod. Unwaith eto, ni fydd cyfieithu ei hun yn ddigon i ddod dros y tensiynau sydd eisoes yn amlwg. Ond gwelwyd hyn: petai cynllunio iaith yn cymryd mwy o sylw o botensial cyfieithu i ddylanwadu ar gyflwr meddwl pobl, gellid ei ddefnyddio â bwriad clir, ac efallai gellid dod â phobl ynghyd lle nad oes tensiynau, ond diffyg cyd-dynnu.

78 HWBcap5/2.
79 Cyf2/44.
80 Cyf7/10.

## 6.6 A all cyfieithu gynyddu parch a dealltwriaeth, a gwella cydweithio?

Dengys yr ymatebion i'r holiaduron hefyd y gwelir cyfieithu ar y pryd yn ddull i wella parch tuag at iaith a diwylliant Cymraeg. Gall cyfieithu gael dylanwad da ar y ffordd y mae grŵp yn gweithredu. Os mai un o amcanion cynllunio ieithyddol yw cryfhau parch tuag at siaradwyr Cymraeg a'u hiaith, yn sicr, mae cyfieithu yn ddull i gyrraedd y nod hwnnw, yn ôl nifer o'r cyfweleion.

'Teimlwn fod yr arbrawf wedi llwyddo i ddenu diddordeb y di-Gymraeg, a wedi cynnig cyfle i bawb gyfrannu. Yn sicr roedd yr adborth ymysg y di-Gymraeg yn galonogol iawn.'[81] Dyma eiriau arwyddocaol un o'r holiaduron. Teimla rhai ei fod yn wers i'r di-Gymraeg sydd 'wedi sylweddoli fwyfwy fod yr iaith Gymraeg yn iaith fyw a bod modd defnyddio offer cyfieithu i hwyluso trafodaeth yn ogystal â chynyddu hawliau siaradwyr Cymraeg'.[82] Sylweddolir hefyd fod grwpiau weithiau yn cadw rhag cyfieithu, gan boeni am ymateb y di-Gymraeg. Ac ar ôl ei brofi, dywedant 'fod y di-Gymraeg yn derbyn y sefyllfa (cyfieithydd) yn well nag a ofnir.'[83] Ond mae gan rai o'r di-Gymraeg agwedd ryfedd at ieithoedd o hyd, meddai Cyfwelai 4:

> Because we have a very odd attitude to language, the English speakers. And we're not just arrogant because we expect the whole world to speak English – and of course increasingly it does which lets us get away with it which is really unhelpful – but we're also terribly embarrassed.[84]

Ceisia rhai sydd wedi ymsefydlu mewn cymuned Gymraeg ddangos parch at yr iaith, weithiau heb ddeall yn llwyr: 'I'm in Wales, I should be able to speak Welsh, but on the other hand, all the Welsh can speak English, can't they?'[85]

Er gwaetha'r hen farn honno, teimla'r Cymry fod y di-Gymraeg yn fwy agored ers iddynt ddefnyddio cyfieithu, ac yn fwy bodlon derbyn iaith y gymuned. 'Mae'r ddau aelod Saesneg yn llai drwgdybus ohonom yn y trafodaethau.'[86] A yw'r sylw hwn yn adlewyrchu'r gred bod y Saeson yn ceisio rheoli pethau? Yn sicr mae yna farn y byddai aelodau di-Gymraeg y grŵp, heb gyfieithu, 'yn colli hyder

[81] HWB4/1.
[82] H22/3.
[83] H9/4.
[84] Cyf4/23.
[85] Cyf5/18.
[86] H27/3.

ynddom'.[87] Mae'r agwedd honno yn amlwg o safbwynt y di-Gymraeg hefyd, sy'n gweld y Cymry yn fwy agored: 'It has, to some extent, stopped the racialism emanating from some councillors.'[88]

Honna un cyfieithydd fod cyfieithu 'wedi arbed gwrthdaro rhwng y ddwy elfen ieithyddol'.[89] Mae'r sylw bron yn rhy syml. Efallai nad yw cyfieithu wedi newid agweddau nac ymddygiad y ddwy garfan, ond mae'r bobl yn fwy bodlon dod ynghyd. Ceir ambell ateb nawddoglyd: 'I have no problems with Welsh speakers. They know that I am English speaking and they try to help me with Welsh.'[90] Derbynnir y diwylliant Cymraeg hefyd: 'Contrary to some beliefs I feel the natural Welsh speakers are very tolerant, and they help us to understand local customs.'[91] Un o'r Cymry eu hunain sy'n dweud nad yw'r helpu hwn yn mynd yn ddigon pell pan ddywed, 'dw i ddim yn teimlo ein bod ni fel Cymry yn rhoi digon o help i'r Saeson sy'n dod i'n hardaloedd ni'.[92]

Ar y cyfan, fodd bynnag, ymddengys y Cymry yn fodlon cydnabod bod cyfieithu 'yn dangos parch i'r iaith Gymraeg gan adlewyrchu ein diwylliant'.[93] Mae'r cysylltiad hwn rhwng cyfieithu a pharch i'r iaith Gymraeg yn bwysig i'r siaradwyr Cymraeg: '[Mae] yn hyrwyddo y gymdeithas, ac yn ennyn diddordeb y di-Gymraeg, a hefyd eu parch.'[94]

Yn ogystal â pharch tuag at iaith a diwylliant lleol, gellid dadlau bod y trafodaethau yn well ers defnyddio cyfieithu. 'It is essential that non Welsh speakers know what Welsh speaking people say. Translation does this well.'[95] Dyna ddeall pwrpas cyfieithu: 'Instead of getting a general understanding of each person's contribution I now know complete conversations and points of view.'[96] A hefyd, 'I feel that the translations bring the community together facilitating understanding in both groups'.[97]

Nid yn unig mae cyfieithu ar y pryd, felly, yn cyflawni ei brif amcan, sef hwyluso trafodaethau a gweithgareddau, fel y byddid yn disgwyl iddo ei wneud

87 H27/6.
88 H6/4.
89 HWBcap15/1.
90 H1/2.
91 H1/3.
92 Cyf3/14.
93 H8/4.
94 H23/1.
95 H6/19.
96 H4/4.
97 H1/4.

ym mhob sefyllfa ddwyieithog neu amlieithog; mae hefyd yn ceisio hybu dealltwriaeth rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. Ac yn ôl y dystiolaeth a gawsom, mae'n llwyddo yn ei amcan, o leiaf i ryw raddau, o ddysgu parch tuag at y Gymraeg.

## 6.7 A oes rôl bontio i gyfieithwyr ar y pryd?

Ar ryw bwynt, rhaid edrych ar safle a statws y cyfieithwyr eu hunain. Yng nghyd-destun llawer o gyfieithu ar y pryd yn rhyngwladol, edrychir ar gyfieithwyr gydag amheuaeth, i ddweud y lleiaf, neu gyda chasineb agored, fel y tystia, er enghraifft, lofruddiaethau cyfieithwyr yn Irac. Canolbwyntia nifer fawr o astudiaethau ar *community interpreting* ar rôl y cyfieithydd yn y gwasanaeth iechyd, mewn llysoedd neu mewn gwasanaethau eraill. Yn aml, mae dryswch ynglŷn â'r rôl. Gwêl rhai y cyfieithydd fel asiant sy'n gweithio ar ran rhyw awdurdod. Meddylia eraill amdano fel un sy'n cynrychioli diddordebau'r sawl sy'n siarad iaith leiafrifol.

Yn sicr, nid yw cyfieithu yn digwydd mewn gwagle cymdeithasol, ac felly, ni all cyfieithydd osgoi chwarae rôl gymdeithasol o ryw fath.[98] Awgrymwyd bod cyfieithwyr yn tueddu i uniaethu â siaradwyr y brif iaith mewn sgwrs, yn enwedig pan fo'r gwahaniaeth grym rhwng siaradwyr y ddwy iaith yn fawr.[99] Gellid tybio, ar y llaw arall, bod cyfieithwyr Cymru yn cydymdeimlo â siaradwyr Cymraeg, gan eu bod yn rhannu profiadau'r lleiafrif ieithyddol. Ac er na ellir cyffredinoli ymagweddiad cyfieithwyr, gall hynny greu amheuaeth ymhlith siaradwyr y brif iaith.

Wrth gyfieithu rhwng iaith leiafrifol a phrif iaith, rhaid derbyn y gall y berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg (neu rhwng cynrychiolwyr y sefydliadau ac aelodau cyffredin y gymuned) fod yn fregus. Tasg anodd yw hon i gyfieithwyr, fel y nododd Jan Cambridge yn ei waith ar gyfieithu mewn gwasanaethau cyhoeddus: '[Public service interpreters] cope on a routine basis

---

[98] Gweler, e.e., Cecilia Wadensjö, *Interpreting as Interaction* (Llundain, 1998); Sandra Hale, 'Controversies over the role of the court interpreter', yn *Crossing Borders in Community Interpreting: Definitions and dilemmas,* gol. Carmen Valero-Garcés ac Anne Martin (Amsterdam, 2008); Claudia Angelelli, 'The role of the interpreter in the healthcare setting: A plea for a dialogue between research and practice', yn *Crossing Borders in Community Interpreting: Definitions and dilemmas,* gol. Carmen Valero-Garcés ac Anne Martin (Amsterdam, 2008).

[99] Bruce Anderson, 'Perspectives on the Role of Interpreter', yn *Translation: Applications and Research,* gol. Richard Brislin (Efrog Newydd, 1976), t. 213. Dyfynnir gan Mason, *Dialogue Interpreting*, t. 154.

with emotionally charged atmospheres and emotional language.'[100] Wrth reswm, rhaid atal y syniad mai cyfieithu yw'r cwbl sydd ei angen i annog pobl i siarad Cymraeg. Pwysig yw'r defnydd llafar o'r Gymraeg, a dylid ceisio darparu cyfieithu mewn modd sy'n hybu hyn yn y tymor hir.

Erys y cwestiwn a ellid *defnyddio* cyfieithu a chyfieithwyr yn bwrpasol i hybu'r ddealltwriaeth rhwng siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Gwelwyd uchod fod presenoldeb cyfieithydd yn hwyluso rhai agweddau ar gyfarfodydd. Ond a ellir disgwyl i gyfieithwyr fynd ati i geisio hyrwyddo'r defnydd o'r iaith a chydweithio?

Nid yw'r agweddau ar y mater hwn yn unfryd chwaith. Gwelir ar y naill law fod pontio rhwng siaradwyr dwy iaith trwy gyfieithydd yn bosibl achos 'mae'r ddwy ochr yn dy weld di'n aml iawn fel ffrind'.[101] Mae rhai cyfieithwyr yn ceisio dylanwadu ar y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Dywed un: 'Mi wna i ddefnyddio'm sefyllfa i drio dylanwadu ar y rhai sy ddim yn siarad Cymraeg. Nid yn unig i drio cael nhw i ddysgu Cymraeg.'[102] Ond nid pob cyfieithydd sy'n gwneud hyn, fel y clywodd un ohonynt gan unigolyn di-Gymraeg:

> Wnaeth o ddweud, […] 'dw i'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus i siarad am y peth efo chdi achos dw i'n meddwl fod ti'n berson fwy agored o lawer. Dw i ddim yn meddwl fod ti'n edrych i lawr arna fi. Achos dw i wedi cael yr agwedd yna gan lawer o gyfieithwyr yn y gorffennol bod nhw'n edrych arna i fatha bod fi'n israddol oherwydd mod i ddim yn siarad Cymraeg.' […] Mae 'na rôl pontio yna yn bendant [i gyfieithydd] achos mae 'na rai yn tueddu i godi gwrychyn y Saeson hefyd iddyn nhw fynd yn gwbl groes.[103]

Ar y llaw arall, ceisia ambell gyfieithydd ddylanwadu ar y Cymry i siarad Cymraeg pan gânt gyfle. Adrodda un am ei gydweithiwr:

> Dw i'n meddwl bod [cyfieithydd arall] wedi cael dipyn o brofiad felly. Mae o'n un i fynd ati i drio annog [siarad Cymraeg], a mae o wedi cael ymateb gwrthwynebus gan rai sydd yn siarad Saesneg, gan Gymry Cymraeg sy ddim yn arfer siarad Cymraeg yn ffurfiol mewn cyfarfod ac sydd yn gyndyn i newid eu harferion. Maen nhw'n digio pan maen nhw'n teimlo bod 'na bwysau yn cael ei roi.[104]

---

[100] Jan Cambridge, 'Public Service Interpreting: Practice and Scope for Research', yn *Translation Research and Interpreting Research: Traditions, Gaps and Synergies*, gol. Christina Schäffner (Clevedon, 2004), t. 49.
[101] Cyf1/41.
[102] Cyf1/39.
[103] Cyf1/42.
[104] Cyf2/44.

Mae un arall yn adrodd am brofiadau tebyg:

> Weithiau wyt ti'n cael sylwadau gan bobl ar ddiwedd cyfarfod, ac maen nhw'n sylwadau digon pwysig. Mae 'na rai yn dweud bod nhw'n ddigalon oherwydd bod y cyfarfod yn tueddu i newid i Saesneg, a wedyn fydda i'n dweud wrthyn nhw, 'ia ond dach chi'n sylweddoli, os nad ydach chi'n [siarad Cymraeg], os nad ydy pobl fatha chi yn dod yma i siarad Cymraeg, pwy ddoith yn eich lle chi?' A wedyn maen nhw'n mynd, 'o ia, ti'n iawn. Rhaid i ni gadw'r peth i fynd.'[105]

Teimlir, yn fwy mewn sefydliadau efallai, fod person y cyfieithydd yn allweddol wrth wneud cysylltiadau, ac wrth gyfryngu rhwng gweithwyr eraill. Er enghraifft, mae ganddynt rôl wrth ddysgu i'r Cymry fod yn amyneddgar gyda dysgwyr:

> Mae 'na gymaint o waith ar adegau, efo ambell i beth dydyn nhw ddim wastad yn dod trwy'n hadran ni [yr adran gyfieithu], a wedyn maen nhw'n mynd drwodd [i'r pwyllgorau heb eu cywiro]. A wedyn ddaru fi egluro i'r aelod yna iddo fo plîs beidio wneud i'r person yna deimlo'n annifyr oherwydd fod o wedi sgwennu'r adroddiad yna yn Gymraeg yn wreiddiol ei hun. Ond fi oedd yn dweud hynna yn hytrach na'r person ei hun achos fysai'r person ei hun ddim isio cyfaddef mai nhw wnaeth sgwennu fo'n Gymraeg. A wedyn mae o wedi dallt a mae'n gwbl gefnogol ac mae o wrth ei fodd rŵan bod 'na rai yn sgwennu eu hadroddiadau yn Gymraeg a chael yr hyder i wneud hynny.[106]

Adlewyrchir y rôl hon yn y ffaith fod cyfieithwyr yn aml yn swyddogion iaith hefyd.

Cawn farn arall mai nid ar gyfieithu y dylem ganolbwyntio, ond ar geisio cynyddu'r defnydd naturiol o'r Gymraeg mewn gweithgareddau, i ysgogi'r di-Gymraeg i gymryd rhan ym mywyd eu cymunedau trwy gyfrwng y Gymraeg. Disgrifia ymgynghorydd iaith, er enghraifft, yr hyn y mae Cered, Menter Iaith Ceredigion, yn ei wneud i hybu'r Gymraeg fel iaith naturiol:

> Dan ni wedi bod yn rhoi rhywfaint o hyfforddiant i beth dan ni'n galw sylwebwyr cymunedol, a peidio defnyddio'r term cyfieithwyr ar y pryd, cadw hwnna i bobl sydd yn gwneud hynny'n broffesiynol a llawn hyder beth bynnag ac sy'n gwneud o mewn sefyllfaoedd ffurfiol cyhoeddus. Ond yn nhermau cynllunio ieithyddol mae angen cael defnydd o'r Gymraeg, cynyddu'r defnydd Cymraeg, mewn sefyllfaoedd cyhoeddus cymunedol iawn, yn eich neuadd bentref, yn eich cyngor cymuned, hyd yn oed mewn

[105] Cyf1/40.
[106] Cyf1/43.

> digwyddiadau adloniadol lleol, mewn cyngherddau neu nosweithiau llawen neu dramáu neu noson gweud jôcs neu beth bynnag sydd yna, a dweud dyw cyfieithwyr ar y pryd efo'u paraphernalia i gyd ddim yn addas ar gyfer y sefyllfaoedd yna yn y lle cyntaf, dydy o jest ddim yn addas, a beth mae Cered wedi bod yn ei wneud ydy trio hyfforddi sylwebwyr cymunedol, jest pobl lleol sydd yn eu pentref ac yn eu hardal, jest bod gynnon nhw ddigon o hyder, weithiau i ddefnyddio offer o bosib os yw'n addas i wneud hynny, neu fallai jest eistedd ochr yn ochr gyda rhywun, ac esbonio beth sy'n digwydd. Dim o bosib bob amser cyfieithu air am air yr hyn sy'n cael ei ddweud ond jest bod yna i sylwebu mewn ffordd, esbonio bod rhywun newydd gweud jôc am wylan oedd yn ddoniol iawn. Fedrwch chi ddim cyfieithu jôcs na cherddi ac englynion neu rhyw bethau yna, felly jest bod yna i hwyluso fel bod y person yna yn teimlo yn rhan o'r digwyddiad, felly mae hwn yn un opsiwn arall.[107]

Efallai bod y sylwadau hyn yn dangos mai mewn sefydliadau y mae'r potensial mwyaf i gyfieithwyr weithredu fel cenhadwyr, gan ei bod yn bosibl creu perthynas barhaol gydag aelodau eraill y gweithlu. Bydd angen meddwl ymhellach pa mor addas yw disgwyl i gyfieithwyr mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol adeiladu pontydd a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yno. Edrychwn ar ddylanwad cyfieithu ar yr awydd i ddysgu Cymraeg cyn dod at y bennod nesaf.

### 6.8 A yw cyfieithu ar y pryd yn anogaeth i ddysgu Cymraeg?

Os oes lle i gyfieithwyr bontio rhwng siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg, yn sicr mae ceisio annog dysgu Cymraeg yn bwysig. Dim ond wrth ddysgu Cymraeg y gellir dod yn rhan gyflawn o gymuned Gymraeg. Ond mae dau safbwynt ynglŷn â gallu cyfieithu i wneud hynny. Ymddengys nad yw cynllunwyr iaith yn cytuno gyda barn llawer o'r grwpiau yng Ngwynedd sydd wedi profi cyfieithu ar y pryd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Un ochr i'r ddadl yw bod cyfieithu, trwy wneud y Gymraeg yn fwy amlwg, yn anogaeth i ddysgu'r iaith. Dywed rhywun di-Gymraeg: 'I think it stimulates interest in the language and the desire to learn it.'[108] Ceir yr un farn gan siaradwyr Cymraeg: 'Mae hefyd yn rhoi anogaeth i ddysgwyr gan ddangos i'r di-Gymraeg bod y Gymraeg yn iaith fyw a gweithredol.'[109]

---

[107] Cyf6/23-25.
[108] H2/3.
[109] H8/7.

Yr ail safbwynt yw na all cyfieithu wneud hynny. Dyma farn Sais: 'Discourages understanding of Welsh.'[110] Nid yw'n glir beth a olyga'r sylw hwn, gan nad yw'r atebydd yn deall Cymraeg heb gyfieithu chwaith! Gwelir y di-Gymraeg yn 'parhau'n amharod i gefnogi dosbarthiadau dysgu'r Gymraeg!'[111] Mae rhai o'r di-Gymraeg yn cyfaddef hynny:

> They couldn't speak English very well, but in all fairness to them, they always made the effort. And now, you know, all for them if they want to speak their Welsh, as long as they don't expect me to, but you know I'm all for it really and truly, and I know it's their language.[112]

Honna un arall ei fod wedi ceisio: 'It is difficult […] speaking Welsh at a standard acceptable to Welsh speakers.'[113] Ond dywed un o'r cyfweleion i'r gwrthwyneb: 'As you know people in Wales are very forgiving about our massacre of their own language, they are so pleased to hear somebody talking it.'[114]

Gwêl un cynghorydd cymuned fai ar y Cymry am beidio â siarad Cymraeg gyda'r di-Gymraeg: 'Ond i ni roi mwy o help iddyn nhw, maen nhw'n fwy awyddus i berffeithio fo.'[115] Ar y cyfan, crisiala llawer o'r atebion y farn y gall cyfieithu ysgogi pobl i ddysgu Cymraeg, megis y sylw hwn: 'Mae rhai o'r bobol Saesneg wedyn yn penderfynu dysgu siarad Cymraeg.'[116] Ni phrofodd neb hynny trwy ddangos pwy yn eu grwpiau oedd wedi mynd ati i ddysgu Cymraeg ar ôl derbyn gwasanaeth cyfieithu. Hyd yn oed os yw hyn yn digwydd, ni ellir bod yn sicr mai cyfieithu sy'n gyfrifol am y dymuniad i ddysgu Cymraeg. Mae'r ymgynghorydd iaith yn amau hyn yn gryf:

> Swn i ddim yn meddwl fod o'n cael fawr o effaith naill ffordd na'r llall a dweud y gwir. Achos mae'r achosion neu'r achlysuron lle mae rhywun mewn cyfarfodydd dwyieithog mor eithriadol o brin dw i ddim yn credu y byddai fo'n cael dylanwad ar benderfyniadau ynglŷn â ydy rhywun yn dysgu iaith neu beidio.[117]

Yn sicr mae cyfleoedd i fynychu cyfarfodydd dwyieithog yn dibynnu ar yr ardal. Yng Ngwynedd, gall rhywun ddod i gysylltiad gweddol reolaidd â chyfieithu

[110] H3/5.
[111] H17/3.
[112] Cyf5/20.
[113] H6/11.
[114] Cyf4/19.
[115] Cyf3/17.
[116] H27/8.
[117] Cyf6/1.

mewn cyfarfod. Fodd bynnag, yn ei dyb ef, nid cyfarfodydd gwaith sy'n ysgogi rhywun i ddysgu Cymraeg. 'Yn aml iawn mae'r ysgogiad yn dod oddi allan i'r gwaith hefyd, prin iawn yw'r achosion lle mae'r pwysau a'r hinsawdd mewnol yn ysgogi pobl i ddysgu; cymryd y cyfle mae pobl yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd.'[118] Ond mae'n cyfaddef fod eithriadau i hynny hefyd, 'eithriadau lle mae 'na bwysau mewnol o ran diwylliant mewnol y sefydliad yn annog pobl i wneud dewisiadau cynnar o ran dysgu iaith'.[119]

Ond mae'n bwysig meddwl am lefel y gallu iaith sydd ei angen i gymryd rhan, fel dysgwr, mewn trafodaeth arbenigol. 'Mae rhaid i chi ystyried i ba lefel mae rhaid i rywun ddysgu cyn fod o'n gallu cyfrannu i bwyllgor.'[120] Ategir hyn gan y farn bod siaradwyr Saesneg yn anhapus pan na chânt siarad yn hollol rugl:

> I found as an English speaker coming to Wales, that there is no embarrassment factor around Welsh. Because Welsh is a very variable language you can speak it as you want, your accent doesn't matter, nobody cares. But in English, particularly in England, there's a thing about speaking properly. And if you don't speak properly, you get criticised.[121]

Efallai nad yw dysgwyr, felly, yn fodlon cyfrannu cyn eu hystyried eu hunain yn rhugl.

Yn hynny o beth, dengys adran B yr holiaduron H fod pob un o'r atebwyr di-Gymraeg yn ei ystyried ei hun yn ddysgwr Cymraeg. Nododd un ei fod yn ysgrifennu, un ei fod yn siarad, a thri eu bod yn deall Cymrag llafar. Ymysg siaradwyr Cymraeg, roedd gallu'r iaith yn amrywio i'r fath raddau nad oedd pawb yn teimlo eu bod yn meddu ar y pedwar gallu ieithyddol, sef deall, siarad, darllen ac ysgrifennu. Er enghraifft, nid oedd nifer sylweddol ohonynt yn ystyried eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg.

Yn hytrach na chyfarfodydd dwyieithog yn y gweithle, meddai'r ymgynghorydd iaith, mae'r anogaeth fwyaf i ddysgu iaith yn dod o'r awydd i berthyn i gymuned:

> Mae penderfyniadau ynglŷn â dysgu iaith yn dipyn mwy eang na hynny, mae nhw ynglŷn â rhyw ymdeimlad o angen uniaethu gyda iaith a diwylliant, ynglŷn ag elfennau o hunaniaeth, ynglŷn â materion teuluol a pherthnasau

---


[118] Cyf6/6.
[119] Cyf6/5.
[120] Cyf6/2.
[121] Cyf4/24, 25.

> teuluol, ynglŷn â chwarae rôl mewn cymuned, cymuned ddaearyddol neu gymuned ieithyddol, chwilfrydedd deallusol, her ddeallusol…[122]

Ond ni waeth beth ddywed cynllunwyr iaith am y defnydd o gyfieithu wrth annog dysgu Cymraeg, yn sicr ym marn aelodau o grwpiau cymunedol Gwynedd, nid yn unig gall annog dysgu, mae'n 'annog pobl i gymhathu a dysgu'r iaith.'[123] Rhaid peidio â diystyried barn cymaint o bobl sydd wedi profi cyfieithu yn eu grwpiau. Yn hytrach, dylid eu hannog i drafod cyfieithu o fewn cynllunio ieithyddol.

## 6.9 Casgliadau

Trwy'r drafodaeth uchod daw yn amlwg nad oes modd profi rôl gadarnhaol cyfieithu ar y pryd wrth newid agweddau tuag at yr iaith. Wrth holi'r ymatebwyr am hynny, fodd bynnag, teimlir bod y di-Gymraeg, yn enwedig, yn argyhoeddedig o botensial cyfieithu i newid agweddau tuag at iaith.





O astudio Ffigyrau 6.7 a 6.8, mae gwahaniaeth rhwng canfyddiad siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg o allu cyfieithu i newid agweddau'r naill grŵp a'r llall. Cred y di-Gymraeg yn gryf fod cyfieithu wedi gwella eu hagweddau nhw at y Gymraeg (80%), ac agweddau'r siaradwyr Cymraeg at eu hiaith eu hunain yn ogystal (50%). Mae'r gred hon ar gael ymysg y Cymry Cymraeg hefyd, ond nid yw cymaint ohonynt yn meddwl bod yr agweddau 'wedi gwella llawer'. Yn

[122] Cyf6/4.
[123] H7/1.

ogystal, ceir ymateb gan 5% o siaradwyr Cymraeg bod agweddau'r di-Gymraeg wedi dirywio.

Er bod yr atebion hyn ar y cyfan yn gadarnhaol, ymddengys nad yw siaradwyr Cymraeg lawn mor sicr am gyfraniad cyfieithu ar y pryd wrth wella agweddau tuag at y Gymraeg.




Y mae 'agweddau tuag at iaith' yn ymadrodd rhy amwys efallai. Dichon mai dyma'r rheswm pam nad oedd canfyddiadau'r arolwg a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith am ddylanwad cyfieithu ar agweddau yn foddhaol. Yn yr arolwg gwelwyd bod gwahaniaeth rhwng teimlad yr atebwyr (Cymraeg yn unig) o newid yn eu hagweddau eu hunain trwy gyfieithu ar y naill law, a newid agweddau yn gyffredinol ar y llall. Mae ymchwil y traethawd hwn yn cynnwys barn y di-Gymraeg ar y mater hefyd, yn ogystal â barn siaradwyr Cymraeg ar agweddau'r di-Gymraeg. O rannu 'agweddau' yn sawl is-adran, ceir darlun manylach o effaith cyfieithu mewn cyfarfodydd a'i effaith ar feddwl pobl.

Yn un peth, mae'n amlwg bod cyfieithu yn ddull poblogaidd gan grwpiau yng Ngwynedd i geisio cadw cyfarfodydd yn fwy Cymraeg ac i fynnu'r hawl i siarad iaith y fro.

Serch hynny, nid yw pawb yn deall ar gyfer pwy y darperir y gwasanaeth. Byddai cyflwyno rôl a modd gweithredu'r gwasanaeth cyfieithu i grwpiau a phwyllgorau yn ateb gweddol syml a rhad i sicrhau bod pawb yn gwybod sut mae cyfieithu ar y pryd yn gweithio, a pham y'i darperir. Gallai hyn wedyn ateb sawl ansicrwydd arall.

Teimlai'r rhai sydd fwyaf o blaid defnyddio cyfieithu ei fod yn bendant yn gwella statws y Gymraeg, dwyieithrwydd mewn grŵp, parch a dealltwriaeth rhwng siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Dengys rhai grwpiau Cymraeg eu dealltwriaeth o bwrpas cyfieithu gan ofyn amdano dim ond pan mae rhywun di-Gymraeg yn dod atynt. Ar y llaw arall, mae rhai o'r grwpiau cymysg yn gwrthod derbyn gwasanaeth cyfieithu rheolaidd, er y byddai hyn yn gallu gwella cydweithio a thrafodaeth y grŵp.

Gwêl eraill nad oes gan gyfieithu y gallu i newid agweddau os na newidia ffactorau eraill yn gyntaf. Dull arwynebol i hyrwyddo'r Gymraeg yw cyfieithu yn eu barn hwy, gan nad yw ond yn para dros dro, a heb fynd at wraidd problemau cymdeithasol-ieithyddol. Mae cyfieithu mewn cyfarfodydd yn dangos ardal neu fudiad yn ddwyieithog, ffaith galonogol o edrych o safbwynt ardal lle mae'r Saesneg yn gryf. Ond mae'n dangos hefyd fod newid demograffaidd yn effeithio'n negyddol ar y defnydd naturiol o'r Gymraeg yn y cadarnleoedd.

Efallai bod cyfieithu hefyd yn fodd i gadw tensiynau ieithyddol dan reolaeth mewn cymunedau Cymraeg lle y dônt i'r wyneb gryfaf. Neu, mewn sefyllfa eithriadol fel y gwelwyd, yn arf ieithyddol-wleidyddol i gadw dau grŵp iaith ar wahân.

Er nad yw'r cysylltiad rhwng cyfieithu a chydraddoldeb a statws yr iaith yn glir i rai o'r di-Gymraeg, mae dealltwriaeth ymhlith y cyfweleion a'r ymatebwyr i'r holiaduron fod a wnelo'r ddau beth â'i gilydd. A dyna pam, efallai, fod rôl cyfieithwyr yn fwy addawol wrth newid agweddau mewn sefydliadau lle gallant weithio o fewn fframwaith o hybu'r iaith. Ond yr her fwyaf fyddai annog y di-Gymraeg i ddymuno perthyn i'r gymuned ac i ddysgu'r iaith yn sgil hynny. Bydd yn anodd asesu gwir botensial cyfieithu heb drafod, yn gyntaf, yr hyn a olygir wrth 'gymuned Gymraeg'. Bydd y bennod nesaf yn ceisio taflu goleuni ar hanfod diwylliant a hunaniaeth cymunedau Cymraeg ac yn gofyn a yw'r di-Gymraeg yn dymuno perthyn i'r cymunedau hynny.

# 7 Cyfieithu ar y pryd a hunaniaeth y cymunedau Cymraeg

Y fro Gymraeg yw un o'r cysyniadau sy'n cael ei drafod fwyaf ymysg cynllunwyr iaith ac ymgyrchwyr iaith yng Nghymru, fel y gwelsom ym Mhennod 4. Nid yn unig yr iaith, ond y diwylliant a fynegir trwy'r iaith, sy'n cael sylw'r sawl sydd am weld mwy o ymdrech i gadw'r Gymraeg yn gryf yn y cymunedau. Gwelwyd ym Mhennod 3 drafodaethau ar theori ieithyddol yr ugeinfed ganrif, sy'n dadlau bod iaith a hunaniaeth ddiwylliannol ynghlwm (er bod newid a datblygu yn bosibl). Mewn cymdeithas sy'n fwyfwy dwyieithog, a lle profir newid demograffaidd-ieithyddol ar gyflymdra cynyddol, rhaid wrth sylfaen ddiwylliannol gadarn i osgoi chwalfa'r diwylliant Cymraeg.

Wrth i lywodraeth y Cynulliad neu awdurdodau lleol fynd ati i geisio cynnal a hybu'r cymunedau Cymraeg yn economaidd, mae cynlluniau ar y gweill hefyd yn lleol (megis ymgyrchoedd y Mentrau Iaith) i annog y di-Gymraeg i gymryd diddordeb yn niwylliant eu hardaloedd.

Beth yw rôl cyfieithu ar y pryd yn hyn o beth? Dywed Umberto Eco: 'If there is something to be interpreted, the interpretation must speak of something which must be found somewhere, and in some way, respected.'[1] Os oes rhywbeth yn niwylliant y cymunedau Cymraeg sy'n anweledig i'r rhan ddi-Gymraeg o'r boblogaeth (chwedl Gareth Ioan), gall cyfieithu, o'i ddefnyddio yn ofalus ac nid fel ateb 'one-size fits-all', ganfod ac amlygu hunaniaeth y cymunedau hynny.

Bydd y bennod hon yn trafod potensial cyfieithu ar y pryd i hybu diwylliant yr ardaloedd Cymraeg. Y bwriad yw canfod ei rôl wrth gefnogi neu ysgogi pobl i siarad eu hiaith naturiol. Holwyd hefyd am ddilysrwydd cyfieithu ar y pryd wrth hysbysebu a lledaenu'r iaith fel rhan annatod o'r diwylliant Cymraeg. Bydd y bennod hon yn ymdrin ag agweddau ar y cwestiwn o hunaniaeth ddiwylliannol a phwysigrwydd siarad yr iaith er mwyn bod yn rhan o'r diwylliant hwnnw.

[1] Umberto Eco, 'Interpreting and History', yn *Interpretation and Overinterpretation*, gol. S. Collin (Caergrawnt: University Press, 1992), t. 43. Dyfynnir gan Carmen África Vidal Claramonte, '(Mis)Translating Degree Zero', tt. 86-87.

## 7.1 A all cyfieithu ar y pryd gynnal iaith y mwyafrif?

Y diffiniad o'r fro Gymraeg a drafodwyd ym Mhennod 4 yw ardal lle mae'r mwyafrif o drigolion yn siarad Cymraeg. Mewn sefyllfaoedd cymysg eu hiaith, chwilir am ddulliau i ganiatáu i siaradwyr Cymraeg barhau i siarad eu hiaith er mwyn atal i iaith lleiafrif bach o drigolion lywodraethu dros iaith y mwyafrif. Yn aml pan nad oes cyfieithydd mewn cyfarfod neu ddigwyddiad, siaredir Saesneg er mwyn i bawb allu dilyn yr hyn sy'n mynd ymlaen. Holir yn y fan hon a all cyfieithu ar y pryd atal y Gymraeg rhag dirywio fel iaith bob dydd y mwyafrif o'i defnyddio yn gyson mewn ystod o gyfarfodydd ac achlysuron.

Yn ôl pob golwg, derbynia'r rhai a gyfrannodd i'r ymchwil mai Cymraeg yw iaith y mwyafrif o fewn eu grŵp, ac mai dyna un o'r rhesymau pennaf iddynt gyflogi cyfieithydd. Cawn atebion gan siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg i'r perwyl hwnnw. Meddai un cyfwelai o grŵp cymunedol, 'achos dan ni yn y mwyafrif yna, a dan ni yn y pentref yn fan hyn, […] mae'n bwysig ein bod ni'n cadw'r Gymraeg'.[2] Pan holwyd pam y penderfynwyd defnyddio cyfieithu, atebodd un o'r di-Gymraeg, 'Welsh speaking predominant in area'.[3] Ymddengys, er gwaethaf rhai o'r agweddau a drafodwyd yn y bennod flaenorol, fod pawb wedi derbyn iaith y mwyafrif: 'Forums in Gwynedd need to be carried out through the medium of Welsh as the majority are Welsh speaking.'[4]

Wrth i sylwadau'r holiaduron, megis 'council needs to be representative of community',[5] ddatgan mai dim ond gyda chyfieithu y gall cyngor cymuned fod yn deg i bawb, dysgwn fod llawer yn gweld cyfieithu yn ffordd hwylus i gynnal iaith y mwyafrif, sef Cymraeg. Mewn un man, disgrifir cyfarfodydd â mwyafrif o Gymry Cymraeg ond heb gyfieithu fel 'sefyllfa wirion – dwsin o Gymry Cymraeg i gyd yn siarad yn Saesneg oherwydd dau neu dri di-Gymraeg'.[6] Atega rhywun arall nad yw'n deg bod iaith un neu ddau weithiau yn gorfodi'r mwyafrif i siarad iaith estron gyda'i gilydd: 'Byddai'r cyfarfod yn sicr wedi troi'n gyfarfod uniaith Saesneg oni bai am y gwasanaeth cyfieithu'.[7] Ac er eu bod mewn mwyafrif, ni ellir cymryd yn ganiataol bod siaradwyr Cymraeg *yn* siarad Cymraeg pan mae cyfieithydd ar gael, meddai un o'r cyfweleion: 'Mae'n gweithio lle mae gen ti

[2] Cyf3/5.
[3] H3/1.
[4] H5/3.
[5] H3/2.
[6] H29/1.
[7] HWB6/1.

fwyafrif llethol o Gymry Cymraeg erbyn hyn, er dim mor hir yn ôl petai un person yn ddi-Gymraeg, mi fysai pawb wedi newid i'r Saesneg.'[8] Er yr ymddengys o drafodaeth Pennod 6 fod y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn gofyn am wella statws a sefyllfa'r Gymraeg, nid oes argyhoeddiad o werth yr iaith gan bawb.

Gan edrych ar y ffigyrau a gasglwyd o'r holiaduron, sylweddolir bod carfannau ieithyddol y cyfarfodydd lle defnyddir cyfieithu fel arfer o gwmpas 2:1 o siaradwyr Cymraeg a siaradwyr di-Gymraeg. Dim ond mewn pedwar o'r ugain o holiaduron HWB (20%) y cofnodir bod mwy o ddi-Gymraeg nag o siaradwyr Cymraeg yn y cyfarfod. Eto, prydera un cyfieithydd fod y mwyafrif Cymraeg hwnnw yn angenrheidiol cyn i bobl fodloni i siarad Cymraeg. Heb fwyafrif o siaradwyr Cymraeg, hyd yn oed os yw'r cyfieithydd yno i sicrhau'r cyfle a'r hawl i siarad Cymraeg, gall cyfarfodydd yr un grŵp edrych yn bur wahanol o un achlysur i'r llall:

> Ar wahân i gynghorau lle mae 'na fwyafrif llethol o Gymry Cymraeg beth bynnag. Mae'r rheiny yn tueddu siarad Cymraeg drwy'r amser. Mewn sefyllfa lle mae 'na ddim ond lleiafrif sy'n barod i siarad Cymraeg yn gyhoeddus, mi wneith hi amrywio lot yn ôl faint o'r rheiny sy'n bresennol ar y noson, yn y cyfarfod.[9]

Dibynna hyn i raddau helaeth ar y teimlad bod angen siaradwyr Cymraeg eraill i gefnogi ei gilydd: 'Os ydyn nhw'n teimlo bod 'na rai eraill fath â nhw yn bresennol, fedran nhw gynnal eu breichiau nhw yn seicolegol. Mae'n anodd iawn bod [yr unig] un sy'n siarad Cymraeg mewn cyfarfod.'[10]

Er enghraifft, sonnir am Gyngor Conwy lle mae mwy o siaradwyr Cymraeg yn awr nag oedd o'r blaen. 'Mae pobl yn dweud wrthyf fi fod 'na fwy o Gymraeg yn y siambr yng Nghonwy nag oedd yn arfer bod. Mae'r arfer wedi datblygu. Ond eto mae'n fater o *critical mass*, faint o Gymry Cymraeg sy 'na.'[11] Synia cyfieithydd arall fod gobaith i un Gymraes siarad mwy o Gymraeg yn y dyfodol wrth i Gymry eraill gyda mwy o brofiad o gyfieithu ar y pryd ddod i gyfarfodydd y grŵp: 'Efallai bydd mwy o gymhelliant iddi newid iaith pan fydd rhagor o Gymry eraill yno yn dangos y gwasanaeth ar waith'.[12]

---

[8] Cyf7/49.
[9] Cyf2/2.
[10] Cyf2/25.
[11] Cyf2/24.
[12] HWBcap11/2.

Dengys hyn yn glir y teimlad y dylid siarad iaith mwyafrif trigolion yr ardal, hyd yn oed os gallant siarad Saesneg. Er mai dyna'r farn am y sefyllfa ddelfrydol, nid dyna sy'n digwydd yn ymarferol pan mae nifer bach o bobl ddi-Gymraeg yn bresennol. Gwelir cyfieithu fel ffordd i sicrhau'r arfer o siarad Cymraeg ar achlysur o'r fath.

Fodd bynnag, pan mae mwy o rai di-Gymraeg nag o Gymry Cymraeg mewn cyfarfod neu ddigwyddiad, ni welir cyfieithu yn gweithio cystal. Anos yw annog ychydig o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu hiaith os yw'r mwyafrif yn siarad Saesneg yn unig. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dymuno siarad yn uniongyrchol gydag eraill (e.e. trwy gyswllt llygaid), ac os nad yw hyn yn bosibl yn Gymraeg ond gyda lleiafrif y rhai presennol, siaredir Saesneg yn aml. Ond o ran cyfarfodydd lle mae'r siaradwyr Cymraeg mewn mwyafrif, ymddengys y gall cyfieithu atal pobl rhag troi i'r Saesneg yn wyneb lleiafrif di-Gymraeg, a'u hannog i barhau yn eu hiaith arferol.

### 7.2 A all cyfieithu ar y pryd hybu'r iaith leol naturiol?

Ynghlwm wrth y cwestiwn blaenorol y mae'r nesaf, sef: a yw cyfieithu ar y pryd yn sicrhau bod y Gymraeg, mewn sefyllfaoedd penodol, yn parhau fel iaith naturiol y gymuned? Trafodwyd syniadau Fishman am bwysigrwydd parhad yr iaith leiafrifol ar lefel y gymuned. Cofier hefyd ddadl Jacques Maurais sy'n argyhoeddedig bod ardal, maes neu grŵp uniaith yn dda i iaith leiafrifol, a dylid caniatáu lleoedd i siarad yr iaith leiafrifol heb i'r brif iaith amharu arni.

Soniwyd yn Rhan I uchod fod grwpiau sy'n dymuno amlygu'r iaith Gymraeg fel rhan o hunaniaeth eu cymuned yn defnyddio cyfieithu ar y pryd. Ond a yw cyfieithu yn ddull addas i greu cyfle i siarad Cymraeg heb rwystr? Hola'r ymchwil am farn y grwpiau ynghylch gallu cyfieithu i hybu'r iaith fel iaith y gymuned.

Teimla rhai o'r atebwyr fod 'mwy o Gymraeg yn cael ei siarad'[13] gyda chyfieithu, gan fod yr 'iaith Gymraeg ym mywyd bob dydd yn gwanhau'.[14] Awgryma hyn fod mwy o Gymraeg i'w chlywed ers pan ddarperir cyfieithu ar y pryd yn y cymunedau hynny. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i ardaloedd sy'n gynyddol ddwyieithog, neu mewn geiriau eraill, lle mae canran y trigolion di-

[13] HWB9/1.
[14] H27/4.

Gymraeg yn tyfu. 'Mae'r gwasanaeth cyfieithu'n rhoi cyfle i'r Gymraeg gael parhau'n iaith y gymuned lle y bo sefyllfa gymysg o ran iaith.'[15] Mae cryn boeni am effaith y newid demograffaidd ar yr iaith: 'Yr wyf yn credu ei bod yn hanfodol bwysig i ni, fel brodorion yr ardal, yn cael siarad a thrafod popeth yn ein hiaith Gymraeg, i geisio cadw'r iaith yn fyw.'[16]

Gall cyfieithu fod yn ffordd i leddfu'r pryderon hyn gan yr un pryd roi cyfle i'r di-Gymraeg gymryd rhan mewn cyfarfodydd cymunedol. Mae'n 'hwyluso'r drafodaeth i bob un yn ei ddewis iaith a gwarchod yr iaith Gymraeg fel iaith y gellir ei defnyddio ar gyfer unrhyw achlysur boed ffurfiol neu anffurfiol'.[17] Nid yn unig pwysleisir yma hawl yr unigolyn i siarad ei ddewis iaith, ond 'mae hefyd yn sicrhau fod iaith naturiol cyfarfodydd yn yr ardal yn parhau i fod yn Gymraeg'.[18]

Pwysleisia rhai o'r atebion fod cyfieithu wedi gwella'r ddealltwriaeth am yr iaith ymysg y rhai di-Gymraeg sydd 'wedi sylweddoli fwyfwy fod yr iaith Gymraeg yn iaith fyw'.[19] Weithiau gall hyn arwain at gyfarfodydd mwy dwyieithog gyda phawb yn dangos mwy o barch at ei gilydd: 'Os oedden nhw'n siarad Saesneg, oedden nhw'n gwneud, oedd rhai Cymraeg yn rhoi eu hadroddiad yn Gymraeg, oedd o'n dwad yn hollol naturiol.'[20] Nid oes rhaid poeni am ddim, meddai un, mae cyfieithu yn 'dangos mai'r Gymraeg yw'r iaith weithredol yn aml yn y gymuned leol a bod modd gwneud hynny'n hyderus.'[21]

Ar brydiau, fodd bynnag, rhaid bod yn gadarn i gael pawb i dderbyn yr egwyddor hon: 'Dw i wedi llwyddo i ddweud, mae'r cyfarfod yn Gymraeg, mae'r pwyllgor yn Gymraeg, a pwy bynnag dach chi'n enwi, mae rhaid iddyn nhw allu dilyn y Gymraeg, dan ni ddim yn troi.'[22] Yn yr achos hwn, mae yna deimlad mor gryf bod y diwylliant Cymraeg yn hanfodol i'r grŵp, nad ystyriwyd cyfieithu hyd yn oed. Wrth ddechrau defnyddio gwasanaeth cyfieithu, mae'r hawl i'r grŵp fod yn grŵp Cymraeg yn hollbwysig i Gymry Cymraeg. Gwelwyd eisoes ym Mhennod 6 (Ffigwr 6.5) fod 95% o atebwyr Cymraeg yn ystyried hyn yn bwysig iawn (ond llai na hanner yr atebwyr di-Gymraeg a deimlodd hyn yr un mor gryf).

---

[15] H21/4.
[16] H27/1.
[17] H18/5.
[18] H22/1.
[19] H22/3.
[20] Cyf3/28.
[21] H8/5.
[22] Cyf3/12.

Arwydd o lwyddiant cyfieithu, o bosibl, yw pan fo'n anweledig, fel petai. Bydd hyn yn rhoi teimlad o gyfarfod cwbl naturiol heb i neb feddwl am yr iaith: 'Ddaru ni ddim teimlo o gwbl fod 'na gyfieithydd yna, pan oedd y ddadl, a phan oedd o'n mynd yn agored.'[23] Atega rhywun arall y defnyddir cyfieithu er mwyn cadw at arferion cyfathrebu, 'er mwyn sicrhau bod y siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg yn ôl eu harfer, a bod y siaradwyr di-Gymraeg sydd heb fynd ati i ddysgu iaith yr ardal yn cyfrannu heb beri i iaith y cyfarfod newid yn gyfan gwbl (i'r Saesneg) er eu mwyn nhw.'[24] Fel rheol, felly, gwelir cyfieithu yn fanteisiol

> er mwyn i ni allu cadw'n iaith. Achos dydy o ddim yn effeithio arnon ni fel Cymry, ond yn galluogi i ni gael Saeson yn dod i mewn aton ni pan mae gynnon ni gyfarfodydd Cymraeg. Achos y tueddiad ydy i troi i'r Saesneg, pan mae ganddon ni Saeson yna, a does ganddon ni ddim cyfieithydd.[25]


I grwpiau neu ardaloedd mwy Cymraeg, 'byddai trafodaethau mewnol [heb gyfieithu] yn parhau yn Gymraeg, ond byddai trafodaethau mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn troi i'r Saesneg os byddai mynychwyr di-Gymraeg yn rhan o'r drafodaeth'.[26] Mae cyfieithu, felly, yn agor cyfarfodydd a digwyddiadau i gynnwys trigolion di-Gymraeg heb newid arferion y fro: 'Mae'n gam ymlaen sy'n sicrhau defnydd o'r Gymraeg ac yn galluogi di-Gymraeg i fod yn rhan naturiol o'r grŵp trafod.'[27]

Mae cyfieithu yn caniatáu i bawb siarad fel y mynnant, ac mae'n un cam yn y broses o wneud i frodorion yr ardaloedd Cymraeg ymarfer eu hiaith mewn sefyllfaoedd na fyddent ers talwm wedi siarad Cymraeg ynddynt. Meddai un cynghorydd cymuned:

> Mae pobl bysai ers talwm yn bendant wedi dweud, 'for our English friends we will speak English', mae'r rheiny i gyd yn siarad Cymraeg yn y cyngor, ac mae'r cyngor yn gweithio. Os oes rhaid troi i'r Saesneg, dan ni'n troi i'r Saesneg a wedyn troi'n ôl i'r Gymraeg. Sydd i mi'n profi bod y peth yn gweithio. Dydy bobl ddim yn teimlo bod rhaid iddyn nhw siarad Cymraeg, ond maen nhw'n dewis siarad Cymraeg achos dyna'r peth mwyaf hwylus.[28]

[23] Cyf3/26.
[24] H21/1.
[25] Cyf3/23.
[26] H22/6.
[27] H17/2.
[28] Cyf7/50.

Nid oes arwydd bod grwpiau Cymraeg yn dymuno aros yn Gymraeg er mwyn cadw iddynt eu hunain, eithr dymunant fod yn Gymraeg oherwydd mai hynny yw eu hiaith a'u hunaniaeth.




Mae cyflogi cyfieithydd i lawer yn 'ddatganiad bod y gymuned yn gymuned Gymraeg', fel y dywedir yng nghwestiwn C5. Mae hyn yn 'bwysig iawn' i 86% o siaradwyr Cymraeg ac i 50% o atebwyr di-Gymraeg (Ffigwr 7.1). Mae bwlch sylweddol rhwng teimladau'r siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg am ddiwylliant a phriod iaith yr ardal, ac o gyfuno 'pwysig iawn' a 'phwysig', mae'r agendor yn dal yn amlwg: teimla 75% o'r di-Gymraeg a atebodd y cwestiwn hwn fod gwneud datganiad fel hyn yn 'bwysig' neu yn 'bwysig iawn', ond 95% o siaradwyr Cymraeg. Er gwaetha'r sampl bychan, gall y ffigyrau hyn awgrymu (ac nid yw hyn yn annisgwyl) fod bywyd Cymraeg y gymuned yn llawer pwysicach i'r siaradwyr Cymraeg nag ydyw i'r di-Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu. Mae'r atebion hyn yn cyfateb i'r canfyddiad yn y bennod flaenorol bod mwy o'r di-Gymraeg yn gweld gweithredu *dwy*ieithog yn bwysig.

Yn nhyb un cyfieithydd, mae siarad yr iaith yn naturiol mewn sefyllfaoedd cymunedol yn bwysig i gymell yr un arfer mewn sefyllfaoedd eraill yn nes

ymlaen. Byddai Fishman yn cytuno pan ddywed, 'os na fysai fo'n digwydd yn gymunedol, fysai fo ddim yn dod yn naturiol mewn pwyllgorau chwaith wedyn.'[29]

At ei gilydd, y teimlad cyffredin yw bod cyfieithu yn darparu cyfleoedd lle y gall pobl deimlo'n gyfforddus wrth siarad eu hiaith arferol. Dichon bod hyn yn arbennig o bwysig ar achlysuron cymunedol lle mae eisiau ymlacio a bod yn naturiol gyda'i gilydd. Efallai nad yw'r di-Gymraeg yn sylweddoli'n llwyr pa mor bwysig yw'r iaith i ddiwylliant a hunaniaeth leol, neu ni fyddai'r bwlch rhwng atebion y siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg am bwysigrwydd cymunedau Cymraeg mor syfrdanol.

Gellir dweud bod yr iaith mewn sefyllfaoedd ffurfiol yn dylanwadu ar *statws* yr iaith yn y cymunedau. Mae'r bobl sy'n arfer siarad mwy o Gymraeg yn eu gwaith yn adlewyrchu'r statws sydd gan yr iaith yno yn sefyllfa lai ffurfiol eu cymuned. Maent wedi meithrin yr agwedd gadarnhaol hon yn aml trwy gael gwasanaeth cyfieithu yn rheolaidd yn eu sefydliadau. Er enghraifft, dywedodd rhywun yn un o gyfarfodydd y Bwrdd Iechyd Lleol y byddai llai o Gymraeg nag arfer y diwrnod hwnnw achos nad oedd swyddogion Cyngor Gwynedd yno.[30] A chaniatáu amser, gallai'r agweddau hyn gael eu cario o'r sefydliadau i'r gymuned hefyd.

Ar y llaw arall, mae'r cymunedau Cymraeg a'u harfer o siarad Cymraeg mewn ffordd ffwrdd-â-hi (heb boeni am gywirdeb iaith, na statws na geirfa, ond am mai hynny yw'r unig beth naturiol i'w wneud) yn cael effaith ar sefyllfaoedd mwy swyddogol. Y bobl a fydd yn siarad yn *naturiol* fel hyn yw'r rhai a fydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith mewn sefyllfa fwy ffurfiol, megis cyfarfodydd gwaith neu bwyllgorau.

Ymddengys fod cyfieithu o gymorth wrth sefydlu y Gymraeg o'r newydd fel iaith naturiol mewn rhai sefyllfaoedd mwy ffurfiol, tra mae'n help wrth gadw'r iaith mewn sefyllfaoedd eraill. Mae'n rhoi cyfle i bobl siarad Cymraeg heb rwystr. Ond erys pryder am y cyfleoedd hynny, gan eu bod yn sefyllfaoedd wedi eu creu. Anodd yw gwybod a fydd rhaid parhau â chyfieithu am byth, ynteu a oes gwir botensial gan gyfieithu i gryfhau sefyllfa'r iaith, gan felly wneud ei bodolaeth ei hun yn llai angenrheidiol.

---

[29] Cyf1/33.
[30] Arsylwi cyfarfod 1.


## 7.3 Beth yw dylanwad cyfieithu ar y pryd ar natur cyfarfodydd?

Ar ôl gweld pwysigrwydd mwyafrifoedd lleol i ddyfodol iaith leiafrifol, rhaid ystyried pa mor allweddol yw digwyddiadau ac achlysuron lle nid yn unig y rhoddir cyfle i siarad Cymraeg, ond lle mae siarad Cymraeg yn arfer. Eto, mae'r pwyslais ar y fro Gymraeg i allu meithrin yr arfer hwn mewn ardaloedd eraill hefyd. Pan welir bwriad y Mentrau Iaith i sbarduno cymeriad cymdeithasol-ieithyddol eu cymunedau wrth ddefnyddio cyfieithu, daw elfen heblaw iaith gyfathrebu i'r fantol.

Y mae iaith yn cario arferion cymdeithasol mwy cymhleth, megis y ffordd y mae'r bobl yn siarad gyda'i gilydd, neu'r pynciau y maent yn sgwrsio amdanynt. Trwy'r arferion a'r traddodiadau hynny, mae trigolion cymuned yn perthyn i'w gilydd mewn modd arbennig. Bydd yr adran hon yn trafod a yw cyfieithu yn dylanwadu ar natur ddiwylliannol cyfarfod.

Y sylwadau mwyaf amlwg ynghylch y cwestiwn hwn yw rhai megis 'mwy cartrefol'[31] neu 'byddai natur y cyfarfod yn anorfod yn cael ei newid yn gyfan gwbl'.[32] Awgrymant fod cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cymysg eu hiaith yn cynnal natur Gymraeg y gymuned. Gall hyd yn oed greu naws arbennig, fel y deallwn o'r sylw nesaf: 'Deallaf i Home-Start gael ei ganmol am naws Gymraeg y lansiad.'[33] Atgyfnerthir y teimlad hwnnw gan yr atebion i gwestiwn C8 (Ffigwr 7.2).

**Ffigwr 7.2: Sut effeithiodd y gwasanaeth cyfieithu ar naws eich cyfarfodydd?**




[31] HWB8/1.
[32] HWB1/2.
[33] HWBcap8/1.

Noda 75% o'r atebwyr di-Gymraeg a 45% o'r siaradwyr Cymraeg fod naws eu cyfarfodydd 'wedi gwella' neu 'wedi gwella llawer' ers iddynt ddefnyddio cyfieithydd. Ond i leiafrif arwyddocaol o 15% o siaradwyr Cymraeg, mae natur eu cyfarfodydd wedi dirywio.

Dichon bod y teimlad o ddirywiad yn naws y cyfarfodydd yn dibynnu ar y sefyllfa cyn dechrau gwasanaeth cyfieithu. Tra mae rhai yn teimlo y gallant siarad Cymraeg am y tro cyntaf, bydd eraill yn colli'r agosatrwydd arferol yn eu cyfarfodydd ers cyfieithu.

Mynega llawer o'r ymatebwyr eu teimlad bod cyfarfodydd heb Gymraeg o gwbl yn annaturiol a chwithig. Mae hyd yn oed y di-Gymraeg yn sylweddoli hyn gan nodi beth fyddai'n digwydd heb gyfieithu: 'Barriers would come down, meetings would be longer, people would become frustrated, there wouldn't be a natural flow to the meetings.'[34]

Ceisia rhai grwpiau gadw eu gweithgareddau yn Gymraeg, ond unwaith y daw rhywun di-Gymraeg atynt, gall tensiwn godi, yn enwedig pan ddymuna hwnnw dderbyn swyddogaeth o fewn y grŵp. Meddai un cyfieithydd: 'A wedyn aeth o i'r Gadair, ac roedd y cynghorwyr eraill yn wirioneddol yn gwrthwynebu'r ffaith fod o am dderbyn mynd i'r Gadair a fyntau ddim yn siarad Cymraeg.'[35] Ond er y gall cyfieithu leddfu'r tensiynau mewn grŵp rhywfaint, caiff siaradwyr Cymraeg hi'n anodd ar adegau i ddiosg eu harfer o siarad Saesneg ym mhresenoldeb rhywun di-Gymraeg:

> Mae o'n un o'r bobl yma sy'n medru arwain mewn cyfarfod ac oherwydd ei fod o o natur a phersonoliaeth fel yna, achos bod o'n dod mor naturiol i'r Cymry ein bod ni'n siarad y ddwy iaith, maen nhw'n newid i'r Saesneg mewn trafodaeth yn hytrach na chanolbwyntio a chario ymlaen yn Gymraeg.[36]

Gall unigolyn gyda pharch a rôl arbennig o fewn grŵp ddylanwadu ar natur y cyfarfod; dychwelir at hyn ym Mhennod 10.

Canmolir cyfieithu am fod yn 'anweledig' ac felly am beidio â newid natur y cyfarfod: 'Doedd y cyfieithydd ddim yn amharu dim ar lif y cyfarfod – roedd y gwasanaeth yn un gwirioneddol ardderchog.'[37] Ac eto, mae hyn yn wir yn

[34] H4/5.
[35] Cyf1/2.
[36] Cyf1/15.
[37] HWB6/2.

enwedig mewn cyfarfodydd â mwyafrif llethol o Gymry Cymraeg mewn ardal neu gymuned lle mae'r diwylliant Cymraeg yn gryf beth bynnag:

> Mewn cadarnle Cymraeg fel y Blaenau mae'r cyfieithu – dydyn nhw prin yn sylwi arna chdi beth bynnag achos Cymraeg sy'n mynd i gael ei siarad. Ac mae'r Saeson yn y lleiafrif o lawer iawn. A does 'na ddim llawer o gyfraniad yn dod gynnon nhw chwaith.[38]

Mewn rhai cyd-destunau, fodd bynnag, byddai rhaid *creu* natur arbennig o Gymraeg i'r cyfarfod cyn i gyfieithu allu llwyddo. Cyfyd y pwynt hwn, er enghraifft, mewn dadl academaidd:

> Ac os nad oes 'na gyd-destun dadlau ffurfiol yn Gymraeg, mae'n amhosibl i wneud o mewn cyd-destun dwyieithog. Mae'n ddigon anodd yn Gymraeg, ond os ydy o wedyn, ar ben popeth arall, yn gosod y fath o broblemau o'n i'n trafod, dyma lle wyt ti'n rhoi haen arall lawr rhyngot ti a'r person arall wyt ti'n dadlau â nhw.[39]

Hynny yw, os nad oes traddodiad o ddadlau mewn maes arbennig (er enghraifft academaidd) yn Gymraeg, mae dadlau yn ddwyieithog (sef gyda chyfieithu) yn y maes hwn hyd yn oed yn anos. Y teimlad yw y byddai siarad Cymraeg yn gosod yr iaith fel dadl o flaen y ddadl y bwriedir ei chynnal am bwnc arall. A heb fynd ati i newid y sefyllfa, bydd y traddodiad o drafod yn Saesneg yn parhau. Y cwestiwn yma yw: a fydd rhaid newid natur cyfarfod cyn i gyfieithu ar y pryd lwyddo, ynteu a all cyfieithu ar y pryd ei hun newid natur y cyfarfod? Mae'n siŵr bod y ddau beth yn mynd law yn llaw.

Daw'r drafodaeth hon yn ôl i'r pwynt sylfaenol fod ardaloedd Cymraeg yn hanfodol i gyfieithu gael yr effaith a ddymunir. Wrth gwrs ei bod hi'n haws mewn grwpiau mwy Cymraeg i gyfieithu gynorthwyo cynnal gweithgareddau yn y modd arferol. Cafwyd enghraifft uchod o gyfarfod y newidiwyd ei naws trwy gyfieithu, sef lansiad Home-Start Bangor lle nad oedd cyflwyniadau Cymraeg ond yn bosibl oherwydd cyfieithu. Mwynhaodd mynychwyr y cyfarfod weld y mudiad ar ei newydd wedd. A phwyllgorau Home-Start, gyda chyfieithu yn digwydd dros gyfnod estynedig, oedd wedi arwain at y penderfyniad i gynnal y lansiad cyhoeddus yn ddwyieithog hefyd. Yn hynny o beth, ymddengys i'r canfyddiadau

[38] Cyf1/37.
[39] Cyf7/37.

ategu arolwg Bwrdd yr Iaith, sef y gall gwasanaeth cyfieithu arwain at fwy o ddarpariaeth Gymraeg o unrhyw fath.

Afraid dweud bod hyn yn anos pan fo llai o siaradwyr Cymraeg mewn grŵp, ond rhydd enghraifft Home-Start obaith ei bod yn bosibl. Mewn cyfarfodydd cymunedol (ac mewn sefydliadau), gall cyfieithu ar y pryd, yn yr un modd, sicrhau naws Gymraeg os teimla'r grŵp na fyddai'n gallu gwneud hynny hebddo.

## 7.4 Ym mha ffordd mae mynegi'n haws gyda chyfieithu ar y pryd?

Er bod y drafodaeth am gyfieithu yn y llysoedd ar ddechrau'r traethawd yn awgrymu bod presenoldeb cyfieithydd yn gallu rhoi'r tyst neu'r cyhuddedig dan fwy o straen, mewn sefyllfaoedd eraill gall ei gwneud hi'n haws i bobl fynegi eu hunain. Yn yr ardaloedd Cymraeg, lle mae llawer o'r trigolion yn cymdeithasu ac yn gweithio yn Gymraeg, gall pobl ei chael hi'n anodd i fod lawn mor huawdl yn Saesneg. Mae'r adran hon yn dystiolaeth bod pobl yn gwerthfawrogi cyfieithu, gan y gallant fynegi'n union yr hyn y dymunant ei ddweud, heb boeni am eu defnydd o eiriau neu gywair, neu deimlo'n lletchwith yn eu hail iaith.

'Mae'n haws i ni fel siaradwyr Cymraeg drafod pethau.'[40] Un ymhlith sylwadau digon tebyg gan nifer o atebwyr yw'r dyfyniad hwn, ac ychwanega un arall, 'byddai llawer o'r Cymry yn ei chael yn anodd mynegi eu hunain mor rhwydd'.[41] Ac nid mater o allu deallusol mo hyn. Sylwebwyd mewn cyfarfod o Senedd y Brifysgol pan ddywedodd y cadeirydd, 'they were much more … di-flewyn ar dafod…,' gan fethu ffeindio'r geiriau Saesneg, nes i'r cyfieithydd gamu i mewn, 'blunt, Mr Chairman.'[42]

Wrth gwrs, mae cyfieithu yn caniatáu i'r siaradwyr di-Gymraeg gyfrannu yn Saesneg, ond bydd rhai siaradwyr Cymraeg yn teimlo ei fod yn eu helpu hwythau hefyd gan eu bod dan anfantais mewn trafodaeth lle na chânt siarad Cymraeg: 'Gall Cymry a'r di-Gymraeg gyfrannu'n llawn i drafodaeth heb i Gymry fod dan anfantais o orfod mynegi eu hunain yn eu hiaith wannaf.'[43] Fel y dyfynnwyd gan gyfieithydd yn y bennod flaenorol, mae Saesneg llawer Cymro yn 'reit garbwl', ac mae'r bobl yn ymwybodol o hyn. 'Oedd ganddon ni gyfieithydd yna, oedd o'n braf

[40] H27/2.
[41] HWB1/1.
[42] Arsylwi Cyfarfod 4.
[43] H18/1.

bod ni'n gallu cadw a chynnal ein cyfarfod [yn Gymraeg], achos mae 'na amryw o Gymro, mae well gynnon nhw siarad yn y Gymraeg o lawer.'[44]

Gall tensiwn ieithyddol godi o fewn yr unigolyn, hyd yn oed, fel awgryma'r ganlynol: 'Dywedodd yr Ysgrifenyddes ei bod hi'n fwy cyfforddus yn siarad Cymraeg ei hun, er y byddai cofnodi'r cyfarfod yn haws iddi tasai'r cyfan yn Saesneg.'[45] Nid peth hawdd yw newid rhwng dwy iaith yn gyson, yn enwedig wrth gofnodi.

Un anhawster mewn cyfarfodydd dwyieithog yw pan fo'r cyfarfod llawn yn defnyddio cyfieithu, ond y grwpiau yn trafod hebddo. Siomedig oedd un pan

> fuodd rhaid i ni droi i'r Saesneg. Ac oeddwn i'n teimlo, oedden ni'n trafod ysbyty Blaenau, gwahanol bethau, ac oedd o gymaint mwy pendant pe bysan ni wedi cael wneud o trwy'r iaith Gymraeg. Mae'n anodd i drafod yn Saesneg, er bod pawb yn siarad Saesneg, ond dydi o ddim yn dod drosodd.[46]

Yn ogystal â'r teimlad personol o fethu siarad cystal yn Saesneg, felly, ychwanegir yma'r agwedd nad yw'r drafodaeth yn cyrraedd yr un safon â phetai yn Gymraeg. Mae pwysau a straen ar bobl sy'n gorfod siarad Saesneg, a hefyd ar rediad y cyfarfod. Dywed un nad oes 'dim pwysau i ailddweud bob dim'[47] pan mae cyfieithydd yno, ac mae aelodau di-Gymraeg o'r grwpiau yn sylweddoli hyn hefyd: '[Welsh speakers] are happier to give their opinions in their first language, rather than bilingual or just English.'[48]

Codwyd rhan helaeth o'r dystiolaeth hon o gyfarfodydd mewn cymunedau Cymraeg, ac mae'n anochel bod mwy o bobl sy'n teimlo'n anghyfforddus wrth siarad Saesneg yn yr ardaloedd hynny. Ond ni chyfyngir y teimlad hwn yn gyfan gwbl i'r sawl sy'n gallu byw y rhan fwyaf o'u bywydau yn Gymraeg. Gwelir hyn o'r enghraifft uchod o gadeirydd Senedd y Brifysgol sy'n rhugl mewn cyweiriau ffurfiol ac anffurfiol, sy'n gweithio i raddau helaeth trwy'r Saesneg, ac eto sy'n cael eiliad o fethu cael gafael ar y gair Saesneg.

Yn sicr, bydd rhai'n teimlo'n fwy anghyfforddus na'i gilydd mewn sefyllfa gyffelyb, ond gellir dychmygu rhyddhad wrth gael cyfieithydd yno a gwybod nad oes rhaid chwilio am eiriau. Unwaith y mae siaradwyr Cymraeg wedi derbyn

[44] Cyf3/21.
[45] HWBcap13/2.
[46] Cyf3/27.
[47] HWB8/2.
[48] H11/1.

sefyllfa o gynnal cyfarfod gyda chyfieithydd ac yn siarad Cymraeg, nid oes amheuaeth eu bod yn eu mynegi eu hunain yn rhwyddach.

## 7.5 A all cyfieithu ar y pryd gyfrannu at hybu'r diwylliant Cymraeg?

Ynghlwm wrth ymdriniaeth adran 7.3 a holodd a all cyfieithu helpu i gynnal natur Gymraeg cyfarfodydd, ceisia'r adran hon ganfod a ellir, gyda chyfieithu ar y pryd, fynd ati i *hybu'r* diwylliant lleol. Cyflwynwyd, yn y rhan gyntaf, ddadleuon ynghylch potensial cyfieithu masnachol, technegol a gweinyddol (yn ogystal â llenyddiaeth) i hybu diwylliant.

Nid yn unig y cedwir y diwylliant yn unigryw pan gynhelir digwyddiadau gyda chyfieithu (er mwyn i'r di-Gymraeg gymryd rhan). Trwy gynnig mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg, hybir y gymdeithas a'r economi leol gan annog pobl i gyfrannu i drafodaethau o bob math ac i aros yn eu hardaloedd. Felly, mae cyfieithu yn ddolen bwysig yn yr amcan o ddangos i ddinasyddion Cymraeg Cymru nad oes rhaid dewis rhwng bywyd diwylliannol a chymdeithasol Cymraeg ar y naill law, a ffyniant cymdeithasol ac ariannol ar y llaw arall. Fel y gwelwyd eisoes yn Rhan I uchod o ddadl Ian Mason a Mona Baker am *positioning*, gall cyfieithu ar y pryd ail-leoli siaradwyr dau grŵp ieithyddol. Gall eu hail-leoli mewn perthynas â'r rhai eraill mewn grŵp, a newid deinameg cyfarfodydd a datblygiadau cymunedol.

Mewn ardaloedd lle gwelir y gymuned a'r diwylliant yn aml yn bwysicach na llwyddiant yr unigolyn, holir yn awr beth yw canfyddiad pobl o allu cyfieithu ar y pryd i hybu nodweddion unigryw y diwylliant Cymraeg.

Mae un o'r cyfweleion yn mynnu mai trwy 'gael cyfieithydd i'n cyfarfodydd, dan ni'n mynd i roi tipyn o gefndir Cymreig iddyn nhw'.[49] Os na wneir hynny, bydd perygl i'r diwylliant ymdoddi i ddiwylliant y mwyafrif. 'Mae 'na rym anhygoel. Y peryg yw eu bod nhw'n creu rhyw fonolith diwylliannol, fonolith unffurf.'[50] Ond cydnabyddir bod rhaid cefnogi'r di-Gymraeg i ddysgu am y diwylliant: 'Allan nhw ddim heb ein help ni. A dw i'n teimlo bod ni ar ei hôl hi, ac wrth iddyn nhw ddwad fel yna i'r cartref, adeg hynny dach chi'n gallu rhoi yn

[49] Cyf3/22.
[50] Cyf6/38.

anuniongyrchol tipyn o ddiwylliant, tipyn o gefndir, ein cefndir ni, iddyn nhw.'[51] Rhaid, felly, bod yn fodlon cynnwys y newydd-ddyfodiaid yng ngweithgareddau'r gymuned, a hyd yn oed eu gwahodd i'r cartref. Ond rhaid ar yr un pryd fod yn gadarn, meddai'r un cyfwelai:

> Mae gynnon ni is-bwyllgor cerdd a drama, maen nhw wedi trio enwi Saeson i ddod atyn nhw. Dw i yna yn sefyll: Dydy Saeson ddim yn gwybod beth ydy cerdd dant. Fedran nhw ddim ein helpu ni efo Eisteddfod, i ddethol adroddiadau a caneuon a phethau felly, a hyd yn hyn dw i wedi llwyddo i allu cadw'r pwyllgor cerdd a drama yn Gymraeg. Achos mae o mor bwysig. Mae o'n arbennig o bwysig i allu cadw'n diwylliant.[52]

Mae un arall yn cyd-weld gan ddweud, 'mae'n bwysig bod nhw'n deall y diwylliant Cymraeg ac hefyd bod yr iaith yn fyw yn yr ardal.'[53] O safbwynt siaradwyr Saesneg, ymddengys fod cyfieithu yn llwyddo i gyrraedd yr amcan hwn: 'I heard a simultaneous translation of a Welsh poet (Twm Morys). The translator was able to keep up and express the feeling of the Welsh original that gave meaning and feeling to what I was hearing.'[54]

Cofier nad yw'r diwylliant Cymraeg yn unffurf chwaith, ac efallai bod effaith cyfieithu yn wahanol o ardal i ardal:

> Beth fysai'n ddiddorol gweld, a oes 'na amrywiaeth mewn agweddau ac arferion o ardal i ardal. Achos mae seicoleg dw i'n amau yn wahanol yng Ngwynedd i beth fyddai ef yn Ceredigion, ac yn wahanol yn Sir Benfro, ac yn wahanol yn Sir Gaerfyrddin ac yn wahanol ym Mhowys. […] ac mae o'n deillio o gefndir hanesyddol y llefydd hynny.[55]

Y cyfieithwyr eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i arsylwi ar ddiwylliant ieithyddol gwahanol grwpiau ac ardaloedd. Hyd yn oed pan fo cefndir diwylliannol rhywun yn awgrymu y bydd yn siarad Cymraeg lle bynnag y bo, nid yw hynny o reidrwydd yn digwydd:

> Ewch i gyfieithu i unrhyw gyfarfod swyddogion Cyngor Gwynedd yng Ngwynedd, fe siaradan yn Gymraeg trwy'r cyfarfod. Ond weithiau mi welwch chi ambell i swyddog o Wynedd mewn cyfarfod gogledd Cymru neu gyfarfod cenedlaethol sy'n digwydd yr ochr arall i'r afon Conwy, ac mi

[51] Cyf3/14.
[52] Cyf3/12.
[53] H7/2.
[54] H6/15.
[55] Cyf6/34.

> siaradan yn Saesneg. A dw i'n amau eto mater o statws ydy hynna, ond statws o fath gwahanol. Statws proffesiynol.[56]

Yng Ngwynedd, gellir cyfuno'r Gymraeg a statws proffesiynol, ond y tu hwnt, awgryma'r sylw, mae statws proffesiynol yn dal ynghlwm â'r Saesneg. Llwydda rhai sefydliadau heblaw Cyngor Gwynedd i ddatblygu statws proffesiynol y Gymraeg ac i godi ymwybyddiaeth o'r hyn ddylai fod yn dderbyniol:

> Mae 'na drafodaeth yn digwydd yn reit aml, dyweda bod rhywun yn cael ei benodi lle gynt oedd y Gymraeg yn hanfodol a bod nhw wedi methu penodi i'r swydd yna, mae'r drafodaeth yn digwydd wedyn: Mae'r person yna yn dallt, ond dydyn nhw ddim yn siarad a hyn a llall. Mae 'na ymwybyddiaeth yna felly.[57]

Gall cyfieithu fod yn llwyfan neu yn ddolen gyswllt i ddod â'r diwylliant yn nes at y sawl nad ydynt yn siarad Cymraeg. Ond i gyfieithu ar y pryd lwyddo, rhaid i gyfieithwyr weithio a deall mwy na geiriau. 'And the things between the words. And that requires a cultural understanding.'[58] Pery sylwadau un cyfwelai inni feddwl mai nid yn unig ar y cyfieithwyr y mae angen dealltwriaeth ddiwylliannol, ond ar bawb. Wrth fyfyrio ar y ddau ddiwylliant y mae'n symud rhyngddynt, mae'n holi ai gwahaniaeth diwylliant yw'r broblem:

> Wyt ti nawr yn gofyn o fewn y Brifysgol neu sefydliad tebyg i'r Brifysgol, pan dan ni'n siarad am y Brifysgol, dan ni'n wneud o yn wahanol yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn gyffredinol nawr? […] Ydy'r fath a'r ffordd dan ni'n siarad am y coleg yn sylfaenol wahanol i'r ffordd y mae bobl ddi-Gymraeg yn siarad am y coleg? Mae hwn yn gwestiwn ddwfn iawn iawn iawn.[59]

Rhydd ran o'r ateb ei hun wrth drafod Prifysgol ffederal Cymru:

> Prifysgol genedlaethol ydy hon, dyna sut dw i wastad wedi ei gweld hi, fel mae 'na brifysgolion cenedlaethol ledled y byd. Ond dw i ddim yn meddwl bod 'na lawer sy'n dod i Fangor hyd yn oed yn meddwl am y peth. Prifysgol Bangor ydy o wastad wedi bod iddyn nhw.[60]

Diddorol clywed ei gasgliadau pan sylweddola pa mor wahanol mae'n trafod mewn gwahanol gyd-destunau gyda gwahanol bobl. Mae'n pwysleisio, er

[56] Cyf2/8.
[57] Cyf1/29.
[58] Cyf4/36a.
[59] Cyf7/32.
[60] Cyf7/44.

enghraifft, y traddodiad Cymraeg o 'hel achau' o'i gymharu â siarad ffeithiol yn Saesneg:

> Dydyn nhw [yr Adran Gymraeg] ddim cweit run fath, does dim Adran Gymraeg Saesneg i gymharu â hi, felly dydy'r rheiny bron ddim yn cyfrif. Swn i bron yn dweud bod yr Adran Diwinyddiaeth yn yr un sefyllfa. Ti'n gwybod, bob tro dan ni'n cael cinio efo'n gilydd gyda nhw, dan ni'n hel achau, trafod pwy ydy pwy, mae hynny hefyd yn wahanol, tra fa'ma, mae bron popeth dwi'n wneud yn y Brifysgol, does dim ots lle, gallai fod yn Leipzig neu yn Adelaide neu rywle. […] Dwi'n trafod gyda nghyd-staff Cymraeg yn wahanol i'r cyd-staff Saesneg? Ac wedyn, dw i'n trafod gyda'r cyn-fyfyrwyr yn wahanol, a dw i'n siwr bod yr ateb yn 'ydw' ar gyfer y ddau ohonyn nhw.[61]

Yn un o gyfarfodydd y Senedd a fynychwyd, synhwyrwyd bod gan rai o'r di-Gymraeg broblem deall hunaniaeth y Cymry a'u hiaith. Trafodwyd bron bopeth yn Saesneg, ac eithrio'r drafodaeth ar y cwestiwn o 'Brifysgol neu University?' a gyflwynwyd gan siaradwr Cymraeg yn Saesneg (ond gyda rhywfaint o Gymraeg yn y drafodaeth a ddilynodd). Roedd yn arwyddocaol bod y drafodaeth yn cymryd lle o gwbl dan y teitl yma, sef y cwestiwn a oedd y Brifysgol am fod yn brifysgol leol neu ryngwladol, gan awgrymu bod 'Prifysgol' yn cyfateb i syniad lleol (a phlwyfol?) o'r sefydliad, tra byddai ei galw hi'n 'University' yn dangos ysbryd agored a rhyngwladol. Heblaw hynny, honnodd aelod di-Gymraeg o'r cyfarfod fod prifysgol yn golygu 'big school', a pham nad oedd y Gymraeg yn dweud university 'fel pob iaith arall'?[62]

Nid oes bob amser ddealltwriaeth o hunaniaeth Gymraeg neu hyd yn oed hunaniaeth Gymreig, ac er y newid sydd wedi bod yn y blynyddoedd a degawdau diweddar, 'all that […] has been attached to nationalism, less so now, but it's certainly cultural, a national identity issue'.[63] Nid yw pawb (ymysg siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg) yn sylweddoli y gall hunaniaeth leiafrifol fod yn agored i gysylltiadau newydd a byd-olwg eangfrydig. Gwelwyd ym Mhennod 3 uchod gyhuddiadau gan siaradwyr prif ieithoedd fod lleiafrifoedd ieithyddol yn blwyfol ac, fel petai, yn eu cau eu hunain mewn cragen.

Ar y llaw arall, cadarnhawyd y syniad nad yw'r Cymry a'r di-Gymraeg yn trafod yr un pethau, nac ychwaith yn yr un modd, mewn dau o'r cyfarfodydd a fynychwyd i arsylwi mewn cyngor cymuned. Nid oedd cyfraniad ar ran y

[61] Cyf7/ 33.
[62] Arsylwi Cyfarfod 3.
[63] Cyf4/59.

siaradwyr Saesneg o gwbl i'r drafodaeth am bori ar y mynydd ac am y ffyrdd cul yng nghefn gwlad. Nid oedd yr unig Sais a oedd yn bresennol ar yr ail noson yn cyfrannu at drafod materion y wlad (ffyrdd a mynydd), ond mwy at faterion y pentref (bysiau a'r cae chwarae).[64]

Rhywbeth tebyg a oedd wedi digwydd yn y cyfarfod cyntaf. Roedd mwy o siaradwyr di-Gymraeg yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf, ac un ohonynt yn enwedig yn cyfrannu llawer i'r sgwrs. Ond fe nodwyd ar y noson, 'Mae'r sgwrs yn distewi. Mae pobl yn sôn mwy am faterion cymdogaeth y pentref (cyflwr y lôn, ffensys, cloriau, waliau). Mae hyn i gyd yn Gymraeg, dydy'r di-Gymraeg yn dweud dim.'[65] Daethpwyd i'r canlyniad fod y

> Cymry Cymraeg yn siarad mwy pan maent yn cyrraedd siarad mwy anffurfiol am boenau bach y pentref a'r gymdogaeth, gan ddweud storïau am wahanol ddigwyddiadau a phobl. Dim byd o bwys mawr efallai, ond yn dangos bod y cynghorwyr yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen o'u cwmpas a'u bod yn perthyn mewn rhyw ffordd i'r bobl hynny. Nid yw'r ddau di-Gymraeg yn cymryd rhan yn hyn.[66]

Un o'r cwestiynau a gododd wrth arsylwi oedd a oedd siaradwyr Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg yn perthyn i'r gymuned leol yn yr un modd. Roedd y cyfwelai o academydd yn pwyso a mesur ac yn cymharu ei aelodaeth o Senedd y Brifysgol a'i aelodaeth o gyngor cymuned Cymraeg, gan holi beth yn union yw cefndir diwylliannol.

> Wel, dw i'n rhannu mwy o gefndir diwylliannol eang gyda cyd aelodau'r Senedd nag ydw i gyda cyd aelodau ar y cyngor plwyf, dydw? Dw i'n academic, dw i'n ddosbarth canol, mae gen i hyn a hyn, wel dyna'r grŵp cymdeithasol dw i'n ffitio iddo fe, yn debyg i bawb arall sydd o gwmpas y Senedd, ddim y criw sydd, y ffarmwrs a'r crowd yn y pentref, mae'n hollol wahanol. Does dim cyswllt cymdeithasol ar y lefel yna.[67]

Serch hynny, ymddengys fod cyfieithu ar y pryd yn gweithio yn well yn ei gyngor cymuned nag y mae yn y corff proffesiynol. Gellid dadlau mai iaith gyffredin aelodau'r cyngor cymuned sy'n gosod y sylfaen ddiwylliannol i'w cyfarfodydd, yn ogystal â'u perthynas glos a'u gwybodaeth dda o faterion y gymuned. Byddai'r

[64] Arsylwi Cyfarfod 9.
[65] Arsylwi Cyfarfod 8.
[66] Arsylwi Cyfarfod 8.
[67] Cyf7/34.

ffaith fod yr iaith yn rhan annatod o hunan-ganfyddiad rhan helaeth o siaradwyr Cymraeg yn esbonio hynny.

Atgyfnerthir hyn gan ganfyddiadau o hunaniaeth ieithyddol y gofynnwyd i atebwyr yr holiaduron eu nodi yng nghwestiwn B. Roedd yn bosibl iddynt ateb y cwestiwn am eu hunaniaeth gydag un neu fwy o'r dewisiadau canlynol: Cymro/Cymraes Cymraeg, siaradwr Cymraeg, dysgwr, Cymro di-Gymraeg, di-Gymraeg. Dewisiodd holl atebwyr di-Gymraeg ddatgan eu bod yn ddysgwyr Cymraeg. Yn ogystal â hynny, nododd un atebydd ei hun fel Cymro di-Gymraeg ac un arall fel di-Gymraeg. Gallai hyn olygu y dymunant berthyn i'r gymuned trwy amlygu'r ffaith eu bod yn ceisio dysgu siarad iaith yr ardal, neu eu bod yn cyfiawnhau eu hunain o fod o leiaf wedi gwneud yr ymdrech (Tabl 7.1).

**Tabl 7.1: Iaith a/neu hunaniaeth**

| | **Cymro/Cymraes Cymraeg** | **Siaradwr Cymraeg** | **Dysgwr** | **Cymro di-Gymraeg** | **Di-Gymraeg** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 (**14%**) | | | • | | • |
| 1 (**14%**) | | | • | • | |
| 5 (**71%**) | | | • | | |
| 14 (**64%**) | • | | | | |
| 7 (**32%**) | • | • | | | |
| 1 (**4%**) | | • | | | |

O'r atebwyr Cymraeg, dim ond un a ddisgrifiodd ei hun fel siaradwr Cymraeg yn unig. Nododd 32% eu bod yn siaradwyr Cymraeg ac yn Gymry Cymraeg, tra teimlodd 64% fel disgrifio eu hunaniaeth fel Cymry Cymraeg heb sôn yn ogystal am allu siarad yr iaith. Awgryma'r ffigyrau hyn fod hunaniaeth ynghlwm â'r iaith i'r Cymry Cymraeg, ac nad oes angen y disgrifiad 'siaradwr Cymraeg' arnynt. I'r di-Gymraeg ar y llaw arall, mae'r iaith yn sefyll ar wahân i ddiwylliant, a dim ond y ffaith eu bod yn dysgu oedd yn bwysig iddynt yn y cyd-destun; nid ydynt at ei gilydd yn sôn am eu hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol. Dyna, efallai, un rheswm am iddynt alw'r diwylliant Cymraeg yn blwyfol: siaredir yr iaith mewn ardal benodol, a gwelant hyn yn gyfystyr ag ymwneud â materion yr ardal honno yn unig.

Yn anffodus, ni ellir casglu o'r niferoedd bychain hyn fod y teimladau am iaith a hunaniaeth yn rhai cyffredin. Ond petai arolwg ar raddfa ehangach yn dod i'r un casgliadau, gallent olygu bod hunaniaeth ac iaith ynghlwm i'r Cymry Cymraeg (gan ategu trafodaeth Richard Wyn Jones a Dafydd Trystan am iaith ac ymdeimlad cenedlaethol a welwyd ym Mhennod 3), tra maent yn ddau beth ar wahân yn nhyb siaradwyr Saesneg.

Ac ystyried arferion Cymraeg o ran beth a sut y trafodir yn anffurfiol ac mewn cyfarfodydd, a'u cymharu â sut y mae siaradwyr Saesneg yn trafod, mae yma gasgliad y gall cyfieithu ar y pryd fod yn brop i gynnal yr arferion lleol hyn. Diau y byddai cyfarfod uniaith Gymraeg yn gryfach byth wrth barhau traddodiadau lleol, ond mewn cymdeithas sy'n newid yn ieithyddol, nid yw hyn bob amser yn bosibl.

Rhydd cyfieithu'r cyfle i barhau â thraddodiadau ac arferion yr ardal a'r gymuned heb rwystro'r di-Gymraeg rhag ymuno â digwyddiadau a chyfarfodydd. Y gobaith wrth gyflogi cyfieithydd mewn sefyllfa o'r fath, wrth gwrs, yw cyfleu peth o'r diwylliant i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, eu hannog i gymryd rhan yn y diwylliant hwnnw, ac o bosibl i ddod yn rhan lawnach ohono yn y pen draw. Os deallwn swyddogaeth cyfieithu fel hyn, dylid ei weld fel rhywbeth dros dro yn unig i roi'r cyfle i'r di-Gymraeg ymsefydlu. Cyfyd y cwestiwn nesaf o'r pwynt hwn, sef a yw'r di-Gymraeg yn dymuno perthyn i'r cymunedau y maent yn byw ynddynt yn yr un ffordd â'r brodorion.

## 7.6 A all cyfieithu ar y pryd ysgogi awydd i berthyn i'r gymuned?


Yn y drafodaeth yn rhan gyntaf y traethawd, gwelwyd bod teimlad unigolion o berthyn i gymuned neu ddiwylliant ynghlwm wrth yr iaith a siaradant. Dywedwyd mai'r iaith sy'n creu'r berthynas rhyngom ni, ein hanes a'n diwylliant. Rhaid siarad iaith cymuned benodol i allu cymryd rhan yn ei bywyd diwylliannol a chymdeithasol, ac i berthyn fel aelod llawn ohoni. Trafodwyd hefyd fod yr awydd i berthyn i'r gymuned Gymraeg yn hollbwysig wrth annog y di-Gymraeg i ddysgu'r iaith.

Ar ôl ystyried potensial cyfieithu ar y pryd i amlygu diwylliant y gymuned Gymraeg i'r bobl ddi-Gymraeg, a'i rôl wrth geisio parhau digwyddiadau yn

Gymraeg, edrychir yn rhan olaf y bennod hon ar allu cyfieithu i greu awydd ymysg y di-Gymraeg i berthyn i'r gymuned.

Yn sicr mae cyfieithu yn galluogi'r di-Gymraeg i berthyn i grŵp fel aelod. Mae Ffigwr 7.3 yn tystio o hynny:

**Ffigwr 7.3: Beth yw eich teimlad o fod yn rhan o'r grŵp ers i chi gael cyfieithu mewn cyfarfodydd?**





Ateba hanner y di-Gymraeg eu bod yn teimlo'n fwy o ran o'r grŵp. Un ateb i holiadur yw, er enghraifft: 'Dywedodd aelod di-Gymraeg mor falch oedd hi o gael cyfieithu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, gan ei bod hi'n medru teimlo'n rhan o bethau heb deimlo ei bod hi hefyd yn gorfodi pobl eraill i newid eu hiaith.'[68] Gan na chânt hwythau eu torri allan o'u *comfort zone*, medrant ddweud: 'Feel more included in what goes on',[69] neu 'become more accepted part of the group'.[70]

Er nad yw siaradwyr Cymraeg yr un mor gadarnhaol ynglŷn ag effaith cyfieithu ar eu teimlad o fod yn rhan o'r grŵp (oherwydd bod mwy o'r drafodaeth yn Saesneg?), gwelant reswm da dros ddarparu cyfieithu er mwyn 'rhoi cyfle i'r di-Gymraeg gymryd rhan lawn yn y drafodaeth'.[71]

Serch hynny, noda chwarter y di-Gymraeg nad ydynt gymaint yn rhan o'r grŵp ag yr oeddent cyn cael cyfieithu. Tybir mai grwpiau lle roedd y drafodaeth yn Saesneg o'r blaen yw'r rhain. Efallai y teimlant nad ydynt yn cael ond rhan o'r drafodaeth, tra byddent wedi gallu ymateb yn uniongyrchol ynghynt. Yn anffodus,


68 HWBcap9/1.
69 H6/10.
70 H4/3.
71 HWB7/2.

ni ellir cadarnhau'r cysylltiad hwn o ffigyrau'r sampl bychan. Ond byddai hyn yn dangos bod cyfieithu yn llwyddo yn yr achosion hynny lle mae siaradwyr Cymraeg yn dymuno defnyddio'r iaith heb droi'r di-Gymraeg i ffwrdd.





Yn ogystal, denir mwy o siaradwyr di-Gymraeg i gyfarfodydd cyhoeddus pan gyfieithir y drafodaeth: 'Members of the public have increased in attendance since the service was available.'[72] Dengys cwestiwn C5 mai dyna un o'r prif resymau dros ddechrau defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (Ffigwr 7.4). Atebodd y mwyafrif bod denu mwy o bobl at y grŵp yn bwysig.

Ond awgryma cwestiwn C7 fod aelodaeth y grwpiau wedi aros fwy neu lai yr un fath ers dechrau cyfieithu, ac felly nad yw mwy o bobl wedi ymuno â'r cyfarfodydd (Ffigwr 7.5 a Ffigwr 7.6).




[72] H6/2.

Serch hynny, ateba 13% o'r di-Gymraeg a 23% o atebwyr Cymraeg fod mwy o Gymry Cymraeg wedi ymuno â'u grwpiau. Felly, mae rhai siaradwyr Cymraeg yn ymuno â grŵp os gallant fod yn sicr o gael siarad Cymraeg, ac os nad oes amheuaeth ynghylch iaith y grŵp.




Cyfyd pwynt arall diddorol o gwestiwn C2. Noda 52% o'r siaradwyr Cymraeg mai Cymraeg oedd iaith y grŵp cyn defnyddio cyfieithu. Mae hyn yn arwydd mai grwpiau Cymraeg yn bennaf sy'n defnyddio cyfieithu. Gwnânt hynny er mwyn rhoi cyfle i'r di-Gymraeg ymuno â'r grŵp, gan gyhoeddi yr un pryd na ddymunant i naws y grŵp newid. Ac er bod ymwybyddiaeth o bolisïau ieithyddol a gwahaniaethu wedi gwella rhywfaint ymhlith grwpiau mwy Saesneg, ni theimlant yr un angen i ddefnyddio cyfieithu ar y pryd, gan fod siaradwyr Cymraeg yn deall Saesneg.

Er nad yw pawb yn cytuno ynghylch y dymuniad i fod yn fwy agored a denu mwy o aelodau di-Gymraeg at fudiadau sylfaenol Gymraeg (oherwydd y newid yn natur y cyfarfodydd), nid oes amheuaeth bod cyfarfodydd dwyieithog yn fwy cynhwysol. Gall cyfieithu fod yn ddull i gyrraedd y cynhwysiad hwn.

Gyda 'chynhwysiad cymdeithasol' yn un o *buzz-words* yr oes, mae'n anodd cynnal dyheadau am gadw pethau fel yr oeddynt heb annog cyhuddiadau o fod yn geidwadol ac yn ynysig. Ac nid yn unig gan y di-Gymraeg y lleisir sylwadau i'r perwyl hwn, fel y gwelir oddi wrth y sylw canlynol: 'Dw i'n credu gallwn ni

wneud cymaint cymaint yn fwy, tasan ni ddim ond yn trio. Dan ni yn ynysu'n hunain gormod.'[73]

Bron yn unfryd fe gytunir bod cyfieithu yn ddull da i gynnwys pawb, 'Mae cyfieithu ar y pryd yn bendant yn dod a phobol Saesneg a Cymraeg at ei gilydd'.[74] Ym marn y di-Gymraeg, mae cyfieithu ar y pryd yn arwydd o ewyllys dda: 'It also demonstrates the willingness of Welsh speakers to welcome a broad spectrum of membership to a predominantly Welsh speaking group.'[75] Diddorol yn y sylw hwn yw'r awgrym y byddai'r cyfarfodydd, heb gyfieithu, yn gaeedig i'r siaradwyr Cymraeg. Nid ystyriant y gallai'r cyfarfod droi i'r Saesneg, yn hytrach na'u cau hwythau allan. Ni sylweddolir bod siaradwyr Cymraeg wedi arfer siarad Saesneg er mwyn bod yn gwrtais.

Mae un cyfwelai yn adnabod yma un o'r prif gwestiynau ynghylch cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Fel pennaeth sefydliad, meddai, 'How do we stop the English speaker getting excluded and yet use more Welsh in the office? How do we get language courtesy in both directions?'[76]

Ond mae angen mwy na hynny i berthyn i grŵp, a pherthyn i gymuned Gymraeg. Dim ond drwy ddysgu'r iaith y gall rhywun ddeall a rhannu traddodiadau, arferion, neu hiwmor ardal benodol yn llawn, fel y dadleuwyd eisoes ym Mhennod 6.

> Mae penderfyniadau ynglŷn â dysgu iaith yn dipyn mwy eang na hynny, mae nhw ynglŷn â rhyw ymdeimlad o angen uniaethu gydag iaith a diwylliant, ynglŷn ag elfennau o hunaniaeth, ynglŷn â materion teuluol a pherthnasau teuluol, ynglŷn â chwarae rôl mewn cymuned, cymuned ddearyddol neu gymuned ieithyddol, chwilfrydedd deallusol, her ddeallusol…[77]

Teimla un atebydd i'r holiadur yn sicr fod cyfieithu wedi creu'r awydd i berthyn a dysgu Cymraeg. Dywed, 'mae'r tri aelod yn dysgu Cymraeg ac felly yn gallu deall mwy o beth sy'n mynd ymlaen ac ymuno â sgwrs cyn ac ar ôl y cyfarfod.'[78] Y cam anoddaf i ddysgwyr yn aml yw dechrau siarad y tu allan i'r dosbarth. Barn yr ymgynghorydd iaith yw y dylid cael 'rhywun yna i hyfforddi a hwyluso a rhoi cefnogaeth i'r Cymry Cymraeg i fod yn rhywfath o [borthorion] os

[73] Cyf3/17.
[74] H27/7.
[75] H2/5.
[76] Cyf4/41.
[77] Cyf6/4.
[78] H16/1.

mynnwch chi i ddod â dysgwyr o'r dosbarth mewn i sefyllfa go iawn'.[79] Ond i gael yr awydd i ddysgu iaith leiafrifol yn y lle cyntaf, ac yna i siarad gyda'r brodorion, mae angen ewyllys i berthyn i'r gymuned. Dim ond yr ewyllys hon sy'n wir ysgogiad i ddysgu, yr awydd

> i fod yn rhan o'r bwrlwm diwylliannol yna, ac eisiau deall beth yn union oedd y jôcs, neu beth oedd y gerdd cyfeiriodd at y mynydd. Mae rhaid iddo fod yn berthnasol i bobl, perthnasol i fywydau pobl. Ac mae hynna ddywedwn i, […] yn fwy o ysgogiad i ddysgu Cymraeg na beth yw sefyllfa ffurfiol mewn gwaith neu mewn pwyllgor.[80]

Gwelir o'r pwyntiau olaf hyn fod cyfieithu yn help wrth gynnwys pobl ddi-Gymraeg mewn trafodaethau ac mewn digwyddiadau, ond nad yw'n ddigon i wneud i bobl berthyn mewn ystyr dyfnach. Ni all greu cysylltiadau parhaol rhwng pobl. Dim ond dysgu'r iaith a all ddechrau'r broses honno.

Gellir gweld rhywfaint o rôl i gyfieithu yn y broses o ddysgu Cymraeg. Rhydd y cyfle i ddysgwr gymryd rhan mewn digwyddiad Cymraeg a gwrando ar y Gymraeg, gan ar yr un pryd roi'r cyfle iddo glywed y Saesneg rhag ofn y collir llif y drafodaeth.

Ar y llaw arall, mae'n bosibl dehongli'r defnydd o gyfieithu ar y pryd fel dymuniad y di-Gymraeg i beidio â pherthyn yn iawn i'r gymuned Gymraeg. O'r safbwynt hwnnw, byddai cyfieithu yn cynnal *status quo* dau grŵp ieithyddol sy'n aros ar wahân.

## 7.7 Casgliadau

At ei gilydd, gall cyfieithu amlygu a hyd yn oed gryfhau diwylliant Cymraeg mewn rhai sefyllfaoedd. Yn gyntaf, gall cyfieithu atal pobl rhag troi i'r Saesneg mewn cyfarfod lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg. Mae'r mwyafrif yna yn hollbwysig i greu'r teimlad ymysg siaradwyr Cymraeg mai dyna'r iaith naturiol i siarad, a dyna'r iaith sy'n mynegi diwylliant cyffredin y bobl yn yr ardal neu yn yr achlysur. Os llwyddir i gynnal digon o ddigwyddiadau gyda mwyafrif o siaradwyr Cymraeg, gall cyfieithu ddangos beth yw iaith naturiol yr ardal, a thrwy'r arfer

[79] Cyf6/27.
[80] Cyf6/26.

hwn, dylai fod yn bosibl i sefydlu'r Gymraeg fel iaith weithredol sefydliad, mudiad, neu bentref.

Yn ogystal â chymryd pwysau oddi ar ysgwyddau'r Cymry Cymraeg trwy ganiatáu iddynt siarad mor rhwydd ag arfer gyda'i gilydd, gall cyfieithu gynnal naws ddiwylliannol arbennig y gymuned (y naws agos-atoch arferol) a chyfleu'r naws honno i drigolion newydd. Os yw siaradwyr Cymraeg yn awyddus i gynnwys y di-Gymraeg yn nigwyddiadau eu pentrefi, ni fyddai hyn bob amser mor hawdd heb gyfieithu oherwydd y mynegir cymaint o'r diwylliant trwy iaith, ac yn y ffordd o siarad gyda'i gilydd. Heblaw hynny, teimla rhai fod safon y drafodaeth yn uwch pan ellir ei chynnal yn Gymraeg, ac felly bod cyfieithu yn ddull i sicrhau dadleuon â mwy o sylwedd iddynt.

Golyga diwylliant hefyd fod y ffordd mae pobl yn perthyn i'w gilydd yn cael ei mynegi mewn trafodaethau cyfeillgar am bobl, eu cwynion, newidiadau teuluol, ac yn y blaen. Y cysylltiadau personol yw'r pwysicaf yn niwylliant y cymunedau Cymraeg, ac mae nabod ei gilydd a siarad yn anffurfiol yn bwysig i gynnal y cysylltiadau hyn.

Y gobaith yw y bydd cyfieithu yn llwyddo i drosglwyddo peth o'r diwylliant Cymraeg i'r di-Gymraeg gan wneud iddynt hwythau deimlo'n fwy yn rhan o'u cymuned. Mae'n bwysig amlygu'r ffaith y gall naws a chynnwys trafodaethau a syniadau fod yn wahanol o'u cynnal yn Gymraeg. Rhaid perswadio pobl nad materion lleol yn unig y gellir eu trafod yn Gymraeg.

Gall cyfieithu fod yn ffordd i atal yr arfer o gyflwyno syniadau trwy ffilter y Saesneg. Gwelwyd o ddadl Oscar Diaz Fouces a Marie-Christine Coste-Rixte ym Mhennod 3 y dylai cyfieithu rhwng iaith leiafrifol a ieithoedd gwirioneddol dramor fod yn rhan o'r ddealltwriaeth honno. Yn sicr, o'i ddefnyddio'n gyson, gall cyfieithu ar y pryd amlygu ffyrdd lleol o drafod, o ddod at benderfyniadau, ac o berthyn.

Nid oes tystiolaeth ynghylch faint y mae mudiadau, wrth gyflogi cyfieithydd, yn bwriadu annog eu cyd-drigolion di-Gymraeg i uniaethu â'u cymunedau ac i geisio perthyn yn agosach iddynt trwy ddysgu'r iaith. A rhaid cofio na ddefnyddir cyfieithu mewn sefyllfaoedd damweiniol lle mae llawer o'r trafod sy'n cynnal y gymuned yn digwydd.

Ar yr ochr negyddol, gellid dehongli defnyddio cyfieithu fel arwydd nad yw ymdrechion i gynnwys y ddau grŵp ieithyddol o fewn y diwylliant Cymraeg yn

llwyddo, ac fel arwydd bod y di-Gymraeg yn dewis peidio â bod yn rhan o'r gymuned. Ar yr wyneb ac yn haniaethol, mae'n rhoi'r hawl i bawb gymryd rhan yn eu dewis iaith, ac yn ceisio rhannu rhywfaint o ddiwylliant Cymraeg gyda'r di-Gymraeg. Ond os na lwyddir i ysgogi cyfathrebu mwy uniongyrchol rhwng y ddau grŵp heb i siaradwyr Cymraeg deimlo bod rhaid iddynt ddilyn yr hen batrymau trefedigaethol (siarad Saesneg), gall cyfieithu fod yn arwydd bod y rhwyg rhyngddynt yn rhy ddwfn i ymgymryd â chydweithio closach.

Gellir gweld dau reswm gwrthgyferbyniol wrth ddefnyddio cyfieithu ar y pryd felly. Ar y naill law, ceir y rhai sy'n gweld cyfieithu fel dull i gynnal diwylliant a chymunedau Cymraeg, ac sy'n dymuno parhau'r arferion o nabod ei gilydd, edrych ar ôl ei gilydd a pherthyn i'r gymdogaeth a'r gymuned. Ar y llaw arall, gwêl rhai o'r di-Gymraeg gyfieithu yn ddull i hybu dwyieithrwydd mewn digwyddiadau er mwyn rhoi dewis rhydd iddynt i fynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau o ddiddordeb iddynt fel unigolion (a hynny heb amharu gormod ar eu ffordd o ddeall eu hunain).

Yng ngolau'r casgliadau hyn, ni olyga cyfieithu ddim mwy na derbyn y ffaith nad oes newid yn y sefyllfa yn bosibl mwyach ac nad oes digon o egni gan y Cymry Cymraeg i gredu mewn gwelliant i'r iaith. Bydd y bennod nesaf yn edrych ar y rhesymau pam y mae'r Cymry Cymraeg wedi colli'r hyder hwn yn nyfodol eu hiaith a'u diwylliant, ac asesir cyfieithu fel dull i adfer rhywfaint ohono yn y broses hir o frwydro dros y Gymraeg.

# 8 Cyfieithu ar y pryd a'r hyder i siarad Cymraeg

Yn ein trafodaeth hyd yma, daeth yn glir bod hyder personol, a hyder cymdeithasol a diwylliannol, yn allweddol wrth gynyddu'r defnydd o iaith leiafrifol. Er enghraifft, cyfeiriwyd at ddadleuon Denise Réaume a Jacques Maurais am bwysigrwydd sicrwydd ieithyddol wrth annog siarad yr iaith leiafrifol tu allan i gylchoedd y teulu, ffrindiau a chymdogion. Y mae perthynas annatod rhwng yr agweddau a fynegir tuag at yr iaith leiafrifol a'r hyder wrth ei siarad. Ni esblygir cymdeithas sifil ac iddi hunaniaeth ieithyddol gref os nad oes gan ei dinasyddion yr hyder i siarad eu hiaith ymhob agwedd ar eu bywydau.

Yn sgil hyn, dichon mai prif gwestiwn ymchwil y bennod hon yw: a all cyfieithu ar y pryd ddatblygu neu gryfhau hyder siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus, er enghraifft mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau? Wrth ofyn y cwestiwn hwn, rhaid holi hefyd: pam y collir neu y collwyd yr hyder i siarad Cymraeg yn y lle cyntaf, ac ym mha sefyllfaoedd y mae hyn yn digwydd fwyaf?

Ym Mhennod 4, tynnwyd sylw eisoes at safbwynt seicotherapyddion sy'n dadlau mai cynnyrch hanesyddol yw diffyg hyder lleiafrifoedd ieithyddol. Er mwyn osgoi teimlo'n anghyfforddus a dihyder o hyd, mae siaradwyr iaith leiafrifol yn cydymffurfio â siaradwyr y brif iaith, yn osgoi dangos eu hunain, yn cadw eu hunain yn ôl, ac yn creu byd mewnol iddynt eu hunain sydd yn ddiogel o ddylanwadau allanol (ond sydd hefyd ymhell oddi wrth realiti).[1]


Bydd y dystiolaeth a gyflwynir yn y bennod hon yn ceisio cysylltu'r dadleuon hyn â phrofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Holir i ddechrau am ganfyddiadau o allu cyfieithu i ddylanwadu ar yr hyder i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd dwyieithog newydd. Edrychir wedyn ar wahanol elfennau o hyder, megis rhugledd yn y Gymraeg, deinameg grym rhwng y ddwy iaith, teimladau o gywilydd ac embaras, a'r berthynas rhwng cyfieithu a chryfder hunaniaeth ddiwylliannol. Drwy hyn oll, ceisir canfod hefyd a oes gwahaniaeth rhwng gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol wrth i gyfieithu geisio creu hyder ieithyddol (a manylir ar hyn ym Mhennod 9).

[1] Dilys Davies, 'Arwyddocâd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant', t. 39.

### 8.1 A all cyfieithu ar y pryd ddylanwadu ar hyder wrth siarad Cymraeg?

Gan dderbyn bod hyder ieithyddol yn golygu mwy na sicrwydd wrth ddefnyddio terminoleg newydd yr iaith, dadleuwyd yn rhan gyntaf y traethawd y gall cyfieithu gryfhau'r hyder hwnnw. Crybwyllwyd bod cyfieithwyr y Cynulliad yn ennyn hyder y gweithlu Cymraeg a di-Gymraeg trwy brawfddarllen, cyfieithu, a datblygu terminoleg. Hefyd, cynydda hyder y gymdeithas yn nilysrwydd yr iaith trwy ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn sefyllfaoedd â phroffeil uchel, megis dadleuon y Cynulliad neu mewn cynghorau sir.

Yn yr adran hon, cyflwynir teimladau a barn y rhai sydd wedi profi cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd am y berthynas rhwng cyfieithu a'u hyder wrth siarad Cymraeg.




Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd, cred nifer o'r grwpiau fod cyfieithu yn dylanwadu'n gadarnhaol ar eu hyder wrth siarad Cymraeg. Ers iddynt ddefnyddio cyfieithu ar y pryd yn eu cyfarfodydd, 'mae hyder y Cymry Cymraeg wedi cynyddu yn sylweddol pan yn cymeryd rhan yn y drafodaeth'.[2] Ac nid yn unig wrth drafod yn ffurfiol, ond wrth siarad yn gyffredinol pan mae rhai di-Gymraeg yn bresennol, mae cyfieithu yn codi 'ein hyder i siarad Cymraeg ymysg ein

[2] H22/2.

gilydd'.[3] Teimla Cymry Cymraeg dan bwysau i gyfieithu eu hunain os nad oes cyfieithydd proffesiynol yn y cyfarfod, oblegid dywedant nad oes bellach 'dim pwysau i ailddweud bob dim'.[4] Cefnogir yr atebion hynny gan 40% o'r Cymry Cymraeg a noda yng nghwestiwn C8 fod eu hyder i siarad Cymraeg 'wedi gwella' neu 'wedi gwella llawer' ers iddynt ddefnyddio cyfieithu (Ffigwr 8.1).

Er gwaetha'r dystiolaeth gadarnhaol hon, gwelir arwyddion pendant o ddiffyg hyder, ac mae un atebydd yn meddwl bod gan gyfieithu ran allweddol wrth gywiro hyn. 'We're not where we need to be with confidence yet, and getting the translation facilities right is a big part of confidence building.'[5] Ond hyd yn oed mewn ardaloedd Cymraeg, fel y clywn o brofiad cyfieithydd, mae llawer o'r siarad yn digwydd yn Saesneg:

> Mi wn i am gynghorau lle mae 'na rai pobol sy'n medru siarad Cymraeg ond wneith byth siarad Cymraeg yn ffurfiol […] Mi wnân nhw siarad Cymraeg efo'i gilydd cyn y cyfarfod ac wedi'r cyfarfod. Ond wnân nhw byth siarad Cymraeg yn ffurfiol ac yn gyhoeddus.[6]

Gall elfennau heblaw hyder fod yn sail i'r ymddygiad hwn. Ond i ryw raddau, cryfder y di-Gymraeg wrth arwain trafodaethau (neu ragdybiaeth siaradwyr Cymraeg bod y di-Gymraeg yn well arweinwyr) sy'n achosi i'r Cymry Cymraeg golli eu hyder wrth siarad Cymraeg, ac yn eu gwneud yn fodlon siarad Saesneg:

> Mae o'n un o'r bobl yma sy'n medru arwain mewn cyfarfod ac oherwydd ei fod o o natur a phersonoliaeth fel yna, achos fod o'n dod mor naturiol i'r Cymry ein bod ni'n siarad y ddwy iaith, maen nhw'n newid i'r Saesneg mewn trafodaeth yn hytrach na chanolbwyntio a chario ymlaen yn Gymraeg.[7]

Mae'n bosibl bod y tueddiad hwn yn gryfach mewn ardaloedd neu sefydliadau llai Cymraeg, lle na fydd darparu cyfieithu ar y pryd yn ddigon i gynyddu hyder y siaradwyr Cymraeg. Dyma, unwaith eto, brofiad cyfieithydd:

> Beth sy'n digwydd fel rheol ydy bod 'na ddim Cymraeg o gwbl mewn cyfarfod felly, hyd yn oed os oes 'na Gymry Cymraeg. Mae 'na gymaint o rai di-Gymraeg, dydyn nhw ddim isio tynnu sylw atyn nhw eu hunain. Os

[3] H19/2.
[4] HWB8/2.
[5] Cyf4/45.
[6] Cyf2/3, 4.
[7] Cyf1/15.

> siaradan nhw o gwbl. A mae 'na nifer fawr sy ddim yn cyfrannu o gwbl. Os ydyn nhw'n cyfrannu o gwbl, mi wnân nhw siarad Saesneg.[8]

Wrth geisio egluro'r ffenomen hon, efallai bod sylw o un cyfweliad yn arwyddocaol. Awgrymir bod newid iaith yn gwanhau dadl: 'Petai rhywun yn gosod allan ei ddadl, ac yn newid hanner ffordd i'r Gymraeg, neu newid hanner ffordd i'r Saesneg, am ryw reswm dw i'n teimlo fysai hynny'n gwanhau'r ddadl.'[9] A heb benderfyniad cadarn o blaid siarad Cymraeg o'r cychwyn un, mae newid rhwng y ddwy iaith bron yn anochel, yn enwedig os nad yw rhywun yn arfer siarad Cymraeg. Gall siaradwyr Cymraeg, felly, deimlo'n gryfach wrth gadw at yr un iaith, Saesneg, trwyddi draw.

Yn ôl ymgynghorydd iaith, gall cefndir diwylliannol ardal ddylanwadu ar yr arfer hwn, a meithrin rhuddin i barhau siarad yr iaith leol naturiol.

> Mae'n dibynnu'n llwyr pa mor hyderus mae'r Cymry Cymraeg yn eu defnydd o'u Cymraeg, pa mor ymwybodol maen nhw o'r ffactor ieithyddol, ac yn anffodus mae 'na nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg dal i oddef y diffyg hyder hanesyddol 'ma, hynny yw, bod cwrteisi ieithyddol yn golygu cowtowio i unrhyw un sy'n siaradwr yr iaith fwyafrifol.[10]

Eglura hyn ymhellach gan ddweud bod cefndir diwylliannol pob ardal ynghlwm wrth ymddygiad ieithyddol ei phobl. Mae hunaniaeth gref yn golygu mwy o hyder wrth siarad Cymraeg:

> Mae'n siŵr bod 'na rywbeth yn seicoleg leol yn amrywio yn gyffredinol. Mae o'n troi o gwmpas hynny o hyd, yr hyder, hyder a hunanhyder sydd yn ei hun yn deillio o sefyllfa hanesyddol, o sefyllfa o ormes yn hanesyddol. A wedyn mae'n dibynnu i ba raddau mae'r unigolion neu'r cymunedau yn ymwybodol ac yn trio gwrthsefyll y pwysau hanesyddol yna.[11]

Wrth siarad am ardal Gymraeg, dywed cyfieithydd fod cyfieithu yn ffordd o greu argraff o ddigwyddiad uniaith Gymraeg. Gallai hyn roi sicrwydd i siaradwyr Cymraeg, oherwydd heb gyfieithu, byddai'n rhaid i'r siaradwyr Cymraeg feddwl mwy

> am beth fysan nhw'n licio ei ddweud, ond ella na fysan nhw mor barod i gyfrannu. Maen nhw'n meddwl ddwywaith achos dydy o ddim yn dod yn

[8] Cyf2/30.
[9] Cyf7/51.
[10] Cyf6/14.
[11] Cyf6/35.

naturiol iddyn nhw i gyfrannu yn Saesneg. A dydyn nhw ddim yn arfer chwaith gymaint yn rhywle atha'r Blaenau […] Ond oherwydd bod y cyfieithydd yna, dydy o ddim yn broblem.[12]

Teimla un cyfwelai fod dadl ffurfiol yn Gymraeg yn anoddach na siarad mewn cyfarfod cymunedol, a chydnabydda nad oes ganddo ei hun hyder wrth ddadlau:

A dyna pam dw i byth wedi siarad, heb siarad yn y Senedd ers blynyddau, achos bob tro dw i isio siarad, i ddadlau rhywbeth ydy e, a'r foment wyt ti'n dechrau dadlau, wyt ti'n cronni pob math o anawsterau ychwanegol wedyn. A does gen i ddim o'r sicrwydd hyd yn oed mod i yn defnyddio cyfieithu, does gen i ddim sicrwydd fysai'r peth yn gweithio.[13]

Nodwyd mewn cyfarfod â mwyafrif bychan o ddi-Gymraeg fod siaradwyr Cymraeg eisiau osgoi tynnu sylw atynt eu hunain. Mae'n bosibl siarad Saesneg heb fod neb yn sylwi ar yr iaith, tra mae siarad Cymraeg yn tynnu'r sylw oddi wrth y pwnc at yr iaith – trwy gyfieithu, defnyddio clustffonau, a'r angen i ddisgwyl bob tro nes i bawb fod yn barod i wrando.[14] Mae'n sicr bod hyn yn rhan o'r anhawster i siarad Cymraeg mewn trafodaethau a dadleuon mwy ffurfiol lle siaredir Saesneg yn bennaf.

Unwaith eto, a rhoi hyn mewn perthynas â'r bennod flaenorol, awgryma'r dystiolaeth fod cael mwyafrif o siaradwyr Cymraeg yn allweddol wrth greu awyrgylch lle gall hyder i siarad Cymraeg mewn cyfarfod ffynnu. Gall cyfieithu dynnu'r pwysau oddi ar bobl un ai i ddweud popeth ddwywaith, neu i siarad yn Saesneg yn gyfan gwbl.

Pan fo hunaniaeth ieithyddol yr ardal yn gryf a'r iaith yn bresennol yn ei bywyd beunyddiol, mae cyfieithu yn fodd i roi'r hyder i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith pan fo rhai di-Gymraeg mewn digwyddiad. Ond mewn grwpiau gydag aelodau o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol, teimlai rhai nad oedd cyfieithu yn gwneud gwahaniaeth i'w hyder wrth ddefnyddio Cymraeg. A phan nad yw'r awyrgylch cyffredinol yn cynnal yr hyder hwn, ni newidia'r defnydd o'r Gymraeg oherwydd bod cyfieithydd yn bresennol.

Agweddau cyffredinol yw'r rhain ar gyfieithu a'i ran wrth wella hyder wrth siarad Cymraeg. Bydd gweddill y bennod yn ymdrin â lle cyfieithu yn yr elfennau

[12] Cyf1/38.
[13] Cyf7/9.
[14] Arsylwi Cyfarfod 2.

sy'n bwysig wrth esbonio hyder ieithyddol neu ddiffyg hyder ieithyddol ymhellach. Yn awr, edrychwn ar rym hanesyddol y berthynas rhwng lleiafrifoedd ieithyddol a siaradwyr prif iaith y wladwriaeth.

## 8.2 A all cyfieithu ar y pryd ddylanwadu ar ddeinameg grym?

Ymhelaethwyd ym Mhennod 2 ar ddylanwad ieithoedd cryf ar ddatblygiad llafar ac ysgrifenedig ieithoedd lleiafrifol. Cofiwn hefyd fod cyfieithu o reidrwydd yn golygu sylwi ar y berthynas grym rhwng siaradwyr dwy iaith, a hyd yn oed ddylanwadu arni. Mae ymyrryd yn y ddeinameg grym (a ddatblygodd dros ganrifoedd) yn un o brif amcanion cynllunio ieithyddol.

Gofynnir yn yr adran hon a all cyfieithu fod yn rhan o broses o newid y berthynas. Dywedodd Ian Mason mai'r ddeinameg grym rhwng siaradwyr dwy iaith a'r cyfieithydd sy'n gyfrifol i raddau helaeth am sut y datblyga sgwrs neu sefyllfa mewn mwy nag un iaith.[15] Ar ôl gweld uchod yr anawsterau a all godi o gyfieithu, ystyrir yn awr pam nad yw cyfieithu bob amser yn gweithio cystal ag y gobeithir.

I ddeall y defnydd (neu ddiffyg defnydd) o'r Gymraeg, pwysleisia ymgynghorydd iaith bwysigrwydd ystyried y deinameg mewn grŵp:

> Yr hyn y mae pobl yn ei anghofio o hyd ac o hyd, fel oeddwn i'n ddweud gynna', mewn unrhyw sefyllfa mae gyda chi ddeinameg o rym yn gweithio, does, ar bob lefel, hynny yw jest o ran deinameg grŵp, neu o ran sut mae'r cyfarfod yna yn gweithio, o ran pwy yw'r cadeirydd, pwy yw'r prif siaradwyr, pwy yw'r rhan-ddeiliaid yn y sefyllfa, beth yw eu statws nhw, beth yw eu hawdurdod nhw, beth yw eu perthynas waith nhw gyda phobl eraill yn y grŵp, yn yr ystafell, yn y pwyllgor, ac mae iaith yn dod yn elfen o hynny hefyd. Mae perthnasau grym iaith yn rhan allweddol ynddo fo yn sicr o gofio cyd-destun hanesyddol sydd gyda ni yma yng Nghymru, a'r grym sefydliadol ac awdurdodol sydd gan y Saesneg a diffyg grym a gormes sydd wedi bod ar y Gymraeg ar hyd y canrifoedd.[16]

Mae cyfieithu ar y pryd, yn ôl rhai atebwyr, mewn sefyllfa i newid y berthynas hon – os dim ond dros dro. Teimla rhai o'r atebwyr fod budd i'w gael o gyfieithu, gan ddweud ei fod yn gweddnewid eu cyfarfodydd. Hebddo, meddai un,

---


[15] Mason, *Dialogue Interpreting,* t. 159.
[16] Cyf6/9.

byddent yn 'llithro'n ôl i sefyllfa "Coloniaidd" '.[17] Mae yna rywfaint o ddealltwriaeth, felly, o'r sefyllfa ieithyddol. Yn amlwg, ni wêl yr atebwyr y ffaith fod iaith ychydig rai yn meddu ar fwy o rym nag iaith y mwyafrif, yn sefyllfa deg. Disgrifir hyn fel 'sefyllfa wirion – dwsin o Gymry Cymraeg i gyd yn siarad yn Saesneg oherwydd dau neu dri di-Gymraeg',[18] a pherchir cyfieithu fel cais i ail-greu rhywfaint o degwch.

Wrth ofyn sut mae'r berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg wedi newid ers y defnydd o gyfieithu, atebir fel a ganlyn (Ffigwr 8.2):

Mae hanner yr atebwyr Saesneg eu hiaith yn teimlo bod eu perthynas gyda'r Cymry Cymraeg 'wedi gwella' neu 'wedi gwella llawer', ac mae 38% o'r Cymry Cymraeg yn meddwl yr un peth am eu perthynas hwy gyda'r di-Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o atebwyr yn nodi unrhyw newid (50% o'r di-Gymraeg a 57% o siaradwyr Cymraeg).

**Ffigwr 8.2:**
**Beth yw'r newid yn eich perthynas gyda'r grŵp ieithyddol arall ers i chi ddefnyddio cyfieithu?**




Gan adlewyrchu barn y rhai na wêl effaith cyfieithu, mae un cyfieithydd yn datgan nad yw'r gwasanaeth ynddo'i hun yn ddigon i greu perthynas fwy cyfartal:

> Mae defnydd unigolion o'r Gymraeg yn gallu amrywio o gyfarfod i gyfarfod. Mae'n dibynnu ar amrywiolion eraill, sef faint o Gymry Cymraeg eraill sydd yna ar y noson, ble maen nhw'n cyfarfod, mewn faint o leiafrif ydy'r Cymry Cymraeg. Mi wneith unigolion Cymraeg siarad mwy o Gymraeg mewn un cyfarfod nag mewn cyfarfod arall. Ond yr amgylchiadau eraill sy'n bwysicach na'r cyfieithydd. Dydy 'mhresenoldeb i – achos dw i'n bresennol yn y ddau – dydy 'mhresenoldeb i ynddo ei hun ddim yn effeithio ar eu

[17] H29/5.
[18] H29/1.

> penderfyniadau. Mae eu penderfyniadau nhw yn cael ei effeithio yn gryfach gan ffactorau eraill.[19]

Mewn geiriau eraill, y rheswm pam nad yw cyfieithu ar y pryd yn gweithio'n llawn yw 'tueddiad aelodau unigol i ildio a defnyddio'r Saesneg wrth ymateb' i sylw neu gwestiwn Saesneg.[20] Dyna'r ymddygiad a ddisgrifiodd Dilys Davies fel 'llarieidd-dra'. Y berthynas grym rhwng siaradwyr y ddwy iaith, fel y dywedodd Ian Mason, sy'n ei gwneud hi'n anodd i gyfieithu ddylanwadu'n gadarnhaol ar hyder siaradwyr Cymraeg.

Rheswm arall dros golli hyder, fel y gwelwyd eisoes, yw nifer bach o siaradwyr Cymraeg mewn digwyddiad. Noda'r ymgynghorydd iaith:

> Wrth gwrs os oes 'na ryw un neu ddau berson yna, mae eisiau gryn hyder a *guts*, ddywedwn i, i ddefnyddio eich iaith chi, eich iaith leiafrifol chi mewn sefyllfa leiafrifol yn erbyn holl rym ieithyddol y Saesneg a grym sefydliadol y grŵp yna.[21]

Yn ogystal â hynny, gall unigolion ddylanwadu ar y defnydd o'r naill iaith neu'r llall mewn cyfarfod. Noda cyfieithydd: 'Y rheswm fod y defnydd o'r Gymraeg yn eitha bychan oedd fod siaradwr allweddol (cynghorydd sir sy'n gwybod mwy ac yn siarad mwy na'r gweddill) yn ddi-Gymraeg.'[22] Down yn ôl at y pwynt hwn ym Mhennod 10.

Hyd yn oed pan geir dipyn o naws Gymraeg ar ddechrau cyfarfod, gall presenoldeb di-Gymraeg droi'r cyfarfod yn fwy Saesneg.

> A beth arall sy'n digwydd wrth gwrs yn reit aml ydy cyfarfod yn dechrau efo dipyn go lew o Gymraeg, ond wrth i'r rhai di-Gymraeg ddod i fewn i'r ddadl – a'r duedd ydy i bobl ddi-Gymraeg fod yn fwy hyderus beth bynnag, mwy parod i wneud cyfraniadau i'r drafodaeth – mae'r *linguistic drift* 'ma yn digwydd. Mae'r Cymry Cymraeg yn tueddu i ymateb yn Saesneg iddyn nhw. Ac erbyn diwedd y cyfarfod, does 'na ddim Cymraeg o gwbl.[23]

Mae'r sylwebaeth hon gan gyfieithydd yn datguddio agwedd siaradwyr Cymraeg at bresenoldeb rhai di-Gymraeg fel pe baent yn cynrychioli awdurdod. Hyd yn oed gyda chyflwyniad Cymraeg, arweinia trafodaeth ymysg pobl ddi-Gymraeg at sefyllfa lle mae pawb yn trafod yn Saesneg. Mewn un man, cafwyd 'cyflwyniad

[19] Cyf2/37.
[20] H17/6.
[21] Cyf6/10.
[22] HWBcap2/1.
[23] Cyf2/17.

gan swyddog o Awdurdod y Parc yn Gymraeg, a thrafodaeth y tri di-Gymraeg yn troi'r cyfarfod yn un Saesneg wedyn.'[24] Sylwebwyd yn un o gyfarfodydd y Bwrdd Iechyd i'r perwyl hwn gan nodi fod

> un cynrychiolydd o Gyngor Gwynedd yn cyfrannu yn 'swyddogol' yn Gymraeg, felly pethau mae hi wedi meddwl amdanynt ymlaen llaw (materion yn codi o'r cofnodion e.e., neu sylw i ryw adroddiad oedd yn y papurau), ond unwaith mae cwestiwn yn Saesneg, mae hi'n siarad Saesneg, weithiau yn ôl i'r Gymraeg.[25]

Awgryma'r profiad hwn y gall fod yn haws siarad Cymraeg pan geir amser i feddwl am y drafodaeth ymlaen llaw, ond bod dadl o'r frest wyneb-yn-wyneb â rhywun di-Gymraeg yn anoddach wrth siarad yn y ddwy iaith a thrwy gyfieithydd.

Cymhlethwyd y ddealltwriaeth o'r patrymau sy'n gwneud i rywun benderfynu ar iaith pan holodd Cymro, yn yr un cyfarfod, gwestiwn yn Gymraeg. Nid oedd y Sais wedi deall cyfieithiad y cwestiwn, ac yn hytrach nag aileirio, gofynnodd y Cymro yn Saesneg.[26] Pam y digwyddodd hyn? Ai oherwydd yr arfer i ildio i ddymuniad y di-Gymraeg i glywed Saesneg heb ei gyfieithu? Ynteu'r ofn na wrandewir arnoch oni bai eich bod yn siarad yn Saesneg? Ynteu oherwydd ei fod yn dymuno hwyluso'r drafodaeth a helpu'r Sais i'w ddeall? Ynteu diffyg ffydd yn y cyfieithydd, ar ôl iddo gyfieithu'r cwestiwn cyntaf yn aneglur? Nid yw'r cwestiynau hyn yn hawdd i'w hateb. Ar y llaw arall (a chan gymhlethu'r mater ymhellach), ni ellir osgoi'r argraff weithiau fod unigolyn di-Gymraeg yn honni nad yw wedi deall y cyfieithiad, pan ddywed pawb arall ei fod yn glir.

Gwelir i'r di-Gymraeg eu hunain roi cyfiawnhad i'r argraff hwn: 'A wyt ti'n gweld bod y Saeson yn tueddu i fod yn hapusach pan maen nhw'n arwain y drafodaeth.'[27] Deellir y sylw hwn yn well wrth arsylwi ar gyfarfod un o'r cynghorau cymuned: 'Mae'r Sais gweithgar yn hoffi cael y gair olaf, hyd yn oed os nad oedd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth ei hun rhyw lawer. Mae'n gwneud sylwadau ynglŷn â rheolau a'r gyfraith mewn tôn reit bwysig.'[28] Hyd yn oed pan nad yw'n cyfrannu at y drafodaeth ei hun, mae teimlad bod ambell unigolyn di-

[24] HWBcap3/1.
[25] Arsylwi Cyfarfod 2.
[26] Arsylwi Cyfarfod 1.
[27] Cyf1/17.
[28] Arsylwi Cyfarfod 7.


Gymraeg am ddangos ei bwysigrwydd drwy grynhoi, cyfeirio at reolau, neu wneud sylwadau 'swyddogol'. Yn nes ymlaen ar ôl y cyfarfod, sylwyd ei fod

> yn hoffi cymryd y drafodaeth drosodd – nid ei fod yn siarad drwy'r amser, ond yn dweud pethau oedd fod i swnio yn bwysig. Mewn ffordd, nid oes dewis gan y lleill ond i wrando ar ei 'gyngor cyfreithiol'. Dywedodd y cyfieithydd hefyd mai fo oedd wedi mynd i'r llys ar ran y cyngor un tro gan ennill achos – tybed a ydynt yn teimlo mai fo sy'n gwybod y pethau 'ma mwy na neb arall?[29]

Mewn achos fel hyn, gall diolchgarwch chwarae rhan hefyd. Er mwyn dangos i'r aelod di-Gymraeg ei fod wedi gwneud cyfraniad gwerth chweil i'r cyngor, teimla'r siaradwyr Cymraeg efallai nad ydynt am iddo deimlo'n chwithig wrth gyfathrebu trwy gyfieithydd, gan droi i'w iaith ef.

At ei gilydd, ymddengys y gall y Cymry Cymraeg fod yn swil mewn grwpiau cymysg, nid yn eu defnydd o'u hiaith yn unig, ond yn eu hymddygiad yn gyffredinol. Dywed cyfieithydd:

> Mae'r Cymry yn medru arwain yn iawn oni bai bod 'na rywun arall wneith wneud o yn eu lle nhw. Dyna ydy'r tueddiad. Maen nhw'n tueddu ychydig bach i fod yn meddylfryd defaid braidd. Os oes 'na rywun arall sy isio cymryd yr arweiniad maen nhw'n hapus i ddilyn reit aml. Heb sylweddoli bod nhw'n gwneud.[30]




**Ffigwr 8.3: Effaith cyfieithu ar y pryd ar sefyllfa bersonol o fewn y grŵp**

[29] Arsylwi Cyfarfod 7.
[30] Cyf1/16.

Amlyga Ffigwr 8.3 uchod y gwahaniaeth y mae cyfieithu wedi ei wneud i'r di-Gymraeg a'r Cymry Cymraeg o safbwynt eu sefyllfa bersonol yn y grŵp. Sylweddola 85% o'r Cymry Cymraeg nad yw eu sefyllfa wedi newid. Ond teimla 80% o'r di-Gymraeg eu bod ar eu hennill drwy gael cyfieithydd. Os yw'n wir bod y di-Gymraeg yn fwy hyderus i siarad ac i arwain mewn grwpiau, rhoddwyd y cyfle iddynt fynegi'r hyder hwn trwy gael gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd.

Felly, gall y defnydd o gyfieithu ar y pryd danseilio hyder siaradwyr Cymraeg hyd yn oed mewn grŵp â mwyafrif Cymraeg, a hynny trwy gryfhau sefyllfa bersonol y di-Gymraeg yn y grŵp. Ond pan mae siaradwyr Cymraeg yn cadw eu hunain yn y cefndir (wrth i fwy o'r di-Gymraeg gyfrannu at y drafodaeth yn Saesneg), mae hyn yn mynd yn groes i bwrpas pennaf y gwasanaeth cyfieithu. A oes perygl bod ennill yn safle personol y di-Gymraeg yn arwain at golli'r llefydd hyn i siaradwyr Cymraeg, hyd yn oed yn y grwpiau neu ardaloedd Cymraeg? Mae pryder am hynny yn egluro agwedd rhai y dylai cyfieithu ar y pryd fod yn rhywbeth dros dro (os oes rhaid ei gael o gwbl). Mae gofyn ceisio newid y sefyllfa a gwneud yn siwr nad yw'n troi ymhellach tuag at y Saesneg. Fel y dywed un cynghorydd cymuned, mae'n hollbwysig cymryd cyfrifoldeb:

> Am ryw reswm, mae'r Saeson yn fwy bodlon siarad mewn cyfarfodydd a sefyll i fod yn swyddogion hefyd, ac mae'r bobl yn dweud eu bod nhw'n cymryd drosodd gynnon ni. Ond dw i wastad yn trio dweud, pam dach chi ddim yn sefyll eich hunain? Os nad ydan ni'r Cymry yn sefyll i fyny i fod yn trefnu pethau, a bod yn gadeirydd neu'n glerc, does gynnon ni ddim hawl i gwyno. Mae'n bwysig iawn i ni sefyll dros ein hiaith ni.[31]

Wrth arsylwi mewn cyfarfod cymunedol, cafwyd yr argraff nad oedd pawb yn gallu cadw at y Gymraeg. Cadarnhaodd yr arsylwi y drafodaeth a gafwyd ym Mhennod 4 uchod, sef bod holl gyflwr seicolegol y lleiafrif ieithyddol yn mynd yn erbyn cymryd cyfrifoldeb. Roedd rhyngweithio rhwng cynghorwyr di-Gymraeg ac un cynghorydd Cymraeg yn achosi'r sylw a ganlyn:

> Yn ôl fy argraff cyntaf, roedd un Cymro yn enwedig yn siarad Saesneg. Ac roedd o'n siarad llawer hefyd. Roedd o'n gwneud lot o bethau ar ran y cyngor a phwyllgorau eraill. A oedd o, trwy siarad Saesneg, isio plesio'r cynghorydd Saesneg a oedd yn weithgar iawn hefyd?[32]

[31] Cyf3/30.
[32] Arsylwi Cyfarfod 6.

Os seilir y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg ar y dymuniad i blesio rhywun di-Gymraeg sydd â naws awdurdod yn ei gylch, nid yw darparu cyfieithu yn ddigon i newid ymddygiad. Ond efallai ar ôl dwyn yr ymddygiad i sylw, gallai cyfieithu fod yn ddefnyddiol i greu awyrgylch newydd. Sylweddola cyfieithydd fod cyfyngiad ar faint y gall ei gyflawni trwy ei waith:

> Mae'r busnes 'na o arferion pobl a'u hagweddau nhw tuag at y Gymraeg, yn enwedig y ffordd maen nhw'n meddwl bydd pobl yn ymagweddu tuag atyn nhw pan maen nhw'n siarad yn Gymraeg, yn rymoedd seicolegol pwerus iawn. A dydy presenoldeb cyfieithydd ar y pryd ddim digon i oresgyn hyn.[33]

Er hynny, ni olyga hyn na fydd pobl yn falch o'r cyfle i siarad Cymraeg y mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ei roi iddynt. Sefyllfa gymysg yw hi fel arfer, fel y deallwn o'r sylw nesaf unwaith eto:

> Nid oes digon o hyder gan rai, neu nid oes digon o ruddin, i siarad Cymraeg mewn cyfarfod lle mae llawer o rai di-Gymraeg, er bod cyfieithu ar y pryd ar gael. Mae eraill yn gweld gwerth yn y gwasanaeth, ac yn manteisio ar y cyfle y mae'n ei roi.[34]

Mae ambell un yn meddwl am hyder y dysgwyr yn bennaf. Efallai bod yr atebydd nesaf yn dangos ei deimlad o israddoldeb a llarieidd-dra yn ei farn bod rhaid i'r di-Gymraeg fod yn gyfforddus a hyderus, cyn iddo allu meddwl am ei hyder ei hun.

> Dach chi ddim yn ffeindio bod ni'n lladd yr hyder yna trwy droi i'r Saesneg? Dan ni'n dweud, 'Sut dach chi heddiw. Da iawn, diolch. O mae'n ddiwrnod braf.' A wedyn be dan ni'n ei wneud ydy troi i'r Saesneg yn lle ceisio eu helpu nhw. Dw i'n ymwybodol bod 'na lot o fai arnon ni fel Cymry.[35]

Mae'r cyflyru sy'n peri i'r Cymry Cymraeg feddwl am y siaradwyr Saesneg, nid yn unig fel y rhai sydd angen ein sylw, ond fel cynrychiolwyr awdurdod, yn mynd yn bell. Collwn hyd yn oed ein dirnadaeth o ieithoedd a diwylliannau eraill, oherwydd trwy'r Saesneg rydym yn dysgu ac yn gwybod amdanynt. Er enghraifft, dywed un cyfwelai:

> Yn aml iawn gei di weinidog mewn capel sy'n dyfynnu Martin Luther yn Saesneg. Pam dim mynd yr holl ffordd a'i gyfieithu i'r Gymraeg ei hunan yn

[33] Cyf2/39.
[34] H21/3.
[35] Cyf3/15.

> ei ben, dydy hwnna ddim yn broblem. Mae o fel petai pawb arall sy ddim yn Gymry yn siarad Saesneg.[36]

Mae hyn eto yn dystiolaeth i ddadl Oscar Diaz Fouces uchod a ddywed pa mor bwysig yw disodli'r brif iaith fel dolen rhwng y lleiafrif ieithyddol a gweddill y byd.

Cafwyd enghraifft o'r cyswllt rhwng materion swyddogol a'r Saesneg o arsylwi ar gyfarfod arall:

> Mae un o'r ddau gynghorydd di-Gymraeg yn siarad lot. Mae o wedi cymryd y rôl swyddogol, gan ei fod yn gynghorydd sir hefyd, o wybod efo pwy i gysylltu, a sut, a pa ffordd i fynd. Mae'n bendant iawn ynglŷn â sut mae'n gweld pethau a sut i fynd o'i chwmpas hi.[37]

Ymhellach, nodir:

> Mae'r cynghorydd di-Gymraeg yn siarad am bynciau mwy 'swyddogol', fel y neuadd, y shed bysus, ac mae'n defnyddio termau'r cyngor fel *highways department*, *housing department*, *monitoring office*. Mae'n gwybod am y bobl iawn i gysylltu efo nhw. Mae'n dweud 'we should…', 'we should…'. [38]

Beth sy'n digwydd mewn achos fel hwn? Ai'r siaradwyr di-Gymraeg sy'n 'cymryd drosodd' (fel yr awgrymodd rhai atebion), ynteu ai'r siaradwyr Cymraeg sy'n gadael iddynt wneud hynny? Pam na ddylid dibynnu ar wybodaeth angenrheidiol rhywun di-Gymraeg? A oes gwir rwystr i unigolyn Cymraeg feddiannu'r rôl yna? Cyfyd cwestiwn arall: a gysylltir hunaniaeth Gymraeg â'r cyflwr o beidio â bod yn swyddogol? Yng nghyfarfod dilynol yr un grŵp, sylwyd nad 'oedd y cynghorydd di-Gymraeg a oedd yn siarad llawer yna heno. Roedd hyn yn amlwg yn newid y cyfarfod i fod yn fwy Cymraeg, ac roedd aelodau eraill y cyngor yn fwy bodlon cyfrannu.'[39] Trafodwyd yr un math o faterion, ond mewn modd llai swyddogol, hynny yw, gan ddefnyddio iaith gyffredin. Ni phwysleisiodd neb ei gysylltiadau yn y Cyngor Sir nac mewn sefydliadau eraill, ond eto cyflawnwyd cymaint mewn trafodaeth ag yn y cyfarfod blaenorol.

O holi a all cyfieithu ymyrryd yn y berthynas grym rhwng siaradwyr Saesneg a siaradwyr Cymraeg, rhaid ateb trwy gyfaddef nad oes ateb syml ar gael unwaith eto. Crybwyllwyd eisoes mai haws yw i gyfieithu ddylanwadu ar y berthynas pan

[36] Cyf7/54.
[37] Arsylwi Cyfarfod 8.
[38] Arsylwi Cyfarfod 8.
[39] Arsylwi Cyfarfod 9.

fo gan siaradwr Cymraeg yr hyder angenrheidiol i fanteisio ar y cyfle (pan fo cyfieithydd ar gael). Nid peth mor hawdd yw newid y berthynas pan nad yw'n arfer siarad trwy gyfieithydd, oherwydd yr ofn o dynnu sylw at yr iaith pan nad yw'n bwnc trafod. Awgryma tystiolaeth yr adran hon efallai fod cyfieithu yn dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg pan fo'n rhoi'r cyfle i siaradwyr hyderus siarad Cymraeg, ond pan nad yw'r hyder ganddynt, mae cyfieithu'n amlygu'r diffyg hyder hwn.

### 8.3 A oes cysylltiad rhwng rhugledd yn y Gymraeg a'r defnydd o gyfieithu?

Cyfeiriwyd uchod at drafodaeth Hywel Jones a ddadansoddodd arolwg o ddefnydd iaith yn 2004, ac a ddadleuodd fod hyder a rhugledd ynghlwm â'i gilydd. Po fwyaf rhugl y mae rhywun yn ei Gymraeg, meddai, mwyaf hyderus y mae wrth siarad mewn sefyllfa ffurfiol, a mwyaf fydd ei ddefnydd o'r Gymraeg. Gall pobl golli eu hyder wrth siarad Cymraeg os nad ydynt yn gyfarwydd â'r derminoleg, neu os teimlant fod eraill yn siarad Cymraeg yn well na hwy.

Rhaid cofio, fodd bynnag, fel y nododd Williams a Morris, fod rhugledd siaradwyr Cymraeg yn y ddwy iaith yn bur wahanol. Tuedda eu gallu llafar o'r Gymraeg i ragori ar eu sgiliau darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Yn Saesneg, i'r gwrthwyneb, mae pedwar sgil iaith (siarad, deall, darllen, ysgrifennu) siaradwyr Cymraeg yn gyson ar yr un lefel.[40]

Pwrpas yr adran hon yw asesu'r berthynas rhwng cyfieithu ar y pryd a rhugledd yn y Gymraeg. A yw cyfieithu yn cynyddu rhugledd siaradwyr Cymraeg, neu rugledd dysgwyr Cymraeg? Ynteu a yw'n rhwystro pobl rhag siarad yn rhwydd? Beth fyddai'n rhaid ei wneud i gyfieithu gael yr effaith o wneud pobl yn fwy rhugl eu Cymraeg?

Yn gyntaf, cadarnhawyd bod rhaid cyrraedd lefel uchel o rugledd cyn meiddio siarad Cymraeg mewn pwyllgorau neu gyfarfodydd cyffelyb:

> Achos mae cywair iaith pwyllgor yn debygol o fod yn uchel (mi fedr hyd yn oed fod yn arbenigol o ran terminoleg ac ati hefyd), felly, i gyrraedd lefel o hyder a hyfedredd i gyfrannu'n ystyrlon ac yn bwerus mewn pwyllgor, achos

[40] Williams/Morris, t. 66.

> mae 'na ddeinameg pŵer wrth gwrs mewn pwyllgorau, mae angen i chi fod yn o rugl, does?[41]

Weithiau, rhydd y syniad o orfod siarad yn 'iawn' gymaint o bwysau ar siaradwyr Cymraeg nes eu bod yn colli eu hyder i siarad yn eu hiaith gyntaf. Ni theimlant fod eu Cymraeg yn ddigon da, a siaradant Saesneg, fel y tystia'r sylw hwn:

> Welsh speakers demanded that a Welsh speaker should use 'the' Welsh to address (or answer) the group's questions and make use of the translator. The person speaking said he could not express himself in 'the' Welsh and wished to use English.[42]

Dyna dystiolaeth o'r disgwyliad i ddefnyddio cywair y mae rhai siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth ei ddefnyddio yn Saesneg nag yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw pawb yn ymateb yn yr un modd; mae rhai yn fwy hyderus wrth siarad Cymraeg ffurfiol, ac eraill yn siarad yn anffurfiol mewn sefyllfa ffurfiol, heb boeni am hynny. Mae gallu iaith, neu ganfyddiad pobl o'u rhugledd eu hunain, yn gymhleth: 'Mae rhaid i ddealltwriaeth pobl o allu ieithyddol a sgiliau ieithyddol a hyfedredd a hyder ieithyddol, mae'n sefyllfa dipyn mwy cymhleth na beth mae pobl yn meddwl, ar bob ochr.'[43]

Ar ben hynny, nid yw'r un cyfarfod yn unffurf o ran cywair o'r dechrau hyd y diwedd. Cred un o'r atebwyr mai peth hawdd yw adrodd neu gyflwyno rhywbeth y cafwyd cyfle i'w baratoi ymlaen llaw: 'Hawdd iawn ydy adrodd. Nawr dw i'n mynd i adrodd [am] yr adran Gymraeg, neu beth bynnag, mae hyn yn hawdd, gallai unrhywun wneud hynny.'[44] Rhywbeth hollol wahanol fyddai siarad o'r frest a dadlau pwynt.

I gymhlethu'r ddadl, nid yw pobl bob amser yn dewis siarad yn yr iaith y maent fwyaf huawdl ynddi. Tra mae'n wir bod rhai siaradwyr yn gyndyn i siarad Cymraeg yn gyhoeddus, nid yw hyn o reidrwydd yn wir am y Saesneg. Mae rhai siaradwyr Cymraeg yn llawer mwy bodlon siarad Saesneg 'hyd yn oed er bod eu Saesneg nhw yn reit garbwl. Bysai'n well iddyn nhw siarad yn rhugl yn Gymraeg a dibynnu ar y cyfieithiad, bysai hynny'n gwneud argraff well'.[45] Mae hyn yn arwydd nad rhugledd gwrthrychol sy'n cyfrif. Yn hytrach, mae a wnelo'r defnydd

---

[41] Cyf6/3.
[42] H6/16.
[43] Cyf6/22.
[44] Cyf7/5.
[45] Cyf2/7.

o'r Saesneg â statws a grym yr iaith yn gyhoeddus. Ond hefyd mae pryder y bydd rhan o'r neges yn mynd ar goll os siaredir Cymraeg a thrwy gyfieithydd:

> We still have lots of native Welsh speakers who prefer to speak English for business. Part of it is confidence, it's not confidence in their own language skills although that is part of it. It's a worry that your nuance is getting lost in translation.[46]

Ym marn yr atebydd hwn (a ni wyddys faint mae'n ei wybod am gyfieithu mewn gwirionnedd, naill ai yng Nghymru neu yn gyffredinol), mae'n amlwg bod diffyg safon y cyfieithu yn achosi i'r siaradwyr golli eu hyder wrth siarad yn y ddwy iaith:

> If you actually lack confidence in your English speaking ability, and I have one or two people […] who I'm pleased to say feel much more confident in Welsh than they do in English, and yet they know that the translation facility won't keep up, and they feel forced to change to English but then lose confidence in themselves because they can't cope so well in English, we end up with a terrible muddle.[47]

Mae'r pwynt olaf hwn yn bwysig. Dengys ba mor anodd gall bod yn ddwyieithog deimlo i'r rhai sy'n byw mewn ardal Gymraeg. Mae ganddynt hyder i siarad Cymraeg yn rhugl, ond gall sefyllfa benodol danseilio'r hyder hwn.

O'r dystiolaeth hon, nid oes arwydd o effaith uniongyrchol cyfieithu ar rugledd. Yr hyn y gall cyfieithu ei wneud yw cynnig cyfle i siaradwyr rhugl a hyderus siarad Cymraeg. Efallai y bydd hyn, yn y pen draw, yn arwain at weld eraill yn magu'r hyder i siarad Cymraeg hefyd.

Gall cyfieithu, fodd bynnag, fod yn ddull i ddysgwyr ddod i arfer â thrafodaeth yn Gymraeg ac i ddysgu terminoleg newydd, gyda'r cyfle i gyfeirio at eiriau neu ymadroddion Saesneg drwy'r clustffonau. Ond yr un amod i hyn weithio yw safon y cyfieithu. Os erys unrhyw amheuaeth am ei ansawdd, bydd rhai pobl bob amser yn ffafrio siarad 'Saesneg carbwl' dros Gymraeg rhugl. Trafodir safon cyfieithu ymhellach ym Mhennod 10.

---

[46] Cyf4/6.
[47] Cyf4/16.

## 8.4 A all cyfieithu ar y pryd greu *comfort zone* newydd?

Soniwyd llawer eisoes ei bod hi'n bwysig i siaradwyr Cymraeg deimlo'n gyfforddus cyn iddynt benderfynu siarad Cymraeg – cyfforddus yn awyrgylch diwylliannol y grŵp, ac i ddefnyddio'r cywair priodol ar gyfer y cyd-destun. Po leiaf cyfforddus y teimla siaradwr iaith leiafrifol, lleiaf tebygol y bydd o siarad ei iaith yn gyhoeddus. Gwelwyd uchod nad rhugledd sy'n gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus, gan fod Cymry Cymraeg yn eu hystyried eu hunain yn hollol rugl mewn sefyllfaoedd preifat. Ond mae'r arfer o siarad Saesneg yn gyhoeddus yn anodd i'w dorri, a gall siarad Cymraeg olygu ymdrech arbennig. Holir yn yr adran hon a all cyfieithu helpu newid yr arferion hyn, ac a all wneud siarad Cymraeg mor gyfforddus â siarad Saesneg gynt (os, yn wir, yw hyn yn gyfforddus?).

Cymerir yn ganiataol fod awyrgylch cartrefol yn bwysig i siaradwyr Cymraeg: 'Mae rhaid i chi eich hunain deimlo'n hollol gartrefol, a hefyd mae rhaid i chi deimlo bod y bobl sy'n gwrando ar yr un donfedd â chi.'[48] Ond a all cyfieithu greu'r awyrgylch hwn? I ryw raddau, mae amheuaeth ynglŷn â chyfieithu – o brofiad, neu o annealltwriaeth – yn chwarae rhan. Mae gan un o'r atebwyr di-Gymraeg brofiad o hynny:

> Am I actually hearing what he was saying? Because I've got to trust the translator to get it right, and actually if you're good you know you can't quite trust the translator. Have I missed the crucial point? Sometimes it's obvious to everybody, I've been to meetings […] where the translation has broken down.[49]

Ni olyga hyn nad yw'n ymddiried yn unrhyw gyfieithu. Ond mae'n ymwybodol na all unrhyw gyfieithu fod llawn cystal â'r gwreiddiol. A phan fod gan rywun amheuaeth am allu proffesiynol cyfieithwyr, gall teimlad o fod yn gartrefol neu beidio ddod i'r fantol (i siaradwyr y ddwy iaith):

> What have I missed out on that, because she sitting next to me has heard it because she understands Welsh and she knows what is said, and I don't. And there's a huge comfort issue about that. I've got an idea what he said, I've got the gist of it, but I don't know what he said. And I don't think that we can deal with that comfort issue properly until we've got the cyfieithu ar y pryd to a higher standard.[50]

[48] Cyf7/3.
[49] Cyf4/61.
[50] Cyf4/63.

Cydnabyddir yma fod gan gyfieithu ran mewn creu awyrgylch hollol gartrefol i bawb. Ond hyd yn oed gyda gwasanaeth cyfieithu penigamp, mae'n bosibl yr erys teimlad anghyfforddus nad yw pawb yn gyfartal.

Elfen arall sy'n rhwystro cysur personol, i siaradwyr Cymraeg y tro hwn, yw'r teimlad o fod yn annigonol yn eu defnydd o'r Gymraeg, pan nad ydynt yn siarad Cymraeg pryd bynnag y byddai hyn yn bosibl. Nid yw teimlo euogrwydd neu gywilydd yn ysgogi siarad Cymraeg yn gyhoeddus. I'r gwrthwyneb, adrodda cyfieithydd fod 'un Gymraes yn esgusodi ei hun am drafod un mater yn Saesneg gan nad oedd hi'n gyfarwydd â'r termau. Y lleill yn dweud wrthi mai'r pwynt oedd iddi fedru defnyddio pa iaith bynnag oedd orau ganddi'.[51] Gall pwyso ar rywun i siarad Cymraeg wneud iddo gilio a siarad llai byth. Yn hytrach na chynyddu ei hyder yn yr iaith, gall ei wanhau ymhellach. Meddai cyfwelai, 'This business of hyder works in a number of quite sophisticated ways. There's an embarrassment factor as well I think.'[52] Hynny yw, mae'n embaras peidio â bod yn ddigon hyderus i siarad Cymraeg pan fo'r cyfle yn codi, pan fo rhywun yn gwybod bod eraill yn disgwyl hynny, a phan fo teimlad o ddyletswydd.

I'r siaradwyr Saesneg, nid yw hyder ieithyddol ar y cyfan yn fater pwysig i'w drafod, ac efallai ei bod hi'n anodd iddynt ddeall anawsterau emosiynol siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn gwybod am ddiffyg hyder (oherwydd diffyg rhugledd), a theimla ambell un ohonynt yr angen i gyfiawnhau ei hun pan nad yw'n siarad Cymraeg: 'In other meetings if my confidence is up I will speak Welsh.'[53] Trwy sylw fel hwn ceisia ddangos ei fod yntau yn rhan o'r gymuned gan ei fod yn dysgu ei hiaith. Mae dysgwyr mwy rhugl yn mynd ati yn ddiffwdan i siarad Cymraeg, a gall hyn yn ei dro achosi mwy o gywilydd i siaradwr Cymraeg:

> Mi gewch chi ambell achos lle mae 'na ddysgwr yn defnyddio ei Gymraeg mewn cyfarfod lle mae 'na Gymry Cymraeg sydd ddim. Wythnos o'r blaen yn Llanrwst, swyddog sydd wedi dysgu Cymraeg, mae o'n gwneud y rhan fwyaf o'i gyflwyniadau yn Gymraeg. Ac oeddwn i allan yn y maes parcio wedyn yn siarad efo rhywun. A dyma'r ddynes 'ma sy'n Gymraes yn dod heibio yn dweud, 'Soandso puts us to shame', meddai hi (achos efo Sais oeddwn i'n siarad). Roedd hi'n cyfaddef tu allan y gallasai hi fod wedi defnyddio ei Chymraeg ond bod hi ddim wedi gwneud, byth yn gwneud. Ond a fydd hyn

[51] HWBcap12/1.
[52] Cyf4/22.
[53] H6/12.

> yn peri iddi hi ddefnyddio'i Chymraeg mewn cyfarfodydd i ddod, mae hyn yn gwestiwn arall. Mae 'na bobl sy'n cydnabod. Mae 'na ambell un a ddaw i fyny ataf i wedyn i ymddiheuro nad ydyn nhw ddim wedi defnyddio'u Cymraeg. Ond y tro nesaf, Saesneg fydd hi eto.[54]

Roedd y ddynes hon yn gwybod mai cwestiwn o hunaniaeth ddiwylliannol oedd siarad Cymraeg hefyd. Oni bai ei bod yn gwybod ei bod hi'n rhannu'r diwylliant â'r cyfieithydd ac eraill, ac oni bai iddi deimlo bod siarad Cymraeg yn rhan o'r diwylliant hwnnw, ni fyddai wedi teimlo'r angen i ymddiheuro. Y mae'r bobl sy'n dod at y cyfieithydd i ymddiheuro yn ymwybodol o'r ffaith nad ydynt yn gwneud digon i gadw'r iaith yn fyw ar lafar mewn cyfarfodydd, ac yn teimlo cywilydd o'r herwydd. Arweinia'r teimlad o beidio â bod yn gystal Cymraes/ Cymro ag eraill – dim hyd yn oed cystal â dysgwr – yn ôl at y cwestiwn gyda pha iaith mae'r grym, ond hefyd at sefyllfa lle gall rhywun golli yn raddol yr holl hyder sy'n weddill ganddo. Gall grym y brif iaith, yn ogystal â'r pwysau a'r disgwyliad iddo ei wrthsefyll, danseilio holl hyder personol siaradwyr Cymraeg, hyd yn oed pan fo cyfieithu ar y pryd yna i'w cynorthwyo.

Y mae'r profiadau hyn yn arwain at dybio mai diffyg rhugledd sydd gan ddysgwyr, nid cymaint diffyg hyder. Nid ydynt yn poeni cymaint am siarad gyda gwallau ieithyddol. Gall Cymry Cymraeg, ar y llaw arall, deimlo diffyg hyder personol a diffyg hyder yn eu hunaniaeth.

Mae'n debyg bod siaradwyr Cymraeg wedi dod i arfer teimlo'n fwy cyfforddus i siarad Saesneg o flaen cyfarfod neu gynulleidfa gan fod y cyfleoedd i siarad Cymraeg yn gallu bod yn brin. Ond dibynna'r arfer o siarad iaith hefyd ar yr iaith a ddefnyddir yn y meddwl i gnoi cil ar fater cyn ei drafod. Os arferir paratoi cyfarfodydd lled ffurfiol yn Saesneg, gall siarad yn Gymraeg deimlo fel colli rheolaeth. Ni fydd rhywun felly yn manteisio ar bresenoldeb cyfieithydd i siarad Cymraeg. Ac os ydyw'n arfer trafod yn rhugl yn Gymraeg, gall presenoldeb rhai di-Gymraeg a chyfieithydd achosi teimlad lletchwith sy'n rhwystro'r rhugledd hwnnw. Y naill ffordd neu'r llall, bydd yna rai siaradwyr Cymraeg â'r teimlad bod eu grym, eu statws neu eu gallu i gyfathrebu yn uniongyrchol yn cael ei ddwyn oddi arnynt pan fo cyfieithydd mewn cyfarfod, a'r disgwyliad iddynt siarad Cymraeg (gweler dadl Paolo Freire uchod).

[54] Cyf2/45.

Amlygwyd yn yr adran hon y ffaith fod cyfieithu yn codi cwestiynau ynglŷn â siarad Cymraeg a hunaniaeth Gymraeg. I lawer o siaradwyr Cymraeg (a rhai di-Gymraeg), nid creu cysur y mae cyfieithu, ond dinistrio'r cysur y maent wedi ei greu iddynt eu hunain trwy siarad Saesneg. Yn yr ystyr hwn, felly, nid yw'n creu, ond yn chwalu *comfort zone* cyhoeddus siaradwyr Cymraeg.

Mae'r sawl sydd heb allu siarad Cymraeg yn ymwybodol bod siaradwyr Cymraeg yn deall yr holl drafodaeth tra mae yntau yn dibynnu ar ei ffydd yn y cyfieithydd, a gall deimlo dan anfantais o'r herwydd. Sylweddola'r siaradwyr Cymraeg sydd heb ddefnyddio'r Gymraeg nad ydynt yn hyrwyddo eu hiaith. Rhydd hyn deimlad iddynt o fod yn Gymry is-raddol o'i gymharu gyda'r rhai sydd â digon o hyder i siarad Cymraeg. Ac y mae'r Cymry Cymraeg sy'n siarad Cymraeg yn gorfod dysgu bod yn amyneddgar ac aros nes bod pawb wedi gwisgo eu clustffonau, gan weld eu cymrodyr yn dewis peidio â siarad Cymraeg weithiau. Efallai mai'r unig gydraddoldeb a greir drwy gyfieithu yw tynnu pawb allan o'u *comfort zone*.

Wrth reswm, hoffai cyfieithwyr Cymru wneud y gwrthwyneb, sef creu amgylchiadau sy'n caniatáu i bawb fod yn gartrefol a chysyrus yn eu hiaith eu hunain. Dylid gweld y cyfleoedd i wneud hynny hefyd. Gyda chyflwyniad perthnasol i'r gwasanaeth, a hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth iaith, gellid manteisio ar y sefyllfaoedd hynny a gwneud i bobl sylweddoli beth sy'n digwydd mewn cyfarfodydd lle ceir cyfieithu. Mae'n gyfle iddynt ddeall yr anawsterau sydd gan yr ochr arall. Gallai trafod y sefyllfa annog siaradwyr o'r ddwy iaith i newid eu hymddygiad. Yn y pen draw, gobeithir creu *comfort zone* newydd lle mae siarad Cymraeg yn rhan o'r cysur.

### 8.5 Beth yw swyddogaeth cyfieithu ar y pryd wrth ddelio gydag ofn?

Yng nghyd-destun siarad Cymraeg mewn llys barn, trafodwyd ym Mhennod 1 nad peth braf yw i siaradwyr iaith leiafrifol deimlo eu bod yn mynd ar ofyn y llys, neu'r awdurdodau, er mwyn cael defnyddio eu hiaith, a'i bod yn well ganddynt yn aml beidio â gofyn o gwbl (oherwydd eu hofn o beidio â chael cyfiawnder).

Dichon fod y teimlad o fod yn niwsans yn berthnasol i gyfarfodydd o bob math, hyd yn oed pan fo cyfieithydd yn bresennol. Embaras i lawer yw gorfod

aros nes bod pawb wedi gwisgo eu clustffonau, neu gychwyn gyda phwynt llai pwysig i roi'r amser iddynt wneud hynny.

Mae llawer o ofn yn y fantol wrth sôn am greu awyrgylch cyfforddus i bawb. Ni ellir cael sefyllfa gyfforddus heb ddinistrio ofnau, ac mae hyn yn angenrheidiol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Trafodir yn yr adran hon pa fath o ofnau sy'n rhwystro siaradwyr Cymraeg rhag defnyddio eu hiaith, a beth yw rôl cyfieithu ar y pryd yn y broses o ddelio â'r ofnau hynny a cheisio eu lleddfu?

Un o'r ofnau amlwg wrth hyrwyddo'r Gymraeg yw bod siaradwyr Saesneg yn pryderu eu bod ar eu colled. Er enghraifft, clywir pryderon rhai di-Gymraeg am fethu cael gwaith neu am beidio â chael ateb i lythyr Saesneg (gan awdurdod lleol, er enghraifft). Waeth beth fo sail yr honiadau hyn, mae'r ofn yn real.

Gellir creu awyrgylch mewn sefydliadau i gael gwared â'r ofnau hyn, fel y clywn gan bennaeth sefydliad a ddywed am eu polisïau iaith: 'It isn't going to hurt an individual. And we got over the fear of the English speakers that they were going to get hurt, and all that fear has gone.'[55] Awgryma, ymhellach, fod rhaid i'r neges am ddwyieithrwydd cynyddol fod yn gryf i rai di-Gymraeg ei deall: 'The general thrust is that you're going to hear more Welsh because this is a bilingual country. Get used to it. And if you want to stay in Wales, that's the way it is. And if you don't, go somewhere else.'[56] Deellir yma nad oes anfantais yn codi i neb o ddwyieithrwydd y sefydliad. Dylai pawb uniaethu, o leiaf i ryw raddau, â'r diwylliant (mewnol) newydd hwnnw.

Efallai fod gofyn bod yr un mor blaen wrth gael gwared ar ofn arall, ofn y Cymry i siarad Cymraeg hyd yn oed gyda chyfieithu. Gwêl cyfieithwyr pa mor gyffredin yw'r ofn hwn: 'Maen nhw'n lleiafrif ymysg pobl ddi-Gymraeg, a maen nhw ofn tynnu sylw atyn nhw eu hunain drwy siarad Cymraeg'.[57] Fel y nodwyd wrth arsylwi'r cyfarfod cyntaf, hyd yn oed i rywun sy'n ymwybodol o'i ddymuniad i siarad Cymraeg, mae'n 'anodd i barhau siarad yn Gymraeg os gwelwch y cyrn gwrando yn rhywle ar y byrddau – neu yn yr achos yna, dan y cadeiriau'.[58] Weithiau dibynna hyn ar y lleoliad. Po fwyaf Cymraeg fo'r ardal, hawsaf fydd

[55] Cyf4/39.
[56] Cyf4/43.
[57] Cyf2/9.
[58] Arsylwi Cyfarfod 1.

siarad Cymraeg. Ond mewn ardaloedd llai Cymraeg, 'maen nhw ofn cael eu hystyried yn eithafwyr gwleidyddol'.[59]

Sylwyd mewn nifer o gyfarfodydd, i bwrpas yr astudiaeth hon ac fel arall, fod mwy o Gymraeg i'w glywed ar ddechrau'r cyfarfod, ond fel mae pobl yn blino, mae'r Saesneg yn disodli'r Gymraeg. Arwydd arall yw hwn o faint o ymdrech yw parhau i siarad Cymraeg pan mae rhai di-Gymraeg yn bresennol.

Yn ddiau, mae'r swildod hwn wedi datblygu dros ganrifoedd o gyd-fyw ochr yn ochr ag iaith mor gryf â'r Saesneg. Ond ni chyfyngir y llarieidd-dra hwn i siarad iaith yn unig. Mae'n elfen o gymeriad llawer o Gymry Cymraeg pan ddônt ynghyd â siaradwyr Saesneg. I esbonio'r pwynt, dyma enghraifft o un o'r cyfarfodydd mewn cyngor cymuned:

> Llythyr yn cael ei ddarllen sy'n reit flin am rai o'r cynghorwyr. Beth dan ni'n ei wneud? Cymry isio gwneud dim os bosib achos dydyn nhw ddim isio mwy o lythyrau fel hyn. Di-Gymraeg yn dweud am ysgrifennu llythyr i swyddfa fonitro'r sir a gadael iddyn nhw ddelio efo'r mater. Pawb yn cytuno.[60]

Gan gydnabod nad oes gwybodaeth am gefndir posibl i'r hanes hwn, ymddengys fel petaent yn ofni tynnu sylw atynt eu hunain, ac yn fodlon cael eu harwain gan rai di-Gymraeg sy'n fwy hyderus a phenderfynol. Heb benderfyniad y cynghorydd di-Gymraeg hwn, byddai'r llythyr blin wedi aros heb ei ateb. Ond unwaith eto, mae'n anodd dweud ai'r ffaith ei fod yn ddi-Gymraeg, ynteu'r ffaith ei fod yn gynghorydd, sy'n rhoi'r dyn hwn mewn awdurdod.

Crybwyllwyd math arall o ofn gan un o'r cyfweleion, sef yr ofn o ddangos gwendid. Yn ei dyb ef, mae newid iaith o reidrwydd yn dangos gwendid. Mae hyn yn

> rhywbeth i wneud gyda natur dadl academaidd fallai. Neu ddadl wleidyddol. Wyt ti byth isio dangos unrhyw fath o ansicrwydd, unrhyw fath o wendid. […] Ac mae newid o un iaith i iaith arall yn dangos rhyw fath o ansicrwydd, amhendantrwydd sydd ddim yn rhan o'r modd dadlau Seisnig beth bynnag.[61]

Gellid meddwl bod rhugledd mewn dwy iaith yn cryfhau yn hytrach na gwanhau sefyllfa rhywun mewn dadl, ond pan fo statws un iaith gymaint yn gryfach na'r llall, a phan fo hyn yn ymddangos yn holl ddiwylliant y wlad, nid yw gallu siarad

---

[59] Cyf2/35.
[60] Arsylwi Cyfarfod 8.
[61] Cyf7/52.

y ddwy iaith o reidrwydd yn gryfder amlwg, eithr weithiau yn peri ansicrwydd i bobl. Mae'r gwasanaeth cyfieithu, trwy amlygu *bod* yna ddwy iaith, a bod perthynas rhwng y ddwy, yn gallu dangos yr ansicrwydd hwn hefyd, felly.

Hefyd, gwelir darparu cyfieithu yn gyfystyr â chodi arwydd 'nad oes angen bod ofn na chywilydd ei defnyddio [y Gymraeg] yn unrhyw le'.[62] Mae darparu gwasanaeth cyfieithu yn ddatganiad swyddogol bod pob croeso a rhyddid i siaradwyr Cymraeg siarad cymaint o Gymraeg ag y dymunant, heb deimlo'n israddol na bod ganddynt gywilydd o'r iaith. Tra mae'r 'parth di-ofn' hwn yn gweithio mewn rhai sefydliadau – er enghraifft, Cyngor Gwynedd – ni wnaethpwyd datganiad o'r fath ar ran y wlad gyfan. Nid yw'r ofn wedi diflannu o lawer o sefyllfaoedd a chyd-destunau yng Nghymru, yn ôl un cyfwelai: 'The country has got some work to do on fear still.'[63]

Ymdriniodd yr adran hon â gwahanol fathau o ofn ynglŷn â siarad Cymraeg mewn sefyllfa lle mae siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn dod ynghyd: ofni colli allan, ofni tynnu sylw'r lleill atoch, ofni cael y stamp o eithafwr gwleidyddol, ofni dangos gwendid, ac ofni creu tensiynau neu ddinistrio'r heddwch mewn grŵp neu gymuned. Bron yn ddieithriad, profir yr ofnau hynny gan siaradwyr Cymraeg. Mae'r ofnau hyn i gyd yn arwain at ddarlun sy'n dangos siaradwyr Cymraeg yn swil ac yn derbyn eu bod yn y sefyllfa wannaf mewn cyd-destun cymysg, hyd yn oed pan fyddant yn dangos eu hunaniaeth yn gryfach mewn sefyllfa fwy Cymraeg. Ond byddai rhaid cael ymchwil ehangach i gadarnhau neu i wrthbrofi'r argraff hwn.

Ymddengys nad yw cyfieithu mewn sefyllfa i ddatrys yr un o'r ofnau hynny ar ei ben ei hun, er bod hyn yn rhan o'r bwriad wrth benodi cyfieithydd. Mewn sefydliadau neu fudiadau penodol, fodd bynnag, gall darparu gwasanaeth cyfieithu fod yn arwydd i'r cyhoedd nad oes angen ofni yno, ond bydd angen i siaradwyr Cymraeg osod esiampl. Dim ond un bloc adeiladu yn y broses o greu awyrgylch newydd yw cyfieithu, un o'r blociau sy'n datblygu a phrofi hyder newydd siaradwyr Cymraeg mewn ystod o beuoedd. Efallai y byddai cael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd *fel rheol* yng nghyfarfodydd y sector gyhoeddus yn ddatganiad ar ran sefydliadau Cymru i gyd o'u dymuniad i gael gwared ar yr ofnau hyn.

[62] H18/3.
[63] Cyf4/44.

## 8.6 Beth yw'r berthynas rhwng cyfieithu ar y pryd a hunaniaeth Gymraeg hyderus?

Mae'n ddigon amlwg o'r ymdriniaeth yn Rhan I y traethawd y cysylltir defnydd o iaith leiafrifol â hunaniaeth ei siaradwyr. Trafodwyd bod cael lle mwy amlwg i ieithoedd lleiafrifol yn allweddol i fywyd eu cymunedau. Hefyd, crybwyllwyd na ddylid gweld yr hunaniaeth a greir trwy'r iaith fel rhywbeth i siaradwyr mamiaith yn unig. Yn y drydedd bennod, soniwyd mewn mwy o fanylder am y ddadl am yr hyn sy'n bwysicaf i hunaniaeth Cymru – ai cryfhau'r iaith ynteu hyrwyddo cymdeithas sifil? – a daethpwyd i'r casgliad ei bod hi'n bosibl ac yn ddymunol cyfuno'r ddau.

Gan ddilyn Michael Cronin a'i osodiad bod cyfieithu, os yw'n treiddio i holl beuoedd bywyd, yn gallu cryfhau hunaniaeth lleiafrif ieithyddol, holir ar ddiwedd y bennod hon a yw'r gosodiad hwnnw'n ddilys i Gymru. Gwelwyd eisoes fod cyfieithu yn fodd i sbarduno dadl am hunaniaeth. Ond a yw'n *cryfhau* hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol? A yw'n achosi'r hyder ymysg siaradwyr Cymraeg i ddangos hunaniaeth Gymraeg mewn pob math o gyd-destunau a pheuoedd, heb ofn neu gywilydd?

Yn ôl yr atebion o'r holiaduron, ers defnyddio cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd, mae'r diwylliant lleol Cymraeg 'yn magu hyder',[64] ac mae'r iaith yn cael ei 'thrysori yn fwy fwy'.[65] Gwelir pobl yn hyderus wrth ddefnyddio'r gwasanaeth, 'er nad yw'r Cymry "hŷn" yn ei ddefnyddio cymaint â'r rhai ifainc'.[66] Ond tra ymddengys yr ifainc yn fwy hyderus wrth wneud defnydd o wasanaeth cyfieithu a siarad Cymraeg mewn rhai sefyllfaoedd – cofier y cynhaliwyd yr ymchwil yn bennaf yn ardaloedd Cymraeg Gwynedd – mae un cyfieithydd yn bryderus am eu hymrwymiad i'r iaith:

> Mae'r rhai ifanc sydd erioed wedi gorfod ymladd i gael yr hawl i siarad Cymraeg yn cymryd y peth yn ganiataol. A dw i'n meddwl bod 'na berygl yn fan 'na. Mae 'na berygl y byddan nhw, yn sicr mewn rhai cyd-destunau, tu allan i swyddfeydd Cyngor Gwynedd er enghraifft, yn gollwng [yr iaith] i raddau. Maen nhw wedi gallu cymryd y peth [y Gymraeg] yn ganiataol.[67]

---

[64] H9/5.
[65] H9/6.
[66] HWBcap1/1.
[67] Cyf2/13.

Gwêl ef ddiffyg hyder ganddynt wrth siarad Cymraeg ac wrth ddangos eu hunain fel Cymry Cymraeg. Nid yn unig am hyder ieithyddol y siarada, ond am hyder

> diwylliannol, ia. Mae hynny yn beth reit gyffredinol. Mae rhywun yn gweld ar raglenni teledu weithiau pobl ifanc heddiw sy'n siarad yn Gymraeg, sydd wedi cael eu hysgol yn Gymraeg, ond does gynnon nhw ddim llawer i ddweud. Mae'u geirfa nhw yn gyfyngedig, a dydy'r hyder ddim yna.[68]

Ategir hyn gan sylw rhywun arall: 'Mae 'na un fam, dw i ddim yn deall. Mae hi'n Gymraes o'r ardal yma, ond mi wneith hi siarad Saesneg efo'i phlant'.[69]

Deillia rhan o'r diffyg hyder hwn o ddiffyg ffydd yn iaith a diwylliant Cymraeg a grybwyllwyd yn barod. Adrodda ymgynghorydd iaith sut y gall y teimlad o israddoldeb droi yn erbyn y sawl sy'n sicr eu hunaniaeth: 'Dw i wedi cael fy nghyhuddo yn fy mhentref fy hunan fy mod i'n ormod o Gymro er enghraifft, mae hwnnw'n dod eto o seicoleg israddoldeb, fyddwn i'n dadlau. Fiw i mi [ddangos] fy mod i'n cythruddo y meistri.'[70]

Wrth gwrs, nid yw teimlad o israddoldeb fel arfer yn rhywbeth ymwybodol. Mewn cyfarfodydd, gall ymddangos mewn ffyrdd eraill: pan dderbynnir mai pynciau penodol yn unig y gellir eu trafod yn Gymraeg, gwadir hunaniaeth Gymraeg i ran helaeth o'r cyfarfod. A heb gyflwyno'r iaith i beuoedd a pherthnasau rhyngbersonol newydd, bydd yr hunaniaeth yn aros yn ei hunfan. Oherwydd rhwystredigaeth am hynny, bydd ambell un yn peidio â siarad yn gyfan gwbl:

> Yn y Senedd, dw i'n cael hi'n amhosib siarad o gwbl erbyn hyn. Pan ddois i gyntaf i Fangor, o'n i'n fwy na bodlon i ffraeo gyda phawb achos o'n i'n wneud o yn Saesneg. Ond erbyn hyn dw i'n teimlo os dw i'n siarad yn y Senedd, dylwn i siarad yn Gymraeg. Ond eto dw i'n teimlo os wnaf i hynny, bydd neb go iawn yn cymryd y peth o ddifri, achos fel arfer dim ond pethau sy'n cael eu darllen allan sy'n cael eu cyfieithu.[71]

Yn achos y Senedd, ni ddefnyddir y Gymraeg ond i ddarllen adroddiadau neu i fynd trwy'r cofnodion. Os teimla Cymro na fydd neb yn ei gymryd o ddifri achos ei fod yn siarad Cymraeg, bydd yn newid ei ymddygiad a pheidio â siarad Cymraeg. Derbynnir y Gymraeg fel rhyw gôd i ddelio ag eitemau penodol, ond

[68] Cyf2/18.
[69] Cyf3/19.
[70] Cyf6/16.
[71] Cyf7/6.

dim ond yn Saesneg y gellir trafod, dadlau a datblygu syniadau. Gwelir y Gymraeg yn iaith statig o'i chymharu â'r Saesneg sy'n cymryd rôl fwy deinamig. Nid yw cyfieithu yn yr achos hwn yn ymddangos fel petai'n llwyddo yn ei dasg o newid deinameg grym ac ail-leoli siaradwyr y ddwy iaith yn y grŵp, er y defnyddir y gwasanaeth ers blynyddoedd lawer.

Mewn unrhyw sefyllfa ddwyieithog, mae dewis iaith yn ddatganiad: 'Because you know perfectly well that I can speak to you in English. But I've chosen to speak in Welsh. And I'm making a statement in choosing to do that.'[72]

Cyflwyna'r cyfwelai sy'n gyfrifol am hybu'r iaith mewn sefydliad cyhoeddus achos diddorol. Siarada am ddau Gymro Cymraeg mewn pwyllgor gyda mwyafrif o bobl ddi-Gymraeg lle defnyddir cyfieithu ar y pryd ers dipyn.

> And one of the native Welsh speakers will confidently speak Welsh, he's a very very able linguist. The other guy, they're both men, has to be pushed into doing it. Because his whole life has been in formal business in English. And he's perfectly competent. He does not have a problem with confidence. It isn't about hyder, it's about embarrassment. Because *he's forcing* his friends to listen to him speaking a foreign language. And it's not confidence in that sense, it's a different sort of confidence. It's *making them* treat him differently. It's making him stand out as a native person, something different to them, making them, and I do mean *making them* listen to his words filtered through a translator. And they've known each other for 25 or 30 years. And all of a sudden he's now, with my encouragement, speaking to them in Welsh, whereas for twenty years he's been speaking to them in English.[73]

Oherwydd ei fod, trwy siarad Cymraeg, yn achosi i'r lleill ei drin yn wahanol, mae'n gwestiwn o hunaniaeth: 'It is an identity issue. He's been their friend through the medium of English for years and years and years. And now I as an incomer am making him behave differently, pushing him out of the comfort zone.'[74]

Ymddengys ofn yma fod y di-Gymraeg yn gwrthwynebu i Gymry Cymraeg ddatgan eu hunaniaeth trwy siarad Cymraeg. Ond mae ansicrwydd mewnol am hunaniaeth hefyd:

> Why is this happening to him? He's not a crackpot Welsh nationalist, he's not a cottage burner. He's passionately Welsh but is quite comfortable speaking

[72] Cyf4/57.
[73] Cyf4/27.
[74] Cyf4/30.

> to English speakers in English. And why would he want then to change to Welsh?[75]

Mae'n amlwg o ymddygiad y Cymro hwn ei fod yn anghyfforddus yn siarad Cymraeg gyda'r di-Gymraeg. Mae'n ffaith fod newid iaith mewn unrhyw berthynas yn anodd. Amlyga yr enghraifft hon fod y dyn yn teimlo'n rhywun gwahanol yn siarad Cymraeg a Saesneg. 'He feels that they think he's somebody else. And they probably do.'[76]

Mae dwy hunaniaeth y Cymro hwn yn dechrau cael eu cymysgu gan y posibilrwydd o siarad Cymraeg y mae cyfieithu yn ei ddarparu. O'r blaen, roedd yn glir ei fod yn ymddwyn fel siaradwr Cymraeg ymysg siaradwyr Cymraeg eraill, ac fel Cymro Cymraeg sy'n siarad Saesneg fel arall. Yn awr, mae'r ddau wedi eu drysu, ac mae hyn yn ei adael mewn penbleth. Mae presenoldeb a disgwyliadau (tybiedig) y Cymro arall yn cymhlethu'r peth:

> But on the other hand there's a Welsh speaker in the room as well, and why is he making the Welsh speaker listen to him in English when he knows the Welsh speaker would rather listen to him in Welsh? It's a very interesting play.[77]

Oherwydd hynny, mae creu hunaniaeth ieithyddol Gymraeg i'r Cymry i gyd (hynny yw, pawb sy'n byw yng Nghymru) yn bwysig. Os perthyn y ddwy iaith i siaradwyr y ddwy iaith, bydd cymysgu gwahanol hunaniaethau yn fwy cyffredin, yn llai eithriadol. Dylai cyfieithu, os yw'n dda, fod mewn sefyllfa i greu rhyw fath o bont rhwng y ddwy iaith a'r ddwy hunaniaeth.

Ar y llaw arall, gall cyfieithu ganiatáu neu gadarnhau hunaniaeth Gymraeg. Trwy ddarparu cyfleoedd newydd i siarad a chlywed Cymraeg, gall godi ymwybyddiaeth pobl o'u hunaniaeth mewn peuoedd nad oeddent wedi eu cysylltu â hunaniaeth Gymraeg o'r blaen.

Yn sicr, bydd cyfieithu ar y pryd yn codi cwestiynau. I ddechrau, gall fod yn anghyfforddus sylweddoli bod gan rywun wahanol ymddygiad wrth siarad y naill iaith neu'r llall mewn gwahanol gyd-destunau. Ond gall, yn y pen draw, arwain at benderfyniad ymwybodol i siarad mwy o Gymraeg. Trwy benderfyniad ymwybodol, gallai fod yn haws derbyn newid yn ymddygiad ieithyddol y sawl

[75] Cyf4/32.
[76] Cyf4/29.
[77] Cyf4/33.

sydd am ddangos bod hunaniaeth Gymraeg yn bwysig iddo. Ac efallai y bydd hyn yn ddigon o ateb i'r cwestiwn: 'Why am I as a Welsh speaker forcing you to listen to my words filtered through a machine?'[78]

Mewn rhai grwpiau, teimlir bod cyfieithu wedi rhyddhau'r ddadl oherwydd i bobl deimlo'n well ynghylch siarad Cymraeg. Nid yn unig y clywir mwy o Gymraeg yno, ond mae mwy o drafod yn gyfan gwbl mewn rhai llefydd ers iddynt ddefnyddio cyfieithu: 'Mae 'na lawer mwy o siarad nawr yn y cyngor cymuned nag oedd.'[79]

Ar ôl gweld y dystiolaeth am deimladau ynghylch hunaniaeth y siaradwyr Cymraeg, nid yw'n ymddangos bod cyfieithu â'r gallu llwyr i'w chryfhau. Unwaith yn rhagor, dibynna hyn ar y sefyllfa. O bosibl, enilla siaradwyr Cymraeg mewn sefyllfa fwyafrifol Gymraeg fwy o hyder wrth ddangos eu hunaniaeth ym mhresenoldeb nifer bychan o rai di-Gymraeg. Nid oes bygythiad i'w teimlad o hunaniaeth Gymraeg pan fo nifer bach o ddi-Gymraeg ymysg mwyafrif Cymraeg.

Fodd bynnag, lle mae nifer bach o Gymry Cymraeg ymysg mwyafrif o bobl ddi-Gymraeg, a lle y maent wedi mabwysiadu hunaniaeth arbennig i'r grŵp neu'r cyfarfod neu'r sefyllfa waith, gall y cyfle i siarad Cymraeg trwy gyfieithydd, a'r disgwyliadau gan eraill iddynt fanteisio ar y cyfle hwn, fod yn bwysau mawr arnynt. Gan ei fod yn drysu'r hunaniaethau y maent wedi gosod iddynt eu hunain dros y blynyddoedd ar gyfer cyd-destunau gwahanol, ni allant greu hunaniaeth newydd ar unwaith. Ond os rhoir amser iddynt, dichon y byddant yn ymdopi â'r cyfleoedd newydd y mae cyfieithu yn eu rhoi, a dangos eu hunaniaeth Gymraeg mewn cyd-destunau newydd.

## 8.7 Casgliadau

Cesglir o'r bennod hon fod rhaid peidio â chymysgu hyder a rhugledd. Er bod rhugledd yn y Gymraeg – cyweiriau mwy ffurfiol mewn rhai cyd-destunau – yn elfen bwysig mewn hyder ieithyddol, gall rhywun hollol rugl deimlo diffyg hyder ar adegau penodol.

Dysgwn o drafodaeth Dilys Davies fod yna sawl strategaeth isymwybodol er mwyn osgoi teimladau o israddoldeb, goddefolrwydd, dibyniaeth a diffyg hyder a

[78] Cyf4/56.
[79] Cyf7/30.

brofir gan leiafrifoedd ieithyddol. Rhai o'r strategaethau hyn yw, fel y gwelwyd uchod, cydymffurfio ac osgoi datguddio'r hunan. Adlewyrchir y strategaethau hynny yn y sylwadau a gafwyd o'r holiaduron a'r cyfweliadau, yn ogystal ag wrth arsylwi mewn cyfarfodydd lle ceid cyfieithu.

Y mae hyder ieithyddol yn brif ddolen rhwng gwahanol elfennau cynllunio ieithyddol. Heb i'r bobl deimlo hyder wrth siarad Cymraeg, ni fydd cynllunio statws a chorpws yr iaith, na cheisio cryfhau cymdeithas sifil Gymraeg neu agweddau ffafriol tuag at y Gymraeg, yn llwyddiannus.

Dangoswyd yn y bennod hon fod gan gyfieithu ran yn y broses o gynyddu hyder. Mewn ardaloedd lle mae'r hunaniaeth Gymraeg yn amlwg ac yn bresennol ym mywyd beunyddiol y gymuned, gall cyfieithu ar y pryd fod yn fodd i roi'r hyder i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'u hiaith pan fo siaradwyr y ddwy iaith yn dod at ei gilydd. Y sefyllfaoedd hawsaf i hyn weithio'n llwyddiannus yw rhai lle mae'r siaradwyr Cymraeg mewn mwyafrif. Y rhain yw'r sefyllfaoedd a ystyrir yn fwyaf annheg os oes rhaid i bawb siarad Saesneg er mwyn un neu ddau o bobl ddi-Gymraeg. O ddod â chyfieithydd i'r sefyllfaoedd hynny, bydd yn bosibl i siaradwyr Cymraeg ddangos eu hunaniaeth Gymraeg yn gyhoeddus, yn enwedig mewn peuoedd lle mae hanes o drin a thrafod yn Saesneg.

O brofiadau cyfarfodydd lle nad oes gan siaradwyr Cymraeg gymaint o hyder â siaradwyr di-Gymraeg wrth gyflwyno eu syniadau, a lle mae'r di-Gymraeg yn siarad yn fwy ffurfiol a swyddogol, gellid casglu bod rhai ardaloedd neu grwpiau yn rhoi delwedd answyddogol i'w diwylliant Cymraeg. Ond ni all yr astudiaeth hon ynghylch cyfieithu ganfod a yw'r cysylltiad rhwng bod yn Gymraeg a bod yn gartrefol a chyfeillgar, ond nid yn swyddogol, yn gyffredin.

Hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae'r awyrgylch cyffredinol yn argoeli bod hyder ieithyddol a hunaniaeth Gymraeg yn gryf, gwelir ildio i'r Saesneg pan fo rhywun di-Gymraeg mewn swyddogaeth sy'n awgrymu ei fod yn gwybod am ffyrdd i gysylltu â swyddogion cyngor sir, er enghraifft. Weithiau, nid eu profiad, ond eu hyder personol a'u ffordd o ddefnyddio Saesneg 'swyddogol', sy'n eu codi i sefyllfa o awdurdod.

Y mae gwasanaeth cyfieithu mewn sefyllfaoedd mwy cymysg yn cynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg fod yn gartrefol, i siarad yn eu hiaith eu hunain. Datganiad yw darparu cyfieithu bod hawl yn y cyfarfod i fod yn gysurus wrth siarad, ac i beidio â theimlo ofn neu gywilydd. Rhaid cyfaddef, fodd bynnag, mai

tynnu sylw at yr iaith Gymraeg (a'i siaradwyr) a wna cyfieithu, a dyna un o'r problemau pennaf. Ar y llaw arall, ni ddatblyga hyder heb y cyfleoedd i siarad Cymraeg, ac mae cyfieithu yn cynnig y cyfleoedd ychwanegol hynny. Dim ond trwy ddarparu cyfleoedd y gall siarad Cymraeg ddod yn arfer cymdeithasol y tu hwnt i'r peuoedd a'r ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith normal beth bynnag.

Efallai mai dod i arfer siarad Cymraeg yw'r hyn a ddisgrifiwyd fel *comfort zone*. A chaniatáu bod mynd i gyfarfodydd cyhoeddus ynddo ei hun yn eich tynnu o'ch awyrgylch cartrefol, rhaid derbyn bod llawer o siaradwyr Cymraeg wedi creu eu *comfort zone* eu hunain trwy siarad Saesneg mewn sefyllfaoedd cyhoeddus, a thrwy hynny, wedi ennill rhywfaint o awdurdod neu statws, ac yn sicr hyder personol. Bydd newid yr arfer hwn yn golygu newid y cysylltiadau personol sydd gan rywun mewn grŵp neu leoliad, ac o reidrwydd mae newid yn gallu bod yn brofiad anghyfforddus.

Efallai nad oes modd i gyfieithu ddylanwadu yn uniongyrchol ar y berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg sy'n gyfrifol am y patrymau o ddefnydd iaith. Gwelwyd o'r ffigyrau mai'r di-Gymraeg yn bennaf oedd yn teimlo bod eu sefyllfa bersonol wedi gwella. A ddylid casglu o'r ffaith fod y di-Gymraeg yn gallu bod yn fwy hyderus mewn cyfarfodydd gyda gwasanaeth cyfieithu, bod siaradwyr Cymraeg wedi colli eu hyder hwythau o ganlyniad? A yw codi hyder un grŵp yn digwydd ar draul colli hyder y grŵp arall? Awgryma rhai o'r sylwadau mai dyna'r gred gyffredin, ond ymgyrraedd at gymdeithas lle mae pawb yn hyderus ddylai fod yn nod.

Yn ddiau, gall cyfieithu amlygu diffyg hyder, gan ei fod yn rhoi ffocws i bobl fyfyrio am eu sefyllfa a'u teimladau. Hefyd, trwy gynnig cyfleoedd i siarad Cymraeg, mae cyfieithu yn ddatganiad ar ran y mudiad sy'n ei ddarparu fod croeso i bawb sydd am wneud hynny siarad Cymraeg. Gall y rhai sydd â digon o hyder i fanteisio ar y cyfleoedd hynny fod yn enghreifftiau cadarnhaol i'r cyhoedd. Ac o'r enghreifftiau hynny, gall pobl llai hyderus, boed yn siaradwyr Cymraeg brodorol neu'n ddysgwyr, feithrin arfer o siarad Cymraeg.

Ar ôl cydnabod bod hyder yn chwarae rôl allweddol wrth siarad iaith leiafrifol, bydd y bennod nesaf yn trafod a yw cyfieithu yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

# 9 Ymestyn y defnydd o'r Gymraeg trwy gyfieithu

Cynyddu defnydd iaith ymysg ei siaradwyr, ynghyd â chynyddu nifer y siaradwyr, yw bwriad pennaf cynllunio iaith leiafrifol. Trwy gynllunio ieithyddol, gobeithir y bydd yr iaith yn cael ei defnyddio yn breifat yn y teulu, ymysg ffrindiau a chymdogion, mewn swyddfeydd, ar safleoedd gwaith eraill, yn y gwasanaethau iechyd a lles, mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill, yn y llysoedd, ac wrth wneud busnes.

I gyrraedd y nod hwn, nid yw'n ddigon cryfhau'r ddarpariaeth addysg yn yr iaith leiafrifol i greu siaradwyr hyderus. Er bod hon yn elfen hynod bwysig yn y broses o greu cymdeithas fwy dwyieithog, mae gofyn gweithredu tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ogystal. Os na newidia agweddau negyddol tuag at yr iaith leiafrifol, ni fydd dysgu mwy o bobl i siarad yr iaith yn ddigon i gyrraedd nod cynllunio ieithyddol. Rhaid eu hannog i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd real ac amrywiol hefyd.

Fel y gwelsom yn y tair pennod diwethaf, rhaid anelu at greu agweddau ffafriol tuag at yr iaith, a chryfhau'r ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol. Yn y bôn, rhaid wrth hyder i fynegi'r hunaniaeth honno drwy siarad Cymraeg yn rheolaidd. Ar ôl ystyried rôl cyfieithu yn y prosesau hynny, holir yn brif gwestiwn y bennod hon: a yw cyfieithu ar y pryd yn cyfrannu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg? Mewn pa sefyllfaoedd neu beuoedd y mae'n fwyaf tebygol o allu gwneud hynny? Edrychir hefyd ar yr hyn sy'n rhwystro cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a pha rôl y mae cyfieithu yn ei chwarae, naill ai wrth greu y rhwystrau hynny, neu wrth eu diddymu.

Ar ddechrau'r bennod, trafodir ym mha ffordd y gallai cyfieithu ar y pryd wella'r egwyddor ddemocrataidd mewn grŵp neu gymuned. Yn ogystal â sylwi ar sut y mae niferoedd siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg mewn grŵp yn effeithio ar ddefnydd iaith, gwelir bod y math o gyfarfod hefyd yn chwarae rôl wrth ennill hyder i siarad Cymraeg. Trafodir yn rhan ganol y bennod pam y gall pynciau arbenigol neu gyfarfodydd ffurfiol fod yn anodd i'w trafod yn Gymraeg. Rhoddir sylw hefyd i'r graddau y mae perchnogaeth o drafodaeth benodol yn bosibl mewn ail iaith.

Ar ddiwedd y bennod, sonnir am safbwyntiau ar swyddogaeth cyfieithu wrth sefydlu arferion newydd o siarad Cymraeg, ac am y profiadau hynny.

## 9.1 A ellir gwella cyfranogaeth ddemocrataidd trwy gyfieithu ar y pryd?

Dadleuwyd ym Mhennod 3 y gellir hybu polisïau iaith ar y sail eu bod yn gwella cyfranogaeth ddemocrataidd. Ymddengys mai dyna ddigwyddodd yng Ngwynedd pan gyflwynwyd polisïau iaith cynhwysfawr. Y cwestiwn sy'n sail i'r adran hon yw: a yw cyfieithu yn rhan o'r polisïau hynny? A oes arwyddion bod cyfieithu ar y pryd yn gwella cyfranogaeth ddemocrataidd mewn cymuned neu mewn sefydliad?

Gwelodd sawl atebydd werth mewn cyfieithu gan ei fod yn cynnwys pawb mewn trafodaeth: 'Mae'r gwasanaeth […] yn cael ei werthfawrogi gan y di-Gymraeg a'r Cymry Cymraeg fel ei gilydd. Mae'n galluogi pawb i fod yn rhan o'r trafodaethau ac i gyfrannu yn eu mamiaith.'[1] Er bod rhai o aelodau di-Gymraeg y grwpiau yn honni nad oes gwahaniaeth o ran faint y mae siaradwyr Cymraeg yn ei gyfrannu i'r drafodaeth er pan gawsant siarad Cymraeg ('I don't think there is a lot of difference'[2]), mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o newid.

Yn gyntaf, y mae'n caniatáu llif trafodaeth heb ei thorri, fel y tystia'r sylw hwn: '[This is] the effective way to conduct a meeting and maintain a flow of conversation/ understanding throughout the whole meeting'.[3] Mae dealltwriaeth y sawl sy'n ddi-Gymraeg yn fwy cyflawn hefyd: 'Instead of getting a general understanding of each person's contribution I now know complete conversations and points of view.'[4] Deellir effaith gynhwysol cyfieithu o'r sylw nesaf: 'This has helped me to follow the meetings more fully.'[5]

Canmolwyd y cyfieithwyr am roi'r argraff bod y di-Gymraeg bron yn gallu deall y siaradwyr Cymraeg eu hunain:

> A person who cannot speak a language (or has limited knowledge) cannot contribute to the work of a group, or understand the nuances/development of ideas/arguments etc in the group's discussions. The outstanding quality of our

[1] HWB1/4.
[2] Cyf5/10.
[3] H4/1.
[4] H4/4.
[5] HWB2/1.

> translators makes me almost think I can actually understand the speakers – it would be difficult to put too high a value on this excellent service.[6]

Ers cael cyfieithu, mae'r di-Gymraeg yn dilyn popeth: 'It's an advantage because you're getting virtually the whole of the picture.'[7] Ond er bod cyfieithu wedi gwella'r sefyllfa lle na chaent gynt 'ddim ond braslun o'r hyn oedd yn cael ei ddweud',[8] mae rhai siaradwyr di-Gymraeg ar adegau yn ei chael hi'n anodd clywed y cyfieithiad a bod yn rhan o'r sgwrs ar yr un pryd: 'Sometimes you get a bit of a job to sort of break into the conversation or your view or whatever it is.'[9]

Mae rhai o'r di-Gymraeg sydd wedi cael profiad o ddibynnu ar grynodebau o'r hyn a ddywedwyd yn Gymraeg, yn mynegi eu pryder am yr egwyddor ddemocrataidd yn hynny:

> Translation summaries are I think inappropriate in a group where all individuals have by law a legal responsibility for group decisions. Therefore if there were no translation facility I would no longer consider membership of this group feasible.[10]

Awgryma sylwadau eraill nad oedd y crynodebau a gaed o'r blaen mor effeithiol â hynny: 'The translation service has helped me to be able to fully understand what is happening. I would be lost without the translation service.'[11]

Nid syndod hynny, ac ystyried mai'r aelodau Cymraeg eu hunain a gyfieithai neu a grynhoai'r dadleuon, yn ogystal â chymryd rhan yn y drafodaeth neu gadeirio'r cyfarfod. Yn awr, teimlir bod y 'cyfarfodydd yn fyrrach gan nad ydym yn cymryd amser i gyfieithu'r hyn oedd yn mynd ymlaen yn Gymraeg',[12] ac oherwydd hynny, 'yn fwy effeithiol'.[13]

Ond er gwaetha'r ddealltwriaeth lawnach, gall y di-Gymraeg deimlo eu bod yn cael eu neilltuo: 'Sometimes you feel a bit left out when the conversation is completely in Welsh.'[14]

Weithiau, mae canmoliaeth am gyfieithu yn datgelu balchder mewn cymdeithas aml-ddiwylliannol: 'Translation allows English speakers only to be

[6] H2/1.
[7] Cyf5/24.
[8] HWB10/1.
[9] Cyf5/5.
[10] H2/4.
[11] H1/1.
[12] HWB10/1.
[13] HWB7/3.
[14] Cyf5/4.

part of the decision making process within this multi-cultural, multi-language society.'[15] Dro arall, ceir yr argraff bod yna ddrwgdeimlad, ac y defnyddir cyfieithu i geisio cael y gorau ar y siaradwyr Cymraeg: 'The Welsh speakers cannot say things that would lead to a recommendation to vote on something that cannot now be challenged (and recorded) without full proper democratic debate beforehand.'[16] Yr hyn a olygir wrth 'drafodaeth ddemocrataidd lawn' yw, efallai, bod aelodau di-Gymraeg o'r cyhoedd yn cael cyfle i gymryd rhan yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned: 'Members of the public have increased in attendance since the service was available.'[17] Heblaw am ganiatáu i'r cyhoedd ddilyn y drafodaeth, tybia rhai y byddent, heb gyfieithu ar y pryd, 'yn colli aelodau gweithgar'.[18] Mewn rhai achosion, fe fyddai'n fwy realistig tybio y byddai'r cyfarfodydd, yn hytrach, yn troi'n Saesneg.

O safbwynt y di-Gymraeg, felly, mae cyfieithu ar y pryd yn gwella democratiaeth heb os. O safbwynt y siaradwyr Cymraeg, fel y crybwyllwyd eisoes, mae cyfieithu wedi cryfhau'r awydd i gyfrannu at y drafodaeth: mae'r 'Cymry Cymraeg yn siarad mwy yn y cyfarfod'.[19] Fel y disgwylir, hyder yw un rheswm am hynny. 'Mae hyder y Cymry Cymraeg wedi cynyddu yn sylweddol pan yn cymeryd rhan yn y drafodaeth.'[20] Rheswm arall yw'r teimlad nad yw Saesneg yn iaith briodol mewn ardal Gymraeg ac mewn grŵp lle mae'r rhan fwyaf o aelodau yn siarad Cymraeg: 'Nawr bod 'na gyfieithydd dw i'n fodlon, dw i'n hapus siarad yn y cyngor plwyf, tra cyn oedd 'na gyfieithu, o'n i ddim isio siarad yn Saesneg, o'n i'n gyndyn iawn i siarad o gwbl.'[21]

Mae cyfieithu, felly, wedi rhyddhau pobl i ddadlau ym mhriod iaith eu hardal. Rhanna cyfieithydd ei brofiad canlynol o gyfarfodydd cyhoeddus gan bwysleisio pa mor bwysig yw cael cyfarfodydd Cymraeg i annog Cymry Cymraeg i gyfrannu o gwbl mewn trafodaethau cyhoeddus.

> Os fysai'r swyddogion yn dechrau arwain y drafodaeth o'r llwyfan yn Saesneg, bron iawn bysat ti'n dweud bysai'r ffaith bod y Cymry'n methu siarad yn eu hiaith – dim bod nhw'n methu siarad yn eu hiaith gyntaf, ond

[15] H4/6.
[16] H6/6.
[17] H6/2.
[18] H23/2.
[19] H29/2.
[20] H22/2.
[21] Cyf7/27.

> bod nhw'n tueddu i feddwl, O, rhaid i mi ymateb yn Saesneg rŵan. A wedyn maen nhw'n eistedd fan 'na o bosib yn meddwl am beth fysan nhw'n licio ei ddweud, ond ella na fysan nhw mor barod i gyfrannu. Maen nhw'n meddwl ddwywaith achos dydy o ddim yn dod yn naturiol iddyn nhw i gyfrannu yn Saesneg. A dydyn nhw ddim yn arfer chwaith gymaint yn rhywle atha'r Blaenau […] Ond oherwydd bod y cyfieithydd yna, dydy o ddim yn broblem.[22]

Ar y llaw arall, gwelir yng nghyfarfodydd Senedd y Brifysgol nad yw Cymry Cymraeg yn siarad, er gwaethaf presenoldeb cyfieithydd: 'Ond mae'r rhan fwyaf o'r Cymry byth yn dweud dim byd, maen nhw'n eistedd yna a dim yn siarad o gwbl.'[23] Ac eithrio'r cwestiwn o statws a hyder a drafodwyd uchod, mae yna reswm am hynny, sef dryswch: 'Dw i'n cael hi'n anodd iawn i gymryd rhan mewn trafodaeth ddwyieithog. Dw i'n hapus mewn un iaith neu'r llall, ond dw i'n cael hi'n anodd iawn i newid o un i'r llall.'[24] Ac wrth gwrs, trafodaeth ddwyieithog yw trafodaeth gyda chyfieithydd i bob pwrpas, hyd yn oed os yw pawb yn glynu at un iaith.

Clywsom amheuaeth gan gyfieithydd yn y bennod ddiwethaf am ddylanwad cyfieithu mewn cyfarfodydd â mwyafrif o siaradwyr di-Gymraeg. Pan mae yna 'gymaint o rai di-Gymraeg, dydyn nhw ddim isio tynnu sylw atyn nhw eu hunain. Os siaradan nhw o gwbl. A mae 'na nifer fawr sy ddim yn cyfrannu o gwbl. Os ydyn nhw'n cyfrannu o gwbl, mi wnân nhw siarad Saesneg.'[25] Gwelir yma fod hyder siaradwyr Cymraeg yn hollol ganolog os ydynt am gynyddu eu defnydd o'r iaith yn gyhoeddus.

Hyd yn oed pan lwyddir i annog siaradwyr Cymraeg i gyfrannu yn Gymraeg, gall eu hyder cychwynnol bylu erbyn canol neu ddiwedd y cyfarfod. Tystia cyfieithydd:

> A beth arall sy'n digwydd wrth gwrs yn reit aml ydy cyfarfod yn dechrau efo dipyn go lew o Gymraeg, ond wrth i'r rhai di-Gymraeg ddod i fewn i'r ddadl – a'r duedd ydy i bobl ddi-Gymraeg fod yn fwy hyderus beth bynnag, mwy parod i wneud cyfraniadau i'r drafodaeth – mae'r *linguistic drift* 'ma yn digwydd. Mae'r Cymry Cymraeg yn tueddu i ymateb yn Saesneg iddyn nhw. Ac erbyn diwedd y cyfarfod, does 'na ddim Cymraeg o gwbl.[26]

---

[22] Cyf1/38.
[23] Cyf7/13.
[24] Cyf7/26.
[25] Cyf2/30.
[26] Cyf2/17.

Mae aelod o Senedd y Brifysgol yn mynegi ei ddryswch ynglŷn â hynny:

> Cyn bod 'na gyfieithu, o'n i'n reit hapus i siarad yn Saesneg, ond nawr bod 'na gyfieithu, dw i ddim yn hapus i siarad yn Saesneg, ond dw i ddim cweit mor hapus i siarad yn y cyd-destun yna yn Gymraeg chwaith. Dyna'r gwahaniaeth.[27]

Er gwaethaf y dryswch y gall cyfieithu ei greu mewn rhai sefyllfaoedd, awgrymir 'bod angen cynnal mwy o gyfarfodydd dwyieithog, […] achos mae hynny wedyn yn gosod yr holl sefyllfa mewn sefyllfa o gydraddoldeb o roi cyfle cyfartal i bobl gyfrannu yn eu dewis iaith'.[28] Ac mae'r cyfwelai sy'n cael anhawster i gyfrannu yng nghyfarfodydd y Brifysgol yn cydnabod yn achos cyngor cymuned bod cyfieithu 'wedi dod â democratiaeth yn ôl i'r cyngor'.[29] Hefyd, mae'r ffordd y mae rhai grwpiau yn dod i benderfyniadau wedi newid, mae 'wedi gwella – dadlau clir heb ail adrodd'.[30]

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn eithaf cytûn bod cyfieithu yn gwella trafodaeth ddemocrataidd o safbwynt siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Rhaid, fodd bynnag, nodi ei fod yn cael mwy o ddylanwad i'r perwyl hwn mewn cyfarfodydd â mwyafrif o siaradwyr Cymraeg hyderus.

Awgryma sylwadau'r di-Gymraeg eu bod yn teimlo'n fwy yn rhan o'u grwpiau gan eu bod yn deall y drafodaeth lawn ac yn cyfrannu heb amharu ar lif y cyfarfod. Teimla Cymry Cymraeg yn fwy cyfforddus wrth gyfrannu yn iaith briodol eu hardaloedd hefyd, yn enwedig pan fo'r rhan fwyaf o'r sawl sy'n bresennol yn siarad Cymraeg.

Heb wasanaeth cyfieithu, mae'n beth digon arferol iddynt beidio â lleisio eu barn o gwbl a gadael i'r drafodaeth gynrychioli safbwynt y siaradwyr di-Gymraeg yn unig. Mewn grwpiau â mwyafrif o siaradwyr di-Gymraeg, mae'n anoddach i'r Cymry Cymraeg sefyll eu tir yn ieithyddol gan nad yw'r awyrgylch cyffredinol yn perthyn i'r Gymraeg. Ymddengys, felly, bod teimlad ymysg aelodau'r grwpiau y gall gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wella cyfranogaeth ddemocrataidd.

---

[27] Cyf7/28.
[28] Cyf6/8.
[29] H29/4.
[30] H13/1.

## 9.2 Pam siaredir Saesneg er gwaethaf y gwasanaeth cyfieithu?

Gwelwyd yn y drafodaeth hyd yma nad yw gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar ei ben ei hun yn ddigon i annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu hiaith yn gyhoeddus. Er y cydnabyddir ei botensial wrth gynnwys pawb mewn trafodaethau gan wella democratiaeth a hyder personol, dengys y dystiolaeth fod sefyllfaoedd lu lle nad yw'r Cymry Cymraeg yn siarad Cymraeg. Er y crybwyllwyd y rhesymau am hynny yn y penodau a'r adrannau blaenorol, bydd yr adran hon yn crynhoi eto ym mha cyd-destun y siaredir Saesneg yn bennaf pan fo cyfieithydd ar gael.

Esbonia un o'r atebwyr y rheswm dros siarad Saesneg, trwy gyfeirio at niferoedd siaradwyr yn y ddwy iaith. Mae'n digwydd, er enghraifft, 'when there are more than one in a group who do not speak/understand Welsh.'[31] Dywed un arall mai 'yn arbennig wrth ymateb yn uniongyrchol i bwynt a wnaed gan unigolyn di-Gymraeg' y siarada Saesneg.[32] Cyfynga un arall hyn i sylwadau anffurfiol, 'wrth gyfeirio yn benodol at un o'r di-Gymraeg (os oes sylw bach i'w wneud)'.[33]

Ambell waith, gall hyn swnio fel cyfiawnhad. Dywed cynghorydd cymuned:

> Dan ni'n dal, oni bai ein bod ni isio gwneud rhyw bwynt arbennig, sydd isio ei anfon o adra, dan ni'n dal i siarad yn y Gymraeg. Mi glywsoch chi, dan ni'n rhoi ein *comment* yn Gymraeg, ambell i waith, mi eith 'na un, un o'r ddau mwyaf diweddar, mi eith un, hwnna sydd yn Gymro, mi eith o i siarad Saesneg. Ond ni fel Cymry, oni bai ein bod ni isio anfon rhywbeth adra, yn bendant atyn nhw, dyna'r unig adeg wna i siarad Saesneg. Os dw i isio cyfeirio, siarad hefo un ohonyn nhw, trwy'r Gadair, bod fi isio dweud rhywbeth wrthyn nhw.[34]

Yn ôl yr arsylwi yn un o gyfarfodydd y cyngor cymuned hwnnw, nid yw hyn yn hollol gywir. Nodwyd bod un cynghorydd yn siarad llawer o Saesneg, fel yr awgryma'r sylw uchod, ond bod y lleill yn tueddu i ddilyn ei enghraifft.[35]

Teimla un o'r di-Gymraeg mai beirniadaeth yw siarad Saesneg gan Gymry Cymraeg yn bennaf: 'English is only used by Welsh speakers to criticize individuals directly.'[36] Ond unwaith yn rhagor, nid yw arsylwi mewn cyfarfodydd

---

[31] H25/2.
[32] H18/4.
[33] H29/3.
[34] Cyf3/11.
[35] Arsylwi Cyfarfod 6.
[36] H6/7.

yn cadarnhau'r agwedd honno. Nodwyd yn y Bwrdd Iechyd Lleol, er enghraifft, drafodaeth rhwng dau Gymro Cymraeg yn Saesneg.[37]

Mae un atebydd di-Gymraeg yn ddiolchgar am drafodaeth uniongyrchol ag ef yn Saesneg, ond yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan mewn sgwrs Gymraeg: 'If I jump into a subject they will then reply back in English, but you've got to break into the subject.'[38]

Mewn rhai sefydliadau, ceir unigolion sy'n newid yn ôl i'r Gymraeg pan fo'r sgwrs wedi troi i Saesneg. Medd cyfieithydd,

> Weithiau os ydy'r person sy'n defnyddio'r clustffonau, y di-Gymraeg, yn cyfrannu i'r sgwrs, weithiau wneith rywun arall ymateb yn ôl yn Saesneg. Ond fel heddiw, er enghraifft, wneith A. ddweud hwyrach ambell i air yn ôl, wedyn mae'n sylweddoli beth mae'n ei wneud a mae'n newid yn ôl i'r Gymraeg.[39]

Trafodir dylanwad unigolion yn y bennod nesaf, ond yn y fan hon, mae'n ddigon nodi nad yw pawb yn barod i siarad Cymraeg doed a ddelo. Nodwyd wrth arsylwi Cyfarfod 1 y Bwrdd Iechyd Lleol, er enghraifft, bod y 'swyddog ariannol eto yn cyflwyno yn Gymraeg, ond yn trafod yn Saesneg trwy'r cyfarfod'.[40]

Mae'n ddarlun cymysg: mae pob siaradwr Cymraeg yn ymddwyn yn wahanol, a phob achlysur yn dwyn ymddygiad gwahanol. Dyma enghraifft arall gan gyfieithydd: 'Mae'r trefnydd yn tueddu i'w hateb yn Gymraeg ond i siarad mwy o Saesneg yn gyffredinol.'[41]

Gwelir tuedd, felly, i ateb cwestiynau neu sylwadau Saesneg yn Saesneg, er y gallai'r cyfieithydd gyfieithu ateb Cymraeg. Gwelwyd yr un duedd yn nhrafodaethau'r Cynulliad Cenedlaethol (Pennod 1). Dichon fod rhaid egluro hyn trwy gyfeirio at sylfeini seicolegol cyfathrebu. Nid iaith yn unig sy'n gwneud cyfathrebu, ond mae cyswllt llygaid, iaith y corff ac arwyddion eraill (mwy neu lai ymwybodol) yn hollbwysig wrth siarad ag eraill.

Mae rhai yn sylweddoli'r hyn sy'n digwydd iddynt, a naill ai yn ceisio newid, neu yn cyfiawnhau eu hymddygiad. Mae eraill yn llai effro i ba iaith y siaradant, a

---

[37] Arsylwi Cyfarfod 1.
[38] Cyf5/7.
[39] Cyf1/21.
[40] Arsylwi Cyfarfod 1.
[41] HWBcap6/1.

hyd yn oed yn siarad Saesneg ymysg ei gilydd. Newidia'r defnydd o'r Gymraeg yn ôl y grŵp, y siaradwyr eraill, diwylliant cyffredinol y grŵp neu'r sefydliad.

Nid yw'r casgliadau hyn yn ddigonol, a cheisir yn yr adrannau nesaf asesu faint mae'r pwnc trafod dan sylw, a'r gwahaniaeth rhwng peuoedd ffurfiol ac anffurfiol, yn dylanwadu ar effaith cyfieithu wrth geisio annog defnyddio mwy o Gymraeg.

## 9.3 A yw llwyddiant cyfieithu ar y pryd yn dibynnu ar y pwnc dan sylw?

'Whitehall Welsh' y galwyd y math o Gymraeg a fathid yn swyddfeydd cyfieithwyr yr awdurdodau, ac na châi ei ddefnyddio gan bobl gyffredin.[42] Term cofiadwy yw hwn am y teimlad a geir gan lawer bod cyfieithwyr yn defnyddio ac yn creu terminoleg annealladwy sy'n gyfrifol am y ffaith nad yw llawer o Gymry Cymraeg yn darllen dogfennau Cymraeg, nac yn hyderus wrth siarad Cymraeg yn gyhoeddus.

Dangoswyd yn y drafodaeth am statws a pharch lleiafrifoedd ieithyddol ym Mhennod 2 fod y prif ieithoedd a'u *communicative currency* yn cael eu cysylltu â datblygiadau a therminoleg mewn meysydd newydd, ond nad ystyrir y datblygiadau hynny'n bosibl i iaith lai. Pan greir uned gyfieithu mewn sefydliad neu gwmni, bwriedir gwrthweithio'r canfyddiad hwnnw. Dywedwyd, er enghraifft, fod cyfieithwyr y Cynulliad Cenedlaethol yn allweddol i helpu'r gweithwyr eraill i ymgyfarwyddo â'r derminoleg Gymraeg newydd ym maes gwleidyddiaeth a gweinyddiaeth. Gan dderbyn rôl cyfieithu wrth ddatblygu terminoleg newydd, bydd yr adran hon yn nodi a oes cysylltiad rhwng llwyddiant cyfieithu ar y pryd a'r thema neu'r pwnc a drafodir mewn cyfarfod.

Yn ôl y dystiolaeth, y mae'r defnydd o'r Gymraeg (ac felly o gyfieithu) yn dibynnu i ryw raddau ar y pwnc. Mewn ymateb i'r cwestiwn a siaredir Saesneg o gwbl mewn cyfarfodydd, noda un atebydd: 'I esbonio pwynt technegol.'[43] Cafwyd profiad arall o ddiffyg hyder yn nhermau technegol neu arbenigol yn Gymraeg pan oedd 'un Gymraes yn esgusodi ei hun am drafod un mater yn Saesneg gan nad oedd hi'n gyfarwydd â'r termau'.[44] Y canfyddiad o ba iaith yw iaith busnes sydd ar

[42] Gweler Pennod 1.
[43] H13/2.
[44] HWBcap12/1.

fai, meddai cyfwelai o sefydliad cyhoeddus: 'When we start talking about formal business language, quite a lot of the vocabulary isn't known to people, and you hear routinely, […] every other word coming out of people's mouths is English.'[45] Efallai bod rhai yn ymwybodol bod y cyfieithydd mewn cyfarfod yn defnyddio terminoleg a geiriau dieithr iddynt. Gallant, o ganlyniad, deimlo eu bod yn siarad Cymraeg o 'safon is' a throi i'r Saesneg.

Ar y llaw arall, sylwyd yng Nghyfarfod 1 y Bwrdd Iechyd Lleol mai'r adroddiad mwyaf technegol, sef yr un ariannol, oedd yr unig un yn Gymraeg. Byddai hyn yn gwrthbrofi'r syniad o swildod o flaen cyfieithydd. Mae'n bosibl mai unigolyn hynod o ymwybodol o'i Gymraeg oedd yr adroddwr hwn. Ond tystiodd ei drafodaeth ganlynol nad oedd yn ddigon hyderus i drafod yn Gymraeg gyda rhai di-Gymraeg. Mae hyn, fel y nodwyd yng Nghyfarfod 2, yn cadarnhau mai ffactorau eraill sy'n bwysicach na'r pwnc dan sylw wrth siarad Cymraeg (ac eithrio efallai i ddysgwyr sy'n anghyfarwydd â'r geiriau).[46] Rhaid cofio hefyd nad yw hybu'r Gymraeg yn flaenoriaeth i lawer mewn cyfarfodydd lle trafodir pwyntiau eraill, ac mai dealltwriaeth o'r pwyntiau hynny sydd bwysicaf ar y pryd.

Dywed cyfieithydd ei fod yn sicr yn credu bod y pwnc yn chwarae rôl wrth benderfynu pa iaith a siaredir:

> Ar wahân i ambell achlysur pan mae'r Gymraeg ei hun dan drafodaeth, clywais i dipyn o hynna, cynghorwyr wneith dim ond siarad Cymraeg pan mae'r Gymraeg ei hun, neu'r gwasanaeth cyfieithu, neu'r diwylliant Cymraeg, dan drafodaeth, ond am bob testun arall, mi siaradan Saesneg.[47]

Cadarnhawyd hynny wrth arsylwi yng Nghyfarfod 5, cyfarfod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Roedd yr aelodau Cymraeg yn siarad Cymraeg wrth godi'r cwestiynau canlynol ynglŷn â'r cofnodion: pam nad oedd y cofnodion ar gael yn Gymraeg? Roedd un eitem ar goll yn y fersiwn electronig o'r cofnodion Cymraeg. Roeddent angen dyddiad penodol i gael papurau yn Gymraeg.[48] Wedi hynny, ni chlywyd llawer o Gymraeg yn y cyfarfod hwnnw.

Esbonia cyfwelai arall pam, yn ei dyb ef, mae siarad Cymraeg yn haws pan fo'r Gymraeg dan sylw.

---

[45] Cyf4/9.
[46] Arsylwi Cyfarfod 2.
[47] Cyf2/41.
[48] Arsylwi Cyfarfod 5.

> Nawr, i bobl sydd jest yn dadlau dros yr iaith, does dim problem, achos mae defnyddio'r Gymraeg yn rhan o'u dadl nhw. Ac i fod yn berffaith onest, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n siarad am hyn, yr iaith ydy eu diddordeb nhw.[49]

Yn ôl y sylwebaeth yn y Senedd, 'dim ond pwnc a oedd yn cynnwys dimensiwn lleol a oedd yn haeddu trafodaeth yn Gymraeg, sef y cwestiwn a oedd y Brifysgol eisiau bod yn rhyngwladol neu yn lleol.'[50] Yn ogystal, cafwyd yr argraff yng nghyfarfod Awdurdod yr Heddlu fod yna

> deimlad reit stereil i'r cyfarfod a dim naws Gymraeg wrth reswm. Bron iawn byddai rhywun yn dweud pan mae Cymro yn siarad, siarad ynglŷn â'r iaith y mae, ac nid oes ymateb o gwbl gan yr aelodau eraill. Dim sylw, dim gwrthwynebu, dim cytuno. […] Diffyg diddordeb go iawn ym materion Cymraeg?[51]

Felly, yr unig achlysuron pan siaredir yr iaith yw pan mae'r Gymraeg ei hun dan drafodaeth; ac yn fwy na hynny, nid yw'r di-Gymraeg yn cymryd rhan na diddordeb yn y drafodaeth honno chwaith.

Yr oedd y ddau gyfarfod hyn yn gyfarfodydd gwaith, cyfarfod o Senedd y Brifysgol ym Mangor y naill, a chyfarfod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru'r llall. Yn y ddau, roedd y diwylliant Saesneg yn llawer cryfach na'r diwylliant Cymraeg, a'r siaradwyr Cymraeg mewn lleiafrif. Ni wnaethpwyd sylwadau ar faterion yr iaith gan aelodau di-Gymraeg, efallai gan nad oedd ganddynt ddigon o gefndir na gwybodaeth i gyfrannu. Ond heblaw yr achlysuron lle mae'r iaith ei hun dan drafodaeth, meddai un aelod Cymraeg o'r Senedd,

> cyfrwng ydy'r Gymraeg i mi, so fyswn i'n siarad Cymraeg yn y Senedd, fysai'r iaith ddim yn rhan o nadl […] A pan dw i isio siarad â nifer o fyfyrwyr, neu fyfyrwyr tramor, neu beth bynnag, mae'r Gymraeg yn hollol amherthnasol, felly dylai fe fod yn hollol dryloyw.[52]

Gyda'r sylw olaf, down yn ôl at y cwestiwn o hyder unwaith eto. Os nad yw siaradwr yn hyderus, o ran terminoleg, cywair a'i safle cymdeithasol yn wyneb ei bartner mewn sgwrs, i ddweud yn union beth y dymuna ei ddweud, ac os na ellir cymryd yn ganiataol bod y gwrandawr yn deall heb dynnu sylw at yr iaith, gall iaith leiafrifol fod yn rhwystr.

---

[49] Cyf7/11.
[50] Arsylwi Cyfarfod 3.
[51] Arsylwi Cyfarfod 5.
[52] Cyf7/12.

Ym mhrofiad yr aelod hwn, mae siaradwyr Cymraeg yn hyderus mewn sgyrsiau anffurfiol, a hefyd mewn trafodaethau technegol iawn. Ond 'does dim byd yn y canol. Ac ar hyn o bryd dw i ddim yn gweld cyfieithu'n helpu llenwi'r canol 'na.'[53] Yn anffodus, y 'canol' yw'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd gwaith. Byddai'r ddamcaniaeth hon yn golygu bod yr hollt rhwng cyd-destunau cymunedol anffurfiol a sefyllfaoedd gwaith, o ran llwyddiant cyfieithu, yn dal i fodoli. Byddai cyfieithu yn llwyddo'n well wrth annog siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd o fewn cymunedau Cymraeg.

Un o'r rhesymau am hynny, o bosibl, yw ei bod yn bwysicach mewn cyfarfod gwaith neu bwyllgor i bwyso a mesur geiriau:

> We still have a problem not with confidence, but with people who want to be specific, as I'm doing now, I'm forced to break into English, because I can be more certain that I can get my message across more carefully in English than I can in Welsh.[54]

Ac mae hyn yn wir wrth ystyried y drafodaeth ariannol a gafwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd. Cyflwynwyd yr adroddiad yn Gymraeg, gyda'r holl derminoleg dechnegol a'r cywair perthnasol iddo, ond bu'r drafodaeth wedyn, y 'canol' o ran y cywair, yn Saesneg.

Wrth gwrs, ychwanegir gogwydd arall i hynny. Mae'n bwysig bob amser gyda phwy yr ydym yn siarad, fel y gwelwyd yn yr adran am gydbwysedd grym rhwng siaradwyr dwy iaith. Gan adlewyrchu'r drafodaeth honno ym Mhennod 8, daethpwyd i'r casgliad 'mai nid y pwnc sy'n penderfynu'r iaith, ond y person.'[55]

Wrth ystyried faint y mae'r cywair, y cyd-destun a'r aelodau eraill yn y cyfarfod yn dylanwadu ar y defnydd o'r iaith leiafrifol, holwyd ai 'nid dewis iaith, ond penderfynu ar iaith' a geir.[56] Hynny yw, nid dewis ar sail blaenoriaeth bersonol y siaradwr Cymraeg sy'n gwneud iddo siarad Cymraeg. Yn hytrach, amgylchiadau allanol sy'n penderfynu pa iaith y mae'n ei siarad. Y mae'r amgylchiadau hynny yn cael effaith ar yr isymwybod yn fwy na'r ymwybod, ac efallai nad yw dewis ymwybodol yn bosibl heb wneud datganiad ymlaen llaw (yn ddistaw neu yn gyhoeddus) mai siarad Cymraeg fydd y bwriad.

---

[53] Cyf7/46.
[54] Cyf4/11.
[55] Arsylwi Cyfarfod 1.
[56] Arsylwi Cyfarfod 1.

Gall gwasanaeth cyfieithu gefnogi siaradwyr yn eu defnydd o'r Gymraeg wrth drafod pynciau lled arbenigol gyda sawl amod. Yn gyntaf, rhaid i siaradwr Cymraeg fod yn ddigon hyderus i ddefnyddio gwahanol gyweiriau, yn enwedig mewn cyfarfodydd sydd yn y canol o ran cywair ac yn debygol o newid rhwng cyweiriau anffurfiol a mwy ffurfiol. Yn ail, rhaid iddo ef neu hi hefyd fod yn ddigon hyderus un ai i ddefnyddio terminoleg arbenigol yn gywir, neu i gymysgu Saesneg a Chymraeg heb gywilydd wrth drafod pynciau technegol. Mae'r agwedd bod y Gymraeg yn gyfrwng i drafod, nid yn bwnc i'w drafod, yn hollbwysig i'r defnydd cynyddol o'r iaith.

Os yw'r agweddau hyn yn gadarn, gall cyfieithu fod yn gefn i gadarnhau a sefydliadoli'r defnydd o'r iaith berthnasol yn ei chyd-destun. Os nad oes cymaint o bryder ynglŷn â therminoleg arbenigol mewn cyfarfodydd cymunedol, gall hyn fod yn un o'r rhesymau pam mae cyfieithu wedi llwyddo'n well i ysgogi siarad Cymraeg yn y sefyllfaoedd cymunedol o fewn yr astudiaeth. Ond sut y gellir cyrraedd yr un agwedd mewn cyfarfodydd mwy arbenigol (ac wrth gwrs, mae rhai trafodaethau mewn cyfarfodydd cymunedol o natur arbenigol a thechnegol iawn hefyd)? Cyn i ni droi at y ffyrdd y gall cyfieithu newid y defnydd o'r iaith mewn cyd-destunau mwy technegol, edrychwn yn fanylach ar y gwahaniaeth rhwng cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod ffurfiol ac mewn cyfarfod anffurfiol.

## 9.4 A yw ffurfioldeb cyfarfod yn effeithio ar lwyddiant cyfieithu ar y pryd?

Cyflwynwyd, ym Mhennod 2, ddamcaniaethau am gymdeithas ddwyieithog sefydlog lle siaredir y brif iaith mewn sefyllfaoedd ffurfiol a swyddogol, tra cedwir yr iaith leiafrifol i beuoedd y teulu a'r gymuned, sef rhai anffurfiol. Dadleuwyd nad yw rhaniad o'r fath yn adlewyrchu cyfartaledd rhwng y ddwy iaith. Mewn cymdeithas lle yr anelir at gydraddoldeb ieithyddol, daethpwyd i feddwl am ddwyieithrwydd fel mater o ddewis rhwng dwy iaith ym mhob pau a phob cyswllt rhyngbersonol. Trafodwyd hefyd fodel GIDS gan Fishman sy'n awgrymu bod rhaid cael sefyllfa ddwyieithog sefydlog cyn iddi fod yn bosibl anelu at gymdeithas sy'n ddwyieithog ar draws y peuoedd.

Yn dilyn casgliadau'r adran flaenorol am y defnydd o'r Gymraeg yn ôl geirfa a phwnc, bydd yr adran hon yn manylu ar y gwahaniaeth rhwng sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Ceisir gweld a yw cynllunio ieithyddol yng Nghymru yn

llwyddo i ddod dros y rhaniad hwnnw. Yn hynny o beth, edrychir yn arbennig ar botensial cyfieithu ar y pryd i annog siarad Cymraeg mewn ystod eang o gyd-destunau, gan holi ym mha beuoedd y mae'n fwyaf llwyddiannus. Tynnir yn bennaf ar syniadau un o'r cyfweleion sy'n cymharu'r defnydd o'r Gymraeg a llwyddiant cyfieithu yn Senedd Prifysgol Bangor ac mewn cyngor cymuned.

Ar yr olwg gyntaf, ymddengys yr agwedd mai po fwyaf ffurfiol fo cyfarfod, mwyaf addas yw cyfieithu ar y pryd wrth annog siarad Cymraeg. Yn ôl ymgynghorydd iaith, 'wrth gwrs, po fwyaf ffurfiol mae'r sefyllfa'n mynd, mwyaf addas ydi cael cyfieithydd ar y pryd yna 'swn i'n ddweud.'[57] Ond beth yn union yw cyfarfod ffurfiol? Ai 'swyddogol' yw ffurfiol, sef cyfarfodydd yng nghylchoedd llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, academaidd neu wyddonol? Mae gan yr academydd ddiffiniad mwy cynnil efallai:

> I mi, ffurfiol yw cyfarfod fel y Senedd lle mae pawb yn arbennig o ofalus am beth maen nhw'n ei ddweud. Maen nhw'n mynd allan o'u ffordd i beidio â bod yn flêr. Efallai bod nhw ddim yn defnyddio terminoleg, ond mae'r Senedd yn ffurfiol iawn. Bysai neb yn dweud rhywbeth ffwrdd â hi, bysan nhw'n cael row gan y cadeirydd. Mae rhaid bod mor ofalus mewn sefyllfa ffurfiol felly. Ac os dach chi ddim yn adrodd rhywbeth dach chi wedi ei baratoi, dach chi yn siarad o'r frest, mae rhaid i chi fod yn ofalus.[58]

Diffinnir cyfarfod neu siarad 'ffurfiol' yma nid yn yr ystyr *beth* a drafodir (cywair a geirfa), ond yn hytrach *sut* y trafodir ag eraill. Nid y ffaith fod pawb yn siarad yn ei dro sy'n gwneud cyfarfod yn ffurfiol, na'r ffaith fod yna agenda i'w ddilyn. Yn hytrach, pwysleisir mai pwyso a mesur y geiriau a'u heffaith ar yr aelodau eraill yw hanfod siarad yn ffurfiol:

> Lle mae'r iaith yn arbennig o bwysig, lle mae pobl sydd wedi treulio eu bywydau yn dysgu sut i ddefnyddio iaith, yn dod yn benben gyda'i gilydd i ddadlau ac i ennill pwyntiau ar ei gilydd, i newid syniadau ei gilydd, newid barn ei gilydd, dyna wirioneddol *crunch*.[59]

Ym mhrofiad yr academydd, 'does yr un ohonon ni gyda digon o hyder i fynd ar ôl pethau anodd, ffurfiol trwy gyfieithiad'.[60] Ai diffyg ymddiried yn y cyfieithydd i drosi'r holl *nuances* yw hyn, fel y gwelsom uchod? Mae siaradwyr

[57] Cyf6/28.
[58] Cyf7/2.
[59] Cyf7/59.
[60] Cyf7/4.

Cymraeg yn pwyso a mesur sut orau y gallant reoli effaith eu geiriau ar siaradwyr eraill, ac yn penderfynu siarad Saesneg yn hytrach na dibynnu ar gyfieithiad.

Ar yr un pryd, mae'n cydnabod bod rhai rhannau o gyfarfod ffurfiol yn ddidrafferth ac yn digwydd yn gyson yn Gymraeg:

> Mae 'na ddau lefel o ffurfioldeb yn y Senedd. Mae'r ffurfioldeb o jest mynd trwy'r cofnodion, mae hyn yn ffurfiol, ond dyw e ddim yr un neu'r llall go iawn. Beth sy'n ffurfiol go iawn ydy'r fath o ddadlau fysat ti'n cael mewn cymdeithas ddadlau, bob brawddeg yn ei lle, neu yn y Senedd, neu yn y Cynulliad yng Nghaerdydd. Wyt ti ddim yn mynd i falu yn fan yna, mae popeth yn iawn, mae hwnna'n ffurfiol. Ond mae'n ffurfioldeb hollol wahanol. Mae'r cyntaf yn hawdd iawn i wneud yn Gymraeg, yr ail un sy'n anodd.[61]

Nid yw'n petruso cyn dweud bod y ffurfioldeb cyntaf yn hawdd yn Gymraeg: 'Hawdd iawn ydy adrodd. Nawr dw i'n mynd i adrodd am yr adran Gymraeg, neu beth bynnag, mae hyn yn hawdd, gallai unrhywun wneud hynny.'[62] Mae unrhyw beth sydd wedi ei baratoi yn hawdd, meddai. Y gwrthwyneb sy'n wir pan mae rhywun yn meddwl ar ei draed:

> Pan wyt ti'n trio perswadio pobl i ddod rownd i dy syniad di, y peth diwethaf wyt ti isio ydy dod â'r holl *baggage* arall – dyna holl bwrpas dadl ffurfiol […]. Dw i'n credu bod ffurfioldeb y peth, bod unrhyw beth dan ni'n ddweud fod mor syml ac uniongyrchol â gallai fod.[63]

Rhaid i ddadl dda, felly, fod yn syml heb ddim i'w chymhlethu – a byddai meddwl am ba iaith i'w siarad yn gwneud hynny. Wrth feddwl am y rheswm pam y mae hi'n haws siarad Cymraeg yn y cyngor cymuned, ac felly fanteisio ar y gwasanaeth cyfieithu, daw i'r casgliad hwn:

> Y prif wahaniaeth rhwng y Senedd a'r cyngor cymuned ydy bod y cyngor cymuned yn anffurfiol, ac mae hynny yn ei wneud o llawer yn haws rhywsut achos does neb yn poeni [torri] ar draws ei gilydd ac yn gofyn i rywun ailadrodd, a hyd yn oed newid iaith os oes rhaid.[64]

O ystyried ei agwedd at ba mor bwysig yw union eiriad y sgwrs yn y ddau fath o gyfarfod, nid oes syndod pan ddywed y cyfwelai, 'Dw i'n credu bod sefyllfa anffurfiol yn haws i'w chyfieithu'.[65] Ac er bod y cyngor cymuned yn rhan o

[61] Cyf7/35.
[62] Cyf7/5.
[63] Cyf7/16.
[64] Cyf7/22.
[65] Cyf7/58.

system llywodraethu'r wlad, ac yn dilyn strwythur cyfarfod lled ffurfiol, 'mae'r cyngor yn hollol wahanol. Y prif reswm ydy nad ydi'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n eistedd rownd y ford erioed wedi bod i gyfarfod ffurfiol'.[66]

Ond oherwydd i gymaint o siarad ffurfiol ddigwydd yn Saesneg, mae'n anodd i lawer o siaradwyr Cymraeg fabwysiadu'r dull hwn o drafod ar gyfer trafodaeth Gymraeg: 'Mae cyn lleied o'r siarad ffurfiol ofalus, mae hwnnw'n rhywbeth sy'n estron iawn i lot ohonon ni yn y Gymraeg'.[67] Cadarnheir yr esboniad hwn gan gyfieithydd sy'n nodi yn un o'i gyfarfodydd: 'Ebychiadau a sylwadau i unigolion yn unig a geid [yn Gymraeg] gan yr Ysgrifenyddes.'[68] Roedd yr ysgrifenyddes honno'n gwneud gwahaniaeth amlwg rhwng trafodaeth yn Saesneg a'i pherthynas ag aelodau eraill y grŵp Cymraeg.

Ond beth yw pwrpas cyfieithu mewn cyfarfodydd ffurfiol os yw hi mor anodd dod dros yr arfer o siarad Saesneg pan mae pwyso a mesur geiriau yn allweddol? Mewn cyfarfodydd â mwyafrif o siaradwyr Cymraeg, fel y gwelwyd o brofiad cyfarfodydd cynghorau sir Gwynedd a Môn, a'r pwyllgorau o fewn y sefydliadau hyn, mae cyfieithu wedi lledu'r arfer o siarad Cymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol. Ond oes unrhyw arwydd bod cyfieithu yn gallu bod o gymorth wrth sefydlu'r Gymraeg fel iaith mewn cyfarfodydd mwy Saesneg sy'n ffurfiol eu natur?

> Os nad oes 'na gyd-destun dadlau ffurfiol yn Gymraeg, mae'n amhosibl i wneud o mewn cyd-destun dwyieithog. Mae'n ddigon anodd yn Gymraeg, ond os ydy o wedyn, ar ben popeth arall, yn gosod y fath o broblemau o'n i'n trafod, dyma lle wyt ti'n rhoi haen arall lawr rhyngot ti a'r person arall wyt ti'n dadlau â nhw.[69]

Hyd yn oed petai siaradwyr Cymraeg, felly, yn dewis siarad Cymraeg a gadael i'r cyfieithydd drosi ar gyfer y di-Gymraeg, byddai hyn yn golygu bod yna ddadl arall yn dod i mewn i'r drafodaeth (sef dadl am yr iaith), a bod siarad Cymraeg yn tynnu sylw oddi wrth y ddadl graidd. Ar y llaw arall, mae'r sefydliadau lle mae'r arfer o siarad Cymraeg wedi ymsefydlu yn dangos mai anawsterau cychwynnol yw'r rhain, ac nad yw'r iaith bellach yn tynnu sylw oddi wrth ddadlau eraill. Mae cyfieithu ar y pryd yn fodd i alluogi'r broses hon i

[66] Cyf7/18.
[67] Cyf7/7.
[68] HWBcap20/2.
[69] Cyf7/37.

ddigwydd yn y lle cyntaf. Heb gyfieithu, ni fyddai'n bosibl annog pobl i newid iaith yn raddol. A heb gyfieithu ar y pryd, ni fyddai'r math cyntaf o ffurfioldeb y mae'r cyfwelai yn cyfeirio ati yn bosibl yn Gymraeg chwaith.

O brofiad grwpiau eraill, mae gan gyfieithu rôl arall mewn cyfarfodydd llai ffurfiol: 'Dywedodd y Cadeirydd, wrth grynhoi, fod cyfieithu'n tueddu i droi'r cyfarfod yn fwy ffurfiol, gan fod angen siarad trwy'r Cadeirydd, ond bod hynny o bosibl yn beth da.'[70] Cytuna'r academydd gyda'r agwedd hon o'i brofiad yn ei gyngor cymuned:

> Os unrhyw beth, mae hyn yn gwella pethau, achos wrth siarad trwy gyfieithydd, mae rhywun yn dechrau bod yn fwy gofalus am beth mae'n ei ddweud. So wyt ti bron yn troi'r peth yn fwy ffurfiol sydd a dweud y gwir yn gwella'r drafodaeth. Nid jest dweud y peth cyntaf sy'n sbyrtio mas o dy feddwl, wyt ti'n hanner rhoi rhyw fath o hidlen ar beth wyt ti'n ei ddweud, a mae'r geiriau wedyn tipyn bach yn gallach falla. Maen nhw'n cael eu cyfieithu wedyn yn haws ac yn gwella'r drafodaeth.[71]

Felly, er bod cyfieithu'n gweithio'n well mewn cyfarfodydd anffurfiol oherwydd nad oes cymaint o bwyslais ar sut mae'r geiriau yn cael eu gosod, ac oherwydd nad oes problem wrth ailadrodd, aralleirio neu ddechrau brawddeg neu syniad eto, mae'n gwella'r drafodaeth trwy ei ffurfioli i ryw raddau. Gall helpu aelodau'r grwpiau i fod yn gliriach eu meddwl ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddweud. Efallai fod hyn yn fwy gwir mewn grwpiau anhrefnus, wrth glywed aelod o gyngor cymuned arall: 'Ond i gadeirydd gadw trefn, dw i ddim yn meddwl bod o ddim yn mynd dim mwy ffurfiol efo cyfieithydd. Dylai fo ddim fod, os ydy'r arweiniad o'r Gadair yn dda.'[72]

Ond beth yw'r gwahaniaeth rhwng sefyllfa lle bo cyfieithu yn ffurfioli, ac yn gwneud i bobl feddwl yn gliriach mewn cyfarfod cymunedol (ac felly gael effaith dda), a sefyllfa fwy ffurfiol lle y gall fod yn rhwystr i bobl siarad yn fyrfyfyr heb deimlo eu bod yn gosod yr iaith (fel dadl) o flaen y pwnc dan sylw? O bosibl, yn y sefyllfaoedd cymunedol hynny lle mae'r diwylliant Cymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth yr aelodau a'r grŵp, nid yw siarad Cymraeg yn gosod yr iaith (fel dadl) o flaen pwnc arall. Nid dadl yw'r Gymraeg yn y grwpiau hyn, ac felly nid yw cyfieithu ar y pryd yn cymhlethu'r drafodaeth.

---

[70] HWBcap13/3.
[71] Cyf7/24.
[72] Cyf3/25.

O'r ochr arall, credir mai mewn cyfarfodydd ffurfiol mae'r lle gorau i gyfieithu achos ei bod yn weithred sy'n gorfod dilyn rheolau trafod ffurfiol (er enghraifft, osgoi siarad ar draws ei gilydd). O bosibl, mae trafod ffurfiol gyda chyfieithydd yn haws unwaith y mae traddodiad neu arfer o siarad Cymraeg mewn cyd-destun penodol wedi ei sefydlu, a dyna fydd trafodaeth yr adran nesaf.

## 9.5 Beth yw rôl cyfieithu yn y broses o greu traddodiad newydd o siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd?

Wrth gyfeirio at y newidiadau a ddigwyddodd yng Ngwynedd dros y degawdau diwethaf, pwysleisiwyd eisoes pa mor bwysig yw creu traddodiad newydd o siarad Cymraeg, neu 'sefydliadoli'r Gymraeg' fel iaith normal. Ond rhaid dangos yn gyhoeddus bod creu ac arfer traddodiad newydd fel hyn yn ddymunol. Heb osod esiampl, ni chaiff egwyddor fawr o effaith, fel y dadleuwyd yn achos Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i ddiffyg manteisio ar wasanaethau cyfieithu ar y pryd. Wrth gwrs, nid yw cyfieithu ond yn un arf yn y broses o Gymreigeiddio sefydliad, ond holir yn yr adran hon beth yw rhan cyfieithu ar y pryd wrth geisio sefydlu traddodiad newydd mewn unrhyw sefydliad neu grŵp.

Yn ôl pob golwg, ni chred yr ymatebwyr i'r ymchwil fod cyfieithu yn faich ychwanegol (fel y ceisir dadlau weithiau), eithr ei fod yn newid yr awyrgylch. Fel y clywn gan un cyfieithydd, 'mae agwedd iach at bob agwedd o ddefnyddio'r Gymraeg – sôn am gyfieithu rhagor o ddogfennau, ac un aelod yn holi ynghylch help i wella ei Chymraeg.'[73] Mae ymatebydd arall yn credu yn bendant mai trwy gyfieithu mae sicrhau nad oes newid i'r Saesneg. Defnyddir cyfieithu, yn ei farn ef,

> er mwyn sicrhau bod y siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg yn ôl eu harfer, a bod y siaradwyr di-Gymraeg sydd heb fynd ati i ddysgu iaith yr ardal yn cyfrannu heb beri i iaith y cyfarfod newid yn gyfan gwbl (i'r Saesneg) er eu mwyn nhw.[74]

Mae hyn yn fwriad agored gan rai sefydliadau: 'And I've insisted the meeting is now bilingual. And we have a translator come in.'[75] Ond er mwyn i amcanion o'r fath gael eu gwireddu, rhaid cael trafodaeth agored am y defnydd o'r Gymraeg

[73] HWBcap10/2.
[74] H21/1.
[75] Cyf4/27.

yn y sefydliad, neu o leiaf ymwybyddiaeth o'r bwriad: 'Pan wyt ti'n ymwybodol o beth sy'n mynd ymlaen dw i'n meddwl wneith bobl wneud mwy o ymdrech.'[76] Mae Parc Cenedlaethol Eryri, er enghraifft, wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf: 'Ond rŵan mae o wedi mynd yn fwy. Mae'n naturiol cael bob trafodaeth yn Gymraeg. A mae'n treiddio trwodd i bethau, er enghraifft, mae 'na fwy o swyddi rŵan yn cael eu hysbysebu efo'r Gymraeg yn hanfodol.'[77]

O ystyried bod cymaint o gyfeirio yng nghyd-destun cyfieithu at Gyngor Gwynedd, rhaid cofio pa mor bwysig yw'r lleoliad wrth geisio creu traddodiad newydd:

> Ewch i gyfieithu i unrhyw gyfarfod swyddogion Cyngor Gwynedd yng Ngwynedd, fe siaradan yn Gymraeg trwy'r cyfarfod. Ond weithiau mi welwch chi ambell i swyddog o Wynedd mewn cyfarfod gogledd Cymru neu gyfarfod cenedlaethol sy'n digwydd yr ochr arall i'r afon Conwy, ac mi siaradan yn Saesneg. A dw i'n amau eto mater o statws ydy hynna, ond statws o fath gwahanol. Statws proffesiynol.[78]

Sylweddolwn o'r geiriau hyn nad yw sefydlu awyrgylch newydd mewn un man yn golygu y bydd y gweithwyr yn mynd â'u hagwedd newydd i lefydd eraill. Nid yw buddsoddi, annog a hyrwyddo yn ddigon: 'We've got an in-house tutor, we've done masses with that, we are raising the standard of the language, it is being used more. I had to triple the size of the [translation] department, and that's still not enough.'[79]

Wrth geisio creu traddodiad newydd, mae deall y cefndir diwylliannol yn bwysig hefyd. Fel arall, ni fydd gwasanaeth cyfieithu yn gweithio i'w lawn botensial: 'I've got to have confidence that the organisation is able to work in both languages, because which ever you choose to speak the same point will come across. And that means understanding culture and context.'[80]

Hyd yn oed yn yr ardaloedd Cymreiciaf, dyna brofiad cyfieithydd profiadol, nid oes newid hirdymor ar sail defnyddio gwasanaeth cyfieithu yn unig. Dywed,

> mi gewch chi leiafrif, efallai un, sy'n mynnu siarad Cymraeg yn gyson. A fydd eraill yn gwneud weithiau. Mae 'na un cyngor tref yn Ynys Môn dw i'n

[76] Cyf1/23.
[77] Cyf1/26.
[78] Cyf2/8.
[79] Cyf4/21.
[80] Cyf4/48.

gwneud ers rhai blynyddoedd. Swn i ddim yn dweud bod 'na gynnydd wedi bod, a'r un rhai sy'n siarad Cymraeg naill ai yn gyson neu weithiau.[81]

Pa mor bwysig, felly, yw cefndir diwylliannol yr aelodau a gwybodaeth ddiwylliannol y cyfieithydd i lwyddiant cyfieithu wrth annog siarad Cymraeg?

> Efo'r rhai dw i'n mynd yn arferol, fedra i ddweud, mae'n amrywio yn ôl gwahanol ffactorau, faint o'r Cymry Cymraeg pybyr sydd yn bresennol ar y diwrnod, ydy'r cadeirydd yn cadeirio yn Gymraeg, a ffactorau eraill. Mae 'na amrywiaeth o gyfarfod i gyfarfod oherwydd y dylanwadau hynny. Ond o safbwynt newid hirdymor, alla i ddim dweud mod i wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw gorff dw i'n mynd atyn nhw yn weddol aml, fedra i ddim dweud mod i wedi gweld cynnydd cyson.[82]

Yn Senedd y Brifysgol, mae rhesymau gwahanol efallai pam nad yw cyfieithu yn newid agweddau ac ymddygiad. Er bod ychydig o newid ym mha faint o Gymraeg y clywir yn y cyfarfodydd, meddai'r academydd,

> dw i ddim yn credu bod yr agweddau wedi newid o gwbl yn y Senedd ers cael cyfieithu. Mae 'na nawr siarad yn Gymraeg, hynny yw, mae 'na gyfieithu, ond […] pan mae'n dod lawr i'r *crunch*, felly, nid jest yn mynd trwy'r cofnodion, dydy hynna ddim yma ac acw a dweud y gwir.[83]

Ond rhaid peidio â thanbrisio newidiadau bach sy'n digwydd dros gyfnodau hir. Gall trefniadau cyfieithu ar y pryd ddangos gwell statws i'r iaith mewn sefyllfa benodol, a dylanwadu ar agweddau tuag at yr iaith yn anuniongyrchol. Bydd hyn yn cymryd amser. Fe nodwyd trefniadau o'r fath yng nghyfarfod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, lle nid yn unig roedd ystafell fach i'r cyfieithwyr yng nghefn yr ystafell gyfarfod, ond hefyd fe ddefnyddiwyd dau beiriant a dwy sgrîn ar gyfer cyflwyniadau PowerPoint. Cyfieithir y cyflwyniadau gan yr uned gyfieithu fewnol ymlaen llaw. Mae'r ystafell ei hun, felly, yn arwydd bod cyfieithu yn rhan o'r trefniadau i roi mwy o sylw a statws i'r Gymraeg.[84]

Heblaw hynny wrth gwrs, mae hyfforddiant yn rhan allweddol o greu traddodiad newydd. Os na cheir hyfforddiant er mwyn newid agweddau, yn ogystal â gwersi Cymraeg i'r rhai di-Gymraeg, ni fydd gwasanaethau cyfieithu yn llwyddo cystal. Noda cyfieithydd,

---

[81] Cyf2/26.
[82] Cyf2/43.
[83] Cyf7/31.
[84] Arsylwi Cyfarfod 5.

> Dw i'n credu bod hynny wedi digwydd yng Nghonwy, bod 'na waith wedi cael ei wneud i drio annog cynghorwyr i ddefnyddio Cymraeg. Mae 'na wersi Cymraeg i'r di-Gymraeg, ond mae 'na hefyd dipyn bach o anogaeth i'r Cymry Cymraeg wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Mae angen camau rhagweithiol. Dydy sicrhau presenoldeb cyfieithydd ar y pryd ar ben ei hun ddim yn sicrhau defnydd o'r Gymraeg.[85]

Roedd cyfieithydd arall o'r farn bod cyfieithu yn dylanwadu ar statws yr iaith yn gyffredinol. Os câi gweithwyr, trwy ddefnyddio cyfieithu mewn pwyllgor, er enghraifft, fwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg,

> yn naturiol mae'r ffaith bod y Gymraeg yn cael statws mewn pwyllgorau a mewn cyfarfodydd ac ati yn lliwio'r ffordd mae'r bobl yn meddwl tu allan i bwyllgor. Hefyd mae'r bobl yn ymfalchïo mwy, nid jyst yn ymfalchïo, mae o'n rhan gwbl naturiol.[86]

Ac yn ogystal â mynd â'r arferion newydd o'r ystafell bwyllgor i goridorau a swyddfeydd y sefydliad, cred y cyfieithydd y bydd cyfieithu yn y pen draw yn arwain at newid yr arferion mewn cylchoedd a chyd-destunau y tu allan i'r sefydliad. Ar y llaw arall, dim ond wrth siarad Cymraeg yn naturiol yn y gymuned y gellir creu traddodiad newydd mewn pwyllgorau, oblegid mae angen pobl rugl, huawdl a hyderus i siarad yr iaith mewn sefyllfaoedd newydd:

> Mae pobl yn cael yr hyder achos bod nhw'n gweld bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn sefyllfa broffesiynol a swyddogol. Maen nhw'n hapus wedyn i'w defnyddio hi ar y lefel gymunedol achos maen nhw'n teimlo, ia, mae'n cael y statws yn fan 'na. Ac mae pobl yn defnyddio hi mewn pwyllgorau ffurfiol oherwydd dyna sy'n dod yn naturiol mewn cyfarfodydd cymunedol hefyd.[87]

Mae cyfieithu, felly, yn bwysig wrth greu traddodiad newydd o siarad mwy o Gymraeg, yn yr ystyr ei fod yn allweddol i wella statws y Gymraeg mewn sefydliadau. Gwelir hyn, er enghraifft, yn y ffordd y gellir trefnu ystafelloedd cyfarfodydd. Ac er nad yw cyfieithu trafodaeth o'r cofnodion ac eitemau arferol eraill ar yr agenda yn gwneud argraff fawr ar ein hacademydd, gellir dadlau bod hyn hefyd yn gam ymlaen yn y defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfa ffurfiol sydd efallai yn angenrheidiol cyn i drafodaeth fwy agored allu digwydd yn Gymraeg. Gwelir o'r syniadau uchod na all cyfieithu greu traddodiad newydd ar ei ben ei

[85] Cyf2/42.
[86] Cyf1/27.
[87] Cyf1/34,35.

hun, ond hebddo, byddai'n anodd cyrraedd y nod o normaleiddio'r arferion o siarad Cymraeg.

## 9.6 Beth yw rôl cyfieithu ar y pryd wrth normaleiddio siarad Cymraeg?

Crybwyllwyd yn Rhan I, gan ddyfynnu o waith Colin Williams, nad yw hi'n ddigon i greu cyfleoedd i siarad Cymraeg, ond bod angen troi'r cyfleoedd hynny'n 'ymarfer cymdeithasol'. Dyna'r cysyniad o 'normaleiddio' yr iaith leiafrifol. Gwelwyd dadl Marta García González wedyn a awgryma fod cyfraniad cyfieithu at normaleiddio'r iaith leiafrifol yn bwysicach na'i rôl graidd o hyrwyddo cyfathrebu rhwng siaradwyr dwy iaith. Ar ddiwedd y bennod hon ar gyfraniad cyfieithu ar y pryd i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg, edrychir ar y berthynas rhwng cyfieithu a'r broses o normaleiddio arferion o siarad Cymraeg.

Wrth ddechrau'r drafodaeth hon, rhaid cofio eto fod ystod o ffactorau yn dylanwadu ar ddewis iaith mewn sefyllfa o gyswllt rhwng dwy iaith, a bod nifer o'r dylanwadau hynny'n anymwybodol:

> Mae'r busnes 'na o arferion pobl a'u hagweddau nhw tuag at y Gymraeg, yn enwedig y ffordd maen nhw'n meddwl bydd pobl yn ymagweddu tuag atyn nhw pan maen nhw'n siarad yn Gymraeg, yn rymoedd seicolegol pwerus iawn. A dydy presenoldeb cyfieithydd ar y pryd dim digon i oresgyn hyn.[88]

Ond mae'r arferion hynny wedi datblygu dros amser hir. Yn yr un modd, dylai fod yn bosibl troi'r arfer ar ei ben a normaleiddio'r Gymraeg yn iaith arferol newydd. Meddai cyfwelai: 'Wyt ti'n dilyn fformiwlae. Wyt ti wedi cael dy hyfforddi, mae gen ti dy fywyd cyfan i wneud hynny. Ond mae'n debyg mater o arfer ydy o eto, beth wyt ti wedi bod yn arfer wneud.'[89] Cyfyd y drafodaeth am bŵer arferion sawl gwaith. Mae'r sylw nesaf yn pwysleisio'r teimlad anghyfforddus pan geisir newid arferion:

> Mater o arferiad fydd hi i eraill. Maen nhw wedi gwneud ers blynyddoedd lawer, mae'n anodd newid. Yr un math o broblem sy'n digwydd rhwng unigolion. Os ydyn nhw wedi magu arfer o siarad Saesneg efo'i gilydd pan

[88] Cyf2/39.
[89] Cyf7/36.

> oedden nhw'n ifanc, mae'n teimlo'n annifyr ac yn annaturiol iawn i newid yn nes ymlaen.[90]

Gwelwyd hynny ym Mhennod 8 wrth ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd mewn pwyllgor sefydliad cyhoeddus. Rhaid bod yn fwy ymwybodol o ddefnydd iaith i allu newid arferion. Rhydd cyfieithydd enghraifft o bwyllgor arall: 'Ond fel heddiw, er enghraifft, wneith A. ddweud hwyrach ambell i air yn ôl [yn Saesneg], wedyn mae'n sylweddoli beth mae'n ei wneud a mae'n newid yn ôl i'r Gymraeg.'[91] Mae'n allweddol, fodd bynnag, i gynyddu nifer y pynciau a'r peuoedd a drafodir yn Gymraeg, meddai'r academydd: 'Ymestyn defnydd o'r Gymraeg i ardaloedd newydd, dw i'n teimlo, ydy'r nod. Fel trafod polisi llety, neu bolisi insiwrans, neu bethau ariannol.'[92]


O safbwynt y di-Gymraeg, mae'n bosibl dod i arfer gyda'r gwasanaeth cyfieithu a'r newid y mae'n ei olygu: 'In the very beginning, I thought I can't do with this sort of thing, but I've got used to it eventually. I wasn't very keen on it at the beginning.'[93] Ac i hyrwyddo'r agwedd honno, mae anogaeth yn angenrheidiol, fel y cafodd gweithwyr y sefydliad hwn: 'Now, the confidence issue is much about use, just getting used to it. And lot of what I've been trying to do is to say to people this is normal. Get used to it guys, because this is the way it's going.'[94] Mae pennaeth y sefydliad yn gadarn wrth hyrwyddo'r Gymraeg ymysg ei weithlu, ac efallai fod hyn yn allweddol os am achosi newid.

Ym mhrofiad nifer o'r atebwyr o'r grwpiau gwirfoddol, mae cyfieithu yn help wrth gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae 'mwy o Gymraeg yn cael ei siarad',[95] meddai un, ac yn ôl un arall clywir mwy o Gymraeg yn gyson:

> And there was only one then that really kept going back to his Welsh all the time. Now we've got three or four of them now that are more inclined to want to speak Welsh all the time rather than in English [...] Probably they feel more free.[96]

---

[90] Cyf2/5.
[91] Cyf1/22.
[92] Cyf7/42.
[93] Cyf5/15.
[94] Cyf4/38.
[95] HWB9/1.
[96] Cyf5/11.




Dengys Ffigwr 9.1 fod siaradwyr Cymraeg, yn gyffredinol, yn credu yn y cymorth a gânt gan gyfieithu. O'r atebwyr Cymraeg i gwestiwn C5 yr holiaduron, mae 100% o'r farn bod lledaenu'r defnydd o'r Gymraeg yn rheswm 'pwysig iawn' neu 'bwysig' dros ddefnyddio cyfieithu ar y pryd. A chymharu hyn gyda barn y di-Gymraeg, mae'n ddiddorol gweld bod y ffigyrau yn debyg. 80% o'r siaradwyr di-Gymraeg sy'n meddwl bod ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn rheswm 'pwysig' neu 'bwysig iawn' wrth gyflogi cyfieithydd.

Ond mewn llawer o gyfarfodydd, ni chaiff yr egwyddor haniaethol hon ei hadlewyrchu yn ymddygiad siaradwyr Cymraeg na di-Gymraeg. Mae'r academydd yn teimlo nad yw cyfieithu er mwyn siarad Cymraeg yn gweithio yn Senedd y Brifysgol nac unrhyw gyfarfod ffurfiol arall: 'Gei di byth ddadl yn y Senedd gyda rhywun yn dadlau un ochr yn Gymraeg a'r ochr arall yn Saesneg. Mae'n wastad yn syrthio'n ôl i [sefyllfa lle dim ond] rhywbeth syml yn cael ei ddweud yn Gymraeg.'[97] Ond mae'n cydnabod hefyd pe torrid y cylch dieflig, 'petai 'na fwy o drafodaeth, mi fysai'r arfer yn dod ynghynt, a fallai bysen ni'n cyrraedd rhyw bwynt lle fysai dadlau dwyieithog yn fwy cyffredin'.[98] Ar y llaw arall, ceir profiadau mewn cyngor cymuned lle 'yn aml iawn gei di sgwrs un wrth un bron sy'n mynd trwy gyfieithiad. Mae hyn yn brofiad diddorol, a mae'n gweithio.'[99]

Ond sut mae sefydlu'r arfer newydd? Sut mae normaleiddio yn digwydd? Cododd yr ymgyrchu dros yr iaith yn y 1960au a'r 1970au ymwybyddiaeth o

[97] Cyf7/8.
[98] Cyf7/38.
[99] Cyf7/23.

sefyllfa fregus yr iaith gan gyfrannu at y broses a newidiodd arferion iaith yng Nghyngor Sir Gwynedd. Ond o holi cyfieithydd, nid yw'n

> ymwybodol o'r math o ymgyrchu dros yr iaith sy'n golygu mynnu defnyddio'r iaith mewn cyfarfod. A'r broblem efo'r rhai ifanc ydy bod y sefyllfa ddwyieithog yn un maen nhw wedi ei hetifeddu wrth ddod i mewn i'r swydd. Mae o'n normal. A mae 'na rywbeth i'w harfer hi [yr iaith] neu beidio â'i harfer yn ôl beth sy'n teimlo'n gyffyrddus.[100]

Efallai yr arweinia hyn at y casgliad bod rhaid brwydro yn ymwybodol er mwyn sefydliadoli'r iaith. Ond pa fath o frwydro? Onid yw'r camau, cynlluniau a strategaethau gan Lywodraeth y Cynulliad a'i hasiantaethau yn frwydr a fydd yn normaleiddio'r Gymraeg? Medd ymgynghorydd iaith,

> Mae cenedlaethau yn mynd i gael eu magu yn meddwl mai hynny yw'r norm bod Prif Weinidog a Dirprwy Prif Weinidog Cymru yn siaradwyr Cymraeg. Mae hwnnw'n bownd o greu rhyw agwedd gwell. Yr hyn sy'n bwysig i gofio yw bod rhaid i ni gymryd persbectif tymor hir yn y pethau yma i gyd […] Does 'na ddim rhyw *quick fix* i gael yn y busnes iaith 'ma yn anffodus.[101]

Pwynt arall a gyfyd o'r dystiolaeth yw bod siarad Cymraeg a'i chyfieithu yn gam ar y ffordd i'w normaleiddio, ond y dylid sefydlu norm arall, megis norm o gael dadl gyfan yn Gymraeg er mwyn gwneud y dewis hwn yn un haws: 'Yr ydym yn rhydd i siarad iaith ein dewis. Ond, y byddai'n braf cael cyfieithu o Saesneg i'r Gymraeg.'[102] Esboniodd atebydd arall pam fod hyn yn bwysig i drafodaeth gyfartal:

> Os dach chi'n trio dadlau yn Gymraeg, dach chi'n dadlau y ddwy iaith ar yr un pryd, achos dach chi'n chwarae gyda'ch geiriau eich hunain, ond mae rhaid i chi fod yn ymwybodol pa eiriau dach chi'n chwarae yng nghlust y person arall. Dach chi ddim yn ymwybodol o hynny, felly dach chi'n llwyr ddibynnol ar ba eiriau mae'r person yna yn defnyddio yn ôl i chi. Nawr, bron mae rhaid i chi gyfieithu be' mae'r person yna yn ei ddweud yn ôl i chi er mwyn cael y gylch yn gyfan. Dw i'n credu bod hyn yn wir, dydy? Mae rhaid i'r person dwyieithog ddadlau yn ddwyieithog tra bod y person uniaith wedyn o dan fantais aruthrol. [...] Mae rhaid i ti wybod beth mae'r boi arall wedi ei glywed. A wedyn, hollol, cyfieithu fo'n ôl. […] Petai gen ti drafodaeth hollol agored ar y lefel yna, dyw e ddim yn gymesur, nac ydy? Mae cyfieithu un ffordd, ond dim y ffordd arall. Dyw e ddim yn gymesur, achos mae rhaid i'r person dwyieithog ddadlau yn ddwyieithog. Tra mae'r person uniaith jest yn ymateb i'r cyfieithu ac yn siarad yn yr un iaith. Dw i erioed wedi meddwl am

[100] Cyf2/11.
[101] Cyf6/36.
[102] HWB5/1,2.

> hyn. Ar y cyfan, wrth feddwl am y peth, dw i wedi meddwl bod y cyfieithu i'r Gymraeg yn ddi-bwynt. Ond dw i ddim yn siwr nawr.[103]

Mae'n bosibl cysylltu'r profiadau hyn â dadl Ian Mason am berchnogi dadl:

> One interesting concomitant of all these uncertainties among participants is the phenomenon […] of 'ownership' of meaning. Thus, a particular lexical choice selected by the interpreter to relay one interlocutor's meaning may be taken up or challenged by the other interlocutor as if it emanated not from the interpreter but from the other speaker.[104]

Gan fod hon yn broses anymwybodol ar ran y di-Gymraeg sy'n clywed y cyfieithiad, yr unig ffordd i osgoi annealltwriaeth ac amheuaeth yw i siaradwr Cymraeg droi i'r Saesneg. Ond o wneud hynny, a fyddai rhai siaradwyr Cymraeg yn colli perchnogaeth ar eu dadlau mewn ystyr arall, sef wrth golli cryfder mynegiant yn eu hail iaith? Ni ellir bod yn sicr bod ymrwymiad llwyr i ddadl a safbwynt ond yn bosibl yn yr iaith gyntaf, ond mae'n deg awgrymu, yn ôl y dystiolaeth a welwyd hyd yn hyn, bod nifer o siaradwyr Cymraeg yn ei chael hi'n anoddach dadlau'n huawdl yn Saesneg.

Dywed yr academydd drachefn fod rhaid cael cyfieithu ar y pryd i'r ddau gyfeiriad er mwyn cyfartaledd:

> Ac os dydy'r ddau ddim yn deall ei gilydd o gwbl, mae rhaid cael cyfieithydd i'r ddau gyfeiriad, o leiaf mae'r ddau yn yr un sefyllfa. Ond dw i'n credu fedri di ddim fod yn hollol gyfartal rhwng rhywun dwyieithog a rhywun uniaith. Ac yn eironig, y person dwyieithog sy'n dioddef.[105]

Wrth gwrs, y ddadl fwyaf yn erbyn cyfieithu'r ddwy ffordd, a hyd yn oed yn erbyn cyfieithu yn y lle cyntaf, yw'r gost. Mae gormod o gyfarfodydd cymdeithasol a sefydliadol, ffurfiol ac anffurfiol, i gyfiawnhau archebu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer pob un ohonynt. Yn ôl ymgynghorydd iaith, rhaid derbyn mai normaleiddio dwyieithrwydd yw'r nod, ac nad yw'r gobaith am fwy o sefyllfaoedd uniaith Gymraeg yn realistig:

> Os dach chi'n ystyried yr holl sefyllfaoedd cymdeithasol sy'n digwydd yn ddyddiol, yn feunosol, mae anferthedd y peth, mae 'na dalp anferth o waith i fynd allan ac yn hwnna, mae anghenion anferth o ran, lle dechreuon ni'r sgwrs yma, codi hyder siaradwyr Cymraeg. Codi ymwybyddiaeth iaith pobl,

---

[103] Cyf7/55-57.
[104] Mason, *Dialogue Interpreting*, t. 154.
[105] Cyf7/60.

> normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd yna, a normaleiddio dwyieithrwydd y sefyllfaoedd yna hefyd.[106]

Nid oes prawf bod cyfieithu o reidrwydd yn arwain at fwy o siarad Cymraeg. Serch hynny, mae'r teimlad gan aelodau'r grwpiau ei fod yn cefnogi hynny yn bwysig. Pe na bai cyfieithydd mewn cyfarfod, a rhai di-Gymraeg yn bresennol, ni ellid hyd yn oed feddwl am normaleiddio siarad Cymraeg. Gyda'r gwasanaeth, efallai nad yw pawb yn defnyddio cymaint o Gymraeg ag y gallai, ond o leiaf mae'r posibilrwydd yna. Ni all cyfieithu oresgyn y pwerau seicolegol sy'n gyfrifol am beidio â siarad Cymraeg, ond gall fod yn gefn i'r sawl sydd wedi meithrin yr hyder i oresgyn y pwerau hyn eu hunain. Ac mae peth o'r dystiolaeth yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn y fro Gymraeg yn ddigon hyderus os ydynt mewn mwyafrif. Mae cyfieithu yn arf allweddol i gynnig mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg, ond hefyd wrth droi'r cyfleoedd hynny'n arfer cymdeithasol ac wrth wneud y Gymraeg yn iaith normal mewn rhagor o sefyllfaoedd.

## 9.7 Casgliadau

Er yr ymddengys fod y dystiolaeth ynghylch rôl cyfieithu ar y pryd wrth gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn amwys neu'n gwrth-ddweud ei gilydd, dadleuir yma ei fod yn allweddol yn y broses o gynyddu'r defnydd llafar o'r Gymraeg. Mae'n allweddol wrth greu'r awyrgylch a sefydliadoli'r iaith yn iaith weithredol mewn grŵp neu sefydliad. Heb hynny, ni fyddai'n bosibl creu teimlad o gyfartaledd sy'n sylfaen emosiynol bwysig i bobl gyfrannu at drafodaethau, gan felly ddod yn rhan o'r broses ddemocrataidd. Gwelwyd, er enghraifft, fod y ffordd y trefnir ystafell gyfarfod er mwyn i gyfieithwyr wneud eu gwaith, yn fodd i geisio dylanwadu ar yr awyrgylch cyffredinol.

Gall cyfieithu ar y pryd wedyn fod yn gefn i sefydlu'r defnydd o derminoleg neu o ieithwedd arbennig, yn enwedig os bydd yn mynd law yn llaw â chyfieithu testun. Ond awgrymwyd nad y cyweiriau technegol iawn yw'r prif faen tramgwydd, eithr y cyweiriau canol sy'n gwyro rhwng y technegol a'r anffurfiol.

Er y cadarnheir pwynt a gododd o arolwg Bwrdd yr Iaith ar effaith cyfieithu ar y pryd, sef bod yna berthynas rhwng hyder ieithyddol a'r defnydd o gyweiriau

[106] Cyf6/33.

ffurfiol neu anffurfiol, ni chytuna'r dystiolaeth mai diffyg hyfedredd sy'n gyfrifol am beidio â siarad Cymraeg.

Yn wir, fel y dengys y dystiolaeth, nid yw cyfieithu ar y pryd yn gweithio yn yr un modd mewn cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol. Ond rhaid pwysleisio nad beth a drafodir sy'n gwneud cyfarfod yn gyfarfod ffurfiol, ond sut y'i trafodir. Gan ddibynnu ar eich safbwynt a'ch profiadau, gellir, ar y naill law, ystyried cyfieithu yn fwy llwyddiannus mewn cyfarfodydd ffurfiol gan fod cyfieithu yn haws mewn trafodaeth drefnus. Mewn cyfarfodydd cymunedol, rhaid cadw sgyrsiau anffurfiol mor naturiol ag sy'n bosibl i ysgogi trafodaeth yn Gymraeg. O'r safbwynt hwn, mae'n haws cysylltu ffurfioldeb cyfieithu â ffurfioldeb Saesneg unrhyw drafodaeth gyhoeddus.

Ar y llaw arall, gwêl eraill fod cyfieithu yn gweithio'n well mewn cyfarfodydd anffurfiol lle nad oes cymaint o bwyslais ar sut y cyflwynir dadl. O'r gogwydd hwnnw, dywedir bod pobl yn fwy ymwybodol ohonynt eu hunain ac o'u geiriau mewn cyfarfodydd ffurfiol pan fo rhaid pwyso a mesur pob cymal, ac felly maent yn llai tebygol o siarad Cymraeg. Yn ogystal, ceir teimlad y gosodir yr iaith (fel dadl) o flaen y pwnc arall, ac o'r herwydd, fe osgoir siarad Cymraeg.

Sylwir hefyd fod y gost o ddefnyddio cyfieithu ym mhob cyfarfod yn uchel, ac felly clywir mai cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg heb gyfieithu (gan annog y di-Gymraeg i ddysgu'r iaith) ddylai fod y bwriad. Ond o ystyried barn aelodau grwpiau gwirfoddol, rhaid gweld cyfieithu fel rhywbeth sy'n gallu cael effaith gadarnhaol.

Fe all cyfieithu ar y pryd fod yn ffordd i wella democratiaeth mewn cyfarfodydd cymysg, a hynny am un rheswm yn bennaf: yn lle eistedd yng nghefn y cyfarfod heb leisio barn (heblaw wrth ei gilydd ar ôl y cyfarfod!), mae cyfieithu yn annog siaradwyr Cymraeg i ddatgan eu safbwynt eu hunain yn Gymraeg, ac i gynrychioli'r safbwynt hwn drwy'r Gymraeg. Mae hyn yn haws lle mae'r awyrgylch yn perthyn i'r Gymraeg, sef mewn grwpiau yn y gymuned Gymraeg. Fodd bynnag, dadleuwyd y gallai'r defnydd o gyfieithu fod yn gam wrth greu awyrgylch o'r fath mewn sefydliad hefyd.

Efallai y bydd rhaid meddwl ymhellach am reolaeth dros ddadl a goblygiadau cyfieithu wrth gynrychioli safbwynt. Soniwyd y gall cyfieithu greu amheuaeth ynghylch pwy sy'n cyflwyno ac yn cynrychioli safbwynt. Ond ymddengys fod hyn yn fwy o broblem mewn cyfarfodydd pwyllgor gwaith nag ydyw mewn

cyfarfodydd cymunedol, ac nid yw'n siwr ai cyfieithu sydd wrth wraidd yr anhawster o siarad Cymraeg. Mae'n fwy tebygol mai cefndir diwylliannol y gymuned a'r berthynas glòs rhwng yr aelodau, yn y bôn, sy'n gyfrifol am yr hyder i gadw at y Gymraeg. Yn sicr, gellir dweud nad yw'r iaith yn bwnc dadleuol pan fo diwylliant a hunaniaeth y grŵp a'r gymuned yn Gymraeg.

Rhaid derbyn unwaith eto na fydd cyfieithu yn ddull digonol i newid arferion a sefydliadoli siarad Cymraeg ar ei ben ei hun, ond ei fod yn gweithio'n dda pan mae trefnwyr cyfarfodydd wedi ystyried y gwasanaeth ymlaen llaw. Bydd pennod 10 yn trafod pa drefniadau a pha fath o gydlynu sydd ei angen i gael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd sy'n llwyddiannus yn ei nod o annog pobl i siarad Cymraeg.

# 10 Defnyddio cyfieithu ar y pryd yn effeithiol er budd y Gymraeg

Yn y bennod hon ceisir cloriannu'r ymchwil gan ystyried yr agweddau ymarferol sy'n bwysig wrth gynnal cyfarfod neu ddigwyddiad gyda chyfieithu. Dylai fod wedi dod yn glir o'r drafodaeth yn y penodau blaenorol fod gan gyfieithu ran i'w chwarae yn y broses o gynllunio ieithyddol, ond na all ar ei ben ei hun gryfhau'r Gymraeg. Yn ogystal â strategaeth sy'n adlewyrchu a chydnabod profiad cyfieithwyr o gysylltiadau diwylliannol ac ieithyddol, rhaid cael cyngor ymarferol i'r sawl sy'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Bydd y bennod hon yn ymdrin â chwestiwn sut y gellir cryfhau swyddogaeth cyfieithu ar y pryd yn y broses o normaleiddio'r Gymraeg. Ar ddechrau'r bennod, ceir golwg ar broffeil cyhoeddus y proffesiwn cyfieithu a allai esbonio rhai o'r anawsterau a gyfyd mewn cyfarfodydd. Ymhelaethir wedyn ar safon cyfieithu a'r angen am hyfforddi cyfieithwyr. Codir, yn ail ran y bennod, bynciau fel rôl y cadeirydd a'r pwysigrwydd o gael siaradwyr Cymraeg i baratoi cyflwyniadau ac adroddiadau. Ar ei diwedd, cynigir bod polisïau cyson yn allweddol er mwyn defnyddio'r gwasanaeth i'w lawn botensial.

## 10.1 Proffeil cyfieithwyr ar y pryd fel pobl broffesiynol

Holir yn yr adran hon beth yw statws a phroffeil cyfieithwyr a chyfieithu ym mywyd cyhoeddus Cymru. Ystyrir y cwestiwn hwn yn bwysig wrth ganfod faint y perchir cyfieithu fel proffesiwn. Gall hynny yn ei dro awgrymu a welir cyfieithu yn rhan yn y broses o gynllunio iaith, a pha mor bwysig yw ei ran yn hynny o beth.

Ar un ogwydd, nid oes statws swyddogol gan gyfieithwyr ar y pryd yng Nghymru, achos nad oes sefydliad siartredig i'w hamddiffyn, na gofyniad iddynt ddilyn cwrs hyfforddiant cyn ymgymryd â gwaith cyfieithu. Galwodd un o'r cyfweleion yn arbennig am academi i wella safon cyfieithu.[1] Mae gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru rôl sefydliad gwarchod safonau cyfieithu. Ac amcan y *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Datblygu'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/ Saesneg* yw 'datblygu'r Gymdeithas, dan arolygiaeth y Bwrdd, yn gorff

[1] Cyf4/49.

rheoleiddio ar gyfer y proffesiwn'.[2] Mae'r rôl hon yn rôl llawer cryfach na rôl nifer o gyrff a sefydliadau cyfieithu mewn gwledydd eraill. Hybir y proffesiwn drwy ledaenu gwybodaeth am bwysigrwydd safonau a thrwy gynnal arholiadau aelodaeth. Ond er bod nifer cynyddol o gyflogwyr sy'n penodi cyfieithwyr yn gofyn am aelodaeth o'r Gymdeithas, nid yw'n anghenraid wrth weithio yn y maes.

Mewn rhai sefydliadau, mae'r agwedd tuag at gyfieithu yn gadarnhaol. Dywed un cyfieithydd, 'lle dw i'n gweithio mae'r Gymraeg yn cael statws haeddiannol. Er enghraifft, mae'r swydd dw i ynddi yn un o'r swyddi sy'n talu'n dda.'[3]

O ran defnyddwyr y gwasanaeth cyfieithu (siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg), ceir parch tuag at y cyfieithydd fel unigolyn: 'Mae pawb yn gyfeillgar iawn ac yn trin y cyfieithydd fel un ohonyn' nhw eu hunain.'[4] Pan nad yw mynychwyr cyfarfod yn gyfarwydd â chyfieithu, gallant hyd yn oed gael hwyl wrth ei ddefnyddio: 'Yr ieuenctid yn meddwl ei fod yn cŵl.'[5]

Yn bwysicach, efallai, mynega defnyddwyr barch at y gwaith ei hun:

> I don't know whether I could concentrate like that, to be talking to somebody and listening to somebody else at the same time. Because that is virtually what they're doing, isn't it? And they've got to get the gist of the next bit to keep it flowing, haven't they? It must be a hell of a job.[6]

Ar ôl un o'r cyfarfodydd yr arsylwyd arno, siaradwyd â rhai o'r mynychwyr a'r ysgrifenyddes. Dyma rai o'u sylwadau ynghylch eu hamgyffrediad o waith ac ymddygiad proffesiynol cyfieithwyr:

- 'This translator was really good. She was clear, and always on time.'
- 'People prefer women translators to men. Men tend to mumble.'
- 'The translators from the council are usually not as good as the translators who run their own business.'[7]

Nid yn unig fe geir beirniadaeth ar safon yr hyn a gyfieithir, felly, o du mynychwyr cyfarfodydd, ond ceir hefyd farn ar lefaru, ac ar sut y mae cyfieithydd yn rhedeg busnes ac yn trin y defnyddwyr. Roedd un cyfieithydd, o'i phrofiad o

---

[2] Bwrdd yr Iaith, *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Datblygu'r Proffesiwn Cyfieithu*, t. 14.
[3] Cyf1/28.
[4] HWBcap6/2.
[5] HWBcap5/1.
[6] Cyf5/17.
[7] Arsylwi Cyfarfod 1.

weithio mewn gwahanol fathau o gyfarfodydd, yn argyhoeddedig bod statws uchel cyfieithu mewn lle penodol yn gallu lledaenu i lefydd eraill:

> Maen nhw'n gweld yn union sut mae [cyfieithu ar y pryd] yn gweithio yn fan 'na ac yn gweld fod o'n gweithio mor dda uwchben [sef mewn sefydliad] hefyd. Os na fysai fo'n gweithio uwchben, efallai na fysai fo'n cael gymaint o statws ag y mae o yn gymunedol.[8]

Creda, felly, fod statws y Gymraeg a statws cyfieithu yn mynd law yn llaw, a bod gweithwyr un sefydliad yn gallu trosglwyddo eu hagweddau cadarnhaol ynglŷn â phwrpas ac effeithiolrwydd cyfieithu i sefyllfaoedd cymunedol.

Awgryma'r ychydig o sylwadau hyn nad yw delwedd gyhoeddus cyfieithwyr ar y pryd yn wael. Perchir eu gwaith fel gwaith anodd sy'n gofyn am sgiliau arbennig. Nid oes modd gwybod a fyddai rhoi statws swyddogol trwy sefydliad siartredig yn gwneud gwahaniaeth i hynny. Mae'r sefyllfa yn debyg mewn gwledydd eraill lle y gall pawb ei alw ei hun yn gyfieithydd, heb fod ganddynt gymhwyster na thystysgrif. A chyfieithu yng Nghymru yn weithgarwch amlwg bellach, gyda nifer cynyddol o bobl yn sylweddoli na all pob un dwyieithog gyfieithu, awgryma'r sylwadau uchod fod proffeil cyhoeddus cyfieithwyr ar y pryd yng Nghymru yn weddol dda. Fodd bynnag, mae nifer o anawsterau sy'n amharu ar eu gwaith bob dydd. Ar yr anawsterau hyn yr edrychir yn nesaf.

## 10.2 Anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd

Gwelir cymalau sylfaenol mewn ambell gynllun iaith gan sefydliad cyhoeddus sy'n manylu ar wasanaethau cyfieithu.[9] Hefyd, cynhyrchodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a Menter Môn lyfryn o'r enw *O Glust i Glust* i esbonio pwrpas cyfieithu mewn cyfarfodydd cymunedol, ac i gynnig argymhellion ar sut i gael gwasanaeth didrafferth.[10] Lluniwyd y llyfryn gan dargedu cyfarfodydd cymunedol yn benodol. Esbonnir bod gan wahanol bobl mewn cyfarfod wahanol gyfrifoldebau wrth ymwneud â chyfieithu. Ond er mwyn rhoi cyngor gwerth chweil, rhaid deall yr anawsterau yn gyntaf. Amcan yr adran hon yw casglu pa

[8] Cyf1/32.
[9] Er enghraifft, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, *Cynllun Iaith Gymraeg 2004-2008*, tt.28 a 31.
[10] Menter Iaith Môn a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, *O Glust i Glust: Canllawiau ar ddefnyddio gwasaneath cyfieithu ar y pryd* (Llangefni: Menter Môn, dim dyddiad).

anghenion ac anawsterau a all godi ymhlith gwahanol bartïon mewn cyfarfod â chyfieithu.

Y broblem fwyaf sylfaenol a grybwyllwyd gan gyfwelai oedd diffyg dealltwriaeth o nod y gwasanaeth:

> Mae bobl yn deall cyn lleied am gyfieithu. Roedd cyn-fyfyrwyr o Aberystwyth er enghraifft yn cael cyfieithu am y tro cyntaf erioed eleni yn eu cinio blynyddol. Ond oedd, er bod y cadeirydd yn arbennig o gefnogol i'r syniad o gyfieithu, roedd ef ei hunan yn dweud popeth yn y ddwy iaith. Mae'r peth jyst mor estron, dyna sydd wrth wraidd cymaint o'r peth. Ac os oes 'na unrhyw amheuaeth, mae'r estrondeb 'na yn gwneud i'r peth ddim yn gweithio.[11]

Os nad yw'r cadeirydd yn dangos y gwasanaeth ar waith, nid oes cymaint o gymhelliant i aelodau eraill yn y digwyddiad siarad Cymraeg, fel y gwelir yn Adran 10.5 yn nes ymlaen.

Anhawster arall, fel y tystia cyfieithwyr, yw na fydd pobl yn defnyddio'r gwasanaeth drwy'r cyfarfod, gan feddwl bod y cyfieithydd angen egwyl: 'Weithiau maen nhw'n meddwl am mod i yna'n hun, O, well i ni droi i Saesneg rŵan i roi gorffwys i'r cyfieithydd. Ond fasai'n well gen i stryffaglu ymlaen yn hytrach na gweld o'n troi'n gyfarfod Saesneg.'[12]

Gall sawl peth arall amharu ar waith y cyfieithydd. Un yw diffyg arfer siarad yn gyhoeddus, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r cyfieithydd ddeall y drafodaeth. Dywed un am ei brofiad:

> Problem arall dw i wedi dod yn ymwybodol ohoni hi yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn enwedig: mae 'na ddiffyg sgiliau siarad cyhoeddus gan Gymry Cymraeg. Mae'r to hŷn yn aml iawn yn bobl sydd wedi bod yn flaenllaw yn y capeli […] ac mewn Eisteddfodau, ac maen nhw'n gwybod sut i siarad yn weddol araf ac i ragymadroddi, yn dweud, Diolch yn fawr Mr Cadeirydd, a wedyn mae'r di-Gymraeg yn sgrablo am eu cyrn gwrando. [Nid felly] y rhai ifanc […] Maen nhw jyst yn bwrw iddi, maen nhw'n mynd ffwl spîd.[13]

Er bod ganddo ei hun ddigon o brofiad o feistrioli sefyllfa gyffelyb, prydera am y cenedlaethau o gyfieithwyr yn y dyfodol na fydd yn cael y cyfle i ymarfer mewn cyfarfodydd lle siaredir yn fwy gofalus:

[11] Cyf7/1.
[12] Cyf1/13.
[13] Cyf2/19.

> Ac mae bywyd i gyfieithwyr ar y pryd am fynd yn fwy anodd rŵan dw i'n credu. Hoffwn i ddim fod yn gyfieithydd ar y pryd ifanc yn gorfod neidio i mewn i gyfarfod mewn sefyllfa felly. Achos mae cymaint o swyddogion yna yn siarad mor gyflym, a dydyn nhw ddim yn siarad yn glir, maen nhw'n mwmial. Dydyn nhw ddim yn ynganu yn glir, fel y mae'r hen flaenoriaid 'na sydd wedi arfer siarad efo'r capel heb feicroffôn. Mae'r genhedlaeth yna wrth gwrs yn gadael, naill ai yn ymddeol neu'n marw. A wedyn mae 'na newid byd dw i'n credu. A dw i ddim yn gwybod be' fydd yr ateb i hyn o safbwynt rhoi profiad i gyfieithwyr ifanc sydd dan hyfforddiant.[14]

Rhywbeth arall sy'n amharu ar waith cyfieithwyr yw bod 'yr acwsteg yn wael' yn yr ystafell gyfarfod, fel y nododd cyfieithydd mewn adroddiad yng nghyfnod prosiect HWB.[15] Ymhelaetha un arall,

> os ydy acwstics y stafell dipyn bach yn anodd, mae'n gallu bod yn anodd i'w clywed nhw. Oni bai eich bod chi'n eistedd yn y lle iawn, yn medru eu gweld nhw ac yn ddigon agos atyn nhw. Dydy'r ymwybyddiaeth o'r angen i siarad yn glir ddim yna.[16]

Ac nid oes bob amser ymwybyddiaeth o'r angen i gyfieithydd fod mewn lle addas i weld a chlywed pawb:

> Mi gewch chi broblem gyffelyb mewn cyfarfodydd lle mae'r byrddau wedi cael eu gosod mewn rhes hir gul. Mae'r cyfieithydd ar un pen. Y drwg ydy pan mae pobl ond rhyw bedair troedfedd oddi wrth ei gilydd, wnân nhw ddim codi'u llais wrth siarad. Mi wnân nhw bitsio'u llais yn ôl y person sy'n agosaf atyn nhw. Ac wrth gwrs os ydy rhywun yn dair neu bedair troedfedd i ffwrdd, sgwrsio wnân nhw.[17]

Yn ogystal â thôn a thafliad y llais, gall cyflymdra siarad beri anhawster i gyfieithydd. Cyfyd y broblem hon yn arbennig wrth ddarllen llythyr:

> Yn aml iawn, mae llythyrau'n anos na sgwrs, beth bynnag, yn arbennig os ydynt yn cynnwys teitlau cyrff a chynlluniau. Dylai Cadeirydd/Ysgrifennydd fod yn ymwybodol o'r cyfieithydd – neu'n well byth, dangos/copïo'r ohebiaeth iddo ymlaen llaw.[18]

Anhawster arall i gyfieithwyr yw trafodaeth fywiog, 'especially when they're talking across each other. Because I think that's something they've tried to tell them. Because you can't really cross-talk because the translator can only translate

[14] Cyf2/20.
[15] HWBcap17/1.
[16] Cyf2/22.
[17] Cyf2/22.
[18] HWBcap19/2.

one at the time.'[19] Hyd yn oed pan fo rhywun yn sylweddoli nad yw'r cyfieithydd yn dilyn, nid yw bob amser yn gwybod sut i gyfleu hyn i'r grŵp, fel yr adrodda cyfieithydd arall:

> Soniodd gwpl o weithiau fod 'A. is having difficulty', pan fyddwn i'n dweud dros ffonau clust 'I'm sorry, I can't translate everyone speaking at once'. Byddai wedi bod yn well gen i tasai hi wedi dweud pam 'roeddwn i'n cael anhawster.[20]

Er bod gwahanol ganllawiau yn ceisio rhagweld anawsterau posibl i'r cyfieithydd, megis lleoliad y cyfieithydd a llefaru clir ac araf, ni roddir cymaint o sylw i anghenion y gwrandawyr di-Gymraeg. Maent hwythau yn edifar nad oes modd iddynt gyfathrebu'n well a mwy uniongyrchol:

> Although my knowledge of the language is limited I miss hearing the Welsh […] Although the translation facility is essential for me to participate fully, I do regret not being able to listen to those who speak at a very high standard.[21]

Mae eraill yn erbyn y defnydd o gyfieithu oherwydd eu cred nad yw'n *gallu* sicrhau cyfathrebu da: 'Difficult to listen to translator, reply in English and answer a translated reply – hinders good communication.'[22] Ceisia aelod di-Gymraeg o gyngor cymuned esbonio hynny:

> You've got to concentrate a lot on what you're hearing. And sometimes you concentrate on that and you're missing other things. […] We'll put it like this, there's men and women there. Now, the men are talking, but I'm getting it with a woman's voice all the time, see. So sometimes when somebody is speaking you tend to look at whoever is speaking, but it doesn't always relate one hundred per cent because it's always a woman's voice that you're hearing.[23]

Nid yw'n hawdd gwybod bob tro pwy sy'n siarad, felly. Yn ogystal â hynny, nid yw'r cyrn gwrando yn cau'r lleisiau gwreiddiol allan, ac i rai gwrandawyr mae hyn yn anodd. Eglura'r un cyfwelai,

> E. usually sits to my right hand side. And then K. is sat next to him, and K. has got quite a loud voice, very Welsh, and sometimes E. complains that he

[19] Cyf5/16.
[20] HWBcap7/1.
[21] H2/2.
[22] H3/4.
[23] Cyf5/13.

> can't hear the thing because he's right close to him. Whereas if somebody soft spoken sat next to him he wouldn't be losing some of it.[24]

Wrth gwrs, mewn siambrau cynghorau sir, er enghraifft, lle defnyddir bwth gwrthsain i'r cyfieithydd, nid yw hyn yn gymaint o broblem achos gall y cyfieithydd ei hun siarad yn uwch. Ond gyda'r cyfieithydd yn siarad yn ddistaw neu'n sibrwd mewn cyfarfodydd cymunedol, gall lleisiau cryf amharu'n sylweddol. Mae rhywun arall yn mynegi hyn yn fwy plaen: 'Using headphones is disorienting – lose contact with group.'[25]

O'r sylwadau hynny, casglwn fod y profiad o wrando ar gyfarfod trwy gyfieithu yn anoddach na chymryd rhan ynddo trwy gyfrwng yr iaith gyntaf. Fel yr adrodda cyfieithydd, 'Dywedodd y Trysorydd di-Gymraeg ei fod o'n cael y cyfarfodydd yn fwy o "hard work".'[26] Rhaid cofio, fodd bynnag, mai lleiafrif yw'r siaradwyr di-Gymraeg yn y cyfarfodydd hynny, a bod cyfieithu ar y pryd yn gwneud y cyfarfodydd yn llai o waith caled i fwyafrif y Cymry Cymraeg yn eu cymunedau eu hunain.

Caiff siaradwyr Cymraeg eu hanawsterau eu hunain gyda gwasanaethau cyfieithu. Er enghraifft, 'dyw cyfieithu ddim bob tro yn gweithio mewn sefyllfa grwpiau trafod'.[27] Hynny yw, pan rennir grŵp i drafod gwahanol bynciau, nid oes digon o gyfieithwyr i fynd at y grwpiau hynny: 'Roedden ni wedi mynd i weithdai yna, i wahanol grwpiau. Oedd gynnon ni ddim ond un Saesnes yn ein grŵp ni, ond doedd gynnon ni ddim cyfieithydd.'[28]

Awgryma rhai mai dim ond maint grŵp a all gyfiawnhau gwasanaeth cyfieithu:

> Dywedodd un Gymraes […] nad oedd hi'n hollol hapus cael cyfieithu ar y pryd, gan fod y grŵp yn fach, a chymaint o Saeson, a theimlodd fod cyfieithu yn arafu pethau. Dywedodd y Cadeirydd y dylent gael cyfieithu o ran egwyddor.[29]

Ond hyd yn oed mewn cyfarfod gyda digon o aelodau i gyfiawnhau'r gwasanaeth, mae ffactorau eraill yn ei gwneud hi'n anodd i Gymry Cymraeg fanteisio'n llawn ar y cyfle hwn:

---

24 Cyf5/14.
25 H3/6.
26 HWBcap13/1.
27 H22/7.
28 Cyf3/26.
29 HWBcap12/2.

> Pan dach chi'n dadlau, dach chi wirioneddol isio clirio'r decs o bopeth arall. Dyna mhrofiad i yn y Senedd. Mewn ffordd, mae cyfieithu yn gwneud hi'n fwy anodd i mi achos dw i ddim yn siarad o gwbl o'i herwydd. Dw i ddim yn siwr faint o bobl eraill sy'n debyg i mi.[30]

Fe geir cyfarfodydd o bryd i'w gilydd lle mae cyfieithu yn mynd yn erbyn pwrpas y cyfarfod. Esbonia academydd:

> Beth o'n i isio trafod oedd pam dydy'r Cymry ddim isio trafod gwyddoniaeth trwy'r Gymraeg? […] Ac wrth baratoi, o'n i'n meddwl, sut bydd rhywun sydd yn gwrando ar y Saesneg yn mynd i ddeall beth sydd gen i i ddweud? Ond aeth hi'n waeth. Un o'r gynulleidfa i gyd oedd yn deall y Gymraeg. Felly wnes i roi darlith oedd i bwrpas wedi ei chyfieithu ar gyfer pawb. Wel oedd y drafodaeth yn anobeithiol, achos doedd gen i neb oeddwn i wedi anelu'r drafodaeth atyn nhw. Byswn i wedi siarad Cymraeg heb gyfieithu, mi fysai'r noson wedi cael ei gwerthu fel noson Gymraeg a felly bysai cynulleidfa hollol wahanol wedi dod. Ond oherwydd ei bod hi'n noson ddwyieithog, daeth bron ddim o'r Cymry.[31]

Yn yr achos hwn, nid oedd y trefnwyr wedi meddwl yn ddigon gofalus am ymateb eu prif grŵp targed wrth hysbysebu'r digwyddiad fel digwyddiad dwyieithog.

Ar yr ochr dechnegol, mae problemau i bobl gyda theclyn clyw. Dim ond mewn rhai sefyllfaoedd y gellir darparu ar gyfer offer cyfieithu a theclynnau clyw yr un pryd. Os nad yw hyn yn digwydd, caiff y rhai trwm eu clyw eu hamddifadu o'r cyfle i gymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd. Tynnwyd sylw at y broblem hon yn *Golwg*. Ysgrifennodd darllenydd:

> Oherwydd anghenion cyfieithu rwy'n cael fy amddifadu o'r hawl i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus lle mae offer cyfieithu yn cael eu defnyddio. O fynychu cyfarfod o'r fath y gwasanaeth sydd ar gael i mi yw clywed dim sy'n cael ei ddweud yn Saesneg a chlywed cyfieithiad o'r hyn sy'n cael ei ddweud yn y Gymraeg.[32]

Mae'n bosibl, mewn systemau sain mwy cymhleth, i newid sianelau rhwng ieithoedd, ond rhaid i bawb siarad trwy feicroffon. Nid yw hyn bob amser yn bosibl mewn cyfarfodydd cymunedol sy'n digwydd mewn amrywiaeth o leoliadau.

Ymddengys, felly, nad oes weithiau ddigon o feddwl am bwrpas y cyfarfod, nac at bwy yr anelir trafodaeth. Yn ogystal ag ystyriaethau ynghylch sut i hwyluso

[30] Cyf 7/14.
[31] Cyf7/45.
[32] Alwyn ap Huw, 'Problem ddwys, nid stori ysgafn', *Golwg*, 24 Ebrill 2008, t.8.

gwaith y cyfieithydd a llif y drafodaeth, mae meddwl pa ddelwedd y ceisir ei chyfleu a beth, yn y pen draw, yw bwriad cyflogi cyfieithydd, yn rhan annatod o baratoi cyfarfodydd a digwyddiadau.

### 10.3 Costau cyfieithu ar y pryd

Ymddengys weithiau mai'r gost yw'r unig ystyriaeth wrth feddwl a ddylid cyflogi cyfieithwyr, ac ar ba achlysuron. Yng Nghymru fel mewn llefydd eraill, dadleua rhai fod cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd yn rhy gostus.[33] Gwelir yn yr adran hon faint o broblem yw cost gwasanaethau cyfieithu i grwpiau cymunedol.

Heb i'r holiaduron gyfeirio at y gost, mae atebwyr yn gofyn am 'gyfieithu ar y pryd yn ôl y gofyn a hynny am brisiau rhesymol fel y gall cymdeithasau bach o ran nifer a chyllid ei fforddio'.[34] Mae hyn yn adlewyrchiad o deimlad nifer o grwpiau bach a chanddynt fwyafrif o siaradwyr Cymraeg. Mewn rhai achosion, cynigir help i fudiadau trwy grantiau gan y Mentrau Iaith neu brosiect megis HWB. Ond heb y cymorth hwn, anodd fyddai parhau gyda chyfieithu. Dywed atebydd o gyngor cymuned ym Meirionnydd, 'os oedden ni'n cael arian, ddaru ni gydweld, achos oedden ni'n dal isio cadw ein cyfarfod yn Gymraeg'.[35] Erbyn hyn, a'r ffynhonnell arian cyhoeddus wedi darfod, meddai, 'piti dw i'n teimlo na fysai hi'n bosib cael tipyn bach mwy o gymorth efo cyfieithu. Er mwyn i ni allu cadw mwy o bethau yn Gymraeg.'[36]

Mae cyngor cymuned yn Arfon yn fodlon talu am y gwasanaeth: 'They wanted to carry on with having the interpreter there, and they were quite willing to pay for it.'[37]

Er mwyn osgoi cost cyfieithydd proffesiynol, ceisiodd y cyngor cymuned ym Meirionnydd ddefnyddio gwirfoddolwyr o'u hardal i ymgymryd â'r gwaith yn fwy anffurfiol.

> Dach chi'n gwybod eich hun faint o oriau sy'n mynd yna, a faint o gostau, fedrwn ni ddim fforddio i dalu o am hir. Dan ni wedi awgrymu, a mi ofynnais i os oedd o yn y rheolau i [unigolyn di-Gymraeg] ddod â rhywun efo fo, i

[33] Gweler Pennod 1.
[34] H9/7.
[35] Cyf3/4.
[36] Cyf3/20.
[37] Cyf5/9.

> eistedd efo fo. Ofynnais i ganiatâd y cyngor, ac oeddwn i'n meddwl bod hwnnw'n atebiad.[38]

Mi wrthododd y di-Gymraeg yn y grŵp y cynnig hwn ar y sail na fyddai gwasanaeth gan wirfoddolwr yn ddigon da. Arweiniodd hyn at densiynau yn y grŵp. Mae rhai aelodau o'r cyngor yn argyhoeddedig eu bod yn talu am y gwasanaeth costus hwn 'er mwyn un dyn a oedd wedi bod yn dysgu am dri deg o flynyddoedd (ond dim gwell)'.[39] Dysgwn gan gyfieithydd fod cyngor arall ym Meirionnydd sydd mewn sefyllfa gyffelyb wedi gwrthod ysgwyddo'r gost:

> Ond mi oedden nhw'n gwrthwynebu mai'r cyngor oedd yn gorfod talu am y gwasanaeth. Oedden nhw'n dweud yn berffaith amlwg y person sydd angen y cyfieithu dylai dalu yn hytrach na'u bod nhw'n defnyddio pres y trethdalwyr i dalu am y gwasanaeth.[40]

Mae'r ddau bwynt hwn, sef pwy ddylai dalu, a hefyd a oes rhaid iddo fod yn wasanaeth proffesiynol, yn cael eu crybwyll gan yr ymgynghorydd iaith a ddywed na fydd hi'n bosibl i wasanaethau cyfieithu proffesiynol gyrraedd pobman. Yn ei dyb ef, rhaid meddwl pa sefyllfaoedd yw'r mwyaf priodol i gyfieithu ar y pryd proffesiynol: 'Does yna sicr ddim arian mynd i fod i dalu iddyn nhw wneud hynny, felly mae'n hen bryd iddyn nhw sylweddoli reit, dyma'r peuoedd priodol inni ddisgwyl cael ein talu am y swydd broffesiynol dan ni'n ei wneud.'[41] Yn hytrach, dylid mentro defnyddio dulliau eraill o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfa gymunedol, yn unol â'i ddadl am sylwebwyr iaith uchod.

Mae'n hawdd deall pam fod mudiadau bychain yn anhapus gyda'r costau cyfieithu. Ar y cyfan, gellir disgwyl talu oddeutu £100 am gyfarfod o ddwy awr yn yr ardal dan sylw (£50 am logi'r offer a chyfradd o £25 yr awr i'r cyfieithydd, ynghyd â'i dreuliau teithio). Bydd rhai cyfieithwyr yn codi llai ar grwpiau gwirfoddol,[42] ond serch hynny, mae symiau sylweddol yn y fantol. O ystyried y gost hon, dywed ambell grŵp mai'r sawl sydd angen y gwasanaeth, sef y di-Gymraeg yn eu plith, a ddylai dalu amdano. Syniad arall yw defnyddio dulliau heblaw cyfieithu i sicrhau'r defnydd o'r Gymraeg, naill ai cyfieithu gan wirfoddolwyr (o bosib o blith y grŵp neu'r pentref ei hun), neu lefarydd sy'n

[38] Cyf3/6.
[39] H26/1.
[40] Cyf1/11.
[41] Cyf6/31.
[42] Gweler manylion yn yr adran adnoddau ar wefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, <http://www.cyfieithwyrcymru.org.uk/cymraeg/adnodd/cap/cap_cyflwyniad.asp> [5 Mai 2008]

esbonio yn hytrach nag yn cyfieithu er mwyn cynnwys y di-Gymraeg. Ond os oes gan grŵp neu sefydliad ddigon o arian i fforddio cyfieithydd, ac yn gytûn mai dyna'r ffordd orau mewn sefyllfa benodol, rhaid iddynt allu cymryd yn ganiataol mai'r gwasanaeth gorau posibl a gânt. Canolbwyntia'r drafodaeth nesaf ar safonau cyfieithu ar y pryd.

## 10.4 Safon cyfieithu ar y pryd

Pryder am safon cyfieithu yw sail llawer o astudiaethau yn y maes. Yr angen am gyfieithu safonol, wrth gwrs, yw'r sail i sefydlu nifer cynyddol o raglenni astudiaethau cyfieithu mewn prifysgolion ledled y byd, ac i gyhoeddi llawlyfrau ar wahanol agweddau ar gyfieithu.[43] Yn wir, gellir dweud bod maes astudiaethau cyfieithu yn bodoli oherwydd y pryder am safon cyfieithu.

Ynghylch cyfieithu ar y pryd yn fwy penodol, mae disgyblaeth newydd yn prysur ddatblygu. *Community interpreting* neu *dialogue interpreting* y gelwir y weithred o gyfieithu mewn sefyllfa ryngbersonol, yn hytrach na chyfieithu mewn cynadleddau rhyngwladol.[44] Nid yw'r rhaniad hwn mor berthnasol i gyfieithu rhwng Cymraeg a Saesneg. Yn gyntaf, yr un yw'r dull o gyfieithu mewn cynadleddau ac mewn cyfarfodydd bychain, sef gydag offer a chlustffonau yn hytrach na chyfieithu olynol. Yn ail, mae siaradwyr Cymraeg yn deall y ddwy iaith. Hefyd (yn wahanol i fewnfudwyr o wledydd pell sy'n derbyn gwasanaethau cyfieithu), daw siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg ynghyd mewn sefyllfaoedd cymunedol gydag o leiaf rannau o'u cefndir diwylliannol yn gyffredin.

Mae'n bwysig trafod safon cyfieithu er mwyn i bobl allu dibynnu arno. Yn wir, efallai fod safon cyfieithu yn bwysicach byth wrth gynyddu'r defnydd o iaith leiafrifol, oherwydd y peryg i bobl siarad y brif iaith os nad oes ganddynt ymddiriedaeth yng ngallu'r cyfieithydd. Seilir y drafodaeth isod i raddau helaeth ar sylwadau Cyfwelai 4 sy'n ceisio gwella polisi iaith ei sefydliad. Heb safon cyfieithu uwch, meddai, ni fydd yn bosibl creu Cymru fwy dwyieithog.

Ymddengys o rai sylwadau fod aelodau di-Gymraeg y grwpiau yn gwybod beth yw cyfieithu da. Er enghraifft, dywedir bod y di-Gymraeg 'yn canmol a

---

[43] Gweler, e.e., Hans Hönig, *Konstruktives Übersetzen* (Tübingen, 1995); Jeremy Munday, *Introducing Translation Studies: Theories and Applications* (Llundain, 2001); Snell-Hornby et al, *Handbuch Translation* (Tübingen, 1999).
[44] Ian Mason, *Dialogue Interpreting*, (Manceinion, 1999).

gwerthfawrogi gwasanaeth cyfieithydd da ac yn adnabod rhai nad ydynt cystal yn eu gwaith'.[45] Noda un arall ei ganmoliaeth fel a ganlyn:

> A person who cannot speak a language (or has limited knowledge) cannot contribute to the work of a group, or understand the nuances/development of ideas/arguments etc in the group's discussions. The outstanding quality of our translators makes me almost think I can actually understand the speakers – it would be difficult to put too high a value on this excellent service.[46]

Er hynny, teimla Cyfwelai 4 fod y galw yn cynyddu mor gyflym nad oes modd i'r cyfieithwyr ddygymod heb broblemau:

> There's a huge issue there about how do we get translation facilities that can cope with what is now being asked of them. And what I'm asking of the translation department here is an order of magnitude more than was previously the case.[47]

Er mwyn ymateb i'r diffyg strwythur o ran hyfforddiant ac i'r diffyg sgiliau, gofynna am ffordd well i asesu ac achredu cyfieithwyr: 'This is a relatively new phenomenon in Wales, it's a new profession, and there are no structures. I can't go and get somebody with a guaranteed skill level.'[48] Nid oes digon o gyfieithwyr, meddai, â'r sgiliau angenrheidiol i gyfieithu ar y pryd. 'There isn't a big pool of people to choose from. I can't be certain other than testing on the job that this person is up to it, and I've heard some brilliant translators.'[49] Roedd un ymatebydd i'r holiadur yn cytuno bod hyfforddi cyfieithwyr yn hanfodol: '[we] need to employ a properly trained simultaneous translator'.[50]

Yr unig ffordd a wêl Cyfwelai 4 i wella hygrededd y Gymraeg fel iaith busnes a swyddogol fyddai sicrhau gwasanaeth cyfieithu o'r safon uchaf: 'And if Welsh is seen as a language that can't be used for business then it won't be used for business. […] And the only way out of this is some form of accreditation for cyfieithu ar y pryd.'[51] Ei syniad ef yw sefydlu academi ar ei gyfer: 'We desperately need some sort of academy of translators so that I can buy in easily these sort of

[45] H18/2.
[46] H2/1.
[47] Cyf4/20.
[48] Cyf4/13.
[49] Cyf4/14.
[50] H25/3.
[51] Cyf4/47.

skills.'[52] Mae'n feirniadol o Lywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg am beidio â sylweddoli pwysigrwydd cyfieithu:

> It's something I very much criticise the Welsh Assembly Government and the Board for that they have not set this up. And the reason they haven't set it up, is there isn't really an academy to look after this. There is a Welsh academy, but it doesn't do this. It isn't anybody's job, and hitherto nobody has seen the need because the task of the Board has been much about getting the signs right.[53]

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw'r system hyfforddi yn ddigon da, meddai. Y rheswm am fethu sylweddoli maint y broblem, efallai, yw nad oes angen i siaradwyr Cymraeg sy'n gyfrifol am bolisïau iaith wrando ar y cyfieithiadau: 'Of course if you're a native speaker you don't come across this because you don't use the headphones. You assume that the person in the translation booth knows what they're talking about.'[54] Mae ef wedi dysgu Cymraeg:

> I'm now at a stage where I can listen to the translation and I can listen to the native speaker. And what I hear coming out of the person's mouth is not what I hear coming out of the earphones. And that is devastating. […] Our translation department is not now up to the level that we're operating at, and of course it's not easy to change that.[55]

Yn ei sefydliad ei hun, ceisir hyfforddi nid yn unig y cyfieithwyr, ond y gweithlu yn gyffredinol. Ond teimla nad yw hynny yn hawdd:

> Changing the staff or raising the skill level is a complicated issue. And it's particularly complicated in Welsh because of the different registers of language used. […] Some of our translators, some of the native Welsh speakers have difficulty understanding some of the other Welsh speakers because their accents are so different.[56]

Un o'r problemau, felly, yw cyweiriau iaith y Gymraeg sy'n bwysig wrth siarad â chynulleidfa benodol. Seilia ei farn ar brofiad personol; teimlodd ar un pwynt nad oedd y cyfieithwyr yn gallu dygymod â chyweiriau anffurfiol.

---

52 Cyf4/38.
53 Cyf4/50.
54 Cyf4/67.
55 Cyf4/8.
56 Cyf4/8.

> I gave it to the translation department who turned it into the wrong register of language. They turned it into a formal, very formalised Welsh. And I wanted to speak […] at a Mrs Jones o Lanrug level, quite deliberately.[57]

Yn ogystal â diffyg meistrioli cyweiriau iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd, poena'r cyfwelai am anferthedd y gwaith cyfieithu, nid yn unig yn y sefydliad, ond yng Nghymru yn gyffredinol. Teimlai y dylai fod yn bosibl i rywun sydd angen cyfieithydd droi at ryw fath o gronfa o gyfieithwyr cymwys, er enghraifft pan mae unedau cyfieithu yn brysur.

> They can't cope with the workload. And quite frankly, in private, they're not up to the job yet. And I don't mean that as a criticism of the individuals, but […] there isn't the structure, there isn't anywhere to go and find these people off. There are some wonderful translators around, but actually there aren't enough.[58]

Nid i gyfieithu testun yn unig y mae hyn yn bwysig, fodd bynnag. Mae hyn yr un mor ddilys wrth gyfieithu ar y pryd oherwydd gall diffyg safon beri i bobl golli hyder yn y gwasanaeth. Gwŷr pobl fod craidd y ddadl yn cael ei gyfieithu, ond y manylion, ieithyddol a ffeithiol, sy'n peri pryder: 'I know the level of translation provided is going to lose the nuance. I've been in lots of public meetings where the translator can't keep up with the speaker.'[59] Ym mhrosiect HWB, ceisiwyd defnyddio cyfieithwyr a oedd yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru lle bo modd i sicrhau'r safon hwnnw. (Ac efallai fod y ffaith fod tri allan o bedwar cyfieithydd ar y pryd a geisiodd am gael cyfieithu yn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd wedi llwyddo yn eu cais, yn adlewyrchu rhywfaint ar safon cyfieithwyr Cymru?)

Ond os nad oes gan fynychwyr cyfarfodydd ffydd yng ngalluoedd y cyfieithydd, byddant yn siarad Saesneg fel yr unig fodd i gyfathrebu'n effeithiol:

> And if you know that the translation facility isn't going to cope with the nuance of what you want to say or if you lack the confidence that they're going to cope with it, the only answer if you're speaking to a group of people who don't all speak both languages, is to change to the one where you can be certain.[60]

[57] Cyf4/18.
[58] Cyf4/21.
[59] Cyf4/12.
[60] Cyf4/15.

Wrth gwrs, bydd hyn yn gwrthweithio holl ymdrechion sefydliad neu awdurdod i hybu'r defnydd o'r Gymraeg, a gwrthweithio pwrpas cael gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfod. Yn wir, gall fod yn waeth byth a pheri i siaradwyr Cymraeg golli hyder wrth siarad yn y naill o'r ddwy iaith:

> If you actually lack confidence in your English speaking ability, and I have one or two people […] who I'm pleased to say feel much more confident in Welsh than they do in English, and yet they know that the translation facility won't keep up, and they feel forced to change to English but then lose confidence in themselves because they can't cope so well in English, we end up with a terrible muddle.[61]

Teimla na allai orbwysleisio pwysigrwydd safon gwasanaethau cyfieithu yng Nghymru ar gyfer dyfodol dwyieithog y wlad. Rhydd grynodeb fel a ganlyn:

> Critical to the business use of Welsh is me having more confidence in the standard of the translation. Not the confidence to speak the language, not the comfort to speak the language, because I can cope with all these nuances, I can cope with the statements that are being made, I can deal with Am I a nationalist crackpot or a dedicated public servant, and so can my colleagues. So can all my friends. I can't cope with knowing that the words that are coming out of my mouth are not going into your ears. Something else is going into your ears. And I know that the standard of translation is not good enough.[62]

Amlyga'r drafodaeth uchod y ffaith fod hyfforddi cyfieithwyr i safon uchel yn allweddol i lwyddiant polisïau dwyieithrwydd yng Nghymru. Ni olyga hyn fod rhaid defnyddio cyfieithu ym mhob math o gyfarfodydd, ond lle y mae gwasanaeth cyfieithu yn angenrheidiol, ni ellir disgwyl i Gymry Cymraeg siarad Cymraeg os na allant ddibynnu'n llwyr ar y cyfieithwyr i drosi eu dadleuon yn gymwys ac yn sensitif.

Amlyga'r drafodaeth hefyd nad yw Cyfwelai 4 yn ymwybodol o waith Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ac o'r gwahanol lefelau o aelodaeth i gyfieithwyr sy'n dynodi safon eu gwaith. Gellir casglu o hyn fod rhaid lledaenu strategaeth a pholisïau cyfieithu yn well, er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod lle mae cyfieithwyr sy'n gwneud gwaith o safon uchel ar gael. Efallai fod Cyfwelai 4 braidd yn rhy feirniadol o safon y cyfieithu, gan ei fod yn cydnabod ei hun na all y cyfieithiad byth fod llawn gystal â'r gwreiddiol. Ar y llaw arall, rhaid caniatáu

[61] Cyf4/16.
[62] Cyf4/65.

hefyd fod siaradwyr Cymraeg nad ydynt wedi cymhwyso yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ond sy'n awyddus i hybu siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd, yn gwneud gwaith gwerth chweil wrth gynnig cyfleoedd i gyfarfodydd ddigwydd yn Gymraeg, ond heb gadw'r di-Gymraeg draw yn gyfan gwbl.

Ceir yn awr dair adran sy'n trafod yr agweddau ymarferol wrth drefnu cyfarfodydd mewn modd sy'n hybu hyder siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio'r iaith.

## 10.5 Cadeirio

O ran yr agweddau mwy ymarferol a all ysgogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, mae un yn sefyll allan. Dro ar ôl tro yn yr ymatebion i'r ymchwil, cyfyd pwysigrwydd rôl y cadeirydd wrth annog siarad Cymraeg neu wrth osod esiampl. Trafodir yn awr faint yn union y gall y cadeirydd ei wneud i hwyluso'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, a faint yw ei ddylanwad ar bobl eraill wrth siarad Cymraeg.

O'i brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ac o weld faint yw'r defnydd o'r Gymraeg, sylwa cyfieithydd, 'mae lot yn dibynnu, er enghraifft, ar ydy'r cadeirydd yn siarad a gweithredu yn Gymraeg neu beidio'.[63] Er bod un cyfwelai yn datgan, yn groes i hynny, nad iaith y cadeirydd sy'n dylanwadu arno, gan ddweud, 'yn fy sefyllfa i, dw i ddim yn poeni am blesio'r cadeirydd, dw i tu hwnt i hynny',[64] gwêl y rhan fwyaf o ymatebwyr rôl y cadeirydd yn un hynod bwysig. Weithiau trafodir hyn yn agored, fel yn y cyngor cymuned a ddywed, 'dan i'n gwrthwynebu dim bod 'na gyfieithydd yma, dim ond fod o [aelod di-Gymraeg] yn y Gadair a bod o ddim yn siarad Cymraeg'.[65]

Ymhelaetha un o'r cyfieithwyr: 'Mae 'na rai Cymry Cymraeg sy'n ddigon bodlon siarad yn Gymraeg mewn cyfarfodydd os ydy'r cadeirydd yn llywio'r cyfarfod yn Gymraeg. Os ydy'r cadeirydd yn ddi-Gymraeg, mi wnân nhw siarad Saesneg.'[66] Cadarnhawyd y farn honno yng nghyfarfodydd Senedd y Brifysgol. Cadeiriwyd y cyfarfod cyntaf gan unigolyn di-Gymraeg, ond yr ail gan siaradwr

[63] Cyf2/12.
[64] Cyf7/17.
[65] Cyf1/6.
[66] Cyf2/16.

Cymraeg. Nodwyd bod 'y ffaith bod y cadeirydd yn Gymro yn troi'r cyfarfod yn un llawer mwy Cymraeg na'r un blaenorol. Er hynny, materion a oedd a wnelo nhw â'r Gymraeg neu â Chymru yn benodol a drafodwyd yn Gymraeg.'[67]

Serch hynny, nid cadeirydd o siaradwr Cymraeg ynddo ei hun a all ysgogi pobl i siarad iaith yr ardal. Mae'n bwysig cyflwyno'r gwasanaeth cyfieithu i'r defnyddwyr:

> Mae 'na lot sydd heb ddim syniad ar sut i gyflwyno presenoldeb y gwasanaeth ar ddechrau cyfarfod, mewn ffordd, sut i annog pobl i'w ddefnyddio fo. Hyd yn oed os oes 'na anogaeth, pan mae'r tôn yn iawn, anaml iawn bydd y Cymry Cymraeg yn defnyddio Cymraeg.[68]

Does dim gwarant, felly, bod cadeirydd sy'n siarad Cymraeg yn gallu annog eraill i'w siarad hefyd. Ac o ymateb un holiadur, mae'n amlwg nad niferoedd siaradwyr Cymraeg sy'n penderfynu pa mor hyderus yw'r cadeirydd ei hun ychwaith. Mewn cyfarfod lle roedd dau draean yn siaradwyr Cymraeg ac un traean yn ddi-Gymraeg, ni chafwyd dim ond 'un cyflwyniad ugain munud [yn Gymraeg]. Y Cadeirydd yn cadeirio'n Saesneg – nid oedd yn hyderus yn siarad Cymraeg. Dywedodd ychydig eiriau yn Gymraeg ar y dechrau.'[69]

Mae'n rhaid i gadeirydd fod yn gadarn ei iaith, nid yn unig ar ddechrau cyfarfod; mae'n bwysig ei fod yn gosod esiampl dda yn ystod y cyfarfod hefyd. Nodwyd yng Nghyfarfod 6 y cyngor cymuned ym Meirionnydd fod 'rhai o'r cynghorwyr eraill a'r cadeirydd yn trio ar sawl achlysur i ddwyn y sgwrs yn ôl i'r Gymraeg, ond roedd yr un [Cymro] yn benderfynol iawn i siarad Saesneg'.[70]

Adrodda un cyfwelai am ei phrofiad o weld cadeirio yn Gymraeg:

> Oedd hi'n siarad yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Doedd neb yn meddwl dim byd gwahanol. Ac oedd hi'n ysgafn efo fo. Oeddech chi'n teimlo dim. Efo hi yn y Gadair, ddoth o drwodd heb deimlo dim straen yn y byd. Oedd y ddwy iaith ochr yn ochr, neb yn meddwl dim.[71]

Cadarnhad yw'r sylw hwn o'r canfyddiad, nid yn unig bod cyfieithydd anweledol yn gyfieithydd da, ond hefyd mai siarad Cymraeg mor normal â phosibl yw'r ffordd fwyaf effeithiol i gael eraill i siarad Cymraeg. Er mwyn

[67] Arsylwi Cyfarfod 4.
[68] Cyf2/33.
[69] HWBcap16/1.
[70] Arsylwi Cyfarfod 6.
[71] Cyf3/28.

helpu'r cadeirydd wrth annog y defnydd o'r Gymraeg, lluniodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fat bwrdd gyda phwyntiau i'w cofio (gweler Ffigwr 10.1 isod).

Profodd un grŵp fod y canllawiau syml hyn yn gwneud gwahaniaeth: 'Gwnaeth [y cadeirydd] ddefnydd o'r mat newydd, a thynnu sylw'r Cymry Cymraeg gwpl o weithiau pan oeddent yn siarad yn isel neu ar draws ei gilydd.'[72] Yn yr un modd, sylwodd aelodau grŵp ar ddiffyg naws Gymreig pan na ddefnyddiwyd y mat:

> Soniwyd nad oedd yr AGM […] yn rhoi'r un argraff o Gymreictod â'r lansiad, a bod un rheswm posibl […] nad oedd y cadeirydd wedi annog pawb i ddefnyddio'r iaith, fel mae'n arfer ei wneud. Eglurodd ei bod hi fel arfer yn cofio gwneud hyn oherwydd 'mat y Cadeirydd', ac nid oedd ganddi un o'i blaen.[73]

Dyma enghraifft o arfer da sy'n cael ei ysgogi trwy ddim ond rhoi mat ar y bwrdd o flaen y cadeirydd i'w atgoffa o'r hyn y gall ei ddweud i atgoffa'r aelodau i siarad Cymraeg ac i hwyluso gwaith y cyfieithydd.




**Ffigwr 10.1 :** *Mat Bwrdd i gadeiryddion cyfarfodydd gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac IDB, cynhyrchydd offer cyfieithu.*

[72] HWBcap10/1.
[73] HWBcap1/2.

Gwelwyd enghraifft arall o arfer da yn un o gyfarfodydd y Bwrdd Iechyd Lleol: 'Ar ôl gorffen, mae'r cadeirydd yn gofyn i'r cyfieithydd a oedd acwstics yr ystafell yn iawn.'[74] Fe all cadeirydd greu perthynas dda â'r cyfieithydd trwy fod yn sensitif i'w anghenion yn y ffordd hon. Ond os nad yw'r cadeirydd yn ymwybodol o'i rôl a'i gyfrifoldeb dros iaith y cyfarfod, ni fydd yn dylanwadu ar eraill. Mewn rhai cyfarfodydd, mae hyn yn anodd oherwydd y drefn:

> Gan nad oedd fawr neb ond y cadeirydd yn siarad, heblaw pan gafwyd cyflwyniad, mae'n anodd dweud am iaith y cyfarfod. Roedd y cadeirydd yn ymateb i gyflwyniad yn iaith y cyflwyniad. Tybed a fyddai'r cyfarfod wedi bod yn fwy Cymraeg petai mwy o gyflwyniadau yn Gymraeg? A yw cadeirydd mewn sefyllfa fel hyn yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb neu o'r dylanwad sydd ganddo ar iaith cyfarfod?[75]

Er na chynigia'r ymatebion ond ychydig o enghreifftiau o arfer da, mae'r rhain yn cadarnhau'r farn bod y cadeirydd yn allweddol wrth lywio iaith y cyfarfod. Rhaid i gadeirydd fod ymysg y rhai mwyaf hyderus wrth siarad Cymraeg o fewn y grŵp. Er y gall cadeirydd da annog siaradwyr Cymraeg i siarad Cymraeg, hyd yn oed os na all ei siarad ei hun, dengys profiad fod cadeirydd Cymraeg yn fwy effeithiol. Os nad yw cadeiryddion yn ymwybodol o'u dylanwad, gall canllawiau byr a syml fel y mat bwrdd fod yn help iddynt gofio hyn. Byddant yn gwneud gwaith y cyfieithydd yn haws ar yr un pryd, gan atal pobl rhag torri ar draws ei gilydd, er enghraifft. Gall cyflwyniadau ac adroddiadau yn Gymraeg yn eu tro ddylanwadu ar iaith y drafodaeth.

## 10.6 Cyflwyniadau

Crybwyllwyd uchod ei bod yn arferol, yn y Cynulliad Cenedlaethol fel mewn mannau eraill, i ymateb i gyflwyniad neu gwestiwn yn iaith y cyflwyniad neu'r cwestiwn hwnnw. Boed hynny o ran cwrteisi neu arfer, pan mae cyfieithydd yn bresennol, ni ddylid meddwl bod angen gwneud hynny. Gan ei bod hi'n anodd newid arferion, un ateb fyddai sicrhau bod mwy o gyflwyniadau a chwestiynau yn Gymraeg yn y lle cyntaf. Gwelir bod yna rôl bendant i gael rhagor o gyflwyniadau ac adroddiadau yn Gymraeg os am ddylanwadu ar iaith y drafodaeth.

[74] Arsylwi Cyfarfod 1.
[75] Arsylwi cyfarfod 4.

Pan geir mwy o gyflwyniadau yn Gymraeg, bydd pobl yn canmol naws Gymraeg y digwyddiad, fel yn y cyfarfod hwn: o'r chwe siaradwr, 'roedd un yn ddi-Gymraeg, un yn ddysgwraig (siaradodd yn Gymraeg) a phedwar yn Gymry Cymraeg (tri yn siarad Cymraeg trwy'r amser, un am hanner yr amser)'.[76]

Yn un o gyfarfodydd y Bwrdd Iechyd Lleol, sylwyd ar yr arfer o ddilyn iaith y cyflwyniad yn y drafodaeth ddilynol. Teimlwyd hefyd ei bod hi'n haws i siaradwyr Cymraeg drafod cyflwyniad Cymraeg:

> Roedd iaith y drafodaeth fel arfer yn dilyn iaith y cyflwyniad. Dim ond un cyflwyniad a oedd yn Gymraeg, ac roedd y Cymry Cymraeg yn trafod yn llawer rhwyddach yn dilyn y cyflwyniad hwnnw yn Gymraeg na phan oeddent yn siarad Saesneg.[77]

Er hynny, nid yw cyflwyniad Cymraeg o reidrwydd yn cael ei ddilyn gan drafodaeth Gymraeg. Mewn un cyfarfod, cafwyd 'cyflwyniad gan swyddog o Awdurdod y Parc yn Gymraeg, a'r drafodaeth y tri di-Gymraeg yn troi'r cyfarfod yn un Saesneg wedyn'.[78] Profa hyn bwysigrwydd, nid yn unig pwy sy'n siarad, ond eu swyddogaeth o fewn y grŵp yn ogystal â iaith y cyflwyniad ei hun. Dyma enghraifft arall:

> Yr unig gyflwyniad yn Gymraeg yw'r adroddiad ariannol, gan ddefnyddio iaith eithaf ffurfiol. Mae'n ailadrodd pwynt yn Saesneg pan mae'r Prif Weithredwr yn dod yn ôl o'r toiled. Mae'r adroddiad yn cael ei ddilyn gan dipyn o drafodaeth yn Gymraeg gan y Cymry Cymraeg, wedyn mae'n mynd yn Saesneg pan mae aelodau eraill yn dod i mewn.[79]

Efallai fod a wnelo'r newid hwn â nifer y siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn y grŵp, neu â phwy sy'n siarad faint. Yn Senedd y Brifysgol, er gwaetha'r ffaith fod yno aelodau Cymraeg, 'mae pob cyflwyniad dw i'n ei gofio wedi bod yn Saesneg'.[80]

Ond, rhybuddia un cyfwelai, rhaid bod yn ofalus wrth ddewis siaradwyr. Dylid eu gwadd oherwydd yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, nid oherwydd eu hiaith:

---

[76] HWBcap8/1.
[77] Arsylwi Cyfarfod 1.
[78] HWBcap3/1.
[79] Arsylwi Cyfarfod 1.
[80] Cyf7/41.

> Mae'r busnes o drio cael siaradwyr Cymraeg i swyddi arbennig, mae hyn yn beryglus. Dan ni wedi cael ambell i swyddog jyst achos bod nhw'n siarad Cymraeg a 'falla nad nhw oedd y person gorau. Rhaid bod yn sensitif iawn am hwnnw.[81]

Anghytuna cyfwelai o gyngor cymuned. Yn ei barn hi, mae'n bosibl canfod pobl a all siarad am y pwnc yn Gymraeg bob tro.

> Yn fan 'na dan ni'n colli allan â dweud y gwir. Dylai pawb ofalu os ydy'r mwyafrif yn Gymry bod y *presentation* yn Gymraeg, y siaradwr yn Gymraeg. […] Mae 'na ddigon o bobl ar gael, dim ond efallai nad ydyn nhw'n byw mor handi. A wedyn mae'n gwestiwn o arian eto, achos bod nhw'n gorfod talu mwy os ydyn nhw'n dod o bell.[82]

Dengys y dystiolaeth nad y cadeirydd yn unig sy'n bwysig wrth benderfynu iaith y drafodaeth, ond bod cyflwyniadau Cymraeg hefyd yn gallu ysgogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg trwy droi'r awyrgylch yn fwy Cymraeg. Maent yn arwydd pendant bod y Gymraeg yn iaith fyw sy'n gallu gweithredu ym mhob cywair. Trwy ddewis siaradwyr Cymraeg mewn cyfarfodydd, gellir dangos norm newydd, a gall hynny godi disgwyliadau siaradwyr y ddwy iaith.

Ar wahân i hynny, mae'n bwysig hefyd pwy sydd yn y cyfarfod. Edrychir yn yr adran nesaf ar faint o ddylanwad sydd gan y rhai sy'n hollol gadarn yn eu defnydd o'r Gymraeg.

### 10.7 Dylanwad unigolion ar y defnydd o'r Gymraeg

Wrth adrodd am un o'i gyfarfodydd, noda cyfieithydd: 'Y rheswm fod y defnydd o'r Gymraeg yn eitha bychan oedd fod siaradwr allweddol (cynghorydd sir sy'n gwybod mwy ac yn siarad mwy na'r gweddill) yn ddi-Gymraeg.'[83] Mewn grŵp arall, sylweddolir hefyd pa mor allweddol gall unigolion fod i iaith y cyfarfod: 'Nid oedd y swyddog sy'n mynnu siarad Cymraeg yn bresennol.'[84] Nodwyd wrth arsylwi ar un o'r cynghorau cymuned cymaint y gall yr iaith newid o un cyfarfod i'r llall wrth i aelod penodol ymuno:

[81] Cyf7/43.
[82] Cyf3/29.
[83] HWBcap2/1.
[84] HWBcap20/1.

- Mae un Cymro nad oedd yna'r tro diwethaf yn siarad Cymraeg yn wastad ac yn llwyddo i ddenu'r lleill yn ôl i siarad Cymraeg yn eu tro.
- Pan mae'r Cymro arall yn siarad Saesneg, mae'r lleill yn troi hefyd, nes i'r Cymro cadarn gyfrannu yn Gymraeg.[85]

Efallai fod rhai siaradwyr Cymraeg yn fwy cadarn yn eu defnydd o'r iaith am eu bod yn gwybod eu hawliau, meddai cyfieithydd: 'Weithiau mae 'na unigolion cryf […] sy'n benderfynol […], maen nhw'n gwybod eu hawliau yn well hefyd dw i'n meddwl.'[86] Er nad oes hawl gyfreithiol i siarad Cymraeg, gall anogaeth a chefnogaeth wneud i rywun deimlo'n fwy hyderus wrth siarad Cymraeg yn gyhoeddus. Dywed rhywun arall, 'mae 'na rai o'r hen do sy'n mynnu siarad Cymraeg oherwydd bod nhw wedi bod yn mynnu siarad Cymraeg ers blynyddoedd lawer'.[87]

Gall pobl sydd wedi arfer â dwyieithrwydd a chyfieithu mewn cyfarfodydd (yn eu gwaith, er enghraifft), ddylanwadu ar eraill a chadarnhau'r arfer o siarad Cymraeg: 'Roedd yr "ymgynghorydd proffesiynol" yn y grŵp yn amlwg yn arfer â chyfarfodydd dwyieithog – fel oedd sawl un arall – ac yn dda iawn o ran arwain y sgwrs yn ôl i'r Gymraeg.'[88] Ond rhaid bod yn benderfynol i wneud yr ymdrech honno. Nodwyd wrth arsylwi: 'Unwaith mae rhywun yn penderfynu siarad Cymraeg eto ar ôl lot o Saesneg, mae eraill yn fodlon dilyn. Ond nid yw pawb yn gwneud hynny, ac mae'n golygu ymdrech.'[89] Mewn cyfarfod arall, sylwyd eto nad oedd pobl am fod y cyntaf i ddychwelyd i siarad Cymraeg:

> Roedd dau heddwas yn dod i drafod gwahanol faterion. Pan oedd y cynghorydd di-Gymraeg yn dweud lot, roedd y drafodaeth (gan gynnwys yr heddlu) yn Saesneg bron i gyd. Dim ond weithiau pan mae rhywun yn dechrau yn Gymraeg, mae pawb arall yn dilyn.[90]

Wrth gwrs, pan mae'r unigolion cadarnhaol hynny mewn swyddi uchel, gall y dylanwad fynd yn bell iawn. Dywed un cyfieithydd:

> 'Swn i yn dweud bod y Prif Weithredwr ei hun wedi cael dylanwad da iawn ar gyfieithu yn y gwaith. Mae o'n Gymro Cymraeg ac mae o ers tair blynedd wedi dweud ei fod o isio cyfarfodydd fatha penaethiaid adran a phethau felly,

85 Arsylwi cyfarfod 7.
86 Cyf1/36.
87 Cyf2/11.
88 HWBcap19/1.
89 Arsylwi Cyfarfod 2.
90 Arsylwi Cyfarfod 8.

> lle gynt oedden nhw'n cael eu cynnal yn Saesneg, maen nhw'n cael eu cynnal yn Gymraeg rŵan.[91]

Gydag amser, gall eu dylanwad gynyddu nes i bobl ddisgwyl siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd lle maent yn bresennol: 'Pan ddoth A. wedi cyplysu efo aelodau cryf o [Gyngor] Gwynedd oeddet ti'n gwybod, ia yn sicr fydd 'na angen cyfieithu yn fan 'na achos fydd y drafodaeth yn Gymraeg.'[92] Ac os yw yn llwyddiannus, gall disgwyliadau o'r fath dreiddio drwy sefydliad cyfan:

> Yn y gwaith mae 'na ymdeimlo cryf gan aelodau unigol a gan swyddogion hefyd o ran cynnal y sgwrs yn Gymraeg, ac maen nhw wedi hen arfer hefyd hefo cyfieithu. Maen nhw'n fwy cadarn yn y ffordd maen nhw'n meddwl. Maen nhw ar lefel uwch mewn ffordd. Dydyn nhw ddim yn tueddu i gael eu cyflyru gan neb.[93]

Petai unigolion sy'n gadarn yn eu Cymraeg yn ymwybodol o'u dylanwad ar y defnydd cyffredinol o'r Gymraeg yn eu cyfarfodydd neu eu sefydliadau, gallai fod yn haws iddynt fod hyd yn oed yn fwy hyderus. Ac efallai y byddai'n help i drefnwyr cyfarfodydd fod yn ymwybodol o'r ffactorau hynny. Os ceir cadeirydd, siaradwyr ac aelodau cyffredin o'r grŵp sy'n hollol gadarn yn eu defnydd o'r Gymraeg, bydd yn haws i bobl siarad mwy o Gymraeg mewn cyfarfodydd â chyfieithydd. Ond rhaid i sefydliadau a grwpiau gwirfoddol feddwl yn fwy strategol am eu cyfarfodydd dwyieithog. Efallai y dylid ystyried hyfforddi siaradwyr Cymraeg ar sut i fanteisio orau ar wasanaeth cyfieithu ar y pryd. Ni fyddai hyn yn broblem o fewn sefydliadau lle y gallai fod yn rhan o hyfforddiant mewn swydd. Ond mewn grwpiau cymunedol, rhaid bod yn ofalus sut y cyflwynir hyfforddiant neu argymhellion o'r fath heb roi pwysau ychwanegol ar Gymry Cymraeg.

Dylid ystyried yn fanylach rôl cyfieithu yn y broses o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gan siarad â chyfieithwyr eu hunain, tynnu ar eu profiadau helaeth o weithio mewn cyd-destunau dwyieithog ac o arsylwi defnydd iaith, a meddwl sut i gynllunio iaith gan ddefnyddio cyfieithu fel arf i gyrraedd y nod hwnnw. Yn adran olaf y bennod hon, edrychir ar syniadau ynghylch sut i gynnwys cyfieithu a chyfieithwyr yn y broses o gynllunio ieithyddol.

---

[91] Cyf1/19/20.
[92] Cyf1/25.
[93] Cyf1/18.

## 10.8 Polisïau cyfieithu ar y pryd

Canfyddir bod polisïau cyfieithu yn bwysig, nid yn unig mewn gwledydd dwyieithog. Gwelir polisïau iaith a chyfieithu yn rhan hefyd o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus i fewnfudwyr sydd heb y sgiliau ieithyddol angenrheidiol. Ac mae unrhyw fusnes ar draws ffiniau yn gofyn am bolisïau cyfieithu ar ran cwmnïau, gwladwriaethau neu sefydliadau.

Mewn sefyllfa ddwyieithog fel ag a geir yng Nghymru, fodd bynnag, nid masnach yw'r prif reswm dros gyfieithu, ond yr ewyllys i sicrhau chwarae teg i siaradwyr iaith leiafrifol fyw eu bywydau gan siarad eu hiaith gyntaf.

Trafodwyd, yn rhan gyntaf y traethawd, rôl a photensial cyfieithu wrth gryfhau hunaniaeth ac wrth normaleiddio'r defnydd o'r iaith leiafrifol. Yng Nghymru, cydnabyddir faint o waith sydd gan gyfieithwyr, ond nid oes gwerthfawrogiad amlwg o gyfieithu yn y broses o greu hunaniaeth Gymreig. Yn hytrach, defnyddir cyfieithu i lenwi bylchau lle nad oes gallu mewn iaith, ond weithiau ystyrir ei fod yn 'symboleiddiaeth ddi-fudd' (John Walter Jones, gweler tudalen 36) neu ei fod yn gweithio yn erbyn amcanion eraill o hyrwyddo'r Gymraeg, megis annog dysgu'r iaith. Ceisia adran olaf y traethawd ymchwil hwn asesu'r farn am gynnwys cyfieithu mewn polisïau ieithyddol, ac am yr hyn y gall cyfieithu ei newid wrth ddeall a gweithredu cynllunio iaith.

Mewn cyfarfod a fynychwyd gan bum siaradwr Cymraeg ar hugain, a phedwar di-Gymraeg, mynegwyd y farn bod gan gyfieithu rôl wrth gadw at iaith y mwyafrif: 'Byddai'r cyfarfod yn sicr wedi troi'n gyfarfod uniaith Saesneg oni bai am y gwasanaeth cyfieithu.'[94] Mynega siaradwr di-Gymraeg farn gryfach o blaid cyfieithu rheolaidd: 'any policy should include a clause making it imperative that translation be available to avoid misunderstanding of one's fellow countrymen's deliberations'.[95] Byddai polisïau iaith o'r fath braidd yn simplistig gan mai ar yr awdurdodau neu'r mudiadau fyddai'r cyfrifoldeb i gyd, tra mae angen ysgogi unigolion, siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg, i wneud ymdrech hefyd.

Nid oes reidrwydd ar neb i gynnig gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd, fel y dysgwn o brofiad cyngor cymuned:

---

[94] HWB6/1.
[95] H6/17.

> Oedden nhw isio gwybod yn iawn a oedd yn rhaid iddyn nhw ddarparu cyfieithu ai peidio. A mi ddywedodd Bwrdd yr Iaith cyn belled â bod y cyngor yn gwneud ymdrech i wneud rhyw fath o ddarpariaeth, dim o anghenraid cael cyfieithydd yna – mi fedr fod yn rhywun yn eistedd wrth ei ochr o yn dweud beth oedd yn mynd ymlaen yn y cyfarfod neu sut bynnag – bod hynny'n ddigon teg.[96]

Y rhesymeg tu ôl i hyn yw y dylid asesu anghenion pob grŵp a chyfarfod, yn hytrach na phenderfynu mai cyfieithu yw'r unig ffordd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Ond gwelir nad oes sicrwydd gan grwpiau ynghylch sut i ddefnyddio cyfieithu, ac mae un cyfwelai yn meddwl nad oes gweledigaeth glir ynglŷn â chyfieithu gan Lywodraeth y Cynulliad neu Fwrdd yr Iaith. Dywed:

> I intend to take on the Welsh Language Board and the new Assembly, say that you've got to deliver to me, that's part of the public service, some means of ensuring a better translation process. You've got to do that. I can do that internally with lots of pain, but actually we need it as a national endeavour I think.[97]

Ymhelaetha wedyn mai hyfforddi ac achredu cyfieithwyr yw'r ffordd ymlaen: 'And if you're not going to abolish Welsh which is impossible, you're going to have to provide […] a nationally accredited, government certified translation service to deal with hyder and comfort.'[98] Yn ei dyb ef, diffyg trafodaeth sy'n rhannol gyfrifol am y diffyg polisi: 'because it needs academic research round it […] and we need to raise the standard of the debate.'[99]

Yn ogystal â thrafodaeth gyhoeddus, mae angen canllawiau i ddefnyddwyr er mwyn codi safonau cyfieithu, cynorthwyo cyfieithwyr yn eu gwaith a gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol. Cwyna un cyfieithydd:

> Mae'r Cynulliad i fod wedi llunio canllawiau i gyfarfodydd i drefnwyr. Y broblem wrth gwrs, neu rhan o'r broblem, ydy bod y polisïau yn cael eu lledaenu ar lefel yr uwch reolwyr. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu trefnu gan ysgrifenyddion ac ambell i gynorthwy-ydd personol, rhywun reit isel yn yr hierarchiaeth. Ac yn anaml iawn dw i'n meddwl mae'r rheiny wedi cael eu rhoi ar ben y ffordd sut i fynd o gwmpas trefnu cyfarfodydd â chyfieithydd.[100]

[96] Cyf1/7.
[97] Cyf4/68.
[98] Cyf4/70.
[99] Cyf4/71.
[100] Cyf2/31.

Hyd yn oed heb reol sy'n dweud bod rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod, byddai cyhoeddi a darlledu gwybodaeth am bwrpas a photensial cyfieithu, a chanllawiau ar sut i drefnu'r gwasanaeth, yn ddigon hawdd i'w trefnu. Yn ogystal, dylid, ym marn y cyfieithydd, gynnwys cyfieithwyr yn gynt yn y broses o drafod polisïau iaith. Fel arall, ni all weithio i'w lawn botensial:

> Yn sicr mi ddylid ymgynghori â chyfieithwyr mwy, am bob math o resymau ymarferol. […] Mewn ymgynghori i bolisïau mae cyfieithwyr yn cael eu hanghofio mae'n debyg. Ond hyd yn oed os oes 'na ymgynghori, mae peryg iawn bod chi'n cael rhywbeth tebyg i beth sy'n digwydd yn aml iawn i waith cyfieithu ysgrifenedig; […] mae'n beth munud olaf. Mae'n rhyw fath o ychwanegiad. Dydy'r cyfieithiad ddim yn cael ei ystyried yn ddigon fuan yn y broses. […] Un elfen gwbl allweddol ydy'r syniad bod pobl yn ymgynghori yn dechrau gynnar y broses o lunio polisi, nid fel rhyw fath o ychwanegiad ar ddiwedd y broses.[101]

Heb i gyfieithwyr gael eu cynnwys yn y broses honno, a heb ddeall sut y mae cyfieithu yn perthyn i weithgareddau eraill o fewn polisïau iaith, ni fydd darparu gwasanaeth cyfieithu ond yn arwynebol:

> Mae angen rhyw fath o anogaeth. Hyd yma, ar y cyfan, y polisi ydy darparu gwasanaeth a disgwyl i bobl i'w ddefnyddio fo, ond wrth gwrs dydy hynna ddim yn gweithio. Dim mwy nag y mae darparu gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig gan gynghorau lleol wedi cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cyhoedd. Dydy o ddim yn ddigon i fod ar gael. Mae angen rhyw fath o symbyliad.[102]

Ar ben hynny, rhaid deall bod mwy yn y fantol na chyfieithu er mwyn cyfathrebu (fel rhwng prif ieithoedd). Esbonia ymgynghorydd iaith fod angen trefnu ar gyfer deinameg grŵp hefyd. Mae'n

> wastad yn pwysleisio'r ffaith bod rhaid trefnu cyfarfod dwyieithog, mae rhaid cydnabod yr imbalans grym yna yn y man cyntaf. A rhaid trefnu bod hwnnw'n cael ei wastatu rhyw ffordd a gwneud hynny'n hollol ymwybodol. Prin iawn yn anffodus yw'r sefyllfaoedd lle mae hynny'n digwydd, ond mi ddylai fo dw i'n credu fod yn rhan o hyfforddiant unrhyw swyddog sy'n trefnu digwyddiad neu bwyllgor neu beth bynnag i gael yr ymwybyddiaeth o beth yn union yw'r grŵp deinamics o ran iaith yn y digwyddiad maen nhw'n ei drefnu.[103]

[101] Cyf2/36.
[102] Cyf2/46.
[103] Cyf6/12.

O ddeall y ddeinameg hon, meddai, sylweddolir nad yw cyfieithu yn ddigon. Un peth nad yw'n gweld yn llesol i'r Gymraeg

> yw'r tocenistiaeth 'na, O, dan ni wedi talu tri chant punt i gael cyfieithydd i eistedd yn y cornel ac wedyn maen nhw'n meddwl bod nhw wedi gwneud yr hyn sydd fod ei wneud. Ond hawdd iawn yw hynny wrth gwrs. Mae'n wastraff amser iddyn nhw ac arian achos dydyn nhw ddim wedi cydnabod y deinameg yna a beth yn union maen nhw'n delio gydag ef.[104]

Ac er bod llawer o'r grwpiau cymunedol yn fodlon gydag effaith cyfieithu yn eu cyfarfodydd, cytuna un aelod gyda'r pwynt uchod, gan fynegi ei siom: 'Mae'n drueni ein bod yn gorfod cael gwasanaeth cyfieithu o gwbl.'[105]

Â'r ymgynghorydd iaith ymlaen i ddweud y byddai'n fwy buddiol ystyried dau fath o gyfieithu, un yn gyfieithu proffesiynol mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol a swyddogol, a'r llall yn wasanaeth pontio rhwng y gymuned Gymraeg a'r di-Gymraeg sy'n ceisio cymhathu. Er mwyn i hynny lwyddo,

> mae rhaid datblygu strwythurau hyfforddi priodol i'r ddwy haen o gyfieithwyr a sylwebwyr, neu porthmyn, neu beth oedd y gair eto, *Übersetzer*. Os dach chi'n ystyried yr holl sefyllfaoedd cymdeithasol sy'n digwydd yn ddyddiol, yn feunosol, mae anferthedd y peth, mae 'na dalp anferth o waith i fynd allan ac yn hwnna, mae anghenion anferth o ran, lle dechreuon ni'r sgwrs yma, codi hyder siaradwyr Cymraeg.[106]

Cyfrifoldeb sefydliadau fel Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fyddai hybu gwybodaeth am y ddwy haen o gyfieithu, a hybu'r safonau a'r galluoedd angenrheidiol i ddygymod â'r gwaith mewn cyfarfodydd ac mewn achlysuron cymunedol:

> Dw i'n credu bod 'na le i gael y Gymdeithas i roi rhyw fath o fframwaith deallusol neu egwyddorol i ni gyd i wneud hi'n amlwg fod 'na ddau ddiben ac i setlo hynny achos, iawn, oes, mae angen cyfieithwyr ar y pryd, ac mae 'na farchnad, does, a bydd angen nhw gobeithio am oes mawr i ddod mewn sefyllfaoedd ffurfiol lle mae 'na gyllideb i dalu am hynny.[107]

Ond rhaid sylweddoli nad cyfieithu yw popeth ac na all cyfieithu ar y pryd gyrraedd pobman:

---

[104] Cyf6/13.
[105] H27/9.
[106] Cyf6/32.
[107] Cyf6/29.

> O ran cynllunio ieithyddol, o gael y Gymraeg a sefyllfa ddwyieithog i ddatblygu mewn peuoedd cyhoeddus ar lawr gwlad, wel dach chi byth yn mynd i gael degfed rhan o'r cyfieithwyr ar y pryd sydd angen i ddygymod â'r holl sefyllfaoedd yna, mae rhaid i ni dderbyn hynny, mae rhaid i gyfieithwyr ar y pryd dderbyn hynny os ydyn nhw'n gweld eu hunain yn rhan o gynllunio ieithyddol yng Nghymru a'r ymdrech i egnïo'r Gymraeg. Mae rhaid iddyn nhw dderbyn dydyn nhw ddim yn gallu cyrraedd pob twll a chornel.[108]

Yr hyn y mae'n ei bwysleisio o ran polisïau hyrwyddo iaith a chyfieithu yw'r angen i sylweddoli mai rhan o'r cyfan yw cyfieithu. Gall weithio lle bo'n briodol, ond rhaid i bawb fod yn ymwybodol o opsiynau eraill hefyd:

> Dw i'n credu bod 'na duedd i droi at gyfieithu ar y pryd fel rhyw fath o adwaith awtomatig heb ystyried opsiynau eraill, yn sicr fod o. Dw i'n meddwl bod eisiau i ni fod yn, hynny yw ni yn y colectif cenedlaethol, fod yn fwy soffistigedig yn y ffordd dan ni'n delio gyda dwyieithrwydd yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd cyhoeddus bellach.[109]

Dwyieithrwydd yw'r allwedd, meddai. Mae cyfieithu ar y pryd yn creu sefyllfa uniaith i'r di-Gymraeg tra mae'n caniatáu i'r Cymry Cymraeg fod mor Gymraeg ag y mynnant. Ond nid oes cymaint o sefyllfaoedd sy'n wirioneddol ddwyieithog i bawb, dyna ei feirniadaeth:

> Dan ni ddim wedi cymryd mantais o hynny mewn sefyllfaoedd cyhoeddus. A chaniatáu i bobl sy'n deall Cymraeg i gymryd rhan mewn pwyllgorau Cymraeg ond wedyn i gyfrannu yn Saesneg. Dan ni'n dal yn y meddylfryd lle mae rhaid i ni gael cyfarfodydd neu […] drafodaethau mewn un iaith neu'r llall. Does neb wedi gweld, oes, mae modd cynnal sgyrsiau a chyfarfodydd dwyieithog, yn sicr os oes rhywun yn deall Cymraeg. Wrth gwrs os nad oes mae angen cyfieithu ar y pryd yn aml iawn, ond mae 'na opsiynau eraill.[110]

Mae'n gofyn, felly, am fwy o hyblygrwydd o ran cyfarfodydd a digwyddiadau, a pheidio â gweld cyfieithu yn unig fodd i fodloni'r dymuniad i siarad Cymraeg. I hynny lwyddo, fodd bynnag, rhaid cael ymgyrch sy'n codi ymwybyddiaeth o ddulliau eraill sy'n cyrraedd carfanau gwahanol o'r gymdeithas.

Ar y cyfan, canfyddir bod yna le i gynnwys cyfieithu ar y pryd mewn polisïau iaith yng Nghymru. Mae'n wasanaeth allweddol sy'n caniatáu i siaradwyr Cymraeg siarad Cymraeg mewn amrywiaeth o gyfarfodydd. Fodd bynnag, gellid dadlau bod yna ddau fath o ddigwyddiad sy'n gofyn am ddau fath o gyfieithu. Y

---

[108] Cyf6/30.
[109] Cyf6/17.
[110] Cyf6/21.

cyntaf fyddai cyfarfodydd lle mae'r drafodaeth yn fwyaf pwysig, a'r ail fyddai digwyddiadau lle mae'n bwysicach ceisio annog dymuniad i berthyn i'r grŵp neu'r gymuned. Ar gyfer y math cyntaf o gyfarfodydd, mae cyfieithu ar y pryd proffesiynol yn ddull priodol, ond mewn achlysuron o'r math arall, cynigir bod sylwebu neu ddehongli yn well i wneud i'r di-Gymraeg ddeall diwylliant y digwyddiad.

Byddai'n bwysig codi hyder siaradwyr Cymraeg a'u hannog i gymryd mantais o'r cyfieithwyr neu sylwebwyr yn y ddau fath o sefyllfa. Gallant gymryd mantais ohonynt mewn cyfarfodydd mwy ffurfiol a siarad Cymraeg (gan fod cyfieithydd cymwys yn trosi'r hyn a ddywedant). Ond bydd angen hyder arnynt i siarad Cymraeg pan nad oes cyfieithydd ar gael, er mwyn iddynt allu annog y di-Gymraeg i gymryd rhan yn y digwyddiad Cymraeg. Gan fod codi hyder yn rhan allweddol o bolisi iaith, mae lle i gredu y gallai canllawiau ymarferol, yn ogystal â symbyliad cyfieithu clir, fod yn rhan fwy blaenllaw o gynllunio ieithyddol yng Nghymru.

## 10.9 Casgliadau

Ceisiwyd cloi Rhan II y traethawd trwy gyflwyno ambell bwynt ymarferol gyda'r bwriad o helpu mynychwyr cyfarfodydd i gymryd mantais o'r gwasanaeth cyfieithu. Os credir ym mhotensial cyfieithu ar y pryd i ymyrryd yn gadarnhaol yn y defnydd o'r Gymraeg, rhaid gwneud yn siwr yn y lle cyntaf fod mecanwaith cyfarfodydd o'r fath yn gweithio'n effeithiol.

Prin fod angen pwysleisio nad yw gwasanaeth cyfieithu yn llwyddiannus heb iddo gyrraedd safon broffesiynol a bodloni disgwyliadau'r defnyddwyr. Dengys yr ymchwil fod y sawl sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd dwyieithog yn ymwybodol o hynny. Os yw profiadau pobl o gyfieithu yn gadarnhaol, bydd proffeil y proffesiwn yn codi yn y farn gyhoeddus. Dim ond trwy gyflwyno'r gwasanaeth fel un effeithiol, safonol a rhwydd, y bydd yr hyder gan bobl i ddibynnu fwyfwy arno ac ymlacio wrth siarad Cymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Ond heb i gadeiryddion, cyflwynwyr a threfnwyr sy'n dewis siaradwyr Cymraeg sylweddoli eu rôl, ni fydd yn hawdd perswadio pobl o hynny. Rhaid ei gwneud hi'n glir i bawb mai rhan yn unig o'r bwriad i gael mwy o Gymraeg mewn cyfarfodydd a digwyddiadau yw darparu gwsanaeth cyfieithu.

Gall grwpiau, mudiadau a sefydliadau helpu, gan roi egwyddorion cyfieithu da ar waith yn eu cyfarfodydd. Ond rhaid trafod cyfieithu yn genedlaethol yn ogystal, ac ar lefel uwch na dim ond beirniadu gwallau cyfieithu. Rhaid manteisio ar nodweddion cyfieithu sy'n hwyluso cyfathrebu rhwng diwylliannau. Byddai canllawiau (mwy efallai hyd yn oed na pholisi cenedlaethol) yn help wrth i wahanol sefydliadau, mudiadau neu ardaloedd lunio eu ffordd eu hunain o ddefnyddio cyfieithu. Yn sicr, gallai trafod â chyfieithwyr trwy gydol prosesau cynllunio ieithyddol ddod â chryfderau'r proffesiwn i'r wyneb.

# 11 Casgliadau

Nid oes amheuaeth fod cyfieithu yn chwarae rhan bwysig mewn unrhyw gynllunio ieithyddol, fel y gwelwyd yn eglur ym mhenodau cyntaf y traethawd hwn. Yng Nghymru, mae cyfieithu wedi bod yn elfen allweddol wrth geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, ac mae'r proffesiwn cyfieithu wedi tyfu'n sylweddol er mwyn diwallu'r angen a ddaw yn sgil polisïau dwyieithrwydd.

Os yw cyfieithu yn rhan hanfodol o gynllunio ieithyddol, o greu corpws llenyddol ac o gynllunio diwylliannol yn gyffredinol, dengys yr astudiaeth hon fod cyfieithu ar y pryd yn rhan hanfodol o gynllunio iaith leiafrifol fel y Gymraeg. Bwriad yr ymchwil maes oedd canfod beth yw potensial cyfieithu ar y pryd fel dull i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg. Ac er nad yw'n bosibl dod i gasgliadau cyffredinol ar sail ymchwil maes sydd yn gyfyngedig i grwpiau arbennig o fewn un ardal, a hwnnw'n seiliedig ar nifer gweddol fychan o holiaduron, cyfweliadau ac arsylwadau, gellir yn sicr iawn godi pwyntiau y byddai'n dra gwerthfawr eu hystyried ymhellach.

Gyda'r gwahanol ddadleuon o blaid ac yn erbyn cyfieithu ar y pryd, mae'n amlwg bod cyfieithu yng Nghymru yn fforwm sy'n annog trafodaeth ar bynciau ieithyddol a chymdeithasegol. Gwelwyd na ellir dweud yn bendant ym mha fath o gyd-destunau y mae cyfieithu yn llwyddo orau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae gan bob sefyllfa ei hanawsterau ei hun. Awgrymwyd y gall fod yn haws i gyfieithu annog siarad Cymraeg mewn sefyllfa lle mae hunaniaeth a diwylliant Cymraeg yn gryf, a bod hynny'n debycach o ddigwydd mewn cyfarfodydd cymunedol yn y Fro Gymraeg.

O brofiadau a drafodwyd ym maes astudiaethau cyfieithu, gwyddom fod cyfieithwyr yn arbenigwyr mewn arsylwi ar y berthynas grym rhwng aelodau dau ddiwylliant, a'u bod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y cysylltiadau rhyngbersonol hyn. Gan fod astudiaethau cyfieithu yn delio gyda chamddealltwriaeth, sensoriaeth ac effeithiau cymdeithasol cyfieithu, mae hefyd yn faes sy'n gallu taflu goleuni ar agweddau cymhleth cymdeithas. Yng Nghymru, nid oes pwyslais digonol wedi bod hyd yma ar *gynllunio* cyfieithu, gan ystyried effaith cyfieithu ar y pryd mewn nifer o gyd-destunau gwahanol.

Cafwyd enghreifftiau o sawl math o gyfarfod, gan ddangos effeithiau amrywiol cyfieithu yn y cyfarfodydd hynny. Gwelwyd grwpiau cymysg lle na fynnodd neb (neu ddim ond ychydig o bobl) siarad Cymraeg. Nid oedd cyfieithu ym mhob un o'r achosion hynny yn gallu achosi newid yn y defnydd o'r Gymraeg. Enghraifft o gyfarfodydd felly oedd cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd Lleol lle nad oedd pob siaradwr Cymraeg yn siarad Cymraeg. Gwelwyd hefyd grwpiau mwy Cymraeg a oedd wedi penodi cyfieithydd er mwyn caniatáu i rai di-Gymraeg ddod atynt. Defnyddir cyfieithu, mewn sefyllfa gyffelyb, er mwyn gallu *parhau* i drafod yn Gymraeg. Yr enghraifft fwyaf amlwg o sefyllfa fel hyn oedd cyfarfodydd llywodraethwyr ysgol a chyngor cymuned yn Arfon.

Cyfyd hyn y cwestiynau canlynol: ai nod cyfieithu ar y pryd yw cynyddu dwyieithrwydd mewn sefyllfaoedd sydd yn bennaf yn Saesneg? Ond mewn sefyllfaoedd Cymraeg, ai yr hyn yr anelir ato yw *parhau* i'w cynnal yn Gymraeg ?

Yn sicr, rhaid ystyried sawl agwedd a all egluro'r gwahaniaeth yn llwyddiant cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd o wahanol fathau, lle mae'r cydbwysedd ieithyddol yn amrywio.

Canfuwyd ffurfioldeb cyfarfod yn fater allweddol i'w ystyried wrth gyflogi cyfieithydd, er bod gwahanol safbwyntiau ar hyn. Y ddau brif safbwynt yn hynny o beth yw, ar y naill law, fod cyfieithu ar y pryd yn gweithio'n well mewn cyfarfodydd ffurfiol, ond yn rhoi naws annaturiol i gyfarfod anffurfiol. Ar y llaw arall, ystyrir bod cyfieithu yn anos mewn cyfarfod ffurfiol oherwydd bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod yn colli rheolaeth dros yr hyn a ddywedant, tra mae'n hwyluso trafod llai ffurfiol gan ei fod yn hybu democratiaeth gymunedol.

Mae agweddau ar ddiwylliant a hunaniaeth yn graidd i'r drafodaeth, yn arbennig felly, efallai, mewn cyfarfodydd ar lefel gymunedol. Yn ôl y dystiolaeth, gall cyfieithu wneud y diwylliant lleol yn amlwg i'r rhai di-Gymraeg, gan hefyd godi statws y Gymraeg. Yn achos un cyngor cymuned ym Meirionnydd, fodd bynnag, roedd tensiynau rhwng y cefndir Cymraeg hwnnw a diwylliant y mewnfudwyr Saesneg, ac fe gynyddodd y tensiynau hynny wrth ddadlau am gyfieithu.

Dim ond os llwyddir i gysylltu hunaniaeth Gymraeg â rhagor o beuoedd (ffurfiol ac anffurfiol) y gellir anelu at gryfhau hyder pobl yn eu hunaniaeth Gymraeg. Ystyrir y Saesneg o hyd fel dolen rhwng siaradwyr Cymraeg a materion cyhoeddus (sef, popeth a drafodir mewn cyfarfod). Felly, mae dwy hunaniaeth yn

cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn rhai Cymry Cymraeg, yn enwedig pan arferir siarad Saesneg mewn sefydliad penodol. Yn Senedd Prifysgol Bangor, er enghraifft, sydd wedi ei gyhuddo o fod yn sefydliad gwrth-Gymraeg yn y gorffennol, ymddengys ei bod yn anodd newid awyrgylch ac arferion, er gwaethaf y defnydd o gyfieithu yn y cyfarfodydd, ac er gwaethaf polisïau iaith sy'n fwy rhagweithiol nag yn unrhyw brifysgol arall yng Nghymru.

Ond dengys y defnydd o gyfieithu nad yw'r sefyllfa hon yn dderbyniol mwyach, a'i bod yn bosibl cysylltu peuoedd swyddogol â hunaniaeth Gymraeg. Yr un pryd, gall y defnydd o gyfieithu ar y pryd godi amheuaeth am berchnogaeth safbwynt mewn trafodaeth, ac felly, godi amheuaeth am hunaniaeth siaradwyr hefyd.

Yn ddiddorol, mae canfyddiadau'r gwahanol atebwyr o effaith cyfieithu yn gwrth-ddweud ei gilydd. Ar y naill law, gwelir cyfieithu yn ddull i ddatgan bod y gymuned yn gymuned Gymraeg, a mynegir y farn fod naws cyfarfodydd wedi gwella. (Cofier, yn hynny o beth, lansiad Homestart Bangor, er enghraifft, lle canmolwyd natur Gymraeg y digwyddiad.) Ar y llall, teimlir bod defnyddio cyfieithu yn gwanhau'r diwylliant hwnnw oherwydd nad yw'n uniaith Gymraeg mwyach. O'r drafodaeth ynglŷn â'r Fro Gymraeg a'r posibilrwydd o sefydlu rheolau neu normau gwahanol yn yr ardaloedd hyn, ymddengys y byddai hyn yn un peth i'w ystyried wrth feddwl am bolisïau a chynllunio cyfieithu ar y pryd.

Mynegodd rhai ymatebwyr fod angen caniatáu llefydd uniaith Gymraeg, hynny yw, heb gyfieithu. Os ystyrir yn benodol at bwy yr anelir y gwasanaeth mewn cyfarfod (ar sail iaith aelodau'r grŵp), ac os cyflwynir cyfieithu ar y pryd fel rhan o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, dylai cyfieithu fod yn ffordd i sicrhau hawliau ieithyddol unigolion, yn ogystal â hawliau grŵp neu gymuned gyfan, i fod yn Gymraeg. (Rhan o'r hyfforddiant hwn fyddai defnyddio mat cyfieithu'r cadeirydd, neu drefnu ystafelloedd yn wahanol i'r arfer.)

Yn nhermau diwylliant, gwelir hefyd ddwy ffordd o edrych ar yr hyn y mae 'cymryd rhan yn y gymuned' a democratiaeth yn ei olygu. Perthyn yw'r peth pwysig i rai. Mae eraill yn ceisio dylanwadu ar ddigwyddiadau a pholisïau, a gwneud eu cyfraniad yn y modd hwn. Mewn rhai cyfarfodydd, yr aelodau di-Gymraeg yw'r rhai sydd am newid pethau a gwneud eu marc, a hynny drwy gydio yn yr awenau a chyfeirio at reolau a chyfreithiau. Ac er mai bwriad y Cymry Cymraeg wrth gyflogi cyfieithydd yw annog parch, dealltwriaeth a diddordeb yn y

gymuned, ni cheir yr argraff oddi wrth holl atebion y di-Gymraeg am brif bwrpas cyfieithu eu bod yn deall hyn yn yr un modd.

Hyder yw un o'r ystyriaethau mwyaf sylfaenol wrth drafod dylanwad cyfieithu ar y pryd ar y defnydd o'r Gymraeg. Mae hyder pob unigolyn yn wahanol i gychwyn, ac mae ymateb pawb yn wahanol mewn cyd-destunau amrywiol. Yn un peth, gall pobl golli eu hyder wrth deimlo bod siarad Cymraeg yn tynnu sylw atynt yn bersonol. Gall argraff o chwalu'r agosatrwydd arferol mewn cyfarfod cymunedol trwy gyfieithu hefyd beri i rywun golli ei hyder. Dro arall, teimla ambell un fod y defnydd o ddwy iaith mewn achlysur yn gwanhau ei ddadl, ac felly, gall golli ei hyder i ddadlau. Dan amgylchiadau megis cyfweliadau, gall y defnydd o gyfieithu ar y pryd danseilio hyder siaradwyr Cymraeg oherwydd teimlad eu bod yn creu 'anghenion arbennig'.

Ni ddymunir yma bortreadu'r Cymry Cymraeg fel pobl heb hyder. Os edrychir ar y sefyllfa o safbwynt cymdeithasegol a chynllunio ieithyddol, fel y gwnaethpwyd, ymddengys fod siaradwyr Cymraeg yn fodlon 'ildio', a'u bod yn llarïaidd. Gellir disgrifio hyn fel gwendid sy'n deillio o hanes cymdeithasol Cymru. Ac er bod gwirionedd yn sicr yn hynny, rhaid cofio hefyd y gallai adlewyrchu gwerthoedd cymdeithas arbennig ac mai rhinwedd fyddai peidio â bod yn ymwthiol. O ganlyniad, gallai fod yn anodd cymell siaradwyr Cymraeg i gymryd yr awenau mewn grwpiau cymysg. (Yn wir, mae'n ddigon tebyg bod y ddau bwynt hyn yn gysylltiedig â'i gilydd.)

Fodd bynnag, fel egwyddor ddemocrataidd, mae'n bwysig pwysleisio y gall gwasanaeth cyfieithu gryfhau awydd siaradwyr Cymraeg i leisio eu barn mewn cyfarfodydd lled Saesneg. Os ydynt yn anghyfforddus yn dadlau yn Saesneg ac yn fwy bodlon cyfrannu at drafodaeth yn Gymraeg, gall gwasanaeth cyfieithu ar y pryd sicrhau bod eu safbwynt yn cael ei glywed. Ymddengys mai dyna ddigwyddodd mewn nifer o achlysuron ac i'r atebwyr gadarnhau bod y cyfarfodydd yn fwy democrataidd, neu bod y Cymry Cymraeg yn fwy bodlon siarad a chyfrannu. Ac yn hynny o beth, rhaid dweud mai cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg a wna cyfieithu.

Wrth gwrs, gellir hefyd ddehongli cyfieithu fel dull i gadw'r ddwy garfan ieithyddol ar wahân. Byddai'n bosibl dadlau bod cyfieithu'n golygu na fyn y Cymry Cymraeg adael i'r di-Gymraeg gymryd rhan, ond o hyd braich. O safbwynt y di-Gymraeg, gellid awgrymu eu bod am gymryd rhan, ond gan wneud hynny

heb ymroi yn wirioneddol i'r gymuned Gymraeg. Ond nid yw hyn yn argraff a geir ar y cyfan o'r ymatebion.

Un o'r canfyddiadau yn ddi-ddadl yw'r ffaith fod cyfieithu yn gallu codi statws y Gymraeg. Mae'n gam yn y broses o ddefnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd newydd. Trwy newidiadau bach ym mhatrymau defnyddio iaith dros gyfnod hir, gall defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd helpu i sefydliadoli'r Gymraeg fel iaith trafodaethau ar bob lefel. Mae hyn yn bwysig er mwyn dangos mai cyfrwng, nid pwnc, yw'r Gymraeg. Llwyddodd hyn dros y blynyddoedd yn yr awdurdodau lleol Cymreiciaf megis Gwynedd a Môn. Efallai mai mater o amser yn unig yw cael gweld pa ddylanwad y bydd gwasanaethau cyfieithu wedi ei gael yn rhai o'r grwpiau a astudiwyd.

Pwysleisir mai un ddolen mewn cadwyn o elfennau a all newid arferion yw cyfieithu. Gall cyfieithu testun, er enghraifft, gefnogi pobl wrth iddynt ddod i arfer â therminoleg newydd yn Gymraeg, gan roi'r cyfle iddynt baratoi ar gyfer cyfarfodydd ymlaen llaw. Gall cyfieithu effeithio yn raddol ar agweddau pobl tuag at ddilysrwydd yr iaith mewn gwahanol gyd-destunau, a chreu amgylchiadau lle mae siarad Cymraeg yn dderbyniol, yn ddisgwyliedig, ac yn norm gymdeithasol newydd.

Gwelwyd hyn yn fwriad yng nghyfarfodydd Awdurdod yr Heddlu. A thra mae'r defnydd o'r Gymraeg yn Heddlu Gogledd Cymru wedi cryfhau'n aruthrol gyda chefnogaeth arbennig y Prif Gwnstabl presennol, nid yw mor amlwg yn yr Awdurdod, a hynny efallai gan ei fod yn gorff llai hierarchaidd. Mae hyn yn dangos nad dim ond lleoliad sefydliad, na'r iaith a siaredir yn yr ardal, sy'n bwysig wrth ystyried pa effaith y mae gwasanaethau cyfieithu yn ei gael. Mae math y sefydliad yn bwysig hefyd. Gall fod yna wahaniaeth, er enghraifft, rhwng sefydliad hierarchaidd lle mae ewyllys y pennaeth yn allweddol i ddatblygiadau mewnol, a sefydliad mwy democrataidd lle cymerir penderfyniadau ar wahanol lefelau yn sgil trafodaeth.

Ar ôl cynnal yr ymchwil hwn yng Ngwynedd, sylweddolir y byddai'n fuddiol cynnal ymchwil pellach er mwyn canfod a oes amrywiaeth yn agweddau ac arferion defnyddio cyfieithu ar y pryd ledled Cymru. Hyd yma, ystyrir cyfieithu o safbwynt cynllunio ieithyddol yng Nghymru fel rhywbeth i lenwi'r bylchau sy'n agor o hyd. Ond mae angen gwybod sut orau i gynllunio cyfieithu er mwyn iddo fod yn effeithiol. I'r perwyl hwn, dylid astudio cyfieithu yn ôl ardaloedd, ac yn ôl

y math o grwpiau sy'n ei ddefnyddio. Gellid gwneud astudiaethau o sefydliadau lle mae cyfieithu wedi cyfrannu at newid, gan edrych ar hanes defnyddio cyfieithu yn y sefydliadau hyn a'r ffordd y cafodd cyfieithu ei glymu gyda pholisïau iaith mwy cyffredinol. Gellid astudio hefyd sefyllfa'r cyfieithydd fel unigolyn o safbwynt defnyddwyr, er mwyn canfod a yw'n cael ei weld fel 'un ohonom ni' neu fel 'un o'r lleill'. Gallai hynny daflu goleuni ar resymau pam a phryd y mae cyfieithu yn llwyddo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Bwriad ymchwil o'r fath fyddai canfod a yw cyfieithu yn gweithio yn bennaf pan mae polisïau iaith ac arferion wedi creu awyrgylch lle mae pobl yn fodlon manteisio ar y gwasanaeth, ynteu a all, yn ogystal, gyfrannu at newid awyrgylch yn y lle cyntaf. Ac os y cydnabyddir nad cyfieithu yw'r unig fodd i annog pobl i siarad Cymraeg, dylid derbyn hefyd fod lle i gyfarfodydd a digwyddiadau uniaith Gymraeg (ac ardaloedd hyd yn oed?). Yn yr achosion hynny, gellid defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd fel dull dros dro, nes bo dysgwyr yn ymsefydlu (gan wneud hynny'n glir o'r dechrau).

Dywedodd David Johnston (cyd-gyfarwyddwr 'Betwixt and Between', fforwm ymchwil i gyfieithu a chysylltiadau diwylliannol Prifysgol Queen's Belfast) mewn cynhadledd ar gyfieithu a gwrthdaro a gynhaliwyd ym Manceinion yn 2006 fod pob lleoliad yn cynrychioli cymaint o lefydd ag y sydd o safbwyntiau, golygfeydd a chysylltiadau personol amdano. Dadleuodd fod pobl, pan mae lle cyfarwydd yn dechrau mynd yn ddieithr, yn eu cyfieithu eu hunain (mewn ystyr eang) i le newydd. Hynny yw, maent yn dehongli'r lle mewn modd newydd sy'n caniatáu iddo fod yn gyfarwydd unwaith eto. Mae hyn yn digwydd gyda newidiadau iaith hefyd. Bydd pobl yn dod i arfer â defnydd iaith gwahanol. Felly, yn ogystal â chreu llefydd newydd i'r Gymraeg mewn peuoedd swyddogol, gall cyfieithu ar y pryd ddod â llefydd yn ôl a gollwyd, a hynny mewn peuoedd cymunedol mewn ardaloedd lle mae mewnfudiad di-Gymraeg wedi newid arferion ieithyddol. Os oes amheuaeth am hunaniaeth Gymraeg, fe all cyfieithu fod yn ffordd i gadarnhau'r hunaniaeth honno, gan sicrhau ei bod yn gallu parhau.

Hoffwn weld yr ymchwil hwn fel man cychwyn i ymchwil manylach ac ehangach i gyfieithu yng Nghymru. Hyderir bod y pwyntiau a gododd yng nghwrs yr ymchwil hwn yn cyfiawnhau ymchwil o'r fath a fyddai o fantais i gynllunio ieithyddol ac astudiaethau cyfieithu fel ei gilydd.

# ATODIADAU

# RHESTR O GRWPIAU A GYMERODD RAN YM MHROSIECT HWB

Ann Davies, Y Bala
Becws Eryri, Llanberis
Canolfan Amgylcheddol Moelyci, Tregarth
Cantre Bala
Clwb Rygbi Caernarfon
Cyfeillion Cadw Tremadog
Cyfeillion Croesor
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Porthmadog
Cymdeithas Alzheimers Bangor
Cymdeithas Cŵn Defaid Gogledd Cymru
Cymdeithas Hanes Meirionnydd
Cymdeithas y Cymod Dwyryd a Glaslyn
Cymunedau'n Gyntaf Abermaw
Cyngor Cymuned Aberdaron
Cyngor Cymuned Abergwyngregyn
Cyngor Cymuned Beddgelert
Cyngor Cymuned Corris
Cyngor Cymuned Dolgellau
Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy
Cyngor Cymuned Garndolbenmaen
Cyngor Cymuned Llanfrothen
Cyngor Cymuned Llanllechid
Cyngor Cymuned Y Felinheli
Cyngor Tref Blaenau Ffestiniog
Ffederasiwn Tenantiaid Gwynedd
Gefeillio Porthmadog – Wicklow
GISDA, Caernarfon
Grŵp Adfywio Dinas Mawddwy
Grŵp Beicio Llanberis
Grŵp Ffordd Osgoi Penmorfa
Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
Gweithgor Dyffryn Dulas
Homestart Bangor
Meningitis Cymru
Menter Llanfrothen
Menter Llanystumdwy
Menter Llyfni
Mudiad Ysgolion Meithrin Meirionnydd
Partneriaeth Dolgellau
Pwyllgor Rheoli Pentref Penrhyndeudraeth
Trobwynt
Trydan i Abergeirw
Un Llais i Gymru
Ymddiriedolaeth Tir Dyffryn Nantlle
Yn Ein Blaenau

Ysgol Cwm y Glo
Ysgol Treferthyr Cricieth

## Pwyso a mesur cyfieithu ar y pryd
## *Evaluating simultaneous translation*

**Y cyfarfod / *The meeting***

Mudiad/ …………………………………………………………………………………
*Organisation:*

Lleoliad: …………………………………………………………… Dyddiad: ……………
*Location:* *Date:*

Nifer y Cymry Cymraeg (yn fras): ………………… Nifer y di-Gymraeg: ………
*No. of Welsh speakers (approx):* *non-Welsh speakers:*

Faint o gyfieithu oedd yn y cyfarfod?
*How much simultaneous translation took place in your meeting?*

100% ☐ 75% ☐ 50% ☐ 25% ☐ llai/*less* ☐

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

A yw'r cyfieithu yn newid eich cyfarfodydd mewn unrhyw ffordd?
*Has translation changed your meetings in any way?*

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r cyfieithu yn eich cyfarfod:
*Any other comment regarding the translation in your meeting:*

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

## Pwyso a mesur cyfieithu ar y pryd

**Y cyfarfod**

Mudiad: …………………………………………………………………………..

Lleoliad: ………………………………… Dyddiad: ……………………….

Nifer y Cymry Cymraeg : ……………. Nifer y di-Gymraeg: ……..…..

Faint o gyfieithu oedd yn y cyfarfod?

100% ☐ 75% ☐ 50% ☐ 25% ☐ llai ☐

A oedd pawb yn hyderus i ddefnyddio’r gwasanaeth?

……………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………………

A oedd y cadeirydd yn cadeirio’r cyfarfod yn hyderus gan fod yn effro i unrhyw anhawster a gâi’r cyfieithydd neu’r gwrandawr ar y cyfieithiad?

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

A oedd yn annog siaradwyr i gyfrannu’n y Gymraeg?

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

Unrhyw sylw am y profiad o gyfieithu yn y cyfarfod hwn?

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………

**HOLIADUR CYFIEITHU AR Y PRYD I GRWPIAU HWB GWYNEDD ATODIAD B.3**

**A. Manylion y grŵp**

Enw ______________________________________________________

Lleoliad __________________________________________________

Faint o siaradwyr Cymraeg ________ di-Gymraeg __________

**B. Manylion personol**

| Cymro Cymraeg | Siaradwr Cymraeg | Dysgwr rhugl | Dysgwr | di-Gymraeg |
|---|---|---|---|---|

Os ateboch eich bod yn gallu siarad Cymraeg, pa rhai o'r canlynol ydych chi'n eu gwneud yn rheolaidd?

Rwy'n siarad Cymraeg ☐
Rwy'n deall Cymraeg llafar ☐
Rwy'n darllen Cymraeg ☐
Rwy'n ysgrifennu Cymraeg ☐

**C. Cyfieithu ar y pryd yn eich cyfarfodydd**

1. Pa mor aml rydych chi wedi cael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn eich cyfarfodydd?

Pob cyfarfod (100%) ☐
Rhan fwyaf o gyfarfodydd (67% to 99%) ☐
Rhai cyfarfodydd (34% to 66%) ☐
Ychydig o gyfarfodydd (1% to 33%) ☐
Dim un cyfarfod (0%) ☐

2. Beth oedd iaith eich cyfarfodydd cyn i chi ddechrau gyda chyfieithu ar y pryd?

Cymraeg ☐
Mwy o Gymraeg na Saesneg ☐
Yr un faint o Gymraeg a Saesneg ☐
Mwy o Saesneg na Chymraeg ☐
Saesneg ☐

Manylion:_________________________________________________

3. Pam y penderfynoch chi ddechrau cynnig gwasanaeth cyfieithu yn eich cyfarfodydd?

________________________________________________________
________________________________________________________
________________________________________________________

4. Ar ôl i grant HWB ddod i ben fis Mehefin 2006, beth oedd penderfyniad eich grŵp ynghylch cyfieithu ar y pryd yn eich cyfarfodydd?

Parhau i gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ☐
Rhoi'r gorau i gynnig gwasanaeth cyfieithu ☐

A fedrwch egluro'r penderfyniad hwn? A ydych chi'n cytuno?

________________________________________________________
________________________________________________________
________________________________________________________

5. Beth yn eich barn chi yw'r rhesymau dros gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd yng Nghymru? Ticiwch un blwch ym mhob rhes.

| | Pwysig iawn | Pwysig | Tipyn bach yn bwysig | Dim mor bwysig | Dim yn bwysig o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| Hawl i siaradwyr Cymraeg siarad Cymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Hawl i'r di-Gymraeg ddeall beth sy'n cael ei ddweud | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Hawl i'r grŵp fod yn grŵp Cymraeg ei iaith | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dangos bod y grŵp yn ddwyieithog | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Denu mwy o bobl at y grŵp | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Lledaenu'r defnydd o'r Gymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwneud datganiad bod y gymuned yn gymuned Gymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Arall:

________________________________________________________

6. Pwy ydych chi'n meddwl sy'n elwa fwyaf o'r gwasanaeth cyfieithu?

| | Yn elwa'n fawr | Dim yn elwa nac yn colli | Dim yn elwa |
|---|---|---|---|
| Siaradwyr Cymraeg | ☐ | ☐ | ☐ |
| Siaradwyr di-Gymraeg | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y grŵp cyfan | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y gymuned ehangach | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yr iaith Gymraeg ei hun | ☐ | ☐ | ☐ |

A fedrwch egluro eich barn?

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

7. A yw aelodaeth eich grŵp wedi newid ers ichi gynnig gwasaneth cyfieithu?

| | |
|---|---|
| Ydi, mae mwy o siaradwyr Cymraeg wedi ymuno | ☐ |
| Ydi, mae mwy o siaradwyr di-Gymraeg wedi ymuno | ☐ |
| Nac ydi, mae'r aelodaeth yn dal yr un fath | ☐ |
| Ydi, mae llai o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp | ☐ |
| Ydi, mae llai o siaradwyr di-Gymraeg yn y grŵp | ☐ |

8. Dach chi'n teimlo bod pethau wedi newid i chi fel unigolyn ers i chi gynnig cyfieithu? Ticiwch un blwch ym mhob rhes.

| | Wedi gwella llawer | Wedi gwella | Dim newid | Wedi dirywio | Wedi dirywio llawer |
|---|---|---|---|---|---|
| Eich perthynas gyda siaradwyr Cymraeg y grŵp | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eich perthynas gyda siaradwyr di-Gymraeg y grŵp | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eich sefyllfa bersonol yn y grŵp | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Statws y Gymraeg yn y grŵp | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Agwedd y siaradwyr Cymraeg at eu hiaith | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Agwedd y di-Gymraeg at yr iaith Gymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Naws eich cyfarfodydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eich hawliau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hunaniaeth y grŵp | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eich hyder i siarad Cymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Arall (rhowch fanylion)

____________________________________________

____________________________________________

9. A ydych yn meddwl bod y ffordd y mae'r grŵp yn dod i benderfyniadau wedi newid? Ym mha ffordd?

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

10. Os ydych yn ddi-Gymraeg, a ydych wedi ystyried dysgu Cymraeg ers i'r grŵp gynnig gwasanaeth cyfieithu yn eich cyfarfodydd?

Do Naddo ☐

11. Beth, ers defnyddio cyfieithu yn eich cyfarfodydd, ydych chi wedi ei ddysgu am y canlynol? Os dim byd ychwanegol, nodwch 'dim'.

Y Cymry Cymraeg ____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

Y diwylliant lleol Cymreig ____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

Y di-Gymraeg ____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

Yr iaith Gymraeg ____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

## Ch. Defnydd o'r Gymraeg

1. A yw'r cyd-destun pan ydych chi'n siarad Cymraeg wedi newid ers dechrau cynnig cyfieithu? Meddyliwch am y sefyllfaoedd yr oeddech chi'n siarad Cymraeg cyn derbyn gwasanaeth cyfieithu, ac ers hynny. Ysgrifennwch 'Cymraeg' neu 'Saesneg' i bob blwch.

| | Cyn derbyn gwasanaeth cyfieithu | Ers derbyn gwasanaeth cyfieithu |
|---|---|---|
| Pa iaith ydych/a oeddech yn siarad yn anffurfiol cyn ac ar ôl y cyfarfod gyda siaradwyr Cymraeg | | |
| Pa iaith ydych/a oeddech yn siarad yn anffurfiol cyn ac ar ôl y cyfarfod gyda grwpiau cymysg o siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg? | | |
| Pa iaith ydych/a oeddech yn ei defnyddio wrth siarad yn llawer mwy ffurfiol yn y cyfarfod (e.e. cyflwyniad, cais)? | | |
| Pa iaith ydych/a oeddech yn siarad mewn trafodaeth agored yn y cyfarfod? | | |

2. A oeddech/ydych yn siarad Saesneg pan oedd/mae cyfieithu ar gael? A fedrwch chi esbonio pam?

________________________________________

________________________________________

________________________________________

3. Pa bryd fyddwch chi **ddim** yn siarad Cymraeg? Pam?

________________________________________

________________________________________

________________________________________

## D. Llwyddo a methu cyfieithu

1. A fyddech chi'n argymell i grwpiau tebyg ddechrau defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn eu cyfarfodydd? Eglurwch pam.

________________________________________

________________________________________

2. Beth yn eich barn fyddai'n digwydd yn eich grŵp petaech yn stopio cyfieithu ar y pryd rwan? A fedrwch esbonio pam y byddai hyn yn digwydd?

   ___

   ___

   ___

3. A oes gennych brofiadau o gyfarfodydd pan na weithiodd cyfieithu ar y pryd i'w lawn botensial? Rhowch fanylion.

   ___

   ___

   ___

4. Petaech chi'n penderfynu ar bolisi sut i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a dod â phobl o'r ddwy iaith at ei gilydd, a fyddech yn rhoi rôl pwysig i gyfieithu ar y pryd?

   ___

   ___

   ___

Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn eich grŵp, mae croeso i chi eu nodi yma..

___

___

___

*Diolch yn fawr am eich amser a'ch ystyriaeth wrth lenwi'r holiadur hwn.*

**A. Details of the group**

Name ____________________________________________________

Location __________________________________________________

How many Welsh speakers ________ non-Welsh speakers__________

**B. Personal details**

Welsh speaker   Fluent learner   Learner ☐   non-Welsh speaker ☐

If you answered that you can speak Welsh, which of the following are you doing regularly?

I speak Welsh ☐
I understand spoken Welsh ☐
I read Welsh ☐
I write Welsh ☐

**C. Simultaneous translation in your meetings**

1. How often did you get a simultaneous translation service in your meetings?

Every meeting (100%) ☐
Most meetings (67% to 99%) ☐
Some meetings (34% to 66%) ☐
A few meetings (1% to 33%) ☐
No meetings (0%) ☐

2. What was the language of your meetings before starting to offer translation?

Welsh ☐
More Welsh than English ☐
English and Welsh about equally ☐
More English than Welsh ☐
English ☐

Details:___________________________________________________

3. Why did you decide to offer simultaneous translation in your meetings?

__________________________________________________________

__________________________________________________________

4. What was your group's decision regarding simultaneous translation in your meetings after the HWB grant stopped in June 2006?

   Carrying on with the translation service ☐
   Stopping to offer simultaneous translation services ☐

   Can you explain your decision? Do you agree with it?

   ______________________________________________
   ______________________________________________
   ______________________________________________

5. In your opinion, what are the reasons for offering simultaneous translation in meetings throughout Wales? Tick one box in every row.

| | Very important | Important | Somewhat important | Not very important | Not at all important |
|---|---|---|---|---|---|
| The right for Welsh speakers to speak Welsh | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| The right for non-Welsh speakers to understand what is said | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| The right for the group to be a Welsh-speaking group | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Show that the group is bilingual | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Attract more people to the group | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Increasing the use of Welsh | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Make a declaration that the community is a Welsh-speaking community | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Other:

______________________________________________

6. Who do you think benefits most from the translation service?

| | Benefit a lot | Neither benefit nor lose out | Do not benefit |
|---|---|---|---|
| Welsh speakers | ☐ | ☐ | ☐ |
| Non-Welsh speakers | ☐ | ☐ | ☐ |
| The group as a whole | ☐ | ☐ | ☐ |
| The wider community | ☐ | ☐ | ☐ |
| The Welsh language itself | ☐ | ☐ | ☐ |

Can you explain your opinion?

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

7. Has the membership of your group changed since you introduced the translation service?

| | |
|---|---|
| Yes, more Welsh speakers have joined the group | ☐ |
| Yes, more non-Welsh speakers have joined the group | ☐ |
| No, membership has remained the same | ☐ |
| Yes, there are fewer Welsh speakers in the group | ☐ |
| Yes, there are fewer English speakers in the group | ☐ |

8. Do you feel that things have changed for you personally since you started offering simultaneous translation? Tick one box in every row.

| | Improved a lot | Improved a little | No change | Worsened a little | Worsened a lot |
|---|---|---|---|---|---|
| Your relationship with Welsh speakers in the group | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Your relationship with the non-Welsh in the group | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Your personal position in the group | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| The status of Welsh in the group | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| The attitude of Welsh speakers towards their language | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| The attitude of the non-Welsh towards the Welsh language | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| The ambience of your meetings | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Your rights | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Group identity | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Your confidence to speak Welsh | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Other (please specify)

______________________________

______________________________

9. Do you think that the way the group makes decisions has changed? In what way?

______________________________

______________________________

______________________________

10. If you do not speak Welsh, have you considered learning Welsh since the group started to offer translation services in your meetings?

Yes ☐ No ☐

11. What, since using translation in your meetings, have you learned about the following? If nothing extra, please state 'nothing'.

Welsh speakers ______________________________

______________________________

______________________________

The Welsh local culture ______________________________

______________________________

______________________________

Non-Welsh speakers ______________________________

______________________________

______________________________

The Welsh language ______________________________
______________________________
______________________________

**Ch. Use of Welsh (for Welsh speakers and learners only)**

2. Have the contexts in which you speak Welsh changed since you are using simultaneous translation? Think of situations in which you would speak Welsh before and since translation. Write 'Welsh' or 'English into each box.

| | Before translation | Since translation |
|---|---|---|
| Which language did/do you speak informally before and after the meeting with Welsh speakers? | | |
| Which language did/do you speak informally before and after the meeting with mixed groups of Welsh and non-Welsh speakers? | | |
| Which language did/do you use to speak formally in meetings (e.g. presentations, motions)? | | |
| Which language did/do you speak in open discussions of the meeting? | | |

2. Did/do you speak English when a translator is present? Can you explain why?
______________________________
______________________________
______________________________

3. At what times will you **not** speak Welsh? Why?
______________________________
______________________________
______________________________

## D. Success and failure of translation

2. Would you recommend using simultaneous translation services to similar groups in their meetings? Explain why.

____________________________________________________________

2. What do you think would happen if you now stopped using simultaneous translating in your meetings. Can you explain why this would happen?

____________________________________________________________

3. Have you got experience of situations where simultaneous translation did not work to its full potential? Please give details.

____________________________________________________________

4. If you had to decide on a policy how to increase the use of Welsh and bring people of both languages together, would you think that simultaneous translation plays an important role?

____________________________________________________________

If you have any other comments on using simultaneous translation services in your group, you are welcome to write them down here.

____________________________________________________________

*Thank you very much for your time and consideration filling in this questionnaire.*

# CYFWELIAD 1

Cyfieithydd
3 Ebrill 2007

*…Oeddet ti wedi siarad am ba effaith oedd cyfieithu wedi cael ar y cyngor cymuned yno. Oeddet ti'n meddwl bod mwy o bobl newydd wedi dod at y grŵp?*

Oeddwn. 'Swn i'n dweud i ddechrau cychwyn mai dim ond un cynghorydd Saesneg oedd yna ar y dechrau, a wedyn yn anffodus oherwydd natur yr unigolyn yna mi oedd o'n trio denu mwy a mwy o bobl yno, i'w ddibenion ei hun mewn ffordd. Achos doedd o ddim isio teimlo ei fod o ar ben ei hun.

*Er mwyn cyfiawnhau y cyfieithu?*

Ia, mewn ffordd. Dwi'n meddwl bod o'n teimlo bod o yn un ar ben ei hun ac y bysai fo'n teimlo'n well petai 'na fwy o bobol o'i hun yno.

*Ac oedd o wedi bod yn y Gadair i ddechrau, 'doedd? Pryd hynny oedden nhw'n dechrau cyfieithu?*

'Na fo. Oedd o'n gynghorydd am rai flynyddoedd cyn hynny. [2] A wedyn aeth o i'r Gadair, ac roedd y cynghorwyr eraill yn wirioneddol yn gwrthwynebu'r ffaith fod o am dderbyn mynd i'r Gadair a fyntau ddim yn siarad Cymraeg.

*A pham wnaethon nhw ei ethol o beth bynnag?*

Dwi'n meddwl beth sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o'r cynghorau tref ydy nid cael eu hethol fel y cyfryw maen nhw, mae dy dro di'n dwad, ac wedyn wyt ti'n dewis mynd i'r Gadair ai peidio. Ac mewn ffordd oedden nhw'n disgwyl iddo fo wneud y peth iawn yn eu barn nhw a peidio mynd i'r Gadair.

*A phryd hynny wnaethon nhw gychwyn efo cyfieithu? Oedd o'n iawn efo'r Gymraeg cyn hynny?*

Oedd. Mae rhaid fod o'n eistedd yna ac yn gwrando, a dwi'n cymryd fod o'n cyfrannu bob hyn a hyn achos oedd y rhai eraill yn dweud, [3] oedd o wedi bod yn dysgu Cymraeg, oedd o wedi cael gwersi ers blynyddoedd lawer. Dwn i ddim pam oedd o'n meddwl mwyaf sydyn fod o angen cyfieithu yna.

*Wyt ti'n gweld bod perthynas y bobl yn y grŵp wedi newid ers i ti fod yna?*

[4] Doeddwn i ddim yna ymlaen llaw, ond oeddwn i'n ymwybodol bod 'na lot o densiynau cyn i mi fynd yna. Pan oeddwn i'n mynd yna i ddechrau doedden nhw ddim yn cuddio eu teimladau o gwbwl. [5] A dweud y gwir bron iawn bysat ti'n dweud mai dyna oedd y prif beth er nad oedd o ddim i lawr ar yr agenda. Oedd o'n codi ym mhob cyfarfod. Oedd y cynghorwyr yn codi'r peth ynglŷn â'r cyfieithu. Oedden nhw'n siarad efo fi ar y diwedd ac yn dweud, 'gwranda dydi o ddim byd personol o gwbwl i wneud efo chdi. [6] Dan i'n gwrthwynebu dim bod 'na gyfieithydd yma, dim ond fod o yn y Gadair a bod o ddim yn siarad Cymraeg.'

*Ac mi oedd hyn yn eitem ym mhob cyfarfod?*

Oedd, ond doedd o ddim ar yr agenda. Ond oedd o'n eitem oedden nhw isio ei drafod a gwneud y pwynt bob cyfarfod.

*Oes 'na ryw ganlyniad wedi bod i'r drafodaeth?*

Dwi'n meddwl oedd Bwrdd yr Iaith yna, ddoth 'na gynrychiolydd o Bwrdd yr Iaith ac [7] oedden nhw isio gwybod yn iawn a oedd yn rhaid iddyn nhw ddarparu cyfieithu ai peidio. A mi ddywedodd Bwrdd yr Iaith cyn belled â bod y cyngor yn gwneud ymdrech i wneud rhyw fath o ddarpariaeth, dim o anghenraid cael cyfieithydd yna – mi fedr fod yn rhywun yn eistedd wrth ei ochr o yn dweud beth oedd yn mynd ymlaen yn y cyfarfod neu sut bynnag – bod hynny'n ddigon teg. [8] Ond nad oedd yn rhaid iddyn nhw ddarparu cyfieithu ar gyfer neb yn y galeri cyhoeddus. A fel dwi'n dweud un oedd o ar y dechrau. Mae 'na gynghorydd arall wedi dod ar y cyngor rŵan, [9] ond mae o [y cynghorydd cyntaf] hefyd wedi denu dipyn go lew o'i ffrindiau i eistedd yn y galeri cyhoeddus. Ac mae o'n mynnu rŵan bod nhw'n cael y cyfieithu hefyd er bod gynnon nhw ddim hawl. [10] Dydy'r cyngor erioed wedi pasio bod gynnon nhw hawl. Er – don i ddim wedi mynd â digon o glustffonau rhyw dro a mi wnes i godi'r ffaith: wel, daru chi erioed ofyn i mi ddarparu cyfieithu ar gyfer y cyhoedd a does dim rhaid i'r cyngor ddarparu cyfieithu ar gyfer y cyhoedd.

*Beth wyt ti'n gweld yn digwydd mewn cyfarfodydd tebyg eraill yr wyt ti'n mynd iddyn nhw? Grwpiau cymunedol eraill, neu hyd yn oed grwpiau lle wyt ti'n gweithio? Ydy o'n wahanol?*

Yn Blaenau, er enghraifft, dydy'r broblem dim yn bodoli ddim mwy, ond mi oedd 'na densiwn yno er dim cymaint â beth oedd 'na yn [y cyngor arall yn D]. [11] Ond mi oedden nhw'n gwrthwynebu mai'r cyngor oedd yn gorfod talu am y gwasanaeth.

*Beth oedden nhw'n ei feddwl pwy dylai gario'r gost?*

Oedden nhw'n dweud yn berffaith amlwg y person sydd angen y cyfieithu dylai dalu yn hytrach na'u bod nhw'n defnyddio pres y trethdalwyr i dalu am y gwasanaeth.

*Ond pam mae'r tensiwn yna wedi mynd rŵan?*

Achos mae'r person wedi gadael. Er doedd o ddim yn berson mor slei (dwni ddim ydy'r gair yn rhy gryf) ag y mae'r person 'ma sydd yn D. [12] Wyt ti yn cael y teimlad braidd efo fo fod o'n tueddu i gynllwynio i drio newid natur y cyfarfod. Swn i'n mynd mor bell â dweud weithiau mae o'n wên i gyd pan mae'r cyfarfod wedi troi'n Saesneg. Mae'n wên i gyd dw i wedi sylwi arno fo. Yn anffodus.

*Felly wyt ti'n teimlo weithiau mae'r Cymry Cymraeg yn rhoi i mewn?*

Ydyn, heb sylweddoli. [13] Weithiau maen nhw'n meddwl am mod i yna'n hun, O, well i ni droi i Saesneg rŵan i roi gorffwys i'r cyfieithydd. Ond fysai well gen i stryffaglu ymlaen yn hytrach na gweld o'n troi'n gyfarfod Saesneg.

*Wel, ti sy'n gwybod faint fedri di wneud.*

Ia, er weithiau dwi ar fy mhedwar yn dod o fan 'na achos mod i'n gwneud o ar fy mhen fy hun. Dro arall, achos bod 'na gynghorydd arall wedi ymuno rŵan ac [14] oherwydd bod y cynghorydd yma yn gynghorydd gwell ac wedi cyfrannu yn adeiladol tuag at waith y cyngor, mae 'na fwy o dueddiad rŵan i siarad Saesneg, does 'na ddim gymaint o wrthwynebiad iddo fo o ran siarad Saesneg hefo fo.

*Am fod na ddau rŵan?*

Am fod 'na ddau. Ond oedd cymeriad ac agwedd y cynghorydd cyntaf yn amlwg yn erbyn y Gymraeg yn y bôn. Ond efo'r dyn yma, [15] fel dwi'n dweud mae o'n un o'r bobl yma sy'n medru arwain mewn cyfarfod ac oherwydd ei fod o o natur a phersonoliaeth fel yna, achos bod o'n dod mor naturiol i'r Cymry ein bod ni'n siarad y ddwy iaith, maen nhw'n newid i'r Saesneg mewn trafodaeth yn hytrach na chanolbwyntio a chario ymlaen yn Gymraeg.

*Wyt ti'n meddwl bod hyn yn broblem hefyd? Efallai bod bobl ddim mor ymwybodol o hyn, ond y ffaith ei fod o'n arwain y sgwrs? Dw i wedi clywed gan bobl eraill bod y Saeson yn fwy bodlon i arwain sgwrs a'r drafodaeth ac mae'r Cymry mwy yn y cefndir ac felly maen nhw'n fwy bodlon efallai i siarad Saesneg er bod nhw ddim wir isio gwneud. Ond mae'n dod yn reddfol bron eu bod nhw'n siarad Saesneg pan mae'r Sais yn arwain.*

Ydy, mae hynna braidd yn anffodus.

*Wyt ti wedi bod yn eu cyfarfodydd weithiau pan nad oedd y dyn yma yna ar y noson a bod rhywun arall wedi cymryd drosodd i arwain y sgwrs?*

[16] Ydy, mae'r Cymry yn medru arwain yn iawn oni bai bod 'na rywun arall wneith wneud o yn eu lle nhw. Dyna ydy'r tueddiad. Maen nhw'n tueddu ychydig bach i fod yn meddylfryd defaid braidd. Os oes 'na rywun arall sy isio cymryd yr arweiniad maen nhw'n hapus i ddilyn reit aml. Heb sylweddoli bod nhw'n gwneud.

*Achos bod nhw wedi cael eu cyflyru i wneud?*

[17] Ia, yn hanesyddol hwyrach. Bosib. A wyt ti'n gweld bod y Saeson yn tueddu i fod yn hapusach pan maen nhw'n arwain y drafodaeth.

*Beth wyt ti'n ei weld yn y gwaith? Ydy'r un peth yn digwydd? Neu ydy'r bobl yn y gwaith yn fwy ymwybodol neu'n llai ymwybodol o ba iaith mae'n nhw'n ei siarad neu sut maen nhw'n trafod efo'i gilydd, neu pwy sy'n arwain?*

[18] Na, swn i'n dweud yn y gwaith mae 'na ymdeimlo cryf gan aelodau unigol a gan swyddogion hefyd o ran cynnal y sgwrs yn Gymraeg, ac maen nhw wedi hen arfer hefyd hefo cyfieithu. Maen nhw'n fwy cadarn yn y ffordd maen nhw'n

meddwl. Maen nhw ar lefel uwch mewn ffordd. Dydyn nhw ddim yn tueddu i gael eu cyflyru gan neb hyd yn oed os oes – mae'r lefel gallu ar bwyllgorau fel yna yn debycach, does yna neb yn sefyll allan. [19] Ar ôl dweud hynny, 'swn i yn dweud bod y Prif Weithredwr ei hun wedi cael dylanwad da iawn ar gyfieithu yn y gwaith. Mae o'n Gymro Cymraeg ac mae o ers tair blynedd wedi dweud ei fod o isio cyfarfodydd fatha penaethiaid adran a phethau felly, lle gynt oedden nhw'n cael eu cynnal yn Saesneg, maen nhw'n cael eu cynnal yn Gymraeg rŵan.

*Felly mae mwy o gyfarfodydd yn ddwyieithog rŵan?*

Oes.

*A mae pawb yn siarad Cymraeg os ydy o'n gallu? Dydy o ddim yn digwydd bod Cymry Cymraeg yn siarad Saesneg o gwbl?*

Weithiau. Mae'n dibynnu. [21] Weithiau os ydy'r person sy'n defnyddio'r clustffonau, y di-Gymraeg, yn cyfrannu i'r sgwrs, weithiau wneith rywun arall ymateb yn ôl yn Saesneg. [22] Ond fel heddiw er enghraifft, wneith A. ddweud hwyrach ambell i air yn ôl, wedyn mae'n sylweddoli beth mae'n ei wneud a mae'n newid yn ôl i'r Gymraeg.

*O ydy? Dw i wedi bod mewn cyfarfodydd lle mae cwestiynau Saesneg yn cael eu hateb yn Saesneg a pan mae 'na gyflwyniadau yn Saesneg mae'r drafodaeth wedyn yn Saesneg, er y bysan nhw'n gallu gwneud hynny yn Gymraeg. Mae o'n arfer gan rai o grwpiau i wneud o fel hyn. Dw i erioed wedi deall yn iawn pam a dw i isio ffeindio allan a ydy hyn yn rhywbeth sy'n ymwneud â grŵp penodol. Mae 'na rai o grwpiau yn hollol gadarn. Ond efallai bod rhaid i ti gymryd y penderfyniad i ddechrau, i siarad Cymraeg trwy'r amser? A wedyn mae'n haws i wneud tra os wyt ti'n mynd i gyfarfod heb feddwl o allan ymlaen llaw, efallai bod siarad Saesneg yn digwydd yn haws?*

Fedri di ddallt sut mae'n medru digwydd i bobl sydd ddim wedi eistedd yn ôl fel dw i'n wneud [fel cyfieithydd] a gweld beth sy'n digwydd. A gweld natur y cyfarfod yn newid a'r iaith yn newid. [23] Pan wyt ti'n ymwybodol o beth sy'n mynd ymlaen dwi'n meddwl wneith bobl wneud mwy o ymdrech. [24] A mae gen ti rai unigolion cryf sydd hefyd yn dylanwadu ar [bobl eraill] – mae gen ti aelodau o Cyngor Gwynedd er enghraifft. Ar y dechrau, pan ddechreuodd A., doedd 'na ddim gymaint o bwyslais ar y Gymraeg oeddwn i'n cael yr argraff, achos oeddwn i'n eithaf newydd hefyd. [25] Ond pan ddoth A. wedi cyplysu efo aelodau cryf o [Gyngor] Gwynedd oeddet ti'n gwybod, ia yn sicr fydd 'na angen cyfieithu yn fan 'na achos fydd y drafodaeth yn Gymraeg. [26] Ond rŵan mae o wedi mynd yn fwy. Mae'n naturiol cael bob trafodaeth yn Gymraeg. A mae'n treiddio trwodd i bethau, er enghraifft mae 'na fwy o swyddi rŵan yn cael eu hysbysebu efo'r Gymraeg yn hanfodol.

*Ac ydyn nhw'n ffeindio bobl hefyd?*

Cael hi'n anodd ar adegau. Maen nhw'n wneud eu gorau glas.

*Wyt ti'n dweud bod cyfieithu ym mron bob cyfarfod rŵan? Ydy hyn yn treiddio i weddill y sefydliad hefyd? Bod pobl yn fwy hyderus, yn fwy cadarn yn eu defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r cyfarfodydd efo cyfieithu hefyd? Mewn geiriau eraill, ydy agwedd y Cymry Cymraeg yn mynd yn fwy cadarn tu allan i'r cyfarfodydd yna oherwydd maen nhw'n cael mwy o gyfleoedd efo cyfieithydd i ddechrau i siarad mwy o Gymraeg?*

[27] Ydy. Swn i'n dweud hynna, achos yn naturiol mae'r ffaith bod y Gymraeg yn cael statws mewn pwyllgorau a mewn cyfarfodydd ac ati yn lliwio'r ffordd mae'r bobl yn meddwl tu allan i bwyllgor. Hefyd mae bobl yn ymfalchïo mwy, nid jyst yn ymfalchïo, mae o'n rhan gwbl naturiol. Wyddwn i ddim beth fysai'n digwydd os fysai'r mwyafrif yn ddi-Gymraeg. Sut deimlad fysai fo i fod yn y lleiafrif? Fysai fo ddim yn beth braf iawn, dw i ddim yn meddwl.

*Unwaith wyt ti wedi dod i arfer i sefyllfa fel hyn, bysai hyn fel mynd yn ôl blynyddoedd. Wyt ti'n teimlo eu bod nhw'n ymfalchïo a hefyd yn ffeindio fo'n rhan naturiol o'u bywydau nhw oherwydd mae cyfieithu wedi creu yr awyrgylch yna?*

Ydy. Dw i'n teimlo yn y parc [28] lle dw i'n gweithio mae'r Gymraeg yn cael statws haeddiannol. Er enghraifft, mae'r swydd dw i ynddi yn un o'r swyddi sy'n talu'n dda. A dw i'n meddwl bod hynna yn rhoi statws yn un peth. [29] A mae 'na drafodaeth yn digwydd yn reit aml, dyweda bod rhywun yn cael ei benodi lle gynt oedd y Gymraeg yn hanfodol a bod nhw wedi methu penodi i'r swydd yna, mae'r drafodaeth yn digwydd wedyn: Mae'r person yna yn dallt, ond dydyn nhw ddim yn siarad a hyn a llall. Mae 'na ymwybyddiaeth yna felly. [30] Dw i'n tueddu dweud mewn cyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf lle dw i'n mynd, mae 'na gyfieithu yn fan 'no hefyd, a Cymraeg ydy'r drafodaeth yn fan 'no rhan fwyaf, ond dw i hefyd yn tueddu trio cael dylanwad wedyn oherwydd beth dw i'n ei glywed yn y gweithle – bod 'na ddim digon o gynllunwyr dywedwn ni sy'n siarad Cymraeg. Dw i'n trio bwydo hynna i fewn i gyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf. Achos mae gen ti gynrychiolwyr o lywodraethwyr ysgol y Moelwyn ac ati a dw i'n trio rhoi y neges iddyn nhw: Mae'n bechod na fysach chi'n cydweithio hefo rhywun fel y Parc i drio cael disgyblion o'r ysgol i gael addysg sy'n ymwneud â chynllunio. Fel bod 'na gynllunwyr yn dod drwodd. Dw i'n trio pontio rhwng y ddau beth mewn ffordd.

*A chysylltu'r bobl iawn efo'i gilydd. Beth wyt ti'n ei feddwl lle mae cyfieithu ar y pryd yn bwysicach? Mewn cyfarfodydd cymunedol neu mewn sefyllfaoed gwaith? Lle mae o'n cael yr effaith gorau?*

Mae'r sefyllfa yn D yn eithaf unigryw a dweud y gwir. Byswn i'n dweud bod y ddau yr un mor bwysig [a'i gilydd]. Achos os ydy pobl yn mynd i gyfarfodydd cymunedol anffurfiol ac yn siarad Saesneg yn fan 'no – bysai hyn yn cael effaith wedyn ar pa iaith sy'n cael ei siarad yn y pwyllgorau achos o'r gymuned ydy lot ohonyn nhw sy'n byw yn y cymunedau, o ran swyddogion ac aelodau [y Parc Cenedlaethol], ac mae'n gweithio'r ddwy ffordd. Dw i'n meddwl mewn rhywbeth fel pwyllgorau cynllunio a phwyllgor yr Awdurdod sy'n agored i'r cyhoedd, ac yn enwedig efo pwyllgorau cynllunio, mae gen ti lot o ddiddordeb o ran y cyhoedd. Ac mae gen ti bobl er enghraifft fel pobl o Dd a llwyth o gynghorau cymuned eraill yn dwad i'r Parc i gyfarfod mawr ffurfiol, [32] ac maen nhw'n gweld yn

union sut mae [cyfieithu ar y pryd] yn gweithio yn fan 'na ac yn gweld fod o'n gweithio mor dda uwchben hefyd. Os na fysai fo'n gweithio uwchben, efallai na fysai fo'n cael gymaint o statws ag y mae o yn gymunedol. [33] Ond ar y llaw arall, os na fysai fo'n digwydd yn gymunedol, fysai fo ddim yn dod yn naturiol mewn pwyllgorau chwaith wedyn. Swn i'n dweud bod y ddau beth yn dylanwadu ar ei gilydd.

*I grynhoi felly, mewn ffordd, efallai bod **statws** yr iaith yn cael ei ddylanwadu gan sefyllfaoedd mwy ffurfiol ac mae'r bobl sy'n mynd i gyfarfodydd mwy ffurfiol yn dod i gyfarfodydd cymunedol ac yn dod â hwn efo nhw, ond bod siarad yr iaith yn **naturiol** yn mynd y ffordd arall?*

[34] Ydy. Mae pobl yn cael yr hyder achos bod nhw'n gweld bod y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio mewn sefyllfa broffesiynol a swyddogol. Maen nhw'n hapus wedyn i'w defnyddio hi ar y lefel gymunedol achos maen nhw'n teimlo, ia, mae'n cael y statws yn fan 'na. [35] Ac mae pobl yn defnyddio hi mewn pwyllgorau ffurfiol oherwydd dyna sy'n dod yn naturiol mewn cyfarfodydd cymunedol hefyd.

*Felly wyt ti'n meddwl bod pobl yn siarad yr iaith yn fwy naturiol ar y lefel gymunedol?*

Ydyn. [36] Er weithiau mae 'na unigolion cryf ar y lefel uwch sy'n benderfynol ac oherwydd bod gynnon nhw, dw i ddim yn gwybod, teitl cynghorydd neu gynhorydd sir neu beth bynnag, maen nhw'n gwybod eu hawliau yn well hefyd dw i'n meddwl. Mae hynna'n ffactor. Maen nhw'n gwybod bod gynnon nhw'r hawl yn iawn…

*Ac wedyn maen nhw'n mynnu siarad Cymraeg?*

Ydyn. A mae 'na rai yn mynnu [siarad Cymraeg] hefyd [ar y lefel] gymunedol wrth gwrs, e.e. mewn achosion fel D. Dw i ddim yn mynd i gymaint o gyfarfodydd cymunedol â beth oeddwn i. Dw i wedi bod mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn Blaenau lle mae gen ti lond neuadd o bobl [37] ac yn enwedig mewn cadarnle Cymraeg fel y Blaenau mae'r cyfieithu – dydyn nhw prin yn sylwi arna chdi beth bynnag achos Cymraeg sy'n mynd i gael ei siarad. Ac mae'r Saeson yn y lleiafrif o lawer iawn. A does 'na ddim llawer o gyfraniad yn dod gynnon nhw chwaith. Mae'n dibynnu lot, i raddau helaeth, [38] os fysai'r swyddogion yn dechrau arwain y drafodaeth o'r llwyfan yn Saesneg, bron iawn bysat ti'n dweud bysai'r ffaith bod y Cymry'n methu siarad yn eu hiaith – dim bod nhw'n methu siarad yn eu hiaith gyntaf, ond bod nhw'n tueddu i feddwl, 'O, rhaid i mi ymateb yn Saesneg rŵan'. A wedyn maen nhw'n eistedd fan 'na o bosib yn meddwl am beth fysan nhw'n licio ei ddweud, ond ella na fysan nhw mor barod i gyfrannu. Maen nhw'n meddwl ddwywaith achos dydy o ddim yn dod yn naturiol iddyn nhw i gyfrannu yn Saesneg. A dydyn nhw ddim yn arfer chwaith gymaint yn rhywle atha'r Blaenau felly, yn yr ardal yma.

*Felly fysan nhw'n cyfrannu llai?*

Bysan. Yn bendant swn i'n dweud. Ond oherwydd bod y cyfieithydd yna, dydy o ddim yn broblem o gwbwl. Sy'n beth da. Dyna'r sefyllfa wyt ti'n gorfod derbyn

am wn i. Dydy o ddim yn mynd i newid rŵan – dw i ddim yn gweld yr angen byth yn mynd mewn ffordd.

*Wyt ti'n gweld dy hun a dy waith fel pont rhwng y ddau grŵp ieithyddol, neu wyt ti'n gweld dy hun mwy ar ochr y Cymry?*

I ddweud y gwir, wrth gwrs dw i'n gweld fy hun yn fwy ar ochr y Cymry. [39] Ond mi wna i ddefnyddio'm sefyllfa i drio dylanwadu ar y rhai sy ddim yn siarad Cymraeg. Nid yn unig i drio cael nhw i ddysgu Cymraeg, ond mae o'n rôl reit bwysig i raddau achos [40] weithiau wyt ti'n cael sylwadau gan bobl ar ddiwedd cyfarfod, ac maen nhw'n sylwadau digon pwysig. Mae 'na rai yn dweud bod nhw'n ddigalon oherwydd bod y cyfarfod yn tueddu i newid i Saesneg, a wedyn fydda i'n dweud wrthyn nhw, 'ia ond dach chi'n sylweddoli, os nad ydach chi'n [siarad Cymraeg], os nad ydy pobl fatha chi yn dod yma i siarad Cymraeg, pwy ddoith yn eich lle chi?' A wedyn maen nhw'n mynd, 'o ia, ti'n iawn. Rhaid i ni gadw'r peth i fynd.'

*Felly wyt ti'n cael rôl cenhadol hefyd?*

Dwi ddim yn cael 'y nhalu! Ydw, mewn ffordd, am wn i.

*Does neb yn gwybod am yr ochr hwnnw o waith cyfieithu, nac oes? Maen nhw'n meddwl amdanat fel cyfieithydd yn unig, ac maen nhw'n ddigon hapus i wneud sylwadau felly wrthyt ti.*

[41] Mae'r ddwy ochr yn dy weld ti'n aml iawn fel ffrind. Ond mae'r cyfieithydd yn gwybod yn iawn ar pa ochr maen nhw ar ddiwedd y dydd.

*Ond mae hyn yn beth da efallai. Fel hyn fedri di siarad efo'r Saeson heb y tensiwn sydd 'na rhyngddyn nhw ac aelodau eraill o'r grŵp.*

Dw i'n meddwl hefyd i ddweud yn onest, bod o'n dibynnu llawer iawn ar bersonoliaeth y cyfieithydd hefyd. Fues i mewn sefyllfa reit anffurfiol nos Iau diwethaf. A wnes i siarad efo rhywun ac mae'n dallt Cymraeg yn iawn ond mae'n defnyddio'r offer ym mhob cyfarfod yn yr Awdurdod. Ac oeddwn i'n sgwrsio efo fo ac oedd o'n dweud fod o'n jyst methu dod dros yr hyrdl o siarad Cymraeg. Oedd o'n teimlo fatha ffŵl pan oedd o'n gwneud felly, ond bod o wedi magu ei blant i gyd, pump ohonyn nhw, yn Gymry Cymraeg. Wnes i ddweud dw i'n siwr wnei di oresgyn y peth yn y diwedd. [42] A wedyn wnaeth o ddweud, oedd o'n gompliment, chwarae teg iddo fo, 'dw i'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus i siarad am y peth efo chdi achos dw i'n meddwl fod ti'n berson fwy agored o lawer. Dw i ddim yn meddwl bod ti'n edrych i lawr arna fi. Achos dw i wedi cael yr agwedd yna gan lawer o gyfieithwyr yn y gorffennol bod nhw'n edrych arna i fatha bod fi'n israddol oherwydd mod i ddim yn siarad Cymraeg. Ond efo chdi dw i ddim yn cael yr un un teimlad.' Mae 'na fwy o undod felly. Weithiau mae'r ffaith bod rhywun yn gallu rhoi'r argraff bod nhw mor ofnadwy o gryf [dros y Gymraeg] yn medru wneud i bobl gicio yn erbyn y tresi a mynd yn groes. Mae'n llinell denau iawn. Mae 'na rôl pontio yna yn bendant [i gyfieithydd] achos mae 'na rhai yn tueddu i godi gwrychyn y Saeson hefyd iddyn nhw fynd yn gwbl groes.

*Oeddet ti'n gwybod am yr agweddau cymdeithasol hynny pan wnest ti ddechrau cyfieithu?*

Nac oeddwn, dweud y gwir. Dim syniad o gwbl.

*Ydy hyn yn wir efo cyfieithu ar bapur hefyd?*

Dim cymaint efo cyfieithu ar bapur. Ond mae'n well gen i bod pobl yn trio sgwennu pethau yn wreiddiol yn Gymraeg a chael yr hyder i wneud eu hadroddiadau yn Gymraeg. Dim ots os ydyn nhw'n wallus ar y dechrau. Well gen i weld nhw'n trio gwneud pethau.

*Wyt ti'n golygu [testunau] hefyd felly?*

Ydw, reit aml.

*Oes mwy o bobl rŵan sy'n dod atat ti i brawf ddarllen eu testunau?*

Oes.

*Ydy hyn yn ganlyniad i'r holl bolisi a'r awyrgylch newydd?*

Synnwn i ddim, achos er enghraifft, mae rhywun newydd gael ei benodi yn ddiweddar i fod yn bennaeth yr adran gynllunio. Ac yn sicr fyswn i'n dweud achos oeddwn i'n bresennol (dyna'r peth, fel cyfieithydd wyt ti mewn sefyllfa ffodus lle wyt ti'n bresennol mewn sefyllfaoedd na fysat ti'n cael y cyfle i'w gwylio nhw fel rheol, fel y cyfweliadau 'ma er enghraifft), a byswn i'n dweud fod y ddau ymgeisydd yn agos iawn. Ond doedd un ohonyn nhw ddim yn siarad Cymraeg. Swn i'n dweud bod hynny yn sicr wedi bod yn fantais i'r unigolyn yma. Dw i'n meddwl fod o wedi dallt hynny hefyd. Oedd o'n medru manteisio ar hynny, a nid yn unig hynny. Lle cynt oedd o'n ysgrifennu adroddiadau cynllunio yn Saesneg, ers cael ei benodi mae'n sgwennu nhw yn Gymraeg. A dw i ddim yn meddwl fod o wedi cael cyfarwyddyd i wneud, dim ond fod o'n teimlo bod o isio gwneud ymdrech. Mae'n gwerthfawrogi'r ffaith. A hefyd mae 'na rai sydd wedi dysgu Cymraeg sy'n sgwennu eu hadroddiadau yn Gymraeg gyntaf, ac mae hynna yn beth anarferol iawn, yn anghyffredin. Mae 'na wallau yn rhai ohonyn nhw. Mi oedd 'na adeg pan oedd 'na aelod sy'n gywir iawn ei Gymraeg yn beirniadu safon iaith [yr adroddiadau hynny] mewn pwyllgor. [43] Ond ar y llaw arall, achos mae 'na gymaint o waith ar adegau, efo ambell i beth dydyn nhw ddim wastad yn dod trwy'n hadran ni [yr adran gyfieithu], a wedyn maen nhw'n mynd drwodd [i'r pwyllgorau heb eu cywiro]. A wedyn ddaru fi egluro i'r aelod yna iddo fo plîs beidio wneud i'r person yna deimlo'n annifyr oherwydd fod o wedi sgwennu'r adroddiad yna yn Gymraeg yn wreiddiol ei hun. Ond fi oedd yn dweud hynna yn hytrach na'r person ei hun achos fysai'r person ei hun ddim isio cyfaddef mai nhw wnaeth sgwennu fo'n Gymraeg. A wedyn mae o wedi dallt a mae'n gwbl gefnogol ac mae o wrth ei fodd rŵan bod 'na rai yn sgwennu eu hadroddiadau yn Gymraeg a chael yr hyder i wneud hynny.

# CYFWELIAD 2

Cyfieithydd
10 Ebrill 2007

*…Rwy eisiau edrych ar effaith cyfieithu ar sut mae pobl yn ymwneud efo'i gilydd, sut maen nhw yn teimlo pan maen nhw'n gallu siarad eu hiaith er bod nhw wedi hen arfer siarad Saesneg mewn cyfarfodydd cymysg…*

Dach chi'n siarad efo cynghorwyr o gynghorau cymuned? [1] Achos wrth gwrs fedra i ddim gwybod sut oedd pethau cyn i mi ddechrau cael fy ngalw i mewn. Fedra i ddim ond siarad am y sefyllfa lle mae'r gwasanaeth cyfieithu wedi cychwyn cael ei ddarparu. Cymysg ydy'r sefyllfa 'swn i'n ddweud. Mae 'na nifer o ffactorau eraill yn effeithio ar faint o ddefnydd o'r Gymraeg sydd 'na mewn cyfarfod, hyd yn oed pan fydd 'na wasanaeth cyfieithu ar gael – [2] ar wahân i gynghorau lle mae 'na fwyafrif llethol o Gymry Cymraeg beth bynnag. Mae'r rheiny yn tueddu siarad Cymraeg drwy'r amser. Mewn sefyllfa lle mae 'na ddim ond lleiafrif sy'n barod i siarad Cymraeg yn gyhoeddus, mi wneith hi amrywio lot yn ôl faint o'r rheiny sy'n bresennol ar y noson, yn y cyfarfod. [3] Mi wn i am gynghorau lle mae 'na rai pobol sy'n medru siarad Cymraeg ond wneith byth siarad Cymraeg yn ffurfiol.

*Hyd yn oed os dach chi yna fel cyfieithydd?*

[4] Na. Mi wnân nhw siarad Cymraeg efo'i gilydd cyn y cyfarfod ac wedi'r cyfarfod. Ond wnân nhw byth siarad Cymraeg yn ffurfiol ac yn gyhoeddus.

*Ydy hyn oherwydd maen nhw wedi cael eu haddysg drwy'r Saesneg?*

Posib. I rai, bydd hynna'n ffactor. [5] Mater o arferiad fydd hi i eraill. Maen nhw wedi gwneud ers blynyddoedd lawer, mae'n anodd newid. Yr un math o broblem sy'n digwydd rhwng unigolion. Os ydyn nhw wedi magu arfer o siarad Saesneg efo'i gilydd pan oedden nhw'n ifanc, mae'n teimlo'n annifyr ac yn annaturiol iawn i newid yn nes ymlaen. Mae 'na dipyn o hynna. Hefyd mae 'na rai sy'n teimlo bod 'na gwestiwn o statws. [6] Mae 'na fwy o statws yn eu meddwl nhw mewn siarad yn gyhoeddus yn Saesneg. [7] Hyd yn oed er bod eu Saesneg nhw yn reit garbwl. Bysai'n well iddyn nhw siarad yn rhugl yn Gymraeg a dibynnu ar y cyfieithiad, bysai hynny'n gwneud argraff well. Ond mae 'na rai, yn enwedig y tô hŷn sydd efo'r syniad wedi plannu mor ddyfn yn eu meddyliau nhw bod 'na statws yn perthyn i siarad Saesneg yn gyhoeddus, maen nhw'n mynnu siarad Saesneg, hyd yn oed er bod nhw ddim yn gallu siarad Saesneg yn arbennig o dda.

*Ac ydy'r polisïau iaith dros y degawdau ddim wedi gwneud gwahaniaeth i'r arfer yna?*

Dim yn effeithiol. Efo'r rhai ifanc, mae 'na broblemau gwahanol yn codi, dw i'n teimlo. [8] Ewch i gyfieithu i unrhyw gyfarfod swyddogion Cyngor Gwynedd yng Ngwynedd, fe siaradan yn Gymraeg trwy'r cyfarfod. Ond weithiau mi welwch chi ambell i swyddog o Wynedd mewn cyfarfod gogledd Cymru neu gyfarfod cenedlaethol sy'n digwydd yr ochr arall i'r afon Conwy, ac mi siaradan yn Saesneg.

A dw i'n amau eto mater o statws ydy hynna, ond statws o fath gwahanol. Statws proffesiynol. [9] Maen nhw'n lleiafrif ymysg pobl ddi-Gymraeg, a maen nhw ofn tynnu sylw atyn nhw eu hunain drwy siarad Cymraeg. [10] A hefyd dw i'n amau eu bod nhw'n teimlo y bysan nhw'n colli parch y rhai di-Gymraeg os ydyn nhw'n siarad Cymraeg – oherwydd agweddau'r di-Gymraeg tuag at Gymry Cymraeg.

*Dach chi'n gweld yr un pethau sydd wedi digwydd yng Ngwynedd ers y 70au yn digwydd mewn rhannau eraill o Gymru rŵan yn araf deg?*

[11] Dw i ddim yn ymwybodol o'r math o ymgyrchu dros yr iaith sy'n golygu mynnu defnyddio'r iaith mewn cyfarfod. A'r broblem efo'r rhai ifanc ydy bod y sefyllfa ddwyieithog yn un maen nhw wedi etifeddu wrth ddod i mewn i'r swydd. Mae o'n normal. A mae 'na rywbeth i'w harfer hi [yr iaith] neu beidio ei harfer yn ôl beth sy'n teimlo'n gyffyrddus. Fe fu rhaid i'w teidiau ymladd dros yr hawl i ddefnyddio Cymraeg mewn cyfarfodydd, ac mae 'na rai o'r hen dô sy'n mynnu siarad Cymraeg oherwydd bod nhw wedi bod yn mynnu siarad Cymraeg ers blynyddoedd lawer. Maen nhw wedi ymladd, maen nhw'n gwerthfawrogi beth ennillwyd, ac maen nhw'n gwneud defnydd o'r peth, rhai a ddaru ymladd. Mae 'na rai oedd ddim yn rhan o'r ymgyrch yn y saithdegau, ond sy'n ddigon bodlon i siarad Cymraeg ar brydiau, ond nid bob amser. [12] Mae lot yn dibynnu, er enghraifft, ar ydy'r cadeirydd yn siarad a gweithredu yn Gymraeg neu beidio. Ond i orffen fy mhwynt blaenorol, [13] mae'r rhai ifanc sydd erioed wedi gorfod ymladd i gael yr hawl i siarad Cymraeg yn cymryd y peth yn ganiataol. A dw i'n meddwl bod 'na berygl yn fan 'na. Mae 'na berygl y byddan nhw, yn sicr mewn rhai cyd-destunau, tu allan i swyddfeydd Cyngor Gwynedd er enghraifft, yn gollwng [yr iaith] i raddau. Maen nhw wedi gallu cymryd y peth [y Gymraeg] yn ganiataol. [14] A dyna'r broblem wrth gwrs efo'r holl syniad o ddwyieithrwydd. Mae'r propaganda o blaid dwyieithrwydd yn berygl o gael yr effaith yna, bod pobl yn meddwl ei bod hi'n ddigon diogel i siarad Saesneg am ran helaeth o'r amser os ydy hynna'n teimlo'n gyfforddus neu'n gyfleus. Dydyn nhw ddim yn sylweddoli bod iaith sydd mewn sefyllfa leiafrifol yn rhywbeth mae gofyn i ymladd drosti trwy ei defnyddio hi yn gyhoeddus, am byth. Bydd y frwydr yma byth yn cael ei hennill. Ond mae 'na berygl bydd y tô ifanc ddim yn sylweddoli hynna ac yn gadael i'r sefyllfa ddirywio.
Mynd yn ôl at fusnes cadeiryddio. Mae hyn yn un o'r ffactorau eraill sy'n gallu effeithio ar faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd. [16] Mae 'na rai Cymry Cymraeg sy'n ddigon bodlon siarad yn Gymraeg mewn cyfarfodydd os ydy'r cadeirydd yn llywio'r cyfarfod yn Gymraeg. Os ydy'r cadeirydd yn ddi-Gymraeg, mi wnân nhw siarad Saesneg. [17] A beth arall sy'n digwydd wrth gwrs yn reit aml ydy cyfarfod yn dechrau efo dipyn go lew o Gymraeg, ond wrth i'r rhai di-Gymraeg ddod i fewn i'r ddadl – a'r duedd ydy i bobl ddi-Gymraeg fod yn fwy hyderus beth bynnag, mwy parod i wneud cyfraniadau i'r drafodaeth – mae'r *linguistic drift* 'ma yn digwydd. Mae'r Cymry Cymraeg yn tueddu i ymateb yn Saesneg iddyn nhw. Ac erbyn diwedd y cyfarfod, does 'na ddim Cymraeg o gwbl.

*Pam ydy'r di-Gymraeg yn fwy hyderus, dach chi'n meddwl, i gyfrannu i gyfarfodydd?*

Mater o ddiffyg hyder y Cymry Cymraeg ydy o.

*Ond nid yn unig hyder ieithyddol, ond hyder …*

[18] …diwylliannol, ia. Mae hynny yn beth reit gyffredinol. Mae rhywun yn gweld ar raglenni teledu weithiau pobl ifanc heddiw sy'n siarad yn Gymraeg, sydd wedi cael eu hysgol yn Gymraeg, ond does gynnon nhw ddim llawer i ddweud. Mae'u geirfa nhw yn gyfyngedig, a dydy'r hyder ddim yna. Maen nhw'n siarad yn undonog. [19] Problem arall dw i wedi dod yn ymwybodol ohoni hi yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn enwedig: Mae 'na ddiffyg sgiliau siarad cyhoeddus gan Gymry Cymraeg. Mae'r tô hŷn yn aml iawn yn bobl sydd wedi bod yn blaenllaw yn y capeli ac ati…

*… ac mewn Eisteddfodau…*

ac mewn Eisteddfodau, ac maen nhw'n gwybod sut i siarad yn weddol araf ac i ragymadroddi, yn dweud, 'Diolch yn fawr Mr Cadeirydd,' a wedyn mae'r di-Gymraeg yn sgrablo am eu cyrn gwrando. [Nid felly] y rhai ifanc. Dydy'r rhan fwyaf o'r rhai ifanc, swyddogion ifanc, pobl sydd rŵan yn dod i mewn i swyddi rheolaeth ganol, – dyna pam dw i wedi gweld y newid yno, bod 'na bobl sydd wedi cael dyrchafiad yn ddiweddar i swyddi rheolaeth ganol yn y cynghorau 'ma – maen nhw jyst yn bwrw iddi, maen nhw'n mynd ffwl spîd, a mae 'na rai ohonyn nhw, yn enwedig merched, oherwydd y broblem o hyder sydd gan ferched yn gyffredinol, maen nhw'n bwrw iddi ffwl spîd achos dydyn nhw ddim isio dim byd cymaint â gorffen ac eistedd lawr. [20] Ac mae bywyd i gyfieithwyr ar y pryd am fynd yn fwy anodd rŵan dw i'n credu. Hoffwn i ddim fod yn gyfieithydd ar y pryd ifanc yn gorfod neidio i mewn i gyfarfod mewn sefyllfa felly. Achos mae cymaint o swyddogion yna yn siarad mor gyflym, a dydyn nhw ddim yn siarad yn glir, maen nhw'n mwmial. Dydyn nhw ddim yn ynganu yn glir, fel y mae'r hen flaenoriaid 'na sydd wedi arfer siarad efo'r capel heb feicroffôn. Mae'r genhedlaeth yna wrth gwrs yn gadael, naill ai yn ymddeol neu'n marw. A wedyn mae 'na newid byd dw i'n credu. A dw i ddim yn gwybod be fydd yr ateb i hyn o safbwynt rhoi profiad i gyfieithwyr ifanc sydd dan hyfforddiant.

*Ydy hyn achos bod pobl yn darllen eu hadroddiadau?*

[21] Dim hynny'n unig. Hyd yn oed os ydyn nhw'n siarad o'r frest, mae 'na nifer ohonyn nhw yn siarad yn rhy gyflym, a dim yn siarad yn eglur chwaith, [22] ac os ydy acwstics y stafell dipyn bach yn anodd, mae'n gallu bod yn anodd i'w clywed nhw. Oni bai eich bod chi'n eistedd yn y lle iawn, yn medru eu gweld nhw ac yn ddigon agos atyn nhw. Dydy'r ymwybyddiaeth o'r angen i siarad yn glir ddim yna. Siwr fod 'na lot o ddylanwad o'r teledu sydd yn yr un modd wedi dylanwadu ar actorion. Ychydig iawn o actorion sy'n medru ynganu yn glir ar lwyfan oherwydd maen nhw wedi gwneud gymaint o waith teledu neu radio, maen nhw'n arfer siarad mewn llais reit isel, ac yn agos at feicroffôn. Mi gewch chi broblem gyffelyb mewn cyfarfodydd lle mae'r byrddau wedi cael eu gosod mewn rhes hir cul. Mae'r cyfieithydd ar un pen. Y drwg ydy pan mae pobl ond rhyw bedair troedfedd oddi wrth ei gilydd, wnân nhw ddim codi'u llais wrth siarad. Mi wnân nhw bitsio'u llais yn ôl y person sy'n agosaf atyn nhw. Ac wrth gwrs os ydy rhywun yn dair neu bedair troedfedd i ffwrdd, sgwrsio wnân nhw. Ac os ydyn nhw yn y canol, dydy'r bobl ar ddau ben y byrddau ddim yn medru eu clywed nhw. Ac yn enwedig os ydyn nhw ar un pen, dydy'r bobol ar y pen arall ddim yn medru

eu clywed nhw. Mae hyn yn broblem i gyfieithydd hefyd weithiau. Mae well gen i rywfath o sgwâr o fyrddau achos mae pawb yn weddol bell oddi wrth ei gilydd, mae pawb yn weddol bell oddi wrth y bobl sydd gyferbyn â nhw. Felly yn reddfol mi wnân nhw godi eu llais. Ond mewn sefyllfa fel yna, un ai bwrdd bach neu res o fyrddau cul, mae'n gallu bod yn lot anos achos mae pobl wedi – nid gymaint wedi colli'r arfer o godi llais a phrosiectio'r llais. Dydyn nhw ddim wedi cael eu hyfforddi i wneud. Dydy'r hyfforddiant ddim yna. Dydy'r ysgolion yn sicr ddim yn rhoi yr hyfforddiant. Dw i'n meddwl bod y pwyslais yn yr ysgolion, hyd yn oed mewn gwaith llafar sy'n cael ei asesu at y TGAU ac yn y blaen ar i bobl siarad yn 'naturiol'.

*Mae'r pwyslais hyn efo gwaith ysgrifenedig hefyd. Dydyn nhw ddim isio cywiro gwaith ysgrifenedig dim mwy, ac mae hyn yn gallu mynd ar drael eglurdeb. Maen nhw isio i'r plant ysgrifennu yn greadigol. Efallai bod yr un peth yn digwydd yn llafar hefyd.*

Rhywbeth tebyg. Yn yr ystyr fod 'na fwy neu lai gwaharddiad ar athrawon rhag gwneud llawer o gywiro.

*Ond dach chi'n gweld bod cyfieithu ei hun yn gallu dylanwadu ar sut mae pobl yn ymddwyn mewn cyfarfodydd? Dros amser wrth gwrs, achos wneith pethau ddim newid mewn un cyfarfod, ond os daw grŵp i arfer efo cyfieithu?*

Mae 'na le i gredu bod hynna'n gallu digwydd. Oeddwn i arfer efo Cyngor Conwy am wyth mlynedd. Wnes i ddim gweld llawer o gynnydd. Mi oedd 'na gynnydd ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996, achos mi ddoth 'na lot o gynghorwyr, Cymry Cymraeg i fewn; yn Aberconwy doedd 'na fawr ddim Cymraeg wedi bod mewn cyfarfodydd. Oedd gynnoch chi genhedlaeth o rai hen, fel Dafydd Parry Jones a John Hughes Llangernyw oedd wedi ymladd dros yr iaith ers degawdau. Oedd y rheiny yn selog yn siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd. Ond dw i ar ddeall, ers i mi adael yn 2002, mi gafwyd etholiad, mi gafwyd nifer o bobl newydd i mewn yn fuan wedyn, [24] ac mae pobl yn dweud wrthyf fi fod 'na fwy o Gymraeg yn y siambr yng Nghonwy nag oedd yn arfer bod. Mae'r arfer wedi datblygu. Ond eto mae'n fater o *critical mass*, faint o Gymry Cymraeg sy 'na. [25] Os ydyn nhw'n teimlo bod 'na rai eraill fath â nhw yn bresennol, fedran nhw gynnal eu breichiau nhw yn seicolegol. Mae'n anodd iawn bod [yr unig] un sy'n siarad Cymraeg mewn cyfarfod. Ond y bobl orau i ofyn rhybeth felly ydy'r bobl sy'n medru cofio'r sefyllfa cyn y newid, a beth sydd wedi digwydd ers hynny. Yr unig beth dw i'n ei wybod wrth gwrs ydy beth ydy'r sefyllfa ers hynny. Dw i erioed wedi gweld sefyllfa cyn bod 'na wasanaeth cyfieithu. Pan mae cyngor cymuned yn dechrau derbyn gwasanaeth HWB er enghraifft, [26] mi gewch chi leiafrif, efallai un, sy'n mynnu siarad Cymraeg yn gyson. A fydd eraill yn gwneud weithiau. Mae 'na un cyngor tref yn Ynys Môn dw i'n gwneud ers rhai blynyddoedd. Swn i ddim yn dweud bod 'na gynnydd wedi bod, a'r un rhai sy'n siarad Cymraeg naill ai yn gyson neu weithiau.

*A dydy'r ffordd mae'r cadeirydd yn gweithredu ddim yn cael effaith chwaith?*

Mi all, os ydy'r cadeirydd yn un o'r Cymry Cymraeg. Wrth gwrs mae hyn yn gwneud gwahaniaeth. Ond eto dim ond lleiafrif o'r Cymry Cymraeg sy'n fodlon defnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus.

*Dach chi'n meddwl bod canllawiau, er enghraifft y mat mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi ei wneud, yn medru atgoffa cadeirydd i…*

Dw i erioed wedi bod mewn sefyllfa lle ma un o'r rheiny wedi cael ei ddefnyddio. Mae rhaid i mi gyfaddef, dw i ddim wedi magu'r arfer o'i gynnig o. Mae'r *ffoam rubber* yn handi iawn ar waelod y cês…

*Dw i wedi clywed gan un grŵp ym Mangor lle oedden nhw'n dweud, doedd y cyfarfod diwethaf ddim mor Gymreigaidd â'r rhai blaenorol. Wedyn oedd y cadeirydd yn dweud, 'ia, doedd y mat ddim o fy mlaen i, oeddwn i'n anghofio atgoffa pobl i siarad Cymraeg'. Ond dw i ddim yn siwr a fyddai hyn yn digwydd yn gyffredinol.*

Bysai rhaid i mi arbrofi mewn cyfarfodydd sefydliadau lle dw i ddim wedi bod yn arfer gwneud.

*Dach chi'n gweld cyfieithu yn ymateb i angen yn hytrach nag yn gallu bod yn bolisi sy'n medru helpu…*

[28] Yn achos cynghorau cymuned a chynghorau tref, mae'r defnydd o'r gwasanaeth yn ymateb i ddymuniad rhai aelodau i siarad Cymraeg. [29] Mewn rhai sefydliadau mwy, er enghraifft y Cynulliad, a lot o gyrff eraill, nid o angenrheidrwydd llywodraethol, maen nhw'n llogi gwasanaeth cyfieithu oherwydd bod y polisi yn dweud bod nhw fod i wneud, neu fel rhyw fath o bolisi yswiriant. Mae 'na rai cyrff sydd heb bolisi iaith fel y cyfryw. Maen nhw'n ymwybodol y gallasai fod 'na ambell i Gymro Cymraeg yn dymuno siarad Cymraeg, ac maen nhw'n llogi'r gwasanaeth rhag ofn. [30] A beth sy'n digwydd fel rheol ydy bod 'na ddim Cymraeg o gwbl mewn cyfarfod felly, hyd yn oed os oes 'na Gymry Cymraeg. Mae 'na gymaint o rai di-Gymraeg, dydyn nhw ddim isio tynnu sylw atyn nhw eu hunain. Os siaradan nhw o gwbl. A mae 'na nifer fawr sy ddim yn cyfrannu o gwbl. Os ydyn nhw'n cyfrannu o gwbl, mi wnân nhw siarad Saesneg.

*Mae hyn yn dangos diffyg meddwl am wasanaeth cyfieithu felly. Maen nhw'n cynnig y gwasanaeth, ond dydyn nhw ddim yn meddwl pam y dylen nhw ei gynnig, nac ym mha ffordd.*

A mae 'na rai sydd heb unrhyw syniad o gwbl. [31] Mae'r Cynulliad i fod wedi llunio canllawiau i gyfarfodydd i drefnwyr. Y broblem wrth gwrs, neu rhan o'r broblem, ydy bod y polisïau yn cael eu lledaenu ar lefel yr uwch reolwyr. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu trefnu gan ysgrifenyddion ac ambell i gynorthwy-ydd personol, rhywun reit isel yn yr hirarchiaeth. Ac yn anaml iawn dw i'n meddwl mae'r rheiny wedi cael eu rhoi ar ben y ffordd sut i fynd o gwmpas trefnu cyfarfodydd â chyfieithydd. [32] Dw i wedi cael ambell un oedd yn meddwl mai cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg oeddwn i, ac yn meddwl mai darparu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y Cymry Cymraeg o Saesneg i'r Gymraeg oeddwn i.

[33] Mae rhai yn gwbl ddi-ddeall, a mae 'na lot sydd heb ddim syniad ar sut i gyflwyno presenoldeb y gwasanaeth ar ddechrau cyfarfod, mewn ffordd, sut i annog pobl i'w ddefnyddio fo. Hyd yn oed os oes 'na anogaeth, pan mae'r tôn yn iawn, anaml iawn bydd y Cymry Cymraeg yn defnyddio Cymraeg. [34] Mae'n dibynnu ble mae'r lleoliad. Maen nhw ofn tynnu sylw atyn nhw eu hunain. [35] Maen nhw ofn cael eu hystyried yn eithafwyr gwleidyddol.

*Dach chi'n meddwl fysai hyn yn newid tasai pobl sy'n gwneud y polisi yn cynnwys mwy o gyfieithwyr yn y broses o wneud polisi a thrafod sut y gallai cyfieithu ar y pryd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?*

[36] Yn sicr mi ddylid ymgynghori â chyfieithwyr mwy, am bob math o resymau ymarferol.

*Nhw sy'n gweld sut mae cyfarfodydd yn gweithio. Mae cyfieithwyr yn gweld y gwahanol sefyllfaoedd ac yn medru gweld patrymau.*

Yn sicr, mewn ymgynghori i bolisïau mae cyfieithwyr yn cael eu hanghofio mae'n debyg. Ond hyd yn oed os oes 'na ymgynghori, mae peryg iawn bod chi'n cael rhywbeth tebyg i beth sy'n digwydd yn aml iawn i waith cyfieithu ysgrifenedig, sef bod y ddogfen wedi cael ei chreu ac wedi ei gosod mewn PDF cyn bod rhywun yn cofio bod angen cyfieithu. Mae'n beth munud olaf. Mae'n rhyw fath o ychwanegiad. Dydy'r cyfieithiad ddim yn cael ei ystyried yn ddigon fuan yn y broses o gynhyrchu adroddiadau ac yn y blaen. Fel bod y testun ddim ar gael ar ffurff ddelfrydol. Dw i'n gweld dipyn go lew o hynna. Dw i'n gweithio i lot o gyrff o Loegr. Mae rhywun yn cysylltu yn gofyn am wneud rhywbeth go sylweddol, a'r *deadline* yn hollol wirion, mae rhywun yn medru dweud bod 'na berson ar y pen arall sydd ddim yn deall, a bod nhw wedi anghofio, ac mae 'na banicio. Ac mae'n amlwg bod y ddogfen wedi cael ei chreu ddoe, y ddogfen Word wedi cael ei dinistrio a dim ond ar gael ar PDF. Dyna ydy'r perygl. Os ydy'ch ymchwil chi yn chwilio am argymhelliad a ddylid ymgynghori gyda chyfieithwyr ar y pryd ynglŷn â pholisïau ac yn y blaen, ar gyfieithu mewn cyfarfodydd, un elfen gwbl allweddol ydy'r syniad bod pobl yn ymgynghori yn dechrau gynnar y broses o lunio polisi, nid fel rhyw fath o ychwanegiad ar ddiwedd y broses.

*Mae gen i ddiddordeb hefyd i weld a ydy cyfieithu jyst yn ymateb i'r galw, neu ydy o'n medru bod yn rhywbeth mwy positif, ac ydy o'n medru wir cynyddu defnydd pobl o'u Cymraeg hefyd, ac os ydyn nhw wedi arfer siarad mwy o Gymraeg mewn cyfarfodydd un grŵp oherwydd bod y cyfieithydd yna, ydy hyn yn mynd i gynyddu eu hyder digon i gario hynna tu allan o'r cyfarfodydd hynny a lledaenu'r defnydd yn gyffredinol.*

Mae rhaid i chi ofyn i bobl sy'n gyfarwydd â sefyllfa heb gyfieithu. [37] Mae defnydd unigolion o'r Gymraeg yn gallu amrywio o gyfarfod i gyfarfod. Mae'n dibynnu ar amrywiolion eraill, sef faint o Gymry Cymraeg eraill sydd yna ar y noson, ble maen nhw'n cyfarfod, mewn faint o leiafrif ydy'r Cymry Cymraeg. Mi wneith unigolion Cymraeg siarad mwy o Gymraeg mewn un cyfarfod na mewn cyfarfod arall. Ond yr amgylchiadau eraill sy'n bwysicach na'r cyfieithydd. Dydy mhresenoldeb i – achos dw i'n bresennol yn y ddau – dydy mhresenoldeb i ynddo

ei hun ddim yn effeithio ar eu penderfyniadau. Mae eu penderfyniadau nhw yn cael eu heffeithio yn gryfach gan ffactorau eraill.

*Felly mi ddylai cyfieithu gael ei gyfuno efo'r ffactorau eraill yna mewn rhyw ffordd?*

Os oes posib. [39] Mae'r busnes 'na o arferion pobl a'u hagweddau nhw tuag at y Gymraeg, yn enwedig y ffordd maen nhw'n meddwl bydd pobl yn ymagweddu tuag atyn nhw pan maen nhw'n siarad yn Gymraeg, yn grymoedd seicolegol pwerus iawn. A dydy presenoldeb cyfieithydd ar y pryd ddim digon i oresgyn hyn. Bydd yn ddiddorol gweld beth fydd cynghorwyr [yn dweud ]sydd wedi bod yn gynghorwyr am yn ddigon hir i fedru mesur y newidiadau, yn gyntaf beth ddigwyddodd pan ddoth y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd am y tro cyntaf, ac yn ail beth sydd wedi digwydd yn fwy graddol yn y blynyddoedd ers hynny.

*Ia, mae'n broses hir i grŵp, mae'n anodd dweud gwahaniaeth ar ôl dau neu dri o gyfarfodydd…*

Fel dw i'n dweud, yn y cyngor tref 'ma yn Ynys Môn dw i wedi bod yn mynd atyn nhw yn rheolaidd ers blynyddoedd, does 'na fawr o dwf, os o gwbl, wedi digwydd yn y rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg. Ond mae'r dystiolaeth ail law sydd gennyf ynglŷn â beth sy'n digwydd yng Nghonwy yn awgrymu bod 'na gynnydd wedi bod oherwydd bod 'na fwy o Gymry Cymraeg wedi cael eu hethol yn yr etholiad diwethaf. Mae 'na fwy ohonyn nhw yna i siarad Cymraeg, a maen nhw'n fwy bodlon defnyddio'r Gymraeg nag oedd rhai o'u rhagflaenwyr. Oedd gynnoch chi gynghorwyr yng Nghonwy oedd yn rhan o'r tô hŷn ond heb ymladd y frwydr, ac ar y cyfan fyddan nhw ddim yn siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd. [41] Ar wahân i ambell achlysur pan mae'r Gymraeg ei hun dan drafodaeth, clywais i dipyn o hynna, cynghorwyr wneith dim ond siarad Cymraeg pan mae'r Gymraeg ei hun, neu'r gwasanaeth cyfieithu, neu'r diwylliant Cymraeg, dan drafodaeth, ond am bob testun arall, mi siaradan Saesneg. Ond yr awgrym dw i'n ei glywed [ydy] bod 'na groesi drosodd mewn ffordd, bod 'na rai fyddai ddim yn siarad Cymraeg fel arfer yn barotach rŵan i siarad Cymraeg weithiau.

*Y cwestiwn wedyn ydy a ydy hyn yn dibynnu'n hollol ar yr unigolion yno, neu os bydd aelodaeth y grŵp yn newid, oes rhaid dechrau o'r dechrau eto, neu ydy'r draddodiad wedi ei sefydlu yn y grŵp?*

[42] Dw i'n credu bod hynny wedi digwydd yng Nghonwy, bod 'na waith wedi cael ei wneud i drio annog cynghorwyr i ddefnyddio Cymraeg. Mae 'na wersi Cymraeg i'r di-Gymraeg, ond mae 'na hefyd dipyn bach o anogaeth i'r Cymry Cymraeg wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Mae angen camau rhagweithiol. Dydy sicrhau presenoldeb cyfieithydd ar y pryd ar ben ei hun ddim yn sicrhau defnydd o'r Gymraeg. Mae rhaid bod yn fwy *proactive*.
Does 'na ddim cymaint â hynny o gyrff dw i'n cyfieithu yn eu cyfarfodydd nhw yn rheolaidd. Mae 'na lot o'r rhai dw i'n mynd atyn nhw yn achlysurol. Er enghraifft os cewch chi ryw gorff gogled Cymru neu Gymry gyfan, a maen nhw'n dilyn polisi o symud o gwmpas, be wnân nhw ydy llogi cyfieithydd sy'n agos at bob lleoliad achos mae'n costio llai. Mae 'na rai cyrff dw i wedi mynd yno ambell waith pan maen nhw wedi bod yn reit agos i fan hyn, neu pan oedd rhywun oedd

yn agos at y lleoliad ddim ar gael. Ond does 'na ddim llawer o gyrff y byddaf yn mynd bob bythefnos neu bob mis. Mae lot o'r cyfarfodydd lle dw i'n cyfieithu ar y pryd naill ai'n *one-offs* neu'n rhai sydd ddim ond yn galw arnaf i yn achlysurol. Dw i ddim yn medru gweld sut mae patrymau yn datblygu. [43] Efo'r rhai dw i'n mynd yn arferol, fedra i ddweud, mae'n amrywio yn ôl gwahanol ffactorau, faint o'r Cymry Cymraeg pybur sydd yn bresennol ar y diwrnod, ydy'r cadeirydd yn cadeirio yn Gymraeg, a ffactorau eraill. Mae 'na amrywiaeth o gyfarfod i gyfarfod oherwydd y dylanwadau hynny. Ond o safbwynt newid hirdymor, alla i ddim dweud mod i wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw gorff dw i'n mynd atyn nhw yn weddol aml, fedra i ddim dweud mod i wedi gweld cynnydd cyson. Felly mae angen mwy o ddylanwadu rhagweithiol. Y broblem wedyn ydy wrth gwrs bod angen bod yn ddiplomataidd. [44] Mae 'na rai bobl yn gwrthymateb i unrhyw bwysau. Os ydy pobl yn trio pwyso arnyn nhw i ddefnyddio Cymraeg mewn cyfarfodydd, mae 'na rai yn protestio. Dydyn nhw ddim yn licio'r ffaith bod rhywun yn trio eu hannog nhw i siarad Cymraeg. Dw i'n meddwl bod B J (Blaenau Ffestiniog) wedi cael dipyn o brofiad felly. Mae o'n un i fynd ati i drio annog [siarad Cymraeg], a mae o wedi cael ymateb gwrthwynebus gan rai sydd yn siarad Saesneg, gan Gymry Cymraeg sy ddim yn arfer siarad Cymraeg yn ffurfiol mewn cyfarfod ac sydd yn gyndyn i newid eu harferion. Maen nhw'n digio pan maen nhw'n teimlo bod 'na bwysau yn cael ei roi. [45] Ond mi gewch chi ambell achos lle mae 'na ddysgwr yn defnyddio ei Gymraeg mewn cyfarfod lle mae 'na Gymry Cymraeg sydd ddim. Wythnos o'r blaen yn Llanrwst, swyddog sydd wedi dysgu Cymraeg, mae o'n gwneud y rhan fwyaf o'i gyflwyniadau yn Gymraeg. Ac oeddwn i allan yn y maes parcio wedyn yn siarad efo rhywun. A dyma'r ddynes 'ma sy'n Gymraes yn dod heibio yn dweud, 'soandso puts us to shame', meddai hi, (achos efo Sais oeddwn i'n siarad). Oedd hi'n cyfaddef tu allan y gallasai hi fod wedi defnyddio ei Chymraeg ond bod hi ddim wedi gwneud, byth yn gwneud. Ond a fydd hyn yn peri iddi hi ddefnyddio'i Chymraeg mewn cyfarfodydd i ddod, mae hyn yn gwestiwn arall. Mae 'na bobl sy'n cydnabod. Mae 'na ambell un a ddaw i fyny ataf i wedyn i ymddiheuro nad ydyn nhw ddim wedi defnyddio'u Cymraeg. Ond y tro nesaf, Saesneg fydd hi eto.

*Ond beth ydy'r cam nesaf wedyn, ar ôl teimlo bod nhw isio ymddiheuro, i ddweud, iawn, dw i'n mynd i siarad Cymraeg?*

[46] Mae angen rhyw fath o anogaeth. Hyd yma, ar y cyfan, y polisi ydy darparu gwasanaeth a disgwyl i bobl i ddefnyddio fo, ond wrth gwrs dydy hynna ddim yn gweithio. Dim mwy nag y mae darparu gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig gan gynghorau lleol wedi cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cyhoedd. Dydy o ddim yn ddigon i fod ar gael. Mae angen rhyw fath o symbyliad. I'r rhai a ddaru ymladd dros gael y Gymraeg yn y saithdegau, mae'r symbyliad 'na yn elfennol. Ond i'r rhai nad oedd yn rhan o'r frwydr, mae'n fwy anodd.

# CYFWELIAD 3

Aelod Cymraeg o gyngor cymuned
16 Ebrill 2007

Oedd Cyngor Cymuned D yn hollol Gymreig, pan es i arno fo oedd o'n hollol Gymreig. Doedd 'na ddim problem o gwbl.

*Ers pryd dach chi ar y cyngor?*

Oh, ers pryd dw i arno fo? Ers o leiaf deuddeng mlynedd. Gaethon ni ddim problem. Ddaru mi ennill fy sedd yn hwnna. Ddoth 'na lecsiwn wedyn, ac mi ddoth 'na le i un arall i ddod i mewn [ar y cyngor], a mi oedd hwn yn Sais. Postmon oedd o, ac oedd o wedi trio dysgu Cymraeg. Ond fel dw i'n trio dweud, dydy pawb ddim yn gallu dysgu ieithoedd. Faint bynnag triwch chi, mae'n anodd iawn i ambell un, a dw i wedi ffeindio nad ydy o ddim yn un o'r rheiny. Ond mae o wedi trio. Pan es i i'r Gadair, oeddwn i'n ffodus iawn. Oedd gen i glerc da iawn. Oedd hi'n paratoi, oeddwn i'n mynd ati hi cynt, ac os nad oedd 'na lythyr dwyieithog, efo cyfieithiad iddo fo felly, bod ni'n gwneud yn siŵr y byddai 'na rywbeth ar gyfer [y Sais] yna, fel ei fod o'n deall. A ges i ddim problem o gwbl efo fo yna. A bydda i bob amser yn gofalu, pan oedd gen i un Sais yna, [1] os oeddwn i isio pleidleisio ar rywbeth, byddwn i bob amser yn gofyn: 'Do you understand? I will repeat in English.' Achos oeddwn i'n teimlo os oedd o'n gorfod pleidleisio, oedd rhaid i rywun fod yn gwrtais. Os oedd 'na rywbeth oedd tipyn bach yn anodd iddo fo ddeall, fyddwn i yn ei ddweud o yn Saesneg. A mi ddothon ni drosto fo heb ddim problem o gwbl. Oedd 'na neb yn sôn ei fod o isio cyfieithu. Wedyn, fuodd o yn y Gadair, a ddaru ni lwyddo, oedd o'n gallu siarad yn Saesneg, oedden ni [yn siarad Cymraeg], oedd o'n deall ein Cymraeg. [2] Ond pan gaethon ni un arall i mewn ar y Cyngor, er fod o'n Gymro, oedd 'na dipyn o gydweithio rhyngddyn nhw. Ac oedd 'na dipyn o ryw *undercurrents* yn dod trwodd. A mwyaf sydyn, mi oedd o isio bod pethau yn Saesneg. [Roedd o'n dweud] fod o ddim yn deall. [3] Felly ddoth hi [y cyfieithydd] aton ni, a mi ddothon nhw â'r peth i fyny bod rhaid i ni fod yn ddemocrataidd. Oedd rhaid i ni gael cyfieithydd yna.

*Er bod yntau wedi bod yn y Gadair heb gael cyfieithu?*

Oedd. A mi ddaru mi sefyll adeg hynny a dweud, dw i ddim yn gwybod, yn Saesneg, 'I don't know what's come over you', meddai fi. 'We never had any problem with you before. We had a happy community council. You never ever created any difficulty for us. We worked together, meddai fi, but all of a sudden, since we had another member here, everything seems to be different here'.

*Ond Cymro Cymraeg oedd yr aelod arall hwnnw?*

Oedd o'n Gymro Cymraeg. [3] Ond oedd o isio pethau yn *'legal'*, os dach chi'n deall beth dw i'n feddwl. Oedd o isio dod â'r gyfraith i mewn. Mi ddylan ni gael hyn, mi ddylan ni gael y llall. Adeg hynny ddaru'r peth godi. Mi ddywedodd o [y Cymro newydd], mae rhaid i ni gael cyfieithydd, a wedyn mi ddoth HWB i mewn. Ac oedd yn bosib cael arian tuag ato fo. [4] Wel, os oedd hyn yn bod, os oedden ni'n cael arian, ddaru ni gydweld, achos oedden ni'n dal isio cadw ein cyfarfod yn

Gymraeg. [5] Achos dan ni yn y mwyafrif yna, a dan ni yn y pentref yn fan hyn, a mae'n bwysig ein bod ni'n cadw'r Gymraeg. Felly dyna sut ddaru ni ddechrau, bod nhw wedi ffeindio bod posib cael arian o HWB, a mi ddaru ni gydweld, reit, mi gymerwn ni gyfieithydd, ond rŵan mae HWB wedi gorffen. Dan ni'n dal i gael cyfieithydd, [6] a dach chi'n gwybod eich hun faint o oriau sy'n mynd yna, a faint o gostau, fedrwn ni ddim fforddio i dalu o am hir. Dan ni wedi awgrymu, a mi ofynnais i os oedd o yn y rheolau iddo fo ddod â rhywun efo fo, i eistedd efo fo. Ofynnais i ganiatad y cyngor, ac oeddwn i'n meddwl bod hwnnw'n atebiad, dod â Chymraes neu Gymro efo fo a chyfieithu fel oedd o'n mynd ymlaen. Os nad oedd 'na lythyr dwyieithog. Os oedd pethau yn hollol uniaith Gymraeg, bod 'na berson, rhothon ni ganiatad, ac oeddwn i'n dweud adeg hynny, mae ganddon ni ddigon [o bobl], fedra i enwi rhai yn y Dyffryn, meddai fi, sydd yn hollol addas. Maen nhw'n athrawon ail iaith, mi fysan nhw'n fodlon iawn i gyfieithu ar y pryd yn ei ochor o. A bod ni'n rhoi caniatad iddo fo ddod â rhywun. [8] Mae o wedi gwrthod gwneud hyn. Doedd 'na neb yn ddigon da, neb yn gallu gwneud, a wedyn mae hi wedi mynd o ddrwg i waeth, bod rhaid i ni gael cyfieithydd yna. Ac wrth gwrs maen nhw wedi tynnu hefyd amryw o bobl i mewn [i'r cyfarfodydd], gwrandawyr. Wel, does dim rhaid i ni gael cyfieithu ar eu cyfer nhw, cân nhw drefnu o eu hunain, achos does gynnon nhw ddim hawl cymeryd rhan oni bai eu bod nhw wedi gofyn ymlaen llaw. Ond dw i'n gweld ni rŵan, mae gynnon ni Sais uniaith, ar wahân i'r cyntaf, sydd *on the ball* efo popeth. Mae o'n fachgen galluog iawn, mae'n help mawr, a dydy o ddim byd yn erbyn y Gymraeg o gwbl, ond dydy o ddim wedi cael y cyfle i ddysgu'r iaith o gwbl. Mae o wedi gweithio i ffwrdd. Ond dw i'n gweld ni rŵan yn mynd i anhawster. Achos dan ni'n talu £120, 140 neu fwy y noson, does gynnon ni ddim o'r arian. A sut dan ni'n mynd i yrru ymlaen yn y cyngor, dw i ddim yn gwybod. Achos fydd rhaid i ni feddwl rhywsut neu gilydd, a dan ni wedi bod yn trio gwneud ymholiad, oes 'na grantiau ar gael o rywle? Does 'na ddim byd i gael, mae arian yn brin. Ond dan ni'n tueddu, dan ni fel cyngor wedi sefyll yn gadarn, bod ni yn Gymry.

*Dach chi'n teimlo eich bod yn ddigon Cymraeg o hyd, hyd yn oed efo'r cyfieithu a'r ddau Sais yna? Ydy'r cyfarfod weithiau yn troi i'r Saesneg, a wedyn yn ôl i'r Gymraeg?*

Nac ydy, dim gymaint â hynny. [11] Dan ni'n dal, oni bai ein bod ni isio gwneud rhyw bwynt arbennig, sydd isio ei anfon o adra, dan ni'n dal i siarad yn y Gymraeg. Mi glywsoch chi, dan ni'n rhoi ein *comment* yn Gymraeg, ambell i waith, mi eith 'na un, un o'r ddau mwyaf diweddar, mi eith un, hwnna sydd yn Gymro, mi eith o i siarad Saesneg. Ond ni fel Cymry, oni bai ein bod ni isio anfon rhywbeth adra, yn bendant atyn nhw, dyna'r unig adeg wna i siarad Saesneg. Os dw i isio cyfeirio, siarad hefo un ohonyn nhw, trwy'r Gadair, bod fi isio dweud rhywbeth wrthyn nhw, 'you're not right there. I've supported you all along, but'…neu fel arall, dan ni'n gallu cadw ein hiaith Gymraeg. Dw i'n teimlo'n gryf iawn yn cadw ein pwyllgorau. Achos dw i wedi ei wneud o rŵan. Dw i efo Sefydliad y Merched, dw i wedi bod yn y Gadair yn Sefydliad y Merched, a dw i'n bendant ein bod ni'n ddwyieithog. [12] Mae gynnon ni is-bwyllgor cerdd a drama, maen nhw wedi trio enwi Saeson i ddod atyn nhw. Dw i yna yn sefyll: Dydy Saeson ddim yn gwybod beth ydy cerdd dant. Fedran nhw ddim ein helpu ni efo Eisteddfod, i ddethol adroddiadau a caneuon a phethau felly, a hyd yn hyn dw i

wedi llwyddo i allu cadw'r pwyllgor cerdd a drama yn Gymraeg. Achos mae o mor bwysig. Mae o'n arbennig o bwysig i allu cadw'n diwylliant.

*Ac mae hyn yn fwy nag iaith yn unig, te?*

Diwylliant, ydy. Ni sy'n gwybod hynna, [12] a dw i wedi llwyddo i ddweud, mae'r cyfarfod yn Gymraeg, mae'r pwyllgor yn Gymraeg, a pwy bynnag dach chi'n enwi, mae rhaid iddyn nhw allu dilyn y Gymraeg, dan ni ddim yn troi. Achos oedd gen i hawl pan oeddwn i yn y Gadair i sefyll drosto fo. Achos mae o mor bwysig bod ni'n cadw ein diwylliant. Tydy o ddim gan y Saeson, nac ydy? A fedran nhw ddim cymeryd rhan efo ni. Os ydyn nhw'n dysgu, os ydyn nhw'n fodlon dysgu, dan ni'n fodlon iawn, mi fuodd gen i un … am sbel go lew, a mae hi'n ddysgwraig, mae hi wedi cael rhyw wobr, oedden ni'n help iddi hi i ddysgu Cymraeg. Ac fyddwn i bob amser yn dweud achos oeddwn i yn y Gadair hefyd yn hwnnw, fyddwn i'n dweud, 'dach chi'n dilyn?' a fyddwn i bob amser yn siarad yn araf deg.

*Mae hyn yn sicr yn help.*

Siarad yn araf deg, a chyfeirio ati hi: dach chi yn deall?

*Dach chi'n meddwl bod dysgu iaith yn ddigon gan y rhai sy'n dod o tu allan i fod yn rhan o'r diwylliant ac o'r gymuned? Mae 'na fwy i ddiwylliant na siarad iaith, does?*

Oes. Beth dw i'n teimlo, dw i wedi bod yn helpu. Dw i ddim yn athrawes, dw i ddim wedi cymeryd dosbarthiadau, [14] ond dw i ddim yn teimlo ein bod ni fel Cymry yn rhoi digon o help i'r Saeson sy'n dod i'n hardaloedd ni.

*Dw i wedi clywed hyn gan ambell ddysgwr.*

Dw i wedi bod yn cael rhai ohonyn nhw yn fan hyn, cael nhw allan i gael coffi, a jest siarad. Achos mae'r Saeson yna, maen nhw'n mynd i ddosbarth, a dydyn nhw ddim yn siarad gair o Gymraeg yn yr wythnos. Does gynnon nhw neb i siarad, os nad oes gynnon nhw blant sy'n siarad Cymraeg. Dydyn nhw ddim yn gallu cael yr ymarfer. A wedyn maen nhw'n mynd yn ôl i'r dosbarth. A fyddwn i'n dweud, dw i wedi bod yn y Gadair yn Merched y Wawr hefyd, dw i'n gwisgo dwy het, a fyddwn i'n dweud adeg hynny, rhowch groeso iddyn nhw. Gofynnwch iddyn nhw ddod i fewn, siaradwch efo nhw dros wal yr ardd. Gofynnwch iddyn nhw ddod i fewn am banad o de a siaradwch Cymraeg efo nhw. Allan nhw ddim heb ein help ni. A dw i'n teimlo bod ni ar ei hôl hi, ac wrthyn nhw ddwad fel yna i'r cartref, adeg hynny dach chi'n gallu rhoi yn anuniongyrchol tipyn o ddiwylliant, tipyn o gefndir, ein cefndir ni, iddyn nhw.

*Ac ydy'r bobl yna wedi dyfalbarhau ac yn dal i siarad Cymraeg?*

Mae 'na un yn dod, ac oeddwn i yn sefydliad T diwrnod o'r blaen, a mae M., dydy hi ddim yn rhugl, ond wneith hi ddiolch yn Gymraeg. wneith hi'ch cyfarch chi, wneith hi siarad ychydig. Dydy hi ddim yn rhugl, ond mae gynni hi gefndir. Mae hi'n gwybod am be mae rhywun yn siarad. A mae hwnna yn bwysig, a mae gynni hi bob cydymdeimlad a'r iaith Gymraeg.

*Ond mae 'na resymau pam nad ydy pobl yn siarad Cymraeg efo'r Saeson achos ei bod hi wedi bod fel 'na ers degawdau a chanrifoedd. Efallai nad oes gan y bobl ddim digon o hyder i siarad Cymraeg efo'r Saeson. Beth fyddai'n rhoi yr hyder yna i rywun? Sut fyddai rhywun yn cael yr hyder i ddweud, dw i'n mynd i siarad Cymraeg trwy'r amser rŵan os dw i'n gwybod bod chi'n dysgu?*

[15] Dach chi ddim yn ffeindio bod ni'n lladd yr hyder yna trwy droi i'r Saesneg? Dan ni'n dweud, 'Sut dach chi heddiw. Da iawn, diolch. O mae'n ddiwrnod braf.' a wedyn be dan ni'n ei wneud ydy troi i'r Saesneg yn lle ceisio eu helpu nhw. Dw i'n cydwybodol bod 'na lot o fai arnon ni fel Cymry.

*Dach chi'n gweld bai arnoch chi eich hunain hefyd ynglŷn â diffyg hyder y Cymry i siarad…*

Maen nhw'n colli hyder wedyn. Dw i wedi trio. Oedd 'na rywun, yn codi'r ffôn er enghraifft, 'dw i'n gwneud rhyw *exercise*, ga i ddod drosodd?' Dim yn hollol saff ohono'i hun. [17] Dw i'n credu gallwn ni wneud cymaint cymaint yn fwy, tasan ni ddim ond yn trio. Dan ni yn ynysu'n hunain gormod. Dw i'n mynd i'r eglwys a darllen yna yn Gymraeg. Mae'r mwyafrif yn Saeson, mae 'na gyfieithiad iddyn nhw, ond dw i'n benderfynol mod i'n mynd i ddal i ddarllen yn Gymraeg yna. Mae'n person ni wedi dysgu, a mae hi'n awyddus iawn. Wneith hi hefyd godi'r ffôn, 'I'm taking a wedding, can I come? Dw i isio ei wneud o yn Gymraeg.' Oedd hi'n priodi C. F. Fyddai hi'n dod ata i dipyn yr adeg hynny, er mwyn cael yr iaith Gymrag yn berffaith. Ond i ni roi mwy o help iddyn nhw, maen nhw'n fwy awyddus i berffeithio fo.

*Dach chi'n meddwl unwaith bod rhywun yn frwdfrydig ac yn dangos ei fod yn awyddus i ddysgu'n iawn, bod 'na fwy o Gymry sy'n fodlon helpu? Ond mae 'na lot o bobl sy ddim yn dangos brwdfrydedd, maen nhw'n mynd i'r dosbarthiadau, ond ddim yn siarad efo Cymry Cymraeg tu allan i'r dosbarth.*

Ia, ond does gynnon nhw ddim o'r hyder. Ond dydy'r ewyllys ddim gan llawer ohonyn nhw. Mae gynnon ni rai yn fan hyn yn y pentref. [18] Mi fuodd na adeg, B. yn dweud, oedd 'na ddynes yn y siop, a fo yn siarad Cymraeg efo rhywun, ac oedd hi'n dweud, 'you shouldn't be speaking Welsh when I'm in here'. Dan ni wedi cael hyn yn London House, mae gwraig wedi dweud, dylech chi siarad Saesneg yn y siop. Mae'r ychydig yna yn gwneud i chi fod yn… Ychydig ydyn nhw, ond maen nhw yna, dan ni yn eu cael nhw. Dw i ddim yn meddwl bysach chi'n cael nhw yn y Blaenau. Maen nhw'n gorfod toddi i mewn yn Blaenau.
Efo'r wyrion hefyd, mae fy merch yng nghyfraith yn Almaenes, mae hi wedi dysgu Cymraeg, ond dydy hi ddim yn rhugl. Ac oedden ni'n eistedd rownd y bwrdd, ac oeddwn i wedi digwydd siarad efo hi yn Saesneg, a dyma fi'n dweud rhywbeth wrth Tom. 'Nana', meddai fo, 'wyt ti ddim yn siarad efo fi yn Saesneg!' Ond mae'n broblem yn yr ysgol. Mae 'na bump o'r plant yn Gymry. Ac er bod yr athrawes yn dda iawn, mae'n trio gwneud bob dim yn Gymraeg, Saesneg ydy iaith yr iard. [19] Mae 'na un fam, dw i ddim yn deall. Mae hi'n Gymraes o'r ardal yma, ond mi wneith hi siarad Saesneg efo'i phlant.
[20] Ond piti dw i'n teimlo na fysai hi'n bosib cael tipyn bach mwy o gymorth efo cyfieithu. Er mwyn i ni allu cadw mwy o bethau yn Gymraeg. Oeddwn i yn Porthmadog diwrnod o'r blaen, efo'r doctor Lyndon Miles, mae o efo'r Bwrdd

Iechyd, fo oedd yn rhoi *presentation*, ac oedd o'n wych yn Gymraeg, a ddaru o ymddiheuro yn y dechrau rhag ofn iddo wneud camgymeriad, ond daru o ddim. [21] Oedd ganddon ni gyfieithydd yna, oedd o'n braf bod ni'n gallu cadw a chynnal ein cyfarfod [yn Gymraeg], achos mae 'na amryw o Gymro, mae well gynnon nhw siarad yn y Gymraeg o lawer. Dw i'n pitïo na fysai 'na fwy o grantiau ar gael i ni allu cael cyfieithydd, [22] a thrwy gael cyfieithydd i'n cyfarfodydd, dan ni'n mynd i roi tipyn o gefndir Cymreig iddyn nhw.

*Dach chi'n gweld mantais o gael cyfieithydd felly?*

[23] Ydw, er mwyn i ni allu cadw'n iaith. Achos dydy o ddim yn effeithio arnon ni fel Cymry, ond yn galluogi i ni gael Saeson yn dod i mewn aton ni pan mae gynnon ni gyfarfodydd Cymraeg. [24] Achos y tueddiad ydy i droi i'r Saesneg, pan mae ganddon ni Saeson yna, a does ganddon ni ddim cyfieithydd. A'r teimlad ydy, dach chi'n anghwrtais os na wnewch chi, achos mae gynnon nhw gymaint o hawl i fod yn y cyfarfod â ninnau. Ond pe bysai cyfieithydd yn haws i'w gael mewn ambell i gyfarfod yn lle bod ni'n gorfod troi i'r Saesneg, ond mae eu costau nhw mor ddrud. Mae hwnna yn broblem aruthrol.

*Dach chi'n teimlo bod cyfieithu yn gwneud cyfarfodydd yn fwy ffurfiol achos bod rhaid i bawb siarad yn ei dro…*

Dydyn nhw ddim yn gwneud! Ac felly mae'n anodd iawn i'r cyfieithydd.

*Dach chi'n teimlo bod y ffordd leol o drafod ac o gynnal busnes yn mynd ar goll pan mae cyfieithydd yno?*

I ryw raddau. Ond dw i'n meddwl bod o'n dibynnu llawer iawn ar y cadeirydd. Sut mae o'n gallu cynnal [cyfarfod], a bod gynno fo drefn. Does dim yn rhaid iddo fo fod yn ffurfiol, achos os dach chi yn y Gadair, mae rhaid dweud bod hwn a hwn yn cael siarad, a felly dylai hi fod, hyd yn oed heb gyfieithydd. Dydy neb i fod i fynd ar draws ei gilydd. A mae'n dibynnu'n hollol ar y cadeirydd. [25] Ond i gadeirydd gadw trefn, dw i ddim yn meddwl bod o ddim yn mynd dim mwy ffurfiol efo cyfieithydd. Dylai fo ddim fod, os ydy'r arweiniad o'r Gadair yn dda. Wyddoch chi yn Port, [26] ddaru ni ddim teimlo o gwbl fod 'na gyfieithydd yna, pan oedd y ddadl, a phan oedd o'n mynd yn agored. Ond wedi dweud hynny, roedden ni wedi mynd i weithdai yna, i wahanol grwpiau. Oedd gynnon ni ddim ond un Saesnes yn ein grŵp ni, ond doedd gynnon ni ddim cyfieithydd…

*…achos dim ond un cyfieithydd i sawl grŵp oedd 'na…*

[27] fe fuodd rhaid i ni droi i'r Saesneg. Ac oeddwn i'n teimlo, oedden ni'n trafod ysbyty Blaenau, gwahanol bethau, ac oedd o gymaint mwy pendant pe bysan ni wedi cael wneud o trwy'r iaith Gymraeg. Mae'n anodd i drafod yn Saesneg, er bod pawb yn siarad Saesneg, ond dydy o ddim yn dod drosodd. Ond pan ddothon ni i gyd at ein gilydd o'r holl weithdai, oedden ni'n rhoi adroddiadau, daru mi ddim teimlo o gwbl bod gynnon ni gyfieithydd. [28] Os oedden nhw'n siarad Saesneg, oedden nhw'n gwneud, oedd rhai Cymraeg yn rhoi eu hadroddiad yn Gymraeg, oedd o'n dwad yn hollol naturiol. Ac oedd S. mor dda yn y Gadair, ac oedd hi'n siarad yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Doedd neb yn meddwl dim byd gwahanol. Ac

oedd hi'n ysgafn efo fo. Oeddech chi'n teimlo dim. Efo hi yn y Gadair, ddoth o drwodd heb deimlo dim straen yn y byd. Oedd y ddwy iaith ochr yn ochr, neb yn meddwl dim.

*Dach chi wedi profi cyfarfodydd lle mae rhywun yn rhoi adroddiad yn Saesneg, a wedyn mae'r drafodaeth yn Saesneg hefyd?*

[29] Yn fan 'na dan ni'n colli allan â dweud y gwir. Dylai bod yn gofalu os ydy'r mwyafrif yn Gymry bod y *presentation* yn Gymraeg, y siaradwr yn Gymraeg.

*Ond os ydy hyn ddim yn bosib achos bod yr arbenigwr ar y pwnc dim ond ar gael yn Saesneg?*

Ond dylai fod yn bosib. Mae 'na ddigon o bobl ar gael, dim ond efallai nad ydyn nhw'n byw mor handi. A wedyn mae'n gwestiwn o arian eto, achos bod nhw'n gorfod talu mwy os ydyn nhw'n dod o bell. Yn y diwedd, mae bob dim yn dod i lawr at y geiniog. Ond dywedwch chi bod nhw'n trafod pethau gwyddonol iawn, a'r iaith yn ryw iaith ryngwladol beth bynnag, achos dim Saesneg ydy'r iaith yna chwaith, ond yn fwy efo geiriau rhyngwladol. Dyna ydy iaith y pwnc yna, a dw i ddim yn meindio cymaint os ydy adroddiad felly yn cael ei drafod yn Saesneg. Dydy hyn ddim mor bwysig.

*Felly dach chi'n meddwl bod angen mwy o ymdrech ar ran y trefnwyr i gael siaradwyr Cymraeg i gyfarfodydd?*

Ydw. Dw i'n gweld lot o fai arnon ni'r Cymry. Mae 'na ambell un yn dod ataf i weithiau ar ôl cyfarfod a chwyno bod y Saeson yn cymryd drosodd. [30] Am ryw reswm, mae'r Saeson yn fwy bodlon siarad mewn cyfarfodydd a sefyll i fod yn swyddogion hefyd, ac mae'r bobl yn dweud eu bod nhw'n cymryd drosodd gynnon ni. Ond dw i wastad yn trio dweud, pam dach chi ddim yn sefyll eich hunain? Os nad ydan ni'r Cymry yn sefyll i fyny i fod yn trefnu pethau, a bod yn gadeirydd neu'n glerc, does gynnon ni ddim hawl i gwyno. Mae'n bwysig iawn i ni sefyll dros ein hiaith ni, a'n diwylliant, a fel dw i'n ddweud yn y pwyllgor cerdd a drama, Cymraeg ydy iaith y pwyllgor. Ac mae hyn yn bosib achos bod 'na ddigon o bobl yn fodlon gweithio iddo fo.

# CYFWELIAD 4

Pennaeth sefydliad cyhoeddus yng ngogledd Cymru
23 Mai 2007

*…Y cwestiwn dw i isio ateb iddo fo ydy pam, a mewn pa cyd-destun, mae Cymry Cymraeg yn dal i siarad Saesneg. Mae'n dibynnu lle mae'r cyfarfod, mae'n dibynnu beth ydy'r grŵp, mae'n dibynnu pwy sydd yn y grŵp, faint o siaradwyr Cymraeg sydd yn y grŵp, pa mor gadarn ydyn nhw dros y Gymraeg. Mae'n siwr eich bod chi'n mynd i lot o gyfarfodydd. Dw i isio clywed safbwynt rhywun sy'n edrych ar y peth o safbwynt cynllunio o fewn sefydliad. Heblaw hynny, dw i hefyd yn holi pobl sy'n mynd i gyfarfodydd ar lefel y gymuned, dw i'n mynd i holi rhywun sydd mwy ynglŷn â pholisi ar lefel genedlaethol, er mwyn cael yr holl wahanol agweddau ar gyfieithu ar y pryd. Mae 'na bobl sy'n dweud peidiwch â rhoi gormod o sylw i gyfieithu, dan ni isio i bobl ddysgu Cymraeg, bod y di-Gymraeg yn dysgu a'r Cymry Cymraeg yn cael y siawns i wella eu Cymraeg a chael mwy o hyder. Y cwestiwn ydy: Ydy cyfieithu ar y pryd yn gwneud sens neu ddim?*

Yn gwneud sens i bwy?

*I'r iaith, i'r Cymry,*

I'r dyfodol. Pwyntiau da. Blynyddoedd yn ôl […], roedd gynnon ni gynllun dros yr iaith Gymraeg, wrth gwrs, o dan y gyfraith, fel pawb arall yng Nghymru. Ond roedd ein cynllun cyntaf ni yn sôn am arwyddion ar y wal, ar bapur, er mwyn edrych yn ddwyieithog fel corff, i'r cyhoedd. So roedd 'na arwydd ar y wal tu allan […] i ddweud croeso […] ac yn y blaen. Ond roedd yr arwyddion ar y wal tu ôl i'r cownter yn uniaith Saesneg. Roedd y corff ei hun yn rhedeg trwy gyfrwng y Saesneg, uniaith Saesneg. Y peth cyntaf i mi, y newid cyntaf, oedd newid y corff ei hun i edrych yn ddwyieithog, tu ôl i'r cownter ac yn gyhoeddus hefyd. Dan ni wedi gwneud hyn rŵan, pum mlynedd yn ôl. Roeddwn i'n dweud wrth y Bwrdd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mi ddylen ni, fel cenedl, symud ymlaen i drafod defnydd o'r Gymraeg fel iaith busnes, iaith fodern, iaith bob dydd yn y sector cyhoeddus. Achos os dan ni, Cymru, isio gweld i'r hen iaith barhau, bydd rhaid i ni, y bobl sy'n byw fan hyn, ei defnyddio hi. Dydy arwyddion ddim yn ddigon. Siarad ydy'r peth.
Dw i ddim yn Gymro Cymraeg, ond dw i isio gweithio yn fan hyn. Dw i wedi symud i Gymru fel gwirfoddolwr, fel chi. [2] Ond mae gen i swydd […] yn y sector gyhoeddus. Yn fy marn i, mae gen i ddyletswydd personol i wneud rhywbeth efo'r iaith o dan y gyfraith. Roeddwn i'n benderfynol i symud y ddadl ymlaen, i orfodi pobl i feddwl am y problemau, a dydy arwyddion ddim yn ddigon. Pum mlynedd yn ôl, roeddwn i'n siarad efo'r Bwrdd beth i'w wneud, ac hefyd wedyn sut. Ac roedd yn amlwg i mi ei bod hi'n amhosibl i ricriwtio digon o bobl Cymraeg eu hiaith er mwyn datrys y problemau. Dydy'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yng Nghymru ddim yn siarad Cymraeg. Dyma'r realiti. Felly, mi wnes i benodi tiwtor iaith mewnol […]. Y cam cyntaf oedd dod o hyd i rywun sy'n medru gweithio […] er mwyn codi ein sgiliau iaith fel corff. [3] Rŵan dan ni wedi creu awyrgylch, agwedd well tuag at yr iaith Gymraeg […]. Ond dydy hynny ddim yn ddigon chwaith. Achos mae'n amhosibl dros amser byr i godi ein sgiliau iaith er

mwyn creu sefyllfa ble mae'r Gymraeg yn iaith fusnes i bawb. Dydy pawb ddim yn rhugl yn y Gymraeg eto. Mae'n amhosib i ddatrys y problemau fel hynny.

*Pan mae cyfieithwyr mewn cyfarfodydd, mae rhai o'r Cymry Cymraeg yn amlwg yn siarad Cymraeg. Dach chi'n meddwl pan mae un ohonyn nhw yn siarad Cymraeg yn gyson, bod y lleill yn pigo hyn y fyny a'u bod nhw'n dod yn fwy hyderus?*

Efallai, ond yn anffodus – dan ni wedi bod yn eithaf llwyddiannus efo'n cynllun, mae gynnon ni rŵan gynllun newydd, heriol, ond yn anffodus, fel roeddech chi'n ddweud munud yn ôl, mae 'na lot o Gymry Cymraeg sy ddim yn siarad eu mamiaith mewn cyfarfodydd efo di-Gymraeg. Dw i ddim yn hollol siŵr pam. Hyder ydy un o'r problemau, ond mae 'na fwy na hynny.

*Statws yr iaith ydy un peth arall, ond os dach chi'n dweud eich bod chi wedi gweithio mor dda ar eich cynllun, mae'n rhaid bod y statws wedi ennill lot o fewn [eich sefydliad]?*

Mae gynnon ni un problem enfawr i mi. Dydy statws y cyfieithu ddim yn ddigon, a safon y cyfieithu ddim yn ddigon. Mae cyfieithu ar y pryd yn gweithio, ond dydy o ddim o safon ddigon uchel fan hyn […]. Os dach chi'n siarad yn y Gymraeg, yn rhugl, yn gyflym, fel mamiaith, i bobl sy'n dallt yr iaith does 'na ddim problem o gwbl wrth gwrs. Ond yn anffodus, dydy hynny ddim yn gweithio yn ddigon da mewn cyfarfodydd, a dweud y gwir. Mae'n anodd iawn i ddod o hyd i gyfieithwyr digon da i ymdopi efo'r trafodaethau fan hyn. Mae gynnon ni, mae gen i […], broblem *specific* yn y corff. Dydy ein hadran gyfieithu ddim o safon digon da i ymdopi efo'n problemau.

*Ydy hyn oherwydd nad ydyn nhw ddim yn ddigon cyfarwydd efo'r pwnc, y maes,*

I've got to change into English here because I can't talk about nuances in Welsh which is exactly the problem. There is a confidence problem, definitely, and one of the things we found in our plan over the years is, I found people who've known each other for 25 years and neither person knew the other one spoke Welsh as their mother tongue. And I've even found that recently, but five years ago it was a common place. We were almost living in the Welsh Not, and it just wasn't done, you just didn't speak Welsh for business. There is still a bit of that, but it's mostly gone, [6] but we still have lots of native Welsh speakers who prefer to speak English for business. [7] Part of it is confidence, it's not confidence in their own language skills although that is part of it. It's a worry that your nuance is getting lost in translation. [8] And I'm now at a stage where I can listen to the translation and I can listen to the native speaker. And what I hear coming out of the person's mouth is not what I hear coming out of the earphones. And that is devastating. (Be careful how you use this in your research.) Our translation department is not now up to the level that we're operating at, and of course it's not easy to change that. It's a big step. We're trying to bring them on, but changing the staff or raising the skill level is a complicated issue. And it's particularly complicated in Welsh because of the different registers of language used. We have problems for instance, some of our translators, some of the native Welsh speakers have difficulty understanding some of the other Welsh speakers because their accents are so

different. We have one guy […] who comes from Porthmadog. He seems to be incomprehensible in English and Welsh. And he actually causes a difficulty. Then of course you have a difficulty with the written Welsh language. It looks and sounds significantly different from what actually comes out of people's mouths, more so than is the case in English. It happens in English too, it happens in all languages, but the gap is more obvious. [9] When we start talking about formal business language, quite a lot of the vocabulary isn't known to people, and you hear routinely, Caernarfon is notorious for it, every other word coming out of people's mouths is English. [10] But that's true with the translators as well. And all this is bound up with, [11] we still have a problem not with confidence, but with people who want to be specific, as I'm doing now, I'm forced to break into English, because I can be more certain that I can get my message across more carefully in English than I can in Welsh. And I'm now at a level of Welsh where I'm concerned when I'm speaking to somebody – and this is not just my own organisation, because I've heard it in others too, but we've got a particular problem here – [12] that I know the level of translation provided is going to lose the nuance. I've been in lots of public meetings where the translator can't keep up with the speaker.

*In terms of speed?*

Yes, in speed, and in complexity of language. You can hear the translator struggling. I've never been to the United Nations to hear this, or the European Union, and they've been at it longer. [13] Because this is a relatively new phenomenon in Wales, it's a new profession, and there are no structures. I can't go and get somebody with a guaranteed skill level.

*Many translators in Wales learn their skills on the job.*

Cyngor Gwynedd is the only organisation that's been doing this for any length of time. [14] There isn't a big pool of people to choose from. I can't be certain other than testing on the job that this person is up to it, and I've heard some brilliant translators. I don't know if you've heard Dafydd Elis Tomos, the presiding officer at the Welsh Assembly working seamlessly in two languages like this, but people like that are few and far between. [15] And if you know that the translation facility isn't going to cope with the nuance of what you want to say or if you lack the confidence that they're going to cope with it, the only answer if you're speaking to a group of people who don't all speak both languages, is to change to the one where you can be certain.

*Don't you think that historical conditioning is part of that?*

Of course history is part of the hyder. But it's also the case that if you (we have people […] like this), [16] if you actually lack confidence in your English speaking ability, and I have one or two people […] who I'm pleased to say feel much more confident in Welsh than they do in English, and yet they know that the translation facility won't keep up, and they feel forced to change to English but then lose confidence in themselves because they can't cope so well in English, we end up with a terrible muddle. I'm overplaying this a bit, but it's more than the hyder that you were talking about. Hyder works in three or four ways. And if we

haven't got hyder in the translation facility, the whole thing becomes really difficult. And I don't have. I am not sufficiently confident in the translation facility that we have here. I had a classic example recently. I was, I gave a speech […] in Welsh […] a month or so back. And it was a long speech. I don't work off written speeches normally, I like to extemporise. But in Welsh I can't. My Welsh just isn't good enough. I can have a cup of tea with it, but I can't give a half hour speech, and this was an hour's speech, in Welsh without notes. So I wrote the speech, and I was going to write it in Welsh, but I couldn't because I ran out of time. It takes me much longer to write a speech in Welsh to the level I wanted to reach. So I wrote it in English and [18] I gave it to the translation department who turned it into the wrong register of language. They turned it into a formal, very formalised Welsh. And I wanted to speak […] at a Mrs Jones o Lanrug level, quite deliberately. So I had to have the speech rewritten by my staff officer who is very fluent, very able Welsh, to turn it into the right register of language. And she had to do it at a level that she knew I could cope with. Because I still have difficulty, as you can hear, with some formalised Welsh and words that I haven't seen before, and there are lots of them because my vocabulary isn't big enough. So she had the task of finding the right register of language that wouldn't insult [y bobl yn y cyfarfod], wasn't too high or too low, and that I could cope with. And I managed to do it, and I got away with it. [19] As you know people in Wales are very forgiving about our massacre of their own language, they are so pleased to hear somebody talking it. [20] But there's a huge issue there about how do we get translation facilities that can cope with what is now being asked of them. And what I'm asking of the translation department here is an order of magnitude more than was previously the case. [21] We've got an in-house tutor, we've done masses with that, we are raising the standard of the language, it is being used more. I had to triple the size of the [translation] department, and that's still not enough. They can't cope with the workload. And quite frankly, in private, they're not up to the job, yet. And I don't mean that as a criticism of the individuals, but as you said, there isn't the structure, there isn't anywhere to go and find these people off. There are some wonderful translators around, but actually there aren't enough. [22] And this business of hyder works in a number of quite sophisticated ways. There's an embarrassment factor as well I think, not just hyder.

*People don't want to draw attention to themselves, maybe they would like to speak Welsh but know that the others must look for their headphones…*

How many languages do you speak?

*Four.*

Is your native language German?

*Yes.*

And how long have you been in the UK?

*Almost seven years.*

Right. [23] Because we have a very odd attitude to language, the English speakers. And we're not just arrogant because we expect the whole world to speak English – and of course increasingly it does which lets us get away with it which is really unhelpful – but we're also terribly embarrassed. [24] And in English (I speak a bit of French, I don't speak German at all), but I found as an English speaker coming to Wales, that there is no embarrassment factor around Welsh. Because Welsh is a very variable language you can speak it as you want, your accent doesn't matter, nobody cares. [25] But in English, particularly in England, there's a thing about speaking properly. And if you don't speak properly, you get criticised. Grammar, syntax, accent matters much more than it should do. It matters to the French which is why they have the Academy to protect it. But my experience of speaking French in France is that people are just so overjoyed that some foreigners tried – as in Wales – that they let you go with anything. But in England for the English speaker that's not the case, I'm embarrassed to say. And there's an embarrassment factor. I have a […] group here, an internal […] group, there's about ten of us who run the organisation. And of that group of ten at the moment we have two native Welsh speakers and four or five learners. [27] And I've insisted the meeting is now bilingual. And we have a translator come in. We have a broadly speaking adequate translation service. It's not a disaster, it's not as good as it should be. But it is adequate, it's good enough. And one of the native Welsh speakers will confidently speak Welsh, he's a very very able linguist. The other guy, they're both men, has to be pushed into doing it. Because his whole life has been in formal business in English. And he's perfectly competent. He does not have a problem with confidence. It isn't about hyder, it's about embarrassment. Because *he's forcing* his friends to listen to him speaking a foreign language. And it's not confidence in that sense, it's a different sort of confidence. It's *making them* treat him differently. It's making him stand out as a native person, something different to them, making them, and I do mean *making them* listen to his words filtered through a translator. And they've known each other for 25 or 30 years. And all of a sudden he's now, with my encouragement, speaking to them in Welsh., whereas for twenty years he's been speaking to them in English.

*He probably feels he's some body else when he speaks Welsh. So it's a question of identity.*

It is. [29] He feels that they think he's somebody else. And they probably do. Because they can see that the new [pennaeth] is coming, changes the atmosphere, identified these native speakers, one of them is extremely keen to speak to everybody in Welsh because he's very much of the This is Wales/ Dyma Gymru, this is our language, this is a bilingual country, mae Cymru'n wlad ddwyieithog o dan y Ddeddf, o dan y gyfraith, no problem with that at all. [30] For the other one, it is an identity issue. He's been their friend through the medium of English for years and years and years. And now I as an incomer am making him behave differently, pushing him out of the comfort zone. It's not a confidence issue, it's a comfort zone issue. [32] And why is this happening to him? He's not a crackpot Welsh nationalist, he's not a cottage burner. He's passionately Welsh but is quite comfortable speaking to English speakers in English. And why would he want then to change to Welsh? [33] But on the other hand there's a Welsh speaker in the room as well, and why is he making the Welsh speaker listen to him in English

when he knows the Welsh speaker would rather listen to him in Welsh? It's a very interesting play.

*But if the translation is good, it should be possible to bridge that gap.*

[34] It would be possible to close the gap. I'm not sure if it's ever going to be possible to bridge it until Wales gets more used to being a bilingual country. There aren't many bilingual countries, or trilingual. It doesn't work very well in Belgium. Lots of people speak French and Flemish, but they don't like working together. Switzerland copes with it, but largely through cantonal government –

*Each language is spoken in a different area. The languages are much more separated there.*

Yes, and in Belgium. There are not many countries where they are intermixed in the way that you see in Wales. It doesn't happen in Canada. Because language groups are incredibly exclusive. Because they literally can't understand each other. And of course English speakers are famous for keeping together when we go abroad, we're clanish. Because we're excluded from life around us. If you go to Switzerland to a German speaking canton, the road signs are in German. They're not in French and German and Italian and Rumantsch, they're in German. And you cross the border, and they swap. And you can see in the south Tyrol for instance, in the German speaking area of Italy, there is the war breaking out that we've seen here, people have died. But they're all the same things, language groups exclude each other. There are very few countries in the world trying to do what we're doing in Wales, saying that we have two languages that are of equal status. And the future of this is going to have to be more, better translation services. That's an attempt to bridge that gap. To bring confidence, that I can be confident that my words are being adequately translated into your head.

*And the things between the words as well.*

[36] And the things between the words. And that requires a cultural understanding. When you get to the stage of being able to translate idioms correctly such that – and sometimes it's easy, isn't it. We say in English the snake in the grass. The French translation is the cat who hides. And you can see it's exactly the same idea. The snake in the grass can't be seen until you tread on it, and the cat does hide in the grass, it's exactly the same idea. But some idioms are way apart, aren't they? They just don't translate. Dros ben llestri, for instance. What on earth does that mean? And why did I say it? Why would a Welsh speaker use dros ben llestri to describe something? What are they trying to say, and how do I capture that in English? And vice versa. And this requires very high linguistic ability.

*What you mean is that people don't only have to be able to work in their fields, but they also have to be good linguists if they want to be able to work in both languages.*

Yes. If *I* want them to be able to work at that level. And at the moment we're coping with it by translation, and the translation can't cope at that level. [38] We

desperately need some sort of academy of translators so that I can buy in easily these sort of skills.
Now, the confidence issue is much about use, just getting used to it. And lot of what I've been trying to do is to say to people this is normal. Get used to it guys, because this is the way it's going. We've got a thirty year language strategy, and I deliberately made it long so it's not to frighten people. We're on a glide path, this is going to happen, and it's going to get more and more as you go down. [39] But it isn't going to hurt an individual. And we got over the fear of the English speakers that they were going to get hurt, and all that fear has gone. The fear has gone, which is a huge – and this is another aspect, it's not just confidence, not just comfort, it's fear.

*Has the fear gone on both sides, on the English and the Welsh side?*

Yes, I think so. And that's been a leadership issue for me. And I have said nobody is going to lose their job. This is a bilingual country and under the human rights legislation, European legislation, you cannot be forced to speak any language that you do not choose to speak. We could force you to try and learn it, but that won't work. You can't be forced to speak it. You can speak any language you like, that's it. So nobody's going to lose their job, but this is going to be a bilingual organisation. And it's going to take us 30 years to get there. And we'll do that by recruiting lots more Welsh speakers, buy training more people to raise their language skills. We're taking account of the latent language skills in the local population because everybody who goes to school in Wales has some understanding. We're demystyfying it. We're taking the fear out. And you're going to see more Welsh, you're going to hear more Welsh, you're going to hear more people using Welsh around you. I've an office next door where we have two native Welsh speakers and somebody who doesn't speak Welsh. [41] How do we stop the English speaker getting excluded and yet use more Welsh in the office? How do we get language courtesy in both directions? My PA is a native Welsh speaker, I haven't spoken any English to her, she's only been here two months, I haven't yet spoken to her in English. And that means that I can only say what I can say, not what I want to say. And how do she and I talk to each other courteously and include English speakers? There are lots of big questions around this. [43] But the general thrust is that you're going to hear more Welsh because this is a bilingual country. Get used to it. And if you want to stay in Wales, that's the way it is. And if you don't, go somewhere else. So that gets over the fear, I think. [44] But the country has got some work to do on fear still. [45] Then we've got confidence. And we're not where we need to be with confidence yet, and getting the translation facilities right is a big part of confidence building. It's worrying me a lot.

*And simultaneous translation is more important in this respect than the written translations.*

We've concentrated to a very large degree on spoken Welsh for the very reason that you say. But I now know that our simultaneous translation, cyfieithu ar y pryd, is not of a high enough standard. And I know that, and I know that other Welsh speakers know that it causes a problem. I probably notice it as a learner more than most. Because if you're a native Welsh speaker you don't put the headphones on.

And I do. So I'm very worried about it. [46] And if Welsh is seen as a language that can't be used for business then it won't be used for business. So I'm very worried about that [47] and the only way out of this is some form of accreditation for cyfieithu ar y pryd. And that's one of the reasons I was very pleased to see you. I actually need somebody, and I'm going to do this, I'm going to have people come in assessing the actual translation for worth. We assess everything we do […], everything we do gets measured, it gets graded and leagued up, and that's right. This is a public business. I need a means of assessing the standard of our simultaneous translation if we're to progress this. I've got to have it. What I say is I need it. I've got to have it. We're going to have to do this. It is crucial. [48] Because I've got to have confidence that the organisation is able to work in both languages, because whichever you choose to speak the same point will come across. And that means understanding culture and context. It's about being a real linguist, not just somebody who can translate. I can translate, given time, lots of time and a dictionary, that's not the same as being a linguist.
We make a joke about this in English, you may do the same in German, I don't know with washing machines made in Japan and then sold in Europe. And you get a set of instructions in about seven or eight different European languages. And rarely does the English make sense. And I guess if I could speak Italian or Swedish, that I would find the same. I've just been to France, and I've been laughing my socks off, as they say in English, looking at some of the French attempts to translate into English. Things that I could do better. On signs for tourists. I say why on earth didn't you bring an English speaker in? It's obvious what they're trying to say, but what you've said is ridiculous! And I can even pick up in French and Italian that that is occasionally the case in England, what we put up in French is just ridiculous.

*Translation is not a protected profession.*

But it needs to be.

*Everybody can call themselves a translator.*

[49] I do. I mean I am now able to translate simple things from Welsh to English, but how do I dare set myself up as a translator. I can't even speak the language myself, never mind translate it for somebody else. [50] There needs to be something in Wales. And it's something I very much criticise the Welsh Assembly Government and the Board for that they have not set this up. And the reason they haven't set it up, is there isn't really an academy to look after this. There is a Welsh Academy, but it doesn't do this. It isn't anybody's job, and hitherto nobody has seen the need because the task of the Board has been much about getting the signs right.

*There is the Association of Welsh Translators and Interpreters.*

There is.

*And they have been trying to…*

And they've got nowhere because nobody is listening to them. And of course while there is a small group of people trying to push that, there isn't much of a profession, and they're starting from a very low base. This needs sucking up to the top by government leadership, and it just doesn't exist. And I'm going to have to push this. I've been pushing bilingualism here since I came here because I believe in it. We've had a very weak minister, a man called Alun Pugh who lost his seat in the last election, a very nice man, but very weak, and the Board has been weak. One thing that I said in my speech […] is that the Board has teeth, and is hasn't bitten anybody. And I mean that, and they have power, but they have not used it. They've chosen not to use it. Now that's their decision not mine but it's a fact. And one of the conclusions I've come to recently, within the last year or so, as I've reached the standard where I can hear that the translation isn't good enough, I've reached the conclusion within the last year after five years here that that's the next thing that we've got to do. We've got to get translation assessment in place. And I need Welsh speakers and English speakers working on that.
How are we going to overcome the comfort issue? I think we've solved fear, […]. I don't know the country has solved fear, and I've heard members of Parliament and Assembly members, English speakers, recently expressing stupid views, 25 years old, about Wales and the Welsh. Stupid views.

*Oh you mean the call centre issue in Morgannwg?*

Ridiculous! Health and safety, to protect their throat from having to say bore da. Goodness me, this is the stone age, isn't it? [55] But because we in Britain, known to most people as England, are used to working in a monolingual society. And anybody who speaks a different language is a stranger. And we in Wales have a different view of that. But a number of our politicians are effectively English rather than British and Welsh, and that thing in Morgannwg is just beyond belief, isn't it. But it's also real. It's true, it's a fact of life in Wales in 2007. Extraordinary. But it isn't true in [y sefydliad hwn] because from the very top of [it] for years we've been working on it, and we're still not getting it right. But we're on the right track.
So we've got rid of fear, we haven't got confidence sorted, and we haven't got comfort sorted. I think you've come up with two good words there. [56] Comfort, this cultural issue, why am I as a Welsh speaker forcing you to listen to my words filtered through a machine? [57] Because you know perfectly well that I can speak to you in English. But I've chosen to speak in Welsh. And I'm making a statement in chosing to do that. I've had the confidence to do it, but you know and I know – particularly for me because I'm a native English speaker, and I speak in Welsh in public when I can, I wish I was better, but I'm not a linguist.

*It will come.*

It will come, and it is coming. You know I gave an hour long speech […] in Welsh the other day, and I got my point across. [58] But when I choose to speak to you as a native English speaker in Welsh and you know that I speak English better than Welsh, I'm making a statement. And it's a statement I want to make, but it is a statement. And Welsh society has not yet come to terms with that. Three quarters of the population don't speak Welsh, and when I as an incomer, a learner, choose to have a conversation with you, a native English speaker through the

medium of Welsh, that is a statement. And it's a thing that most countries fail to come to terms with.

*Because often this statement is seen as being the same as being a nationalist.*

Which is not always true. And I am simply a public servant recognising that two languages have equal status here in Wales. But of course it's also the case that the language is coming out from under a cloud. Welsh was not cool fifty years ago. Astonishingly it's growing at the moment, the language looks reasonably healthy, and it looks to have a good future. And it's going to reach parts that haven't been reached before. [59] All that is part of a cultural change, and it has been attached to nationalism, less so now, but it's certainly cultural, a national identity issue. How big a part does a national language have in the embryonic autonomous Wales? What part is it going to play in the new Assembly? And if we have this reigned by a coalition which looks likely, the atmosphere is going to change again. [60] And all this is bound up with the comfort issue. [61] Of course if I'm speaking through Welsh to a mixed audience as I do […] where some speak Welsh and some speak English, and I'm speaking through the medium of Welsh to a Welsh speaker, they're getting a very positive view of me. The English speaker is getting a big question mark. Is he pandering to the Welsh speakers, has he gone nationalist? Am I actually hearing what he was saying? Because I've got to trust the translator to get it right, and actually if you're good you know you can't quite trust the translator. Have I missed the crucial point? Sometimes it's obvious to everybody, I've been to meetings […] where the translation has broken down. The translator has run out of steam, and the speaker hasn't stopped speaking. You see the joke, on television you see it regularly; you're talking to the Russian President, and he speaks for three or four minutes in Russian, and the translator says: Yes. You see that in every language, don't you. And you think, hang on a minute, he didn't say yes, he may have said yes, but it was that long. It wasn't yes, what have I missed?

*There is a measure of scepticism around it.*

There must be. It's simply a realisation, isn't it. That's not what the guy said, he spoke for several sentences. You might sum it up accurately as yes, that might be true, but what did he put round the yes? And when you hear the translator run out of steam, he or she dies on the headphones, and the speaker hasn't stopped, and you can see them try and catch up – what did I miss? I got the generality of it, the gist of it, definitely what he said was something in this area, but it was bigger. [63] What have I missed out on that, because she sitting next to me has heard it because she understands Welsh and she knows what is said, and I don't. And there's a huge comfort issue about that. I've got an idea what he said, I've got the gist of it, but I don't know what he said. And I don't think that we can deal with that comfort issue properly until we've got the cyfieithu ar y pryd to a higher standard.

*Even if you believe in translation only as a temporary thing which some people do, perhaps for one or two generations.*

No, it's permanent. It's going to be permanent here in Wales. Well, as permanent as we can see. One or two generations, fifty years, well I don't see any sign of a government in Wales taking action to deliver that. We would have to say that all the schooling in Wales will be monolingual Welsh, and that won't happen. But if we did that, if we did it, within a generation at least all Welsh people would speak Welsh. But this country of Wales is going to have an enormous influence of English anyway. People like you and me are going to come in, people are going to come on holiday, people are going to seek jobs here. We're never going to see the back of English, never. English translation is going to have to happen here for the indefinite future. Minimum a hundred years, minimum, and nobody can predict that far out. So as far as I'm concerned it's here to stay forever. [65] And critical to the business use of Welsh is me having more confidence in the standard of the translation. Not the confidence to speak the language, not the comfort to speak the language, because I can cope with all these nuances, I can cope with the statements that are being made, I can deal with Am I a nationalist crackpot or a dedicated public servant, and so can my colleagues. So can all my friends. I can't cope with knowing that the words that are coming out of my mouth are not going into your ears. Something else is going into your ears. And I know that the standard of translation is not good enough. [66] And we will not cope as the mixed bilingual society that we are going to be without a higher standard of translation. And I hadn't realised this until quite recently because I've reached the standard where I'm comparing. And there aren't many people in Wales doing that, because there aren't enough high profile learners. I'm not alone of course, lots of people are learning Welsh, lots of them much better than me. I'm ashamed of how far I've not got in learning Welsh. I've been here for six years now. And because my world runs mostly in English, […] I haven't put enough time into becoming more fluent. If I could start again I would put more effort in early to becoming more fluent. But I'm getting there, mae'n dod, mae'n dod. But there's almost nobody else that I see in the public sector who has learnt Welsh to the standard that I have. I don't know if you know […]. He's a much better Welsh speaker than I am. […] He's very good. I've never talked to him about this, but he is very good. But there are very few others, really very few, [67] and of course if you're a native speaker you don't come across this because you don't use the headphones. You assume that the person in the translation booth knows what they're talking about. So it may be that a handful of people like me […] are the only people in Wales who are even aware that this is a problem. And then when we become aware of it, do we just cope with it or do we decide to do something about it? And I've only decided literally in the last year that I've now got to do something about it. [68] And I intend to take on the Welsh Language Board and the new Assembly, say that you've got to deliver to me, that's part of the public service, some means of ensuring a better translation process. You've got to do that. I can do that internally with lots of pain, but actually we need it as a national endeavour I think. And the more I think about it the more certain I become. The same is true for everybody, I could do it just for us. I'm going to bring in assessment and we're going to have to deal with the consequences which might be different translators or better translators or more translators. But actually that's not good enough because I'm only one public sector organisation in Wales. I can do it internally, but there's a huge issue for us. Is [ein sefydliad] a leader or a follower? And how much can I be a leader or a follower? And I'm not an elected politician, I'm an appointed official. We've got so far down our language plan now that we're ahead of the

others. We're almost leading development. Well that's not right. I'm not even a Welsh speaker. This is for Wales, not for me. It's for Wales to decide what it wants, not for me to decide. I'm just here as a volunteer, and a public servant, and I'm delighted, I'm glad to be here. But it isn't my language, it is not my country. I'm a guest, and a passionate guest, but I'm a guest. And the Welsh Assembly Government with its new powers is going to have to decide the position of the Welsh language in Welsh society over the next 25 or 30 years. I know what Cymuned thinks because they've published it. And I think they're right, […]. There needs to be a clearer statement from the Welsh government. So there's a big political debate going to happen, and I'm going to be engineering that too. I can't afford to be as they say in English out on the limb. I can't afford to be because I'm the [sefydliad], I'm a servant. The [sefydliad] has got to be part of society, not over here somewhere, but in society. [69] I need a more political statement from the government of Wales as to where they see the language positioned in fifty years time. And I can see some warps towards it at the moment, I can't see some definitive statements because we had a weak minister. So I should be saying to them, look you've got to sort this. Sort out what you're doing with the Board, sort out where the language is going, and do it quickly, and then tell me, so I need that from you. [70] And if you're not going to abolish Welsh which is impossible you're going to have to provide, if you're serious about your policy, a nationally accredited, government certified translation service to deal with hyder and comfort, cysur.

If I can help further in the future do come back to me [71] because it needs academic research round it, it needs people like you commenting on it, contributing to the debate, and we need to raise the standard of the debate. It really needs to come up a level. This is not about nationalism, it's about the future of Wales. Looking at it that way or that way, and it really needs this sort of thing coming to it. We need to get beyond the conflict inherent in the nationalist debate. It needs to be talked about academically, but it needs to be talked about practically. What are we trying to achieve, and how are we going to do it? The trouble is we don't know quite what we're trying to achieve at the moment, so the how is a bit wishy washy.

# CYFWELIAD 5

Aelod Saesneg o gyngor cymuned
13 Awst 2007

*The idea of the research is to see how simultaneous translation works in different meetings, or how it could be improved, and to start this I want to find out what people's experiences with it are. So I've been to look at community council meetings, and to more professional meetings, to have a range of groups to compare, and perhaps see why there are differences and similarities. So, you were in this group before they started with translating? How long have you been there?*

I've been there for twelve years now, and we started with it about two years ago.

*What was it like when you started?*

Well, when I was invited to go on the community council I said look, I don't speak Welsh. And the person said, that will be no problem at all. So I went, and for the majority of the time and the majority of the persons it was okay. [1] It's just the odd one or two persons that would virtually insist in their Welsh sort of thing. But I followed it okay, and I felt, really and truly, [2] I felt that I was more part of it when they bowed down to me as an Englishman sort of thing and, indeed I was chairman for one year and they reckon I was the best chairman they ever had sort of thing, but whether I was a bully or not but you know I worked hard and they accepted, and there was only a couple of them there that really kept going to the Welsh all the time. And I suppose that's natural, it's their language, I just accepted it and that's it. And I've lived here and I haven't learnt Welsh, so it's my fault really, isn't it?

*Have you never felt that you wanted to learn it?*

Well, when I first came to live here, before I was married, I was in digs with a Welsh family, and it started to teach me a little bit of Welsh. When I got married, my wife does speak Welsh, but not fluently because her father in turn was English you see. She learnt her Welsh mostly with her grandmother you see, she was a Welshwoman, so really and truly her first language was English, and so, being in Bangor, that's just what happened. [4] Sometimes you feel a bit left out when the conversation is completely in Welsh, but I just have to accept it, it's my fault really and truly, isn't it? I can understand a small amount, a very very small amount, but I can't speak it, you know some sort of words and, they're not all one hundred per cent Welsh either, so then there is an English part, and then it makes a little bit of sense of what's going on.

*You said you sometimes felt a bit left out. Is that better now with the translation? Or do you think you understand the words, but you're still not part of the conversation? Is that what you meant?*

[5] Yes, sometimes you get a bit of a job to sort of break into the conversation or your view or whatever it is, I think if you try hard, but I find it a bit difficult sometimes.

*So you find it difficult to follow the translation and then being part of the conversation as well?*

Yes, you do sometimes, yes.

*Was that easier when they were just speaking English?*

Yes, it was easier then. Of course the translation is very good sort of thing, but sometimes, you know, I find it harder to sort of break into the discussion, if you understand what I mean.

*Because you get it relayed through the earphones?*

Yes, you find it much harder to break into the discussion then.

*Do the other members address you in English when they say something particularly to you?*

Oh yes.

*But only when they speak directly to you?*

[7] Yes. If I jump into a subject they will then reply back in English, but you've got to break into the subject. It can be hard sometimes, you know.

*It takes some effort. Do you think it takes some effort for the Welsh speakers to maintain speaking Welsh? Because they are aware that they make you listen through the earphones, do you think it may be a lot of effort for them to keep speaking Welsh?*

[8] I've never really thought about it to tell you the truth.

*It can be a juggling between them wanting to speak Welsh and the awareness that they make you listen through earphones while most of them could probably speak English quite fluently.*

Oh yes. You see, what was behind it is that this community council is supposedly one of the original community councils and it's obviously been a Welsh-based council. So they want to try and maintain the language within the council. I can understand that. There's three of us there, I'm not sure with **, I think he understands more Welsh than I do, he was born and bred in Wales, but his mother was Italian, and his father was Irish. But he's been brought up in Bangor. And he can understand the Welsh questions, but myself and E., we don't speak any Welsh at all.

*What do you think it means to the Welsh speakers that they can now speak Welsh? Have they ever talked about that?*

No, not really. It's just that they wanted to keep it as a Welsh speaking community council. Conducted in their own language. So when the opportunity came for the

trial with the interpreter to come along, they jumped to it. And now, it was a free trial for a certain length of time, and then after that we've got to pay now. But it was discussed, and they asked us what we thought, and we more or less left it up to them, [9] and they wanted to carry on with having the interpreter there, and they were quite willing to pay for it.

*And what does that mean to you? Is it a positive thing to be able to be part of a Welsh speaking group?*

Well I felt that I've done a bit of good for the locality in things that I've managed to achieve in a small way. If I hadn't have gone there, I wouldn't have been able to do it. But I don't know how much longer I'm going to carry on, because I'm getting a bit old now. I've been there for twelve years now. I'll see, when it comes up to election next year I'll sort of decide whether to carry on again. I'll be seventy two by then. I don't like to go out in the evenings as much now and things like that, I watch the goggle box instead.

*Have you noticed any change in how the people take part in the meetings? You said that you find it harder for yourself to break into the discussion. Have you noticed any change in the other members of the group? Is there any change in who contributes how much? Do you think that the Welsh speakers feel more confident to talk?*

[10] No I don't think there is a lot of difference really and truly.

*Do you think it's more a question of personality than a question of language and that the people who were talking before you started with the translation are still doing the talking?*

Yes, probably. Some of them, they appear to just be there, I sometimes wonder why they are there, and others get into the discussions of things and want to try and get things done, whereas others just sit back and rest on their laurels, and I sometimes wonder why they're there.

*So you don't think that those who contribute now didn't contribute before because they weren't confident in their English?*

No, I don't think so, no. There's been a bit of a change in the group of councillors that there are now from when I first started. [11] And there was only one then that really kept going back to his Welsh all the time. Now we've got three or four of them now that are more inclined to want to speak Welsh all the time rather than in English or. Probably they feel more free.

*They don't have to think in what language to speak, they can just go on in Welsh.*

They'll all be first language Welsh, so they obvioulsy think in Welsh, whereas my wife's first language is English, so whatever Welsh she speaks it's always sort of through English. She thinks in English to go to Welsh whereas they think in Welsh to go to English.

*Do you feel that what they say is clearer now perhaps, now they can express themselves in their first language?*

Probably, yes. Yes they sometimes used to say, how can I say that in English. That has gone now. Sometimes there's not a clear translation. [13] You've got to concentrate a lot on what you're hearing. And sometimes you concentrate on that and you're missing other things. If you can understand what I'm aiming at. We'll put it like this, there's men and women there. Now, the men are talking, but I'm getting it with a woman's voice all the time, see. So sometimes when somebody is speaking you tend to look at whoever is speaking, but it doesn't always relate one hundred per cent because it's always a woman's voice that you're hearing.

*So you know all that's said, but sometimes don't know who's said it.*

Yes, you look who's been saying that now. It takes a lot of getting used to it. I haven't had a lot of problems with that, but [14] E., usually sits to my right hand side. And then K. is sat next to him, and K has got quite a loud voice, very Welsh, and sometimes E complains that he can't hear the thing because he's right close to him. Whereas if somebody soft spoken sat next to him he wouldn't be losing some of it. I always put it on a certain setting, so it sort of drowns what the others say out a little bit. I've got used to where to put it now, I put it at number three and that's it, and it usually works pretty well.

*Have you had other translators coming at all?*

No, it's always the same one. I have been to odd meetings with translators, there didn't seem to be quite the same format that we've got there. They seemed to be hiding themselves in like a little tent, the translators. Whether the equipment was the same or not, I don't know.

*Yes, that's for the translator to be able to speak a bit louder.*

Yes, ours speaks very softly, otherwise you wouldn't hear anybody else. [15] My first experience of it in the very beginning, I thought I can't do with this sort of thing, but I've got used to it eventually. I wasn't very keen on it at the beginning.

*Do you think it would be good for Welsh speakers to have the headphones just for once, to appreciate what it's like?*

It might be a good sort of thing, yes. [16] Especially when they're talking across each other. Because I think that's something they've tried to tell them. Because you can't really cross-talk because the translator can only translate one at the time really. And she's sort of trying to say, but it's a job then, isn't it?

*But that would depend on the Chairman, if he says, one at a time…*

It would work perfectly then, yes.

*But sometimes in the heat of the discussion people forget.*

That's right. And usually it gets a bit louder then of course, wouldn't it, and then you've got a job to sort of see exactly what's going on there now. And probably the poor interpreters need someone there to pull them out as well. It must be quite a job for them too to do the job. You know I'm on the receiving end of it, and I suppose it must have to do with the headsets and the equipment that she's got, but they must be very clever in the way they do it. Because they've got to hear what the people are saying and then translate it to me. [17] You know I don't know whether I could concentrate like that, to be talking to somebody and listening to somebody else at the same time. Because that is virtually what they're doing, isn't it? And they've got to get the gist of the next bit to keep it flowing, haven't they? It must be a hell of a job really and truly, when you think about it.

*Would you, from your experience in your group, recommend to other groups to do the same?*

Well you know, you go to other kinds of meetings, and they always hold it in English, let's just put it like that. I don't think I've been to any other than council type meetings, we'll put it like that, where the language has been put to the fore. I'm on the Talygae Hall Trust committee, now probably most of them there, there are English speakers, but there are Welsh speakers there, but it never comes into it, it's just in English, and that's it. And various other things are in English.

*It may be a question of how many Welsh speakers are in the group, the more people can speak Welsh, the more they may feel that they want to speak it to each other.*

I don't know, I haven't thought about it to tell you the truth. [18] I'm in Wales, I should be able to speak Welsh, but on the other hand, all the Welsh can speak English, can't they?

*To a certain extent, yes, but some are just not as comfortable.*

That's true, yes. It depends where abouts in Wales you are, really and truly, if you go down South Caernarfon, they are very much more Welsh than what they are in Bangor.

*It also depends on how much Welsh you speak every day. If you can work and live all in Welsh throughout the day, you might very well find it difficult to speak English.*

You're probably right there, you know, some of them are farmers, and probably the whole family speak Welsh, so they're not meeting a wider circle of people to be conversing in English with a mixed population. If the family is all Welsh, that's the language which they're speaking. Whereas I used to work in the post office, and it was a mixture. Mostly they spoke English, but sometimes you get some of them who would speak in Welsh, but if you were there, they used to speak English. Just odd ones that wouldn't, you never asked, you just, [19] like some of them said, it's good manners. If there's an English person there, you speak English for them, to include them.

You know when I first came to Wales, I used to work on a farm in the beginning. In the middle of Anglesey, a little village called Llangaffo, and fairness to them there, I was known as the Englishman because I was the odd one out sort of thing in the village, it was only a small village then, it's got quite big now. The older generation there, Welsh was their language, [20] they couldn't speak English very well, but in all fairness to them, they always made the effort. And now, you know, all for them if they want to speak their Welsh, as long as they don't expect me to, but you know I'm all for it really and truly, and I know it's their language, and it is coming more to the fore now, with teaching at schools and things like that, it's a good thing. I think so, especially if you want to live in Wales. Because, at one instance I was a school governor in a primary school, and that was one of the things that we got going, was Welsh within the school, teaching Welsh within the school.

*Do you sometimes think you would like to be able to speak Welsh?*

It never bothered me. As I say, probably if Welsh was the first language of my wife and her immediate family, perhaps I might have learnt it naturally. I say to her sometimes, when somebody speaks Welsh to her, why don't you speak back to them in Welsh? She says I'm afraid in case I say the wrong thing, but she's okay, when we lived on Anglesey, then she used to speak Welsh all over, whether or not she was wrong, I think which was very good, everybody used to speak to her in Welsh. We get the Llais Ogwan to try and help her with her Welsh, and I say, I have a look at it and I say, what's that there about that, I have a look at the localities to see what's going on, and little bits I can sort of semi understand, what's that properly now, I get the gist of the thing.

*So you don't think you're left out because you can't speak Welsh?*

Oh no.

*Do you think that translation helps people to understand each other as well?*

Probably yes. My daughter lives in Llangefni, and her husband's first language would be Welsh. She doesn't speak Welsh all that much, but she has been to lessons, and she can speak it reasonably well, but of course she is working in Chester now, so she doesn't need it there, I don't know how well she can speak Welsh, but I think fairly well. But my son has never bothered. I have heard in times past that it is harder for an Englishman to learn Welsh than it is for a foreigner like yourself. Don't ask me why, but they seem to think it is.

*It's probably because we learn more languages at school, and then you know how to learn a language.*

When I was at school, I never had languages, only English. As I said, we started it at primary school, that's the best time to learn it really, isn't it? I was twenty when I came to Wales you see.

*And a lot of people who move from England into Wales are much older than that, and the idea frightens them to have to learn another language.*

The thing that annoys me slightly, it doesn't happen now, but when I was working in the post office, there was an odd couple of customers, we'll put it like that, say I was on the enquiry desk, we want to speak to somebody that speaks Welsh, don't want to speak to you, and I got pulled over the coals once over it, because at one particular instance, I think it was at dinner time, something like that, and I was the only person there, and they said that I was abusive with them, which I wasn't. I said, look, I said, there's nobody here, only me, but they were so insistent. And I think then, I think it's going into rudeness then. You know he was so insistent that he wanted to speak to a Welsh speaking person, and I tried to explain to him best as I could, and he was speaking to me in English that instance, but he was insisting that he wanted to speak to a Welsh person, and I said, there's nobody else here, only me, and indirectly he was being rude to me, and yet he'd report to me, saying that I was rude to him, saying that I didn't get anybody. There wasn't anybody to get. But I found out afterwards that he was one of these kinds of people that was very very anti-English, and that was it. I didn't know who he was from Adam. That's at least fifteen years ago now, probably about twenty years ago I should think. But as I say it only ever happened at a couple of instances, but other than that, no, I find if you, they accommodate me don't they with no problem whatsoever.

*Do you sometimes think that it's you who makes them speak another language?*

[23] I never think about it to tell you the truth.

*So what would you say in short are the advantages and disadvantages of the translation?*

[24] It's an advantage because you're getting virtually the whole of the picture although as I said sometimes it's a little bit harder to sort of break into the conversation, but other than that you're getting the whole of the picture.

# CYFWELIAD 6

Ymgynghorydd iaith ar draws Cymru
16 Awst 2007

*Mae 'na ryw ddadl ynglŷn â chyfieithu ar y pryd. Mae rhai yn dweud, dan ni angen mwy ohono fo i ysgogi pobl i siarad mwy o Gymraeg, ac mae'r lleill yn dweud, dan ni ddim isio gormod o gyfieithu ar y pryd achos dydy o ddim yn ysgogi pobl ddi-Gymraeg i ddysgu'r iaith. Os bydd y rhain yn gwybod, mi gawn ni'r drafodaeth trwy'r clustffonau beth bynnag, does dim rhaid i ni ddysgu Cymraeg. Beth ydy eich barn chi am hynna?*

[1] Swn i ddim yn meddwl fod o'n cael fawr o effaith naill ffordd na'r llall a dweud y gwir. Achos mae'r achosion neu'r achlysuron lle mae rhywun mewn cyfarfodydd dwyieithog mor eithriadol o brin dw i ddim yn credu y byddai fo'n cael dylanwad ar benderfyniadau ynglŷn â ydy rhywun yn dysgu iaith neu beidio. Mae 'na gymaint o ffactorau eraill sy'n mynd i ddylanwadu a oes rhywun yn dysgu iaith neu beidio, mwy na cyfrannu i bwyllgor. Dw i ddim yn meddwl fod o hyd yn oed ar y gorwel o ran hanner y penderfyniadau am ddysgu iaith.

*Mae'n dibynnu ar yr ardal faint o gyfarfodydd dwyieithog sydd 'na, mae'n debyg?*

[2] Ydy, ac mae rhaid i chi ystyried i ba lefel mae rhaid i rywun ddysgu cyn fod o'n gallu cyfrannu i bwyllgor. [3] Achos mae cywair iaith pwyllgor yn debygol o fod yn uchel, mi fedr hyd yn oed fod yn arbenigol o ran terminoleg ac ati hefyd, felly i gyrraedd lefel o hyder a hyfedredd i gyfrannu'n ystyrlon ac yn bwerus mewn pwyllgor, achos mae 'na ddeinamig pŵer wrth gwrs mewn pwyllgorau, mae angen i chi fod yn go rugl, does? Felly dw i ddim yn gweld beth yw'r cynsail, o le mae'r cynsail wedi tarddu i wneud y cysylltiad yna. [4] Mae penderfyniadau ynglŷn â dysgu iaith yn dipyn mwy eang na hynny, mae nhw ynglŷn â rhyw ymdeimlad o angen uniaethu gyda iaith a diwylliant, ynglŷn â elfennau o hunaniaeth, ynglŷn â materion teuluol a pherthnasau teuluol, ynglŷn â chwarae rôl mewn cymuned, cymuned ddaearyddol neu gymuned ieithyddol, chwilfrydedd deallusol, her ddeallusol… mae 'na gymaint o bethau eraill sy'n mynd i ddylanwadu a ydy rywun yn dysgu iaith neu beidio cyn gyfrannu i bwyllgor. Dw i ddim cweit yn deall beth yw'r…

*Dach chi'n meddwl bod yr hyn dach chi wedi rhestru rŵan yn medru digwydd yn haws mewn sefyllfa gymunedol nac mewn sefyllfa waith achos mae'n haws i gael y teimladau o eisiau perthyn i'r gymuned, neu i deulu?*

Dw i ddim yn siwr. Mae'n siwr bod y cyd-destun cymunedol a chymdeithasol yn dylanwadu yn fwy na'r gweithle yn gyffredinol. Mae eithriadau i hynna mae'n siwr, does? Mae 'na sefydliadau sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, Cyngor Gwynedd yw'r mwyaf amlwg, ond mae 'na sefydliadau fel y Llyfrgell Genedlaethol neu Tai Cartref gyda ni yn fan hyn yn Castell Newydd, Antur Teifi llai rŵan, maen nhw'n gwanhau'r diwylliant ieithyddol yn anffodus, a nifer o gyrff eraill, Parc Cenedlaethol Eryri efallai, Cyngor Cefn Gwlad mewn mannau. Ydy, mae 'na eithriadau i hynny, [5] eithriadau lle mae 'na bwysau mewnol o ran diwylliant mewnol y sefydliad yn annog pobl i wneud dewisiadau cynnar o ran

dysgu iaith. Yn aml iawn wrth gwrs mae 'na dipyn fwy o sefydliadau na hynny yn cynnig gwersi Cymraeg i'w gweithlu, [6] ond yn aml iawn mae'r ysgogiad yn dod oddi allan i'r gwaith hefyd, prin iawn yw'r achosion lle mae'r pwysau a'r hinsawdd mewnol yn ysgogi pobl i ddysgu; cymryd y cyfle mae pobl yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd.

*A hefyd does dim cymaint o sefydliadau efallai lle mae'r cyrsiau yn gysylltiedig â'r gwaith, hynny yw lle mae'r gweithwyr yn dysgu siarad am eu gwaith.*

Mae hwnnw yn rhywbeth mae'r canolfannau Cymraeg i Oedolion yn edrych arno fo nawr, dw i'n credu mai canolfan Pontypridd sy'n arwain am Cymraeg yn y gweithle, dw i'n credu, dw i ddim yn siwr, mae 'na un ohonyn nhw, maen nhw'n cymryd gwahanol elfennau i afael ynddo fe rŵan. Ond yn sicr mae angen mwy a mwy o gymhwyso dysgu Cymraeg i Oedolion, fyddwn i'n feddwl, i'r sefyllfa waith. Dw i ddim yn arbenigo o gwbl mewn Cymraeg i Oedolion. Dw i ddim yn gwybod llawer amdanyn nhw.
Ond i ddod yn ôl, mae'r wrthddadl dach chi wedi ei osod, yr wrthddadl bod dim angen cyfieithu ar y pryd oherwydd dydy o ddim yn ysgogi pobl i ddysgu, fel dw i'n ddweud, dw i ddim yn gweld beth yw craidd y ddadl. O ran y ddadl arall, [8] bod angen cynnal mwy o gyfarfodydd dwyieithog, swn i'n cytuno gyda hynny achos mae hynny wedyn yn gosod yr holl sefyllfa mewn sefyllfa o gydraddoldeb o roi cyfle cyfartal i pobl gyfrannu yn eu dewis iaith.

*Ond pan mae 'na gyfarfod gyda dim ond un neu ddau o siaradwyr Cymraeg, a gyda chyfieithydd, a bod y ddau ddim yn dewis siarad Cymraeg, mae rhai yn dweud bod cyfieithu yn wastraff amser a gwastraff arian.*

Wel, dadl go ddall yw honno, [9] yr hyn y mae pobl yn ei anghofio o hyd ac o hyd, fel oeddwn i'n ddweud gynna', mewn unrhyw sefyllfa mae gyda chi ddeinamig o rym yn gweithio, does, ar bob lefel, hynny yw jest o ran deinameg grŵp, neu o ran sut mae'r cyfarfod yna yn gweithio, o ran pwy yw'r cadeirydd, pwy yw'r prif siaradwyr, pwy yw'r rhan ddeiliaid yn y sefyllfa, beth yw eu statws nhw, beth yw eu hawdurdod nhw, beth yw eu perthynas waith nhw gyda phobl eraill yn y grŵp, yn yr ystafell, yn y pwyllgor, ac mae iaith yn dod yn elfen o hynny hefyd. Mae perthnasau grym iaith yn rhan allweddol ynddo fo yn sicr o gofio cyd-destun hanesyddol sydd gyda ni yma yng Nghymru, a'r grym sefydliadol ac awdurdodol sydd gan y Saesneg a diffyg grym a gormes sydd wedi bod ar y Gymraeg ar hyd y canrifoedd, dach chi'n gwybod mai beth gwbl gwbl newydd yn hanesyddol yw defnyddio Cymraeg mewn unrhyw ffurf swyddogol, awdurdodol, ffurfiol, dal i fod felly. Yng nghyd-destun llif amser mae'n dal i fod yn gwbl gwbl newydd. Felly, yn aml iawn mae'r bobl sy'n rhoi'r fath yna o ddadleuon yn hollol gibddall i'r deinameg grym sydd yn y sefyllfa. Dydyn nhw ddim yn ystyried hynna, ac maen nhw yn rhan o'r broblem wrth gwrs. Mae'n rhan o'r broblem bod nhw'n gibddall. [10] A wedyn mae rhaid i ni gydnabod, ac wrth gwrs os oes 'na ryw un neu ddau berson yna, mae eisiau gryn hyder a guts, ddywedwn i, i ddefnyddio eich iaith chi, eich iaith leiafrifol chi mewn sefyllfa leiafrifol yn erbyn holl rym ieithyddol y Saesneg a grym sefydliadol y grŵp yna. [11] Dim ond idiots a penboethiaid fel fi byddai'n wneud o, a llond dwrn eithriadol a fyddai â digon o hunanhyder i wneud hynna yn ieithyddol. Wrth gwrs beth sy'n digwydd oherwydd y sefyllfa yna mae'r labeli yn cael eu defnyddio ar gyfer nhw, eu bod nhw'n

eithafol neu eu bod nhw'n beth bynnag, mae'r labeli negyddol yna yn dod allan yn hawdd iawn. Blynyddoedd ar flynyddoedd yn ôl wnaethon ni roi rhyw daflenni allan, ac mae pobl eraill wedi dod allan â taflenni tebyg, [12] ond dan ni wastad yn pwysleisio'r ffaith bod rhaid trefnu cyfarfod dwyieithog, mae rhaid cydnabod yr imbalans grym yna yn y man cyntaf. A rhaid trefnu bod hwnnw'n cael ei wastatu rhyw ffordd a gwneud hynny'n hollol ymwybodol. Prin iawn yn anffodus yw'r sefyllfaoedd lle mae hynny'n digwydd, ond mi ddylai fo, dw i'n credu, fod yn rhan o hyfforddiant unrhyw swyddog sy'n trefnu digwyddiad neu bwyllgor neu beth bynnag i gael yr ymwybyddiaeth o beth yn union yw'r *group deinamics* o ran iaith yn y digwyddiad maen nhw'n ei drefnu. [13] A beth sy'n digwydd wrth gwrs wedyn yw'r tocenistiaeth 'na, O, dan ni wedi talu tri chan punt i gael cyfieithydd i eistedd yn y cornel ac wedyn maen nhw'n meddwl bod nhw wedi gwneud yr hyn sydd fod ei wneud. Ond hawdd iawn yw hynny wrth gwrs. Mae'n wastraff amser iddyn nhw ac arian achos dydyn nhw ddim wedi cydnabod y deinamig yna a beth yn union maen nhw'n delio gydag ef.

*A dyna beth dach chi'n galw 'ymwybyddiaeth iaith'?*

Yn union. Dyna lle mae eisiau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn sicr.

*Sut dach chi'n egluro sefyllfa mewn cyfarfodydd lle mae mwyafrif o siaradwyr Cymraeg mewn grŵp, a gan eu bod nhw'n fwyafrif yn yr ardal dydyn nhw ddim o reidrwydd yn cael y label o fod yn eithafwyr. Ond eto pan mae un di-Gymraeg yn y cyfarfod, mae pawb yn siarad Saesneg. Felly, er bod y mwyafrif yn siarad Cymraeg, mae'r grym seicolegol yn dal yno. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng sefyllfa felly lle mae siaradwyr Cymraeg yn y mwyafrif a sefyllfa arall lle mae'r Cymry Cymraeg mewn lleiafrif? Bysach chi'n meddwl bod hi'n haws iddyn nhw gynnall pethau yn gwbl Gymraeg, hyd yn oed o ddweud dan ni'n cynnig y cyfieithu er mwyn y di-Gymraeg. Dydy hyn ddim bob amser yn gweithio…*

[14] Mae'n dibynnu'n llwyr pa mor hyderus mae'r Cymry Cymraeg yn eu defnydd o'u Cymraeg, pa mor ymwybodol maen nhw o'r ffactor ieithyddol, ac yn anffodus mae 'na nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg dal i oddef y diffyg hyder hanesyddol 'ma, [15] hynny yw bod cwrteisi ieithyddol yn golygu cowtowio i unrhyw un sy'n siaradwr yr iaith fwyafrifol. Ellwn i ddim gorbwysleisio cymaint o afael sydd gan y sefyllfa hanesyddol yna ar seici pobl. Dw i'n gweld o fewn y gymuned leol lle dw i'n byw lle dw i'n fwy ymwybodol bod Cymry Cymraeg yn lleol yn gwaredu yn fy ngweld i a phobl eraill mewn gwahanol bwyllgorau ac ati achos maen nhw'n gwybod bod ni'n mynd i fynnu defnyddio Cymraeg yno, onife [15] ac mae pobl yn ystyried hynny'n hollol anghwrtais, yn rude. [16] Dw i wedi cael fy nghyhuddo yn fy mhentref fy hunan fy mod i'n ormod o Gymro er enghraifft, mae hwnnw'n dod eto o seicoleg o israddoldeb, fyddwn i'n dadlau. Fiw i ni, fy mod i'n cythruddo y meistri. Mae'n anhygoel. Cofiwch chi, o genhedlaeth arbennig mae hwnnw'n dod fwyaf dw i'n teimlo. Dw i ddim yn gwybod a wneith o ddiflannu yn ystod y degawdau nesaf, mae'n sicr bod llai felly yn ystod y degawdau nesaf o bosib.

*Ond mae rhyw elfen o deimlad o israddoldeb ymysg y Cymry di-Gymraeg hefyd, does, achos bod yr iaith ddim ganddyn nhw, ac maen nhw'n troi y teimlad hwnnw i fod yn erbyn yr iaith.*

Ydy, sicr mae 'na siamplau o hynny'n digwydd, mae'n siŵr.

*Oeddech chi'n dweud pa mor bwysig yw trefnu digwyddiadau yn ddwyieithog. Beth fyddwch chi'n meddwl fyddai dulliau mwy effeithiol na chyfieithu?*

[17] Wel dw i'n credu bod 'na duedd i droi at gyfieithu ar y pryd fel rhyw fath o adwaith awtomatig heb ystyried opsiynau eraill, yn sicr fod o. Dw i'n meddwl bod eisiau i ni fod yn, hynny yw ni yn y colectif cenedlaethol, fod yn fwy soffistigedig yn y ffordd dan ni'n delio gyda dwyieithrwydd yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd cyhoeddus bellach. [18] Mae rhaid i ni ddelio gyda dwyieithrwydd, hyd yn oed mewn cymunedau traddodiadol Gymraeg, oni bai bod 'na gymdeithasau diwylliannol felly uniaith Cymraeg gyda chi allan yn fan yna yn y pau cyhoeddus, yn y rhan fwyaf o lefydd mae'ch poblogaeth leol chi yn mynd i fod yn boblogaeth uniaith ar y naill law a dwyieithog ar y llall, felly dwyieithrwydd cyhoeddus yw'r norm, dylai fod y norm, byddwn i'n meddwl. Felly mae eisiau i ni fod dipyn mwy soffistigedig na jest, hwp, rhaid i ni gael rhywun i gyfieithu.

*Mae hyn yn mynd i gadarnhau'r sefyllfa fel y mae hi, mai'r siaradwyr Cymraeg ydy'r rhai dwyieithog, a'r siaradwyr Saesneg yn uniaith. Ydy cyfieithu yn mynd i sefydlogi'r sefyllfa honno, yn hytrach nag achosi newid i bawb fod yn ddwyieithog?*

Wel ia, yn union, yn union. Yn sicr pan dw i'n mynd i sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, un o'r darnau o hyfforddiant yw trio cael pobl i edrych ar eu sgiliau iaith mewn ffordd dipyn bach mwy soffistigedig yn hytrach na 'r hen syniad o dach chi'n siaradwr Cymraeg neu dach chi ddim yn siaradwr Cymraeg, trio gosod rhyw fath o ystod o sgiliau lan iddyn nhw a gweud, yn hytrach na gweud fel mae'r cyfrifiad yn holi, ydych chi'n siarad Cymraeg? Ydw, nac ydw, Faint o Gymraeg dach chi'n ddeall? Faint o Gymraeg dach chi'n siarad? Faint o Gymraeg dach chi'n ei darllen? Faint o Gymraeg dach chi'n ysgrifennu? Dan ni'n gosod rhyw fath o siamplau mas iddyn nhw, deg pwynt neu rywbeth, a byddwn i'n gofyn ble fyddwch chi'n gosod eich hunain yn y fath yna o gyd-destun, [20] bach iawn o bobl sy'n dweud bod gyda nhw ddim Cymraeg o gwbl. Mae'r rhan fwyaf o bobl rhywle ar hyd yr ystod yna, byddan nhw wedi codi rhywfaint o Gymraeg yn yr ysgol neu wedi codi rhywfaint o Gymraeg o'u teulu a'u ffrindiau, cyfeillion, neu jest wrth fyw mewn sefyllfa ddwyieithog, mae gan bobl rhywfaint o ddealltwriaeth. Ond dydy pobl ddim yn cael y siawns i fynegi hynny'n aml iawn chwaith. Achos un o'r pethau dw i'n gweud yn yr hyfforddiant yn aml iawn yw elfennau o ddeall iaith, does fawr ddim wedi cael ei ddweud neu ysgrifennu neu drafod ynglŷn â phwysigrwydd deall iaith. A dw i'n sicr, os ydy'r sefyllfa'r un peth â phob iaith arall, a dw i ddim wedi edrych ar fanylion yn y cyfrifiad diwethaf yn fanwl, ond synnwn i ddim bod mwy o bobl yn deall Cymraeg na sy'n ei siarad hi. Dyna'r drefn fel arfer. [21] Ond dan ni ddim wedi cymryd mantais o hynny mewn sefyllfaoedd cyhoeddus. A chaniatáu i bobl sy'n deall Cymraeg i gymryd rhan mewn pwyllgorau Cymraeg ond wedyn i gyfrannu yn Saesneg. Dan ni'n dal yn y meddylfryd lle mae rhaid i ni gael cyfarfodydd neu beth bynnag, trafodaethau mewn un iaith neu'r llall. Does neb wedi gweld, oes, mae modd cynnal sgyrsiau a cyfarfodydd dwyieithog, yn sicr os oes rhywun yn deall Cymraeg. Wrth gwrs os nad oes mae angen cyfieithu ar y pryd yn aml iawn, ond mae 'na opsiynau eraill.

*Fues i mewn cyfarfod lle oedd dau neu dri di-Gymraeg, ac oedd yr un yn amlwg yn gallu deall achos pan oedd cwestiwn Cymraeg iddo fo, roedd o'n medru ateb cyn i'r cyfieithydd hyd yn oed ddechrau. Ond oedd well ganddo fo siarad Saesneg, ac mae hynna wedyn yn gwneud i'r Cymry Cymraeg wneud rhyw sylwadau fel, os ydy o'n deall, pam fod o'n mynnu cael yr offer cyfieithu? Efallai bod angen i bawb ddeall bod 'na gam ymhellach rhwng deall iaith a siarad iaith.*

Hollol. [22] Mae rhaid i ddealltwriaeth pobl o allu ieithyddol a sgiliau ieithyddol a hyfedredd a hyder ieithyddol, mae'n sefyllfa dipyn mwy cymhleth na beth mae pobl yn meddwl, ar bob ochr. Mae angen dod â hynny allan. Ond i fynd yn ôl at yr opsiynau, mae 'na gynllun gyda ni yng Ngheredigion trwy Cered, y Fenter Iaith, lle [23-25] dan ni wedi bod yn rhoi rhywfaint o hyfforddiant i beth dan ni'n galw sylwebwyr cymunedol, a peidio defnyddio'r term cyfieithwyr ar y pryd, cadw hwnna i bobl sydd yn gwneud hynny'n broffesiynol a llawn hyder beth bynnag ac sy'n gwneud o mewn sefyllfaoedd ffurfiol cyhoeddus. Ond yn nhermau cynllunio ieithyddol mae angen cael defnydd o'r Gymraeg, cynyddu'r defnydd Cymraeg, mewn sefyllfaoedd cyhoeddus cymunedol iawn, yn eich neuadd bentref, yn eich cyngor cymuned, hyd yn oed mewn digwyddiadau adloniadol lleol, mewn cyngherddau neu nosweithiau llawen neu dramau neu noson gweud jôcs neu beth bynnag sydd yna, a dweud dyw cyfieithwyr ar y pryd efo'u *paraphernalia* i gyd ddim yn addas ar gyfer y sefyllfaoedd yna yn y lle cyntaf, dydy o jest ddim yn addas, a beth mae Cered wedi bod yn ei wneud ydy trio hyfforddi sylwebwyr cymunedol, jest pobl lleol sydd yn eu pentref ac yn eu hardal, jest bod gynnon nhw ddigon o hyder, weithiau i ddefnyddio offer o bosib os yw'n addas i wneud hynny, neu fallai jest eistedd ochr yn ochr gyda rhywun, ac esbonio beth sy'n digwydd. Dim o bosib bob amser cyfieithu air am air yr hyn sy'n cael ei ddweud ond jest bod yna i sylwebu mewn ffordd, esbonio bod rhywun newydd gweud jôc am wylan oedd yn ddoniol iawn. Fedrwch chi ddim cyfieithu jôcs na cherddi ac englynion neu rhyw bethau yna, felly jest bod yna i hwyluso fel bod y person yna yn teimlo yn rhan o'r digwyddiad, felly mae hwn yn un opsiwn arall.

*Ac ellai y bydd hynny'n cymell rhywun yn well i fod eisiau dysgu'r iaith?*

[26] Wel, byddwn i'n meddwl, ie, i fod yn rhan o'r bwrlwm diwylliannol yna, ac eisiau deall beth yn union oedd y jôcs, neu beth oedd y gerdd cyfeiriodd at y mynydd. Mae rhaid iddo fod yn berthnasol i bobl, perthnasol i fywydau pobl. Ac mae hynna, ddywedwn i, fel ddywedwch chi yn hollol iawn, yn fwy o ysgogiad i ddygu Cymraeg na beth yw sefyllfa ffurfiol mewn gwaith neu mewn pwyllgor. Ac mae eisiau gwneud mwy a mwy o hynny dw i'n credu. Dw i wedi dadlau ers blynyddau mawr iawn bod 'na ryw le i CYD yn hynny o beth. Pe byddwn i'n rhedeg CYD, byddwn i ers talwm byd wedi peidio gwneud a rhedeg yr hyn maen nhw'n ei wneud ar hyd y blynyddau sef efo'r grwpiau yma o ddysgwyr sydd fod i gwrdd â rhyw unigolion o siaradwyr Cymrag yn lleol, ond yn hytrach hyfforddi unigolion mewn cymdeithasau lleol ar sut i ddod â dysgwyr mewn i sefyllfa real, i'r clwb rygbi, i'r clwb hoci, i'r grŵp nofio, i Merched y Wawr neu i'r grŵp gwau basgedi, beth bynnag yw'r digwyddiad felly, [27] bod rhywun yna i hyfforddi a hwyluso a rhoi cefnogaeth i'r Cymry Cymraeg i fod yn rhywfath o borthmyn os mynnwch chi i ddod â dysgwyr o'r dosbarth mewn i sefyllfa go iawn.

*Cyfieithwyr yn yr ystyr Almaeneg felly. Yr* Übersetzer *ydy'r dyn mewn fferi yn llythrennol.*

O ie, mae hynna'n syniad hyfryd. Achos beth mae CYD wedi gwneud wrth gwrs, mae gyda chi'r dosbarthiadau, ac wedyn maen nhw'n mynd i'r grwpiau CYD 'ma, ond mae'r byd go iawn yn digwydd rhywle arall, a dylai'r, beth oedd y gair, yr Übersetzer, gobeithio y gallai fo fynd â nhw yn syth o'r dosbarth i mewn i'r gymuned, o un lan i'r llall.

*Mae lot o ddysgwyr yn dweud eu bod yn cael hi'n anodd i gael cyfle i siarad tu allan i'r dosbarth. Efallai bod rhywfaint o fai ar y dysgu hefyd, bod yr athrawon ddim yn mynd â'u dosbarthiadau i lefydd eraill i ymarfer beth maen nhw newydd ddysgu.*

Saff iawn, onife, saff iawn. Wel, wnes i sôn am hynna rhyw bymtheng mlynedd yn ôl, ond dydy o ddim wedi cydio. Ond mae'r fath yna o beth, y sibrwd yng nghlust rhywun, yn gallu digwydd ar lefel fwy ffurfiol weithiau hefyd. [28] Wrth gwrs fwyaf ffurfiol mae'r sefyllfa'n mynd, mwyaf addas mae cael cyfieithydd ar y pryd yna swn i'n ddweud.

*Mae 'na drafod wedi bod hefyd o fewn Cymdeithas Cyfieithwyr, yn enwedig pan oedden nhw'n gweithio ar brosiect HWB a oedd yn helpu i grwpiau cymunedol gael cyfieithu ar y pryd, roedd 'na rhywfaint o anghydfod rhwng cyfieithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio am arian a'r rhai oedd yn gweld yr angen am fwy o gyfieithywyr cymunedol oedd yn fodlon ei wneud o ar lefel mwy anffurfiol ac o fewn eu cymunedau eu hunain (ac hwyrach fod yn sylwebwyr hefyd, fel dach chi'n ddweud). Felly roedd y rhai proffesiynol yn gweld tanseilio o'u busnes, ac ar y llaw arall oedden nhw'n gweld yr angen i hyfforddi'r sawl oedd fod i gyfieithu ar lefel gwirfoddol neu ar raddfa ffioedd is.*

O mae 'na rywfath o densiwn mewn unrhyw sefyllfa, lle dach chi'n trio datblygu ac ehangu ac ymateb i anghenion mas yna. [29] Dw i'n credu bod 'na le i gael y Gymdeithas i roi rhyw fath o fframwaith deallusol neu egwyddorol i ni gyd i wneud hi'n amlwg fod 'na ddau ddiben ac i setlo hynny achos, iawn, oes, mae angen cyfieithwyr ar y pryd, ac mae 'na farchnad, does, a bydd angen nhw gobeithio am oes mawr i ddod mewn sefyllfaoedd ffurfiol lle mae 'na gyllideb i dalu am hynny. Mae'n siŵr gen i bod 'na bosib disgrifio gwahanol sefyllfaoedd, o ryw ddigwyddiad pwyllgor yr ysgol feithrin, y cylch meithrin lleol ar un ochr a Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr ochr arall, a rhwng y ddau mae 'na ystod helaeth iawn o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. A rhywle yn y canol mae 'na fan llwyd wedi bod… yr un peth yn y sefyllfa yma. Mae'n anhepgor. [30] Ond o ran cynllunio ieithyddol, o gael y Gymraeg a sefyllfa ddwyieithog i ddatblygu mewn peuoedd cyhoeddus ar lawr gwlad, wel dach chi byth yn mynd i gael degfed o'r rhan o'r cyfieithwyr ar y pryd sydd angen i ddygymod â'r holl sefyllfaoedd yna, mae rhaid i ni dderbyn hynny, mae rhaid i gyfieithwyr ar y pryd dderbyn hynny os ydyn nhw'n gweld eu hunain yn rhan o gynllunio ieithyddol yng Nghymru a'r ymdrech i egnïo'r Gymraeg. Mae rhaid iddyn nhw dderbyn dydyn nhw ddim yn gallu cyrraedd pob twll a chornel. Dydy o ddim yn addas iddyn nhw wneud hynny, [31] does yna sicr ddim arian yn mynd i fod i dalu iddyn nhw wneud hynny, felly mae'n hen bryd iddyn nhw sylweddoli reit, dyma'r peuoedd priodol inni ddisgwyl

cael ein talu am y swydd broffesiynol dan ni'n ei wneud. [32] A mae rhaid datblygu strwythurau hyfforddi priodol i'r ddau haen o gyfieithwyr a sylwebwyr, neu porthmyn, neu beth oedd y gair eto, Übersetzer. [33] Os dach chi'n ystyried yr holl sefyllfaoedd cymdeithasol sy'n digwydd yn ddyddiol, yn feunosol, mae anferthedd y peth, mae 'na dalp anferth o waith i fynd allan ac yn hwnna, mae anghenion anferth o ran, lle dechreuon ni'r sgwrs yma, codi hyder siaradwyr Cymraeg. Codi ymwybyddiaeth iaith pobl, normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd yna, a normaleiddio dwyieithrwydd y sefyllfaoedd yna hefyd. Anferth o jobyn, a fysai'r Mentrau Iaith dim ond yn ymhel â hwnnw, fyddan nhw'n gwneud rhyw gymwynas fawr ond mae'n ymddangos bod nhw'n rhedeg hwnt ac yma yn trio gwneud bach o bopeth a chyflawni fawr o ddim yn diwedd y dydd.

*Problem arall efallai efo cyfieithu ar y pryd yw ei fod yn llenwi twll am y diwrnod. Hyd yn oed mewn grŵp sy'n cyfarfod gyda chyfieithydd yn rheolaidd, dydwch cyngor plwyf, tasech chi'n tynnu'r cyfieithydd o 'na eto, a fyddai pawb yn mynd yn ôl i siarad Saesneg? Ar y llaw arall, mae rai yn dweud ei fod o'n gwella democratiaeth y grŵp a'u bod nhw wedi codi hyder i siarad mwy o Gymraeg. Hwyrach fysai'r rheiny* yn *siarad mwy o Gymraeg hyd yn oed ar ôl i chi dynnu'r cyfieithydd o 'na?*

[34] Beth fysai'n ddiddorol gweld, a oes 'na amrywiaeth mewn agweddau ac arferion o ardal i ardal. Achos mae seicoleg dw i'n amau yn wahanol yng Ngwynedd i beth fyddai ef yn Ceredigion, ac yn wahanol yn Sir Benfro, ac yn wahanol yn Sir Gaerfyrddin ac yn wahanol ym Mhowys. Achos mae sefyllfa hanesyddol pob sir bron mor wahanol. Dw i wedi byw yn nifer o lefydd erbyn hyn yng ngorllewin Cymru, Môn, Arfon, Meirionnydd, Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro, a mae'r seicoleg yn wahanol iawn yn y chwech lle, swn i'n ddweud, ynglŷn â sawl peth, ond yn enwedig ynglŷn â iaith, yn enwedig o gwmpas yr iaith, ac mae o'n deillio o gefndir hanesyddol y llefydd hynny. Felly mi fysai'n eithaf difyr i weld oes 'na amrywiaethau daearyddol yn yr agwedd at ddefnyddio Gymraeg. Cadw at un ardal dach chi neu?

*Am rŵan, ia, fedra i ddim gwneud mwy.*

Yng Ngwynedd dach chi wedi edrych ar y sefyllfa? Wel, mae'n rhywbeth i gadw mewn cof, achos dw i'n siwr, wel hyd yn oed o fewn Gwynedd mae 'na amrywiadau.

*Mi fyddai hyn yn rhywbeth i rywbryd arall.*

[35] Mae'n siŵr bod 'na rywbeth yn seicoleg leol yn amrywio yn gyffredinol. Mae o'n troi o gwmpas hynny o hyd, yr hyder, hyder a hunan-hyder sydd yn ei hun yn deillio o sefyllfa hanesyddol, o sefyllfa o ormes yn hanesyddol. A wedyn mae'n dibynnu i ba raddau mae'r unigolion neu'r cymunedau yn ymwybodol ac yn trio gwrthsefyll y pwysau hanesyddol yna. Dwi'n siwr fod hynny'n newid eto, fedrwn ni ddim osgoi'r ffaith yna, wrth gwrs mae'r Cynulliad Cenedlaethol gyda ni, mae adeilad y Senedd yna, ac [36] mae cenedlaethau yn mynd i gael eu magu yn meddwl mai hynny yw'r norm bod Prif Weinidog a Dirprwy Prif Weinidog Cymru yn siaradwyr Cymraeg. Mae hwnnw'n bownd o greu rhyw agwedd gwell. Yr hyn

sy'n bwysig i gofio yw bod rhaid i ni gymryd persbectif tymor hir yn y pethau yma i gyd. Mae'r symudiadau 'ma yn cymryd degawdau, cenedlaethau. Does 'na ddim rhyw *quick fix* i gael yn y busnes iaith 'ma yn anffodus. Ond mae'r cyd-destun yna yn mynd i newid dw i'n credu. Hyd yn oed, dw i'n ddeuddeg a phump, ac mi oedd addysg gyfrwng Cymraeg yn newydd yn fy nghenhedlaeth i, wyddoch chi, ges i ddim addysg, beth fysai'n haeddu'r term addysg ddwyieithog neu addysg Gymraeg, wnes i fethu'r cyfnod yna yng Nghaerfyrddin. [37] Felly dim ond o'r grŵp oedran deugain i lawr mewn ffordd mae unrhyw brofiad o'r Gymraeg yn cael cydnabyddiaeth o statws. Wrth gwrs mae'r cenhedlaeth nawr yn gorfod ymladd yn erbyn fwy nac oeddwn i'n gorfod ymladd yn erbyn holl ddylanwad y cyfryngau, globaleiddio a'r dylanwad anhygoel sydd gan y diwylliant Eingl-Americanaidd, y rhyngrwyd a'r byd cerddorol, clipiau fidio a ffilm a'r holl fyd yna, hwnnw mewn ffordd yw'r tensiwn yn y sefyllfa.

*Mae hyd yn oed yr Almaen yn dechrau poeni am hynna rŵan.*

Synnwn i ddim. [38] Mae 'na grym anhygoel. Y peryg yw eu bod nhw'n creu rhyw fonolith diwylliannol, fonolith unffurf.

# CYFWELIAD 7

Cymro sy’n aelod o gyngor cymuned ac o Senedd Prifysgol Bangor
31 Hydref 2007

*Roeddet ti wedi sôn am y gwahaniaethau wyt ti'n eu gweld pan mae cyfieithu mewn gwahanol gyfarfodydd. Meddylia beth yw'r gwahaniaeth rhwng y cyfarfodydd cymunedol a chyfarfodydd Senedd y Brifysgol. Sut a faint mae pobl yn siarad Cymraeg yn wahanol pan mae cyfieithydd yna, a pham bod y gwahaniaeth yna?*

Mae gen ti'r Senedd, mae gen ti'r cyngor, a profiadau eraill ydy dysgu mewn dosbarth – er dydy hyn ddim cweit yr un peth – a chyfarfodydd cyhoeddus. Mae'r rheiny yn od hefyd. [1] Mae bobl yn deall cyn lleied am gyfieithu. Roedd cyn fyfyrwyr o Aberystwyth er enghraifft yn cael cyfieithu am y tro cyntaf erioed eleni yn eu cinio blynyddol. Ond oedd, er bod y cadeirydd yn arbennig o gefnogol i'r syniad o gyfieithu, roedd ef ei hunan yn dweud popeth yn y ddwy iaith. Mae'r peth jest mor estron, dyna sydd wrth wraidd cymaint o'r peth. Ac os oes 'na unrhyw amheuaeth, mae'r estrondeb 'na yn gwneud i'r peth ddim yn gweithio. Y rheswm ei fod e'n gweithio yn y cyngor, yn y bôn, yw mai'r Gymraeg yw'r gryfaf o bell ffordd. Dyna'r unig ffordd dw i'n gweld fod o'n gweithio.

*Gan fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn llawer uwch?*

Ia.

*Dw i wedi cael gwahanol sylwadau ar pam mae cyfieithu yn gweithio neu pryd dydy o ddim yn gweithio.Un peth ydy ei fod o'n dibynnu ar ba mor ffurfiol mae'r cyfarfod. Efallai bod hyn oherwydd nad ydy pobl wedi arfer siarad yn ffurfiol neu yn gyhoeddus. Ond ar ôl gweld cyfarfod o'r Senedd fy hun, dw i ddim yn siwr beth sy'n digwydd yno. Does 'na ddim terminoleg anodd yn cael ei ddefnyddio.*

Ond mae'n hollol ffurfiol. Fyswn i ddim yn defnyddio hwnnw fel diffiniad o ffurfiol a dweud y gwir. [2] I mi, ffurfiol yw cyfarfod fel y Senedd lle mae pawb yn arbennig o ofalus am beth maen nhw'n ei ddweud. Maen nhw'n mynd allan o'u ffordd i beidio â bod yn flêr. Efallai bod nhw ddim yn defnyddio terminoleg, ond mae'r Senedd yn ffurfiol iawn. Bysai neb yn dweud rhywbeth ffwrdd â hi, bysan nhw'n cael row gan y cadeirydd. Dyna fallai yw'r broblem. Mae rhaid bod mor ofalus mewn sefyllfa ffurfiol felly. Ac os dach chi ddim yn adrodd rhywbeth dach chi wedi ei baratoi, dach chi yn siarad o'r frest, mae rhaid i chi fod yn ofalus. [3] So mae rhaid i chi eich hunain deimlo'n hollol gartrefol, a hefyd mae rhaid i chi deimlo bod y bobl sy'n gwrando ar yr un donfedd â chi. A dyna dwi'n credu ydy'r broblem gyda'r Senedd, [4] does yr un ohonon ni gyda digon o hyder i fynd ar ôl pethau anodd, ffurfiol trwy gyfieithiad. [5] Hawdd iawn ydy adrodd. Nawr dw i'n mynd i adrodd yr adran Gymraeg, neu beth bynnag, mae hyn yn hawdd, gallai unrhywun wneud hynny. [6] Yn y Senedd, dw i'n cael hi'n amhosib siarad o gwbl erbyn hyn. Pan ddois i gyntaf i Fangor, o'n i'n fwy na bodlon i ffraeo gyda phawb achos o'n i'n wneud o yn Saesneg. Ond erbyn hyn dw i'n teimlo os dw i'n siarad yn y Senedd, dylwn i siarad yn Gymraeg. Ond eto dw i'n teimlo os wnaf i hynny, bydd neb go iawn yn cymryd y peth o ddifri, achos fel arfer dim ond pethau sy'n

cael eu darllen allan sy'n cael eu cyfieithu felly. [7] Mae cyn lleied o'r siarad ffurfiol ofalus, mae hwnnw'n rhywbeth sy'n estron iawn i lot ohonon ni yn y Gymraeg. Dw i'n credu taw ffurfioldeb y peth sydd yn gwneud y Senedd yn anodd. Edrychi di pwy sy'n siarad yn Gymraeg. [8] Gei di byth ddadl yn y Senedd gyda rhywun yn dadlau un ochr yn Gymraeg a'r ochr arall yn Saesneg. Mae'n wastad yn syrthio'n ôl i, wsti, bydd rhywbeth syml sy'n cael ei ddweud yn Gymraeg. [9] A dyna pam dw i byth wedi siarad, heb siarad yn y Senedd ers blynyddau, achos bob tro dw i isio siarad, i ddadlau rhywbeth ydy e, a'r foment wyt ti'n dechrau dadlau, wyt ti'n cronni pob math o anawsterau ychwanegol wedyn. A does gen i ddim o'r sicrwydd hyd yn oed mod i yn defnyddio cyfieithu, does gen i ddim sicrwydd fysai'r peth yn gweithio.

*Felly nid mater ieithyddol ydy hwn.*

[10] Mae'n fater rhannol ieithyddol, ond mae gwleidyddiaeth yr ieithyddiaeth yn dod i fewn i'r peth. Mi fysai rhywun, ar ben dadlau gyda rhywun am beth bynnag ydy'r pwnc, mi fysat ti hefyd mewn ffordd yn trio gwneud rhyw bwynt ychwanegol, sef dangos bod hwn ddim yn deall yr un iaith â ti beth bynnag. [11] Nawr, i bobl sydd jest yn dadlau dros yr iaith, does dim broblem, achos mae defnyddio'r Gymraeg yn rhan o'u dadl nhw. Ac i fod yn berffaith onest, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n siarad am hyn, yr iaith ydy eu diddordeb nhw. Wel, does gen i ddim diddordeb yn yr un ystyr yn y Gymraeg, [12] cyfrwng ydy'r Gymraeg i mi, so fyswn i'n siarad Cymraeg yn y Senedd, fysai'r iaith ddim yn rhan o nadl. Ond yn aml iawn pan gei di ddadl ffurfiol yn y Gymraeg, y Gymraeg yw'r testun ei hunain. A pan dw i isio siarad â nifer o fyfyrwyr, neu fyfyrwyr tramor, neu beth bynnag, mae'r Gymraeg yn hollol amherthnasol, felly dylai fe fod yn hollol dryloyw. Dyna yn y bôn ydy mhroblem bersonol i. Dw i ddim yn siwr faint sydd felly oherwydd mae cyn lleied, does dim cymaint â hynny o Gymry yn dod i'r Senedd. Maen nhw'n syrthio i fewn i ryw dri carfan. Mae'r rheiny fel Gareth Roberts er enghraifft, mi fysai fo yn siarad Cymraeg ar bob achlysur, neu Densil, wel mae Densil ar y ffin, bysai Gareth Roberts byth yn siarad Saesneg yn y Senedd, byth. Dw i'n cymryd bysai Densil wastad yn siarad Cymraeg. [13] Ond mae'r rhan fwyaf o'r Cymry byth yn dweud dim byd, maen nhw'n eistedd yna a dim yn siarad o gwbl. Wedyn mi gei di bobl fel Martin Taylor sy'n Gymro, dros flynyddau mae ei Gymraeg wedi gwella yn aruthrol, Cymro o Fangor. Pan ddois i gyntaf i Fangor o'n i'n teimlo fod o'n real Bangor-ai, fod o ddim yn siarad, ond erbyn hyn, dan ni'n trafod gwyddoniaeth wastad yn Gymraeg, byth yn Saesneg efo Martin erbyn hyn. Ond bysai Martin byth yn meddwl dadlau gyda rhywun yn y Senedd yn Gymraeg. A dyna ydy'r rheswm. [14] Pan dach chi'n dadlau, dach chi wirioneddol isio clirio'r decs o bopeth arall. Dyna mhrofiad i yn y Senedd. Mewn ffordd, mae cyfieithu yn gwneud hi'n fwy anodd i mi achos dw i ddim yn siarad o gwbl o'i herwydd. Dw i ddim yn siwr faint o bobl eraill sy'n debyg i mi.

*Mae'n creu baich ychwanegol?*

Dim baich ychwanegol, ond gosod awyrgylch wahanol. Achos yn yr Adran, does dim cyfieithu. So fel arfer, Saesneg yw'r iaith, ond yn aml iawn dw i yn ffeindio'n hunain yn trafod yn Gymraeg gyda bobl achos fi ydy'r unig un sydd yma. Mae hyn yn ymwneud gyda ymladd ei gornel dros y Gymraeg. So wrth ddechrau defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun arall, mi fysat ti'n dod â'r holl ddadleuon

ychwanegol i fewn i'r ddadl sydd gen ti. [16] A pan wyt ti'n trio perswadio pobl i ddod rownd i dy syniad di, y peth diwethaf wyt ti isio ydy dod â'r holl *baggage* arall – dyna holl bwrpas dadl ffurfiol, dan ni'n ôl nawr yn beth wnest ti ddweud ar y cychwyn. Dw i'n credu bod ffurfioldeb y peth, bod unrhyw beth dan ni'n ddweud fod mor syml ac uniongyrchol â gallai fod. Dyna ydy'r sefyllfa i mi. Does dim siarad ysgafn yn y Senedd o gwbl.

*A dydy'r ffaith bod y cadeirydd yn gefnogol i'r Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth?*

Dim o gwbl. [17] Yn fy sefyllfa i, dw i ddim yn poeni am blesio'r cadeirydd, dw i tu hwnt i hynny. Ond mae'n llawer mwy cymhleth na hynny, mae'n rhan o'r broses rhywsut.

*Efallai bod gan y cadeirydd rôl mwy pwysig mewn cyfarfodydd mwy anffurfiol, cymunedol, achos unwaith mae'r caeirydd yn siarad Cymraeg, mae bobl eraill yn fwy bodlon siarad Cymraeg hefyd.*

[18] Mae'r cyngor yn hollol wahanol. Y brif reswm ydy bod rhan fyaf o'r bobl sy'n eistedd rownd y ford erioed wedi bod i gyfarfod ffurfiol. Dydy'r cyngor ddim yn ffurfiol. Mae pawb yn torri fewn dros ei gilydd ym mhob man. Felly dyw'r ochr yna ddim yn rhan o'r peth, felly dw i'n credu y foment mae pobl yn teimlo, o , mae pawb yn deall, a hefyd bod nhw yn y mwyafrif sylweddol. Mae'n ddiddorol i weld. [21] Mae'r cynghorydd sir sydd gynnon ni, boi o'r enw J. A., mae hwnnw'n ddiddorol. Mae ar y wyneb yn ddi-Gymraeg, a dydy o byth yn siarad Cymraeg. Ond mae pawb yn teimlo fod o'n deall Cymraeg yn ddigon da a bod neb yn poeni peidio siarad o'i gwmpas o, maen nhw'n cymryd os ydy'r drafodaeth yn gyffredinol mae'n deall digon. Mae o yn defnyddio cyfieithydd ond weithiau mae'n ateb cwestiwn cyn i hwnnw gael ei gyfieithu. Dw i ddim yn siwr am D P. Ond yn bendant, mae Mr J., mae gynnon ni un Sais go iawn ar y cyfan, a dydy o ddim yn deall yr un gair. Hanner amser dw i'n credu bod o ddim yn deall yr acen. Er fod o wedi byw ym Mangor ers deugain mlynedd. Felly mater o hyder – [22] ond y brif wahaniaeth rhwng y Senedd a'r cyngor cymuned ydy bod y cyngor cymuned yn anffurfiol, ac mae hynny yn ei wneud o llawer yn haws rhywsut achos does neb yn poeni taro ar draws ei gilydd ac yn gofyn i rywun ailadrodd, a hyd yn oed newid iaith os oes rhaid. Ond mae'n rhyfedd anaml iawn mae 'na Saesneg bellach yn y cyngor. Os oes 'na drafodaeth uniongyrchol rhwng un ohonon ni a dweud J A, weithiau byddwn ni'n troi i'r Saesneg, [23] ond yn aml iawn gei di sgwrs un wrth un bron sy'n mynd trwy gyfieithiad. Mae hyn yn brofiad diddorol, a mae'n gweithio.

*A dwyt ti ddim yn teimlo pryd hynny bod hyn yn rhoi rhyw haen ychwanegol i'r ddadl?*

[24] Os unrhyw beth, mae hyn yn gwella pethau, achos wrth siarad trwy gyfieithydd, mae rhywun yn dechrau bod yn fwy gofalus am beth mae'n ei ddweud. So wyt ti bron yn troi'r peth yn fwy ffurfiol sydd a dweud y gwir yn gwella'r drafodaeth. Nid jest dweud y peth cyntaf sy'n sbyrtio mas o dy feddwl, wyt ti'n hanner rhoi rhyw fath o hidlen ar beth wyt ti'n ei ddweud, a mae'r geiriau wedyn tipyn bach yn gallach falla. Maen nhw'n cael eu cyfieithu wedyn yn haws ac yn gwella'r drafodaeth.

*Ydy o'n wir hefyd efallai mewn cyngor cymuned Cymraeg fod ti isio gwneud y pwynt mai cyngor Cymraeg ydy o? A bod ti ddim yn meindio fod hwnna'n dod drosodd?*

Mae hyn yn wir, ond yn implicit felly, ia. Dan ni byth yn dadlau dros y Gymraeg, mae'r di-Gymraeg yn hollol gefnogol, maen nhw'n cefnogi Cymuned a bob math o bethau. Ond… ia, ti'n iawn, mae 'na ran o'r agwedd yna. Ond mae mhrofiad i yn hollol i'r gwrthwyneb gyda'r cyngor cymuned cyn i ni gael cyfieithu. O'n i'n ffeindio hi'n anodd iawn i gymryd rhan mewn trafodaethau. [26] Dwi'n cael hi'n anodd iawn i gymryd rhan mewn trafodaeth ddwyieithog. Dw i'n hapus mewn un iaith neu'r llall, ond dw i'n cael hi'n anodd iawn i newid o un i'r llall. Felly o'n i'n cael hi'n anodd iawn i ddefnyddio'r Gymraeg achos o'n i isio defnyddio'r Gymraeg, yn wahanol rhywsut i'r Senedd, o'n i ddim isio siarad yn Saesneg yn y cyngor bron o ran egwyddor. Na, gad i mi feddwl yn gall. Falla ei fod o yr un peth, [27] nawr bod 'na gyfieithydd dwi'n fodlon, dwi'n hapus siarad yn y cyngor plwyf, tra cyn oedd 'na gyfieithu, o'n i ddim isio siarad yn Saesneg, o'n i'n gyndyn iawn i siarad o gwbl. [28] Yn y Senedd, cyn bod 'na gyfieithu, o'n i'n reit hapus i siarad yn Saesneg, ond nawr bod 'na gyfieithu, dw i ddim yn hapus i siarad yn Saesneg, ond dw i ddim cweit mor hapus i siarad yn y cyd-destun yna yn Gymraeg chwaith. Dyna'r gwahaniaeth. Mewn ffordd, mae cyfieithu yn gwneud pethau yn fwy anodd i mi yn y Senedd, ond mae'n gwneud pethau'n well yn y cyngor cymuned. A dw i ddim yn siwr pam. Nawr fod ti'n gofyn y cwestiwn rhaid i mi feddwl. Dy waith di nawr ydy sortio allan beth yw'r gwahaniaeth.

*Felly yn y cyngor, os dw i'n dallt yn iawn, mae o wedi gwella sut mae pobl yn teimlo am allu siarad Cymraeg, ac mae hyn wedi rhyddhau'r ddadl mewn ffordd.*

[30] Ydy. Mae 'na lawer mwy o siarad nawr yn y cyngor cymuned nag oedd.

*Tra bod cyfieithu yn y Senedd yn ôl beth wyt ti'n ddweud dim yn mynd i newid pethau. Dydy o ddim yn mynd i newid y defnydd mae pobl yn gwneud o'r Gymraeg? Dydy o ddim yn mynd i newid agweddau pobl tuag at y Gymraeg? Gan fod y Cymry Cymraeg ddim yn defnyddio mwy o Gymraeg? Os 'dyn nhw ddim yn gwneud hynny, wneith o ddim newid yr agweddau.*

Mae hyn yn wir. [31] Dw i ddim yn credu bod yr agweddau wedi newid o gwbl yn y Senedd ers cael cyfieithu. Mae 'na nawr siarad yn Gymraeg, hynny yw, mae 'na gyfieithu, ond o'm safbwynt i, dw i ddim yn hollol siwr. Pan mae'n dod lawr i'r *crunch*, felly, nid jest yn mynd trwy'r cofnodion, dydy hynna ddim yma ac acw a dweud y gwir, mae mwy neu lai dyddiau'r Senedd yn dirwyn i ben oherwydd bod pawb yn sylweddoli mai gwastraff amser ydy e. So mae'r pethau o bwys yn y Senedd, dyna lle mae'n bwysig, a dyna lle byswn i'n gofyn yr un cwestiwn wyt ti'n gofyn nawr. Mae'n ddiddorol.

*Diwylliant a chefndir y bobl sydd mewn cyfarfod sy'n gwneud y gwahaniaeth felly?*

Mae'n bosib…

*Bysai pawb yn y Senedd yn rhyw fath o J. A., efo'r cefndir diwylliannol yna ond dim yn gallu siarad Cymraeg, fyset ti'n fwy bodlon siarad Cymraeg o'u blaenau nhw?*

[32] Mae hynna'n bwynt da. Mae hyn yn bwynt hynod ddiddorol. Wyt ti nawr yn gofyn o fewn y Brifysgol neu sefydliad tebyg i'r Brifysgol, pan dan ni'n siarad am y Brifysgol, dan ni'n wneud o yn wahanol yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn gyffredinol nawr? Mae hyn yn beth diddorol, dydi? Mae'r rhan fwyaf ohonon ni, hyd yn oed fi, yn treulio lot o amser yn trafod y coleg trwy'r Gymraeg, hyd yn oed lawr yn fan hyn. Tra mae bobl fel Densil yn siarad rhan fwyaf o'i amser yn Gymraeg, dw i'n cymryd. Ydy'r fath a'r ffordd dan ni'n siarad am y coleg yn sylfaenol wahanol i'r ffordd y mae bobl ddi-Gymraeg yn siarad am y coleg? Mae hwn yn gwestiwn ddwfn iawn iawn iawn.

*Pam ddylai fo fod yn sylfaenol wahanol?*

[33] Y trafferth ydy, mae rhaid datgysylltu pethau, ac unwaith eto, fallai ein bod ni'n od yn hynny o beth, meddwl am yr Adran Gymraeg, dydyn nhw ddim cweit run fath, does dim Adran Gymraeg Saesneg i gymharu â hi, felly dydy'r rheiny bron ddim yn cyfrif. Swn i bron yn dweud bod yr Adran Diwinyddiaeth yn yr un sefyllfa. Ti'n gwybod, bob tro dan ni'n cael cinio efo'n gilydd gyda nhw, dan ni'n hel achau, trafod pwy ydy pwy, mae hynny hefyd yn wahanol, tra fa'ma, mae bron popeth dwi'n wneud yn y Brifysgol, does dim ots lle, gallai fod yn Leipzig neu yn Adelaide neu rywle. Pan dan ni'n trefnu'n modylau biofeddygol er enghraifft, dan ni'n wneud o mewn ffordd gwahanol? Mae'n debyg ein bod ni, dyna ydy'r ateb, de? Ond pam a sut?

*Fedri di ateb hynna i ti dy hun wrth ofyn, wyt ti'n trafod efo myfyrwyr Cymraeg mewn ffordd wahanol i'r ffordd wyt ti'n trafod efo myfyrwyr Saesneg.*

Hollol. Mae rhai gwestiynau, does, hwwnw ydy'r un ohonyn nhw. Beth oeddwn i'n feddwl, dwi'n trafod gyda nghyd-staff Cymraeg yn wahanol i'r cyd-staff Saesneg? Ac wedyn, dw i'n trafod gyda'r cyn-fyfyrwyr yn wahanol, a dw i'n siwr bod yr ateb yn 'ydw' ar gyfer y ddau ohonyn nhw. Dw i'n sicr o hynny. Roedd gen i fyfyrwraig, merch cefn gwlad o Sir Fflint, yn gwrthod gwneud unrhyw beth trwy'r Gymraeg, er bod hi'n Gymraes ac yn siarad Cymraeg, mae'n gwrthod gwneud unrhyw beth drwy'r Gymraeg, so mewn ffordd dw i'n fwy blin 'da hi na fyswn ni gyda myfyriwr cyffredin sy ddim yn boddro gwneud rhywbeth. Mae'n gallu gweithio'r ddau ffordd. Dw i ddim yn gwybod. Amser cinio ddoe, ges i cinio gyda, o oeddet ti yna, gyda Jerry ac Angharad. Dw i ddim yn nabod Jerry yn iawn a dim yn nabod Angharad o gwbl, doedd siarad â nhw ddim yn wahanol i siarad â neb arall oeddwn i erioed wedi cyfarfod o'r blaen. A doedd gen i ddim byd amlwg i siarad â nhw amdano fe, o'n i'n despret yn trio meddwl am rhyw destunau fel fyswn i gyda neb arall. So doedd gen i ddim empathy arbennig gyda'r rheiny. Dyna'r fath o beth, fyswn i'n siarad yn wahanol â nhw am y coleg, na, wnaethon ni ddechrau siarad am waith papur, yr un peth yn union fyswn i wedi trafod gyda rhywun arall mae'n debyg.

*Ond mae'r cwestiwn o gefndir diwylliannol yn aros, dw i'n meddwl.*

[34] Wel, dw i'n rhannu mwy o gefndir diwylliannol eang gyda cyd aelodau'r Senedd nag ydw i gyda cyd aelodau ar y cyngor plwyf, dydw? Dw i'n academic, dw i'n ddosbarth canol, mae gen i hyn a hyn, wel dyna'r grŵp cymdeithasol dw i'n ffitio iddo fe, yn debyg i bawb arall sydd o gwmpas y Senedd, ddim y criw sydd, y ffarmwrs a'r crowd yn y pentref, mae'n hollol wahanol. Does dim cyswllt cymdeithasol ar y lefel yna. Mae'n hollol hollol wahanol. A ydy o jest oherwydd y fwyafrif?

*Ia, yn union. Ydy o oherwydd y niferoedd, i raddau dw i'n siwr bod y ffurfiol – anffurfiol yn chwarae rôl, ydy o oherwydd y cefndir diwylliannol?*

Yr unig beth gyda ffurfiol ac anffurfiol byswn i'n gobeithio i ti ystyried yw, beth sy'n ffurfiol? [35] Mae 'na ddau lefel o ffurfioldeb yn y Senedd. Mae'r ffurfioldeb o jest mynd trwy'r cofnodion, mae hyn yn ffurfiol, ond dyw e ddim yr un neu'r llall go iawn. Beth sy'n ffurfiol go iawn ydy'r fath o ddadlau fysat ti'n cael mewn cymdeithas ddadlau, bob brawddeg yn ei lle, neu yn y Senedd, neu yn y Cynulliad yng Nghaerdydd. Wyt ti ddim yn mynd i falu yn fan yna, mae popeth yn iawn, mae hwnna'n ffurfiol. Ond mae'n ffurfioldeb hollol wahanol. Mae'r gyntaf yn hawdd iawn i wneud yn Gymraeg, yr ail un sy'n anodd.

*Dim siarad o'r frest?*

Mae fe o'r frest, [36] ond wyt ti'n dilyn fformiwlae. Wyt ti wedi cael dy hyfforddi, mae gen ti dy fywyd gyfan i wneud hynny. Ond mae'n debyg mater o arfer ydy o eto, beth wyt ti wedi bod yn arfer wneud. [37] Ac os nad oes 'na gyd-destun dadlau ffurfiol yn Gymraeg, mae'n amhosibl i wneud o mewn cyd-destun dwyieithog. Mae'n ddigon anodd yn Gymraeg, ond os ydy o wedyn, ar ben popeth arall, yn gosod y fath o broblemau o'n i'n trafod, dyma lle wyt ti'n rhoi haen arall lawr rhyngot ti a'r person arall wyt ti'n dadlau â nhw.

*Os wyt ti'n ystyried beth sydd wedi digwydd yng Nghyngor Gwynedd, mae'r broses yna wedi cymryd lle yn fan'no.*

Digwyddodd hyn yn ôl yn y saithdegau.

*Oedden nhw'n troi o ddadlau Saesneg i ddadlau Cymraeg.*

Ond oedd gynnon nhw fwyafrif o Gymry Cymraeg.

*Ond er hynny, dw i'n siwr bod lot o bobl yn y dechrau yn anghyfforddus yn wneud o oherwydd doedd yr arfer ddim gynnon nhw a nad oedden nhw isio'r haen ychwanegol yna. Erbyn hyn, mae'r newid wedi digwydd. Pam dydy o ddim wedi digwydd yn y Senedd er bod gen ti gyfieithydd yn beth gyntaf, a mae gen ti, fel wyt ti'n dweud, un neu ddau o bobl sydd wastad yn siarad Cymraeg.*

Mae 'na ffactor arall sy'n cymylu pethau. A dw i ddim yn siwr pa ffordd mae hwn yn gweithio a dweud y gwir. Mae safon neu pwysigrwydd trafod wedi diflannu o'r Senedd tua'r un pryd mae'r Gymraeg wedi cyrraedd. Yn yr ystyr, ychydig iawn iawn o drafod sydd yn y Senedd bellach. Mae'r dadlau i gyd yn digwydd yn rhywle arall. Mae popeth wedi digwydd erbyn hynny. Ond dydy hwn ddim yn

tynnu o'r ffaith pan mae trafodaeth yn digwydd, mae beth dw i'n esbonio i ti, hwnna ydy'r sefyllfa. Dw i'n siwr, petai 'na fwy o drafodaeth, i fysai hyn , dyna ydy'r broblem, ti'n iawn, [38] petai 'na fwy o drafodaeth, mi fysai'r arfer yn dod ynghynt, a fallai bysen ni'n cyrraedd rhyw bwynt lle fysai dadlau ddwyieithog yn fwy cyffredin.

*Neu bod ti isio pobl sy'n fodlon trechu eu hunain a mynd trwy gyfnod o deimlo'n anghyfforddus wrth wneud o. Ond sut wyt ti'n eu perswadio nhw bod hyn yn bosib ac yn ddymunol? A mae'r bobl sydd yn y grŵp yn newid hefyd. Y cwestiwn ydy os ydy cael cyfieithu yna yn medru bod yn rhan mewn creu y draddodiad yna, sefydlu traddodiad newydd mewn ffordd o ba iaith sy'n cael ei siarad. Ac unwaith bysai hwn wedi ei sefydlu, bysai pobl newydd yn gallu dod i'r grŵp a derbyn mai dyna sut mae pethau yn digwydd.*

Mae hynny'n bendant yn wir. [39] Dw i'n teimlo bod nifer o bobl sy'n cyrraedd y coleg yn fwy diweddar yn llawer mwy agored i gyfieithu ac yn ymddwyn yn ddwyieithog na'r hen stagers fel petai, dwi'n credu bod hynny'n ddigon gwir, ond mae bobl ifanc wastad dipyn bach yn fwy hyblyg. Ond oni bai bod y dwyieithrwydd yna, fysan nhw ddim yn plygu i'r cyfeiriad yna. Mae hynny'n bendant yn wir. Mewn ffordd wyt ti'n gofyn, dw i'n dadlau yn erbyn cael cyfieithu yn y Senedd?

*Ond mi fysai hyn yn troi pethau'n ôl eto. Bysai hyd yn oed dy ffurfioldeb cyntaf, jest mynd trwy'r drefn, yn diflannu yn Gymraeg. Mae'n siwr fod o'n werth gael o.*

Ydy. Dan ni'n mynd trwy gyfnod o newid yng Nghymru. Fel wyt ti'n dweud, mae pob cyfnod newydd yn anodd.

*Ers pryd mae cyfieithu yn y Senedd?*

Ers i'r Normal ymuno.

*Mae'n gyfnod hir o newid felly, dydy?*

Ydy. Ac ar y cychwyn, mi roedd 'na llawer mwy o drafod yn gyffredinol yn y Senedd nag sydd heddi. Fysai'n ddiddorol gwybod faint o bobl eraill sy'n teimlo am y Senedd fel dw i'n wneud. Yr argraff dw i'n cael yw bod rhan fwyaf o'r Cymry cyffredin dw i'n nabod yn y coleg, pobl fel Nia, dw i ddim yn siwr os ydy hi'n aelod o'r Senedd, dydyn nhw ddim yn dod i'r Senedd, neu dim diddordeb, neu rhywun fel Huw Price, mae fe wrth gwrs yn aelod, ond dydy o ddim yn dod, ac os ydy o'n dod, dydy o ddim yn siarad oni bai am yr un pwynt mae o eisiau ei wneud. Trafferth ydy, dw i isio dadlau efo pawb trwy'r amser.

*Pan mae 'na gyflwyniadau yn y Senedd, ydy'r rhain yn Gymraeg?*

Mae'n digwydd yn anaml iawn iawn. [41] Mae pob cyflwyniad dw i'n ei gofio wedi bod yn Saesneg.

*Hyd yn oed gan Cymry Cymraeg?*

Dw i'n methu cofio pryd digwyddodd hynna diwethaf.

*Efallai tasai gen ti gyflwyniad Cymraeg, fysai'r ddadl sy'n dilyn yn fwy Cymraeg hefyd.*

O bysai. Bysai bysai. Ond mae'r rhan fwyaf o gyflwyniadau fel yna dan ni'n cael yn dod o arbenigwyr, ac mae arbenigwyr Cymraeg eu hiaith yn brin iawn, fel arfer am y Gymraeg fysai unrhyw drafodaeth. Mae'n haws wedyn. [42] Ymestyn defnydd o'r Gymraeg i ardaloedd newydd, dw i'n teimlo, ydy'r nod. Fel trafod polisi llety, neu polisi insiwrans, neu bethau ariannol. Ond dw i ddim yn gweld i hynny ddigwydd o fewn y drefn sydd ohoni.

*Bysai rhaid cael mwy o Gymry Cymraeg yn y swyddi yna?*

Mae 'na lot yna. Mae'r trysorydd yn Gymro Cymraeg. Ond mae hyn yn wir. Pan wnaeth Eric Sunderland gymryd drosodd gan Charles Evans, mi newidiodd awyrgylch y coleg yn llwyr. Oedd yr holl lefel, beth sy'n gyfateb i'r gweinyddiaeth sifil yn y Brifysgol, wnaethon nhw i gyd newid eu hagwedd dros nos bron. Oedd gen ti ysgrifenyddesau bysai byth wedi meddwl siarad Cymraeg gynt, yn sydyn reit nawr yn dechrau siarad Cymraeg. Hyd yn oed ar fy lefel i, oeddwn i'n gymharol ifanc ar y pryd, oeddet ti'n synhwyro bod 'na newid wedi bod, jest am bod y bos wedi newid. Dim ymysg y staff academaidd, ond ymysg y staff weinyddol. [43] Ond mae'r busnes o drio cael siaradwyr Cymraeg i swyddi arbennig, mae hyn yn beryglus. Dan ni wedi cael ambell i swyddog jest achos bod nhw'n siarad Cymraeg a falla nad nhw oedd y person gorau. Rhaid bod yn sensitif iawn am hwnnw.
Mae gwleidyddiaeth yn dod i mewn wedyn, ynglŷn â a ydy Cymry yn edrych ar y Brifysgol mewn ffordd wahanol i'r di-Gymraeg. Mae hyd yn oed carfannau yna, i mi, [44] Prifysgol genedlaethol ydy hon, dyna sut dw i wastad wedi ei gweld hi, fel mae 'na brifysgolion cenedlaethol ledled y byd. Ond dw i ddim yn meddwl bod 'na lawer sy'n dod i Fangor hyd yn oed yn meddwl am y peth. Prifysgol Bangor ydy o wastad wedi bod iddyn nhw. Dyna'r unig peth pam dw i'n teimlo'n drist am y newid enw. Does gen i ddim teimlad mawr am yr enw Prifysgol Cymru, Bangor, ond does gynnon ni ddim Prifysgol genedlaethol bellach. Ond stori arall ydy hwn, dw i ddim yn credu bod y Gymraeg yn dod i fewn i hwnnw.

*Nac ydy, ond mae'n dangos y cwestiwn o gefndir diwylliannol.*

Y trydedd sefyllfa lle dw i wedi gwneud cwbl o brofiadau o gyfieithu yn ddiweddar ydy wrth ddarlithio yn gyhoeddus. Wnes i un ddarlith yn Aberystwyth yn ddiweddar, Ann Corkett oedd yn cyfieithu. Beth maen nhw'n galw *café scientifique* ydy o, y BBSRC dw i'n meddwl sy'n noddi nhw. Y syniad yw bod ti'n mynd i gaffi a rhoi darlith ar ryw bwnc, ac yn Aberystwyth oedden nhw isio cael un yn Gymraeg. Wnes i ddewis testun Cymreig. [45] Beth o'n i isio trafod oedd pam dydy'r Cymry ddim isio trafod gwyddoniaeth trwy'r Gymraeg? O'n i'n trafod yr holl syniad o'r oleuedigaeth. Dw i'n dal i gredu bod yr oleuedigaeth erioed wedi digwydd yng Nghymru, fallai fod o wedi digwydd mewn llenyddiaeth, ond i mi, tu allan i hynny, dw i'n meddwl bod yr oleuedigaeth erioed wedi digwydd yng Nghymru tra digwyddodd e yn yr Alban yn ôl yn diwedd y ddeunawfed ganrif. A mae hwn yn effeithio ar y ffordd dan ni'r Cymry yn meddwl am wyddoniaeth.

Dyna pam yn fy marn i, mae lot o Gymry yn gwneud cemeg, ffiseg, mathemateg, ond does neb yn gwneud astudiaethau'r amgylchedd. Mae rhai yn gwneud rhyw fath o gyrsiau fel, beth ti'n galw nhw, y cowbois, pethau felna gallai unrhyw un o'r stryd wneud nhw. O'n i wedi paratoi hwn nawr, ac oedd Ann yn mynd i gyfieithu i'r Saesneg. Ac wrth baratoi, o'n i'n meddwl, sut bydd rhywun sydd yn gwrando ar y Saesneg yn mynd i ddeall beth sydd gen i i ddweud? Ond aeth hi'n waeth. Un o'r gynulleidfa i gyd oedd yn deall y Gymraeg. Felly wnes i roi darlith oedd i bwrpas wedi ei chyfieithu ar gyfer pawb. Wel oedd y drafodaeth yn anobeithiol, achos doedd gen i neb oeddwn i wedi anelu'r drafodaeth atyn nhw. Byswn i wedi siarad Cymraeg heb gyfieithu, mi fysai'r noson wedi cael ei gwerthu fel noson Gymraeg a felly bysai cynulleidfa hollol wahanol wedi dod. Ond oherwydd ei bod hi'n noson ddwyieithog, daeth bron ddim o'r Cymry. Oedd hwn yn sioc i fi, ac yn siom a dweud y gwir, achos oedd hwn yn destun o'n i isio dechrau cynnal, mae'n destun dw i dal isio cynnal. Mae gwyddoniaeth yn Gymraeg naill ai ar lefel hollol arwynebol, astudiaethau natur, y wiwer goch a phethau felly, does 'na ddim byd yn *wrong* yn hynny, ond nid dyna yw gwyddoniaeth, neu mae gen ti bobl sy'n medru darlithio ar XYZ yn y Steddfod fel wnaeth rhywun dwy flynedd yn ôl, mwyaf ffantastig, ond doedd bron neb yn y gynulleidfa yn deall, pa bynnag iaith oedd e. [46] Does dim byd yn y canol. Ac ar hyn o bryd dw i ddim yn gweld cyfieithu'n helpu llenwi'r canol 'na, am union yr un rhesymau dan ni wedi tafod ar gyfer Senedd y Brifysgol.

*Ond mae hyn yn digwydd mewn pynciau eraill. Yn y gynhadledd myfyrwyr ôl-radd dechrau'r flwyddyn, roedd yr ychydig o Gymry oedd yn cyflwyno yn Saesneg. Ym maes astudiaethau busnes oedd un, ond mae un arall wedi cofrestru i'r gynhadledd eleni mewn pwnc lle mae'r Gymraeg yn llawer mwy amlwg.*

A llynedd, ti oedd yr unig un oedd yn rhoi cyflwyniad yn Gymraeg, yn eironig. Ond eto, dyw hynna ddim yn synnu fi. Dan ni'n cyrraedd rhyw bwynt diddorol yn fan hyn yn y sgwrs achos, does yr un ohonon ni, dan ni'n gwerthfawrogi cyfieithu jest ar gyfer cyfieithu, er mwyn sicrhau bod 'na ryw fath o degwch i'r ddwy iaith. Mae cyfieithu yn hawdd mewn sefyllfa sy ddim mor ffurfiol, jest yn fater o adrodd, ond dyna'r fath o beth lle fedrwch chi bron gael cyfieithu trwy beiriant yn gweithio'n iawn. [49] Mae'n gweithio lle mae gen ti fwyafrif llethol o Gymry Cymraeg erbyn hyn, er dim mor hir yn ôl petai un person yn ddi-Gymraeg, mi fysai pawb wedi newid i'r Saesneg.

*Mae'n dal i ddigwydd.*

Y cwestiwn yw a bysai hyn wedi bod yn wir petai 'na gyfieithu ar gael. Mae'r ddau beth wedi newid, fedri di ddim cymharu, mae'r gymdeithas wedi symud ymlaen. Ond mae'r cyngor yn gweithio. [50] Mae pobl bysai ers talwm yn bendant wedi dweud, 'for our English friends we will speak English', mae'r rheiny i gyd yn siarad Cymraeg yn y cyngor, ac mae'r cyngor yn gweithio. Os oes rhaid troi i'r Saesneg, dan ni'n troi i'r Saesneg a wedyn troi'n ôl i'r Gymraeg. Sydd i mi'n profi bod y peth yn gweithio. Dydy bobl ddim yn teimlo bod rhaid iddyn nhw siarad Cymraeg, ond maen nhw'n dewis siarad Cymraeg achos dyna'r peth mwyaf hwylus. Ond dydy hyn ddim yn digwydd yn y Senedd, oherwydd y ffurfioldeb dw i'n meddwl. [51] Petai rhywun yn gosod allan ei ddadl, ac yn newid hanner ffordd

i'r Gymraeg, neu newid hanner ffordd i'r Saesneg, am ryw reswm dw i'n teimlo fysai hynny'n gwanhau'r ddadl.

*Ond pam? Am bod statws y Gymraeg dim yn gyfartal yn y Brifysgol?*

[52] Na, dw i'n credu bod e rhywbeth i wneud gyda natur dadl academaidd fallai. Neu ddadl wleidyddol. Wyt ti byth isio dangos unrhyw fath o ansicrwydd, unrhwy fath o wendid. Mae seiciatrydd o'r enw Syr Anthony Clare, fu farw ddoe neu echdoe, wedi bod yn rhedeg rhaglenni 'From the psychiatrist's chair' ar Radio 4. Ac oedden nhw'n dweud yn yr obituary fod o wedi llwyddo cael mwy allan o wleidyddion, a nid jest gwleidyddion ar ei raglen e, nag oedd pobl fel arall. Dydy gwleidyddion ddim yn y pwynt o ddangos unrhyw wendid, mae'n job sicrwydd. Ac mae newid o un iaith i iaith arall yn dangos rhyw fath o ansicrwydd, amhendantrwydd sydd ddim yn rhan o'r modd dadlau Saesnig beth bynnag. Dw i ddim yn siwr yn Almaeneg neu petai 'na ryw fath o Nirfana Cymraeg, fallai bysai fo'n wahanol. Ond dw i'n amau bysai hyn yn wir ym mhob iaith.

*Ond ar lefel rhyngwladol, os fedri di siarad dwy iaith, gall hyn dy roi di mewn sefyllfa cryfach hefyd.*

[53] Ond mae ddadl yn rhywbeth dwy gyfeiriad, dydy? Yr unig ffordd mae rhywun yn medru defnyddio dwy iaith yn gryf ydy os ydy'r person arall yn gallu gwneud yr un peth. Ac os ydy'r boi arall ddim mor ddwyieithog â hynny, mewn ffordd, pwy sy'n penderfynu pa iaith dach chi'n defnyddio?

*Ond ydy hyn yn golygu fod gen ti ddim ffydd yn y cyfieithydd ei fod o'n gallu cyfieithu'n iawn beth sydd gen ti i ddweud?*

Mae hwn eto yn bwynt diddorol. Dw i'n meddwl am yr hen ddadl ers talwm, oedd pobl yn dweud, yr unig peth galli di drafod yn Gymraeg ydy crefydd. Un o'r llyfrau mwyaf diddorol ydy The Old British Tongue gan Brinley Jones, cyn brifathro ysgol Llanymddyfri. Ei bwynt oedd, pan gyfieithwyd y Beibl i'r Gymraeg, doedd dim modd trafod crefydd yn Gymraeg, oedd crefydd yn rhy gymhleth. Dim ond mewn Lladin oedd modd trafod crefydd. Ac oedd yr un ddadl wedi digwydd yn Saesneg tua canrif ynghynt pan gyfieithwyd y Beibl i'r Saesneg, y ddadl oedd dydy'r Saesneg ddim yn ddigon o iaith i drafod pethau technegol. Felly mae 'na hen draddodiad o drafod gwahanol bynciau mewn gwahanol ieithoedd. A mae rhai o bobl yn dal i deimlo na ddylet ti gael offeren mewn iaith brodorol, ond mewn Lladin. Bysai'n ddiddorol gweld os yw dau berson yn gallu cael sgwrs amlieithog yn yr ystyr yna.
[54] Beth arall sy'n od yn Gymraeg, yn aml iawn gei di weinidog mewn capel sy'n dyfynnu Martin Luther yn Saesneg. Pam dim mynd yr holl ffordd a'i gyfieithu i'r Gymraeg ei hunan yn ei ben, dydy hwnna ddim yn broblem. Mae o fel petai pawb arall sy ddim yn Gymry yn siarad Saesneg. Mae'n ffenomenon od. Mae'n rhan o'r ffurfioldeb 'ma. Dw i'n dal yn trio gweithio mas pam mae 'na drafferth yn Senedd y coleg.

*Ond mae hyn eto'n gwestiwn o statws yr iaith, dydy? Os dach chi'n meddwl na fedrwch chi drafod rhyw bwnc arbennig yn Gymraeg, mae hyn oherwydd diffyg statws, am ba resymau bynnag.*

Dw i'n trio dod yn ôl i'r syniad o ffurfioldeb. Pan wyt ti'n dadlau yn ffurfiol, fel dw i'n trio dadlau ein bod ni'n gwneud yn Senedd y coleg, mae'n debyg beth sy'n digwydd [55] os dach chi yn trio dadlau yn Gymraeg, dach chi'n dadlau y ddwy iaith ar yr un pryd, achos dach chi'n chwarae gyda'ch geiriau eich hunain, ond mae rhaid i chi fod yn ymwybodol pa eiriau dach chi'n chwarae yng nghlust y person arall. Dach chi ddim yn ymwybodol o hynny, felly dach chi'n llwyr ddibynnol ar ba eiriau mae'r person yna yn defnyddio yn ôl i chi. Nawr, bron mae rhaid i chi gyfieithu be' mae'r person yna yn ei ddweud yn ôl i chi er mwyn cael y gylch yn gyfan. Dw i'n credu bod hyn yn wir, dydy? Mae rhaid i'r person dwyieithog ddadlau yn ddwyieithog tra bod y person uniaith wedyn o dan fantais aruthrol.

*Felly pan wyt ti'n ddwyieithog ac yn siarad Cymraeg, wyt ti'n dibynnu ar y cyfieithydd, un ffordd i gyfieithu beth wyt ti'n ddweud i'r person arall, a wedyn mae rhaid i ti wrth glywed y person arall gyfieithu'n ôl i ti dy hun.*

[56] Mae rhaid i ti wybod beth mae'r boi arall wedi ei glywed. A wedyn, hollol, cyfieithu fo'n ôl.

*Er mwyn cyfeirio at beth mae hwnnw wedi ddweud.*

Oh, mae hwn yn gwestiwn ddiddorol ieithyddol, neu gymdeithasol i ti. [57] Petai gen ti drafodaeth hollol agored ar y lefel yna, dyw e ddim yn gymesur, nac ydy? Mae cyfieithu un ffordd, ond ddim y ffordd arall. Dyw e ddim yn gymesur, achos mae rhaid i'r person dwyieithog ddadlau yn ddwyieithog. Tra mae'r person uniaith jest yn ymateb i'r cyfieithu ac yn siarad yn yr un iaith. Dw i erioed wedi meddwl am hyn. Ar y cyfan, wrth feddwl am y peth, dw i wedi meddwl bod y cyfieithu i'r Gymraeg yn ddi-bwynt. Ond dw i ddim yn siwr nawr.

*Mae'n ddi-bwynt os wyt ti'n gweld cyfieithu dim ond o'r safbwynt ei fod o'n gwneud i bobl ddeall beth wyt ti'n ei ddweud. Wrth gwrs bod pawb bellach yn deall Saesneg. Ond os wyt ti isio ymateb i beth mae o'n ddweud yn ei eiriau fo, mae rhaid i ti wybod pa eiriau mae'r cyfieithydd wedi eu defnyddio.*

Ond dan ni'n cyffwrdd nawr ar y cwestiwn a ddylid cyfieithu i'r Gymraeg.

*Mae pobl yn gwrthod hyn oherwydd bod nhw isio clywed y gwreiddiol.*

O ia, pob tro mae 'na gyfieithu, mae 'na golli ystyr, does dim cwestiwn am hynna. Colli ystyr gwreiddiol, newid ystyr. Os nad oes, does dim pwrpas cael mwy nag un iaith. Os ydy ieithoedd yn union gyfartal, dw i'n siarad union yr un fath a phawb arall a dw i ddim angen mwy nag un iaith.
Felly, fel dw i'n dweud, mae cyfieithu yn gweithio yn y cyngor. Mae'r di-Gymraeg yn cael mwy o ymateb gan y Cymry gan bod nhw'n clywed mwy, a mae'r Cymry yn siarad mwy.

*Ac yn y cyngor, dwyt ti ddim yn teimlo bod rhaid i ti ddadlau yn ddwyieithog? Achos bod y rhan fwyaf ohonyn nhw yn deall Cymraeg hefyd. Felly mae'r nifer wedi'r cwbl yn bwysig.*

Y nifer a'r ffaith fod o ddim mor ffurfiol. [58] Dw i'n credu bod sefyllfa anffurfiol yn haws i'w chyfieithu. Heblaw bod pobl yn siarad ar draws ei gilydd, ond mater technegol ydy hynny. Yn ddamcaniaethol, bysai gen ti un cyfieithydd ar gyfer pob un person, problem hollol dechnegol ydy e. Dychmyga'r dyfodol lle bydd 'na beiriannau yn cyfieithu, mae'n hawdd dychmygu i bawb gael ei beiriant bach ei hun. Ond anghofia hyn am y funud, dw i'n credu bod hi'n haws o lawer i gyfieithu mewn cyd-destun anffurfiol. Mewn cyd-destun mor boring o ffurfiol a jest darllen adroddiadau, dydy e ddim yn broblem, ond [59] lle mae'r iaith yn arbennig o bwysig, lle mae pobl sydd wedi treulio eu bywydau yn dysgu sut i ddefnyddio iaith, yn dod yn benben gyda'i gilydd i ddadlau ac i ennill pwyntiau ar ei gilydd, i newid syniadau ei gilydd, newid barn ei gilydd, dyna wirioneddol *crunch*. [60] Ac os dydy'r ddau ddim yn deall ei gilydd o gwbl, mae rhaid cael cyfieithydd i'r ddau gyfeiriad, o leiaf mae'r ddau yn yr un sefyllfa. Ond dw i'n credu fedri di ddim fod yn hollol gyfartal rhwng rhywun dwyieithog a rhywun uniaith. Ac yn eironig, y person dwyieithog sy'n dioddef. Bysat ti'n meddwl fod o'n mynd y ffordd arall, ond dyw e ddim, nac ydy? Ac efallai bysai hyn yn wir i bob sefyllfa ddwyieithog, beth bynnag ydy'r ieithoedd. Sut fysai fo'n gweithio rhwng yr Almaeneg a'r Saesneg? Ond dyna beth sy'n gwneud y Gymraeg yng Nghymru mor ddiddorol, yn arbennig fan 'ma, achos yng Nghaerdydd lle mae'r peth mor unochrog, ac os ydy o'n unochrog, mae 'na llawer llai o densiynau gwleidyddol hefyd, does neb yn teimlo dan unrhyw fygythiad achos os wyt ti ar y llawr wyt ti'n bygwth neb. Tra yn fam 'ma, mae hi'n dal, wel, mae'n dal yn rhyw fath o frwydr.

# Arsylwi mewn cyfarfodydd dwyieithog yng Ngwynedd

Gwnaethpwyd nodiadau ym mhob cyfarfod a fynychwyd, wrth i'r cyfarfod fynd yn ei flaen, heb strwythur neu ganllaw. Gwelir y nodiadau hyn o dan *Arsylwi* pob cyfarfod. Yn ogystal, aethpwyd ati ar ôl y cyfarfodydd a cheisio dehongli'r hyn a arsylwyd. Dyna'r meddyliau a welir dan *Dehongli*.

**Cyfarfod 1**

Bwrdd Iechyd Lleol, 1 Chwefror 2007, Parc Menai

*Arsylwi*

Mae'r 17 aelod yn gynrychiolwyr o wahanol broffesiynau iechyd yn ogystal â swyddogion yr Ymddiriedolaeth Iechyd. O'r rhain, mae pump a'r Cadeirydd yn medru'r Gymraeg. Eglura'r ysgrifenyddes fod'na fwy o Gymry Cymraeg fel arfer pan mae cynrychiolwyr o'r Cyngor Sir yna.

Cyn y cyfarfod dros banad, mae'r rhan fwyaf o'r sgwrsio yn Saesneg.

Nid yw'r Cymry i gyd yn eistedd efo'i gilydd.

Mae'r croeso gan y cadeirydd (sydd yn ddysgwr) yn Gymraeg, ac mae'n cychwyn pob eitem newydd yn Gymraeg.

Wrth fynd trwy'r cofnodion, mae trafodaeth ynghylch camgyfieithu gair yn Gymraeg, fel arall mae'r rhan fwyaf o'r drafodaeth yn Saesneg.
Pan mae adroddiad yn cael ei gyflwyno yn Saesneg, y tueddiad yw i ateb a thrafod yn Saesneg hefyd.

Mae un drafodaeth cwestiynau ac ateb rhwng dau Gymro yn Saesneg.

Mae Cymro yn holi cwestiwn yn Gymraeg. Ond nid yw'r Sais wedi deall y cwestiwn, ac mae'r Cymro yn gofyn yn Saesneg yn hytrach nag aileirio yn Gymraeg.

Erbyn 11.15, mae'r rhan fwyaf o gyrn gwrando yn gorwedd ar y bwrdd, nid yn hongian o gwmpas gyddfau.

Yr unig gyflwyniad yn Gymraeg yw'r adroddiad ariannol, gan ddefnyddio iaith eithaf ffurfiol. Mae'n ailadrodd pwynt yn Saesneg pan mae'r Prif Weithredwr yn dod yn ôl o'r toiled. Mae'r adroddiad yn cael ei ddilyn gan dipyn o drafodaeth yn Gymraeg gan y Cymry Cymraeg, wedyn mae'n mynd yn Saesneg pan mae aelodau eraill yn dod i mewn.

Un Gymraes sydd ddim yn dweud llawer sy'n siarad Cymraeg yn unig.

Ar ôl gorffen, mae'r cadeirydd yn gofyn i'r cyfieithydd a oedd acwstics yr ystafell yn iawn.
Ar ôl y cyfarfod, rwy'n siarad efo dau neu dri o aelodau a'r ysgrifenyddes. Dyma rai o'u sylwadau:

- 'This translator was really good. She was clear, and always on time.'
- 'People prefer women translators to men. Men tend to mumble.'
- 'The translators from the council are usually not as good as the translators who run their own business.'

*Dehongli*

Roedd iaith y drafodaeth fel arfer yn dilyn iaith y cyflwyniad. Dim ond un cyflwyniad a oedd yn Gymraeg, ac roedd y Cymry Cymraeg yn trafod yn llawer rhwyddach yn dilyn y cyflwyniad hwnnw yn Gymraeg na phan oeddent yn siarad Saesneg.
Dim ond un o'r Cymry Cymraeg nad oedd yn ynganu'r un gair yn Saesneg, ond nid oedd yn siarad llawer.
Roedd y Cadeirydd yn cychwyn pob pwnc newydd yn Gymraeg, ac wedyn yn trafod yn dilyn iaith y cyflwyniad.

Roedd yr holl beth yn edrych yn rhwydd a heb broblemau. Dywedodd yr ysgrifenyddes fod cyfieithu yn y BILL ers y dechrau, a hyd yn oed yn y corff cyn hynny (Grŵp Iechyd Lleol).

Caf yr argraff nad y pwnc sy'n penderfynu'r iaith, ond y person. Wedi'r cwbl, roedd yr adroddiad mwyaf ffurfiol a swydogol, yr un ariannol, yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos nad dewis iaith, ond penderfynu iaith sy'na.

Gwn o fy mhrofiad fy hun mewn seminar gymunedol ei bod hi'n anodd i barhau siarad yn Gymraeg os welwch y cyrn gwrando yn rhywle ar y byrddau – neu yn yr achos yna, dan y cadeiriau.

**Cyfarfod 2**

<u>Bwrdd Iechyd Lleol, 5 Ebrill 2007, Parc Menai</u>

*Arsylwi*

Mae 25 o aelodau yna, 11 ohonynt yn Gymry heb gyrn gwrando. O'r 4 aelod o'r cyhoedd, mae 2 yn deall Cymraeg.

Rwy'n clywed llawer mwy o Gymraeg cyn y cyfarfod.

Mae cwestiynau cyson yn Gymraeg gan ddau Gymro.

Mae'r swyddog ariannol eto yn cyflwyno yn Gymraeg, ond yn trafod yn Saesneg trwy'r cyfarfod.

Mae un cynrychiolydd o'r Cyngor yn cyfrannu yn 'swyddogol' yn Gymraeg, felly pethau mae hi wedi meddwl mdanynt ymlaen llaw (materion yn codi o'r cofnodion e.e., neu sylw i ryw adroddiad oedd yn y papurau), ond unwaith mae cwestiwn yn Saesneg, mae hi'n siarad Saesneg, weithiau yn ôl i'r Gymraeg. Cymysg iawn.

Erbyn 12, mae'r rhan fwyaf o siarad yn Saesneg.

*Dehongli*

Caf yr argraff unwaith mae rhywun yn penderfynu siarad Cymraeg eto ar ôl lot o Saesneg, mae eraill yn fodlon dilyn. Ond nid yw pawb yn gwneud hynny, ac mae'n golygu ymdrech neu gic yn y tin. Fel arall, maent yn 'ddiog' ac yn siarad Saesneg. Neu isio osgoi trafferth a thynnu sylw atynt eu hunain. Mae'n bosib siarad Saesneg heb fod neb yn sylwi ar yr iaith, tra mae siarad Cymraeg efallai yn tynnu'r sylw oddi wrth y pwnc at yr iaith – cyfieithu, clustffonau, angen disgwyl nes i bawb fod yn barod.

Pa ffactorau sy'n gyfrifol am hynny?

- Pwy arall sy'n bresennol
- Pwy sydd wedi siarad o'r blaen yn Gymraeg
- Nid yw'r pwnc yn broblem, ond efallai i ddysgwyr
- Pwy sydd â'r wybodaeth a'r grym

Barn y cyfieithydd yw nad diffyg hyder o ran gallu siarad Cymraeg yw'r broblem – gweler y dyn ariannol – ond bod cadeirio yn hollbwysig. Roedd o wedi gweld y Grŵp iechyd Lleol cyn hynny a dweud bod cadeirio Saesneg wedi gwneud y cyfarfodydd yn llawer mwy Saesneg.

**Cyfarfod 3**

<u>Senedd y Brifysgol, 5 Mawrth 2007, Bangor</u>

*Arsylwi*

Roedd y cadeirydd yn ddi-Gymraeg.

Roedd y cyfieithydd mewn ystafell arall. Doedd rhai ddim wedi cymryd clustffonau, rhai eraill yn cymryd un wrth y drws yn hollol naturiol.

Trafodwyd bron bob dim yn Saesneg. Yr unig bwnc lle clywais Gymraeg oedd trafodaeth ar y cwestiwn o 'Brifysgol neu University?' a gyflwynwyd gan rywun yn Saesneg. Roedd y person yna yn siarad Cymraeg yn nes ymlaen i ymateb i sylw Cymraeg. Roedd rhywun arall yn rhybuddio ei fod yn siarad Cymraeg: 'I'm going to address this point in Welsh.' Dywedodd dyn di-Gymraeg fod prifysgol

yn golygu big school a pham nad ydy'r Gymraeg yn dweud university 'fel pob iaith arall.'

Roedd Cymro a oedd yn eistedd ar yr ochr yn gorfod codi i siarad dros ysgwyddau'r rhai a oedd yn eistedd, er mwyn siarad i'r meicroffon i'r cyfieithydd gael clywed.

*Dehongli*

Yn amlwg, nid oedd y sawl na chymerodd glustffonau yn disgwyl clywed siarad Cymraeg.

Dim ond pwnc a oedd yn cynnwys dimensiwn lleol a oedd yn haeddu trafod yn Gymraeg, sef y cwestiwn a oedd y Brifysgol eisiau bod yn rhyngwladol neu yn lleol.

Roedd Athro ymchwil dwyieithrwydd Cymraeg a Saesneg yn siarad Saesneg, felly nid yw ei hymrwymiad wrth yr iaith cymaint ag y mae'n honni.

Roedd Sais yn honni ei fod yn gwybod arwyddocâd geiriau Cymraeg ac yn gwneud ffŵl ohono ei hun (ond ni chodwyd hyn).

**Cyfarfod 4**

<u>Senedd y Brifysgol, 9 Gorffennaf 2007, Bangor</u>

*Arsylwi*

Roedd cyfieithydd wedi dod o'r tu allan i'r Brifysgol. Roedd yn bresennol yn yr ystafell.

Roedd y cadeirydd yn Gymro, ond yn dechrau yn Saesneg. Ambell dro, roedd yn dweud brawddeg yn Gymraeg, fel arfer brawddegau cyflwyniadol neu gysylltiol.

Aeth drwy'r cofnodion a'r materion yn codi o'r cofnodion yn Gymraeg.

Adroddodd ar faterion yr Is-Ganghellor yn Saesneg a Chymraeg. Cyflwynodd bwynt am y sefyllfa wleidyddol newydd yng Nghymru yn Gymraeg, a chyfeiriodd at ddogfen a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ('One Wales') a chodi pwyntiau am addysg o'r ddogfen honnno. Er ei fod yn dyfynnu o ddogfen Saesneg, roedd yn trafod yn Gymraeg.

Cyflwynodd fater ar ffioedd Prifysgolion Cymru yn Saesneg. Ar un pwynt, dywedodd: 'They were much more…di-flewyn ar dafod…', gan fethu ffeindio'r Saesneg, a'r cyfieithydd yn dweud, 'blunt, Mr Chairman.' Cymysgodd ei Gymraeg a'i Saesneg yn o lew, ac ateb sylwadau Saesneg yn Saesneg.

Cafwyd adroddiad gan rywun arall yn Saesneg, ond cododd y cadeirydd bwnc am ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn Gymraeg.

Ar ôl hynny, roedd nifer o gyflwyniadau gan bobl eraill yn Saesneg, ac roedd ymateb y cadeirydd iddynt yn Saesneg hefyd, heblaw ambell frawddeg gyflwyniadol ar ddechrau eitem. Pan gafwyd gyflwyniad yn Gymraeg, roedd y cadeirydd yn siarad Cymraeg hefyd.

*Dehongli*

Roedd y ffaith fod y cadeirydd yn Gymro yn troi’r cyfarfod yn un llawer mwy Cymraeg na’r un blaenorol. Er hynny, materion yr oedd a wnelo nhw â’r Gymraeg neu â Chymru yn benodol a drafodwyd yn Gymraeg.

Gan nad oedd fawr neb ond y cadeirydd yn siarad, heblaw pan gafwyd cyflwyniad, mae’n anodd dweud am iaith y cyfarfod. Roedd y cadeirydd yn ymateb i gyflwyniad yn iaith y cyflwyniad. Tybed a fyddai’r cyfarfod wedi bod yn fwy Cymraeg petai mwy o gyflwyniadau yn Gymraeg? A ydy cadeirydd mewn sefyllfa fel hyn yn ymwybodol o’r cyfrifoldeb neu o’r dylanwad sydd ganddo ar iaith cyfarfod? Ond mewn sefydliad mor Saesneg, bydd hi’n anodd cael mwy o Gymry i gyflwyno pwyntiau.

**Cyfarfod 5**

<u>Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, Bae Colwyn, 19 Mawrth 2007</u>

*Arsylwi*

Sylwadau cychwynnol y cyfieithydd/ysgrifennydd:
17 o aelodau, 6-7 yn gallu Cymraeg
Aelodau di-Gymraeg yn gefnogol i’r iaith, does dim wedi cael sylwadau bod cyfieithu ar y pryd yn boen.

Mae’r ystafell yn dangos bod cyfieithu ar y pryd yn rhan o drefniadau: mae ystafell bwth yn y cefn, ac mae dau beiriant a sgrin cyflwyno Powerpoint ar waith (cyfieithir y cyflwyniadau gan yr Uned gyfieithu).

Heddiw, mae’r 17 aelod yn bresennol (?), gan gynnwys y Prif Gwnstabl a’r cadeirydd. Yn ogystal, mae staff yr AHGC: John Hughes Jones, yr ysgrifennydd a Kelvin Dent, y clerc. O’r 20 aelod, mae 9 yn medru’r Gymraeg, a 3 yn siarad Cymraeg yn unig, RB dim ond pethau byr, ac un Cymro yn siarad Cymraeg unwaith. Yr aelod arall yn siarad Saesneg.

Mae’r cadeirydd yn ddi-Gymraeg.
Mae’r clerc yn ateb cwestiynau Cymraeg yn Gymraeg.
Mae RB yn siarad Saesneg ran amlaf, heblaw ambell sylw byr.

Mae’r tri aelod sy’n siarad Cymraeg yn eistedd efo’i gilydd, y ddau arall mewn llefydd eraill.

Ynglŷn â’r cofnodion, mae’r aelodau Cymraeg yn codi:
Pam nad oedd y cofnodion ar gael yn Gymraeg?
Oedd un eitem ar goll yn y fersiwn electronig.
Rydym angen dyddiad penodol i gael papurau yn Gymraeg – ‘dan ni wedi cael y broblem hon dro ar ôl tro.

Cyflwyniad RB yn Saesneg. Ateb i gwestiwn C: Mi wna i ateb yn Saesneg, os gwelwch yn dda.

Cyflwyniad arall hir yn Saesneg.

Mae’r drafodaeth bron i gyd yn Saesneg, ac eithrio dau o’r tri sy’n fodlon dweud rhywbeth. Pan maent yn codi eu llaw, mae pawb yn gwisgo clustffonau.

Yn y diwedd, diolchwyd i un o’r aelodau Cymraeg am ei gwaith dros yr 8 mlynedd diwethaf. Mae hi’n ateb ei bod hi’n diolch i RB yn bersonol am ei ymrwymiad i’r iaith: ‘ac mae Cymru yn diolch i chi hefyd’. Pan oedd hi wedi ymuno ag AHGC nid oedd gair o’r papurau yn Gymraeg. Mae wedi gwella, nid yw’n ymddiheuro am fod yn niwsans weithiau. ‘Dach chi wedi dysgu i ni fod yn falch am ein hiaith ac i beidio â theimlo’n fach.’ Gwêl hybu a defnydd o’r iaith yn well yn yr heddlu ei hun nag yn yr awdurdod.

*Dehongli*

Teimlad reit stereil i’r cyfarfod a dim naws Gymraeg wrth reswm. Bron iawn y byddai rhywun yn dweud pan mae Cymro yn siarad, siarad ynglŷn â’r iaith y mae, ac nid oes ymateb o gwbl gan yr aelodau eraill. Dim sylw, dim gwrthwynebu, dim cytuno. Mae’r anwybyddu hwn yn dew. Beth ydy o – ofn pechu neb? Diffyg diddordeb go iawn mewn materion Cymraeg?

**Cyfarfod 6**

<u>Cyngor Cymuned D, 6 Mawrth 2007, Meirionnydd</u>

*Arsylwi*

9 Cymro Cymraeg a 2 di-Gymraeg
Tua 10 aelod o’r cyhoedd o’r ddwy iaith

Mae’r Cadeirydd yn wastad yn siarad Cymraeg.
Mae’r drafodaeth yn Gymraeg hefyd gan mwyaf, yn enwedig yn y dechrau.
Mae’n mynd yn fwy Saesneg fel mae’r noson yn mynd yn ei blaen.

Siaredir Saesneg fel a ganlyn:

- Materion cynllunio sy'n poeni'r cyhoedd (yn enwedig y rhai Saesneg)
- Pan mae'r drafodaeth yn dilyn y cynghorydd Saesneg sy'n amlwg yn weithgar iawn
- Cymro yn dweud bod angen rhoi seibiant i'r cyfieithydd
- Cymro yn darllen erthygl Saesneg o bapur lleol ac wedyn gwneud y drafodaeth yn Saesneg
- Mae un cynghorydd Cymraeg yn siarad lot o Saesneg, wedyn mae'r lleill yn dilyn ei esiampl

Unwaith problem efo llythyr Cymraeg. Sais yn dweud: Can you read that again, please? It was not really translated.

Sais arall eisiau newid ei gyrn gwrando achos bod y batris yn fflat.

*Dehongli*

Yn ôl fy argraff cyntaf, roedd un Cymro yn enwedig yn siarad Saesneg. Ac roedd o'n siarad llawer hefyd.Roedd o'n gwneud lot o bethau ar ran y cyngor a phwyllgorau eraill. A roedd o, trwy siarad Saesneg, eisiau plesio'r cynghorydd Saesneg a oedd yn weithgar iawn hefyd?

Roedd rhai o'r cynghorwyr eraill a'r cadeirydd yn trio ar sawl achlysur i ddwyn y sgwrs yn ôl i'r Gymraeg, ond roedd yr un yn benderfynol iawn i siarad Saesneg.

Pan drafodwyd mater cynllunio, roedd yr argraff bod mewnfudwyr yn ei erbyn (er bod y problemau a godwyd yn bodoli eisoes, fel golygfa, sŵn, llwch), a'r cynghorwyr lleol o'i blaid oherwydd gwaith i bobl leol ac achos bod potensial i ddenu cwsmeriaid o'r tu allan i'r pentref. Nid oedd y cwynwyr hyd yn oed wedi trio siarad efo rheolwr y busnes dan sylw. Roedd y tensiwn yn amlwg. Ond yn y diwedd, pleidleisiodd y ddau gynghorydd Saesneg o blaid cynllunio, a cheisio bod yn ddiplomataidd.

**Cyfarfod 7**

<u>Cyngor Cymuned D, 3 Ebrill 2007, Meirionnydd</u>

*Arsylwi*

10 Cymro a 2 Sais

Siaradwyd llawer mwy o Gymraeg na'r tro diwethaf.

- Roedd y Cymro a oedd wedi siarad cymaint o Saesneg y tro diwethaf yn eistedd rhwng y ddau Sais. Roeddwn yn disgwyl mwy o Saesneg byth ganddo, ond roedd yn siarad mwy o Gymraeg.
- Roedd sylwadau byr uniongyrchol at y Saeson yn Saesneg.
- Roedd trafodaeth yn dilyn darllen llythyr Saesneg yn tueddu i fod yn Saesneg.
- Roedd un Sais (BM) yn dweud ychydig o eiriau yn Gymraeg.

- Roedd y Cymro sy'n siarad lot o Saesneg yn codi mater o'r pwyllgor neuadd pentref yn Saesneg – oherwydd bod y Sais ar y pwyllgor hefyd?
- Mae un Sais yn gofyn lot o gwestiynau, ac wedyn mae'r trafod yn Saesneg.
- Mae un Cymro nad oedd yno'r tro diwethaf yn siarad Cymraeg yn wastad ac yn llwyddo i ddenu'r lleill yn ôl i siarad Cymraeg yn eu tro.
- Mae'r Sais gweithgar yn hoffi cael y gair olaf, hyd yn oed os nad yw wedi cymryd rhan yn y drafodaeth ei hun ryw lawer. Mae'n gwneud sylwadau ynglŷn â rheolau a'r gyfraith mewn tôn reit pwysig.
- Pan mae'r un Cymro yn siarad Saesneg, mae'r lleill yn troi hefyd, nes i'r Cymro cadarn gyfrannu yn Gymraeg.
- Cyfieithu solat am ddwy awr a hanner!

*Dehongli*

Eto, ges i'r teimlad fod yr un Cymro eisiau plesio'r cynghorydd Saesneg. Ond roedd defnyddio'r Gymraeg gan y Cymro arall yn cael dylanwad cryf iawn, hyd yn oed arno fo.
Roedd y Sais gweithgar ddim yn dangos unrhyw agwedd tuag at yr iaith, ond roedd yn hoffi cymryd y drafodaeth drosodd – nid ei fod yn siarad drwy'r amser, ond yn dweud pethau oedd fod i swnio yn bwysig. Mewn ffordd, nid oes dewis gan y lleill ond i wrando ar ei 'gyngor cyfreithiol'. Dywedodd y cyfieithydd hefyd mai fo oedd wedi mynd i'r llys ar ran y cyngor un tro gan ennill achos – tybed a ydynt yn teimlo mai fo sy'n gwybod y pethau'ma fwy na neb arall?

**Cyfarfod 8**

<u>Cyngor Cymuned Llan, 14 Mai 2007, Talybont</u>

*Arsylwi*

6 chynghorydd Cymraeg, 2 di-Gymraeg, clerc Cymraeg. Yn y dechrau, roedd y cadeirydd yn ddi-Gymraeg. Etholwyd cadeirydd arall, ac mi ddaeth is-gadeirydd yn ei le. Roedd hyn i gyd yn Saesneg.

Ar ôl newid cadeirydd, roedd y rhan fwyaf o'r drafodaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Roedd cynghorydd di-Gymraeg a oedd hefyd yn gynghorydd sir yn cyflwyno pynciau, ac roedd yr atebion a'r drafodaeth yn gymysg eu hiaith. Weithiau roedd y cyflwynydd yn ateb i gwestiwn Cymraeg hyd yn oed cyn i'r cyfieithydd ddechrau trosi i'r Saesneg. Roed y cynghorydd hwnnw yn siarad tipyn go lew.

Roedd dau aelod o'r heddlu yn dod i drafod gwahanol faterion. Pan roedd y cynghorydd di-Gymraeg yn dweud lot, roedd y drafodaeth, gan gynnwys yr heddlu, yn Saesneg bron i gyd. Dim ond weithiau pan mae rhywun yn dechrau yn Gymraeg, mae pawb arall yn dilyn.

Mae'r sgwrs yn distewi. Mae pobl yn sôn fwy am faterion cymdogaeth y pentref (cyflwr y lôn, ffensys, cloriau, waliau). Mae hyn i gyd yn Gymraeg, dydi'r di-Gymraeg yn dweud dim.

Mae'r cynghorydd di-Gymraeg yn siarad am bynciau mwy 'swyddogol', fel y neuadd, y sied fysus, ac mae'n defnyddio termau cyngor fel 'highways dept, housing dept, monitoring office'. Mae'n gwybod am y bobl iawn i gysylltu efo nhw. Mae'n dweud 'we should…, we should…'

Llythyr yn cael ei ddarllen sy'n reit flin am rai o'r cynghorwyr. Beth 'dan ni'n ei wneud? Cymry eisiau gwneud dim os yn bosib achos dydyn nhw ddim eisiau mwy o lythyrau fel hyn. Di-Gymraeg yn awgrymu ysgrifennu llythyr i swyddfa fonitro'r sir a gadael iddyn nhw ddelio efo'r mater. Pawb yn cytuno.

*Dehongli*

Mae un o'r ddau gynghorydd di-Gymraeg yn siarad lot. Mae o wedi cymryd y rôl swyddogol, gan ei fod yn gynghorydd sir hefyd, o wybod efo pwy i gysylltu, a sut, a pha ffordd i fynd. Mae'n bendant iawn ynglŷn â sut mae'n gweld pethau a sut i fynd o'i chwmpas hi.

Mae'r Cymry Cymraeg yn siarad mwy pan maent yn cyrraedd siarad mwy anffurfiol am boenau bach y pentref a'r gymdogaeth, gan ddweud anecdotau am wahanol ddigwyddiadau a phobl. Dim byd o bwys mawr efallai, ond yn dangos bod y cynghorwyr yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen o'u cwmpas a'u bod yn perthyn mewn rhyw ffordd i'r bobl hynny. Nid yw'r ddau ddi-Gymraeg yn cymryd rhan yn hyn. Dydyn nhw ddim yn byw yn yr un pentref ac felly ddim yn gymaint rhan o'r gymdeithas fach leol?

**Cyfarfod 9**

<u>Cyngor Cymuned Llan, 9 Gorffennaf 2007, Talybont</u>

*Arsylwi*

6 Chymro Cymraeg, 1 Sais.

Roedd trafodaeth fywiog am safleoedd bysus yn Gymraeg, ond oedd y Sais yn cyfrannu hefyd. Roedd y Cymry yn siarad Cymraeg efo fo.

Doedd dim cyfraniad Saesneg o gwbl i'r drafodaeth am bori ar y mynydd ac am y ffyrdd cul.

Roedd yr adroddiad am yr ohebiaeth i gyd yn Gymraeg hefyd, a'r drafodaeth am faterion cynllunio ac yswiriant.

Ar ddiwedd y cyfarfod, roedd y Sais yn gwneud dau sylw, ac roedd y trafod yn Saesneg.

*Dehongli*

Nid oedd y cynghorydd di-Gymraeg a oedd yn siarad llawer yno heno. Roedd hyn yn amlwg yn newid y cyfarfod i fod yn fwy Cymraeg, ac roedd aelodau eraill y cyngor yn fwy bodlon cyfrannu.

Roedd y cadeirydd yn ateb sylwadau a chwestiynau Saesneg yn gadarn iawn yn Gymraeg. Dim ond ar y diwedd y cafwyd ychydig o drafod Saesneg; erbyn hyn roedd pawb wedi dechrau blino.

Sylwais nad oedd y Sais yn cyfrannu at drafod materion y wlad (ffyrdd a mynydd), ond mwy at faterion y pentref (bysus a chae chwarae). Dim yn siwr a oedd hyn yn arwyddocaol, ond o glywed y cyfarfod cyntaf, roedd yr un peth yn digwydd yno.

**Cyfarfod 10**

<u>Llywodraethwyr Ysgol, 17 Mai 2007, Cricieth</u>

*Arsylwi*

11 o aelodau, gan gynnwys y cadeirydd a'r prifathro
1 ohonynt yn ddi-Gymraeg

Heblaw y cwestiwn i'r Sais yn gofyn a oedd o isio paned cyn dechrau, nid oedd yr un gair o Saesneg yn y cyfarfod hwnnw. Y prifathro yn cyflwyno'r materion, ychydig o sylwadau bob tro, a'r drafodaeth i gyd yn Gymraeg.

*Dehongli*

Mae gen i deimlad bod y grŵp yn nabod ei gilydd yn reit dda. Ond mae'n amhosib dweud a ydi'r Sais yn rhan o hyn. Mae'n gadael i bob dim fod yn Gymraeg yn hollol heb amharu arnyn nhw.

Rhai o'r aelodau yn dweud wedyn nad yw hi'n arferol i'r Sais ddweud dim un gair.

# LLYFRYDDIAETH

Adejunmobi, Moradewun, 'Translation and Postcolonial Identity: African Writing and European Languages', yn *Translation and Minority,* gol. Lawrence Venuti (Manceinion, St Jerome, 1998), tt. 163-181

Afolayan, Adebisi, 'Aspects of Bilingual Education in Nigeria', yn *Bilingualism, Education and Identity,* gol. Bob Morris Jones a Paul Ghuman (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995), tt. 237-252

Ahlqvist, Anders, 'Language and languages', yn *Language Minorities and Minority Languages in the Changing Europe,* gol. Synak/Wicherkiewicz (Gdansk: Wydawnictwo Uniwersytetu Gdanskiego, 1997), tt. 27-37

Aitchison, John a Harold Carter, *A Geography of the Welsh Language, 1961-1991* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994)

Aitchison, John a Harold Carter, *Language, economy and society: The changing fortunes of the Welsh language in the twentieth century* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)

Aitchison, John a Harold Carter, *Spreading the Word* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004)

Ambrose, John E. a Colin Williams, 'On the Spatial Definition of Minority: Scale as an Influence on the Geolinguistic Analysis of Welsh', yn *Minority Languages Today,* gol. Einar Haugen et al. (Caeredin: University Press, 1980), tt. 53-71

Anderson, Benedict, *Imagined Communities: Reflections on the Origin and Spread of Nationalism* (Llundain: Verso, 1991)

Andrews, David, 'Mock case a real gain for Welsh', *Daily Post,* 1 Tachwedd 2003, t. 17

Andrews, John a Lesley Henshaw, *The Welsh Language in the Courts* (Aberystwyth: Prifysgol Cymru, 1984)

Angelelli, Claudia, 'The role of the interpreter in the healthcare setting: A plea for a dialogue between research and practice', yn *Crossing Borders in Community Interpreting: Definitions and dilemmas,* gol. Carmen Valero-Garcés ac Anne Martin (Amsterdam: Benjamins, 2008), tt. 147-163

ap Huw, Alwyn, 'Problem ddwys, nid stori ysgafn', *Golwg,* 24 Ebrill 2008, t. 8

Arcand, Jean-Louis, 'Development economics and language: the earnest search for a mirage?' *International Journal of the Sociology of Language 121* (1996), tt. 119-157

Arksey, Hilary a Peter Knight, *Interviewing for Social Scientists* (Llundain: Sage, 1999)

Atkinson, David a Helen Kelly-Holmes, 'Linguistic normalisation and the market: Advertising and linguistic choice in *El Periódico de Catalunya', Language Problems and Language Planning 30 (3)* (2006), tt. 239-260

Bailey, Carol, *A Guide to field Research* (Thousand Oaks: Pine Forge Press, 1996)

Baker, Colin a Sylvia Prys Jones, *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education* (Clevedon: Multilingual Matters, 1998)

Baker, Colin, *Attitudes and Language* (Clevedon: Multilingual Matters, 1992)

Baker, Colin, *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism* (Clevedon: Multilingual Matters, 1993)

Baker, Colin, 'Psycho-Sociological Analysis in Language Policy', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method,* gol. Thomas Ricento (Rhydychen: Blackwell, 2006), tt. 210-228

Baker, Mona, *Translation and Conflict: A Narrative Account* (Llundain: Routledge, 2006)

Barrera, Heribert, 'La immigració i la llengua', *ateneu num. 61,* Mawrth 2003, tt. 2-5

Barsky, Robert, 'The Interpreter as Intercultural Agent in Convention Refugee Hearings', *The Translator 2 (1)* (Manceinion: St Jerome, 1996), tt. 45-63

Bassnett, Susan, *Constructing Cultures: Essays on Literary Translation* (Clevedon: Multilingual Matters, 1998)

Bellin, Wynford, 'Psychology and bilingual education: Intelligence tests and the influence of pedagogy', yn *Bilingualism, Education and Identity,* gol. Bob Morris Jones a Paul Ghuman (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995), tt. 159-185

Bermann, Sandra, 'Introduction', yn *Nation, Language, and the Ethics of Translation*, gol. Sandra Bermann a Michael Wood (Princeton: University Press, 2005), tt. 1-10

Beswick, Jaine, *Regional Nationalism in Spain: Language Use and Ethnic Identity in Galicia* (Clevedon: Multilingual Matters, 2007)

Billig, Michael, *Banal Nationalism* (Llundain: Sage, 1995)

Blommaert, Jan, 'Rights in Places. Comments on Linguistic Rights and Wrongs', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion: St Jerome, 2004), tt. 55-65

Blommaert, Jan, 'Writing as a problem: African grassroots writing, economies of literacy, and globalization', *Language in Society 33* (Caergrawnt: University Press, 2004), tt. 643-671

Bourdieu, Pierre, *Language and symbolic power*, cyfieithwyd gan Gino Raymond a Matthew Adamson, gol. John Thompson (Caergrawnt: Polity, 1991)

Bowen, Ivor, gol., *The Statutes of Wales* (Llundain: Fisher Unwin, 1908)

Branchadell, Albert a Margaret Lovell West, gol., *Less Translated Languages* (Amsterdam: Benjamins, 2005)

Branchadell, Albert, 'Introduction: Less translated languages as a field of inquiry', yn *Less Translated Languages,* gol. Albert Branchadell a Margaret Lovell West (Amsterdam: Benjamins, 2005), tt. 1-23

Branchadell, Albert, 'Mandatory Translation', yn *Less Translated Languages,* gol. Albert Branchadell a Margaret Lovell West (Amsterdam: Benjamins, 2005), tt. 125-135

Brisset, Annie, 'The search for a native language: translation and cultural identity', cyfieithwyd gan Rosalind Gill a Roger Gannon, yn *The Translation Studies Reader,* gol. Lawrence Venuti (Llundain: Routledge, 2004), tt. 337-368

Brooks, Simon, ' "Yr Hil": Ydy'r Canu Caeth Diweddar yn Hiliol?' yn *Llenyddiaeth mewn Theori,* gol. Owen Thomas (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 1-38

Brooks, Simon, 'Iaith Normal', *Barn*, Hydref 2001, tt. 6-9

Bush, Keith, 'Deddfu yn y Gymraeg: ail-gydio mewn hen ymgom', *The Cambrian Law Review 38* (2007), tt. 83-102

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Arolwg Defnydd Iaith 2004,* <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/4067.pdf> [30 Medi 2008]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Cyfieithu a normaleiddio defnyddio'r Gymraeg,* Pwyllgor Diwylliant 09-02 (p.1a) Mercher 1 Mai 2002. Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-first/bus-committees-first-cc-home/bus-committees-first-cc-agendas.htm?act=dis&id=9792&ds=5/2002> [25 Mai 2006]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Language Revitalization: The Role of the Welsh Language Board', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales,* gol. Colin Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 83-115

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Prosiectau cynyddu hyder yn y gweithle 2006-2007* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith, 2007)

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Datblygu'r Proffesiwn Cyfieithu Cymraeg/Saesneg* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006)

Caldwell, J.A.W. a M.J. Berthold, 'Aspects of Bilingual Education in Australia', yn *Bilingualism, Education and Identity,* gol. Bob Morris Jones a Paul Ghuman (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995), tt. 189-212

Calzada Pérez, María, 'Introduction', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion: St Jerome, 2003), tt. 1-22

Cambridge, Jan, 'Public Service Interpreting: Practice and Scope for Research', yn *Translation Research and Interpreting Research: Traditions, Gaps and Synergies*, gol. Christina Schäffner (Clevedon: Multilingual Matters, 2004), tt. 49-51

Campbell, Cefin, 'Dyfodol y Mentrau', *Barn,* Gorffennaf/Awst 2006, tt. 26-27

Campbell, Cefin, 'Menter Cwm Gwendraeth: A Case-Study in Community Language Planning', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, gol. Colin Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 247-291

Canagarajah, Suresh, 'Ethnographic Methods in Language Policy', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method,* gol. Thomas Ricento (Rhydychen: Blackwell, 2006), tt. 153-169

Canolfan Ymchwil Ewrop, Cymru, *Dangosyddion Defnydd Iaith: Adroddiad terfynol* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2007)

Carlin, Patrick, 'Camau dros hyrwyddo'r Gymraeg mewn dau awdurdod unedol yng Nghymru: Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion' (Traethawd MA, anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2004)

Cartwright, Don, 'Bicultural Conflict in the Context of the Core-Periphery Model', yn *Linguistic Minorities, Society and Territory,* gol. Colin Williams (Clevedon: Multilingual Matters, 1991), tt. 219-246

Cartwright, Don, 'Geolinguistic Analysis in Language Policy', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method,* gol. Thomas Ricento (Rhydychen: Blackwell, 2006), tt. 194-209

Clark, Rhodri, 'Cash lost in Welsh translation', *Western Mail*, 31 Gorffennaf 2004, t. 11

Cobarrubias, Juan a Joshua Fishman, *Progress in Language Planning: International Perspectives* (Berlin: de Gruyter, 1983)

Cole, Alistair et al., 'Political Institutions, Policy Preferences and Public Opinion in Wales and Brittany', *Contemporary Wales 15* (2002), tt. 89-110

Colin, Joan a Ruth Morris, *Interpreters and the Legal Process* (Winchester: Waterside Press, 1996)

*Compact Oxford English Dictionary,* Volume 2 (Llundain: Oxford University Press, 1979)

Council for the Advancement of Communication with Deaf People, *Deaf Awareness.* Taflen Rhif 6 (anghyhoeddedig)

Cronin, Michael, 'The Cracked Looking Glass of Servants: Translation and Minority Languages in a Global Age', yn *Translation and Minority,* gol. Lawrence Venuti (Manceinion, 1998), tt. 145-162

Cronin, Michael, *Translating Ireland: Transaltion, Languages, Identities* (Cork: University Press, 1996)

Cronin, Michael, *Translation and Globalization* (Llundain: Routledge, 2003)

Cronin, Michael, *Translation and Identity* (Llundain: Routledge, 2006)

Crystal, David, *Cambridge Encyclopedia of Language* (Caergrawnt: University Press, 1997)

Crystal, David, *Language Death* (Caergrawnt: University Press, 2000)

Cwmni Iaith, *Cyfieithu yn y Gymuned: Papur trafod cychwynnol* (anghyhoeddedig)

Cwmni Iaith, *Mentro Ymlaen: Adolygiad o'r Mentrau Iaith* (2000) <http://www.iaith.eu/uploads/mentro_ymlaen_2000.pdf> [5 Mehefin 2008]

Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig Cymru, *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol* (Caerdydd, heb ddyddiad)

Cynghoriaeth Dylan Bryn Roberts, *Prosiect newid agweddau tuag at y Gymraeg yn sgil cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd* (2006), ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg <http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cynnwys.php?cID=&pID=109&nID=2259&langID=1> [14 Ebrill 2008]

Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, *Cynllun Iaith Gymraeg 2004-2008*.

Cyngor Gwynedd, *Cynllun Iaith Gymraeg 2005-2009*, ar wefan y Cyngor <www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/863/Cynllun_Iaith_Diwygiedig_3.pdf> [25 Ionawr 2007]

Darnell, Regna, 'Revitalization and Retention of First Nations Languages in Southwestern Ontario', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion: St Jerome, 2004), tt. 87-102

Davies, Dilys, 'Arwyddocâd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn y Gwasanaethau Gofal Iechyd', *Siarad yr Anweledig: Diwylliant, Hunaniaeth a Seiciatreg* (Caerdydd: GIG, 2002), tt. 24-45

Davies, Gwilym Prys, 'Brwydr Olaf y Cymunedau Cymraeg', *Barn*, Mai 2001, tt. 16-18

Davies, Janet, *The Welsh Language* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1993)

Davies, Ron, 'Preface to the First Edition', yn *Scotland and Wales: Nations Again?*, gol. Bridget Taylor a Katarina Thomson (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), tt. xiii-xviii

Davies, Siwan, 'Arolwg o'r Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru' (Traethawd MScEcon., anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2003)

Day, Graham, 'A Community of Communities? Civil Society and Rural Wales', yn *Civil Society in Wales. Policy, Politics and People*, gol. Graham Day, David Dunkerley ac Andrew Thompson (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 227-248

de Saussure, Ferdinand, *Cours de linguistique générale* (Paris: Payot, 1949)

*Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, Pennod 38 (Llundain: HMSO, 1993)

Delisle, Jean a Judith Woodsworth, gol, *Translators through History* (Amsterdam: Benjamins, 1995)

Delisle, Jean, 'Introduction', yn *Interpreters as Diplomats: A Diplomatic History of the Role of Interpreters in World Politics*, gol. Ruth Roland (Ottawa: University of Ottawa Press, 1999), tt. 1-6.

Desforges, Luke a Rhys Jones, 'The Production of National Identity in Wales: Higher Education and the Welsh Language', *Contemporary Wales 13* (2000), tt. 27-45

Diaz Fouces, Oscar, gol., *Traducció i dinàmica sociolingüística* (Barcelona: Llibres de l'Index, 2002)

Diaz Fouces, Oscar, 'La planificació de la mediació lingüística', yn *Traducció i dinàmica sociolingüística*, gol. Oscar Diaz Fouces et al. (Barcelona: Llibres de l'Index, 2002), tt. 85-110

Diaz Fouces, Oscar, 'Translation policy for minority languages in the European Union: globalisation and resistance', yn *Less Translated Languages,* gol. Albert Branchadell a Margaret Lovell West (Amsterdam: Benjamins, 2005), tt. 95-104

DiGiacomo, Susan, 'Language Ideological Debates in an Olympic City: Barcelona 1992-1996', yn *Language Ideological Debates*, gol. Jan Blommaert (Berlin: Mouton de Gruyter, 1999), tt. 105-142

Dingwaney, Anuradha, Adolygiad o *Translation and Multilingualism: Post-colonial Contexts* gan Shantha Ramakrishna, yn *The Translator 4 (2)* (1998), tt. 368-372

Dollerup, Cay, 'The Language Scene in South Africa', *Language International*, Chwefror 2001, tt. 34-39

Eaglestone, Robert, 'Levinas, Translation, and Ethics', yn *Nation, Language, and the Ethics of Translation*, gol. Sandra Bermann a Michael Wood (Princeton: University Press, 2005), tt. 127-138

Eastman, Carol, 'Language, ethnic identity and change', yn *Linguistic Minorities, Policies and Pluralism,* gol. John Edwards (Llundain: Academic Press, 1984), tt. 259-276

Eaves, Steve, 'Cyfraniad Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am yr Iaith Gymraeg at Gynllunio Ieithyddol a'r Broses o Greu Cymru Newydd', *Contemporary Wales 20* (2008), tt. 82-105

Edgar, Iwan, 'Staeniau ar y Map', *Barn,* Rhagfyr 2001/Ionawr 2002, tt. 32-35

Edwards, John, 'Forlorn hope?' yn *Opportunities and Challenges of Bilingualism*, gol. Li Wei, Jean-Marc Dewaele ac Alex Housen (Berlin: Mouton de Gruyter, 2002), tt. 25-44

Edwards, John, *Multilingualism* (Llundain: Routledge, 1994)

Elfyn, Menna a John Rowlands, *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry: 20$^{th}$-century Welsh-language poetry in translation* (Tarset: Bloodaxe, 2003)

Elis, Meg, 'Darlith Goffa Hedley Gibbard', traddodwyd yng nghyfarfod Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar faes Eisteddfod Tyddewi, Awst 6ed 2002, Gwefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, <http://www.cyfieithwyrcymru.org.uk> [30 Mai 2006]

Ellis, Roger a Liz Oakley-Brown, gol., *Translation and Nation: Towards a Cultural Politics of Englishness* (Clevedon: Multilingual Matters, 2001)

Ellis, Roger, 'Figures of English Translation, 1382-1407', yn *Translation and Nation: Towards a Cultural Politics of Englishness*, gol. Roger Ellis a Liz Oakley-Brown (Clevedon: Multilingual Matters, 2001), tt. 7-47

Emig, Rainer, ' "All the Others Translate": W.H. Auden's Poetic Dislocations of Self, Nation, and Culture', yn *Translation and Nation: Towards a Cultural Politics of Englishness*, gol. Roger Ellis a Liz Oakley-Brown (Clevedon: Multilingual Matters, 2001), tt. 167-204

Espasa, Eva, 'Theatre and translation: Unequal exchanges in a supermarket of cultures', yn *Less Translated Languages,* gol. Albert Branchadell a Margaret Lovell West (Amsterdam: Benjamins, 2005), tt. 137-146

Evans, Roderick, 'Rheithgorau Dwyieithog?' *Cambrian Law Review 38* (2007), tt.145-170

Evas, Jeremy, 'Rhwystrau Ar Lwybr Dwyieithrwydd' (Traethawd doethuriaeth, anghyhoeddedig, Prifysgol Caerdydd, 1999)

Fishman, Joshua, ' "Holy languages" in the context of societal bilingualism', yn *Opportunities and Challenges of Bilingualism,* gol. Li Wei, Jean-Marc Dewaele ac Alex Housen (Berlin: Mouton de Gruyter, 2002), tt. 15-24

Fishman, Joshua, gol., *Can threatened languages be saved?* (Clevedon: Multilingual Matters, 2001)

Fishman, Joshua, *Reversing Language Shift* (Clevedon: Multilingual Matters, 1991)

Fishman, Joshua, 'Reversing Language Shift: Successes, Failures, Doubts and Dilemmas', yn *Language Loyalty, Language Planning and Language Revitalization: Recent Writings and Reflections from Joshua A. Fishman,* gol. Nancy Hornberger a Martin Pütz (Clevedon: Multilingual Matters, 2006), tt. 113-125

Fraser, Janet, 'Translation Research and Interpreting Research: Pure, Applied, Action or Pedagogic?' yn *Translation Research and Interpreting Research: Traditions, Gaps and Synergies,* gol. Christina Schäffner (Clevedon: Multilingual Matters, 2004), tt. 57-61

Freeland, Jane a Donna Patrick, gol., *Language Rights and Language Survival* (Manceinion: St Jerome, 2004).

García de Toro, Cristina, 'Translation between Spanish and Catalan today', yn *Less Translated Languages*, gol. Albert Branchadell a Margaret Lovell West (Amsterdam: Benjamins, 2005), tt. 269-287

García González, Marta, 'El paper de la traducció en la normalització de la llengua gallega', yn *Traducció i dinàmica sociolingüística,* gol. Oscar Diaz Fouces et al. (Barcelona: Llibres de l'Index, 2002), tt. 55-84

García González, Marta, 'Translation of minority languages in bilingual and multilingual communities', yn *Less Translated Languages,* gol. Albert Branchadell a Margaret Lovell West (Amsterdam: Benjamins, 2005), tt. 105-123

Garcia Porres, Yannick, 'El paper de la traducció en el procés de normalització de la llengua catalana', yn *Traducció i dinàmica sociolingüística*, gol. Oscar Diaz Fouces et al. (Barcelona: Llibres de l'Index, 2002), tt. 19-54

Gardner, Nicholas, Maite Puigdevall i Serralvo a Colin Williams, 'Language Revitalization in Comparative Context: Ireland, the Basque Country and Catalonia', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, gol. Colin Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 311-361

*Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1950-2002)

German, Gary, 'Une perspective socio-historique et sociolinguistique de la dévolution au Pays de Galles', *Europe Unie, le Royaume désuni? Enjeux politiques, constitutionnels et identitaires de la dévolution.* Actes du Colloque international Brest 4-5 Février 2000, *Triade 7* (Brest: Université de Bretagne Occidentale, 2000), tt. 231-247

Gillham, Bill, *The Research Interview* (Llundain: Continuum, 2000)

Göhring, Heinz, 'Interkulturelle Kommunikation', yn *Handbuch Translation*, gol. Mary Snell-Hornby et al. (Tübingen: Stauffenburg, 1999), tt. 112-115

*Golwg*, 'Cyfieithu'n rhy ffurfiol i goleg', 30 Mai 2001, t. 5

*Golwg*, 'Mynd â'r iaith i bobman', 25 Mawrth 1999, t. 7.

Gorter, D., 'A Frisian Update of Reversing Language Shift', yn *Can threatened languages be saved?*, gol. Joshua Fishman (Clevedon: Multilingual Matters, 2001), tt. 213-233

Grasso, Daniel Emanuele, 'Translation Serving Global Narratives: The Case of "Poverty" in Niger', yn *Translation and the Construction of Identity*, gol. Juliane House, Rosario Martín Ruano a Nicole Baumgarten (Seoul: IATIS, 2005), tt. 198-215.

Grin, François, 'Economic Considerations in Language Planning', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, gol. Thomas Ricento (Rhydychen: Blackwell, 2006), tt. 77-94

Grin, François, 'Language Policy in Multilinguagl Switzerland: Overview and Recent Developments', papur wedi ei gyflwyno i'r Cicle de Conferencies sobre política lingüística. Direcció general de política lingüística, Barcelona, 4 Rhagfyr 1998. Gwefan yr European Centre for Minority Issues <http://www.ecmi.de/download/brief_2.pdf> [14 Gorffennaf 2006]

Grin, François, 'The bilingual advertising decision', yn *Developing Minority Languages: Proceedings of the 5th International Conference on Minority Languages*, gol. Peter Wynn Thomas a Jayne Mathias (Caerdydd: Gomer, 2000), tt. 174-197

Gruffudd, Heini, 'Cyngor Ewrop yng Nghymru', *Barn 481*, Chwefror 2003, tt. 17-19

Gruffudd, Heini, 'Planning for the Use of Welsh by Young People', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, gol. Colin Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 173-207

Hale, Sandra, 'Controversies over the role of the court interpreter', yn *Crossing Borders in Community Interpreting: Definitions and dilemmas,* gol. Carmen Valero-Garcés ac Anne Martin (Amsterdam: Benjamins, 2008), tt. 99-121

Hall, Stuart, 'Introduction: Who Needs Identity?', yn *Questions of Cultural Identity*, gol. Stuart Hall a Paul du Gay (Llundain: Sage, 1996), tt. 1-17

Harvey, Keith, ' "Events" and "Horizons": Reading Ideology in the "Bindings" of Translations', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion: St Jerome, 2003), tt. 43-69

Hastings, Max, 'The no-longer-nasty party is in denial about immigration', *Guardian*, 19 Mehefin 2007, t. 32

Heller, Monica, 'Heated language in a cold climate', yn *Language Ideological Debates*, gol. Jan Blommaert (Berlin: Mouton de Gruyter, 1999), tt. 143-170

Herder, Johann Gottfried, *Abhandlung über den Ursprung der Sprache*, gol. Wolfgang Proß (München: Hanser, 1978)

Hermans, Theo, *Translation in Systems: Descriptive and System-oriented Approaches Explained* (Manceinion: St Jerome, 1999)

Hill, Tecwyn, 'Dwyieithog neu dim', *Yr Herald,* 7 Awst 2004, t. 11

Hindley, Reg, *The Death of the Irish Language: A qualified obituary* (Llundain: Routledge, 1990)

Hönig, Hans, *Konstruktives Übersetzen* (Tübingen: Stauffenburg, 1995).

House, Juliane, Rosario Martín Ruano a Nicole Baumgarten, gol., *Translation and the Construction of Identity* (Seoul: IATIS, 2005)

House, Juliane, Rosario Martín Ruano a Nicole Baumgarten, 'Introduction', yn *Translation and the Construction of Identity*, gol. Juliane House, Rosario Martín Ruano a Nicole Baumgarten (Seoul: IATIS, 2005), tt. 3-13

Hughes, Dewi, 'Yr iaith yn rhy gostus', *Yr Herald,* 12 Awst 2000, t. 3

Hughes, Hywel, Gwasanaeth Llysoedd Cymru, Llythyr personol at Judith Kaufmann, 12 Mehefin 2006

Hung, Eva, *Translation and Cultural Change* (Amsterdam: Benjamins, 2005)

Huws, Catrin Fflur, 'Iaith y nefoedd ac iaith y llysoedd', *Cambrian Law Review 38* (2007), tt. 117-144

Huws, Meri, 'Her y mewnlifiad', *Barn,* Mai 2007, tt. 26-27

Inghilleri, Moira, 'Aligning Macro- and Micro-Dimensions in Interpreting Research', yn *Translation Research and Interpreting Research: Traditions, Gaps and Synergies,* gol. Christina Schäffner (Clevedon: Multilingual Matters, 2004), tt. 71-76

Ioan, Gareth, 'Celfyddyd ddeinamig – cymuned fyw', yn *Arian Byw: Ymateb positif i argyfwng cymunedau Cymraeg cefn gwlad* (Y Ffwrwm, 2004), tt. 6-14

Jaffe, Alexandra, 'Language Rights and Wrongs: A commentary', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion: St Jerome, 2004), tt. 273-282

Jaffe, Alexandra, 'Locating Power: Corsican Translators and their Critics', yn *Language Ideological Debates,* gol. Jan Blommaert (Berlin: Mouton de Gruyter, 1999), tt. 39-66

Jaffe, Alexandra, 'State Language Ideology and the Shifting Nature of Minority Language Planning on Corsica', yn *Language, Ethnicity and the State. Volume I: Minority Languages in the European Union,* gol. Camille O'Reilly (New York: Palgrave, 2001), tt. 40-55

Jessen, Jens, 'Die verkaufte Sprache', *Die Zeit*, 26 Gorffennaf 2007, t. 41

Jobbins, Siôn, 'The legacy of The Treachery of the Blue Books lives on', *Cambria 7(6)* (2006), tt. 48-49

Jones, Aran, 'Ble mae'r Fro?' *Golwg*, 11 Tachwedd 2004, t. 26

Jones, Berwyn Prys, 'Hanes cyfieithu yng Nghymru', Papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd 'Cerrig Milltir' y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth, 30 Mehefin 2005, <http://www.cyfieithwyrcymru.org.uk/cymraeg/adnodd/darlithoedd.asp> [30 Mai 2006]

Jones, Berwyn Prys, 'Translation in Wales', anerchiad i gynhadledd yr Institute of Translating and Interpreting (ITI) yng Nghaerdydd, 24 Medi 2005, <http://www.cyfieithwyrcymru.org.uk/cymraeg/adnodd/darlithoedd.asp> [30 Mai 2006]

Jones, Bill, 'Banqueting at a moveable feast: Wales 1870-1914', yn *The people of Wales,* gol. Gareth E. Jones a Dai Smith (Llandysul: Gomer, 1999), tt. 145-178

Jones, David Llewelyn, 'Croesffordd cymuned – i ba gyfeiriad?' yn *Bywyd Cymdeithasol Cymru: Trafodion Economaidd a Chymdeithasol Urdd y Graddedigion, Prifysgol Cymru 1997-2000,* gol. Delyth Morris a Huw Glyn Williams (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2001), tt. 95-120

Jones, Elin Haf Gruffydd, 'Bilingualism in the Assembly', *Planet 131* (1998), tt. 77-81

Jones, F.M., Llythyr i *Cambria 7 (4)* (2006), t. 8

Jones, Gareth Elwyn, *The Education of a Nation* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997)

Jones, Gwynfor, 'Yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol: Ustusiaid Heddwch a'r Lysoedd Chwarter c.1536-1800', yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr iaith Gymraeg cyn y chwyldro diwydiannol,* gol. Geraint Jenkins (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), tt. 181-205

Jones, Hywel a Colin Williams, 'The Statistical Basis for Welsh Language Planning: Data Trends, Patterns, Processes', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales,* gol. Colin Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 48-82

Jones, Hywel, 'Tafodau Rhugl', *Barn,* Mehefin 2006, tt. 21-24

Jones, John, *Cerddi Jac Glan-y-Gors,* gol. E.G. Millward (Abertawe?: Cyhoeddiadau Barddas, 2003)

Jones, Mari, *Language Obsolescence and Revitalization* (Rhydychen: Clarendon Press, 1998)

Jones, Mark Ellis, ' "Dryswch Babel"? Yr Iaith Gymraeg, Llysoedd Barn a Deddfwriaeth yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', yn *'Gwnewch bopeth yn Gymraeg': Y Gymraeg a'i pheuoedd 1801-1911*, gol. Geraint Jenkins (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), tt. 551-580

Jones, Richard Wyn a Dafydd Trystan, 'The 1997 Welsh referendum vote', yn *Scotland and Wales: Nations Again?,* gol. Bridget Taylor a Katarina Thomson (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), tt. 65-93

Jones, Richard Wyn, 'Y Dweud a'r Gwneud', *Barn,* Mawrth 2002, tt. 10-11

Jones, W.R., *Addysg Ddwyieithog yng Nghymru* (Caernarfon: Llyfrau'r Methodistiaid Calfinaidd, 1963)

Joseph, John, *Language and Identity: National, Ethnic, Religious* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2004)

Kaplan, Robert a Richard Baldauf, *Language Planning: From practice to theory* (Clevedon: Multilingual Matters, 1997)

Kaufmann, Judith, 'The Importance of Translation for the Strengthening of Bilingualism in Wales' (Diplomarbeit, anghyhoeddedig, Universität Leipzig, 2001)

Keats, Daphne, *Interviewing: A practical guide for students and professionals* (Buckingham: Open University Press, 2000)

Knellwolf, Christa, 'Women Translators, Gender and the Cultural context of the Scientific Revolution', yn *Translation and Nation: Towards a Cultural Politics of Englishness*, gol. Roger Ellis a Liz Oakley-Brown (Clevedon: Multilingual Matters, 2001), tt. 85-119

Kramer, Katarina, 'Das lautlose Sterben vieler kleiner Universen', *Süddeutsche Zeitung*, 23/24 Chwefror 2002, t. VI

Laakso, Ville a Jan-Ola Östman, 'Minority, but Non-Confrontational: Balancing on the Double-Edged Sword of Hegemony and Ambivalence', yn *Language Rights and Language Survival,* gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion: St Jerome, 2004), tt. 67-85

Lee, Raymond, *Doing Research on Sensitive Topics* (Llundain: Sage, 1993)

Lewis, Euros, 'Straight line thinking', *Agenda*, Haf 2008, tt. 68-69

Lewis, Gwion, *Hawl i'r Gymraeg* (Talybont: Y Lolfa, 2008)

Léwis, Robyn, *Cyfiawnder dwyieithog? Bilingual Justice?* (Llandysul: Gomer, 1998)

Léwis, Robyn, 'Y troswr a'r trosi: (- ond pam trosi?). Rhan 1', *Taliesin 126* (2006), tt. 62-76

Léwis, Robyn, 'Y troswr a'r trosi: (- ond pam trosi?). Rhan 2', *Taliesin 127* (2006), tt. 107-120

*Llais Ogwan*, Rhif 368, Mai 2007

Llwyd, Iwan, 'mudandod ofnus', *Taliesin 131* (2007), tt. 13-14

Llŷr, Dylan, ' "No Cymraeg, we're all Welsh now" ', *Barn*, Mai 2007, t. 21

Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*, <http://new.wales.gov.uk/strategy/strategies/onewales/onewalesw.pdf?lang=cy> [17 Ebrill 2008]

Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002)

Löffler, Marion, 'Mudiad yr Iaith Gymraeg a Dwyieithrwydd: Beth All Cymdeithasau Lleol ei Gyflawni?' yn '*Eu Hiaith a Gadwant?' Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, gol. Geraint Jenkins a Mari Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 473-506

Löffler, Marion, 'Mudiad yr Iaith Gymraeg yn Hanner Cyntaf yr Ugeinfed Ganrif: Cyfraniad y Chwyldroadau Tawel', yn '*Eu Hiaith a Gadwant?' Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, gol. Geraint Jenkins a Mari Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 173-206

López Heredia, Goretti, 'African literature in colonial languages: Challenges posed by "minor literatures" for the theory and practice of translation', yn *Less Translated Languages*, gol. Albert Branchadell a Margaret Lovell West (Amsterdam: Benjamins, 2005), tt. 165-176

Luna Alonso, Ana, 'Servizos de Normalización Lingüística e ferramentas de apoio á tradución cara á lingua galega', yn *Estudios sobre traducción: teoría, didáctica, profesión* gol. José Yuste Frías ac Alberto Álvarez Lugrís (Vigo: Universidade de Vigo, 2005), tt. 173-196

Mäder, Werner, 'Sprache und Recht: Minderheitenschutzrecht in Deutschland', *JuS (Juristische Schulung) 12* (2000), tt. 1150-1153

Mann, Robin, 'Between Consent and Coercion: Civil Society, Bilingualism and the Welsh Language', yn *Civil Society in Wales: Policy, Politics and People*, gol. Graham Day, David Dunkerley ac Andrew Thompson (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 251-268

Markey, T.L., 'When Minor is Minor and Major is Major: Language Expansion, Contraction and Death', yn *Third International Conference on Minority Languages: General Papers*, gol. Gearóid MacEoin, Anders Ahlqvist a Donncha Ó hAodha (Clevedon: Multilingual Matters, 1987), tt. 3-22

Martin, Anne a Carmen Valero-Garcés, gol., *Crossing Borders in Community Interpreting* (Amsterdam: Benjamins, 2008)

Mason, Ian, gol., *Dialogue Interpreting* (Manceinion: St Jerome, 1999)

Mason, Ian, 'Projected and Perceived Identities in Dialogue Interpreting', yn *Translation and the Construction of Identity*, gol. Juliane House, Rosario Martín Ruano a Nicole Baumgarten (Seoul: IATIS, 2005), tt. 30-52

Matsuura, Koïchiro, 'Message from the Director-General of UNESCO to the Inaugural Conference of IATIS', yn *Translation and the Construction of Identity*, gol. Juliane House, Rosario Martín Ruano a Nicole Baumgarten (Seoul: IATIS, 2005), tt. 1-2

Maurais, Jacques, 'Regional majority languages', *International Journal for the Sociology of Languages 127* (1997), tt. 135-160

May, Stephen, *Language and Minority Rights* (Harlow: Longman, 2001)

May, Stephen, 'Language Policy and Minority Rights', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, gol. Thomas Ricento (Rhydychen: Blackwell, 2006), tt. 255-272

May, Stephen, 'Rethinking Linguistic Human Rights: Answering Questions of Identity, Essentialism and Mobility', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion: St Jerome, 2004), tt. 35-53

McLeod, John, 'Ôl-Wladychaeth a diwylliannau lleiafrifol', yn *Arian Byw: Ymateb positif i argyfwng cymunedau Cymraeg cefn gwlad* (Y Ffwrwm, 2004), tt. 54-61

Menter a Busnes, *Arolwg o'r Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru* (Aberystwyth: Menter a Busnes, 2005)

Menter Iaith Môn a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, *O Glust i Glust: Canllawiau ar ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd* (Llangefni: Menter Môn, heb ddyddiad)

Mezei, Kathy, 'Bilingualism and Translation in/of Michele Lalonde's "Speak White" ', yn *Translation and Minority*, gol. Lawrence Venuti (Manceinion: St Jerome, 1998), tt. 229-247

Morris, Delyth a Kathryn Jones, 'Yn gymysg oll i gyd', *Barn*, Hydref 2006, tt. 24-26

Morris, Delyth, 'Yr Iaith Gymraeg a Chynllunio Awdurdodau Lleol yng Ngwynedd 1974-1995', yn '*Eu Hiaith a Gadwant?' Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, gol. Geraint Jenkins a Mari Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 557-579

Mueller Gathercole, Virginia ac Enlli Thomas, gol., *Trosglwyddo Iaith Mewn Teuluoedd Dwyieithog yng Nghymru* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2007)

Munday, Jeremy, *Introducing Translation Studies: Theories and Applications* (Llundain: Routledge, 2001)

Naudé, Jacobus, 'The Afrikaans Bible Translations and the Formation of Cultural, Political and Religious Identities in South Africa', yn *Translation and the Construction of Identity*, gol. Juliane House et al. (Seoul: IATIS, 2005), tt. 167-179

*Neue Zürcher Zeitung*, 'Stärkung des Minderheitenschutzes in Europa', 25 Ionawr 2001, t. 5

Ní Ghearáin, Helena, 'Yr Iaith Wyddeleg a'r Gyfraith: rhai materion o ran statws a chorpws', *Cambrian Law Review 38* (2007), tt. 1-38

Niranjana, Tejaswini, *Siting Translation: History, Poststructuralism, and the Colonial Context* (Berkeley: University of California Press, 1992)

Nord, Christiane, *Einführung in das funktionale Übersetzen* (Tübingen: Francke, 1993)

Ó Néill, Diarmuid, *Rebuilding the Celtic Languages* (Talybont: Y Lolfa, 2005)

Oakley-Brown, Liz, 'Translating the Subject: Ovid's *Metamorphoses* in England, 1560-7', yn *Translation and Nation: Towards a Cultural Politics of Englishness*, gol. Roger Ellis a Liz Oakley-Brown (Clevedon: Multilingual Matters, 2001), tt. 48-84

O'Connell, Eithne, *Minority Language Dubbing for Children: Screen Translation from German to Irish* (Bern: Peter Lang, 2003)

Osmond, John, 'In Search of Stability', yn *The State of the Nations 2001: The Second Year of Devolution in the United Kingdom*, gol. Alan Trench (Thorverton: Imprint Academic, 2001), tt. 13-44

Osmond, John, 'Two tongues', *Agenda*, Gaeaf 2002/2003, tt. 2-6

Owen, Llwyd, *Ffydd, gobaith, cariad* (Talybont: Y Lolfa, 2006)

Parri, Robyn, 'Ni'r Bobl Gymraeg ein hiaith', *Barn*, Medi 2006, tt. 18-19

Paterson, Lindsay a Richard Wyn Jones, 'Does civil society drive constitutional change?' yn *Scotland and Wales: Nations Again?*, gol. Bridget Taylor a Katarina Thomson (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), tt. 169-197

Pavlenko, Aneta ac Adrian Blackledge, gol., *Negotiation of Identities in Multilingual Contexts* (Clevedon: Multilingual Matters, 2004)

Peres, J.Henrique, 'Traducció, societat i qualitat', yn *Traducció i dinàmica sociolingüística*, gol. Oscar Diaz Fouces et al. (Barcelona: Llibres de l'Index, 2002), tt. 177-202

Phillips, Dylan, 'Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962-1998', yn '*Eu Hiaith a Gadwant?' Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, gol. Geraint Jenkins a Mari Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 445-472

Phillips, Dylan, 'Pa ddiben protestio bellach?' *Cyfres y Cynulliad 1* (Talybont: Y Lolfa, 1998)

Phillipson, Robert, *Linguistic Imperialism* (Rhydychen: Oxford University Press, 1992)

Pieras-Guasp, Felipe, 'Direct vs. indirect attitude measurement and the planning of Catalan in Mallorca', *Language Problems and Language Planning 26 (1)* (2002), tt. 51-68

Powell, Dewi Watkin, 'Y llysoedd, yr awdurdodau a'r Gymraeg: Y Ddeddf Uno a Deddf yr Iaith Gymraeg', yn *Lawyers and Laymen*, gol. T.M. Charles-Edwards, M.E. Owen a D.B. Walters (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986), tt. 287-315

Poyatos, Fernando, 'Aspects, problems and challenges of nonverbal communication', yn *Nonverbal Communication and Translation*, gol. Fernando Poyatos (Amsterdam: Benjamins, 1997), tt. 17-47

Price, Angharad a Sioned Puw Rowlands, gol., *2ieithrwydd/cyfieithu* (=*Tu chwith*, Gaeaf 1997)

Price, Angharad, 'Cyfoeth Cyfieithu', *Taliesin*, Gaeaf 1997, tt. 11-39

Price, Angharad, 'Translating from Welsh into English', *The European English Messenger*, XI/2 (2002), tt. 46-47

Price, Glanville, 'Yr Ieithoedd Celtaidd Eraill yn yr Ugeinfed Ganrif', yn '*Eu Hiaith a Gadwant?' Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, gol. Geraint Jenkins a Mari Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 581-606

Pritchard, Marian, IDB, Ebost personol at Judith Kaufmann, 3 Mawrth 2008

Prysor, Dewi, *Brithyll* (Talybont: Y Lolfa, 2006)

Prysor, Dewi, *Madarch* (Talybont: Y Lolfa, 2007)

Pwyllgor Diwylliant CC-7-01(p.2)(min) Mercher 2 Mai 2001, Gwefan y Cynulliad: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-first/bus-committees-first-cc-home/bus-committees-first-cc-agendas.htm?act=dis&id=9657&ds=5/2001> [5 Mehefin 2008]

Pwyllgor Diwylliant CC-9-02 (p.1-2) Mercher 1 Mai 2002, Gwefan y Cynulliad: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-first/bus-committees-first-cc-home/bus-committees-first-cc-agendas.htm?act=dis&id=10063&ds=5/2002> [5 Mehefin 2008]

Rees, Alwyn D., 'The Judges and the Language', *Planet 12* (1972), tt. 27-32

Rees, Ioan Bowen, 'The Welsh Language and the Courts', *Planet 12* (1972), tt. 20-26

Reiss, Katharina a Hans J. Vermeer, *Grundlegung einer allgemeinen Translationstheorie* (Tübingen: Niemeyer, 1984)

Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf, *Cymunedau yn Siarad – Cymunedau yn Gyntaf a'r Iaith Gymraeg* (2004)

Rhys, Garmon, 'Dim Cymraeg i'r Llywydd?' *Golwg*, 10 Awst 2000, tt. 8-9.

Ricento, Thomas, gol., *An Introduction to Language Policy: Theory and Method* (Oxford: Blackwell, 2006)

Ridge, Stanley, 'Creative Mediation in a Multilingual, Multicultural South Africa: Possibilities and Constraints', yn *Translation and the Construction of Identity*, gol Juliane House, Rosario Martín Ruano a Nicole Baumgarten (Seoul: IATIS, 2005), tt. 53-67

Roberts, Enid Pierce, 'The Welsh Church, Canon Law and the Welsh Language', yn *Essays in Canon Law*, gol. Norman Doe (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992), tt. 151-173

Robinson, Douglas, *Translation and Empire* (Manceinion: St Jerome, 1997)

Roland, Ruth, *Interpreters as Diplomats: A Diplomatic History of the Role of Interpreters in World Politics* (Ottawa: University of Ottawa Press, 1999)

Ross, Andreas, 'Europas Einheit in babylonischer Vielfalt', *Frankfurter Allgemeine Zeitung*, 14 Mawrth 2001, t. 11

Salama-Carr, Myriam, gol., *Translating and Interpreting Conflict* (Amsterdam: Rodopi, 2007).

Sales Salvador, Dora, 'Translational passages: Indian fiction in English as transcreation?' yn *Less Translated Languages*, gol. Albert Branchadell a Margaret Lovell West (Amsterdam: Benjamins, 2005), tt. 189-206

Schaarschmidt, Gunter, 'The encyclopaedic nature of major bilingual dictionaries for minority languages: two German-Sorbian dictionaries', yn *Developing Minority Languages: Proceedings of the 5th International Conference on Minority Languages*, gol. Peter Wynn Thomas a Jayne Mathias (Llandysul: Gomer, 2000), tt. 232-239

Schäffner, Christina, 'Third Ways and New Centres: Ideological Unity or Difference?', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion: St Jerome, 2003), tt. 23-41

Schleiermacher, Friedrich, *On the Different Methods of Translating*, cyfieithwyd o'r Almaeneg gan Susan Bernofsky, yn *The Translation Studies Reader*, gol. Lawrence Venuti (Llundain: Routledge, 2004), tt. 43-63

Schmidt, Ronald, 'Political Theory and Language Policy', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, gol. Thomas Ricento (Rhydychen: Blackwell, 2006), tt. 95-110

*Siartr Ewrop ar Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol*, ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg, <http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cynnwys.php?cID=&pID=109&nID=77&langID=1> [1 Ebrill 2008]

Simeoni, Daniel, 'Between sociology and history: Method in context and in practice', yn *Constructing a Sociology of Translation*, gol. Michaela Wolf ac Alexandra Fukari (Amsterdam: Benjamins, 2007), tt. 187-204

Skutnabb-Kangas, Tove, 'Language Policy and Linguistic Human Rights', yn *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, gol. Thomas Ricento (Rhydychen: Blackwell, 2006), tt. 273-291

Snell-Hornby, Hans Hönig, Paul Kußmaul a Peter Schmitt, gol., *Handbuch Translation* (Tübingen: Stauffenburg, 1999)

Snell-Hornby, Mary, *The Turns of Translation Studies* (Amsterdam: Benjamins, 2006)

Sommer, Barbara a Robert Sommer, *A Practical Guide to Behavioral Research* (New York: Oxford University Press, 1991)

Sosonis, Vilelmini, 'Multilingualism in Europe: Blessing or curse?' yn *Less Translated Languages*, gol. Albert Branchadell a Margaret Lovell West (Amsterdam: Benjamins, 2005), tt. 39-48

Spindley, Ian, 'Welsh for everyone, says chief', *Caernarfon and Denbighshire Herald*, 19 Ebrill 2007, t. 25

Spivak, Gayatri Chakravorty, 'The politics of translation', yn *The Translation Studies Reader* gol. Lawrence Venuti (Llundain: Routledge, 2004), tt. 369-388

Stanley, Iwan, 'Dilyn tynged y Wyddeleg: Yr Iaith yn y Cynulliad', *Barn,* Mehefin 2000, tt. 25-28

Steiner, George, *After Babel* (Rhydychen: University Press, 1998 [3rd edition])

Stroud, Christopher and Kathleen Heugh, 'Language Rights and Linguistic Citizenship', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion: St Jerome, 2004), tt. 191-218

*Süddeutsche Zeitung*, 'Für einen Kontinent der Übersetzungen: Ein gemeinsamer Aufruf europäischer Intellektueller', 19 Tachwedd 2008, t. 11

Suggett, Richard, 'Yr Iaith Gymraeg a Llys y Sesiwn Fawr', yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr iaith Gymraeg cyn y chwyldro diwydiannol*, gol. Geraint Jenkins (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), tt. 151-179

Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, *Defnyddio Rheithgorau Dwyieithog (Saesneg a Chymraeg) Mewn Rhai Treialon Troseddol yng Nghymru: Papur Ymgynghori* (2005)

Tahir-Gürçağlar, Şehnaz, 'The Translation Bureau Revisited: Translation as Symbol', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion: St Jerome, 2003), tt. 113-129

Terricabras, Josep Maria, 'Els ciutadans i la nació', Conferència d'inauguració del curs 2002-2003. Barcelona, 4 de desembre del 2002. *ateneu num. 61*, Mawrth 2003, tt. I-IX

Tewdwr-Jones, Mark, Nick Gallent ac Alan Mace, 'Housing Pressures in Rural Wales', *Agenda,* Gaeaf 2002/2003, tt. 54-57

Thomas, Peter Wynn a Jayne Mathias, gol., *Developing Minority Languages: The Proceedings of the 5th International Conference on Minority Languages* (Llandysul: Gomer, 2000)

Thomas, Peter Wynn, 'Cymraeg Swnllyd', *Taliesin* 102 (1998), tt. 39-65

Thomas, Roy, *Datganiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol.* Pwyllgor Diwylliant CC-3-02(p.4) 23 Ionawr 2002. Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-first/bus-committees-first-cc-home/bus-committees-first-cc-agendas.htm?act=dis&id=9750&ds=1/2002> [5 Mehefin 2008]

Thomas, Roy, 'Economeg a chyfieithu', *Barn,* Tachwedd 2000, tt. 21-22

Thornberry, Patrick, 'Contemporary Legal Standards on Minority Rights', *World Directory of Minorities* (Llundain: Minority Rights Group International, 1997), tt. 692-705

Toury, Gideon, *Descriptive Translation Studies and beyond* (Amsterdam: Benjamins, 1995)

Trask, Robert L., *Key Concepts in Language and Linguistics* (Llundain: Routledge, 1999)

Tymoczko, Maria, 'Ideology and the Position of the Translator: In What Sense is a Translator "In Between"?', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion: St Jerome, 2003), tt. 181-201

Tymozcko, Maria, *Translation in a Postcolonial Context* (Manceinion: St Jerome, 1999)

Urla, Jacqueline, 'Outlaw Language: Creating alternative public spheres in Basque free radio', yn *Languages and Publics: The Making of Authority,* gol. Susan Gal a Kathryn Woolard (Manceinion: St Jerome, 2001), tt. 141-163

Valero-Garcés, Carmen ac Anne Martin, gol., *Crossing Borders in Community Interpreting: Definitions and dilemmas* (Amsterdam: Benjamins, 2008).

Venuti, Lawrence, gol., *The Translation Studies Reader* (Llundain: Routledge, 2004)

Venuti, Lawrence, gol., *Translation and Minority* (Manceinion: St Jerome, 1998)

Venuti, Lawrence, 'Local Contingencies: Translation and National Identities', yn *Nation, Language, and the Ethics of Translation*, gol. Sandra Bermann a Michael Wood (Princeton: University Press, 2005), tt. 177-202

Vermeer, Hans, *Skizzen zu einer Geschichte der Translation* (Frankfurt am Main: Verlag für Interkulturelle Kommunikation, 1992)

Vidal Claramonte, Carmen África, '(Mis)Translating Degree Zero: Ideology and Conceptual Art', yn *Apropos of Ideology: Translation Studies on Ideology – Ideologies in Translation Studies*, gol. María Calzada Pérez (Manceinion: St Jerome, 2003), tt. 71-87

Visson, Lynn, 'Simultaneous Interpreting: Language and Cultural Difference', yn *Nation, Language, and the Ethics of Translation*, gol. Sandra Bermann a Michael Wood (Princeton: University Press, 2005), tt. 51-64

Wadensjö, Cecilia, *Interpreting as Interaction* (Llundain: Addison Wesley Longman, 1998)

Watt, Nicholas, 'Lost in translation: £17m of taxpayers' money for EU interpreters who are not needed', *Guardian,* 31 Awst 2006, t. 19

Wei, Li, Jean-Marc Dewaele ac Alex Housen, gol., *Opportunities and Challenges of Bilingualism* (Berlin: Mouton de Gruyter, 2002)

*Welsh Mirror,* 'Voice of hate – "Racist" Plaid councillor's attack on the English', 18 Ionawr 2001, tt. 1-2

*Western Mail*, 'Kick away translation crutch for ethnics, says Kelly', 11 Mehefin 2007, t. 9

Wiley, Terrence G., 'The Lessons of Historical Investigation: Implications for the Study of Language Policy and Planning' yn *An Introduction to Language*

*Policy: Theory and Method*, gol. Thomas Ricento (Rhydychen: Blackwell, 2006), tt. 135-152

Williams, Cen, *Cymraeg Clir: Canllawiau Iaith* (Bangor: Prifysgol Cymru, 1999)

Williams, Charlotte, 'The Dilemmas of Civil Society: Black and Ethnic Minority Associations in Wales', yn *Civil Society in Wales: Policy, Politics and People*, gol. Graham Day, David Dunkerley ac Andrew Thompson (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 184-205

Williams, Colin a Jeremy Evas, *Y Cynllun Ymchwil Cymunedol* (Caerdydd: Prifysgol Cymru, 1997)

Williams, Colin, 'Adfer yr Iaith', yn *'Eu Hiaith a gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, gol. Geraint Jenkins a Mari Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 641-665

Williams, Colin, 'Conclusion: Sound Language Planning is Holistic in Nature', yn *Linguistic Minorities, Society and Territory*, gol. Colin Williams (Clevedon: Multilingual Matters, 1991), tt. 315-322

Williams, Colin, gol., *Linguistic Minorities, Society and Territory* (Clevedon: Multilingual Matters, 1991)

Williams, Colin, '*Iaith Pawb:* The Doctrine of Plenary Inclusion', *Contemporary Wales 17* (2004), tt. 1-27

Williams, Colin, 'Language Planning and Minority Language Group Rights', *Cambria: A Welsh Geographical Review 9 (1)* (1982), tt. 61-74

Williams, Colin, *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)

Williams, Colin, 'More than tongue can tell: linguistic factors in ethnic separatism', yn *Linguistic Minorities, Policies and Pluralism*, gol. John Edwards (Llundain: Academic Press, 1984), tt. 179-219

Williams, Colin, 'On Recognition, Resolution and Revitalization', yn *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, gol. Colin Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 1-47

Williams, Colin, 'Questions Concerning the Development of Bilingual Wales', yn *Bilingualism, Education and Identity*, gol. Bob Morris a Paul Ghuman (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995), tt. 47-78

Williams, Colin, 'The case of Welsh/Cymraeg in Wales', yn *Rebuilding the Celtic Languages*, gol. Diarmuid Ó Néill (Talybont: Y Lolfa, 2005), tt. 35-114

Williams, Glyn a Delyth Morris, *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)

Williams, Glyn, *Sociolinguistics: A Sociological Critique* (Llundain: Routledge, 1992)

Williams, Jac L., 'Comments on articles by Mr D.G.Lewis and Mr W.R.Jones', *British Journal of Educational Psychology 30* (1960), t. 271

Williams, Jenny ac Andrew Chesterman, *The Map: A Beguinner's Guide to Doing Research in Translation Studies* (Manceinion: St Jerome, 2002)

Williams, Raymond, *Who Speaks For Wales? Nation, Culture, Identity*, gol. Daniel Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003)

Williamson, David, 'happy 10th birthday to us', *Western Mail Magazine*, 15 Medi 2007, tt. 12-14

Wolf, Michaela ac Alexandra Fukari, gol., *Constructing a Sociology of Translation* (Amsterdam: Benjamins, 2007).

Wolf, Michaela, 'Introduction: The emergence of a sociology of translation', yn *Constructing a Sociology of Translation*, gol. Michaela Wolf ac Alexandra Fukari (Amsterdam: Benjamins, 2007), tt. 1-36.

Woodsworth, Judith, 'Translation and the Promotion of National Identity.' *Target 8 (2)* (1996), tt. 211-238

Woodward, Will, 'Translation can discourage integration, says Kelly', *Guardian*, 11 Mehefin 2007, t. 10

Wörnle, Kirsten, 'Im Babel der Neuzeit', *GEO Wissen 40* (2007), tt. 136-145.

Wright, Sue, 'Language Rights, Democracy and the European Union', yn *Language Rights and Language Survival*, gol. Jane Freeland a Donna Patrick (Manceinion: St Jerome, 2004), tt. 219-242

*Y Cymro*, 'Caerdydd yn lladd y fro Gymraeg', 2 Chwefror 2002, t. 5.

*Y Cymro*, 'Hiliaeth y Cymry', 23 Awst 2003, t. 4.

*Y maes: Cylchlythyr i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion 11*, Haf 2008

## Gwefannau

Asesiad Cymunedau'n Gyntaf, Walking the Talk: <http://oxfamgb.org/ukpp/resources/downloads/walk_talk.pdf> [8 Mehefin 2007]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Map o gymunedau lle roedd 70+ yn siarad Cymraeg ym 1991: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/4063.jpg> [14 Chwefror 2009]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Map o gymunedau lle roedd 70+ yn siarad Cymraeg yn 2001: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/4061.jpg> [14 Chwefror 2009]

Casgliad o arwyddion Cymraeg gwallus: <http://www.flickr.com/groups/scymraeg/pool/> [30 Awst 2008]

Comisiwn Ewropeaidd: <http://ec.europa.eu/education/policies/lang/languages/langmin/regmin_en.html> [19 Ionawr 2007]

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (llogi offer cyfieithu): <http://www.cyfieithwyrcymru.org.uk/cymraeg/adnodd/cap/cap_cyflwyniad.asp> [25 Mai 2007]

ELAN: Effects on the European Economy of Shortages of Foreign Language Skills in Enterprise: <http://ec.europa.eu/education/policies/lang/doc/elan_final_report_en.pdf> [11 Awst 2008]

IDB (Industrial Development Bangor), cynhyrchydd offer cyfieithu symudol: <http://www.idb.wales.com/index.htm> [[9 Mawrth 2007]

Israel Ministry of Immigrant Absorption: <http://www.moia.gov.il/Moia_en/HomePage.htm> [19 Mehefin 2008]

Siartr Ewrop ar Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol, ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg: <http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cynnwys.php?cID=&pID=109&nID=77&langID=1> [1 Ebrill 2008]

Stori Radio Blaenau, ar wefan BBC News: <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/north_west/6525577.stm> [16 Gorffennaf 2008]

TermCymru, cronfa ddata derminoleg Cynulliad Cenedlaethol Cymru: <http://www.termcymru.cymru.gov.uk> [16 Ebrill 2007]

Twf <www.twfcymru.com> [14 Ebrill 2008]

Welsh-Termau-Cymraeg, grŵp trafod termau Cymraeg: <http://www.jiscmail.ac.uk/lists/welsh-termau-cymraeg.html> [16 Ebrill 2007]

Cefndir i'r iaith Pitmatic, ar wefan y BBC: <http://www.bbc.co.uk/radio4/routesofenglish/storysofar/programme3_1.shtml> [12 Hydref 2007]

## Darlledu

BBC One Wales, *News at 10*, 12 Rhagfyr 2006
BBC Radio 4, Rhaglen newyddion *Today*, 12 Chwefror 2007
BBC Radio 4, Rhaglen newyddion *Today*, 2 Awst 2007